

**Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Feirniadol am yr
laith Gymraeg, a'i Gyfraniad at Gynllunio
leithyddol Cynhwysol yng Nghymru**

Traethawd a gyflwynir ar gyfer gradd PhD

2015

**Steve Eaves
Ysgol y Gymraeg
Prifysgol Caerdydd**

Crynodeb

Ymdrinia'r traethawd hwn â dwy wedd ar gynllunio ieithyddol i adfywio'r Gymraeg yng Nghymru heddiw, a'r berthynas rhyngddynt. Y wedd gyntaf yw Hyfforddiant Ymwybyddiaeth am y Gymraeg i staff sefydliadau cyhoeddus wedi Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, ac yn neilltuol, esblygiad ffurf feirniadol arno. Y wedd arall yw'r model cynllunio ieithyddol cynhwysol a arddelir gan Lywodraeth Cymru ers 2003, model a bennai i'r gymdeithas sifil rôl bartneriaethol allweddol yn y prosiect adfywio ieithyddol.

Olrheinir yn gyntaf ddatblygiad y mudiad ymwybyddiaeth iaith ym maes addysgeg dysgu iaith yn Lloegr yn negawdau olaf yr 20fed ganrif, ac esblygiad ei bersbectifau beirniadol. Olrheinir wedyn ddatblygiad Hyfforddiant Ymwybyddiaeth iaith yng Nghymru, nid ym maes addysgeg iaith, ond fel ymyriad eilaidd gan gyrff is-lywodraethol i esbonio i'w staff y gofynion statudol newydd iddynt drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Gofynnai hyn am gryn newid arferion, wedi tros 450 mlynedd o eithrio'r Gymraeg o beuoedd swyddogol. Esblygodd cyfeiriadedd beirniadol ar yr hyfforddiant i gyflwyno'r cyd-destun ehangach i hyfforddeion, sef ffurf a amlyga natur ideolegol polisïau ieithyddol. Ar sail tystiolaeth wreiddiol ac eilaidd, gan gynnwys arolwg ansoddol a meintiol o hyfforddeion, dadleuir ei fod yn borth mynediad pwysig i ddinasyddion i wybodaeth a disgwrs prin am y Gymraeg.

O droi at fodel cynllunio ieithyddol y Llywodraeth, olrheinir rhethreg gynhwysol testunau polisi, a chymherir y rhethreg â'r cynhyrchion polisi a gafwyd. Cyflwynir tystiolaeth mai prin fu'r ymyriadau cynhwysol, ac y methodd y prif asiantau cynllunio ieithyddol ag adnabod potensial Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Feirniadol fel porth mynediad arwyddocaol i ddisgwrs cynhwysol. Argymhellir y dylid cynnwys yr hyfforddiant yn yr amrediad o brif ymyriadau a ystyrir gan Lywodraeth Cymru i weithredu'r model cynhwysol, a'i brif-ffrydio mewn sawl pau gymdeithasol er cynyddu mynediad dinasyddion at wybodaeth a disgwrs ieithyddol, gan fraenaru'r tir ar gyfer 'newid ymddygiad ieithyddol'.

DATGANIAD

Ni chafodd y gwaith hwn ei gyflwyno'n sylweddol ar gyfer unrhyw radd neu ddyfarniad arall yn y brifysgol hon neu unrhyw brifysgol neu fan dysgu arall, ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd mewn ymgeisiaeth ar gyfer unrhyw radd neu ddyfarniad arall.

Llofnod(ymgeisydd) Dyddiad.....

GOSODIAD 1

Mae'r traethawd ymchwil hwn yn cael ei gyflwyno i gyflawni'n rhannol ofynion gradd PhD.

Llofnod (ymgeisydd) Dyddiad.....

GOSODIAD 2

Mae'r traethawd hwn yn ganlyniad fy ngwaith/ymchwiliad annibynnol fy hun, oni ddywedir fel arall.

Caiff ffynonellau eraill eu cydnabod gan gyfeiriadau eglur. Fy syniadau i yw'r syniadau a fynegir.

Llofnod (ymgeisydd) Dyddiad

GOSODIAD 3

Trwy hyn, rwy'n rhoi caniatâd i'm traethawd ymchwil, os bydd yn cael ei dderbyn, fod ar gael i'w lungopïo ac ar gyfer benthyciadau rhynglyfrgellol, ac i'r teitl a'r crynodeb fod ar gael i sefydliadau allanol.

Llofnod (ymgeisydd) Dyddiad.....

GOSODIAD 4: GWAHARDDIAD AR FYNEDIAD A GYMERADWYWYD YMLAEN LLAW

Trwy hyn, rwy'n rhoi caniatâd i'm traethawd ymchwil, os bydd yn cael ei dderbyn, fod ar gael i'w lungopïo ac ar gyfer benthyciadau rhynglyfrgellol **ar ôl i waharddiad ar fynediad a gymeradwywyd ymlaen llaw gan y Pwyllgor Datblygu Graddedigion ddod i ben.**

Llofnod(ymgeisydd) Dyddiad.....

Cydnabyddiaeth

Carwn gydnabod yma nifer o unigolion a sefydliadau a'm cynorthwyodd yn ystod y cyfnod y bûm wrthi'n paratoi'r traethawd hwn.

Aeth tros ddegawd heibio er pan drois i mewn i ystafell yr Athro Colin Williams yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd am y tro cyntaf, i drafod y syniadau oedd gennyf ar gyfer prosiect ymchwil. Ar hyd y cyfnod ymchwilio cefais ei gymorth parod bob amser. Mwynheais y cyd-drafod hamddenol a chreadigol yn fawr, ac efallai na fyddai'r traethawd hwn wedi gweld golau dydd oni bai am ei anogaeth a'i gefnogaeth gyson ef, ei amynedd di-ben-draw a'i frwdfrydedd am y gwaith.

A minnau'n gweithio o hirbell yn Arfon, bu'n rhaid imi droi at Reolwr Cefnogi Myfyrwyr yr Ysgol lawer gwaith am gymorth i ddatrys problemau gweinyddol a threfniadol. Ymatebodd Ceren Roberts yn brydlon ac yn rhadlon i bob cais, a gwerthfawrogais hynny bob tro. Llauer iawn o ddiolch iddi.

Go brin y byddwn wedi gallu ymchwilio i'r pwnc hwn heb gefnogaeth fy nghydweithwyr yn nhîm *iaith – y ganolfan cynllunio iaith*. Bu fy mhennaeth a'm cyfaill, Gareth Ioan, yn hynod hael a chefnogol wrth ganiatáu imi gynnal yr arolygon yn rhinwedd fy swydd a mawr yw fy nyled iddo. Diolchaf hefyd i'm cydweithwyr, Dr. Kathryn Jones ac Elaine Davies. Cefais gyngor ac arweiniad parod gan Kathryn wrth drafod methodoleg a thrywydd syniadaeth yr ymchwil â hi droeon yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Bûm yn ffodus iawn hefyd o'r cyfleoedd i holi Elaine o dro i dro ac elwa o'i phrofiad a'i gwybodaeth helaeth, a hithau'n un o arloeswyr pennaf y maes ymwybyddiaeth iaith yng Nghymru. Cefais wybodaeth werthfawr yn ogystal gan fy nghydweithwyr eraill, Siwan Tomos, Dinah Ellis a Nigel Vaughan, am rai prosiectau penodol y cyfeirir atynt yn y testun, a diolchaf yn ddiffuant iddynt hwythau.

Rwy'n ddyledus iawn hefyd i Rhian Huws Williams, Meirion Prys Jones ac Andrew Shippides, am neilltuo amser yng nghanol eu prysurdeb er mwyn imi allu cynnal cyfweliadau gwerthfawr â nhw.

Bu cydweithrediad a chymorth y swyddogion cyswllt o Gyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Gofal Cymru, Prawf Cymru gynt, Tribiwnlys Prisio Cymru a Dŵr Cymru yn gwbl allweddol i gyflawni'r ymchwil. Dyma'r unigolion a drefnodd y sesiynau hyfforddiant sy'n destun yr arolwg a drafodir ym Mhennod 6, ac a gyfrannodd i'r harolwg ategol a drafodir yn Atodiad 5. Heb eu cydweithrediad parod nhw, ni allwn fod wedi cynnal y prosiect ymchwil yn y modd a ddymunwn. Diolchaf iddynt am eu cefnogaeth a'u cymorth parod iawn.

Yn olaf, diolch i'r ddau annwyl ar yr aelwyd yn Rhiwlas. Cefais gymorth amhrisiadwy gan fy nghymar, Viola, a wnaeth lawer i'm calonogi a'm hysbrydoli dros y blynyddoedd diwethaf. A chefais f'ysbrydoli'n fawr gan ein mab Caio, a anwyd yn ystod y cyfnod ymchwilio ac a ddatblygodd yn siaradwr Cymraeg parablus a direidus erbyn imi gwblhau'r traethawd.

Talfyriadau

ALA	Association for Language Awareness
BYIG	Bwrdd yr Iaith Gymraeg
CCC	Cynulliad Cenedlaethol Cymru
CIG	Cynllun Iaith Gymraeg
CLA	Critical language awareness
d.d.	Dim dyddiad
DES	Department of Education and Science
ELWa	Education and Learning Wales
FL	Foreign language
GIG	Gwasanaeth Iechyd Gwladol
CLILC	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
HMSO	Her Majesty's Stationery Office
HYI	Hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith
HYIG	Hyfforddiant ymwybyddiaeth am yr iaith Gymraeg
HYFIG	Hyfforddiant ymwybyddiaeth feirniadol am yr iaith Gymraeg
LA	Language awareness
LIC	Llywodraeth Cymru
NCLE	National Council for Language in Education
MT	Mother tongue
TSO	The Stationery Office
WLB	Welsh Language Board
YI	Ymwybyddiaeth iaith
YFI	Ymwybyddiaeth feirniadol o iaith

N.B. Cyfeiriadau at *laith*

Er mwyn gwahaniaethu yn y testun rhwng y defnydd arferol o'r gair 'iaith' a'r cyfeiriadau niferus at y sefydliad *laith* – y *Ganolfan Gynllunio laith* (a adwaenir hefyd wrth yr enwau *laith Cyf.* a *Chwmni laith*) defnyddir y gair *laith* wedi ei italeiddio – *laith* – i gyfeirio at yr olaf.

Cynnwys

Crynodeb	ii
Datganiadau	iii
Cydnabyddiaeth	iv
Talfyriadau	v
Cynnwys	vi
Atodiadau	ix
Tablau, Ffigyrau a Mapiau	x
Cyflwyniad	1
<i>Cefndir</i>	1
<i>Cwestiynau ymchwil</i>	2
<i>Methodoleg yr astudiaeth</i>	3
<i>Y tu hwnt i gwmpas y traethawd hwn: cymariaethau rhyngwladol</i>	5
<i>Persbectif yr ymchwilydd</i>	5
<i>Strwythur y traethawd</i>	7
<i>Cyfraniad y traethawd</i>	8
Pennod 1: Beth yw Ymwybyddiaeth Iaith?	
Ei gefndir ym maes addysgeg dysgu iaith yn Lloegr	11
<i>Cyflwyniad</i>	11
<i>Esblygiad YI ym maes addysg yn Lloegr</i>	12
<i>Gwybodaeth am iaith</i>	15
<i>Tuag at ddiffinio YI</i>	17
<i>Ymwybyddiaeth feirniadol o iaith (YFI)</i>	23
<i>Clo</i>	28

Pennod 2: Datblygiad Hyfforddiant Ymwybyddiaeth am yr Iaith Gymraeg yng Nghymru ar gyfer sefydliadau cyhoeddus **30**

<i>Cyflwyniad</i>	30
<i>Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Chynlluniau Iaith Gymraeg</i>	30
<i>Datblygiad cynnar HYIG wrth i sefydliadau adnabod yr angen amdano</i>	33
<i>Lledaenu a phrif-ffrydio HYIG trwy waith Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac asiantaethau eraill</i>	37
<i>Tuag at ddiffinio HYIG</i>	44
<i>Deilliannau bwriedig HYIG</i>	47
<i>Rhai elfennau 'ymwybyddiaeth feirniadol' mewn model cyfredol o HYIG</i>	50
<i>Clo: grym y ffurf ryngpersonol ar HYFIG</i>	59

Pennod 3: Cyfeiriadedd damcaniaethol Ymwybyddiaeth Feirniadol am yr Iaith Gymraeg (YFIG) ym maes ieithyddiaeth gymhwysol feirniadol **61**

<i>Ieithyddiaeth gymhwysol</i>	61
<i>Ieithyddiaeth gymhwysol feirniadol</i>	63
<i>Dadansoddi disgwrs yn feirniadol</i>	65
<i>Llythrennedd beirniadol a dysgu iaith</i>	69
<i>Dadansoddi'n feirniadol ddefnydd iaith a llythrennedd yn y gweithle</i>	73
<i>Cynllunio ieithyddol</i>	75
<i>HYFIG: man cyfarfod i sawl agwedd ar ieithyddiaeth gymhwysol feirniadol</i>	83

Pennod 4: Golwg ar rethreg yr ymagwedd gynhwysol mewn testunau polisi cyhoeddus parthed adfywio'r Gymraeg **84**

<i>Cyflwyniad</i>	84
<i>Cynhwysiant fel thema mewn disgwrs gwleidyddol diweddar</i>	85
<i>Sylfaen cynhwysiant mewn polisi cyhoeddus ar y Gymraeg: Deddf Diwygio Addysg 1988</i>	87
<i>Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a chyfnod cynnar Bwrdd yr Iaith Gymraeg</i>	88
<i>Y Gymraeg yng nghyd-destun Cyfle Cyfartal</i>	93
<i>Bwrdd yr Iaith Gymraeg a dadwleidyddoli'r Gymraeg</i>	99
<i>Dogfennaeth bolisi Llywodraeth Cymru ar y Gymraeg</i>	110
<i>Cynhwysiant drwy drefniadau partneriaethol</i>	125

Pennod 5: A gafwyd ‘Plenary inclusion’? Golwg ar i ba raddau mae cynhyrchion polisi yn cyfrannu at gynhwysiant dinasyddion mewn disgwrs adfywio iaith **128**

<i>Cyflwyniad</i>	128
<i>Diffinio'r gynulleidfa darged i ymyriadau cynllunio ieithyddol cynhwysol</i>	129
<i>Cynhwysiant dinasyddion yn y disgwrs adfywio iaith:</i>	
<i>cwestiynau'n codi o'r rethreg</i>	131
<i>Cynhyrchion polisi sy'n cynnwys elfen ddisgyrsiol sylweddol am arferion personol unigolion parthed y Gymraeg</i>	133
<i>Cynhyrchion polisi i gynyddu darpariaeth Gymraeg a'i marchnata, a'r rhagdybiaeth y codir lefelau defnydd, ymwybyddiaeth a disgwrs wrth wneud hynny</i>	141
<i>Cyfathrebu â'r dinesydd drwy farchnata</i>	151
<i>Cydabyddiaeth o gyfraniad pwysig HYIG i broses sefydliadol'r Gymraeg</i>	155
<i>Diffyg adnabyddiaeth o botensial ehangach HYIG</i>	156

Pennod 6: Arolwg hyfforddeion a dderbyniodd HYFIG -
- Methodoleg, canfyddiadau a dadansoddiad **160**

<i>Cyflwyniad</i>	160
<i>Cefndir y trywydd ymchwil a'r cwestiynau ymchwil</i>	161
<i>Methodoleg</i>	163
<i>Crynodeb a dadansoddiad o ganfyddiadau'r arolwg</i>	180
<i>Ystyriaethau neilltuol am agweddau ac ymddygiad: arwyddocâd</i>	
<i>Cwestiynau 6 ac 8 a'r atebion iddynt</i>	209

Diwedd glo **218**

<i>Cyflwyniad</i>	218
<i>Casgliadau</i>	218
<i>Arwyddocâd yr ymchwil hwn i bolisi cyhoeddus ar y Gymraeg: trafodaeth a rhai argymhellion</i>	220
<i>Rhai trywyddau ymchwil posibl yn deillio o'r traethawd hwn</i>	223
<i>Rhagolygon am ddisgwrs ieithyddol yng nghyfnod y Safonau Iaith</i>	226
<i>Clo</i>	228

Cyfeiriadau **230**
viii

Atodiadau

ATODIAD 1

Disgrifiad bras o'r pum corff cyhoeddus yr holwyd eu staff yn yr Arolwg Hyfforddeion 261

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 262

Cyngor Sir Ddinbych 264

Cyngor Sir y Fflint 267

Cyngor Gofal Cymru 268

Prawf Cymru 269

ATODIAD 2

Teipoleg a niferoedd yr atebwyr i'r Arolwg Hyfforddeion 271

ATODIAD 3

Manylion y sesiynau HYFIG a drafodir yn yr Arolwg Hyfforddeion 273

ATODIAD 4

Holiadur yr Arolwg Hyfforddeion 275

ATODIAD 5

Arolwg ategol o swyddogion a gomisiynodd HYFIG ar ran cyflogwyr 277

Dŵr Cymru 279

Tribiwnlys Prisio Cymru 280

Coleg Glannau Dyfrdwy 281

ATODIAD 6

Holiadur i swyddogion fu'n destun yr Arolwg Atodol 296

Tablau, Ffigyrau a Mapiau

Tablau

<i>Tabl 7.1</i>	<i>Siaradwyr Cymraeg yn ôl awdurdod lleol, rhyw a grwpiau oedran manwl, Cyfrifiad 2011</i>	265
<i>Tabl 7.2</i>	<i>Teipoleg a niferoedd yr atebwyr i'r Arolwg Hyfforddeion</i>	271
<i>Tabl 7.3</i>	<i>Manylion y sesiynau HYFIG a drafodir yn yr Arolwg Hyfforddeion</i>	273
<i>Tabl 7.4</i>	<i>Teipoleg a niferoedd atebwyr, yn swyddogion a drefnodd HYFIG</i>	282

Ffigyrau

<i>Ffigwr 2.1</i>	<i>Model enghreifftiol sesiwn HYFIG</i>	51
<i>Ffigwr 5.1</i>	<i>Dyluniad arwyddluniau TWFa Tyfu</i>	139
<i>Ffigwr 6.1</i>	<i>Nodweddion dau baradeim ymchwil:ansoddol a meintiol</i>	164
<i>Ffigwr 6.2</i>	<i>Atebion i Gwestiwn 1</i>	185
<i>Ffigwr 6.3</i>	<i>Atebion i Gwestiwn 2</i>	185
<i>Ffigwr 6.4</i>	<i>Atebion i Gwestiwn 3</i>	193
<i>Ffigwr 6.5</i>	<i>Atebion i Gwestiwn 4</i>	193
<i>Ffigwr 6.6</i>	<i>Ymarferiad trafod agweddau</i>	196
<i>Ffigwr 6.7</i>	<i>Atebion i Gwestiwn 5a</i>	204
<i>Ffigwr 6.8</i>	<i>Atebion i Gwestiwn 5b</i>	204
<i>Ffigwr 6.9</i>	<i>Atebion i Gwestiwn 6</i>	205
<i>Ffigwr 6.10</i>	<i>Atebion i Gwestiwn 7</i>	205
<i>Ffigwr 6.11</i>	<i>Atebion i Gwestiwn 8</i>	211

Mapiau

<i>Map 1</i>	<i>Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl awdurdod lleol</i>	263
<i>Map 2</i>	<i>Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, fesul Adran Etholiadol, 2011</i>	266

Cyflwyniad

Cefndir

Mae'r traethawd hwn yn archwilio dwy wedd ar gynllunio ieithyddol i adfywio'r Gymraeg yng Nghymru heddiw, a'r berthynas rhyngddynt. Y wedd gyntaf yw Hyfforddiant Ymwybyddiaeth am y Gymraeg i staff sefydliadau cyhoeddus wedi Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, ac yn neilltuol, esblygiad ffurf feirniadol arno. Yr ail wedd yw'r model cynllunio ieithyddol cynhwysol a arddelir gan Lywodraeth ddatganoledig Cymru ers 2003, model a bennai i'r gymdeithas sifil rôl bartneriaethol allweddol yn y prosiect adfywio ieithyddol.

Rhan o'r setliad datganoli a ddeddfwyd yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998 oedd gosod cyfrifoldeb ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru am baratoi strategaeth ar yr iaith Gymraeg. Cyhoeddwyd dogfen strategol gyntaf y weinyddiaeth ddatganoledig newydd yn 2003, sef *Iaith Pawb- Cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwylieithog* (LICC, 2003). Ynddi, cyflwynwyd 'gweledigaeth' a arddelai ymagwedd gynhwysol tuag at hybu 'perchnogaeth' ar y Gymraeg gan holl boblogaeth Cymru, yn siaradwyr Cymraeg a dinasyddion di-Gymraeg fel ei gilydd. Amlygwyd hyn yn neisfyfiad y Llywodraeth ar y pryd i greu

Cymru gwbl ddwyieithog, sef gwlad lle y gall pobl ddewis byw eu bywydau naill ai drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg neu'r ddwy iaith, a lle mae bodolaeth y ddwy iaith yn fater o falchder a chryfder i ni i gyd. (LICC, 2003: 1).

Disgrifiwyd yr ymagwedd gynhwysol hon fel y 'doctrine of inclusive bilingualism for all' (Williams, 2004: 7), ac am ei bod yn gofyn am gyfranogaeth dinasyddion i adfywio'r iaith mewn partneriaeth â'r wladwriaeth a sefydliadau, cyfeiriwyd ati hefyd fel 'the doctrine of plenary inclusion' (Ibid: 1).

Dros y blynyddoedd ers cyhoeddi *Iaith Pawb* mae testunau polisi cyhoeddus ar y Gymraeg wedi parhau i arddel yr ymagwedd gynhwysol hon. Er hyn, dengys y traethawd hwn na chafwyd ymyriadau cynllunio ieithyddol pwrpasol i wireddu'r cysyniad o gynhwysiant.

Hyd yn oed cyn datganoli, cafwyd cyfnod o gryn weithgarwch cynllunio ieithyddol yn dilyn Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a sefydlu Bwrdd yr Iaith Gymraeg (BYIG) a'r system Cynlluniau Iaith Gymraeg. Rhan o fwrlwm ac arloesedd y cyfnod oedd datblygiad Hyfforddiant Ymwybyddiaeth am yr Iaith Gymraeg (HYIG). Darperid yr hyfforddiant gan gyrrff cyhoeddus ar gyfer eu staff, er mwyn esbonio iddynt yr

egwyddorion tu ôl i Ddeddf 1993. Hefyd esboniai oblygiadau gweithredol y gofynion statudol newydd i gyrff cyhoeddus drin y Gymraeg a'r Saesneg 'ar y sail eu bod yn gyfartal' wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Gofynnai'r drefn newydd am gryn newid arferion, wedi tros 450 mlynedd o eithrio'r Gymraeg o beuoedd swyddogol. Esblygodd cyfeiriadedd beirniadol ar yr hyfforddiant i gyflwyno'r cyd-destun ehangach i hyfforddeion, sef 'hyfforddiant ymwybyddiaeth feirniadol am yr iaith Gymraeg' (HYFIG), ffurf a amlygai natur ideolegol polisïau ieithyddol, ac iaith fel offeryn grym a chyfrwng grym. Buan y canfuwyd bod HYIG yn gyfrwng grymus i drafod agweddau sensitif ar iaith, megis agweddau personol at iaith, canfyddiad hyfforddeion o hunaniaeth, cenedligrwydd a'r ymdeimlad o berthyn, ac arferion ieithyddol teuluoedd (Eaves, 2007; Jones, 2014; Davies, 2010b; 2011; Huws Williams, 2014). Er sensitifrwydd y materion hyn, roedd HYIG yn creu gofod 'diogel' lle cyflwynid a chynhelid elfennau o ddisgwrs cynllunio ieithyddol â dinasyddion, a rhwng dinasyddion a'i gilydd, ac yn hynny o beth roedd yn 'gynhwysol' yn ei hanfod.

Yn wyneb y diffyg ymyriadau pwrpasol eraill i gyflwyno gwybodaeth ieithyddol a disgwrs ieithyddol i ddinasyddion, dadleuaf y dylid cydnabod HYFIG fel ymyriad cynllunio ieithyddol o bwys. Mae'n gyfraniad at wireddu rhethreg gynhwysol y testunau polisi, rhethreg nas gwiredir fel arall i unrhyw raddau sylweddol, fel y dengys y dadansoddiad a gyflwynir yn y traethawd hwn. Hyd yn hyn, darpariaeth eilaidd yw HYIG, yn hyfforddiant a drefnir gan sefydliadau is-lywodraethol i'w staff, ac y mae prif asiantau cynllunio ieithyddol y wladwriaeth wedi methu ag adnabod ei bwysigrwydd a'i gyfraniad allweddol. Mawr obeithiaf y bydd yr ymchwil hwn yn bwrw goleuni arno, ac y bydd o ddiddordeb i'r sawl a fyn weld gwir gynhwysiant i ddinasyddion yn nsgwrs cynllunio ieithyddol ein cyfnod.

Cwestiynau ymchwil

Y prif gwestiwn ymchwil y ceisir ei ateb yn y traethawd hwn yw: beth yw arwyddocâd a chyfraniad cyfredol a dichonol Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Feirniadol am yr Iaith Gymraeg (HYFIG) i'r model cynllunio ieithyddol 'cynhwysol' a weithredir gan asiantau'r wladwriaeth i adfywio'r Gymraeg yng Nghymru?

Er mwyn inni allu ateb y gwestiwn hwn rhaid ymdrin hefyd â nifer o is-gwestiynau, sef:

- Beth yw HYFIG, a beth yw ei gyfeiriadedd damcaniaethol?
- Sut y mynegwyd mewn testunau polisi yr ymagwedd gynhwysol at adfywio'r Gymraeg yng Nghymru?

- Pa gynhyrchion polisi a gafwyd i weithredu'r ymagwedd honno, a pha mor llwyddiannus oeddent?
- Sut y gallai nodweddion a deilliannau HYFIG gyfrannu at weithredu'r model cynhwysol?

Methodoleg yr astudiaeth

Mae'r fethodoleg a ddatblygwyd er ceisio ateb y cwestiynau ymchwil uchod yn cyfuno sawl trywydd ymchwil. Yr ydys yn ymwybodol o ragoriaethau a chyfyngiadau'r ddau baradeim ymchwil a gydnabyddir yn eang, sef ymchwil meintiol ac ymchwil ansoddol, fel y'i mynegir isod:

Qualitative Research is primarily subjective in approach as it seeks to understand human behavior and reasons that govern such behavior. Researchers have the tendency to become subjectively immersed in the subject matter in this type of research method.

In Quantitative Research, researchers tend to remain objectively separated from the subject matter. This is because Quantitative Research is objective in approach in the sense that it only seeks precise measurements and analysis of target concepts to answer the inquiry (Explorable.com, 2009).

Yn dilyn traddodiad Durkheim, a geisiai gymhwyso gwrthrychedd gwyddonol diduedd i faes ymchwil cymdeithasol (Calhoun, 2002: 104), cynhwyswyd ymagwedd feintiol yn yr ymchwil hwn er ceisio sicrhau gwrthrychedd yr allbynnau. Deëllir, fodd bynnag, y cydnabyddir yn eang bellach ym maes y gwyddorau cymdeithasol y rhoddid gormod o fri yn y gorffennol ar gasglu a dehongli gwybodaeth feintiol. Ceir cryn gonsensws erbyn hyn na all gorddibynnu ar wybodaeth feintiol roi mewnwleidiad cyflawn i'r realiti cymdeithasol a brofir gan atebwyr arolygon a chyfweleion. Dadleuir na ellir treiddio i'r realiti hwnnw na'i grynhoi drwy arddel dull lleihadol o'r fath (Robson, 2011). Dadleua lladmereddion y dull ansoddol fod 'the world we see around us is the creation of the mind' (Walliman, 2011: 21-22). Cyflyrir canfyddiad yr unigolyn o realiti wrth iddo ei ddehongli o'i leoliad o fewn ei *habitus* (Bourdieu, 1990). Rhydd *habitus* iddo fydolwg gyda rhagydybiaethau, gwerthoedd, a daliadau penodol, a chyflyrir ei ymagwedd at ymchwil gan y ffactorau hyn. Rhaid i'r ymchwilydd geisio sicrhau felly sawl dull a modd i brofi cadernid unrhyw ddata ansoddol, deongliadol a gyflwynir ganddo.

Un dull cyffredin a ddefnyddir gan ymchwilwyr cymdeithasol er sicrhau cadernid eu data yw triongliant.

Triangulation involves the practice of viewing things from more than one perspective using different methods, different sources of data or even different researchers within the study. The principle behind this is that the researcher can get a better understanding of the thing that is being investigated if he/she views it from different positions.

(Denscombe, 2007).

Trwy ddefnyddio amryw o ffynonellau i gasglu a dilysu tystiolaeth feintiol ac ansoddol yr ymchwiler hwnl, fel yr esbonnir isod ac yng nghorff y traethawd, hyderir y sicrhawyd triogliant cadarn ac effeithiol.

Casglwyd data o'r ffynonellau gwreiddiol ac eilaidd a nodir isod:

Adolygiad llenyddiaeth

- Archwiliad o destunau polisi cyhoeddus ar y Gymraeg a thestunau perthynol eraill
- Archwiliad o destunau yn olrhain datblygiad y mudiad ymwybyddiaeth iaith yn Lloegr, a datblygiad HYIG yng Nghymru
- Archwiliad o destunau damcaniaethol perthnasol.

Dau arolwg

Bu'r ddau arolwg isod yn gyfrwng i gasglu cyfuniad o ddata meintiol ac ansoddol, fel a ddisgrifir ym methodolegau'r arolygon eu hunain ym Mhennod 6 ac Atodiad 5.

- *Arolwg o hyfforddeion a dderbyniodd HYFIG*

Trwy gyfrwng holiadur casglwyd ymatebion gan 354 o hyfforddeion i'r hyfforddiant a gawsent rhwng Mai 2010 a Thachwedd 2013.

- *Arolwg o swyddogion a drefnodd HYFIG ar ran cyrff cyhoeddus*

Trwy gyfrwng ail holiadur casglwyd ymatebion gan 10 o swyddogion a drefnodd yr hyfforddiant ar ran 7 o gyrff cyhoeddus rhwng Mai 2010 a Thachwedd 2013.

Cyfweliadau

Cynhaliwyd cyfweliadau â'r 3 unigolyn canlynol:

- Cyn-Brif Weithredwr Bwrdd yr Iaith Gymraeg
- Prif Weithredwr Cyngor Gofal Cymru
- Prif Weithredwr Tribiwnlys Prisio Cymru

Y tu hwnt i gwmpas y traethawd hwn: cymariaethau rhyngwladol

Oherwydd prinder ymchwil blaenorol i faes HYIG bu'n rhaid canolbwyntio yn y traethawd hwn ar olrhain ei darddiad, disgrifio ei ffurfiau anfeirniadol a beirniadol, ei osod yn ei gyd-destun damcaniaethol a thrafod ei berthynas â'r agweddau polisi a drafodir yn fanwl. Nid oedd o fewn cwmpas y cwestiynau ymchwil a bennwyd iallu ymgymryd ag ymchwilio i unrhyw ffurfiau perthynol ar hyfforddiant a allai fod ar waith mewn gwledydd eraill. Barnwyd bod angen i'r astudiaeth hon ragflaenu unrhyw astudiaeth gymharol o'r fath gan sefydlu yn y lle cyntaf beth yn union yw HYIG, beth yw ei berthynas â pholisi cyhoeddus ar adfywio ieithyddol, ac ag amcanion cynllunio ieithyddol ehangach.

Wrth gydnabod bod ymyriadau cynllunio ieithyddol mewn unrhyw wlad yn gynhyrchion amgylchiadau neilltuol y strwythurau a pholisïau gwladwriaethol sy'n fframwaith iddynt, a'u bod yn tarddu o hanes sosio-ieithyddol neilltuol, bernir bod astudiaeth gymharol yn teilyngu astudiaeth ar wahân.

Hyderwn fod y traethawd hwn yn braenaru'r tir ar gyfer astudiaeth gymharol o'r fath, a chynigir awgrym i'r perwyl hwnnw yn y Diwedd glo.

Persbectif yr ymchwilydd

Nodwyd uchod nad endidau niwtral mo'r ymchwilydd na'r sawl sy'n destun ei ymchwil, ond bodau cymdeithasol. Mae pob ymchwil cymdeithasol yn deillio o ddiddordeb yr ymchwilydd yn ei faes astudio, ac mae'r diddordeb hwnnw yn ei dro yn deillio o sefyllfa'r ymchwilydd. Cyflyrir ei waith fel ysgolhaig gan ei fydolwg neilltuol a'i bersbectif ideolegol ar y byd a'i bethau. Yn ôl Ricento (2006:11-12),

The beginning of wisdom is the recognition that 'scientific' objectivity in such research is not possible, since researchers always begin with particular experiences and positions on what the social 'good' might be and what sorts of changes in social (including language) policy might advance a particular vision of that good.

Daeth yn fwyfwy arferol i ymchwilwyr cymdeithasol gydnabod hyn wrth ymgymryd â'u hymchwil. Yn ôl May (2012: xiv) 'this position is consonant with debates in critical theory on the *situatedness* of any academic inquiry'. Â'r un awdur rhagddo i nodi:

All research is value-laden and, as such, a researcher must begin from a theoretical position of some description (...) Accordingly, it is better to state one's position at the start than to cloak it in the guise of apparent neutrality (Ibid).

Gan ddilyn cyngor May felly, priodol yw cydnabod na all yr ymchwilydd hwn - mwy na'r un ymchwilydd arall - fod yn ymchwilydd diduedd. Mae'n siaradwr Cymraeg sy'n ymrwymedig yn bersonol i'r ymgyrch a gododd o blith y gymdeithas sifil yng Nghymru yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif i adfywio'r iaith Gymraeg ac ennill hawliau ieithyddol i siaradwyr Cymraeg. Ystyria'r ymgyrch honno'n rhan o ymgyrch ehangach dros gydnabod a diogelu diwylliannau ac ieithoedd lleiafrifol ledled y byd. O ran cyfeiriadedd ei ddadansoddiad wrth iddo ymdrin â'r cwestiynau ymchwil, mae'n rhannu persbectifau beirniadol tebyg i'r rhai a arddelir gan ieithyddion beirniadol megis Fairclough (1992), May (2012) a Janks ac Ivanič (1992), ac a drafodir yma ym mhenodau 2 a 3.

Bu'n gweithio'n broffesiynol ers 1979 ym maes cynllunio ieithyddol i sefydlu defnydd y Gymraeg mewn sefydliadau cyhoeddus, fel Rheolwr Cyfieithu i ddechrau, ac wedyn fel Swyddog Iaith. Ers 2001 mae'n ymgynghorydd cynllunio ieithyddol gydag *iaith - y ganolfan cynllunio iaith*. Deëllir o hyn, felly, mai llais 'sylwedydd cyfrannol' (neu 'gyfrannwr sy'n arsylwi') yw llais yr ymchwilydd yn y traethawd hwn. Mae'n rhan o'r gweithgarwch cynllunio ieithyddol a ddisgrifir ganddo, nid sylwedydd a saif ar wahân iddo.

Pwysleisir na raid i'r cyfeiriadedd ymchwil hwn fod yn broblemus o gwbl. Mae persbectif y 'cyfrannwr sy'n arsylwi' yn un a gydnabyddir yn eang mewn ymchwil ansoddol, yn arbennig felly mewn astudiaethau ethno-ieithyddol (Emerson, Fretz a Shaw, 2001). Yn ôl un sylwebydd,

An 'interested' or 'motivated' character is inherent in LPP [language policy and planning] and needs to be theorized as a central feature of researching language policy (Lo Bianco, 2004: 738–739).

Bernir bod y dulliau ymchwilio a ddefnyddiwyd, ynghyd â'r triongiant cadarn a amlinellir yma ac a ddisgrifir yn fanylach yng nghorff y traethawd, yn fodd i sicrhau cadernid a dilysrwydd yr ymagwedd ymchwilio a'r ymdriniaeth ysgolheigaidd â'r data a gyflwynir.

Strwythur y traethawd

Ymdrinnir â'r cwestiynau ymchwil mewn cyfres o chwe phennod a Diweddglô a rydd sylw i'r amrywiaeth o wahanol agweddau ac ystyriaethau a gyfyd o bob cwestiwn.

Yn y bennod gyntaf olrheinir tarddiad y mudiad ymwybyddiaeth iaith (YI) ym maes addysgeg dysgu iaith yn Lloegr. Dangosir mai prif bwrpas YI yn wreiddiol oedd gwella caffaeliad iaith gan fyfyrwyr yn y dosbarth, a'u defnydd ohoni wedyn mewn cyd-destunau cymdeithasol drwy gynyddu eu hymwybyddiaeth o ffactorau meta-ieithyddol ynghylch defnydd iaith. Esblygodd ffurfiau beirniadol ar YI o adnabod cyd-destunau defnydd iaith lle'r oedd anghyfartaledd grym rhwng ieithoedd a'i gilydd.

Yn yr ail bennod trafodir esblygiad HYIG yng Nghymru, a sut y prif-ffrydiwyd ef gan BYIG fel mesur eilaidd a allai gyfrannu at weithrediad effeithiol Cynlluniau Iaith Gymraeg. Trafodir esblygiad y ffurf feirniadol arno, sef HYFIG. Cyflwynir model enghreifftiol o raglen HYFIG ac ymhelaethir ar ogwydd beirniadol ei chynnwys.

Mae'r drydedd bennod yn gosod HYFIG yn ei gyd-destun damcaniaethol, gan ddangos mai ffurf ar ieithyddiaeth gymhwysol feirniadol ydyw, a bod agweddau arno'n gorgyffwrdd â disgyblaethau megis dadansoddi disgwrs yn feirniadol, llythrennedd beirniadol a chynllunio ieithyddol.

Mae'r bedwaredd bennod yn adolygiad o rethreg testunau polisi ieithyddol 'cynhwysol' yng Nghymru yn y cyfnod ers blynyddoedd cynnar BYIG. Olrheinir sut yr ehangwyd y gynulleidfa darged i ymyriadau cynllunio ieithyddol y wladwriaeth o 2003 ymlaen yn dilyn cyhoeddi strategaeth genedlaethol gyntaf Llywodraeth ddatganoledig Cymru ar y Gymraeg (LIC, 2003). Nodir sut yr ymyleiddiwyd cydraddoldeb ieithyddol o'r agenda cydraddoldebau, a sut y methwyd ag adnabod arwyddocâd HYFIG fel ymyriad cynhwysol o bwys. Yn arwyddocaol, dangosir fel y rhagdybiwyd yn y testunau polisi y byddai dinasyddion Cymru yn meddu ar y lefelau gwybodaeth angenrheidiol i'w galluogi i gyflawni'r rôl bartneriaethol a bennwyd iddynt mewn testunau polisi, sef rôl partner allweddol yn y disgwrs adfywio ieithyddol a'r mesurau adfywio a hyrwyddid gan y Llywodraeth.

Yn y bumed bennod dadansoddir rhai prif gynhyrchion polisi ieithyddol er ceisio adnabod ynddynt elfennau cynhwysol a allai gyfrannu at wireddu rhethreg cynhwysol polisi cyhoeddus. Canfyddir mai prin yw'r ymyriadau sylweddol a fwriedid i'r diben hwnnw yn benodol. Ceir tystiolaeth i awgrymu y rhagdybiai LIC a BYIG y byddai cynyddu'r ddarpariaeth gwasanaethau Gymraeg, a'u marchnata, yn symbylu graddau helaethach o gyfranogaeth o du dinasyddion yn y prosiect adfywio ieithyddol. O ganlyniad, canolbwyntiai cynhyrchion polisi ar gynyddu'r ddarpariaeth

a'i marchnata, ac nid ymdrinnid mewn unrhyw fodd treiddgar â gwireddu'r cysyniad o 'gynhwysiant'.

Ym Mhennod 6 cyflwynir data arolwg a gynhaliwyd o staff 5 corff cyhoeddus a dderbyniodd HYFIG. Manylir yn gyntaf ar y fethodoleg a ddilynwyd, cyn cyflwyno tystiolaeth o'r atebion a dderbyniwyd gan 354 o atebwyr dros gyfnod yn ymestyn o Fai 2010 hyd Dachwedd 2013. Y ddau gwestiwn ymchwil y ceisiwyd eu hateb drwy'r arolwg oedd:

- (i) I ba raddau y derbyniasai hyfforddeion (a dderbyniodd HYFIG) wybodaeth ieithyddol flaenorol am y Gymraeg, yn ôl eu canfyddiad eu hunain? a
- (ii) Sut ymateb a enynnwyd gan HYFIG ymhlith hyfforddeion a'i derbyniodd, yn ôl eu canfyddiad eu hunain?

Canfuwyd mai canfyddiad mwyafrif yr atebwyr oedd na dderbyniasent lawer o wybodaeth am y Gymraeg cyn derbyn yr HYFIG. Prif ffynonellau eu gwybodaeth oedd y gweithle, lle derbyniasent wybodaeth am Gynllun Iaith Gymraeg eu cyflogwr, yr ysgol, a chyrsgiau Gymraeg. Yn arwyddocaol iawn, canfuwyd bod mwyafrif yr atebwyr wedi ymateb yn bositif ac yn werthfawrogol i'r HYFIG a gawsant, a chryn nifer wedi mynegi 'bwriadau ymddygiadol' i ymwneud â'r Gymraeg i raddau mwy nag o'r blaen yn dilyn yr hyfforddiant.

Ar ddiwedd y traethawd ceir Diweddsglo sy'n crynhoi'r prif ganfyddiadau ynghylch HYFIG ar y naill law, a pholisi cynllunio ieithyddol cynhwysol y wladwriaeth ar y llaw arall. Trafodir arwyddocâd y canfyddiadau i bolisi cyhoeddus a chynigir rhai argymhellion i sylw Llywodraeth Cymru ac eraill. Cynigir hefyd syniadau am rai prosiectau ymchwil posibl a allai fod yn ddilyniant buddiol i'r ymchwil hwn. Wrth gloi, ceir trafodaeth fer am y rhagolygon am ddisgwrs ieithyddol yng nghyfnod y Safonau Iaith.

Cyfraniad y traethawd

Wrth ddarllen Pennod 2 am ddatblygiad HYIG yng Nghymru, fe sylwa'r darllenydd nad ymdrinnir ynddi ag unrhyw astudiaethau estynedig blaenorol ar y pwnc hwn. Y rheswm am hynny yw na chafwyd unrhyw astudiaethau o'r fath cyn y traethawd hwn. Mae'r rhan fwyaf o'r llenyddiaeth ar HYIG ar ffurf deunyddiau hyfforddi. Er y ceir esboniadau byrion am bwrpas a natur yr hyfforddiant mewn rhai o'r deunyddiau hynny, ni cheir yr un ymdriniaeth ddadansoddol sylweddol. Ni chafwyd ond un arolwg blaenorol o'r maes, a hwnnw yn 2005 gan Dafis *et al.* ar ran ELWa (Dafis *et al.*, 2005).

Er y prinder ymchwil blaenorol i'r maes hwn, ers 1996 mae cryn nifer o gyrff cyhoeddus wedi buddsoddi mewn HYIG fel modd i hwyluso gweithrediad effeithiol un

o brif ymyriadau'r model cynllunio ieithyddol yng Nghymru, sef Cynlluniau Iaith Gymraeg. Wrth i'r system Safonau Iaith a rheoleiddio statudol raddol ddisodli Cynlluniau Iaith o 2015 ymlaen, mae'n amserol ystyried natur cyfraniad HYIG i gynllunio ieithyddol dros y ddau ddegawd diwethaf, a beth yw arwyddocâd HYIG ar gyfer cyfnod nesaf cynllunio ieithyddol yng Nghymru. Hyderir y bydd y traethawd hwn yn gyfraniad sylweddol i'r drafodaeth honno.

Mae'r astudiaeth hon yn ymdrin ag arwyddocâd HYIG o ddau brif safbwynt. Yn gyntaf, trafodir ei arwyddocâd fel ymyriad cynllunio ieithyddol o bwys, am ei fod yn gyfrwng prin i gynnal disgwrs ieithyddol â chynulleidfa darged y wladwriaeth i'w hymdrechion adfywio ieithyddol. Yn ail, trafodir HYIG o safbwynt canfyddiad dinasyddion ohono a'u hymateb iddo fel profiad dysgu rhyngweithiol, a nodir arwyddocâd ehangach eu canfyddiad ohono a'u hymateb iddo. Trwy hoelio sylw ar ymatebion a chanfyddiadau dinasyddion yn eu gweithleoedd parthed HYIG, mae'r traethawd hwn yn codi cwestiynau ehangach am natur y berthynas rhwng y wladwriaeth a'r 'gynulleidfa darged' i'w hymyriadau adfywio ieithyddol. Dichon y bydd y gwrthgyferbyniad rhwng HYIG a mathau eraill o gyfathrebiaeth â dinasyddion o gryn ddiddordeb i wneuthurwyr polisi a'r 'gymuned cynllunio ieithyddol' fel ei gilydd.

I gyd-fynd â'r hymdriniaeth arloesol hon â HYIG, cyflwynir dadansoddiad beirniadol o'r ymagwedd gynhwysol sy'n elfen mor greiddiol o fodel cynllunio ieithyddol y wladwriaeth. Cymherir y rhethreg gynhwysol â'r cynhyrchion polisi a gafwyd, a thrwy hynny cynyddir ein dealltwriaeth o natur a nodweddion polisi cyhoeddus cynhwysol y wladwriaeth ar y Gymraeg.

Nodwedd neilltuol arall o'r traethawd hwn yw bod y dadansoddiadau a dehongliadau ynddo yn rhai a gyfyd o bersbectif *praxis* cynllunio ieithyddol 'hyd y priffyrdd a'r caeau' yn y Gymru sydd ohoni. Nodwyd eisoes mai llais 'sylwedydd cyfrannol' yw llais yr ymchwilydd. Yn ôl Howell (1972), y pedwar cam sy'n nodweddu astudiaeth 'sylwedydd cyfrannol' (neu 'gyfrannwr sy'n arsylwi') yw ymglyfarwyddo â'r bobl a astudir a sefydlu perthynas â nhw; ymdrwytho yn y maes; cofnodi data drwy arsylwi, a chadarnhau'r wybodaeth a gasglwyd. Gellir adnabod elfennau o'r nodweddion hyn ym mhrofiad proffesiynol yr ymchwilydd, a fu'n gweithio ochr yn ochr â gweithwyr yn y sector cyhoeddus ers 35 mlynedd i roi cyngor ac arweiniad iddynt ar ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn eu gweithleoedd. Credir bod y persbectifau sy'n deillio o'r cefndir proffesiynol hwn yn rhai anghyffredin mewn ymchwil cymdeithasol ar y Gymraeg, ac yn cyfoethogi'r astudiaeth.

Cyflwynir y traethawd hwn fel cyfraniad sylweddol ac unigryw i'n dealltwriaeth o arwyddocâd HYIG fel ymyriad cynllunio ieithyddol o bwys yn y model cynllunio ieithyddol cynhwysol a weithredir yng Nghymru i adfywio'r Gymraeg.

Pennod 1

Beth yw Ymwybyddiaeth iaith?

Ei gefndir ym maes addysgeg dysgu iaith yn Lloegr

Cyflwyniad

Mae'n eglur o'r llenyddiaeth ar y pwnc hwn fod ymwybyddiaeth iaith (YI) yng Ngwledydd Prydain yn faes cymharol newydd a esblygodd yn bennaf o faes dysgu ieithoedd mewn ysgolion. Y mae chwiliad o'r teitlau a gedwir yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac a gyrchir trwy ddefnyddio'r term Saesneg cyfatebol 'language awareness' (LA) fel allweddair, yn cadarnhau bod mwyafrif y teitlau a ganfyddir yn deitlau cyfrolau a deunyddiau a berthyn i faes addysgeg. Cynigia Aplin (1997) lyfryddiaeth o ddeunyddiau ac adnoddau dysgu, o Wledydd Prydain yn bennaf ac at ddefnydd athrawon yng Ngwledydd Prydain. Deunyddiau ydynt a allai fod yn sylfaen i athrawon gyflwyno YI mewn ysgolion, ac fe nodwn fod mwyafrif y cyhoeddiadau a restrir ganddo wedi eu cyhoeddi ers diwedd y 1970au.

Yn ôl Fairclough (1992:1),

The term 'language awareness' has been used since the early 1980s to refer specifically to the advocacy by a group of language teachers, educationalists and applied linguists of a new language awareness element in the school curriculum, at the top end of the primary school or in the early years of secondary school...I shall use the abbreviation LA for this language awareness movement. But the term is also used alongside others such as 'knowledge about language' to designate in a more general way conscious attention to properties of language and language use as an element of language education. Arguments for language awareness in schools in this broader sense occurred before LA (Doughty et al. 1971 is a notable example), and can be found in recent reports on the teaching of English within the national curriculum (DES 1988, DES 1989).

Fodd bynnag, nid o fyd addysg y deillia'r mathau o YI sy'n ganolbwynt i'r hyn a drafodir yn y traethawd hwn, ond yn hytrach o faes polisi cyhoeddus ar ddefnydd y Gymraeg yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Esblygodd HYIG ochr yn ochr â'r broses o sefydlu ar draws y sector cyhoeddus drefniadau o fewn sefydliadau cyhoeddus i weithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg statudol yn y cyfnod ers 1996, yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Serch hynny, priodol yw ystyried yn y bennod

hon y ffurfiau ar 'language awareness' a esblygodd ym maes addysg yng Ngwledydd Prydain yn ystod chwarter olaf yr ugeinfed ganrif. Yr un cysyniad sy'n sylfaen i YI yn y ddwy bau, sef, cyflwyno gwybodaeth *ynghyllch* iaith, neu, a benthyg geiriau Fairclough o'r dyfyniad uchod, 'conscious attention to properties of language and language use'.

O ychydig flynyddoedd, bu i ddatblygiad YI ym maes addysg ragflaenu ffurfiau ar YI a symbylwyd gan ddeddfwriaeth ar yr iaith Gymraeg. Wedyn, ers yr 1990au bu'r ddwy ffrwd o YI yn cydreddeg ac yn datblygu ochr-yn-ochr â'i gilydd, ond yn annibynnol ar ei gilydd i bob pwrpas. O'r arolwg amlinellol canlynol o ffurfiau YI ym maes addysg, gwelwn yn eglur ei berthnasedd i'r hyn a elwir yn 'hyfforddiant ymwybyddiaeth am yr iaith Gymraeg' (HYIG) a ddarperir i gyrff cyhoeddus a gwirfoddol sy'n gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg. Gan fod cyflwyno gwybodaeth am iaith yn brif elfen graidd yn y ddau fath o YI, trwy ddefnyddio technegau dysgu y gwneir hynny. Ceir cryn debygrwydd a gorgyffwrdd rhwng y trywyddau dysgu, yr amcanion dysgu a rhai o'r deilliannau tybiedig yn y ddwy bau. I ddibenion y brif drafodaeth yn y ddoethuriaeth hon felly - sef cyfraniad YI at strategaethau cynllunio ieithyddol cynhwysol - mae YI yn 'dir cyffredin' lle mae cynllunio ieithyddol ac addysgeg yn cyfarfod. O faes addysgeg y deilliodd y ffurfiau ar YI a drafodir yn y bennod hon felly, ac o faes cynllunio ieithyddol y deilliodd yr YI a drafodir yn y bennod nesaf.

Esblygiad YI ym maes addysg yn Lloegr

Mae'r syniad o gyflwyno gwybodaeth *ynghyllch* iaith fel rhan o'r broses dysgu iaith mewn ysgolion yn un sy'n cynnig agweddau ychwanegol at y dull traddodiadol o ddysgu ieithoedd. Ymhlyg yn y dadleuon dros YI y mae beirniadaeth o'r dull traddodiadol o ddysgu iaith. Yn ôl y dull hwnnw, rhoddid pwyslais ar ddysgu teithi iaith, ei gramadeg, ei geirfa, sillafu ac ynganu. Nod y dysgu yn y cyswllt hwnnw yw caffael patrymau iaith a dysgu sut i'w hatgynhyrchu'n gywir. Fel y dywed Ivanič (1990:123),

Until the early 1970s the study of language was the study of patterns. Both linguists and language learners were interested in the abstract systems of sounds and structures in the language they were studying. Language learners had to understand those patterns and then reproduce them correctly...The single criterion for success was accuracy. With a view of language as an abstract system, as a set of patterns which are either correctly or incorrectly formed, language awareness was nothing

more than a 'grammar grind'. It was formal, boring, often incomprehensible and unrelated to language use.

Esblygodd y cysyniad o ymwybyddiaeth iaith ymhlith addysgwyr ac ieithyddion cymhwysol wrth i'r 1970au a'r 1980au fynd rhagddynt. Yn ystod y ddau ddegawd hynny cyhoeddodd Llywodraeth Prydain sawl adroddiad a roddodd hwb sylweddol i ddatblygiad a lledaeniad y dadleuon dros gyflwyno 'gwybodaeth ynghylch iaith' mewn ysgolion (Hawkins, 1992; Donmall-Hicks, 1997). Ystyrir rhai o'r prif adroddiadau yn y drafodaeth isod, a'r ymateb iddynt o du'r gymuned academiaidd. O hynny ymlaen gwelwyd twf yn y llenyddiaeth academiaidd am YI ac esblygiad y mudiad y cyfeirir ato gan ysgrifenyddwyr megis Garrett a James (1992); Donmall (1993); Donmall-Hicks (1997); Keith (1990), a Fairclough (1992) fel y 'language awareness movement' ym Mhrydain. Fel hyn y disgrifiodd golygyddion rhifyn cyntaf un y cylchgrawn Language Awareness ddatblygiad y mudiad:

For the editors, it rose mistily from the consciousness raising movements of the seventies, and was tidied up and documented in the eighties, The nineties should broaden it out and fatten it up. (Language Awareness, 1992:1).

Yn ôl van Lier (1996:78),

The Language Awareness (LA) movement, a grassroots organization of teachers and teacher educators, started in Great Britain in the early 1980s....It was a response to increasing demands for a more systematic and efficient approach to language education and language use in schools and academic institutions.

Symbylwyd y mudiad hwn i raddau helaeth gan waith arloesol Halliday (1971) a'i ddadleuon dros ddysgu 'language in use', hynny yw, defnydd iaith yn ôl ei gyddestunau cymdeithasol, a dadleuon Hawkins (1981, 1984). Roedd gwaith Hawkins yn ymateb yn rhannol i fethiannau a diffygion yn nulliau a deilliannau dysgu iaith mewn ysgolion yn Lloegr yn bennaf, maes a fu'n destun Adroddiad Pwyllgor Bullock ym 1975. Sefydlwyd Pwyllgor Bullock yn dilyn cyhoeddi adroddiad yn dwyn y teitl *The Trend of Reading Standards* gan y National Foundation for Educational Research ym 1972. Awgrymodd yr adroddiad hwnnw fod safonau llythrennedd yn gostwng a bod pryder cyffredinol am ddulliau dysgu Saesneg mewn ysgolion cynradd. Cafodd yr adroddiad hwnnw gryn gyhoeddusrwydd ar y pryd. Ymdriniodd Adroddiad Bullock â sut y gellid gwella dulliau dysgu llythrennedd, a chynigiodd argymhellion ar gyfer hyfforddi athrawon, rhieni a disgyblion, gan nodi

We believe it is essential that all teachers in training, irrespective of the age range they intend to teach, should complete satisfactorily a

substantial course in language and the teaching of reading' (DES 1975:336).

Hynny yw, roedd agweddau ar iaith yn fater a ystyrid yn berthnasol i ddarpar athrawon pob pwnc ar draws y cwricwlwm.

O tua 1980 ymlaen, bu grŵp o athrawon, addysgwyr ac ieithyddion cymhwysol yn cyflwyno elfennau o YI yng nghwricwla ysgolion ar gyfer plant dosbarthiadau hŷn ysgolion cynradd a dosbarthiadau blynyddoedd cynnar ysgolion uwchradd (Hawkins, 1984). Yn ôl Hawkins (1984:4), o'i chyflwyno fel elfen yn y cwricwlwm, roedd YI yn pontio'r gwahanol agweddau ar YI yr arferid eu dysgu ar wahân i'w gilydd, fel elfennau digyswllt mewn pynciau megis Saesneg, iaith dramor, mamiaith lleiafrif ethnig a Saesneg fel ail iaith.

Ymdriniwyd â mater 'gwybodaeth am iaith' mewn adroddiadau dilynol eraill gan Adran Addysg a Gwyddoniaeth Llywodraeth San Steffan. Ym 1988 ymatebodd Adroddiad Kingman i bryderon a fynegwyd gan gyflogwyr a rhieni am safonau gostyngol tybiedig mewn dysgu Saesneg yn yr ysgolion. Yn yr adroddiad hwnnw trafodwyd y diffyg gwybodaeth am yr iaith Saesneg ymhlith athrawon, ac adleisiodd yr adroddiad un o'r argymhellion a fynegwyd gynt gan Bullock, gan gynnig bod

all teachers of English need some explicit knowledge of the forms and the uses of the English language (DES, 1988:4).

Gan hynny, fe ddadleuid, rhaid wrth hyfforddiant priodol i athrawon yn y lle cyntaf er mwyn cyflwyno gwybodaeth o'r fath iddynt a'u cyfarwyddo ar drywyddau hyfforddi myfyrwyr fel y gallent gyflwyno deunyddiau dysgu addas iddynt i'r perwyl hwnnw. Ers dechrau'r 1990au, felly, gwelir mai deunyddiau dysgu yw llawer o'r llenyddiaeth ar y pwnc hwn, a'i chynulleidfa darged yw athrawon, fel y dengys llyfryddiaeth Aplin (1997).

Flwyddyn wedi cyhoeddi Adroddiad Kingman, argymhellodd adroddiad arall, sef Adroddiad Cox:

Knowledge about language should be an integral part of work in English, not a separate body of knowledge to be added on to the traditional English curriculum (DES 1989, para. 6:2).

Yn ôl Richmond (1990:37):

This means that opportunities for the development of knowledge about language should be found throughout the whole language and English curriculum: speaking and listening, reading, writing, drama, media education and information technology.

Yn ogystal, meddai Richmond:

The Cox Report said that there ought to be occasions on which children study aspects of language itself, in its own right (Ibid.:37).

Gwybodaeth am iaith

Gwelsom fod y cymhellion cynnar dros ddatblygu a chyflwyno gwybodaeth am iaith, neu YI, wedi deillio o blith addysgwyr ac ieithyddion cymhwysol a ymddiddorai ynddi fel modd i wella proses caffael a defnyddio iaith. Yn ei gyflwyniad i'r gyfrol *Language in Use*, cyfrol a ragflaenodd ddatblygiad YI, mae Halliday (1971:10) yn nodi:

Language in Use offers a form of language study which can be valued as a rewarding end in itself, namely the development of awareness. However, a basic premise of the volume is that the development of awareness in the pupil will have a positive effect on his competence, though this effect is likely to be indirect and may not show up immediately.

Yng Nghymru, adleisiwyd y safbwynt hwn yn ddiweddarach, am YI fel cangen o wybodaeth i wella dysgu'r iaith Gymraeg, gan y Welsh Working Group yn eu hadroddiad ar *Welsh for Ages 5 to 16* (Welsh Office 1989, para. para. 5.2.). Datganodd y ddogfen honno 'encouraging awareness and understanding of language can lead to improved mastery of it.' Crynhowyd y persbectif hwn fel a ganlyn gan Donmall (1985:7):

Heightened awareness may be expected to bring pupils to increase the language resources available to them and to foster their mastery of them.

Am yr hyn a olygid wrth 'wybodaeth am iaith', gwelir o'r llenyddiaeth ar y pwnc ei bod yn cynnwys agweddau cyd-destunol ar ddefnydd iaith, ac am iaith fel ffenomen gymdeithasol. 'In this view,' meddai Ivanič (1990:125) 'language is not thought of as a pattern, but rather as a purposeful process.' Ceir crynodeb defnyddiol gan Baker a Jones (1998:628) o'r ymagwedd hon at YI, a'r syniadau a lywiodd ei datblygiad:

In the 1970s, language teachers adopted a different view of language to that of accuracy. They saw language, not as a pattern or structure, but as having different purposes or functions. A functional approach to the study of language emphasises the importance of using appropriate communication in varying contexts. The language to be used depends on whom a person is speaking to, on what occasion, where, and particularly for what purpose. Differences in context require different uses of language. (...) Whether students were studying their first language or learning a second or foreign language, the emphasis was on using contextually appropriate language.

Yng ngolwg beirniaid y dull traddodiadol o ddysgu iaith, ni ellid dysgu myfyrwyr i ddefnyddio iaith yn effeithiol heb wybodaeth gyd-destunol o'r fath. Mae Andrews (1998:39) yn beirniadu dulliau traddodiadol, anghyd-destunol o ddysgu iaith fel dulliau a rydd ddealltwriaeth anghyflawn a braidd yn gyfeiliornus o'r modd y defnyddir iaith:

The traditional approach to language study, with its overemphasis on explicit knowledge of prescriptive grammar through atomistic and analytic study of decontextualized, idealized sentences, promoted an homogenized standard of English usage...The result is an abbreviated and often erroneous view of both languages and people and how people actually use language.

Pwysleisia'r awduron hyn felly mai offeryn a ddefnyddir at wahanol ddibenion mewn gwahanol gyd-destunau disgysiol a chymdeithasol yw iaith. Dadleuant y gallai cyflwyno gwybodaeth o'r fath fod yn fodd i hwyluso, cefnogi, cyfoethogi a dyfnhau profiad y dysgwr yn ei ymwneud ag iaith. Byddai hyn yn ei dro yn cynyddu ei ymwybyddiaeth feta-ieithyddol a'i baratoi i allu defnyddio'r iaith yn effeithiol ac ymateb yn effeithiol i wahanol gyweiriau iaith, mewn gwahanol beuoedd defnydd a gwahanol sefyllfaoedd cymdeithasol.

Gwella gafael ar ddefnydd iaith yw byrdwn un o'r naw amcan a gynigiwyd gan Donmall (1985:8) hefyd ar gyfer cyflwyno YI, sef:

To bring about a perception and understanding of the nature and functions of language with a view to increasing the effectiveness of communication in the mother tongue or in foreign languages.

Mae'n arwyddocaol, fodd bynnag, nad ar sail tystiolaeth empirig bwrpasol y cyflwynwyd dadleuon y 'language awareness movement' ac adroddiadau DES y Llywodraeth lle'r hyrwyddid y cysyniad o YI yn ystod y 1980egau. Fe'u seiliwyd yn hytrach ar sail ymresymiad a thybjaeth ymhlith addysgwyr y byddai YI yn fodd i ategu a gwella effeithiolrwydd y dulliau mwy traddodiadol o ddysgu iaith. Wrth gyflwyno canfyddiadau pedwar prosiect ymchwil mewn cyfrol a gyhoeddwyd ym 1992, tyn Garrett a James sylw at y prinder ymchwil empirig ar ddeilliannau ac effeithiolrwydd YI ar y pryd. Tynnant sylw hefyd at 'the fact that the recommendations of the Kingman Report (DES, 1988) were only founded on intuition, in the absence of prior evaluation' (Garrett a James 1992:307). Serch y dadleuon o blaid YI, meddant,

This is the most contentious and certainly the most crucial issue in LA philosophy. The issue is whether knowing about language improves one's performance or command of the language; that is, whether analytical knowledge impinges on language behaviour. There is a large

and growing body of published opinion on this issue in the FL acquisition (applied linguistics) literature, associated in particular with the work of Stephen Krashen. The LA literature itself is optimistic rather than informative on this question (Ibid:17).

Casgliad yr awduron hyn felly yw:

Much of what we have said or have quoted from the writings of other people on this issue of the effects of LA work on performance is largely conjecture. Conjecture it will remain, until such a time as research funding is made available for language educationalists to address these questions empirically (Ibid: 20).

Â'r ddau awdur rhagddynt i alw am ymchwil gwerthusol ar effeithiolrwydd YI i gyd-fynd â'i lledaeniad.

Serch y prinder ymchwil empirig i osod sylfaen gref i adeiladu lledaeniad YI arni yn y cyfnod cynnar, bu'r cynnydd mewn llenyddiaeth arni ers hynny yn fodd i'w datblygu'n gysyniadol, gan gynnig llawer dehongliad ohoni a llawer persbectif gwahanol arni. Gall bwrw golwg dros rai o'r syniadau hyn fod o gymorth i egluro'r hyn a olygir wrth YI.

Tuag at ddiffinio YI

Mae ysgrifenyddwr ar YI yn defnyddio amryw o wahanol dermau i ddisgrifio'r math o wybodaeth sydd dan sylw - yn eu plith ceir 'language in use' (Doughty et al., 1971), 'awareness of language' (Hawkins, 1984); 'language awareness' (Donmall, 1985; Mittins, 1991; Fairclough, 1992; a Garrett a James, 1992); 'awareness of language-in-use' (Arndt et al., 2000); 'knowledge about language' (Carter, 1990) a 'language exploration and awareness' (Andrews, 1998). Dengys disgrifiadau'r awduron uchod o'r hyn a olygir gan y termau hyn eu bod i raddau helaeth yn gyfystyr â'i gilydd. Yn yr isadran hon defnyddiwn y ddau derm 'gwybodaeth ynghylch iaith' (neu wybodaeth am iaith) ac 'ymwybyddiaeth iaith'. Wrth drafod 'gwybodaeth ynghylch iaith' (knowledge about language) yr hyn a olygir yma yw mathau o wybodaeth a gyflwynir fel cyfrwng i godi neu ehangu 'ymwybyddiaeth o iaith' neu 'ymwybyddiaeth iaith' (language awareness) (YI). Fodd bynnag, wrth gyfeirio yn y drafodaeth ddilynol at y defnydd o'r termau hyn gan awduron eraill ar y pwnc, nodwn y gall y ddau derm fod yn gyfystyr â'i gilydd.

Wrth chwilio am ddiffiniad eglurach o'r hyn a olygir wrth 'ymwybyddiaeth iaith', nodwn fod yr amrediad o ymdriniaethau syniadol, meysydd llafur, deunyddiau dysgu a nodau dysgu a luniwyd gan ysgrifenyddwr ar y pwnc i gyd yn cyfrannu at ddiffinio'r maes. Fel man cychwyn, cyfeiriwyd eisoes at sylw Baker a Jones fod y cysyniad o

gyflwyno gwybodaeth ynghylch iaith a ddatblygodd ers y 1970au wedi'i seilio ar 'a functional approach to the study of language' (Baker a Jones, 1998:628). Hynny yw, ystyried defnydd iaith fel 'a purposeful process'chwedl Ivanič (1990:123). Eglurodd Carter sut y cawsai'r modd y dysgid iaith yn ôl Cwricwlwm Cenedlaethol 1990 i ysgolion Cymru a Lloegr ei ddylanwadu'n fawr gan y ddamcaniaeth hon am natur 'swyddogaethol'iaith. Wrth gyfeirio at waith yr Athro Michael Halliday ar y ddamcaniaeth swyddogaethol am iaith sy'n gosod *ystyr* yn ganolbwynt i bob damcaniaeth am iaith, cynigia Carter (1990:10):

The following main features of functional theory:

- The making of meaning is the reason for the invention, existence and development of language.
- All meanings exist within the context of culture. Cultural values and beliefs determine the purposes, audiences, settings and topics of language.
- Texts, spoken and written, are created and interpreted by making appropriate choices from the language system according to specific purposes, audiences, settings and topics.

Ar sail y cysyniad swyddogaethol hwn o iaith, mae amryw o ysgrifenyddyr wedi cynnig amryw o drywyddau dysgu. Mae Hawkins (1984:101-184) yn cyflwyno deunydd am yr agweddau canlynol yn destunau i'w trafod mewn rhaglen YI:

- nodweddion ieithoedd dynol
- ffurfiau ysgrifenedig a ffurfiau llafar ar iaith
- sut mae iaith yn gweithio – patrymau a strwythurau gramadeg
- cyfoeth yr amrywiaeth ieithoedd a geir yn y byd ac o fewn Gwledydd Prydain
- tarddiad a hanes ieithoedd penodol
- sut mae pobl yn dysgu neu gaffael iaith.

Mae awduron eraill wedi cynnig trywyddau dysgu sy'n ymateb i ofynion cwricwlaidd. Wrth gyfeirio at yr agweddau perthnasol ar iaith y rhoddir sylw iddynt yn rhaglenni astudio ar gyfer Blynyddoedd 5 – 10 yng Nghwricwlwm Cenedlaethol 1990, mae Richmond (1990:38) yn mynd rhagddo i rannu'r agweddau hynny o dan bum pennawd:

It would be useful to have some headings for language study, including but not confined to the legal minimum, of potential use throughout all the Key Stages. Suppose we settled on:

- Variety in and between languages;
- History of languages;

- Language and power in society;
- Acquisition and development of language;
- Language as a system shared by its users.

...It goes without saying that all these headings overlap, and that their realisation in the curriculum would be through actual examples and experiences of languages in use, not through their presentation as categories.

Ymhlith y mathau o wybodaeth a grybyllir gan Baker a Jones (1998:628 -634) i'w cyflwyno mewn deunyddiau YI nodir:

- y defnydd o wahanol dafodieithoedd ac acenion
- cyweiriau iaith
- peuoedd defnydd iaith, gan gynnwys amrywiadau defnydd iaith yn ôl dosbarth cymdeithasol, oed, hil, cred, rhyw ac arferiad.

At hyn, ychwanegant y disgrifiad canlynol:

Language awareness involves reflection about languages, encouraging curiosity about language itself, an exploration of language, and the raising of implicit knowledge about language to a conscious, explicit level' (Ibid: 628).

Ymhlith y ffurfiau ac amcanion i YI a ddisgrifir gan Donmall (1985:7-8) nodir:

Language Awareness courses may take a variety of forms, serving a variety of objectives, such as:

- to make explicit and conscious the pupils'intuitive knowledge of their mother tongue.
- to strengthen study skills for the learning of the mother tongue and foreign languages, and other curricular subjects.
- to bring about a perception and understanding of the nature and functions of language with a view to increasing the effectiveness of communication in the mother tongue or in foreign languages
- to reveal the richness of linguistic variety represented in the class by speakers of different dialects or by speakers of a range of mother tongues and to show the relation of that variety to standard written and spoken English without arousing feelings of antagonism or inferiority.
- to foster better relations between all ethnic groups by arousing pupils'awareness of the origins and characteristics of their own language and dialect and their place in the wider map of languages and dialects used in the world beyond.

Cynigiodd Hawkins ddiffiniad cynnar o YI gan ei diffinio ôl ei hamcanion ymarferol wrth weithio gyda myfyrwyr yn yr oedrannau 11-14, sef y cyfnod yn dilyn addysg gynradd, ac mae van Lier (1996:80) wedi crynhoi'r amcanion hynny fel a ganlyn:

Facilitating the start of foreign language studies

- Assisting with 'the explosion of concepts and language' introduced by new subjects
- Connecting different aspects of language education (English, modern languages, minority languages)
- Challenging linguistic prejudice and parochialism through open discussion and greater awareness.

Yn ogystal â'r ffurfiau ar YI a ymarferir i wella dulliau caffael a defnyddio iaith benodol, mae'r pwynt olaf uchod yn tynnu sylw at ymagwedd arall ar YI a arddelir gan athrawon sy'n gweithio mewn sefyllfaoedd gyda myfyrwyr o wahanol gefndiroedd diwylliannol ac ieithyddol. Mae'r garfan hon o athrawon yn ymddiddori mewn YI fel dull o hyrwyddo gwerthfawrogiad o amrywioldeb ieithyddol a diwylliannol. Wrth reswm, cynhwysir athrawon iaith ymhlith y garfan hon, ond mae'n garfan sy'n cynnwys hefyd athrawon pynciau eraill ar draws y cwricwlwm - er enghraifft, addysg grefyddol, drama a llenyddiaeth. Yn y cyswllt hwn, ystyrir YI yn fodd i hwyluso a hyrwyddo goddefgarwch, cyd-ddealltwriaeth a pherthynas dda rhwng gwahanol grwpiau ethnig ac ieithyddol a'i gilydd. Cyfeiria Garrett a James (1992:6) at y ffrwd hon o YI fel 'the LA of multilingual and multicultural classrooms.' Ymhelaethant arni drwy egluro:

In this (...) type of LA the dominant perspective is that of sharing each other's explicit knowledge about their own languages and the aim now is to bridge a different kind of gap, which methodologists might refer to as a *knowledge gap*, or even an *information gap*, which so often divides the conceptual worlds of pupils within the same class. Such a gap (...) creates a natural context for talking about language.

Hynny yw, mae yna wahanol fathau o ymwybyddiaeth sy'n briodol i wahanol ieithoedd. Sonia Arndt et al. (2000:204) mor bwysig yw i athrawon gyfleu 'an awareness of the different interactional styles and conversational strategies stemming from the world's various cultures and languages'. Ymhlith yr enghreifftiau a roddant, cyfeiriant at 'the potential for misunderstanding arising from differences in interpretation of politeness phenomena'. Dadleuant y dylai athrawon sy'n dysgu myfyrwyr i ddefnyddio iaith sy'n newydd iddynt, a gweithredu mewn diwylliant sy'n newydd iddynt, fod yn 'sensitive to, and if necessary be prepared to mediate

between, different culturally-based expectations of how people will behave when they interact with each other through language'(Ibid). Yn y cyswllt hwn, wrth ymwneud â 'the LA of multilingual and multicultural classrooms', fe ystyrir y math hwn o YI yn aml iawn yn gyfraniad at hybu cytgord cymdeithasol. Gellir crynhoi persbectif athrawon sy'n gweithio yn y cyd-destun hwn trwy ddyfynnu Hawkins (1984:4):

By offering a forum where language diversity can be discussed, the new curriculum element will seek to challenge linguistic prejudice and parochialism. The best weapon against prejudice is open discussion and greater awareness.

Buddiol yn y cyswllt hwn yw ystyried y modd y mae rhai awduron wedi ceisio adnabod a dynodi'r peuoedd gwybodaeth a gwmpasir gan yr amryw wahanol fathau o YI, sef yr hyn a elwir gan Donmall yn 'aspects of language awareness'. Yn ôl Donmall (1985:7) bydd rhaglenni YI yn datblygu ymwybyddiaeth a sensitifrwydd i iaith i wahanol raddau yn y tri modd a ganlyn: mewn modd gwybyddol, mewn modd affeithiol ac mewn modd cymdeithasol. Trwy raglenni o'r fath, meddai,

Heightened awareness may be expected to bring pupils to increase the language resources available to them and to foster their mastery of them, to develop the sensitivity and level of consciousness they bring to their experience of language in everyday school and social contexts and eventually to improve their effectiveness as, for example, citizens or as consumers and in their working life (Donmall, 1985:7).

Mae Garrett a James (1992:310) yn defnyddio'r term 'domains' wrth gyfeirio at y tri 'aspect' hyn a ddisgrifir gan Donmall, gan ychwanegu dwy 'bau' arall atynt i ddynodi pum pau gwybodaeth i gyd, ynghyd â'u hamcanion:

Affective: to form attitudes and to awake and develop attention, sensitivity, curiosity, interest and aesthetic response (Donmall, 1985).

Social: to foster better relations among all ethnic groups (Donmall, 1985).

Power: to give the individual control over language and language learning for the achievement and expression of, as well as sensitivity to, identity and purpose.

Cognitive: to improve intellectual functioning

Performance: to improve proficiency.

Gwelir felly o'r drafodaeth uchod fod YI yn cwmpasu amryw fathau o wybodaeth a ddefnyddir at wahanol ddibenion. Dywed Garrett a James (1992:308)

Many people, who would like and feel they ought to, still do not know what the legitimate remit of LA is. We have...pointed to its capacity for self-diversification.

Mae van Lier (1996:79) yn mynegi sylw tebyg ac yn cynnig esboniad syml a chryno iawn am yr amrywiaeth eang o YI drwy nodi bod

The Language Awareness movement...expresses, in general, a concern about the quality and scope of language education in the schools, a concern which is voiced by different parties in different ways. These differences in themselves can lead...to quite divergent conceptions as to what LA actually is, or ought to be, and what its agenda should be. Whenever we hear the term LA being used, we must be acutely aware of this multiplicity of agendas.

Wedi ystyried uchod beth o'r rhychwant eang o ddisgrifiadau ac amcanion a bennir am YI, priodol yw ceisio tynnu ynghyd y gwahanol linyddau syniadol hyn drwy gyfeirio at ddiffiniad cyffredinol a chryno o YI a ddyfynnir yn eang yn y llenyddiaeth ar y pwnc hwn. Dyma'r diffiniad y cytunwyd arno gan y National Council for Language in Education (NCLE) Working Party on Language Awareness, gweithgor a fu'n ymdrin yn bennaf â gweithgareddau ym maes dysgu iaith mewn ysgolion:

Language awareness is a person's sensitivity to and conscious awareness of language and its role in human life (Donmall (1985:7).

Er cytuno â van Lier (Ibid, t. 79) fod y diffiniad hwn, 'simple though it sounds, leaves itself open to an enormous variety of interpretations', a sylw Candlin (1992:xi) fod y diffiniad 'clearly needs unpacking', hawdd cydsynio hefyd â van Lier pan ddywed

This is not necessarily a bad thing in the early stages of a new endeavour. After all, when a field is not yet well staked out, one must leave room for emerging meanings and metaphors (Ibid:79).

Mae diffiniad Donmall uchod ar ran y NCLE felly yn un digon eang i gwmpasu'r lluo o agweddau cymdeithasol-ieithyddol, diwylliannol a hanesyddol sydd ynglŷn ag iaith ac a adlewyrchir yn yr amrywiaeth o drywyddau dysgu ac amcanion a drafodir uchod. Ymhelaetha Donmall ar y diffiniad uchod fel a ganlyn yng nghyd-destun addysgeg:

The teaching of language awareness in schools involves both making explicit and conscious the knowledge and skills that pupils have themselves built up in the course of their experience of language, and developing powers of observation and purposeful analysis of language in their immediate environment and more widely in the world (Ibid:7).

Er pan gyhoeddwyd y diffiniadau uchod, mae'r disgwrs ar YI wedi ehangu i gwmpasu peuoedd eraill heblaw addysgeg ysgolion, ac adlewyrchir yr esblygiad hwn yn y cynnydd sylweddol yn y llenyddiaeth ar y pwnc ers y 1990au. Cafodd y diddordeb cynyddol mewn YI fwy o ffocws a chyfrwng i ddatblygu disgwrs academiaidd arni pan sefydlwyd y cylchgrawn academiaidd chwarterol Language Awareness ym 1992. Ers ei sefydlu mae wedi cyhoeddi papurau yn ymdrin ag amrywiaeth o ieithoedd a chyd-destunau dramor, gan ehangu ymhell y tu hwnt i gwmpas gwreiddiol YI ym Mhrydain.

Yn Ebrill 1994, ddwy flynedd wedi cyhoeddi rhifyn cyntaf y cylchgrawn, sefydlwyd yr Association for Language Awareness (ALA), a daeth Language Awareness yn gylchgrawn swyddogol y gymdeithas. Gwelir y 'Mission statement' canlynol ar wefan y gymdeithas:

The Association for Language Awareness aims at supporting and promoting activities across the whole breadth of Language Awareness. These are conducted in different fields of Language Awareness (e.g. mother tongue learning, foreign language learning, teacher education, language use in professional settings), at a variety of levels (e.g. primary, secondary and tertiary education, professional training and practice), and with objectives in a range of domains (e.g. effects on language performance, on attitudes to language etc) (ALA, d.d.).

Trwy gyfeirio yma at feysydd megis 'language use in professional settings' ac at YI ar lefelau megis 'tertiary education, professional training and practice' a pheuoedd megis ymdrin ag agweddau at iaith, amlygir bod YI bellach yn berthnasol nid yn unig i ysgolion ond hefyd i weithleoedd a hyfforddiant galwedigaethol.

Ymwybyddiaeth feirniadol o iaith (YFI)

O dderbyn diffiniad Donmall uchod fod 'Language awareness is a person's sensitivity to and conscious awareness of language and its role in human life', ac o dderbyn bod hyn yn agored i'w ddehongli mewn llawer dull a modd, ystyrir yn awr un agwedd benodol ar 'conscious awareness of language'.

Yn eu hymdriniaeth gryno nhw ag YI, mae Baker a Jones (1998:628 - 634) yn gwahaniaethu rhwng dau fath o ymwybyddiaeth, sef 'gwybodaeth ynghylch iaith' ('knowledge about language') ac 'ymwybyddiaeth feirniadol o iaith' ('a critical awareness of language'). Wrth wahaniaethu yn yr un modd, cyfeiria Ivanič (1990:123 -125) at 'non-critical views of the nature of language' ac 'a critical view of the nature of language'. Mae ein trafodaeth hyd yma wedi canolbwyntio ar yr hyn a ddisgrifir gan Baker a Jones yn 'wybodaeth ynghylch iaith' ('knowledge about language') a

chan Ivanič yn 'non-critical views of the nature of language' Yn yr adran hon ystyriwn yr hyn a olygir wrth 'ymwybyddiaeth feirniadol o iaith'(YFI).

Mae Candlin (1992:xii) yn tynnu sylw at y ddwy ymagwedd wahanol hyn wrth drafod ystyr y term 'language awareness':

If *language* is difficult to define, then *awareness* is likely to stimulate even greater debate. Is it, for example, to be defined primarily cognitively, in terms of some heightened perception of salience, or socio-psychologically in terms of some ensuing attitude or evaluative judgement or, indeed, sociologically, in terms of connections to be made between language choice and our understanding of the nature and function of social institutions. The alternative growth of a *critical* language awareness movement emphasises how, for some, awareness on its own can never be enough, it has to be awareness *about* and awareness *for*. At first blush, it may seem a tall order to connect a Freirean *conscientização*¹ with the reported beneficial cognitive of bilingualism, yet it may be that the effects of the socially neutral consciousness-raising techniques of some current SLA research might be enhanced if the techniques were informed by such a socially critical dimension.

Gwêl Fairclough (1992:7) fod astudio iaith mewn modd beirniadol yn ddull mwy cynhwysfawr o ddeall defnydd ac arferion iaith:

Critical language study...is not a branch of language study, but an orientation towards language (and maybe in embryo a new theory of language) with implications for various branches. It highlights how language conventions and language practices are invested with power relations and ideological processes which people are often unaware of. It criticises mainstream language study for taking conventions and practices at face value, as objects to be described, in a way which obscures their political and ideological investment.

¹ Mae *Conscientização* yn derm a boblogeiddiwyd gan yr addysgwr ac ymgyrchwr o Frasil, Paulo Freire, drwy ei gyfrol ddylanwadol *Pedagogy of the Oppressed* (1970). Dysgai Freire bobl dlawd ac anllythrennog ym Mrasil i ddarllen, a hynny ar adeg pan oedd yr hawl i bleidleisio yno yn amodol ar fod yn llythrennog. Yn y cyfnod hwnnw roedd llywodraethau unbennaidd a milwrol ar amryw o wledydd De Amerig. Mae'r term Saesneg 'conscientization' yn cael ei ddefnyddio i drosi *conscientização*, ac mae'r ymadroddion 'consciousness raising' a "critical consciousness" hefyd yn cael eu defnyddio i'w drosi. Yn ôl Freire (1970), wrth ddysgu iaith yn y cyd-destun addysgol. Gall ymwybyddiaeth gymdeithasol a gwleidyddol gael eu meithrin drwy wella hyfedredd ieithyddol. Gwneir hynny drwy godi ymwybyddiaeth myfyrwyr o nodweddion polemig ac ieithwedd hegemonaid, a'u gallu i ddarbwylllo neu gyflyru agweddau pobl. Deil Freire fod ymwybyddiaeth o'r fath am rym iaith yn arf ymrymusol. Yng ngeiriau Jones a Baker (1998:632), 'Linguistic awareness attempts to give the student the power of linguistic vigilance.' Deillia'r term yn wreiddiol o'r term Ffrangeg 'conscienciser' a ddefnyddid gan Franz Fanon yn ei lyfr *Black Skins, White Masks* (1952).

Mae'r frawddeg olaf yn arwyddocaol am ei bod yn bwrw goleuni ar yr hyn sydd wrth wraidd YFI yn ôl ei lladmeryddion, sef dadansoddi'r berthynas rhwng iaith a grym mewn cymdeithas. Dywed Halliday (a ddyfynnir yn Carter, 1997:52):

More than any other human phenomenon, language reflects and reveals the inequalities that are enshrined in the social process. When we study language systematically...we see into the power structure that lies behind our everyday social relationships, the hierarchical statuses that are accorded to different groups within society.

Crynoir y dehongliad hwn gan Baker a Jones, wrth iddynt nodi bod YFI yn ymwneud â 'how languages or styles of language reflect and sustain differences in power and status'(1998:633). Mae 'The University of Lancaster's Language-Ideology-Power Group' wedi dadlau y dylai rhaglenni YFI anelu at gynorthwyo myfyrwyr i feithrin ac ymarfer eu gallu i ddadansoddi defnydd iaith yn feirniadol:

Critical awareness of the world ought to be the main objective of all education, including language education. Language awareness programmes ought therefore to help children develop not only operational and descriptive knowledge of their world, but also a critical awareness of how these practices are shaped by, and shape, social relationships and relationships of power. (British Association of Applied Linguistics, 1988: Dyfynnir gan Mittins, 1991: 23).

Wrth drafod rhaglenni dysgu iaith mewn ysgolion, beirniada Shohamy (2006:156 - 157) eu diffyg persbectif beirniadol ar y berthynas rhwng iaith a grym, gan nodi:

There are ample courses about 'language correctness' and 'grammar' in schools; yet there is hardly any learning about the uses and misuses of language in society, in politics, in the public space and the ways that language ideologies are used for propaganda, impositions and coercion. While students in schools do obtain instruction on racism, discrimination and stereotypes, little attention is given to how languages contribute to such ideologies. Students in schools rarely receive any education about language awareness, language misuses and abuses, rights associated with language, language manipulations, and the myths surrounding the views of homogenous standards and language correctness.

Wrth drafod sefyllfaoedd mewn ystafelloedd dosbarth lle ceir siaradwyr ieithoedd lleiafrifol yn ogystal â siaradwyr Saesneg, dywed Bhatt a Martin-Jones (1992: 295 – 296):

The main aim of a critical pedagogy in multilingual classrooms in the British context should be to develop learners' understanding of the

relationship between standard English and minority languages....A historical approach would also need to highlight the fact that values and attitudes about language are socially and politically generated. Particular attention should be given to: (1) the ways in which the values of dominant social groups are imposed and legitimised; (2) the ways in which minority languages and their speakers are represented.

Ceir un ffrwd o lenyddiaeth YI sy'n ymwneud â'r angen i addysgu darpar athrawon ac athrawon yn briodol am agweddau ar YI fel y gallant hwythau yn eu tro gyflwyno YI mewn ysgolion. Ymhlith yr ysgrifenyddwyr sy'n trafod hyn, mae van Lier (1996:89), sy'n dadlau y dylid darparu YFI mewn addysg hyfforddi athrawon, fel sail ar gyfer dysgu YFI mewn ysgolion. Ymhelaetha ar yr hyn a olygir ganddo drwy gynnig y dylai athrawon astudio'r gydberthynas rhwng tair agwedd ar iaith:

A critical view of language shows the interrelationships between text (any piece of language produced in a specific context), sociocognitive processes (the relationships and thoughts expressed in language), and the socio-historical context (the conventions, presupposed roles, and dominant views inherent in the setting).

Oherwydd bod a wnelo YFI ag iaith a grym, mae llawer o'r awduron sy'n ymdrin â hi yn ei thrafod fel offeryn i hybu newid cymdeithasol er mwyn dileu anghyfartaledd. Deil lladmeryddion y dehongliad hwn o bwmpas YFI nad cyfrwng niwtral mo iaith. Yn hytrach, mae'n offeryn sy'n adlewyrchu ac yn creu ideoleg. Mae pwrpas ac ystyr unrhyw ddefnydd iaith yn gynnwys ffactorau cymdeithasol ac yn dibynnu ar safleoedd cymharol y defnyddiwr o fewn y system ieithyddol. Ar yr un pryd, mae arferion defnydd iaith ac arferion disgwrs wedi eu hen ymsefydlu er budd grwpiau cymdeithasol sy'n dominyddu. Oherwydd hyn, rhoddir yr argraff bod yr ystyron a gyflëir gan y grwpiau hyn yn rhai 'naturiol'ac yn anochel - hynny yw, yn normadol - ac mai'r ystyron hynny yw'r unig ystyron sy'n bosibl. Gall YFI fod yn fodd i herio tybiaethau hegemoniaidd o'r fath, medd McKenzie (1992: 226), a gall yr herio fod yn ddylanwad ymrymusol:

Critical linguistics and language teaching attempt to denaturalise the givens of a language system, to problematise its conventions and to show how meaning, because it is socially constructed, can be deconstructed and reconstructed. It is often said by linguists that language is a site of struggle. Critical language teaching aims to bring students within sight of the site so that the view they have of it will empower them to change aspects of their language, and consequently social practice as people.

Mae Janks ac Ivanič (1992:306) yn ymhelaethu ar y dehongliad hwn o YFI fel gwybodaeth ymrymusol ac yn ei thrafod fel cyfraniad at 'emancipatory discourse':

Emancipatory discourse is an integral part of emancipatory practice. It means using language, along with other aspects of social practice, in a way which works towards greater freedom and respect for all people....A critical language awareness (CLA) can contribute to the process of emancipation....Language 'awareness' or 'raised consciousness' is not liberatory enough. Only if CLA empowers people to successfully contest the practices which disempower them would we claim that it is emancipatory. Awareness needs to be turned into action.

Mae amryw o'r is-benawdau yn ysgrif Janks ac Ivanič yn cynnig sawl trywydd syniadol sy'n amlygu'r berthynas rhwng iaith a grym: yn eu plith ceir 'Power and asymmetrical power relations', 'Language and subjection', 'Discourse which does not disempower others', 'Discourse which resists disempowerment' ac 'Emancipatory discourse as part of language education' (Ibid: 306 - 320). Gall cyfranogwyr YFI o'r fath, sef cyfranogwyr yr 'emancipatory discourse'fod yn perthyn i grŵp a ddarostyngwyd neu i grŵp sy'n dominyddu. Mae hyn yn arbennig o berthnasol felly mewn ffurfiau ar YFI a ddatblygir ar gyfer siaradwyr ieithoedd lleiafrifol a ymyleiddiwyd, gan gynnwys HYFIG yng Nghymru, fel a amlygir yn y penodau dilynol.

Mae'n berthnasol hefyd wrth gwrs i sefyllfaoedd lle dysgir Saesneg i fyfyrwyr nad yw Saesneg yn famiaith iddynt. Disgrifia Arndt *et al.* (2000: 218) sefyllfaoedd lle mae myfyrwyr o wledydd tramor yn astudio Saesneg mewn amgylchedd Seisnig a Saesneg, a lle mae'n ofynnol iddynt weithredu'n effeithiol o fewn diwylliant a allai fod yn anghyfarwydd a dieithr iddynt yn gymdeithasol, yn ieithyddol ac yn academaidd. Yn y cyd-destun hwn, meddant, mae deilliannau YFI fel a ganlyn:

Critical language awareness entails – as part of a general sensitivity to language – the particular understanding of how underlying ideology, beliefs and attitudes are encoded in text; how socio-historical contexts and socio-cognitive processes are inevitably bound up together in the interpretation of text; and how learners can exploit this kind of understanding for their own purposes. Such awareness empowers people to 'take control of their writing', to 'challenge orthodoxies and to 'overcome the dilemma of whether to conform or not'to conventional academic practice (Clark *et al.*, 1991: 85) or, in other words, to have a voice of their own.

Cynhwysir y disgrifiad uchod fel rhan o drafodaeth am 'language related contexts involving empowerment'. Fel y gwelir o rai o'r dyfyniadau uchod, mae 'grymuso' neu 'ymbweru' dinasyddion drwy ymwybyddiaeth ieithyddol yn thema

flaenllaw yn y llenyddiaeth ar YFI. Fel y gwelwyd hefyd yn yr adran flaenorol am ymwybyddiaeth anfeirniadol o iaith, mae i YFI hefyd amryw o wahanol ffurfiau a thrywyddau disgwrs.

Clo

Mae esblygiad y cyfeiriadedd beirniadol ar YI o ddiddordeb arbennig i'r rhai sy'n ymddiddori yn nyfodol ieithoedd lleiafrifol, yn enwedig ieithoedd iselfri. Fel y gwelwyd o'r drafodaeth uchod, gall meithrin ymwybyddiaeth feirniadol o iaith arwain at ddadansoddi, cwestiynu a herio'r anghyfartaledd o ran y statws, bri a grym a gysylltir â gwahanol ieithoedd - ac yn bwysicach - y statws, bri a grym a gysylltir â'u siaradwyr. Ategwyd y safbwynt hwn yn erthygl olygyddol rhifyn cyntaf y cylchgrawn Language Awareness, lle nodwyd bod hyrwyddo ymwybyddiaeth o iaith fel offeryn grym yn un o'r rhesymau dros hyrwyddo YI.

There are many reasons put forward to support making people aware of language, some in education and some outside it. The understanding of other peoples' language is one of them. 'Language is a means of social control', says David Abercrombie, and the ability to understand the process of control reduces the efficacy of the control (Language Awareness, 1992:1).

Yn ôl Janks (1993: iii),

What makes critical language awareness critical is its concern with the politics of meaning: the ways in which dominant meanings are maintained, challenged and changed. (...) Social norms are a good indication of power relations as many of them reflect the values of the people or groups in society who have power. This is particularly so when different groups do not have equal language rights.

Yn y cyswllt hwn felly, gall ymwybyddiaeth feirniadol o iaith fod yn offeryn grymuso siaradwyr ieithoedd iselfri, fel y'i disgrifir gan Baker a Jones (1998:634):

It may be important for people to become critically aware of their own values with regard to languages, any conflicts in those values, and importantly, to become aware that language used by higher status groups can be patronising, demeaning, disrespectful, offensive and exclusive. Language minorities are labelled, patronized, excluded, distanced and devalued by language majority groups. Critical language awareness can give someone self-assurance in how, when, where and with whom they

use their one, two or more languages. A bilingual may thus feel confident and safe enough to challenge the present power structures and differences in status that are marked by language.

Y mae'r drafodaeth am YFI yn y bennod hon wedi ymdrin â hi fel un ffrwd neilltuol o ddisgwrs beirniadol diweddar a chyfredol a darddodd o faes addysgeg dysgu iaith. Yn y bennod nesaf ystyrir sut yr esblygodd ffurfiau ar YFI yng Nghymru mewn maes gwahanol i faes addysgeg, sef y bau cynllunio ieithyddol yn y cyfnod er pan basiwyd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Mae'r drafodaeth uchod am sut yr esblygodd ffurfiau beirniadol ar YI o'r ffurfiau anfeirniadol cynnar yn cael ei hadlewyrchu hefyd yn natblygiad HYFIG, fel y dangosir yn y drafodaeth ddilynol.

Pennod 2

Datblygiad Hyfforddiant Ymwybyddiaeth am yr Iaith Gymraeg yng Nghymru ar gyfer sefydliadau cyhoeddus

Cyflwyniad

Yn y bennod hon ystyrir sut yr esblygodd HYIG yn negawd olaf yr ugeinfed ganrif ochr yn ochr â phroses sefydliadoli'r Gymraeg yn dilyn Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Ar ddechrau'r bennod gosodir y Ddeddf honno yn ei chyd-destun hanesyddol gan ddangos iddi gynrychioli newid sylfaenol yn agwedd y wladwriaeth at yr iaith. Ystyrir sut yr esblygodd HYIG yn wreiddiol fel ymyriad hyfforddi ar gyfer staff sefydliadau cyhoeddus er mwyn hwyluso p'roses dwyieithogi'r sefydliadau hynny yn unol â Deddf 1993. Olrheinir sut y lledaenwyd a phrif-ffrydiwyd ef gan BYIG ar draws y sector cyhoeddus yn ystod ail hanner degawd cyntaf y mileniwm, fel math o ymyriad cynllunio ieithyddol eilaidd.

Wrth i HYIG ledaenu, cafwyd sawl dehongliad gwahanol ohono, a chyflwynir yma rai o'r gwahanol ddiffiniadau a ddatblygwyd, ynghyd â'r diffiniad a ddefnyddir yn y penodau dilynol at ddibenion y traethawd hwn. Ceir trafodaeth am ddeilliannau bwriedig HYIG yng ngolwg y rhai sy'n ei gomisiynu, ac mae hyn hefyd yn bwrw goleuni ar ei bwrpas.

Yn adran olaf y bennod trafodir y ffurf feirniadol ar HYIG sy'n brif destun y traethawd hwn. Cyflwynir model enghreifftiol o raglen sesiwn HYIG o'r math beirniadol, a disgrifir rhai elfennau o'r cynnwys, gan amlygu'r agweddau beirniadol ar yr elfennau hynny.

Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Chynlluniau Iaith Gymraeg

Trafodwyd ym Mhennod 1 sut y gall ymwybyddiaeth feirniadol o iaith (YFI) fod yn fodd i ddeall, cwestiynu a herio'r berthynas rhwng ieithoedd a'i gilydd o ran y grym a'r statws a gysylltir â nhw. Hawdd deall felly sut y daeth hyn yn fater arbennig o berthnasol yng Nghymru yn y cyfnod a ddilynodd basio Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Yn ôl y ddeddf honno, 'wrth gynnal busnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal' (HMSO 1993: rhan 1, adran 3(2)(b)). Deddfwyd felly fod dwy iaith a fu am ganrifoedd maith yn anghyfartal iawn eu statws, eu grym a'u dylanwad, i'w trin o hynny ymlaen gan

gyrff cyhoeddus a chan y system gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru 'ar y sail eu bod yn gyfartal'.

Ar y pryd, roedd hyn yn newid sylweddol a phellgyrhaeddol iawn mewn polisi cyhoeddus ar yr iaith Gymraeg. Yn unol â Deddf 1993, bu'n rhaid i sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r sector gweinyddu cyfiawnder fynd i'r afael am y tro cyntaf erioed â'r dasg o gynllunio ar gyfer gweithredu egwyddor cydraddoldeb ieithyddol wrth ddarparu eu gwasanaethau i'r cyhoedd ac ym mhob cyfathrebiaeth ganddynt â'r cyhoedd yng Nghymru. Daeth yn ofynnol iddynt baratoi Cynlluniau Iaith Gymraeg (CIG) statudol yn dangos sut y byddent yn gwneud hynny yn ymarferol. O dan y Ddeddf, bu'n rhaid cyflwyno pob CIG ar ffurf ddrafft i BYIG i'w gymeradwyo ganddo yn gynllun statudol gweithredol. Rhwng 1996, pan gymeradwywyd y CIG cyntaf, a Mawrth 31 2012 pan ddaeth y Bwrdd i ben, cymeradwyodd y Bwrdd 558 o gynlluniau o'r fath (Williams, 2014: 216). Mae llawer o'r rhain bellach ar ffurf ail, trydydd neu bedwerydd fersiwn, oherwydd cynhwysai pob cynllun ymrwymiad gan y sefydliad a'i weithredai i'w adolygu' ar ôl rhyw bedair neu bum mlynedd o weithrediad.

CIG yw'r prif erfyn a grëwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 i roi egwyddor cyfartaledd ar waith, a BYIG yw'r asiantaeth a grëwyd dan y Ddeddf i hyrwyddo a goruchwylio proses p'aratoi a gweithredu'r cynlluniau hynny. Wrth i sefydliadau wynebu'r dasg o lunio a gweithredu CIG, amlygwyd yr angen iddynt ailfeddwl a diwygio'r hen batrymau ymddygiad at y Gymraeg. Roedd eu harferion hegemoniaidd wedi hen ymsefydlu ym mhob agwedd ar eu' cyswllt â'r cyhoedd ac ym mhob gwasanaeth a ddarperid i'r cyhoedd. 'Bydd hyn, heb os, yn golygu cryn newid agwedd i lawer o sefydliadau', meddai Cadeirydd BYIG yn ei Ragair i'r canllawiau statudol ar baratoi Cynlluniau Iaith (BYIG 1996a: 3).

Roedd Deddf 1993 yn ymyriad statudol mewn proses hanesyddol a welsai ddirywiad sylweddol yn nifer a chanran siaradwyr y Gymraeg yn ystod yr ugeinfed ganrif. 'Y mae dwy wedd ar hanes y Gymraeg yn yr ugeinfed ganrif, sef y gostyngiad yn nifer y siaradwyr a'r frwydr am gydnabyddiaeth swyddogol' (Jenkins a Williams, 2000:1-2)². Bu'r ddwy wedd hyn yn dylanwadu ar ei gilydd. Bu'r dirywiad yn destun pryder cyffredinol ynghylch dyfodol y Gymraeg, a'r pryder hwnnw yn ei dro yn porthi'r galw am gydnabyddiaeth swyddogol iddi. Bu'r ymgyrchu cynyddol gan ddinasyddion yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif am gydnabyddiaeth swyddogol yn ganolog i'r mudiad amlweddog dros adfywio'r Gymraeg yng Nghymru (Williams, 2014).

² Am agweddau perthnasol ar y cefndir hanesyddol sy'n gyd-destun i Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, gweler Carter, 1990; Davies, 1990: penodau 9 a 10; Davies 1995 a 1999; Jenkins (gol.), 1998 a 1999; Jenkins a Williams (goln.), 2000; Jones, 1993 a 1997: 327 - 426; Jones, 1999: pennod 11; Stephens (gol.), 1973; a Williams, 1980 a 1990.

O'r 1960au cynnar ymlaen gwelwyd ymchwydd yn y pwysau a ddygwyd ar asiantaethau'r llywodraeth gan ymgyrchwyr iaith mewn sawl maes. Cafwyd ymgyrchoedd i sicrhau statws cyfartal swyddogol; hyrwyddo a lledaenu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg; pwysu am wasanaethau cyhoeddus dwyieithog; sefydlu'r sianel deledu Cymraeg S4C a phwyso'n unswydd am ddeddfwriaeth ar y Gymraeg. Mae Williams (2014: 243) wedi cyfeirio at y cyfnod rhwng 1962 a'r 1980au fel 'a period of mobilization linked to a wider sustained protest at the perceived unfair treatment of Welsh in public and civic life.' Ychwanegodd

'the driver for language revitalization has been the unstinting commitment of individuals acting as parents, local socio-political activists, or decision makers' (Ibid: 267).

Hyd at ddegawdau canol yr 20^{fed} ganrif roedd y Gymraeg wedi ei chau allan o'r rhan fwyaf helaeth o gylchoedd swyddogol busnes llywodraethol, is-lywodraethol a gweinyddol, ac o'r system gyfreithiol ers rhagor na 400 mlynedd gan ddeddfwriaeth, hynny yw, gan 'gymalau iaith' Deddf Uno 1536³. Bu tuedd eisoes ar waith cyn y ddeddf honno, tuedd a gryfhawyd yn sylweddol gan y ddeddf, i siaradwyr Cymraeg a siaradwyr Saesneg yng Nghymru etifeddu peuoedd defnydd iaith a gysylltai ddefnydd y Saesneg fwyfwy â pheuoedd uchelfri. Roedd y peuoedd hynny yn cynnwys y llywodraeth, y gyfraith, gweinyddiaeth gyhoeddus, masnach ac addysg. Cysylltid defnydd y Gymraeg â pheuoedd iselfri megis y cartref, y gymuned a'r gweithle. Yn sgil hynny, etifeddodd cenhedlaeth ar ôl cenhedlaeth o siaradwyr Cymraeg a siaradwyr Saesneg yng Nghymru ideolegau ac arferion defnydd iaith a gyflyrid gan hegemoni dilyffethair yr iaith Saesneg (Jenkins,1999). Parhaodd y sefyllfa hon i raddau helaeth hyd at ddegawd olaf yr ugeinfed ganrif. Mewn ysgrif a gyhoeddwyd ugain mlynedd cyn Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, ysgrifennodd Rees (1973a: 211)

By 1965, the process of concentrating power in the hands of the state had been gathering force for over fifty years. Yet in that year the Hughes Parry Committee could report that, outside the field of education, the Welsh language had been 'in effect ignored by the British state machinery' and that English was the traditional language of legal and public administration throughout Wales. 'There is no sphere of

³ Cyhoeddodd Deddf 1536 mai'r Saesneg fyddai iaith y llysoedd barn yng Nghymru a 'frome hensforth no persone or personnes that use the Welsche speche or langage shall have or enjoy any maner office or fees within the Realme of Englonde, Wales or other the Kinges dominions upon peyn of forfeiting the same offices or fees onles he or they use and exercise the speche or langage of Englishe' (Dyfynir yn Davies, J. 1999: 21.) Parhaodd 'cymal iaith' (adran 17) Deddf Uno 1536 ar y llyfr statud hyd nes ei ddiwygio gan adran 1 Deddf Llysoedd Cymru 1942.

activity'they added, 'where tradition can hold such a tight grip on practice as in these two fields.'

Yn yr un casgliad o ysgrifau am y cyfnod rhwng Deddfau'r Iaith Gymraeg 1967 a 1993, wrth ystyried dylanwad y diffyg cydnabyddiaeth i'r Gymraeg a'r diffyg defnydd ohoni mewn llawer pau swyddogol, ysgrifennodd sylwebydd arall

that the framework of institutions through which other modern languages perpetuate themselves is virtually non-existent here (Rees,1973b: 246).

Yn wyneb hegemoni grymus y Saesneg, roedd gofyniad Deddf 1993 i gyrrff cyhoeddus 'drin y ddwy iaith ar y sail eu bod yn gyfartal'wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder, yn gryn her iddynt, ac y mae'n parhau i fod felly, i raddau amrywiol.

Datblygiad cynnar HYIG wrth i sefydliadau adnabod yr angen amdano

Roedd mwyafrif helaeth y rheolwyr a staff a gyflogid gan gyrrff cyhoeddus adeg pasio Deddf 1993 heb ymwneud fawr ddim erioed â'r iaith Gymraeg mewn sefyllfaoedd gwaith o'r blaen. Cyn iddi ddod yn ofynnol i reolwyr a staff weithredu CIG, ni fuasent yn gyfarwydd â'r cysyniad o ddwyieithrwydd swyddogol a chyflwyno gwasanaethau yn ddwyieithog⁴. Gyda rhai eithriadau prin, roedd peuoedd gwasanaeth a gweinyddiaeth y mwyafrif o gyflogwyr cyhoeddus yn rhai lle gynt y defnyddid y Saesneg yn unig at bob diben ffurfiol (Rees,1973a). Yn y cyfnod yn dilyn Deddf 1993, felly, newyddbeth pur anghyfarwydd i'r mwyafrif helaeth o weithwyr yn y sector cyhoeddus oedd yr her defnyddio'r Gymraeg yn y peuoedd hyn.

Bu BYIG, ac asiantau eraill megis *Iaith*, yn cyfarfod ag amryw o reolwyr a staff a chanddynt bryderon neu ansicrwydd ynghylch y syniad o arddel dwyieithrwydd yn eu sefyllfaoedd gwaith. Yn aml iawn gallai hyn fod yr un mor wir am staff Cymraeg ag am staff di-Gymraeg. Roedd aelodau o'r ddwy garfan wedi hen arfer â'u peuoedd iaith swyddogol, eu codau a'u cyweiriau defnydd iaith yn y gweithle. Oherwydd y

⁴ Seilir llawer o'r drafodaeth ddilynol am weithrediad CIG statudol ar brofiad proffesiynol yr awdur yn ymgynghorydd cynllunio ieithyddol ers 2001. Yn ystod y cyfnod hwnnw bu'n darparu cyngor ac arweiniad i gyrrff cyhoeddus ar weithrediad CIG ac arfer dwyieithog da. Fe'i seilir hefyd ar ei brofiad cyn hynny ym maes polisi iaith a gwasanaethau iaith awdurdodau lleol yng Ngogledd-orllewin Cymru (1979 -2001). Seilir llawer o'r wybodaeth am bersbectif Swyddogion Iaith cyrrff cyhoeddus ar ei brofiad pellach fel cydsefydlydd ac un o swyddogion arweiniol cyntaf *Rhwydiaith*, sef rhwydwaith i gefnogi gwaith swyddogion iaith awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill, o 1995 hyd 2001. Gweinyddir *Rhwydiaith* gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac fe bery'n fforwm i Swyddogion Iaith ddod ynghyd i rannu profiadau ac arfer da, a chyd-drafod agweddau strategol ar weithredu CIG a'r Safonau Iaith arfaethedig a baratoir o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Am waith *Iaith* gweler www.iaith.eu ac am waith *Rhwydiaith* gweler <http://www.wlga.gov.uk/cymraeg/rhwydwaith-rhwydiaith/>

prinder addysg uwch a hyfforddiant galwedigaethol trwy gyfrwng y Gymraeg, roedd swyddogion proffesiynol yn y sector cyhoeddus, bron yn ddieithriad, wedi derbyn eu haddysg uwch a'u hyfforddiant galwedigaethol, ac wedi ennill eu hyder a'u statws proffesiynol drwy gyfrwng y Saesneg.⁵ Yn yr un modd, roedd y rhan fwyaf helaeth o staff rheng flaen mewn sefyllfaoedd gwasanaethol hefyd wedi etifeddu traddodiad hirfaith o wasanaethu'r cyhoedd yn Saesneg yn unig. O'r herwydd, yr oedd, ac y mae o hyd i ryw raddau, deimlad ymhlith rhai staff Cymraeg a di-Gymraeg fel ei gilydd bônt yn rheolwyr, yn swyddogion proffesiynol neu'n staff rheng flaen, fod proses dwyieithogi gwasanaethau a gweithleoedd yn herio'r hyder, yr awdurdod a'r statws a feddid ganddynt yn Saesneg yn unig.

Esgorodd hyn ar ganfyddiad cyffredinol fod angen i ddarparwyr gwasanaethau ar draws y sectorau cyhoeddus droi at ymgynghorwyr proffesiynol yn y maes cynllunio ieithyddol am gymorth ac arweiniad i hwyluso 'rheoli'r newid' (a defnyddio term sy'n perthyn i ieithwedd hyfforddi rheolwyr). Y 'newid' dan sylw yn y cyswllt hwn oedd cyflwyno'r rhaglen o newidiadau sefydliadol a fyddai'n ofynnol yn sgil mabwysiadu a gweithredu CIG.

Ymhlith y mesurau a argymhellid gan BYIG yn eu dogfen arweiniad ar baratoi CIG, gofynnwyd am 'ymrwymiad i roi cyfrifoldeb cydlynol am y cynllun i uwch swyddog'(BYIG, 1996a: 45). Felly, yn ogystal â derbyn cynghorion ar faterion ieithyddol gan swyddogion BYIG, ers canol y 1990au ychwanegodd llawer o gyrrff cyhoeddus swydd neu swyddogaeth 'Swyddog Iaith'at eu strwythur staffio. Byddai'r swyddog hwnnw yn darparu'r gwasanaethau ymgynghorol hyn yn fewnol yn ôl y gofyn, gan feithrin arbenigedd pwrpasol fel bod modd ei deilwra yn ôl union anghenion y sefydliad. Ychwanegodd rhai cyrff eraill y cyfan neu rai o'r cyfrifoldebau am y Gymraeg at bortffolio dyletswyddau swyddog arall megis swyddog polisi neu swyddog cydraddoldeb.

Agwedd bwysig arall ar reoli a hwyluso'r newidiadau angenrheidiol o fewn cyrff cyhoeddus wrth iddynt weithredu CIG oedd yr angen i'r cyrff hynny gyfathrebu â'u staff er mwyn cyflwyno iddynt ddealltwriaeth o'r cysyniad o 'drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal'. Roedd hyn yn cynnwys cyfarwyddo staff ynghylch goblygiadau gweithredol eu CIG statudol. Gofynasai dogfen arweiniad y Bwrdd ar baratoi CIG am fesur ym mhob cynllun i sicrhau 'bod rheolwyr yn cael y cyfrifoldeb o weithredu'r agweddau hynny o'r (sic) cynllun sy'n berthnasol i'w hadrannau hwy'. (BYIG, 1996a: 45). Bu'n rhaid i reolwyr wrth arweiniad yn benodol

⁵ Am orolwg beirniadol o'r sefyllfa parthed y ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg ym maes addysg uwch yng Nghymru ym mlynnyddoedd cyntaf y mileniwm, gweler Wyn Jones (2004).

ar gyflwyno a meithrin yn ofalus y dulliau newydd o ymdrin â'r Gymraeg mewn amryw o feysydd rheolaethol, er mwyn gweithredu cysyniad y Bwrdd o brif-ffrydio'r Gymraeg. Ymhlith y meysydd hyn cynhwysid llunio strategaethau corfforaethol, cynlluniau busnes, cyllidebau, polisïau a gwasanaethau, a threfniadau cytundebu â thrydydd parti. Mater pwysig arall oedd yr angen i gaffael a rheoli mewn modd strategol y sgiliau dwyieithog a fyddai'n angenrheidiol i alluogi cyrff cyhoeddus i ddarparu eu gwasanaethau Cymraeg yn effeithiol.

Ar lefel staff y rhyngwyneb gwasanaethau, gofynasai'r Bwrdd yn ei ddogfen arweiniad am 'ymrwymiad i sicrhau bod pawb yn y sefydliad yn gyfarwydd â'r cynllun, a bod staff yn gwybod sut mae ei weithredu, a beth sydd i'w ddisgwyl ganddynt' (BYIG, 1996a: 45). Gan hynny, bu'n rhaid wrth arweiniad penodol ar yr arferion newydd, gweithdrefnau newydd a chanllawiau gweithredu y byddai'n ofynnol iddynt eu dilyn yn eu gweithleoedd ac mewn sefyllfaoedd rheng flaen wrth ymdrin â'r cyhoedd yng Nghymru. Nododd y ddogfen arweiniad hefyd 'yn ogystal â chanllawiau ysgrifenedig, gall sesiynau hyfforddi neu friffio fod yn briodol hefyd' (Ibid:43).

I'r diben hwn, rhwng tua 1996- a 2000 bu nifer cymharol fach ond cynyddol o gyrff cyhoeddus yn arloesi drwy ddarparu HYIG i'w staff. Gan amlaf, swyddogion iaith mewnol y sefydliadau a fyddai'n darparu'r hyfforddiant hwn, yn enwedig os oedd ar ffurf sesiynau cyfarwyddo staff ar weithredu mesurau penodol y CIG. Ond gwelwyd hefyd yn ystod y cyfnod dan sylw, ac ers hynny, y defnydd cynyddol o nifer fach o hyfforddwyr allanol arbenigol. Trwy gyfrwng *Rhwydiaith* a rhwydweithiau eraill i swyddogion, a thrwy gynghorion a chyhoeddiadau BYIG, a chyhoeddiadau a chyrсияu gan *laith* ac eraill, lledaenwyd gwybodaeth am HYIG ac am hyfforddwyr cymwys a allai ei ddarparu.

Er cymaint o hwb a roddodd Deddf 1993 i ddatblygiad HYIG, mae'n bwysig cofnodi hefyd yr oedd y tir eisoes wedi ei fraenaru ychydig flynyddoedd ynghynt ar gyfer datblygu'r maes, a hynny dros gyfnod cyn dechrau gweithredu'r CIG cyntaf o 1996 ymlaen. Ymhlith yr arloeswyr a fu'n datblygu syniadaeth a deunyddiau HYIG, roedd ymarferwyr yn y sector gofal, Elaine Davies, Hywel Williams a Rhian Huws Williams, ill tri yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol ac yn darparu'r hyfforddiant ei hunain; a Siân Wyn Siencyn, a'i chefnidir proffesiynol hi ym maes gofal plant. Dros y chwarter canrif diwethaf, dyma'r meysydd lle y gwelwyd llawer o flaengarwch a gwaith arloesol ym maes HYIG. Gwelwyd cyhoeddi deunyddiau gan yr awduron uchod ac eraill yn fuan wedi i Ddeddf 1993 ddod i rym, yn cyplysu HYIG ag ymwybyddiaeth o ymarfer ieithyddol-sensitif a gwrth-orthrymol wrth ddarparu gofal cymdeithasol a gofal iechyd. Gosodwyd sylfaen syniadol gref i'r ffrwd ddisgwrs hon gyda chyhoeddi'r gyfrol *Gwaith Cymdeithasol a'r laith Gymraeg* (Davies, Huws Williams a Williams, 1994). Ar ddechrau'r mileniwm cyhoeddwyd adroddiad

dylanwadol gan Misell (2000) am brofiadau defnyddwyr Cymraeg y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, dogfen a gododd ymwybyddiaeth o fewn y proffesiynau gofal am ddiffygion ieithyddol y ddarpariaeth, ac a roes hwb i lawer o weithgarwch dilynol yn y maes.

Deunyddiau hyfforddi oedd llawer o ddogfennaeth ddylanwadol y cyfnod. Cyhoeddwyd pecynnau HYIG gan Davies (1994, 2001, 2009), Siencyn (1994) ac eraill yn benodol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol gan bwysleisio bod defnydd priodol o iaith yn elfen hanfodol o safon ac ansawdd y gwasanaeth wrth weithio gyda chleientiaid. Yn yr un modd, ymdriniodd Davies (1999) ag arferion da ar gyfer 'darparu gwasanaeth dwyieithog sensitif gyda golwg ar sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a gweinyddu'r gyfraith', a bu Roberts a Williams (2003) a Ioan a Howys (2003) yn ymdrin â'r angen i hybu ymarfer iaithyddol addas mewn gofal iechyd. Bwriadwyd y deunyddiau hyn at ddefnydd ymarferwyr proffesiynol ac maent yn gosod arferion defnydd iaith ac agweddau at iaith yn ddiamwys yng nghyd-destun y gwerthoedd proffesiynol a moesegol a arddelir gan eu cynulleidfa darged.

Eu thema waelodol, fel y'i mynegir gan Davies (2001), yw 'Nid consesiwn yw sicrhau dewis iaith i ddefnyddwyr ond yn hytrach rywbeth sy'n mynd at wraidd ymarfer da.' Dangosodd Davies fod y cysyniad o gynnig dewis iaith yn fodd i rymuso'r cleient yn y berthynas rhyngddo ef a'r gweithiwr, boed yn berthynas claf â meddyg, neu weithiwr cymdeithasol â chleient. Mewn perthynas o'r fath bydd y defnyddiwr gwasanaeth yn aml yn teimlo'n ddi-rym ac yn meddwl mai gan y gweithiwr y mae'r awdurdod, y wybodaeth arbenigol a'r sgiliau i ymdrin â'r cyflwr dan sylw. Ond, gall iaith fod yn ffactor allweddol sy'n effeithio ar y cydbwysedd grym neu'r berthynas rym rhwng y naill a'r llall. Gall fod yn gyfrwng i bontio a chreu awyrgylch fydd yn annog y defnyddiwr i siarad a chael rheolaeth dros yr hyn sy'n digwydd (Ibid.). Mae trafodaeth am yr angen am sensitifwydd iaithyddol a diwylliannol wrth ddarparu gwasanaethau gofal yn un a ddeöllir yn rhwydd nid yn unig o fewn y proffesiynau perthnasol ond hefyd gan lawer y tu hwnt iddynt.

Bu'r ffrwd ddisgwrs hon yn ddylanwadol iawn ar ddatblygiad HYIG yn gyffredinol, a'r drafodaeth ynghylch y berthynas rhwng iaith a grym yw sylfaen llawer o'r gwaith mwyaf treiddgar, fel a drafodir ymhellach maes o law. Paratôdd Llinos Dafis ddeunydd cwrs hyfforddi (Dafis, 1993) 'ar gyfer gweithwyr yn y gwasanaethau cyhoeddus' gan gyflwyno'r cwrs am gyfnod o 1993 ymlaen i wahanol gynulleidfaedd o fewn y sector, gan gynnwys 'byrddau iechyd a'r Heddlu ymhlith eraill'⁶. Yn ail hanner y 1990au bu'r ymarferwyr uchod yn ogystal â Gareth Ioan o *Iaith* a rhai swyddogion iaith mewnol o fewn cyrff cyhoeddus, yn defnyddio, yn addasu ac yn

⁶ Llinos Dafis, mewn neges e-bost at yr awdur, 22.7.08

ehangu ar gwmpas y deunyddiau hyfforddi a oedd ar gael wrth ddarparu eu cyrsiau i swyddogion cyrff cyhoeddus. Ym 1998 cyhoeddodd BYIG becyn hyfforddiant a anelid yn benodol at reolwyr yn y sector cyhoeddus (Ioan, 1998). Yn ystod y cyfnod wedi 1993 felly, datblygodd carfan fechan o hyfforddwyr HYIG, a datblygodd y dulliau hyfforddi a'r deunyddiau hyfforddi a oedd ar gael mewn modd 'organig' wrth ymateb i anghenion cyrff a weithredai fesurau CIG statudol a CIG gwirfoddol.

Erbyn hyn, amlhaodd testunau hyfforddi HYIG, gan gymhwysu a theilwra negeseuon canolog y deunyddiau ffurfiannol ar gyfer sefyllfaoedd cryn nifer o asiantaethau mewn sectorau amrywiol. Cyhoeddwyd amrediad eang o ddeunyddiau hyfforddi mewn amryw o wahanol fformatau yn amrywio o fodiwlau ar-lein i staff Heddlu Gogledd Cymru ar y fewnrwyd; ar CD Rom i staff Cyngor Sir Caerfyrddin (Davies, 2008) a DVD i ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg (Ioan a Davies, 2013). Rhestrir yn agos i 30 o gyhoeddiadau o'r fath ar wefan *laith* yn unig, sef deunyddiau a ddatblygwyd gan ei ymgynghorwyr ei hun a'i ymgynghorwyr cysylltiol (laith, d.d.).

O 1998 hyd tua 2006, cafwyd hefyd gydweithredu rhwng yr hyfforddwyr mwyaf blaenllaw er mwyn ceisio sefydlu cymdeithas o ymarferwyr; rhannu adnoddau, arbenigedd a phrofiad; datblygu hyfforddwyr newydd a deunyddiau newydd a datblygu'r dadleuon deallusol dros gyfraniad HYIG at faes cynllunio iaith, a'r 'achos busnes' drosto.⁷ Er y gweithgarwch hwn, rhwystrwyd datblygiad y maes gan ddiffyg buddsoddiad craidd ynddo. Awgrymodd cyn-Brif Weithredwr BYIG y gellid priodoli'r diffyg buddsoddiad i'r diffyg profiad o HYIG a'r diffyg arbenigedd arno ymhlith staff prif asiantau cynllunio ieithyddol y wladwriaeth, fel y nodwyd o'r blaen (Jones, 2014).

Lledaenu a phrif-ffrydio HYIG trwy waith BYIG ac asiantaethau eraill

Yn wyneb y 'twf organig' a amlinellir uchod mewn HYIG yn ystod y degawd a aeth heibio wedi cymeradwyo'r CIG statudol cyntaf ym 1996, gwelwyd hefyd BYIG yn cydnabod gwerth HYI yn raddol, ac wedyn yn rhoi mwyfwy o bwys ar gyfraniad HYIG i broses gwreiddio a gweithredu CIG. Yn ei ddogfen arweiniad a gyhoeddwyd ym

⁶ Dyma'r amcanion y cytunwyd arnynt mewn cyfres o gyfarfodydd achlysurol a gynhelid gan *laith* rhwng 1998 a 2006. Hefyd, cynhaliwyd cyfarfod agored i ymarferwyr gan *laith* ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod yn 2003, lle y cytunwyd ar nifer o argymhellion. Ymhlith yr argymhellion, cytunwyd i annog BYIG i fabwysiadu agwedd gynlluniedig a strategol tuag at gefnogi datblygiad HYIG. Dadleuwyd hefyd y dylid sefydlu cymdeithas broffesiynol i ymarferwyr a chynllun i hyfforddi darpar hyfforddwyr newydd. Yn ddiweddarach, cyhoeddwyd argymhellion tebyg mewn adroddiad gan Dafis *et al.* i ELWa: 'Argymhelliad 12: Dylid hyrwyddo cymdeithas broffesiynol ar gyfer y maes, gyda chyfansoddiad ac amcanion addas ar gyfer datblygiad y proffesiwn, gan gynnwys rhoi cyfrwng i'r ymarferwyr rwydweithio a rhannu profiadau, i safoni a chysoni arfer, ac i hyrwyddo a gwarchod buddiannau'r maes' (Dafis *et al.*, 2005: 4).

1996 ar baratoi a gweithredu CIG, ni ddefnyddiwyd y term 'hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith' o gwbl yn y testun. Serch hynny, roedd y canllawiau'n cynnwys gofyniad i Gynlluniau gynnwys 'ymrwymiad i sicrhau bod pawb yn y sefydliad yn gyfarwydd â'r cynllun, a bod staff yn gwybod sut mae ei weithredu, a beth sydd i'w ddisgwyl ganddynt' (BYIG 1996a: 45)⁸. Ond nid oedd y canllawiau'n cynnwys cyfarwyddyd penodol i gyrrff cyhoeddus gyflwyno gwybodaeth o'r fath ar ffurf hyfforddiant pwrpasol i'w staff. Ar drywydd cyffelyb, yn ei ddogfen strategaeth gyntaf a gyhoeddwyd yn yr un flwyddyn â'r canllawiau statudol, cydnabyddai'r Bwrdd fod 'angen dylanwadu ar agweddau ac arferion pobl tuag at ddefnyddio'r iaith Gymraeg, er mwyn eu hannog i wneud y gorau o'r cyfleoedd sydd, neu a fydd, ar gael iddynt'. Ychwanegodd fod angen hefyd 'strategaethau cyffredinol i feithrin agweddau cadarnhaol at yr iaith, ac i annog pobl i'w defnyddio' (BYIG, 1996b: 12).

Cafwyd cyfarwyddyd mwy penodol ynghylch HYIG wrth i'r Bwrdd gyhoeddi yn 2005 gyngor i awdurdodau lleol ar faterion i'w hystyried wrth ddiwygio eu CIG. Roedd y cyngor hwnnw yn cynnwys cyfeiriad penodol at HYIG. Cynhwysai'r cyngor ofyniad i awdurdodau fabwysiadu chwe dangosydd cyflawniad newydd, sef Dangosyddion Iaith Gymraeg (DIG) 1 - 6. Ymhlith y chwe dangosydd y gofynnid i awdurdodau gyflwyno gwybodaeth fonitro arnynt yn eu hadroddiadau monitro blynyddol i'r Bwrdd, cafwyd un yn ymwneud â hyfforddi staff, sef dangosydd ac iddo ddwy ran, gyda'r geiriad a ganlyn:

Adnoddau dynol – sgiliau
DIG 4
(a) Nifer a % y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant yn y Gymraeg i lefel o gymhwyster penodol. <i>Arddangos medr. Ein bwriad yw nodi achrediad cydnabyddedig.</i>
(b) Nifer a % staff sydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith. <i>Mae hyn yn ymwneud â safon y gwasanaeth.</i>

(BYIG, 2005a: 28).

⁸ Yn y cyngor a roddir yn adran 3 o dan yr is-bennawd Cyfarwyddiadau ac Arweiniad, eglurir 'Yn y rhan fwyaf o sefydliadau, bydd yn hanfodol cael canllawiau ysgrifenedig ynglŷn â sut i ddelio â materion fel gohebiaeth, trefnu cyfarfodydd neu ateb y ffôn. Bydd angen cyfarwyddiadau manylach ar gyfer mesurau eraill megis arddull gorfforaethol, cyhoeddiadau, comisiynu rhaglenni cyfrifiadurol a dylunio ffurflenni. Yn ogystal â chanllawiau ysgrifenedig gall sesiynau hyfforddi neu friffio fod yn briodol hefyd' (BYIG 1996a:43). Dyma'r cyngor a ddehonglwyd mewn modd rhagweithiol gan yr awdurdodau hynny a arloesodd trwy ddarparu HYIG yn y cyfnod 1993-2000.

Er nad oedd y cyngor hwn yn ymhelaethu'n fwy nag a ddyfynnir yma ar yr ail ofyniad, sef (b) uchod, parthed HYIG, roedd yn fynegiant eglur o ddisgwyliad y Bwrdd i awdurdodau lleol ddarparu HYIG i'w staff. Mae'r ail ofyniad yn arwyddocaol hefyd am ei fod yn cyplysu'r gofyniad ynghylch HYIG â gofyniad ynghylch hyfforddiant Cymraeg yn gyffredinol, fel petai'r naill yn perthyn yn briodol ochr yn ochr â'r llall. Bu cynnwys gofyniad o'r fath yn arwydd pendant o ddatblygiad HYIG yn ystod degawd cyntaf gweithredu CIG. Derbynnid a deëllid HYIG i'r fath raddau ymhlith darpar gynulleidfa'r cyngor hwn fel nad ystyriai'r Bwrdd fod angen cynnwys nodyn eglurhaol ynddo i esbonio beth oedd HYIG, na chyfiawnhad manwl dros gynnwys 'DIG' arno. Mae'n arwyddocaol mai'r unig esboniad a roddir am bennu'r gofyniad hwn yw'r frawddeg gwta sy'n ei ddilyn, sef: 'Mae hyn yn ymwneud â safon y gwasanaeth'. Ymddengys felly y cysylltid HYIG felly â darparu gwasanaeth o safon dda.

Yn ogystal â disgwyliadau'r Bwrdd parthed awdurdodau lleol, wrth i'r Bwrdd gyfathrebu â chyrrff cyhoeddus eraill byddai'n arferiad ganddo fanteisio ar gyfleodd i dynnu sylw at HYIG ac i argymhell iddynt y dylid ei ddarparu i'w rheolwyr a staff.⁹ Yn y modd hwn gwelwyd prif-ffrydio argymhellion o blaid HYIG yng nghynghorion a chyfathrebiadau eraill y Bwrdd i gyrff cyhoeddus.

Yn yr un modd, cynhwysid negeseuon ac arweiniad pendant i'r un perwyl yn ei gyfathrebiadau â chyrrff o'r tu allan i'r sector cyhoeddus, sef cyrrff nad oedd yn ofynnol iddynt baratoi CIG statudol. Ymhlith y rhain ceid nifer sylweddol o gyrff gwirfoddol a baratoesai CIG gwirfoddol anstatudol. Wrth gyfathrebu â nhw, rhoddai'r Bwrdd bwyslais ar godi ymwybyddiaeth gweithwyr a gwirfoddolwyr o fewn y sector. Ynfuan yn ystod oes y Bwrdd, noddasai gyhoeddi canllawiau arfer da yn unswydd i'r sector gwirfoddol (Thomas,1996) yn ogystal â noddi pecyn HYI i'r sector (Ioan a Siencyn, 1998). Yn ddiweddarach pwysleisiodd y Bwrdd bwysigrwydd HYIG hefyd yn ei *Strategaeth Sector Gwirfoddol* (BYIG, 2008b) ar gyfer cyrrff yn y sector gwirfoddol. Yn ogystal, trwy gyfrwng ei brosiect Estyn Llaw a sefydlwyd 'er mwyn cefnogi mudiadau gwirfoddol a chymunedol i ddatblygu dwyieithrwydd ac er mwyn hybu gwirfoddoli ymhlith siaradwyr Cymraeg', buwyd yn darparu HYIG i gyrff yn y sector gwirfoddol o 2000 hyd ddiwedd oes y Bwrdd.¹⁰

O gofio mai trefn datblygu CIG yn y sector cyhoeddus a symbylodd y twf mewn HYIG, diddorol sylwi mai ELWa (Education and Learning Wales), ac nid BYIG,

⁹ Er enghraifft, wrth i'r Bwrdd ymateb i adroddiadau monitro blynyddol cyrrff cyhoeddus, ac yn eu cylchlythyron, cynghorion, canllawiau a gohebiaeth iddynt ar wahanol faterion, manteisiai ar gyfleodd i gyfeirio at HYIG. Bu'r awdur yn dyst i hyn wrth ddarparu gwasanaeth ymgynghorol i amryw o gyrff cyhoeddus o'r fath yn y cyfnod dan sylw.

¹⁰ *Iaith* a fu'n gyfrifol am redeg y prosiect Estyn Llaw ar ran Bwrdd yr Iaith Gymraeg ers sefydlu'r prosiect yn 2000. O'r dechrau felly, bu lleoli'r prosiect o fewn y corff hwnnw yn fodd i sicrhau bod cyswllt agos rhwng gwaith Estyn Llaw ac arbenigedd a profiad *Iaith* mewn HYIG.

a ymatebodd i'r twf mewn HYIG drwy gynnal yr arolwg cyntaf o'r maes. Yn 2004 comisiynodd ELWa, y corff oedd yn gyfrifol am ddatblygu addysg a hyfforddiant yng Nghymru o 2000 hyd 2006,

arolwg o faes hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith [HYI] – yr hyn a ddarparwyd, a'r hyn sydd ei angen - yn y gweithle a'r gymuned. Y bwriad [oedd] defnyddio canlyniadau'r ymchwil i gynorthwyo ELWa ac eraill i gynllunio rhaglenni HYI priodol, ac i ddatblygu'r maes yn fwy strategol. (Dafis *et al.*, 2005:6).

Yn adroddiad yr arolwg hwnnw cynigiwyd nifer o argymhellion ar gyfer datblygu maes HYIG. Diddorol sylwi felly mai o bersbectif 'addysg a hyfforddiant' yn hytrach nag o bersbectif cynllunio ieithyddol y cynhaliwyd yr arolwg hwn o'r maes.

Ond yn 2006 ymatebodd BYIG i ganfyddiadau ac argymhellion adroddiad ELWa yn eu dogfen *Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith - strategaeth ddrafft* a ddosbarthwyd ar ffurf ddrafft ymgynghorol i nifer cyfyngedig o gyrff perthnasol.¹¹ Yn y ddogfen honno eglurodd mai pwrpas y strategaeth drafft oedd rhoi arweiniad canolog ar yr angen i strwythuro, datblygu a safoni'r maes (BYIG, 2006a:4). Er cynnal yr ymgynghoriad cyfyngedig, ni chyhoeddwyd fersiwn terfynol o'r strategaeth.¹² Yn 2008 ymatebodd y Bwrdd i'r gweithgarwch yn y maes drwy gyhoeddi, ar y cyd â LICC, ddeunyddiau HYIG ar ffurf *Pecyn Ymwybyddiaeth Iaith* 'ar gyfer unigolion a grwpiau sydd eisiau cyflwyniad i faes Ymwybyddiaeth Iaith'(BYIG / Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008:3).

Nid BYIG ac ELWa yn unig a gydnabu bwysigrwydd ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg i brosesau cynllunio ieithyddol yng Nghymru. Yn sgil sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) ym 1999, datganolwyd o Lywodraeth San Steffan i Gaerdydd bwerau dros feysydd polisi addysg a diwylliant. Yn ystod tymor cyntaf bodolaeth y Cynulliad Cenedlaethol, cynhaliodd dau o'i Bwyllgorau, sef y Pwyllgor Diwylliant a'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, adolygiad ar y cyd o'r iaith Gymraeg yn 2001 - 2002. Ni chyfeiriwyd yn benodol at HYIG yn y ddogfen adolygu polisi a gyhoeddwyd yn sgil yr ymarferiad hwnnw, *Ein Hiaith: Ei Dyfodol* (CCC, 2002a) nac yn y datganiad polisi a gyhoeddwyd tua'r un adeg, *Dyfodol Dwyieithog* (LICC, 2002). Fodd bynnag, yn y ddogfen *Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu*

¹¹ Mae'n berthnasol nodi bod tri o bedwar awdur adroddiad Dafis *et al* (2005) yn gyn-uwch swyddogion BYIG, a bod 'dangosyddion iaith Gymraeg' y Bwrdd (a gynhwysai ddisgwyliadau i Gynghorau gyflwyno HYI i'w staff) wedi eu cyhoeddi yn yr un flwyddyn ag y cyhoeddwyd yr adroddiad hwnnw.

¹² Mewn cyfweiliad i ddibenion y traethawd hwn, awgrymodd cyn-Brif Weithredwr y Bwrdd fod y modd yr 'hawliodd' ELWa swyddogaeth arolygu'r maes hwn yn un o'r ffactorau a ataliodd y Bwrdd rhag ymwneud ag ef i raddau helaethach. Ffactor arall oedd diffyg arbenigedd ymhlith aelodau staff y Bwrdd ei hun ar HYIG. Trafodir agweddau ar hyn ymhellach ym Mhennod 5.

Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwylieithog a olynodd y ddau gyhoeddiad rhagarweiniol hynny, cafwyd sawl cyfeiriad at strategaethau codi ymwybyddiaeth. Er enghraifft, mewn pennod yn trafod 'Fframwaith Polisi Cenedlaethol', trafodir neilltuo cyllid ychwanegol at 'fentrau sydd â'r nod o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn enwedig yn y sector preifat a chan bobl ifanc, yn ogystal â chynyddu ymwybyddiaeth o'r iaith a hyder pobl i ddefnyddio'r Gymraeg' (CCC, 2003:16). Mewn pennod arall, wrth drafod datblygu 'Gwefan Pecyn Croeso'BYIG at ddefnydd pobl sy'n mudo i Gymru, nodir mai diben hon fyddai 'Rhoi gwybodaeth am y gymuned a'r diwylliant i bobl sy'n symud i Gymru a'u hannog i barchu'r iaith a'r diwylliant a mynd ati i ddysgu'r iaith' (Ibid:36). Ceid cyfeiriadau eraill at ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg mewn rhan o'r testun a drafodai ddefnydd y Gymraeg o fewn y gwasanaeth iechyd. Datganwyd mai rhan o swyddogaeth Uned Iaith Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) Cymru fyddai 'codi ymwybyddiaeth, statws a phwysigrwydd materion iaith o fewn y GIG yng Nghymru ac Adran GIG Cymru' (Ibid:48). Wrth nodi bod 'Gweithgor Cymru Gyfan ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg' wedi ei sefydlu yn 2001 i hwyluso sicrhau darpariaeth Gymraeg ar draws y GIG yng Nghymru, datganwyd bod

Y Gweithgor wrthi'n datblygu a gweithredu rhaglen ymwybyddiaeth iaith ar gyfer yr holl staff a myfyrwyr ym mhob Ymddiriedolaeth GIG a Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru i helpu i ddatblygu dealltwriaeth o sensitifrwydd iaith fel ffactor wrth ddarparu gwasanaethau gofal iechyd. Mae'r Gweithgor hefyd wrthi'n comisiynu Prosiect Ymwybyddiaeth Iaith mewn Ymchwil Gofal Iechyd, a fydd yn edrych ar lefelau ymwybyddiaeth iaith ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yng Nghymru. (Ibid.: 47).

Sylwer mai dyma'r unig gyd-destun - gwasanaethau gofal iechyd - a drafodid yn *Iaith Pawb* a gynhwysai gyfeiriad penodol at ymwybyddiaeth iaith ar ffurf *rhaglen ar gyfer staff*. Sylwer hefyd na thrafododd HYIG fel pwnc penodol, ac ni chyfeirir ato yn yr un pennawd neu is-bennawd.

Dylanwad arall o bwys ar broses prif-ffrydio HYIG oedd y cyfeiriadau ato yng Nghynllun Iaith Gymraeg LICC. Yng Nghynllun Iaith cyntaf Llywodraeth y Cynulliad¹³, a gymeradwywyd yn 2002, ymdrinnid yn adran 7.3 â briffio a hyfforddi staff a datgenir Cyflwynir newydd-ddyfodiaid i'r Cynllun ac i ymwybyddiaeth o ddwyieithrwydd fel rhan o'u cyrsiau cynefino, a byddwn yn sicrhau bod

¹³ Gwahanodd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 *Gynulliad Cenedlaethol Cymru* (sef y sefydliad datganoledig a gynhwysai 60 aelod etholedig) yn ffurfiol oddi wrth *Llywodraeth Cynulliad Cymru*. CIG y cyntaf sydd dan sylw yn y frawddeg hon a'r dyfyniad sy'n ei dilyn.

cyrsgau ar ymwybyddiaeth o ddwyieithrwydd ar gael yn fwy cyffredinol. (CCC, 2002b:35).

Ar adeg ei gyhoeddi roedd y CIG hwn yn berthnasol i weithrediad rhyw 3,500 o staff mewn tua 70 o isadrannau ar hyd a lled Cymru.¹⁴ Erbyn cyhoeddi CIG Cymraeg ar wahân ar gyfer *Cynulliad Cenedlaethol Cymru* ym 2007, o dan y pennawd Briffio a Hyfforddi yn y Cynllun hwnnw cafwyd yr ymrwymiad canlynol ynddo:

...Bydd pob aelod staff a phob aelod o staff asiantaeth yn derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth ieithyddol. Bydd hwn yn cael ei drefnu drwy raglen gyflwyno yn ystod 12 mis cyntaf y Cynllun a thrwy'r broses gynefino barhaus. (CCC 2007:24).

Yn ogystal â bod yn berthnasol i'r staff canolog a gyflogid yn uniongyrchol gan y Cynulliad ei hun ar hyd a lled Cymru, roedd ymrwymadau'r ddau Gynllun Iaith Gymraeg hyn yn dylanwadu ar y nifer sylweddol o 'gyrff a noddid gan y Cynulliad'. Gosodai esiamplydd ynt o'r ymrwymadau a weithredid gan eu hadrannau noddi canolog.

Fodd bynnag, yn strategaeth gyfredol LIC ar y Gymraeg, *Iaith Fyw: Iaith Byw*, nid oes unrhyw ymdriniaeth sylweddol â HYIG ac mae'n arwyddocaol nad yw'r unig gyfeiriad ato yn cynnwys unrhyw gamau gweithredol yn ei gylch:

Canfuwyd bod diffyg hyder yn un o'r prif rwystrau a oedd yn atal staff rhag defnyddio eu sgiliau Cymraeg wrth eu gwaith. Ymddengys i hyfforddiant ynglŷn ag ymwybyddiaeth ieithyddol fod yn gyfrwng llwyddiannus i gynyddu agweddau positif tuag at y Gymraeg ymhlith staff. (LIC, 2012a:12).

Un o ddogfennau strategol pwysicaf y cyfnod diweddar, o ran prif-ffrydio HYIG mewn sectorau lle y ceir darpariaeth syddymhlith y mwyaf sensitif o wasanaethau cyhoeddus, yw *Mwy Na Geiriau - Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol* (LIC, 2012b). Un o'r amcanion strategol a bennir yn y ddogfen hon (Ibid:21) yw cyflwyno ymwybyddiaeth iaith i staff y sectorau hyn er mwyn sicrhau gwasanaethau gofal sy'n ieithyddol-briodol a diwylliannol-sensitif i'w defnyddwyr Cymraeg.

Arwydd sicr arall o'r modd y prif-ffrydiwyd HYIG yw bod pob un o'r ddau ar hugain o awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n gweithredu CIG cyfredol un ai wedi darparu neu wedi datgan (yn eu Cynlluniau Iaith a ddiwygiwyd ers 2005) fwriad i

¹⁴ Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2002b: adran 2:2-3

ddarparu HYIG i'w staff. Disgwyliad BYIG iddynt wneud hynny fu'n bennaf gyfrifol am y datblygiad hwnnw, fel y nodwyd yn gynharach.

At hynny, bwriwyd goleuni ar ledaeniad ehangach HYIG yng nghanfyddiadau arolwg ELWa a gynhaliwyd yn 2004-5. Anfonwyd holiaduron at 336 o sefydliadau ac unigolion i'w holi am ddarpariaeth HYIG i'w staff. O'r 147 o gyrff a ymatebodd, 11 yn unig a ddatganodd nad oeddent wedi darparu unrhyw HYIG i'w staff. Roedd mwyafrif y gyrff a ymatebodd yn gyrff cyhoeddus, ond roedd y sampl yn cynnwys hefyd 16 corff gwirfoddol a 2 gorff preifat. Dengys y tabl isod a'r nodiadau atodol iddo a ddyfynnir o'r adroddiad hwnnw gymaint yr oedd HYIG wedi lledaenu erbyn 2004-5, yn ôl y diffiniad eang iawn o HYIG a ddefnyddid gan yr awduron.

TABL 6: Ydy staff neu aelodau'r sefydliad wedi cael unrhyw hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith?

Cefndir y sefydliad	Do	Do i raddau †	Naddo ‡	Cyfanswm
Llywodraeth leol	19	0	0	19
Iechyd	10	1	10	21
Addysg	16	9	0	25
Cymru gyfan	6	6	1	13
Prydeinig	15	13	0	28
Cyfiawnder	3	5	0	8
Preifat	0	2	0	2
Gwirfoddol	11	5	0	16
Iaith a chysylltiedig	8	7	0	15
Cyfanswm	88	48	11	147

† O'r 48 a atebodd 'Do i raddau', roedd eu nodiadau yn dangos bod y mwyafrif ohonynt unai wedi, yn, neu'n bwriadu darparu elfennau o leiaf o HYI yn fewnol. Mewn nifer ohonynt, golygai 'I raddau' yn syml mai rhai staff yn unig a gafodd yr hyfforddiant. Mae nodiadau mwyafrif y gyrff a atebodd 'Do' yn dangos mai 'I raddau' y darparwyd HYI ynddynt hwy hefyd. Ceir mwy am hyn yn adrannau nesaf yr adroddiad.

‡ O'r 11 a atebodd 'Na', nododd 8 ohonynt fod bwriad i ddarparu HYI neu drefniadau mewn llaw, neu y gwneid hynny, efallai. Dim galw, neu ddim cefnogaeth gan y corff, oedd esboniad y 3 arall.

Gwelir o DABL 6 bod mwyafrif y sefydliadau ym mhob sector wedi darparu rhyw lun ar HYI. Fodd bynnag, dengys yr atebion bod gwahaniaethau mawr yn natur a digonolrwydd yr hyfforddiant a ddarparwyd o sefydliad i sefydliad. (Ffynhonnell: Dafis *et al.*, 2006:12).

O'r drafodaeth uchod gwelir y modd y cafodd ystyriaeth o HYIG ei phrif-ffrydio yng ngofynion a disgwyliadau BYIG i sefydliadau ar draws y sector cyhoeddus, ac yn ymrwymadau CCC yn ei Gynlluniau Iaith Gymraeg. Rhoddwyd sylw iddo hefyd yn strategaethau Llywodraethau Cymru ar y Gymraeg, er mai sylw ymylol yn unig oedd hwnnw. Trafodir mewn rhannau eraill o'r traethawd hwn sut y mae diffyg arbenigedd o fewn BYIG a LIC (Jones, 2014) wedi golygu na roddid ond sylw ymylol i HYIG yn y prif destunau polisi ieithyddol. Fe'i lledaenwyd yn hytrach fel ymyriad cynllunio ieithyddol eilaidd gan sefydliadau is-wladwriaethol lleol a sectorol, yn hytrach na fel prif ymyriad yn yr amrediad o strategaethau gan brif asiantau ieithyddol y wladwriaeth.

A barnu yn ôl datganiadau diweddar, ymddengys fod y diffyg adnabyddiaeth o botensial HYIG yn parhau. Nid oes unrhyw arwydd, er enghraifft, fod y Llywodraeth wedi adnabod ei berthnasedd i'w hymdrechion cyfredol i 'newid ymddygiad ieithyddol'. Mae 'newid ymddygiad ieithyddol' yn un o bedair thema a drafodir yn gryno yn natganiad polisi diweddaraf y Llywodraeth ar y Gymraeg. Cyfeiria'r datganiad at fwriad y Llywodraeth i ymchwilio i ddulliau 'marchnata cymdeithasol' a 'lansio brand newydd er mwyn datblygu negeseuon cyson ar draws ein mentrau polisi o ran y Gymraeg' (LIC, 2014a: 21). Er bod y sylw cyfredol gan y Llywodraeth i faes 'newid ymddygiad ieithyddol' i'w groesawu, ymddengys yr ymyleiddiwyd rôl ddichonol HYIG yn y broses honno hyd yn hyn, er mwyn parhau i weithredu pwyslais y paradeim neo-ryddfrydol ar farchnata. Ni chyfeirir o gwbl yn y testun at gyfraniad posibl HYIG i'r maes, ond cyflwynir tystiolaeth ym Mhennod 6 a ddengys ei berthnasedd HYIG i'r agenda hwnnw.

Tuag at ddiffinio HYIG

O gofio union natur yr angen a'r galw am HYIG yng Nghymru, a datblygiad yr hyfforddiant hyd yma, defnyddiol yn y cyswllt hwn yw ailystyried y drafodaeth flaenorol ym Mhennod 1 am y modd y datblygodd y gwahanol agweddau ar YI ym

maes addysgeg iaith yng Ngwledydd Prydain. Dangoswyd ym Mhennod 1 nad ar sail ddamcaniaethol gadarn na thystiolaeth ymchwil empirig y datblygodd YI a'r 'Language Awareness Movement' yn y cyd-destun hwnnw, ond ar sail canfyddiadau a dehongliadau ymarferwyr o anghenion y maes. Deillio o *praxis* dysgu caffael iaith a wnaeth YI felly. Yn yr un modd, trafodwyd uchod sut y datblygodd HYIG yng Nghymru nid ar sail ddamcaniaethol gadarn na thystiolaeth ymchwil empirig ym maes cynllunio ieithyddol, ond yn hytrach o *praxis* gweithredu'r model cynllunio ieithyddol a ddatblygodd cyn ac ar ôl Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Diau fod geiriau van Lier (1996:79) a ddyfynnir yn y bennod flaenorol yn wir am YI yn y ddau gyd-destun: 'Whenever we hear the term LA being used, we must be acutely aware of this multiplicity of agendas.' Wedi dweud hynny, nid oes hyd yma ystod mor eang ac amrywiol o ffurfiau HYIG a chynulleidfaoedd iddo ag sydd i'r lliaws o ffurfiau YI a arferir ym maes addysgeg caffael iaith.

Ar y cyfan, mae'r rhai a dderbyniodd HYIG bron i gyd yn swyddogion sy'n gweithredu CIG statudol neu wirfoddol yn unol â chyfarwyddyd ac arweiniad a roddid gan BYIG gynt. Er bod amrywiaeth o wahanol fathau o gyrff o fewn y sectorau hyn, gofynion yn deillio o'r model cynllunio ieithyddol a weithredir ers 1993 a gymhellodd eu hymwneud â HYIG. O'r cyd-destun hwn felly y tarddodd rhai diffiniadau o HYIG.

Yn yr arolwg a gynhaliwyd ar ran ELWa yn 2004-05 defnyddiwyd y diffiniad eang a ganlyn o HYIG:

Unrhyw weithgaredd strwythuredig, wedi ei drefnu yn benodol at bwrpas codi ymwybyddiaeth ynglŷn â dwyieithrwydd, ar gyfer y rhai sy'n gweithio neu'n byw yng Nghymru (Dafis *et al.*, 2005:6).

Ceisiwyd ymhelaethu ar hyn mewn diffiniad diweddarach y cytunwyd arno gan BYIG a Changen Polisi Dwyieithog, Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC):

Hyfforddiant strwythuredig sy'n cyfleu naws a statws yr iaith ac yn cynnig egwyddorion sylfaenol i unigolion sy'n byw yng Nghymru, neu'n gweithio i sefydliad sy'n darparu gwasanaeth i'r cyhoedd yng Nghymru. (BYIG, 2006a:11).

Erbyn 2010, roedd BYIG wedi datblygu disgrifiad mwy soffistigedig o HYIG. O dan y pennawd 'Beth yw hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith - a ddylwn ni ystyried hyfforddiant o'r fath?' cyhoeddodd y Bwrdd y nodyn canlynol ar ei wefan ym Mai 2010:

Byddai hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith yn edrych ar gwestiynau sylfaenol ynglŷn â:

- 1) Beth yw iaith a sut mae iaith yn gweithio.
- 2) Iaith a'r unigolyn.
- 3) Iaith a grym.
- 4) Iaith a diwylliant.
- 5) Dwyieithrwydd.
- 6) Statws ieithoedd.
- 7) Dewis iaith.
- 8) Perthynas defnyddwyr ieithoedd gwahanol.

Mae'r lefel o hyfforddiant sydd angen yn amrywio'n fawr. Gall atebwyr ffôn a gweinyddwyr elwa o dderbyn sesiwn hanner diwrnod o hyfforddiant, tra gallai reolwyr a gweithwyr maes dderbyn hyfforddiant dwysach. Waeth ar ba lefel bynnag y cynigir yr hyfforddiant, gall hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith fod yn gyfrwng i agor trafodaeth gadarnhaol ar bynciau sensitif ynghyd ag ateb rhai rhagdybiaethau a rhagfarn (BYIG, 2010a).

Yn yr un flwyddyn, mewn cylchgrawn ar-lein a gyhoeddwyd ar y cyd gan CBAC a Chymraeg i Oedolion, crynhodd Elaine Davies natur y math o HYIG a gyflwynid i staff cyrff cyhoeddus:

Y nod yw plethu ynghyd yn ystod y sesiwn hyfforddi ryw dair elfen ganolog, sef cyfle i ystyried agweddau a gwerthoedd personol at y Gymraeg; derbyn peth gwybodaeth ffeithiol am y Gymraeg; a chymhwyso hynny wedyn ar gyfer y man gwaith drwy ystyried sut i greu shifft o blaid y Gymraeg, boed ar lefel polisi, strategaeth neu arferion gwaith bob dydd (Davies, 2010b).

Yn 2011, cynigiodd Sgiliaith ddisgrifiad ar ei wefan o HYIG a ddarperid ganddo yng nghyd-destun y maes addysg. Roedd yn ddisgrifiad o hyfforddiant i'w gynnal mewn ysgolion a cholegau 'ar gyfer cyrsiau TAR Addysg a Hyfforddiant, a staff ym maes addysg yn gyffredinol'. Nodwyd hefyd 'gellir addasu darpariaeth ymwybyddiaeth iaith i gyd-destunau proffesiynol eraill'.

Mae'r hyfforddiant yn gyfle i wella dealltwriaeth unigolion o'r agweddau ehangach sy'n gysylltiedig ag iaith a diwylliant. Mae'n rhoi'r cyfle i gasglu gwybodaeth am ymwybyddiaeth iaith ac archwilio eu hymateb eu hunain i faterion iaith. Mae'n bosib hefyd i unigolion godi eu hymwybyddiaeth a dealltwriaeth o stereoteipio, rhagfarn a gwahaniaethu, gyda sylw arbennig i wahaniaethu ar sail iaith. Gellir hefyd darparu diweddariad o sefyllfa'r Gymraeg o ran polisiâu a threfniadau ansawdd addysg gyfredol ar lefel leol a chenedlaethol. (Sgiliaith 2011)

Diffiniad arall y cyfeiriwyd ato yn arolwg ELWa (Dafis *et al.*, 2005: 6), ac un sydd wedi ei wreiddio mewn cymdeithaseg ieithyddol a seicoleg gymdeithasol, yw'r diffiniad o HYIG a luniwyd gan *laith*, sef:

Yr hyn sydd ei angen er mwyn ymdeimlo, gwerthfawrogi a chanfod iaith fel ymddygiad cymdeithasol. Diben yr hyfforddiant, felly, yw amlygu sut mae agweddau a chanfyddiadau ynglŷn ag iaith yn effeithio a dylanwadu ar y berthynas rhwng pobl ar lefel sefydliadol ac ar lefel bersonol o fewn y gymdeithas (*laith*, 2005).

Manylodd *laith* ar y diffiniad uchod drwy atodi iddo ddisgrifiadau bras o'r tri math o hyfforddiant y gofynnid amdanynt amlaf gan gyrff cyhoeddus:

- (i) Hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith - sy'n delio yn bennaf â chyfleu gwybodaeth sylfaenol am y Gymraeg, am faterion ieithyddol ac am agweddau ac ymddygiad tuag at iaith;
- (ii) Hyfforddiant datblygu dwyieithrwydd – sy'n delio â threfniadau gweinyddol a chefnogol er darparu gwasanaethau dwyieithog; a
- (iii) Hyfforddiant arferion iaith – sy'n delio â gweithdrefnau ymarferol ac arferion gwaith ynghyd â rhyngberthynas unigolion yn y gweithle ac sy'n hyrwyddo sensitifrwydd ac addasrwydd iaith (*Ibid.*)

Yng ngweddill y traethawd hwn wrth gyfeirio at HYIG yr hyn a olygir gan amlaf yw'r math cyntaf uchod, ond mae'n bwysig nodi y gall y categori hwn gynnwys hefyd rai elfennau o'r ail a'r trydydd math, er nad y rhain yw prif fyrdwn yr HYIG y cyfeirir ato fwyaf. Y mae'r math o hyfforddiant y dadleuir drosto yn y ddoethuriaeth hon yn fath *beirniadol* o'r categori cyntaf a ddisgrifir uchod.

Y mae cydberthynas agos rhwng y tri maes hyn ac ym meddyliau'r mwyafrif o gyflogwyr sy'n holi am HYIG, maent i gyd yn perthyn o dan yr un pennawd cyffredinol 'hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith'. Serch hynny, yn ôl *laith*, gall gwahaniaethu rhyngddynt fod yn ddefnyddiol o ran cynorthwyo hyfforddwyr i gynllunio a thargedu'r union fathau o hyfforddiant y mae eu hangen ar gyrff unigol.

Fel y gwelwyd wrth drafod YI ym Mhennod 1, gall ystyried deilliannau bwriedig yr hyfforddiant fwrw mwy o oleuni ar y diffiniadau ohono.

Deilliannau bwriedig HYIG

Yng nghyfnod cyntaf BYIG o 1996 - 2003, sef cyfnod sefydlu'r systemau ar gyfer paratoi, gweithredu a monitro CIG, y deilliannau dysgu a ddymunid gan amlaf gan gyflogwyr wrth ddarparu HYIG oedd sesiynau yn canolbwyntio ar gyflwyno gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, cyflwyno prif fesurau'r CIG. Byddai hyn yn

cynnwys amlinellu gofynion gweithredol perthnasol y CIG; trafod y cysylltiad rhwng y CIG a strategaethau perthnasol eraill y sefydliad (e.e. parthed Cyfle Cyfartal, Safonau Gwasanaeth, a Gofal Cwsmer); a chyflwyno gwybodaeth gyd-destunol am y Gymraeg. Gallai'r deilliannau bwriedig yr anelid atynt mewn HYIG i reolwyr gynnwys yn ogystal rai agweddau strategol a rheolaethol, er enghraifft parthed prifffrydio'r Gymraeg mewn gwasanaethau; rheoli'r newidiadau angenrheidiol yn niwylliant y gweithle; a chynllunio systemau a gweithlu dwyieithog (Dafis *et al.*, 2005:14).

I ddibenion y traethawd hwn cynhaliwyd arolwg o 10 o swyddogion a drefnodd HYIG ar ran 7 corff cyhoeddus. Gofynnwyd iddynt 'pa amcanion oedd gennych mewn golwg wrth drefnu'r hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith?' Dengys eu hatebion i gwestiwn 1 yn Atodiad 5 nad oedd eu hamcanion yn wahanol iawn i'r rhai a nodir uchod.

O ran penderfynu pa swyddogion y dylid eu targedu a'u blaenoriaethu i dderbyn HYIG o fewn cyrff cyhoeddus, mae profiad *laith* a hyfforddwyr eraill yn awgrymu'n gryf y dylai rhaglen hyfforddiant effeithiol ddechrau 'ar y brig' drwy hyfforddi uwch reolwyr y corff yn gyntaf. Byddai ymwybyddiaeth ac empathi rheolwyr ynghylch yr iaith - neu eu diffyg ymwybyddiaeth a diffyg empathi – yn cael eu hadlewyrchu yn yr agweddau a amlygent i staff eraill a faint o ymrwymiad a amlygid yn eu hymddygiad a'u gweithredoedd ar y lefel gorfforaethol ac ar lefel cynllunio gwasanaethau. O sylwi ar eu hagweddau a'u gweithredoedd, buan iawn y byddai eraill, yn rheolwyr canolradd, rheolwyr llinell a staff rheng flaen, yn synhwyro faint o wir fri a blaenoriaeth a roddid i'r Gymraeg a gweithredu dwyieithog o fewn y corff. O safbwynt ymarferol, yr uwch reolwyr fydd yn penderfynu ac yn awdurdodi – neu beidio ag awdurdodi - unrhyw drefniadau i gefnogi a chynnal gweithrediad CIG.¹⁵ O ran CIG corfforaethol, gall HYIG gyfrannu at sicrhau bod yna sylfaen wybodaeth gadarn i'r dewisiadau a'r penderfyniadau a wneir gan reolwyr ynghyd â dealltwriaeth o amcanion y Cynllun ar y lefel strategol.

¹⁵ Mae Eaves *et al.*, 2007; Bwrdd yr Iaith Gymraeg, c.2009; a Jones, Eaves a Ioan, 2010 yn tynnu sylw at swyddogaeth arweiniol allweddol uwch reolwyr wrth i sefydliad geisio meithrin diwylliant mewnol ffafriol i ddefnydd y Gymraeg. Enghreifftiau o'r meysydd lle mae uwch reolwyr yn gwneud penderfyniadau allweddol sy'n effeithio ar y modd y trinnir y Gymraeg mewn sefydliadau yw'r penderfyniadau ynghylch cyllideb a threfniadau ar gyfer cyfieithu testunau a chyfieithu ar y pryd; cyfarwyddo gwaith y swyddog sy'n gyfrifol am hyrwyddo'r CIG; pennu adnoddau a thargedau ar gyfer hyfforddiant Cymraeg a phenderfyniadau ynghylch darparu HYIG i staff. Yn fwy cyffredinol, gall y deilliannau a geisir wrth hyfforddi uwch reolwyr a rheolwyr canolradd fod yn ymwneud â phrif-ffrydio defnydd y Gymraeg ym meysydd cynllunio strategol a chynllunio gwasanaethau; cynllunio cyllidebau; cynllunio systemau (e.e. technoleg gwybodaeth a chyfathrebu); safonau gwasanaeth a threfn rheoli adnoddau dynol y corff, gan gynnwys trefniadau recriwtio a phenodi staff, rhaglenni hyfforddi staff a'r rhaglen gydraddoldebau.

Yn aml, wrth i'r cyflogwr drefnu cynnal HYIG i'w staff, y flaenoriaeth bennaf yw sicrhau y bydd y rheolwyr a'r staff rheng flaen yn derbyn arweiniad ar y trefniadau ymarferol i weithredu mesurau'r CIG. Hynny yw, ar yr arfer da cysylltiedig â 'beth i'w wneud, a sut i'w wneud o'. Enghreifftiau nodweddiadol o'r gofynion ymarferol y mae'n rhaid i staff gydymffurfio â nhw yw:

- gofyniad i ateb galwadau ffôn allanol gyda chyfarchiad dwyieithog, ac os oes siaradwr Cymraeg yn galw rhaid ymateb iddo yn Gymraeg neu, oni all y swyddog wneud hynny, rhaid trosglwyddo'r alwad i gyd-swyddog sy'n medru'r Gymraeg;
- gofyniad i staff mewn derbynfydd ac wrth gownteri gwasanaeth groesawu ymwelwyr gyda chyfarchiad dwyieithog ac ymateb i ymholiadau Cymraeg yn Gymraeg, neu os ydynt yn ddi-Gymraeg, drefnu i gyd-swyddog sy'n medru'r Gymraeg wneud hynny ar ran y sefydliad;
- gofyniad i staff sy'n ymdrin â gohebiaeth drwy'r post neu ohebiaeth e-bost sicrhau bod pob gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn brydlon yn Gymraeg.

Yn wyneb gofynion megis y rhai uchod, mae darparu sesiynau briffio, hyfforddiant neu gyfarwyddyd ysgrifenedig i staff ar 'beth i'w wneud a sut i'w wneud o'yn elfen bwysig o sefydlu gweithrediad cywir ac effeithiol CIG. Awgryma profiad *laith*, a'r ymatebion a ddyfynnir gan Dafis *et al* (2005: 13-14) yn eu harolwg i ELWa, fod llawer o'r staff a rheolwyr sydd wedi derbyn yr hyn a elwid ganddynt yn HYIG wedi ei dderbyn ar ffurf cyfarwyddyd ymarferol o'r fath. Dyma'r categorïau o hyfforddiant a ddisgrifiwyd gan *laith* yn 'hyfforddiant datblygu dwyieithrwydd' a 'hyfforddiant arferion iaith' (laith, 2005).

Fodd bynnag, awgryma'r profiad o weithio gydag amrywiaeth eang o gyflogwyr ar hyd a lled Cymru a'r tu hwnt fod staff yn aml yn dymuno deall mwy hefyd am y rhesymeg y tu ôl i'r CIG, y ddeddfwriaeth berthnasol a pholisïau cyhoeddus. Hynny yw, dichon nad yw hyfforddi staff am sut i weithredu'n ddwyieithog yn ddigon o gymhelliad iddynt wneud hynny'n effeithiol oni chânt gyfleoedd hefyd i ddeall *pam* y dylent wneud hynny. Ni fydd HYIG o fath 'cyfarwyddol' yn cynnwys mwy nag eglurhad arwynebol neu fras iawn, os o gwbl - am y materion mwy sylfaenol a all fod ym meddyliau staff. Gall staff fod yn awyddus i wybod *pam* roedd angen deddfwriaeth ieithyddol yn y lle cyntaf; beth mae'r CIG yn ceisio ei gyflawni; pwy yn union yw'r 'cyhoedd Cymraeg' y darperir gwasanaethau Cymraeg ar eu cyfer; ac, os yw medru'r

Gymraeg yn ofyniad 'hanfodol'i rai swyddi, sut mae cysoni hyn â'r cysyniad o gyfle cyfartal ym maes cyflogaeth a recriwtio? A chwestiwn sy'n corddi rhai aelodau staff yw: sut bydd polisi iaith yn effeithio arnaf i yn bersonol a'm gyrfa i yn y dyfodol?¹⁶ Bydd rhai staff am herio priodoldeb a gwerth yr holl broses ddwyieithogi, a bydd eraill am leisio amheuron neu anghymeradwyaeth.

Mae tystiolaeth yrarolwg a ddisgrifir ym Mhennod 6, yn ogystal â phrofiad ymarferwyr (e.e. Davies, 2010b) yn awgrymu y gall staff deimlo'n barotach i ymateb yn fwy positif ac yn fwy effeithiol i'r newidiadau a ddisgwylir ohonynt os cânt gyfle i godi materion sy'n bwysig iddynt hwy a'u trafod. Ategir hyn gan dystiolaeth dau Brif Weithredwr a holwyd ar gyfer y traethawd hwn (Shipsides, 2013; Huws Williams, 2014) a chan gyn-Brif Weithredwr BYIG (Jones, 2014).

Gall sesiwn HYIG o fath beirniadol fod yn gyfle i wyntyllu'r amheuron hyn mewn awyrgylch 'diogel'a niwtral a reolir yn ofalus gan yr hyfforddwr. Gall hi neu ef osod yr amheuron hyn yng nghyd-destun ehangach y prosesau hegemoniaidd darostyngol a arweiniodd at arferion normadol cyfoes a ymleiddiodd y Gymraeg yn y lle cyntaf. Gall esbonio wedyn y broses gydraddoli ieithyddol a ysbardunwyd gan ddeddfwriaeth ddiweddar a pholisi cyhoeddus.

Rhai elfennau 'ymwybyddiaeth feirniadol' mewn model cyfredol o HYIG

O droi at fodolau posibl o HYFIG, gellir ystyried fframwaith sy'n cynnwys pedair elfen graidd a ddisgrifiwyd gan Elaine Davies. Mae'r fframwaith hwnnw'n cynnwys cyflwyno gwybodaeth gyd-destunol, gan gynnwys gwybodaeth am 'iaith a phŵer; cyflwyno deddfwriaeth a pholisi; ystyried dylanwad hanes ar agweddau ac arferion ieithyddol heddiw; ac ymdrin â'r 'profiad dwyieithog'. Wrth yr olaf, golyga 'ystyried sut mae unigolion dwyieithog yn ymdrin â dwy iaith... gan gyfeirio at brofiadau personol ac at rywfaint o'r sylfaen ymchwil yn rhyngwladol'. Ychwanega mai 'y bwriad yw herio rhai o'r hen ganfyddiadau am ddwyieithrwydd'. Cyfeiria at y nod oedd ganddi mewn golwg wrth fynd ati i ysgrifennu un o'r pecynnau hyfforddi cyntaf yn y maes, *They All Speak English Anyway* (Davies, 1994):

¹⁶ Seilir y wybodaeth am y cwestiynau hyn yn rhannol ar brofiad yr awdur yn gynrychiolydd staff mewn undebau llafur, 1979 -2001. Maent yn enghreifftiau o gwestiynau a godid yn aml mewn cyfarfodydd o bwylgorau gwaith canghennau lleol undebau NUPE ac Unsain Cyngor Bwrdeistref Arfon a Chyngor Sir Gwynedd yn ystod y cyfnod o 1990 hyd 1996, sef ychydig cyn ac ar ôl pasio Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, ac ym mhwyllgor gwaith cangen Unsain Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, 1996-2001, wedi i'r awdurdod hwnnw fabwysiadu CIG statudol. Codid cwestiynau o'r fath nid yn unig mewn fforymau cynrychiolwyr staff ond hefyd mewn cyfarfodydd Aelodau Etholedig Cynghorau Unedol er enghraifft. Gwyddys o brofiadau mwy diweddar ymgynghorwyr *Iaith* yn eu hymwneud â staff sefydliadau ar hyd a lled Cymru fod y cwestiynau hyn yn rhai a gyfyd o hyd mewn rhai sesiynau HYIG.

Bwriad y deunydd hwnnw oedd herio rhai o'r hen ganfyddiadau am ddwyieithrwydd yng Nghymru, mynd i'r afael â pheth o'r meddylfryd a oedd wedi gorthrymu'r siaradwr Cymraeg gyhyd, a dechrau trafod sut i gynnig gwasanaethau i ddefnyddwyr dwyieithog mewn ffordd addas a sensitif o safbwynt iaith (Davies, 2010b).

Cyflwynir isod yn Ffigwr 2.1 un model o raglen HYIG a ddefnyddir gan *laith*, yn dangos y prif elfennau allweddol y gellir ymdrin â nhw mewn rhaglen 3 awr o hyd. Dyma'r model a ddefnyddiwyd wrth gyflwyno HYFIG i swyddogion pum corff cyhoeddus a gymrodd ran yn yr arolwg a gynhaliwyd ar gyfer yr ymchwil hwn. Ceir trafodaeth ym Mhennod 6 am yr arolwg hwnnw. Cyflwynwyd y rhaglen i'r staff dan sylw o bersbectif beirniadol tebyg i'r ymagwedd feirniadol a ddisgrifiwyd ar ddiwedd Pennod 1, ond wedi ei addasu i gyd-destun y Gymraeg a Chymru.

Cyflwynir y rhaglen enghreifftiol yma nid fel model diffiniol o elfennau craidd, ond yn hytrach fel un cyfuniad o agweddau a all gyfrannu at agor a chynnal disgwrs ystyrion am fesurau cyfredol i adfywio'r Gymraeg, a goblygiadau gweithredol y mesurau hynny.

Ffigwr 2.1

Model enghreifftiol sesiwn HYFIG – hyd: 3.0 awr

Noder:

1. Canllaw yn unig yw'r amseroedd a ddynodir yma ar gyfer pob elfen.
2. Dangosir elfennau rhyngweithiol y rhaglen mewn print italig.
3. Cyflwynir y rhaglen mewn modd hyblyg, gan ymateb i sylwadau a chwestiynau a all godi o'r grŵp wrth ddilyn y rhaglen. Datgenir yn y Cyflwyniad fod croeso i aelodau'r grŵp i holi a chwestiynu ar unrhyw adeg yn ystod y sesiwn.
4. Cyfeirir at ymchwil perthnasol wrth gyflwyno gwahanol elfennau o'r rhaglen

Cyflwyniad (TUA 10 MUNUD)

- Cyflwyno rhaglen ac amcanion y sesiwn
- *Pawb sy'n bresennol yn ei gyflwyno ei hun i'r grŵp*
- Sefydlu agwedd gynhwysol tuag at bawb yn y sesiwn: cydnabod bod gan bawb hawl i fynegi ei farn a'i syniadau am y Gymraeg yn y sesiwn hon
- *Cwis ysgafn sydyn am y Gymraeg*

Demograffeg y Gymraeg (TUA 30 MUNUD)

- *YMARFERIAD: Trafodaeth grŵp llawn: Pwy yw'r 'cyhoedd Cymraeg'? Argraffiadau aelodau'r grŵp*
- Amlinelliad cyffredinol o ddemograffeg yr iaith, yn ôl ystadegau'r Cyfrifiad diwethaf
- Beth a olygir wrth "fedru'r Gymraeg" – cyflwyno'r syniad o ystod o allu mewn sgiliau deall, siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg
- *TRAFODAETH (grŵp cyfan) am sgiliau Cymraeg aelodau'r grŵp a'u profiadau o'r Gymraeg.*

Dylanwad hanes ar ddefnydd iaith (TUA 20 MUNUD)

- Rhai cerrig milltir yn hanes modern y Gymraeg
- Datblygiad peuoedd iselfri ac uchelfri - perthynas iaith â grym; nodweddion hegemoni'r Saesneg.

Agweddau at iaith ac arferion ieithyddol (TUA 25 MUNUD)

- *YMARFERIAD: Trafodaeth mewn grwpiau o 4-5: Sut mae hanes wedi dylanwadu ar agweddau ac arferion ieithyddol siaradwyr Cymraeg a phobl ddi-Gymraeg heddiw, a'u disgwyliadau.*
- *TRAFODAETH (grŵp cyfan) ar sail adborth am drafodaethau'r grwpiau*

Y fframwaith polisi a deddfwriaeth gyfredol (TUA 20 MUNUD)

- Deddfwriaeth gyfoes
- Strategaethau iaith Llywodraeth Cymru
- CIG y sefydliad dan sylw
- Y Safonau Iaith arfaethedig [rhan o'r model ers 2011]
- Unrhyw strategaethau /bolisiâu eraill sy'n berthnasol i grŵp penodol
- *YMARFERIAD: Sut beth yw 'dewis iaith' yn ymarferol? Ymarferiad seiliedig ar sefyllfa wasanaeth sy'n gyfarwydd i'r grŵp. Cyfeirio at ymchwil perthnasol*
- *Trafodaeth (grŵp cyfan) - y profiad o fod yn ddwyieithog a dewis pa un o'r ddwy iaith i'w defnyddio mewn sefyllfa benodol*

Iaith a hunaniaeth, iaith a chydraddoldeb (TUA 15 MUNUD)

- Iaith yn nodwedd graidd hunaniaeth yr unigolyn.
- Sut mae hyn yn berthnasol i drefn 'Gofal Cwsmer' a pholisi Cyfle Cyfartal y sefydliad dan sylw:
- *TRAFODAETH FER* (grŵp cyfan: 'All equalities are equal but some are more equal than others')
- Arfer sgiliau cwrteisi ieithyddol sylfaenol gyda'r cyhoedd ac yn y gweithle

Cynnig dewis iaith mewn gwasanaethau (TUA 45 MUNUD)

- *YMARFERIAD*: Pa ffactorau sy'n dylanwadu ar y sawl y cynigir 'dewis iaith'iddi ar gyfer derbyn eich gwasanaethau chi? Beth yw ei chanfyddiad o'ch 'iaith ddiofyn' ac arferion normadol mewn sefyllfa o'r fath?
- *TRAFODAETH*: y profiad o fod yn ddwyieithog.
- Eich gwasanaethau chi: perthnasedd gweithredu'n ddwyieithog i'r grŵp a hyfforddir, a'r sefydliad yn gyffredinol.

Crynhoi (TUA 15 MUNUD)

- *YMARFERIAD BYR*: Grŵp llawn: pa gamau y gallwch chi eu cymryd i weithredu mewn modd cadarnhaol ynglŷn â'r Gymraeg yn dilyn y sesiwn hon?
- Cwestiynau / sylwadau?

Un model posibl yw hwn, a gellir ychwanegu themâu eraill ato neu hepgor rhai o'r elfennau ohono wrth addasu'r model ar gyfer cynulleidfaoedd penodol.

Nid yw gofod yn caniatáu ymhelaethu ar bob elfen o'r rhaglen uchod. Buddiol er hynny yw cyflwyno disgrifiad o rai o'r agweddau arni, er mwyn goleuo rywfaint ar sut y mabwysiedir persbectif 'beirniadol' wrth ddehongli rhai adrannau penodol o'r rhaglen.

Sefydlu 'hawl' gyfartal pawb yn y grŵp i drafod y Gymraeg

Fel rhan o'r 'Cyflwyniad'ar ddechrau'r sesiwn, gall yr hyfforddwr sefydlu yn syth agwedd gynhwysol o fewn y grŵp ag at drafod yr iaith Gymraeg a dwyieithrwydd. Gellir datgan ar y dechrau fod gan bawb sy'n bresennol, bônt yn siaradwyr Gymraeg neu'n rhai di-Gymraeg, yn frodorion neu'n fewnfudwyr, hawl gyfartal i drafod yr iaith. Yn ogystal â chyfrannu at weinyddu busnes cyhoeddus yng Nghymru yn rhinwedd eu swyddi, maent i gyd yn aelodau o'r gymdeithas sifil yng Nghymru; yn drigolion sy'n cyfrannu trwy eu trethi at ariannu dwyieithrwydd sefydliadol a mentrau iaith lleol a chenedlaethol yn y bau gyhoeddus. Maent i gyd yn etholwyr sy'n pleidleisio dros wleidyddion a fydd yn penderfynu ar bolisi cyhoeddus ar y Gymraeg, ac i gyd yn ddeiliaid yr unig diriogaeth ddaearyddol fechan ar y blaned lle mae'r Gymraeg yn parhau'n iaith gymunedol frodorol. Mewn geiriau eraill, er ceisio annog cyfraniad a chyfranogiad cyfartal pawb yn y sesiwn, cyflwynir cysyniad o gynhwysiant seiliedig ar genedligrwydd sifig a thiriogaethol.

Gall sefydlu awyrgylch cynhwysol fod yn fodd i annog cyfranogwyr i gymryd rhan ryngweithiol yn yr hyfforddiant. Heb hyn, hwyrach y bydd rhai cyfranogwyr yn teimlo nad oes ganddynt 'hawl' i falio am y Gymraeg, neu ei bod yn amhriodol rywsut iddynt drafod ei defnydd a'i dyfodol am eu bod yn llugoer tuag ati neu'n ddifater yn ei chylch. Gall rhai teimladau o'r fath godi o ganfyddiadau cyfranogwyr ohonynt hwy eu hunain. Gall rhai deimlo nad ydynt yn ddigon gwybodus neu'n ddigon 'Cymreigaidd' i ymdrin â'r pwnc (Evans, 2007), neu nad oes ganddynt gysylltiad digon cryf â Chymru neu'r diwylliant Cymraeg o ran cefndir neu berthnasau teuluol neu nad oes ganddynt ddigon o hyder yn eu sgiliau Cymraeg. Ffactor arall a all ddylanwadu ar barodrwydd rhai cyfranogwyr i gymryd rhan mewn disgwrs am y Gymraeg yw i ba raddau y maent yn uniaethu â Chymru fel 'eu cenedl nhw'. Y mae llawer o ffactorau cymhleth ynglŷn ag uniaethiad o'r fath (Day a Thompson, 1999; Day, Davis a Drakakis-Smith, 2006; Evans, 2007). Amlygir llawer o'r ffactorau hyn yn astudiaeth Evans (2007) o ganfyddiadau sampl o drigolion gogledd-ddwyrain Cymru ynghylch eu perthynas â Chymreictod. Dyfynna Billig (1995), a ddeil nad cyflwr seicolegol mewnol, na chyflwr 'a feddir' gan bobl yw hunaniaeth genedlaethol. Mae i'w chanfod yn hytrach yn 'the embodied habits of social life' (Ibid. :8), sef yr hyn a ddisgrifir gan gysyniad Bourdieu o *habitus*. Yn ôl y cysyniad hwn, mae unigolion yn caffael drwy gymdeithasoliad amrediad o agweddau, rhagdybiaethau a thueddiadau parhaol a strwythuredig sy'n eu cymell i ymddwyn ac ymateb mewn moddau penodol yn eu hymwneud â chymdeithas (Bourdieu, 1991: 12). O ran eu cymdeithasoliad, gan fod y rhan fwyaf o brofiadau'r mwyafrif o bobl ynghlwm wrth ryw ardal neu fro benodol (Massey, 1994), gellid dadlau felly, fel y gwna Evans (2007) 'that 'national habitus'is likely to be partly

induced in the mundane conditions and practices of the everyday locale' (Ibid:127). Dengys Evans (Ibid.) sut mae'r canfyddiad ymhlith sampl o drigolion gogledd-ddwyrain Cymru fod eu hardal nhw yn un 'Seisnigaidd' yn dylanwadu ar eu hymdeimlad o berthyn i Gymru. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i brif arolwg y traethawd hwn, a drafodir ym Mhennod 6, am fod yr ardal a ddisgrifir gan Evans yn cynnwys un, ac yn gorgyffwrdd ag un arall, o'r siroedd lle y cafwyd y sampl atebwyr ar gyfer yr arolwg hwnnw.

Ni waeth beth yw natur 'national habitus' unigolion o fewn y grŵp HYFIG, mae datgan ar ddechrau sesiwn fod gan bawb sy'n bresennol 'hawl' gyfartal i drafod y Gymraeg yn fodd i wahodd pawb yn ddiwahân i mewn i ofod syniadol lle rhennir gwybodaeth o bersbectif gwahanol i'r persbectif hegemonïaidd Saesneg ar Gymru. Ac yn union am fod y persbectif yn wahanol i lawer, gall fod yn ddadlennol, fel yr awgryma amryw o'r ymatebion a gafwyd yn yr arolwg a drafodir ym Mhennod 6).

Demograffeg y Gymraeg

Elfen arall a ystyrir yn allweddol yn y model hwn yw cyflwyno rhywfaint o wybodaeth sylfaenol am ddemograffeg y Gymraeg. Ceir peth tystiolaeth yn yr arolwg hyfforddeion a drafodir ym Mhennod 6 na fydd gan fwyafrif y staff sy'n derbyn yr hyfforddiant ond canfyddiadau ansicr a syniad annelwig am bwy yw'r 'cyhoedd Cymraeg' y mae'n ofynnol iddynt eu gwasanaethu yn ôl Cynlluniau Iaith eu cyflogwyr. Ategir y dystiolaeth hon gan argraffiadau a fynegir gan swyddogion a drefnodd HYIG ar ran eu cyflogwyr, a chan swyddogion iaith sefydliadau. Cam tuag at unioni hyn yw cyflwyno dadansoddiad cryno iawn o ystadegau'r Cyfrifiad diwethaf, gan amlinellu dosbarthiad daearyddol siaradwyr Cymraeg, a niferoedd a chanrannau siaradwyr Cymraeg fesul ardal a fesul oedran.

Yn ôl y dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer yr arolwg, byddai cyfranogwyr yn aml yn ymateb i'r wybodaeth ddemograffig trwy fynegi syndod bod y Gymraeg yn cael ei siarad gan gynifer o'r boblogaeth ar draws pob oedran ac ym mhob cwr o Gymru. I atebwyr a ymfudasai i Gymru, buasai'r Gymraeg yn aml iawn yn iaith gwbl estron iddynt, a bodolaeth teuluoedd Cymraeg a rhwydweithiau o siaradwyr Cymraeg yn anhysbys i rai. I lawer o atebwyr o ardaloedd 'Seisnigaidd' Cymru megis siroedd y gogledd-ddwyrain, byddai amryw ohonynt heb unrhyw gyswllt teuluol na chymdeithasol cryf â'r Gymraeg, ac ni wyddent lawer amdani. Gellid agor trafodaeth ar hyn drwy holi pam roedd y Gymraeg mor anghyfarwydd i gynifer o'r grŵp, er bod gan rai ohonynt wybodaeth am ieithoedd eraill megis Ffrangeg, Almaeneg neu Sbaeneg. Byddai trafodaeth o'r fath yn arwain yn aml at gwestiynu'n feirniadol pam y dysgasent fwy yn y system addysg ysgolion am ieithoedd tramor trefedigaethol nag

am ieithoedd brodorol eu cyd-ddinasyddion yn Ynysoedd Prydain. Yn y modd hwn datgelir sut mae addysg hegemonïaidd yn arallu a dieithrio siaradwyr Cymraeg oddi wrth weddill poblogaeth Cymru, a'u gwneud yn 'anweladwy' i drigolion eraill Ynysoedd Prydain.

Elfen arall gysylltiedig â thrafod ystadegau'r Cyfrifiad yw cwestiynu'n feirniadol beth a olygir wrth "siaradwyr Cymraeg", yn ôl data'r Cyfrifiad. Gellir dangos mai'r cwestiwn a ofynnwyd ar ffurflen y Cyfrifiad yn 2001 a 2011 oedd 'A allwch chi ddeall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?', gyda chyfres o bedwar blwch ticio ar ôl y cwestiwn fel y gallai'r atebydd roi ticiau i ddangos pa rai o'r pedwar medr uchod oedd ganddi / ganddo. Gellir awgrymu i'r grŵp fod hyn yn ddull gor-symml o geisio adnabod gallu ieithyddol yr atebydd. Yr unig ddewis i'r atebydd oedd gosod tic neu beidio ym mhob blwch perthnasol. Nid oedd modd iddo gofnodi unrhyw *raddau* o allu yn y Gymraeg. Yn yr arolwg sy'n destun Pennod 6, ymhlith yr hyfforddeion a ddatganasai ar ddechrau'r sesiwn na fedrent y Gymraeg, gallai llawer ynganu enwau llefydd ac enwau pobl yn gywir. Gallai eraill ddeall a rhoi cyfarchion a chyfarwyddiadau syml, ymateb yn Gymraeg i gyfarchion, deall y testun ar arwyddion Cymraeg, posterï a hysbysebion. Yn wir, yn y grwpiau a gyfrannodd i'r arolwg, byddai bron pawb a addysgwyd yng Nghymru wedi cael rhywfaint o gyswllt â'r Gymraeg ac wedi caffael rhywfaint o allu yn yr iaith. Serch hynny, buasai llawer heb ddigon o hyder i gydnabod hynny, na chofnodi yn y Cyfrifiad eu bod yn gallu deall, siarad, ysgrifennu neu ddarllen Cymraeg. Trwy ddangos fod gan y mwyafrif o aelodau'r grŵp ryw grap, waeth pa mor elfennol, ar y Gymraeg, gellir pwysleisio y cynhwysir nhw ar y continwmm o 'fedru'r Gymraeg'. Dengys Ffigyrau 6.7 a 6.8 ym Mhennod 6 fod llawer o atebwyr yr Arolwg Hyfforddeion wedi datgan iddynt gael eu symbylu i ddefnyddio'r sgiliau Cymraeg a feddant i raddau helaethach yn dilyn yr hyfforddiant.

Hanes y Gymraeg

Yn yr arolwg o rai a dderbyniodd HYFIG, roedd cwestiwn yn gofyn i hyfforddeion beth oedd 'elfen gryfaf' y sesiwn. Mewn 45.4% o'r atebion a dderbyniwyd i'r cwestiwn hwn, mynegwyd mai'r adran ar agweddau hanesyddol oedd 'yr elfen gryfaf' (gweler Ffigwr 6.3 ym Mhennod 6). Mae amlinellu sut mae prosesau hanesyddol wedi effeithio ar beuoedd defnydd yr iaith, ar agweddau'r siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg fel ei gilydd, ac ar i ba raddau y trosglwyddai rhieni'r iaith o genhedlaeth i genhedlaeth yn elfen bwerus iawn o HYFIG. Gall fod yn elfen sy'n ennyn ymatebion affeithiol yn aml iawn, fel y dengys y dadansoddiad o'r ymatebion iddi ym Mhennod 6 .

Dengys y dystiolaeth a gasglwyd fod y naratif hanesyddol a gyflwynir yn y model uchod o HYFIG, a'r persbectif a roddir ar ddigwyddiadau yn y naratif, yn anghyfarwydd i fwyafrif yr atebwyr. Er ei fod yn naratif a red yn gronolegol gyfochrog â'r naratifau hegemonïaidd a gaffaelid ganddynt drwy'r system addysg, mae ei gynnwys a'i arwyddocâd yn ddieithr. Nid Lloegr na'r wladwriaeth Seisnig yw'r prif wrthrychau yr amlinellir eu datblygiad cronolegol mewn HYFIG, ond yr arfer cymdeithasol o siarad Cymraeg yng Nghymru, a datblygiad Cymru fel endid cenedlaethol. Yn ôl y persbectif hwn, adleolir y gwrthrych hwn - y Gymraeg yng Nghymru - a ymyleiddiwyd gan ddehongliadau hegemonïaidd, a'i osod yn ganolbwynt normadol newydd i'r naratif hanesyddol. Gan hynny, mae arwyddocâd y prif ddigwyddiadau a ddisgrifir yn cyfateb i'r graddau maent yn effeithio ar y prif wrthrych hanesyddol. Felly adleolir gwrthrychau fu'n ymylol yn y dehongliadau normadol a gyflëwyd i'r hyfforddeion drwy gymdeithasoliad, a'u gosod ar ganol y llwyfan, gan 'arallu'r 'canol' traddodiadol lle crynhoid grym a chrëid hegemoni.

Mewn geiriau eraill, mae'r drafodaeth am hanes yn gwahodd hyfforddeion i ailystyried a thrafod ble mae'r 'canol' a ble mae'r 'cyrion'. Cynigia, o fewn cwmpas un adran o'r sesiwn, ddehongliad gwahanol o hanes Gwledydd Prydain fel clytwaith o wahanol 'island stories' (Samuel, 1988). Dyma fath o hanesyddiaeth sy'n dehongli Seisnigrwydd "as one amongst a number of competing ethnicities" (Samuel, 1998: 28), gyda'r wladwriaeth unoliaethol yn 'Union of Multiple Identities' (Brockliss and Eastwood, 1997) yn hytrach na'r 'prif' ddiwylliant sydd â hawl 'naturiol' i dra-arglwyddiaethu dros y diwylliannau eraill yn ynysoedd Prydain.¹⁷ Gall cyflwyno'r dehongliad hwn fel petai'n ddehongliad normadol greu elfen o afleoliad a dieithrwrch ym meddyliau hyfforddeion wrth iddynt gaffael a thrafod â'i gilydd y naratif hanesyddol anghyfarwydd. Dywedant yn aml ei fod yn 'fersiwn gwahanol' o hanes i'r dehongliadau a'r digwyddiadau sy'n gyfarwydd iddynt.

Yn hynny o beth, mae HYFIG yn amlygu i hyfforddeion natur ideolegol hanes fel pwnc mewn ysgolion. Dadlenna'r ffaith nad oes un fersiwn gwrthrychol, absoliwt o hanes, ac mai dehongliadau ideolegol penodol a ddysgid iddynt hwy, ac a ddysgir i'w plant, yn yr ysgolion. Ac wrth drafod gyda'i gilydd mewn grwpiau sut y bu i naratif Seisnig a'i gogwydd ideolegol penodol ddatblygu'n naratif normadol a ddysgid i bawb mewn ysgolion, gall aelodau'r grwpiau ddatgelu drostynt eu hunain beth yw natur hegemoni ac arferion hegemonïaidd (er na ddefnyddir y termau hyn yn y sesiynau fel arfer). Mae'r nodwedd hon o HYFIG yn dwyn i gof osodiad Williams a Morris mai

¹⁷ Mae gwaith Davies (1999) yn ymgais i adlinio naratifau hanesyddol 'yr ynysoedd' mewn cyfochredd yn ôl y persbectif amgen hwn, ac mae Phillips (2005; 2000) yn trafod goblygiadau'r hanesyddiaeth amgen hon i gwricwlwm hanes yn ysgolion Cymru yn y cyfnod ôl-ddatganoli.

rhan ganolog o bwmpas cynllunio ieithyddol yw cwestiynu, herio, a dadgyfreithloni arferion hegemonïaidd (Williams a Morris, 2000: 233-234). Delir y gall HYFIG fod yn arf grymus a phwysig mewn cynllunio ieithyddol wrth godi cwr y llen ar y prosesau hynny.

Amlygu'r berthynas 'iaith a grym' mewn gwasanaethau cyhoeddus

Mae amlygu'r berthynas rhwng iaith a grym yn un o elfennau craidd pwysicaf 'ymwybyddiaeth feirniadol o iaith', ac yn thema a red drwy'r sesiwn i gyd. Yn ôl Baker a Jones (1995: 633), mae ymwybyddiaeth o'r fath yn esbonio 'how languages or styles of language reflect and sustain differences in power and status'. Y mae hyn yn arbennig o berthnasol i staff cyrff cyhoeddus, oherwydd mae'r cyrff hyn yn gyrrff sydd yn meddu ar rym ac awdurdod yn eu perthynas â'r cyhoedd. Yn eu plith ceir y Cynghorau Unedol, gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau gofal; darparwyr gwasanaethau iechyd ac addysg; asiantaethau datblygu economaidd; cyrff gweinyddu cyfiawnder; asiantaethau cyflogaeth a threthu a'r llw o gyrrff llywodraethol neu is-lywodraethol eraill y mae dinasyddion yn cyfathrebu â nhw yn rheolaidd neu'n achlysurol. Pan fydd y cyhoedd yn cyfathrebu â'r rhain, gwna hynny fel arfer er mwyn ceisio rhyw fath o wasanaeth, cymorth, neu ddarpariaeth arall - boed yn ofal iechydol neu ofal cymdeithasol, yn wasanaeth argyfwng neu wasanaeth plismona; yn fudd-daliadau neu fathau eraill o gymhorthdal incwm, grantiau neu atgyweiriadau i dai, caniatâd cynllunio, ac yn y blaen. Hynny yw, rhaid iddynt ddod ar ofyn y cyrff hyn. Gan y cyrff dan sylw y mae'r grym i benderfynu i ba raddau y byddant yn darparu, neu ddarparu'n rhannol, neu beidio â darparu'r hyn a geisir.

Mewn perthynas o'r fath, yn wyneb grym y cyrff swyddogol hyn, a chyda phwysau hegemonï'r Saesneg yn eu herbyn, gall siaradwyr Cymraeg fod yn amharod neu'n ansicr ynghylch gofyn am wasanaeth yn Gymraeg ganddynt. Mae'r seicolegydd a'r seicotherapydd Dilys Davies wedi dadansoddi'r modd y mae canrifoedd o seicoleg negyddol parthed defnyddio'r Gymraeg wedi esgor ar nodweddion tebyg i'r rhai a chanfyddir yn aml yn seici dinasyddion mewn cymdeithasau ôl-drefedigaethol. Rhestra nodweddion megis 'tynghediaeth a llarieidd-dra, goddefolrwydd, ac ymdeimlad o israddoldeb a diffyg hyder' ymhlith y rhai a adwaenir ganddi yn seici siaradwyr Cymraeg (Davies, 2000:37-41).

Gall 'diffyg galw' ymddangosiadol am wasanaethau Cymraeg sy'n deillio o'r nodweddion seicolegol a'r sefyllfa hanesyddol a ddisgrifir gan Davies (Ibid.: 32-41) ddylanwadu ar ganfyddiadau a gweithredoedd y sawl sy'n darparu gwasanaethau dwyieithog. Dichon na fydd darparwyr yn ymwybodol o'r cyd-destun hanesyddol hwn a pha mor amhriodol felly yw defnyddio'r cysyniad neo-ryddfrydol o 'alw gan

gwsmeriaid' fel sail ar gyfer darparu gwasanaethau yn Gymraeg. Mae'r ddadl am y 'diffyg galw' am wasanaethau Cymraeg yn un a fynegir yn aml i Swyddogion Iaith gan rai o'u cyd-swyddogion mewn cyrff cyhoeddus.¹⁸ Hawdd deall sut y gall dadl o'r fath ymddangos yn ddilys mewn diwylliannau corfforaethol sy'n tueddu i synio am ddefnyddwyr gwasanaethau fel 'cwsmeriaid' sy'n ymarfer 'dewis' ac yn 'creu galw'. Gall ymwybyddiaeth feirniadol o'r iaith Gymraeg fod yn gyfrwng i gyflwyno gwrthddadleuon priodol a fydd o gymorth i egluro pam nad yw model y farchnad o reidrwydd yn sicrhau defnydd ar wasanaethau Cymraeg a ddarperir yn statudol, na 'galw' amdanynt.

Gall ystyriaethau beirniadol o'r fath gynnig golwg mwy treiddgar a chyflawn na chyfarwyddiadau *anfeirniadol* yn unig ar y broses cydraddoli y mae CIG a Chomisiynydd y Gymraeg, yn ceisio ei hyrwyddo. Drwy rannu gwybodaeth am 'how languages or styles of language reflect and sustain differences in power and status' chwedl Baker a Jones (1998:633), gellir cynnig gwell dealltwriaeth o agweddau cymdeithasol ac ideolegol ar ddefnydd iaith (Fairclough, 1992). Gellir dangos sut maent yn dylanwadu ar arferion ac agweddau'r sawl sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yn ogystal â'r sawl sy'n eu derbyn. Gall hyn yn ei dro ddylanwadu ar y modd y cynllunnir ac y cyflwynir gwasanaethau dwyieithog.

Clo: grym y ffurf ryngbersonol ar HYFIG

O fewn cyfyngiadau'r traethawd hwn ni ellir manylu ar weddill yr elfennau beirniadol yn y rhaglen enghreifftiol o HYFIG a gyflwynir yn Ffigur 2.1, ond credir bod y disgrifiadau uchod yn arddangos yn eglur natur ei gyfeiriadedd beirniadol. Digon yw nodi y gellir bwrw'r un goleuni beirniadol ar holl adrannau'r rhaglen, os mai hynny sy'n briodol ar y pryd. Ymagwedd ydyw sy'n cwestiynu arferion ieithyddol normadol a rhagdybiaethau 'mater o ffaith' am y Gymraeg. Diben ymagwedd o'r fath yw

attempt to denaturalise the givens of a language system, to problematise its conventions and to show how meaning, because it is socially constructed, can be deconstructed and reconstructed. It is often said by linguists that language is a site of struggle. Critical language teaching aims to bring students within sight of the site so that the view they have of

¹⁸ Yn benodol, tynnir sylw Swyddogion Iaith yn aml at enghreifftiau o'r 'diffyg galw' am y ddarpariaeth sydd bellach ar gael iddynt yn Gymraeg. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys fersiynau Cymraeg ffurflenni, dogfennau a chyhoeddiadau, a chyfleoedd i siarad Cymraeg mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb â swyddogion unigol neu mewn cyfarfodydd cyhoeddus lle mae gwasanaeth cyfieithu-ar-y-pryd ar gael i bobl ddi-Gymraeg.

it will empower them to change aspects of their language, and consequently social, practice as people (McKenzie,1992:226).

I gloi'r drafodaeth hon, noder mai HYFIG o fath rhyngweithiol, rhyngbersonol, fel y math a hwylusir gan y model uchod, sydd o ddiddordeb i awdur y traethawd hwn. Er mwyn i'r persbectif beirniadol a ddisgrifir uchod, ac a anogir yn y sesiynau, fod yn 'fyw' a gallu bwrw goleuni ar unrhyw fater a gyfyd yn y sesiynau, credir ei bod yn bwysig i hyfforddeion allu holi a thrafod â'r hyfforddwr, ac yn bwysicach fyth, â'i gilydd, wyneb yn wyneb.

Dros y blynyddoedd bu amryw o sefydliadau'n creu a defnyddio adnoddau mewn gwahanol fformatiau, megis cyrsiau ar-lein, ar CDRom neu ar DVD yn hytrach na mewn grwpiau rhyngbersonol. Diau y gall y fformatiau eraill hyn fod yn gyfrwng tra defnyddiol a llai costus i sefydliadau ar gyfer cyflwyno gwybodaeth ieithyddol. Mae iddynt hefyd y fantais o fod ar ffurf barhaol, ac y gall yr unigolyn droi'n ôl atynt rywbryd eto, wrth ei bwysau. Ond yr hyn sydd o ddiddordeb yn y traethawd hwn yw grym disgwrs mewn cyfarfyddiad byw, wyneb yn wyneb, a'r deinamig a gyfyd o ddwyn ynghyd wahanol unigolion, a phob un â'i *habitus* neilltuol (Bourdieu, 1991).

Yn y bennod nesaf ymhelaethir ar osod cyfeiriadedd beirniadol HYFIG yn ei gyd-destunau damcaniaethol.

Pennod 3

Cyfeiriadedd damcaniaethol Ymwybyddiaeth Feirniadol am yr Iaith Gymraeg (YFIG) ym maes ieithyddiaeth gymhwysol feirniadol

Cyflwyniad

Yn y bennod ddiwethaf ystyriwyd y modd yr esgorodd *praxis* cynllunio ieithyddol cymhwysol yng Nghymru ar HYIG, a sut yr esblygodd ffurfiau beirniadol ar hyfforddiant o'r fath (HYFIG). Yn y bennod hon lleolir cyfeiriadedd damcaniaethol HYIG yng nghyd-destun ieithyddiaeth gymhwysol feirniadol, a dangosir ei pherthynas â rhai peuoedd penodol o fewn y maes hwnnw, yn arbennig maes cynllunio ieithyddol. Yn y drafodaeth ganlynol bwirir goleuni pellach yn ogystal ar yr hyn a olygir wrth 'feirniadol' yn y term 'ymwybyddiaeth feirniadol'.

Ieithyddiaeth gymhwysol

Rhydd y *Longman Dictionary of Applied Linguistics* ddau ddiffiniad o ieithyddiaeth gymhwysol. Mae'r naill yn ei diffinio fel 'the study of second and foreign language teaching', a'r llall yn ei diffinio fel 'the study of language and linguistics in relation to practical problems, such as lexicography, translation, speech pathology, etc.' (Richards, Platt a Webber 1985:15). Yn y bôn mae'r ddau ddiffiniad hyn yn adlewyrchu, yn fras iawn, ddwy ffrwd syniadol wahanol i'w gilydd am astudio iaith.

Deillia'r persbectif cyntaf o ddehongliad penodol o bwrrpas a phriod faes ieithyddiaeth, sef dehongliad seiliedig ar waith dylanwadol yr ieithydd Americanaidd Naom Chomsky. Mewn damcaniaeth a gyhoeddodd ym 1957 ynghylch natur gramadeg, ac a addasodd dros y blynyddoedd dilynol, ceisiodd Chomsky (1957, 1965) ddatblygu model a fyddai'n addas ar gyfer disgrifio pob iaith. Cyfeirir at y model hwn fel 'gramadeg cynhyrchiol trawsffurfiol' (generative transformational grammar). Ceisia gramadeg o'r math hwn ddangos a chyflwyno, trwy system o reolau, y mathau o wybodaeth y bydd siaradwr brodorol yn eu defnyddio wrth ffurfio brawddegau gramadegol yn ei famiaith. Yn ôl y persbectif hwn felly, y mae a wnelo ieithyddiaeth â *ffurfiau* iaith yn bennaf, ei strwythur a'i phatrymau. Dyma'r persbectif sy'n sail i ieithyddiaeth 'glasurol' fel y'i harddelir yng ngwaith ieithyddion cyfoes megis Corder (1973) a Widdowson (1980, 1999) ym Mhrydain, a gwaith ieithyddion megis Krashen (1981) yn yr Unol Daleithiau. Y mae Davies (1999:2) yn crynhoi fel a ganlyn ddehongliad Widdowson o ieithyddiaeth:

He maintains that its purpose is to identify some relatively stable linguistic knowledge which underlies language behaviour. Access to that linguistic knowledge is achieved by a process of idealization.

Ystyr ieithyddiaeth *gymhwysol* yn y cyswllt hwn felly, yn ôl Widdowson (1980) *yw cymhwyso ieithyddiaeth* ('linguistics applied') – sef cymhwyso corff o wybodaeth sylfaenol am ffurfiau a phatrymau iaith i gyd-destunau penodol – dysgu iaith yn bennaf.¹⁹ Deil Corder (1973) a Widdowson (1999) mai'r berthynas gymhwysol hon yw priod faes ieithyddiaeth gymhwysol. Dadleua Corder fod rhaid meddu ar y mathau hyn o wybodaeth arbenigol o ieithyddiaeth er mwyn gallu ei chymhwyso:

I am enough of a purist to believe that 'applied linguistics' presupposes 'linguistics'; that one cannot apply what one does not possess (Corder 1973:7).

Disgrifia Davies y dehongliad hwn fel

Corder's 'mediating' model, with applied linguistics acting as interpreter between (theoretical) linguistics and (practical) language teaching (Davies 1999:6).

Ar y llaw arall, mae'r ail ddiffiniad uchod - o ieithyddiaeth gymhwysol fel 'the study of language and linguistics in relation to practical problems, such as lexicography, translation, speech pathology, etc.' (Richards, Platt a Webber 1985:15) - yn un sy'n cynnig persbectif gwrthgyferbyniol ac ehangach. Ymhelaethir ar y dehongliad hwn gan y diffiniad a gynigir gan yr Association International de Linguistique Appliquée / Association of Applied Linguistics (AILA):

Applied Linguistics differs from Linguistics in general mainly with respect to its explicit orientation towards practical, everyday problems related to language and communication. The problems Applied Linguistics deals with range from aspects of the linguistic and communicative competence of the individual such as first or second language acquisition, literacy, language disorders, etc. to language and communication related problems in and between societies such as e.g. language variation and linguistic discrimination, multilingualism, language conflict, language policy and language planning (AILA, d.d.).

Mae Pennycook (2001:3) yn dadlau o blaid ieithyddiaeth gymhwysol a nodweddir gan

¹⁹ Tyn Kachru (1990) ac eraill sylw at y ffaith fod y pwyslais hwn gan ieithyddion cymhwysol yn yr Unol Daleithiau ar ddysgu iaith wedi tueddu i ganolbwyntio i raddau healeth iawn ar ddysgu Saesneg fel ail iaith.

...Breadth of coverage, interdisciplinarity, and a degree of autonomy. From this point of view, applied linguistics is an area of work that deals with language use in professional settings, translation, speech pathology, literacy and language education; and it is not merely the application of linguistic knowledge to such settings but is a semiautonomous and interdisciplinary...domain of work that draws on but is not dependent on areas such as sociology, education, anthropology, cultural studies, and psychology.

Yn ôl y persbectif hwn felly, mae a wnelo ieithyddiaeth gymhwysol â defnydd iaith yn ei amrywiol gyd-destunau cymdeithasol. Wrth ddehongli agweddau ar ddefnydd iaith o bersbectif y gwahanol ddisgyblaethau a grybwyllir uchod, gall ieithyddiaeth gymhwysol fod yn annibynnol neu'n lled annibynnol ar ieithyddiaeth ddamcaniaethol 'bur'. Arweiniodd hyn yr ieithydd 'clasurol' Corder i ddatgan nad oes sail ddamcaniaethol annibynnol i ieithyddiaeth gymhwysol, ond yn hytrach 'the applied linguist is a consumer, or user, not a producer, of theories' (Corder 1973:7). Hynny yw, yn ôl Corder, mae'r ieithydd cymhwysol yn cymhwyso damcaniaethau o ddisgyblaethau eraill i astudio defnydd iaith yn ei chyd-destunau cymdeithasol. Ond yn ôl Davies (1999:142), 'Applied linguistics does not need a unitary theory; what it requires is an openness to influences and theories from elsewhere, so that professional applied linguists can adopt a theorising approach to language problems'.

leithyddiaeth gymhwysol feirniadol

Mae'r drafodaeth hon yn adleisio i ryw raddau'r drafodaeth ym Mhenodau 1 a 2 am yr amryw agweddau cyd-destunol eang ar ymwybyddiaeth iaith. Yn y penodau hynny, nodwyd wrth drafod ffurfiau ar ymwybyddiaeth *anfeirniadol* o iaith mai swyddogaeth ddisgrifiadol yn bennaf sydd i ymwybyddiaeth o'r fath. Hynny yw, adnabod a chofnodi agweddau ar ddefnydd iaith heb eu gosod yng nghyd-destun y strwythurau cymdeithasol a'r seiliau ideolegol sydd wrth wraidd patrymau defnydd iaith mewn cymdeithas. Ond yn ôl Chomsky (1979:191), 'Questions of language are basically questions of power.' Ac yn yr un modd ag y mae ymwybyddiaeth *feirniadol* o iaith yn ymwneud â pherthynas iaith â grym, mae'r ymagwedd *feirniadol* at ieithyddiaeth gymhwysol yn fwy cyffredinol yn gofyn am ymdriniaeth dreiddgar ag agweddau cyd-destunol a hanesyddol ar batrymau defnydd iaith, a'r berthynas rhwng iaith a grym. Gellir disgrifio'r ffurfiau beirniadol ar ymwybyddiaeth iaith a drafodir ym mhenodau 1 a 2 yn rhai a berthyn o fewn cwrpas maes a ddisgrifir gan Pennycook (2001) yn 'ieithyddiaeth gymhwysol feirniadol' (neu *critical applied linguistics* yn ei eiriau ef). Ymhelaetha fel a ganlyn ar yr hyn a olyga wrth y term hwn:

A central element of critical applied linguistics ... is a way of exploring language in social contexts that goes beyond mere correlations between language and society and instead raises more critical questions to do with access, power, disparity, desire, difference, and resistance. It also insists on an historical understanding of how social relations came to be the way they are. (Pennycook 2001:6)

Rai blynyddoedd yn gynharach, wrth drafod y syniad o arddel ymagwedd feirniadol at astudio iaith, sef yr hyn a eilw'n 'critical language study' (CLS), esboniasai Fairclough (1989:5):

Critical is used in the special sense of aiming to show up connections which may be hidden from people – such as the connections between language, power and ideology...CLS analyses social interactions in a way which focuses upon their linguistic elements, and which sets out to show up their generally hidden determinants in the system of social relationships, as well as hidden effects they may have upon that system.

Y mae Hammersley (1996:4–5) yn disgrifio fel a ganlyn y defnydd o'r ansoddair 'beirniadol' (critical) mewn termau megis 'ieithyddiaeth gymhwysol feirniadol' a 'dadansoddi disgwrs yn feirniadol':

What the term 'critical' generally refers to ...is forms of research which assume: that we can only understand society as a totality and that, in producing knowledge of society, critical research reveals what is obscured by ideology, such ideology being pervasive and playing an essential role in preserving the status quo.

Ategir y dehongliad hwn gan Davies (1999), a ddeil na all ieithyddiaeth gymhwysol draddodiadol fod yn ddiuedd. Fe'i hymarferir gan fodau dynol sy'n meddu ar agweddau ac ideolegau, a deillia o gorff o wybodaeth a thraddodiad deallusol a grëwyd gan sefyllfaoedd cymdeithasol hanesyddol. Dyna a bwysleisir yn ei grynodeb defnyddiol ef (Davies 1999:146) o'r hyn a olygir wrth y term 'ieithyddiaeth gymhwysol feirniadol':

Critical applied linguistics (CAL) brings into applied linguistics a postmodern view of knowledge and of the ways in which it is socially constructed ... It outs traditional applied linguistics as an enterprise which is hegemonic and has never been neutral (Rampton 1997: 20).

Y mae Pennycook (2001) yn ymhelaethu ar ddiffiniadau o ieithyddiaeth gymhwysol drwy geisio adnabod yr hyn a ystyria ef yn rhai o'i phrif beuoedd, ac mae'n eu rhestru fel a ganlyn (gan bwysleisio nad yw hon yn rhestr ddiffiniol nac yn hollgynhwysol):

critical discourse analysis and critical literacy, critical approaches to translation, language teaching, language testing, language planning

and language rights, and language, literacy and workplace settings’
(Pennycook 2001:10).

Ceir elfennau o HYFIG sy’n berthnasol i bob un o’r peuoedd hyn, ond nid yw gofod yn caniatáu archwilio yma y berthynas ddamcaniaethol â phob un. Bodlonwn felly ar roi sylw manylach isod i’r rhai sydd fwyaf perthnasol i faes HYFIG.

Dadansoddi disgwrs yn feirniadol

Mae’r cysyniad o ddadansoddi disgwrs (discourse analysis) yn seiliedig ar ymdrin â defnydd iaith fel ffenomen gymdeithasol. Wrth ddisgrifio ‘the discourse view of language as ‘language as a form of social practice’’, deil Fairclough (1989:22) fod hyn yn awgrymu tair gwedd ar iaith: ‘Firstly, that language is a part of society, and not somehow external to it. Secondly, that language is a social process. And thirdly, that language is a socially conditioned process, conditioned that is by other (non-linguistic) parts of society.’ Ymhelaetha ar hyn mewn gwaith diweddarach drwy ddisgrifio disgwrs fel dull o ymdrin â phau benodol o arferion cymdeithasol o bersbectif penodol (Fairclough 1995:14).

Mae Trappes-Lomax (2004:136) yn cynnig y diffiniad canlynol o ddisgwrs ar sail pedwar persbectif deongliadol:

1. The linguistic, cognitive and social processes whereby meanings are expressed and intentions interpreted in human interaction;
2. the historically and culturally embedded sets of conventions which constitute and regulate such processes;
3. a particular event in which such processes are instantiated;
4. the product of such an event, especially in the form of visible text, whether originally spoken and subsequently transcribed or originally written.

Yn ei disgrifiad hi o’r berthynas rhwng y gweithgaredd disgyrsiol a’r agweddau cefndirol a chyd-destunol ar ddisgwrs (a ddynodir yn agweddau 2, 3, a 4 yn niffiniad Trappes-Lomax uchod) mae Wodak yn egluro:

We assume a dialectical relationship between particular discursive practices and the specific fields of action (including situations, institutional frames, and social structures) in which they are embedded. The situational, institutional, and social settings shape and affect discourses, while discourses influence discursive as well as non-discursive social and political processes and actions. In other words, discourses as linguistic social practices can be seen as constituting non-discursive and

discursive social practices and, at the same time, as being constituted by them (Wodak 2006:175).

Yn dilyn o'r uchod, gellid disgrifio dadansoddi disgwrs yn ddisgyblaeth sy'n astudio swyddogaeth gyfathrebol defnydd iaith mewn cymdeithas. Cyfeiria rhai ieithyddion at y ddisgyblaeth hon fel astudio iaith ar waith (*language in use*). Cyfeiria eraill ati fel astudio defnydd iaith 'uwchlaw a'r tu hwnt i'r frawddeg' (*language above or beyond the sentence*), neu iaith mewn sefyllfa ryngweithiol (*language in interaction*) neu iaith yn ei chyd-destun sefyllfaol a diwylliannol.²⁰ Diffiniad a gynigir gan Baker a Jones (1998:700) o ddadansoddi disgwrs yw:

The study of spoken and written language particularly in terms of negotiating meanings between participants in speech, choice of linguistic forms, shared assumptions that underlie utterances, structures, strategies and symbolism in communicating, and the role relationships between participants.'

Y mae modd dadansoddi disgwrs mewn modd disgrifiadol ac anfeirniadol, gan sylwi ar ei nodweddion, ei batrymau a'i dueddiadau. Ond fel y nodwyd wrth drafod y gwahaniaeth rhwng ymwybyddiaeth *anfeirniadol* ac ymwybyddiaeth *feirniadol* o iaith, mae astudio disgwrs o bersbectif beirniadol yn gofyn am ddadansoddiad treiddgar o'r berthynas rhwng disgwrs a grym (Fairclough, 1989, 1995; van Dijk, 2001; Luke 2002). Yn ôl Kress (1990:85), yn wahanol i ddadansoddi disgwrs mewn modd disgrifiadol yn unig, y mae dadansoddi disgwrs yn feirniadol yn anelu at ddangos sut mae 'linguistic-discursive practices' yn gysylltiedig â'r 'wider socio-political structures of power and domination'. Yn ei lyfr *Critical Discourse Analysis* (1995:132), eglura Fairclough fod dadansoddi disgwrs yn feirniadol

aims to systematically explore often opaque relationships of causality and determination between (a) discursive practices, events and texts and (b) wider social and cultural structures, relations and processes; to investigate how such practices, events and texts arise out of and are ideologically shaped by relations of power and struggles over power.

Mae van Dijk (1993:249) yn dehongli dadansoddi disgwrs yn feirniadol fel modd i ddehongli 'the role of discourse in the (re)production and challenge of dominance'. Mae'r cymal olaf, wrth gyfeirio at y 'challenge of dominance', yn adleisio'r cymhelliad heriol a welwyd yng ngwaith lladmeryddion ymwybyddiaeth

²⁰ Am drafodaeth ynghylch tarddiad a goblygiadau'r dadleuon sy'n gwahaniaethu rhwng *language in use* a *language above the sentence*, gweler Schiffrin (1994:20 -39); Pennycook (1994:116); Widdowson (1995:160); Cameron (2001:10 -13).

feirniadol o iaith ym Mhenodau 1 a 2 (gweler Fairclough (gol.), 1992; Garrett a James (goln.), 1992; Ivanič, 1990; Janks ac Ivanič 1992). Mae van Dijk (1993:249) yn mynegi hyn trwy ddadlau bod gan ddisgyblaeth dadansoddi disgwrs yn feirniadol 'the larger political aim of putting the forms of texts, the processes of production of texts, and the process of reading, together with the structures of power that have given rise to them, into crisis.'

Gwelir felly, yng ngweithiau carfan o ieithyddion sy'n arddel ieithyddiaeth gymhwysol feirniadol, mai diben sosio-wleidyddol yn ei hanfod sydd i'r ddisgyblaeth o ddadansoddi disgwrs yn feirniadol. Trwy osod ffurfiau ar ddisgwrs a phrosesau creu disgwrs 'into crisis', chwedl van Dijk (1993:249), anelir yn y pen draw at greu newid cymdeithasol a fydd yn unioni'r anghyfartaledd a amlygir, a weithredir ac a atgynhychir mewn ffurfiau ar ddefnydd iaith. Yng ngeiriau Trappes-Lomax (2004:140)

CDA [Critical Discourse Analysis] is a political enterprise in the additional and crucial sense that it is motivated by a particular political agenda – non-conformist, anti-elitist, neo-Marxist, anti neo-liberal; it seeks not just to understand the social world, but to transform it.

Mae hyn yn awgrymu bod dadansoddi disgwrs yn braenaru'r tir ar gyfer rhaglen weithredu i drawsnewid statws a phatrymau defnydd iaith a grëir gan y strwythurau a'r perthnasau grym a grëwyd gan anghyfartaledd cymdeithasol ac sy'n cynnal ac atgynhychu'r anghyfartaledd hwnnw. Mae Candlin (1989: x) yn cyfeirio at 'the need to connect discursal study and teaching to an understanding of contemporary society, and to see the critical consciousness of discourse as a basis for social emancipation'. Mae Janks ac Ivanič (1992:305) yn trafod y modd y gall YFI gyfrannu at ddisgwrs ymryddhaol (emancipatory discourse). Cynigiant fod dwy wedd ar ddisgwrs ymrymusol, sef 'discourse which does not disempower others' a 'discourse which resists disempowerment' (Ibid:311-316). Gall y ddwy wedd hyn fod yn berthnasol i ddisgwrs am y berthynas anghyfartal rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yng Nghymru. Mae Davies (1991; 2011) wedi trafod enghreifftiau o sefyllfaoedd lle mae angen dulliau grymuso siaradwyr Cymraeg sy'n derbyn gwasanaethau gofal drwy fabwysiadu arferion ieithyddol sensitif a gwrth-orthrymol.

Mae'n eglur o'r drafodaeth uchod y gellir dehongli elfennau o HYFIG yn ffurf neilltuol ar ddadansoddi disgwrs yn feirniadol. Disgrifiwyd yn y bennod ddiwethaf, ac mewn rhannau eraill o'r traethawd hwn, sut y gall HYFIG fod yn gyfrwng i adnabod ac archwilio nodweddion goruchafiaeth yr iaith Saesneg, neu, a defnyddio term

Gramsci (1971), 'hegemoni' yr iaith Saesneg, mewn ffurfiau ddisgwrs am y Gymraeg a'r Saesneg²¹. Gellir adnabod yn y ffurfiau disgwrs hyn ieithwedd a rhagdybiaethau sy'n cefnogi 'practices which maintain and reproduce patterns of domination and subordination in society' (Janks ac Ivanič, 1992:305), a hynny mewn perthynas â sefyllfa'r Gymraeg a'r Saesneg yng Nghymru. O ddadansoddi nodweddion disgwrs hegemoniaidd yn y modd hwn, gellir adnabod a herio'r rhagdybiaethau ideolegol sy'n sail iddynt. Gall y mathau o ddisgwrs a ddadansoddir gynnwys, er enghraifft, rai hanesyddol a rhai cyfredol ar ffurf testunau cyfreithiol, testunau deallusol ac ysgolheigaidd, testunau haneswyr, testunau gwleidyddol ac ideolegol, testunau addysgegol, a thestunau celfyddydol, trwy'r cyfryngau torfol, ar ffurf hybysebu, mewn diwylliant poblogaidd ac yn y blaen.²² Roedd rhai o'r mathau hyn ymhlith y rhai a archwiliwyd yn feirniadol yn y sesiynau HYFIG a fu'n destun arolwg at ddibenion y traethawd hwn (gweler Pennod 6). Yn ôl tystiolaeth cryn nifer o hyfforddeion, bu rhannu'r persbectif beirniadol hwnnw'n brofiad dadlennol a ysgogodd amryw ohonynt i fynegi 'bwriadau ymddygiadol' (Ajzen a Fishbein, 1980) i ymwneud yn fwy positif â'r Gymraeg o hynny ymlaen yn dilyn y sesiynau.

O ddiddordeb i ni hefyd yw'r pwys a roddir gan rai ieithyddion beirniadol ar YFI fel cyfraniad allweddol at ddisgwrs ymrymusol neu ymryddhaol, neu, yng ngeiriau Candlin (1989: x), 'the critical consciousness of discourse as a basis for social

²¹ 'Hegemony: a term used by Antonio Gramsci (1891 – 1937) for the rule of a social or economic system which is exerted by persuading the disempowered to accept the system of beliefs, values, etc. of the ruling class' (Davies 1999:148). Yng ngeiriau Tollefson (2006:47) 'Gramsci defines hegemonic practices as institutional practices that ensure that power remains in the hands of the few. Diffiniad defnyddiol arall yw un May (2001:18) 'Hegemony is taken to mean...the diffusion and popularisation of a particular view of the world – that of the dominant group – as if it were representative of all other groups. In other words, so effective is the promotion and promulgation of a particular (dominant) point of view, that even those who may not initially share such a view come to accept it and *internalise* it as normative, as simply the commonsensical 'way of seeing things'. Am berthnasedd y cysyniad hwn i faes cynllunio ieithyddol a pholisi ieithyddol, y mae Tollefson yn esbonio bod 'CLP [critical language-policy] research pays particular attention to such practices that have come to be invisible (that is, seen as common sense). The term 'ideology' refers to unconscious beliefs and assumptions that are 'naturalized' and thus contribute to hegemony. As hegemonic practices come to be built into the institutions of society, they tend to reinforce privilege and grant it legitimacy as a 'natural' condition.' Yn y cyd-destun uchod cyfeirir yma at y rhagdybiaethau ideolegol ac arferion hegemoniaidd a barodd i'r Saesneg gael ei gorseddu'n brif iaith normadol ac uchelfri Cymru, ac i'r Gymraeg gael ei hymyleiddio'n iaith iselfri.

²² Defnyddir y term 'testun' yn y bennod hon i gyfeirio at ddarnau o ddisgwrs llafar yn ogystal â thestunau ysgrifenedig. Un rhan yn unig o'r broses gyfathrach gymdeithasol a elwir yn 'ddisgwrs' yw testun. Mae'r broses honno'n cynnwys hefyd y broses *gynhyrchu* testun (gyda'r testun yn gynnyrch) a'r broses *ddehongli* testun (gyda'r testun yn adnodd i'w ddehongli). Nid yw dadansoddi testun felly ond yn rhan o ddadansoddi disgwrs, am fod dadansoddi disgwrs yn cynnwys hefyd ddadansoddi'r prosesau cynhyrchu a dehongli. Gall disgwrs gynnwys hefyd agweddau gweledol nad ydynt yn destunau – er enghraifft, ystumiau wyneb a chorff, a delweddau gweledol mewn print, ffilm, ar deledu neu ar ffurf electronig. Am drafodaeth ddefnyddiol bellach ar hyn gweler Fairclough (1989:24 – 28).

emancipation'. O'r persbectif hwn, gellir gweld potensial HYFIG fel ffactor a all gyfrannu at adfywiad ehangach y gymdeithas sifil yng Nghymru. Gellir cymhwyso i faes adfywio'r Gymraeg ddadl Janks ac Ivanič (1992:305)

that language 'awareness' or 'raised consciousness' is not liberatory enough. Only if CLA empowers people to successfully contest the practices which disempower them would we claim that it is emancipatory. Awareness needs to be turned into action.

Gellir ystyried y ffrwd syniadol hon yn berthnasol i bolisi cyfredol LIC i drosi ymwybyddiaeth ieithyddol yn 'action' ar ffurf 'newid ymddygiad ieithyddol' (LIC, 2014a). Er y dadleuir yn y traethawd hwn dros adnabod HYFIG yn borth mynediad i ddinasyddion i ddisgwrs ieithyddol, o'i ystyried yn ogystal yn gyfrwng i ddadansoddi disgwrs yn feirniadol, gall fod yn borth mynediad hefyd at raglen i wireddu newidiadau sosio-wleidyddol ehangach.

Llythrennedd beirniadol a dysgu iaith

Maes cysylltiedig â dadansoddi disgwrs yn feirniadol, ac y gellir ei ystyried yn agwedd benodol ar ddadansoddi disgwrs yn feirniadol, yw'r cysyniad o ddadansoddi llythrennedd yn feirniadol. Hynny yw, mae'n cymhwyso'r ymagweddau beirniadol a drafodir uchod i faes astudio llythrennedd. Deil Pennycook (2001: 12)

It is possible...to see critical literacy in terms of the pedagogical application of critical discourse analysis, and therefore quite a central concern for critical applied linguistics.

Yn draddodiadol, pau a berthyn i faes addysgeg dysgu iaith yw astudio llythrennedd. Nid yw'n faes yr arferid ei ystyried yn berthnasol i ieithyddiaeth gymhwysol, oherwydd, yn draddodiadol, cysylltid ef â llythrennedd mewn mamiaith, ac y mae ieithyddiaeth gymhwysol wedi tueddu i ymdrin yn hytrach â dysgu ail iaith neu iaith arall. Bellach, yn bennaf oherwydd y cynnydd sylweddol dros y degawdau diwethaf mewn dysgu Saesneg fel ail iaith neu iaith ychwanegol, mae astudiaethau llythrennedd wedi cwmpasu fwyfwy astudio hefyd llythrennedd mewn iaith nad yw'n famiaith.

Yn ei drosolwg ef o faes astudiaethau llythrennedd, mae Williams (2004:576-577), er hwylustod, yn rhannu'r maes yn ddau draddodiad, sef y traddodiad 'cul' a'r traddodiad 'eang'. Mae Street (1984) yn gwahaniaethu mewn modd cyffelyb rhwng dau fodel ar gyfer astudio llythrennedd, y naill yn 'autonomous literacy' a'r llall yn 'ideological literacy'. Deillia'r traddodiad cul neu gysyniad 'autonomous literacy' o'r diffiniad arferol mewn geiriaduron o lythrennedd fel 'y gallu i ddarllen ac ysgrifennu'. Y mae astudio llythrennedd yn ôl y diffiniad hwn yn faes a a ganolbwyntia ar fedrau

unigolion, ac mae'n esgor ar ddamcaniaethau ynghylch caffael sgiliau ysgrifennu a darllen, darllen a deall, ac ysgrifennu er mwyn cyfansoddi testun. Dehonglir llythrennedd fel cyfres o sgiliau gwybyddol a saif ar wahân i unrhyw gyd-destun cymdeithasol ac sy'n rhydd o unrhyw werthoedd cymdeithasol. Mae a wnelo ag astudio seicoleg caffael sgiliau llythrennedd.

Mae'r traddodiad 'eang', ar y llaw arall, neu gysyniad 'ideological literacy' yn ymwneud â defnydd arferion llythrennedd mewn cymdeithas, ac mae gwreiddiau'r traddodiad hwn ym meysydd cymdeithaseg ac anthropoleg.

The broad approach... concentrates upon the meanings and values of literate behaviour in social contexts. It is compatible with the notion of communicative competence, although it espouses a more critical perspective (Williams, 2004:576).

Mae'r sawl sy'n astudio'r model ideolegol yn ymddiddori mewn llythrennedd yn ei wahanol gyd-destunau cymdeithasol. Daliant fod llawer gwahanol fath o lythrennedd yn weithredol mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau cymdeithasol, ac nad yw'r cyd-destunau hynny yn rhai niwtral, diduedd, ond yn hytrach yn rhai lle mae grym ac ideoleg ar waith. Dyma osod y persbectif hwn felly ochr yn ochr â'r persbectifau beirniadol eraill ar iaith a drafodwyd yn flaenorol.

Ceir sawl ffrwd o bersbectif beirniadol ar arferion llythrennedd – er enghraifft, ymagweddau ffeminyddol, ôl-drefedigaethol ac ôl-strwythurol. Deillia un ffrwd arbennig o syniadau am lythrennedd beirniadol o waith Paulo Freire ym maes addysgeg feirniadol. Roedd a wnelo'r gwaith hwnnw â dysgu llythrennedd ymhlith grwpiau ym Mrasil sydd wedi eu hymyleiddio mewn cymdeithas. Dadleuai Freire (1970) fod dulliau addysgu ac arferion cwricwlaidd safonol ysgolion y brif ffrwd yno yn ymyleiddio ac yn diystyru syniadau, diwyllianau, ieithoedd a 'lleisiau' myfyrwyr o gefndiroedd sy'n wahanol i rai'r brif ffrwd. Barnai nad oedd y rhaglenni safonol ar gyfer dysgu llythrennedd ond yn ymarferion i drosglwyddo gwybodaeth yn anfeirniadol o athro i fyfyrwr, fel bod y myfyrwr wedyn yn ei 'chelcio' yn y meddwl. Daliai Freire, wrth iddo ddatblygu rhaglenni dysgu llythrennedd ymhlith y tlodion ym Mrasil, ac mewn mannau eraill yn ddiweddarach, fod dysgu llythrennedd yn broses o ddysgu sut i 'ddarllen' y byd:

Reading the world always precedes reading the word, and reading the word implies continually reading the world (Freire a Macedo 1987:35).

Hynny yw, yn ôl yr awduron hyn, y mae a wnelo dysgu llythrennedd â chyfleu bydolwg, ac mae hynny yn ei hanfod yn weithred wleidyddol am ei bod yn anorfod yn cyfleu ideoleg. Dadleuai Freire dros ddatblygu addysg ymryddhaol, gyda rhaglenni dysgu llythrennedd yn seiliedig ar amgylchiadau lleol a diwylliant lleol y myfyrwyr. Byddai hyn, yn ei dyb ef, yn rhyddhau 'lleisiau' y grŵp gafodd ei ymyleiddio.

Freire saw literacy education as a form of *conscientização* – conscientization – that would bring people to understand that the conditions they lived in were not natural but were rather something against which they could take cultural action (Pennycook, 2001:101).²³

Bu gwaith Freire yn ddylanwadol iawn, gydag amryw o addysgwyr ac ieithyddion yn cymhwyso agweddau ar ei syniadau a'u rhoi ar waith mewn amryw o wahanol sefyllfaoedd dysgu (gweler e.e. Bee, 1993; Graman, 1988; Auerbach, 2000; Rivera, 1999; Frye, 1999).

Er na ellir disgrifio addysgeg feirniadol Freire (a lladmeryddion blaenllaw eraill megis Michael Apple, Joe L. Kincheloe, Peter McLaren a Henry Giroux) yn ffurf ar ieithyddiaeth gymhwysol feirniadol, y mae gorgyffwrdd amlwg â maes llythrennedd beirniadol. Mae'r ddau'n hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddylanwad ideoleg mewn dysgu llythrennedd, ac mewn addysgu yn gyffredinol, a'r ddau'n ymwneud â diwygio'r gweithgareddau hynny er budd grwpiau a ymyleiddiwyd.

Yr hyn sy'n nodweddu agweddau beirniadol ar lythrennedd yn ôl Luke (1997:143) yw

a commitment to reshape literacy education in the interests of marginalized groups of learners, who on the basis of gender, cultural and socioeconomic background have been excluded from access to the discourses and texts of dominant economies and cultures.

O ystyried y datganiad hwn yng nghyd-destun dysgu'r Gymraeg fel ail iaith yng Nghymru, er nad yw'r Gymraeg yn iaith 'dominant economy and culture', ar un ystyr gellid disgrifio llawer o drigolion di-Gymraeg sy'n ddysgwyr y Gymraeg yn 'marginalized groups of learners'. Gellid seilio disgrifiad o'r fath ar y ffaith bod hegemoni'r iaith Saesneg, yn ei holl ffurfiau lluosog, wedi tueddu i'w hymyleiddio o ddisgwrs am yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg neu wedi rhwystro eu mynediad at ddisgwrs o'r fath, a'u rhwystro rhag caffael y Gymraeg yn flaenorol. Yn yr un modd, gellid ystyried mai grŵp arall a ymyleiddiwyd yw'r rhai a ddysgodd y Gymraeg yn yr ysgol, ond nad yw arddel y Gymraeg fel oedolyn yn nodwedd o'u *habitus* (Bourdieu, 1990).²⁴ Fe'u hymyleiddiwyd o unrhyw ymwneud â'r Gymraeg gan arferion cymdeithasol normadol a ddeilliai o hegemoni'r Saesneg. Mae Williams (2004:17) yn ein hatgoffa bod crynswth y grwpiau di-Gymraeg hyn a ymyleiddiwyd o ddisgwrs am y Gymraeg yn gyfran sylweddol o boblogaeth Cymru, a'u bod i gyd yn perthyn i'r

²³ Gweler hefyd Bennod 1, troednodyn 1.

²⁴ Mynegwyd sawl agwedd ar y canfyddiadau hyn yn y dystiolaeth a gasglwyd yn yr arolwg a drafodir ym Mhennod 6.

gynulleidfa darged yr anelir ymyriadau adfywio ieithyddol y wladwriaeth ati. Ceir tystiolaeth yn ein harolwg bod cryn nifer o atebwyr o blith y grwpiau hyn yn gwerthfawrogi'r cyfle prin a gawsent, drwy HYFIG, i dderbyn gwybodaeth am y Gymraeg, ac ystyried yn feirniadol y prosesau a ddylanwadodd ar eu perthynas, neu ddiffyg perthynas, â hi.

Gall agwedd feirniadol at ddysgu'r Gymraeg fel mamiaith hefyd fod yn fodd i ddadansoddi rhagdybiaethau am 'briod'beuoedd y Gymraeg a'r Saesneg, sef rhagdybiaethau a allai fod yn rhan greiddiol o *habitus* siaradwyr y ddwy iaith. Gall fod yn fodd i adnabod rhagdybiaethau o'r fath yn yr amrediad o beuoedd defnydd a chyweiriau ieithyddol a gysylltant â'r naill iaith a'r llall. Wrth ddysgu'r Gymraeg fel ail iaith neu fel mamiaith felly, gall dadansoddi llythrennedd yn feirniadol fod yn gymhwysiad arbennig o ddadansoddi llythrennedd a dadansoddi disgwrs, ac yn ffurf ar YFI sy'n anelu, yng ngeiriau Clark ac Ivanič (1997:217) at

empower[ing] learners by providing them with a critical analytical framework to help them reflect on their own language experiences and practices and on the language practices of others in the institutions of which they are a part and in the wider society within which they live.

Yn ogystal â bod yn berthnasol i faes dysgu Cymraeg a Saesneg, gellir cymhwyso persbectif beirniadol o'r fath i ystyried y modd yr hyrwyddir y cysyniad o lythrennedd dwyieithog yng Nghymru heb gydnabod dwyieithrwydd fel mynegiant o deuddiwylliannedd. Drwy addysgeg feirniadol gellir adnabod swyddogaeth gymdeithasol y ddwy iaith mewn dau ddiwylliant gwahanol. Wrth arddel persbectif o'r fath, y mae rhai addysgwyr y tu allan i Gymru, sy'n ymwneud â dysgu Saesneg fel ail iaith (e.e. Auerbach a Wallerstein, 1987; Graman, 1988), wedi datblygu ymagwedd feirniadol at ddwyieithrwydd. Disgrifia Walsh (1991:127) 'critical bilingualism' fel a ganlyn:

The ability to not just speak two languages, but to be conscious of the sociocultural, political, and ideological contexts in which the languages (and therefore their speakers) are positioned and function, and the multiple meanings that are fostered in each.

Nid yw ymwybyddiaeth o'r fath yn rhan o'r 'dwyieithrwydd anfeirniadol' a hyrwyddid yn nhestunau BYIG a Llywodraeth Cynulliad Cymru gynt, ac a hyrwyddir erbyn hyn yn nhestunau polisi LIC a thestunau Comisiynydd y Gymraeg. Yn y testunau hyn, tueddir i ymdrin â'r Gymraeg fel ffenomen cyfathrebu yn unig, heb ddiwylliant ethnig na hanes gymdeithasol yn perthyn iddi. Dengys Brooks (2009) sut mae disgwrs polisi 'cynhwysol' wedi ysgaru'r Gymraeg oddi wrth gysyniadau o hunaniaeth Gymreig ethnig a threftadol, er mwyn hyrwyddo cysyniad mwyafrifol o

hunaniaeth Gymreig sifig. Gall HYFIG amlygu sut mae hyn wedi ymleiddio'r cyfoeth o agweddau ethnig, treftadol ar y diwylliant Cymraeg.

Dadansoddi'n feirniadol ddefnydd iaith a llythrennedd yn y gweithle

Wrth drafod y cysyniad o arddel ymagwedd feirniadol at ddadansoddi defnydd iaith yn y gweithle, dywed Pennycook (2001:18-19)

Moving beyond work that attempts only to describe the patterns of communication or genres of interaction between people in medical, legal, or other workplace settings, critical applied linguistic approaches to these contexts of communication focus far more on on questions of access, power, disparity and difference.

Mae perthnasau grym o'r fath mewn gweithleoedd wedi eu hastudio gan ieithyddion megis Wodak, a astudiodd gyfweiliadau rhwng cleifion ac ymarferwyr meddygol mewn ysbytai, gan nodi

In doctor-patient interaction in the outpatient clinics we have investigated, discursive disorders establish certain routines and justify the actions of the powerful. Doctors exercise power over their patients, they ask the questions, they interrupt and introduce new topics, they control the conversation (Wodak,1996: 170).

Mewn cyfrol a olygwyd gan Caldas-Coulthard a Coulthard (1996) ceir amrywiaeth o ddadansoddiadau beirniadol o'r berthynas rym rhwng darparwyr a defnyddwyr gwasanaethau. Yn eu plith trafodir disgyrsiau llafar ac ysgrifenedig o weithleoedd sawl gwlad, gan gynnwys dadansoddiadau o gofnodion heddluoedd a chyfweiliadau â seiciatryddion. Yng nghyd-destun Cymru, ymdrinnir ag agweddau ar y berthynas rym rhwng darparwyr gofal a defnyddwyr gwasanaethau gofal yn benodol gan Huws Williams, Williams a Davies (goln.) (1994); Davies (1994, 1999, 2010); Misell (2000); a Roberts a Williams (2003).

Rhan o'r model HYFIG a ddisgrifir ym mhennod 2 (Ffigwr 2.1) yw trafodaeth ac ymarferion am brofiadau siaradwyr Cymraeg sy'n ddefnyddwyr gwasanaethau, wrth iddynt ymwneud â swyddogion sefydliadau sy'n ymarfer grym drostynt yn y cyswllt hwnnw. Dengys y dystiolaeth a gyflwynwyd gan hyfforddeion fod hyn yn elfen sy'n cynyddu dealltwriaeth o'r profiad o fod yn ddwyieithog a gorfod 'dewis iaith', ac empathi â siaradwyr Cymraeg.

Ond nid yn unig yn y berthynas rhwng defnyddwyr gwasanaethau a darparwyr gwasanaethau y mae sefydliadau yn ymarfer grym. Agwedd arall ar ddefnydd y Gymraeg o fewn gweithleoedd yw i ba raddau y mae gan weithwyr sefydliadau

gyfleoedd, caniatâd a chefnogaeth i ddefnyddio'r Gymraeg wrth eu gwaith, yn eu hymwneud â'i gilydd yn fewnol, ac wrth gyfathrebu'n fewnol â'u cyflogwr. Mae traddodiad hirfaith i hegemoni'r Saesneg mewn peuoedd sefydliadol o'r fath, ac i strwythurau staffio hierarchaidd a arweinir gan benaethiaid sy'n rheoli'r sefydliad trwy gyfrwng y Saesneg. Yn 2005 cynhaliodd BYIG brosiect arbrofol a weithredid o fewn dau gorff cyhoeddus o 2005 hyd 2007 i 'ddatblygu cyfleoedd ymarferol i weinyddu'n ddwyieithog' a hynny er mwyn 'rhoi hwb i ddau gorff sydd am gynnal gweinyddiaeth ddwyieithog fewnol llawnach ac o safon uchel' (Eaves, Jones, Ioan *et al.*, 2007). Y ddau gorff dan sylw oedd Cyngor Sir Ceredigion a Heddlu Gogledd Cymru.

Anelai'r prosiect at estyn i staff yn eu gweithleoedd gyfleoedd i ddewis defnyddio'r Gymraeg, sef cyfleoedd a gynigid eisoes i'r cyhoedd trwy fesurau CIG. Wrth wneud hynny roedd y ddau gorff yn ceisio newid yr arferiad o ddefnyddio'r Saesneg yn unig fel yr iaith ddiofyn normadol ar gyfer cyfathrebu o fewn gweithleoedd. Drwy gynyddu defnydd y Gymraeg, ceisid sefydlu yn lle'r arferiad hwnnw arferiad newydd o ddefnyddio'r ddwy iaith. Wrth annog siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i ddefnyddio mwy o Gymraeg ysgrifenedig yn eu gweithleoedd, bu'n rhaid ystyried y ffaith bod lefelau llythrennedd yn gyffredinol ymhlith y staff dan sylw yn is yn Gymraeg nag yn Saesneg, yn ôl hunanasesiad y staff perthnasol eu hunain yn y ddau sefydliad.²⁵ Hefyd, po fwyaf ffurfiol y peuoedd llythrennedd, po leiaf oedd y defnydd gan staff o sgiliau llythrennedd Cymraeg ynddynt a'u hyder yn eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg. Felly, trwy gyfrwng y prosiect hwn roedd y cyfranogwyr hyn i gyd – gan gynnwys y rhai roedd y Gymraeg yn famiaith iddynt – yn ymarfer neu'n gwella neu'n caffael sgiliau llythrennedd yn y Gymraeg o'r newydd. Ym mhob un o'r ddau gorff cyhoeddus dan sylw, lanswyd y prosiect drwy gynnal sesiynau HYFIG i'r staff perthnasol. Bu'r sesiynau hynny'n gyfleoedd i'r staff ddechrau ar broses mabwysiadu arferion ieithyddol newydd drwy ddadansoddi'n feirniadol ddefnydd iaith a llythrennedd yn y gweithle.²⁶ Gall ymagwedd feirniadol o'r fath at ddefnydd iaith a llythrennedd yn y gweithle fod yn berthnasol i HYFIG ar gyfer sefydliadau sy'n ceisio

²⁵ Mae hyn yn ôl canfyddiad y staff eu hunain o'u lefelau gallu ar y pryd. Ar ddechrau'r prosiect gofynnwyd i'r staff asesu a chofnodi eu lefelau sgiliau iaith eu hunain a'u harferion defnydd iaith ar draws yr holl orchwylion arferol a sefyllfaoedd cyfathrebu ffurfiol ac anffurfiol, yn eu gweithleoedd. Mae canfyddiadau'r prosiect am y defnydd o sgiliau llythrennedd Cymraeg yng ngweithleoedd y ddau sefydliad dan sylw yn cael eu hategu i raddau helaeth gan ganfyddiadau mwy cyffredinol am y gallu i ysgrifennu Cymraeg yn ôl dau arolwg defnydd iaith. Cynhaliwyd y naill arolwg gan Beaufort Research ar gyfer yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol o fis Mawrth hyd fis Medi 2004 (Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol 2005), a chyhoeddwyd yr arolwg arall, sef *Arolwg Defnydd Iaith 2004*, gan BYIG (2006). Roedd traean o'r hapsampl o siaradwyr Cymraeg yn yr Arolwg olaf wedi datgan nad oeddent yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn dda, neu ddim o gwbl, a thraean arall wedi datgan y gallent ysgrifennu Cymraeg yn dda, yn hytrach na 'da iawn' (BYIG, 2006:50,53).

²⁶ Roedd yr awdur yn un o dri ymgynghorydd arweinïol a fu'n arwain y prosiect hwn, ac mae'r wybodaeth a'r cyfeiriadau at y prosiect yn deillio o'r profiad hwnnw.

meithrin ethos mewnol dwyieithog a chyflwyno'r Gymraeg i beuoedd a fu hyd yma yn rhai uniaith Saesneg.

Cynllunio ieithyddol

O'r peuoedd ieithyddiaeth gymhwysol feirniadol a ddynodwyd gan Pennycook (2001:10), y mae maes cynllunio ieithyddol yn un o'r rhai sy'n teilyngu ymdriniaeth fanylach yma, oherwydd o *praxis* cynllunio ieithyddol cymhwysol yng Nghymru y tarddodd y ffurfiau ar HYFIG a drafodir yn y ddoethuriaeth hon.

Sail unrhyw fath o gynllunio ieithyddol yw'r syniad bod 'language...is...subjected to human action and control...This insight is the basis for all language planning' (Bartsch 1988, t.147). Daeth y term cynllunio ieithyddol ('language planning') i amlygrwydd yng ngwaith Haugen (1959, 1966) ar safoni iaith yn Norwy. Defnyddiodd ef y term yn fwy cyffredinol hefyd i gwmpasu gwahanol fathau o ymyriad gan gymdeithas mewn defnydd iaith.

By language planning I understand the activity of preparing a normative orthography, grammar, and dictionary for the guidance of writers and speakers in a non-homogenous speech community. In this practical application of linguistic knowledge we are proceeding beyond descriptive linguistics into an area where judgement must be exercised in the form of choices among available linguistic forms (Haugen 1959, t. 8).

Hyd yn oed yn y disgrifiad cynnar hwn, cydnabyddir yn yr ail frawddeg uchod y gwahaniaeth rhwng yr agweddau damcaniaethol a disgrifiadol ar ffurfiau ieithyddol, ac agweddau ar gynllunio ieithyddol cymhwysol, 'where judgement must be exercised in the form of choices'.

Yn y llenyddiaeth ddilynol ar gynllunio ieithyddol, fe'i diffiniwyd yn aml yn ôl y mathau o weithgareddau a ystyrir yn ganghennau ohono. Rhannodd Kloss (1969) gynllunio ieithyddol yn ddwy gangen o weithgareddau, sef *cynllunio corpws* a *chynllunio statws*. Y mae a wnelo *cynllunio corpws* â chyfundrefnu a safoni iaith, sef priif faes diddordeb Haugen fel a nodir uchod. Arbenigwyr iaith sy'n ymgymryd â gweithgareddau cynllunio corpws fel arfer, a'i ddeilliannau yw gweithiau megis geiriaduron, gramadegau, orgraff, deunyddiau llythrennedd ac arweiniad ar ynganu ac ysgrifennu. Ymgymerir â gwaith o'r fath yn aml er mwyn unioni'r hyn a ystyrir yn ddiffygion cyfathrebol mewn iaith, a hynny fel arfer i ateb rhyw ddiben ideolegol. Er enghraifft, gall cynllunio corpws fod yn rhan o raglen adfer cymdeithas ôl-drefedigaethol, neu raglen i godi statws iaith a fu'n iselfri, drwy ffurfioli, safoni a chyfundrefnu ei geirfa a'i ffurfiau gramadeg.

Y mae a wnelo'r ail gangen o gynllunio ieithyddol a ddynodwyd gan Kloss (1969), sef *cynllunio statws*, â chynllunio i roi pwys ar iaith drwy ddulliau megis deddfu, cynnwys cyfeiriadau ati mewn cyfansoddiad gwlad i bennu statws swyddogol iddi, a llunio rheoliadau ynghylch defnydd iaith mewn peuoedd swyddogol. Trwy geisio newid canfyddiad pobl o iaith a ddefnyddir gan grŵp neu unigolion, anelir at ddylanwadu ar y modd y dyrennir swyddogaethau i'r iaith honno. Mae deddfu a dyfarnu statws i iaith mewn cyfansoddiad gwlad hefyd yn ddatganiadau symbolaidd o'i phwysigrwydd a'i gwerth, a gall gwaith cynllunio statws gydredeg â gwaith cynllunio corpws fel rhan o raglen i sefydlu neu gadarnhau statws cenedl neu ranbarth.

Cynllunio statws a chynllunio corpws yw'r prif weithgareddau sydd dan sylw o hyd yn y llynyddiaeth ar gynllunio ieithyddol, ond yn ychwanegol at y ddau weithgaredd hyn, yn ystod y 1980au a'r 1990au esblygodd y llynyddiaeth ar y pwnc i ymdrin â thri math arall o weithgareddau perthynol (Lo Bianco, 2004). Yng ngwaith Cooper (1989:157-163) cyflwynwyd *cynllunio caffael iaith* yn drydedd gangen o gynllunio ieithyddol. Mae a wnelo cynllunio caffael iaith yn bennaf â pholisïau a rhaglenni i hyrwyddo trosglwyddo iaith ar yr aelwyd; dysgu ail iaith neu iaith arall, ail-gaffael iaith, a chynnal neu gadw caffaeliad iaith.

Pedwerydd math o gynllunio ieithyddol, sydd hefyd yn berthnasol iawn i ymdrechion i adfywio ieithoedd lleiafrifol, yw *cynllunio defnydd*. Canolbwyntia'r gweithgaredd hwn ar ehangu peuoedd defnydd iaith, sef sefydlu swyddogaethau cyfathrebol i iaith mewn peuoedd sy'n newydd iddi neu beuoedd lle na fu ganddi swyddogaeth gadarn neu flaenllaw yn flaenorol. Yng nghyswllt y Gymraeg yng Nghymru mae hyn wedi golygu estyn defnydd y Gymraeg fwyfwy dros y degawdau diwethaf i beuoedd swyddogol megis gweinyddiaeth gyhoeddus, llywodraeth leol, LIC, y gyfraith, arwyddion cyhoeddus a'r cyfryngau torfol, yn ogystal â pheuoedd llai ffurfiol megis adloniant poblogaidd a diwylliant pobl ifainc.

Y bumed agwedd ar gynllunio ieithyddol a nodir gan Lo Bianco (2004: 743) yw *cynllunio bri* ('prestige planning') – gweithgaredd a berthyn yn agos iawn i gynllunio statws a chynllunio defnydd. O godi statws iaith anelir at roi mwy o fri arni. Y mae a wnelo *cynllunio bri* â hyrwyddo'r statws a feddir gan iaith mewn peuoedd sy'n ddiwylliannol symbolaidd megis, yn draddodiadol, grefydd, barddoniaeth, areitheg hanesyddol, defodau diwylliannol a llên gwerin. Yng nghyswllt y Gymraeg heddiw, dichon y gellid ychwanegu at y rhain y bri symbolaidd a ddaw i ran y Gymraeg mewn peuoedd tra chyfoes wrth i enwogion Cymraeg ym myd ffilmiau Hollywood, cerddoriaeth Eingl-Americanaidd boblogaidd, a'r cyfryngau torfol arddel yn gyhoeddus a chyda balchder eu gallu i siarad Cymraeg. Hefyd gellid dehongli'r defnydd o'r Gymraeg yn Senedd Ewrop, neu amlygrwydd llinellau barddoniaeth

Gymraeg gyfoes ochr yn ochr â barddoniaeth Saesneg ar adeilad Senedd CCC, yn enghreifftiau o gynllunio i roi bri ar yr iaith.

Pwysleisia'r llenyddiaeth ar gynllunio ieithyddol mai braidd yn artiffisial yw diffinio'r peuoedd cynllunio ieithyddol yn beuoedd ar wahân, oherwydd maent i gyd yn gysylltiedig â'i gilydd ac yn gorgyffwrdd â'i gilydd. Er enghraifft, mae ymdrechion ym maes cynllunio corpws iaith yn tueddu hefyd i godi statws a rhoi bri ar iaith. Yn ei dro, gall y statws a bri a briodolir i iaith fod yn fodd i gymell darpar ddysgwyr i'w chaffael. Diffiniadau i hwyluso adnabod y mathau o weithgareddau yr ymgemerir â hwy yw'r disgrifiadau uchod o wahanol beuoedd cynllunio ieithyddol felly.

Yn ystod y 1960au a'r 1970au, degawdau ffurfiannol y llenyddiaeth ar gynllunio ieithyddol, fe welid yng ngweithiau ysgrifenwyr blaenllaw ar y pwnc (Haugen, 1966; Kloss, 1969; Jernudd, 1973) ymgais i leoli cynllunio ieithyddol yn ddisgyblaeth a berthynai'n agos i faes y gwyddorau polisi. Datblygodd y diddordeb hwn mewn sefydlu cynllunio ieithyddol yn bau academiaidd ar yr un pryd ag yr oedd y gwyddorau polisi a'r gwyddorau cymdeithasol yn gyffredinol yn tueddu tuag at ymagwedd fwy gwyddonol a thechnegol. Wrth geisio gwyddoniaethu'r maes a'i sefydlu'n wyddor a ymarferid ar sail data cadarn ac ymchwil empirig am ddefnydd iaith, rhagwelid y byddai cynllunio ieithyddol yn datblygu'n ddisgyblaeth a arddelai ddulliau rhesymegol a gwrthrychol i ymdrin â phroblemau iaith-berthynol. Dyna'r rhagdybiaeth a synhwyrwn yng ngeiriau Fishman ym 1971:

Language planning as a rational and technical process informed by actuarial data and by ongoing feedback is still a dream, but it is by no means so farfetched a dream as it seemed to be merely a decade ago' (Fishman, 1971:111).

Wrth gyfeirio at y cyfnod ffurfiannol hwnnw, y 1960au a'r 1970au, mae May (2006:256) yn nodi

During this period, LP [language policy] was seen by its proponents as a non-political, non-ideological, pragmatic, even technicist paradigm. Its apparently simple and straightforward aim was to solve the immediate language problems of newly emergent postcolonial states in Africa, Asia and the Middle East.

Yng ngeiriau Luke, McHoul a Mey (t. 26)

Many linguists and educational planners saw their task as an ideologically neutral one, entailing the description and formalization of language(s) (corpus planning) and the analysis and prescription of the sociocultural statuses and uses of language(s) (status planning).

Fodd bynnag, yn ôl yr awduron hyn, er bod cynllunio ieithyddol wedi anelu yn ei ddegawdau ffurfiannol at ddatblygu'n ddisgyblaeth a arddelid gyda gwrthrychedd

gwyddonol, roedd ei ddatblygiad cynnar yn ddiffygiol yn union am ei fod wedi tueddu i osgoi

directly addressing larger social and political matters within which language change, use and development, and indeed language planning itself are embedded' (Luke, McHoul a Mey 1990 : 27).

Ymhellach na hynny, un feirniadaeth lem a fynegir gan Luke, McHoul a Mey ac eraill am ddatblygiad cynnar gwyddor cynllunio ieithyddol fel disgyblaeth ddiuedd, anwleidyddol yw bod ymagwedd anfeirniadol o'r fath yn bersbectif ideolegol ei hun, am ei bod, drwy ymhonni bod yn weithgaredd niwtral, yn cyfrannu at gynnal hegemonïau cyfredol (Ibid: 26-28). Gan hynny, dadleuant, y mae cynllunio ieithyddol yn cyfrannu at orthrwm cymdeithasol er budd y wladwriaeth a'r drefn gymdeithasol anghyfartal sydd ohoni. Mae Pennycook yn ategu dadleuon yr awduron hyn o blaid arddel persbectif beirniadol ac yn erbyn 'an apolitical approach to language that serves very clearly to maintain the social and linguistic status quo' (Pennycook 2001:56). Mae'r dadleuon hyn o blaid ymagwedd feirniadol at gynllunio ieithyddol felly yn adleisio'r safbwyntiau beirniadol a drafodwyd yn yr adrannau blaenorol wrth ymdrin â pheuoedd eraill ieithyddiaeth gymhwysol feirniadol.

O graffu ar rai diffiniadau mwy cyffredinol o gynllunio ieithyddol, buan y gwelir perthnasedd y persbectif beirniadol iddynt. Trafodir isod rai agweddau beirniadol o'r fath. Mae Cooper wedi diffinio cynllunio ieithyddol fel a ganlyn: 'Language planning refers to deliberate efforts to influence the behaviour of others with respect to the acquisition, structure, or functional allocation of their language codes' (Cooper, 1989: 45). Trwy ddatgan yma mai dylanwadu ar ymddygiad pobl yw pwrpas cynllunio ieithyddol, ymhlyg yn y diffiniad hwn y mae'n ddealedig y gwneir y dylanwadu gan rywrai sy'n meddu ar y grym i ddylanwadu, i ateb rhyw ddiben, neu, mewn geiriau eraill, rhyw *bolisi*. Hyn a ysgogodd Lo Bianco i sylwi bod

Studying and doing language planning...poses challenges to applied linguists. A key challenge derives from the policy infused nature of knowledge (data, concepts, and relationships) that informs language policy-making processes. An 'interested' or 'motivated' character is inherent in LPP [language policy and planning] and needs to be theorized as a central feature of researching language policy. (Lo Bianco 2004: 738–739).

Ar sail *polisi* ieithyddol felly yr eir ati i ymarfer *cynllunio* ieithyddol, ac fel y nodi Pennycook, y mae polisi bob amser yn fater gwleidyddol. '...Work such as language policy and planning' meddai, 'would appear from the outset to operate with a political view of language.' (Pennycook 2001:17). Man cychwyn unrhyw raglen cynllunio ieithyddol felly yw persbectif ideolegol.

O droi at ddiffiniad arall, mae Fishman (1973: 23-24) yn disgrifio cynllunio ieithyddol fel 'the organized pursuit of language problems, typically at the national level.' Cyfyd tair ystyriaeth feirniadol o'r diffiniad hwn. Yn gyntaf, yn ôl y diffiniad hwn, llunnir rhaglen neu bolisi cynllunio ieithyddol er mwyn datrys yr hyn a ystyrir gan wneuthurwyr polisi yn 'broblemau ieithyddol'. Mae Dua (1985, 1986) wedi ceisio adnabod a chategoreiddio gwahanol fathau o broblemau ieithyddol, gan ddadlau bod the systematic account of language problems of a community is a prerequisite to an adequate theory of policy formulation, language planning and language treatment (1985: 3).

Y mae dehongli patrymau defnydd iaith fel 'problemau ieithyddol' yn tarddu o ganfyddiad fod y patrymau dan sylw yn amlygu rhyw anghydbwysedd ieithyddol neu anghyfartaledd ieithyddol y dylid ei unioni. Fel y noda Lo Bianco (2004:738):

Language problems always arise in concrete historical contexts and these inevitably involve rival interests reflecting 'loaded' relations among ethnic, political, social, bureaucratic, and class groupings, and other kinds of ideological splits and controversies.

Wrth fynd ati i adnabod a datrys problemau ieithyddol mewn sefyllfaoedd o'r fath felly, gwneir hynny o ryw bersbectif am yr hyn sy'n 'broblem' a'r hyn sy'n 'ymyriad priodol' neu'n 'ddatrysiad cywir' o'r sefyllfa dan sylw, ac mae'n anochel y bydd sail ideolegol i unrhyw bersbectif o'r fath. Nid oes modd felly i ddisgwrs cynllunio ieithyddol fod yn ddiuedd.

The language problem that precedes and shapes language policy and planning is no straightforward thing, immersed as it is in discursive politics (Lo Bianco 2004:750).

Yn ôl y dehongliad hwn felly, mae'r union gysyniad o 'broblemau ieithyddol' yn broblemus ei hun.

Yr ail ystyriaeth feirniadol a gyfyd ynghylch diffiniad Fishman uchod yw, i ba raddau y mae Fishman, wrth nodi fod cynllunio ieithyddol yn digwydd 'typically at the national level', yn cyfystyru 'national level' â lefel y wladwriaeth? Os felly, y mae hyn yn ddiffiniad a allai fod yn broblemus i genhedloedd hanesyddol di-wladwriaeth y gorfodir mesurau ieithyddol arnynt gan y wladwriaeth. Mewn cyd-destun o'r fath, gall cynllunio 'at the national level' olygu bod cynllunio ieithyddol yn arf a ddefnyddir gan y wladwriaeth i gynnal *status quo* yr iaith hegemoniaidd neu gryfhau ei hegemoni.²⁷ Y

²⁷Er enghraifft, gall y 'problemau ieithyddol' y cyfeiria Fishman atynt yn hanner cyntaf ei ddiffiniad fod yn ddehongliad o du cenedl-wladwriaeth am iaith a siaredir gan genedl hanesyddol neu grŵp hanesyddol neu ethnig sydd o fewn ei ffiniau. Gall y wladwriaeth wrthod cydnabod na chefnogi iaith o'r fath ar y sail y byddai hynny'n groes i ideoleg unoliaethol y wladwriaeth 'uniaith'. Mae Ffrainc a Thwrci yn enghreifftiau o genedl-wladwriaethau o'r fath.

drydedd ystyriaeth feirniadol a gyfyd o ddiffinio cynllunio ieithyddol yn weithgaredd a ddigwydd 'typically at the national level' yw na chydnebydd diffiniad o'r fath y gwaith cynllunio ieithyddol helaeth a welwyd ac a ddigwydd yn gynyddol ar y lefelau rhanbarthol ac isranbarthol yn hytrach nag ar y lefel wladwriaethol (Carlin, 2013). Mae HYIG yn enghraifft o ymyriad cynllunio ieithyddol a esblygodd ar lefel eilaidd asiantau is-wladwriaethol yn hytrach na thrwy nawdd uniongyrchol o du prif asiantau'r wladwriaeth.

Yn lle defnyddio'r term 'cynllunio ieithyddol', mae rhai ysgolheigion yn cyfeirio at gynllunio ieithyddol gan asiantau gwladwriaethol ac is-wladwriaethol fel 'polisi ieithyddol'. Er enghraifft, diffiniad arall y gellir ei drafod o bersbectif beirniadol yw'r un gan McGroarty (1997:1): 'Language policy can be defined as the combination of official decisions and public practices related to language education and use.' Yma eto, awgryma'r geiriau 'official decisions' mai arf a ddefnyddir i ddibenion 'swyddogol' gan ddeiliad grym yw polisi ieithyddol. Hefyd, gall y geiriau 'public practices' awgrymu arferion normadol a sefydlwyd o dan drefn yr iaith hegemonïaidd. Cynigir diffiniad go debyg gan Lotherington (2004:703), sef 'Language policy is a combination of explicit public policy (as in the declaration of official languages), and less obvious implicit social norms.' Yma eto bydd y 'less obvious implicit social norms' yn deillio o drefn hegemonïaidd.

Dengys yr agweddau beirniadol a gyfyd o'r diffiniadau uchod yn eglur sut mae maes cynllunio ieithyddol cymhwysol yn agored iawn i'w drafod o bersbectif beirniadol oherwydd o benderfyniadau *polisi*, a lunnir ar sail ideolegol, y deillia rhaglenni a mesurau cynllunio ieithyddol. Mae'n arwyddocaol bod tuedd gyffredin bellach mewn llawer o'r llenyddiaeth ar gynllunio ieithyddol i ieithyddion beirniadol gyplysu 'language planning' â 'language policy' yn un term cyfansawdd - 'language policy and planning' (e.e. Ager, 2001; Pennycook, 2001; Lo Bianco, 2004; Hornberger, 2006). Yn wir, mae rhai ieithyddion yn defnyddio'r naill derm a'r llall bron fel petaent yn gyfystyron, gyda chyfrolau am yr hyn a elwir yn y traethawd hwn yn gynllunio ieithyddol yn dwyn teitlau megis *An Introduction to Language Policy – Theory and Practice* (Ricento, gol., 2006) a *Language Policy – Hidden Agendas and New Approaches* (Shohamy, 2006). Mae Wodak (2006) yn dadlau bod cymaint o orgyffwrdd ac agweddau cyfystyr rhwng y naill derm a'r llall fel mai ofer bellach yw ceisio gwahaniaethu'n ystyrlon rhyngddynt. Ar y llaw arall, defnyddiol yn nhyb rhai ieithyddion eraill yw gwahaniaethu'n bendant rhwng y ddau derm, er eglurder. Yn ôl Ager (2001: 5-6):

The terms 'language planning' or 'language policy' have usually been used...when considering the language behaviour of communities or

states rather than individuals. Language planning has thus come to mean the ways in which organised communities, united by religious, ethnic or political ties, consciously attempt to influence the language(s) their members use (...) Language policy is official language planning, carried out by those in political authority, and has clear similarities with any other form of public policy. As such, language policy represents the exercise of political power, and like any other policy, may be successful or not in achieving its aims.

Mae Shohamy (2006) hefyd yn gwahaniaethu rhwng y ddau derm 'cynllunio ieithyddol' a 'pholisi ieithyddol'. Yn ôl ei disgrifiad hi, graddau'r ymyriad yw un o'r prif wahaniaethau. Disgrifia cynllunio ieithyddol fel term a ddefnyddid yn y 1950au a'r 1960au i olygu mathau ysgubol o ymyriadau mewn ymddygiad ieithyddol a rheolaeth drosto - er enghraifft, pennu pa iaith neu ieithoedd swyddogol y dylai pobl ei / eu defnyddio mewn cenedl. Mae polisi ieithyddol ar y llaw arall yn fwy cyffredinol ei natur, meddai, gan gyfeirio at gyfres o egwyddorion parthed ymddygiad ieithyddol.

Thus, while language planning refers to control, it does not leave anything to the individual to decide, as the governing body determines not just what the person will know but also how he or she will arrive there. (...) Language policy attempts to be less interventionist and to refer mostly to principles with regard to language use. Thus, it may include a statement that a number of languages should be learned in a given country or that indigenous groups should have the right to maintain their language, but it often does not go into which groups or which languages or how this should be implemented (Shohamy, 2006: 49).

Wedi gwahaniaethu yn y modd hwn rhwng cynllunio a pholisi, â'r awdures rhagddi i gydnabod 'Yet it should be noted that the boundaries between policy and planning are far from clear' (Ibid:49), a bod rhai mathau o bolisi yn debycach i'r mathau o gynllunio a ddisgrifia, ac felly i'r gwrthwyneb hefyd.²⁸ Fel hyn y disgrifia Fettes (1997: 14) y berthynas rhwng cynllunio ieithyddol a pholisi ieithyddol:

Language planning must be linked to the critical evaluation of language policy: the former providing standards of rationality and effectiveness, the latter testing these ideas against actual practice in order to promote the

²⁸ Er enghraifft, un 'polisi' y cyfeiria Shohamy ato fel un sy'n llawer mwy na datganiad o egwyddorion cyffredinol, yw polisi iaith Québec, a fynegir ar ffurf cyfreithiau. Cyfeiria'r cyfreithiau hynny nid yn unig at egwyddorion, ond nodant yn fanwl sut i weithredu'r egwyddorion mewn mesurau megis darparu arwyddion cyhoeddus, a phennu faint o oriau yn union y bydd plant yn eu treulio yn dysgu iaith yn yr ysgolion, a materion manwl cyffelyb (Shohamy, 2006: 49-50).

development of better...language planning models. Such a field would be better described as 'language policy and planning', LPP.

Yn ôl Hornberger mae defnyddio'r term cyfansawdd 'polisi ieithyddol a chynllunio ieithyddol' yn fodd i osgoi unrhyw anghytundeb ar enw'r maes; mae'n 'reminder of how inextricably related language planning and language policy are' (2006: 25) ac mae'n cydnabod pwysigrwydd y ddau. Ei barn hi yw bod

LPP offers a unified conceptual rubric under which to pursue fuller understanding of the complexity of the policy-planning relationship and in turn of its insertion in processes of social change.' (Hornberger 2006: 25)

Bid a fo am y gwahaniaethau cysyniadol rhwng polisi ieithyddol a chynllunio ieithyddol, y mae ieithyddion beirniadol yn gytûn mai o'r bau wleidyddol y deillia'r ddau yn eu hanfod, bod y ddau ynghlwm wrth ei gilydd a bod a wnelo golwg beirniadol arnynt ag astudio'r berthynas rhwng iaith a grym.

Yn ôl persbectif ieithyddion beirniadol felly y mae agweddau ideolegol yn greiddiol i'r corff cynyddol o wybodaeth a elwir yn gynllunio ieithyddol damcaniaethol, ac i weithrediad yr ymarfer a elwir yn gynllunio ieithyddol cymhwysol. Wrth chwilio am atebion i broblemau ieithyddol, medd Ricento (2006: 11-12),

The beginning of wisdom is the recognition that 'scientific'objectivity in such research is not possible, since researchers always begin with particular experiences and positions on what the social 'good' might be and what sorts of changes in social (including language) policy might advance a particular vision of that good.

Dichon fod hynny'n fwy amlwg yn y bau hon nag ydyw hyd yn oed ym mheuoedd eraill ieithyddiaeth gymhwysol feirniadol. Mae'r penderfyniadau ynghylch pa fathau o ymchwil empirig, gwybodaeth a data a gesglir fel sail i ddamcaniaeth cynllunio ieithyddol, y modd y dehonglir ac y defnyddir y cyfryw wybodaeth, pa ddangosyddion a ddefnyddir i ddadansoddi perthnasau cymdeithasol-ieithyddol, a'r cysyniadau cymdeithasegol sy'n sail i'r rhain, i gyd yn tarddu o ragdybiaethau a chymhellion ideolegol.

Wrth grynhoi'r modd mae HYFIG yn rhannu agweddau ar gyfeiriadedd cynllunio ieithyddol beirniadol, dyfynnir o waith Williams a Morris, dau sylwebydd a fu'n bwrw persbectif Cymreig a Chymraeg ar swyddogaeth cynllunio ieithyddol yn y Gymru ôl-ddatganoli:

The goal of any language planning must be to dispute monolingual hegemonies through reinstitutionalizing and religitimizing minority language use. It must involve recognizing those hegemonies through constructive reflexivity. It also involves undoing the effect of hegemonic discourses upon the population in general, not merely of the Welsh

speaking population, but also of those who do not speak Welsh, if this process is to be of relevance to Wales as a whole (Williams a Morris, 2000: 233–4).

Ar un wedd, gellir disgrifio HYFIG yn gymhwysiad neilltuol o'r nod uchod, ar ffurf hyfforddiant.

HYFIG: man cyfarfod i sawl agwedd ar ieithyddiaeth gymhwysol feirniadol

O'r drafodaeth uchod am rai o beuoedd blaenllaw ieithyddiaeth gymhwysol feirniadol, fe welir bod agweddau ar HYFIG sy'n gorgyffwrdd â phob un o'r disgyblaethau a ddisgrifiwyd. Yn yr ystyr honno, mae HYFIG yn fan cyfarfod i gynllunio ieithyddol, dadansoddi disgwrs yn feirniadol, llythrennedd beirniadol, a dadansoddi'n feirniadol ddefnydd iaith yn y gweithle.

Yn ogystal â'i swyddogaeth fel ffurf neilltuol ar hyfforddiant, dadleuir yn y traethawd hwn y gellir ei ystyried yn ymyriad cynllunio ieithyddol o bwys. Yn ôl testunau polisi cyhoeddus ar y Gymraeg, mae llwyddiant y model cynllunio ieithyddol a weithredir yng Nghymru yn dibynnu ar gyfranogaeth dinasyddion mewn disgwrs ieithyddol, ac ar sefydlu eu 'cydberchnogaeth' ar yr ymyriadau i adfywio'r Gymraeg. Dangosir yn y traethawd hwn fod HYFIG yn gyfrwng prin a gwerthfawr i gyflwyno gwybodaeth ieithyddol i ddinasyddion, ac y mae ei elfennau rhyngweithiol yn fodd i agor disgwrs beirniadol â nhw, a rhyngddynt hwy a'i gilydd. Yn hynny o beth, mae'n rhannu llawer o'r un amcanion beirniadol â sawl un o'r disgyblaethau a drafodwyd yn y bennod hon.

Pennod 4

Golwg ar rethreg yr ymagwedd gynhwysol mewn testunau polisi cyhoeddus parthed adfywio'r Gymraeg

Cyflwyniad

Mae Knoepfel et al. (2011) yn adnabod tair prif ffrwd ym maes dadansoddi polisi, tair ffrwd sy'n adlewyrchu gwahanol amcanion a meysydd diddordeb mewn ymchwil cymdeithasol. Y tair ffrwd yw dadansoddi ar sail damcaniaethau am y wladwriaeth; dadansoddi er mwyn esbonio gweithredoedd asiantaethau cyhoeddus, a dadansoddi er mwyn gwerthuso effeithiau gweithredoedd asiantaethau cyhoeddus. Gall pob un o'r tri math o ddadansoddi gael ei gynnal yn annibynnol ar ei gilydd, neu fe allant gydredeg a gorgyffwrdd â'i gilydd.

Y mae a wnelo'r bennod hon â'r ail fath o ddadansoddi polisi yn bennaf – esbonio gweithredoedd polisi asiantaethau cyhoeddus, sef gweithredoedd ar ffurf testunau polisi sy'n mynegi ymagwedd gynhwysol tuag at gynllunio ieithyddol i adfywio'r Gymraeg. Ceir peth gorgyffwrdd hefyd â'r ddau fath arall o ddadansoddiad.

Mae'r trywydd ymchwil hwn yn adlewyrchu elfennau'r fframwaith a gynigir gan Knoepfel et al. i hwyluso ymchwil sy'n anelu at 'understanding and explaining links between actors, resources and institutional rules, on the one hand, and the substantive and institutional content of the policy products, on the other' (Op. cit. :262).

Yn y bennod hon olrheindir yn ddiacronig gyfeiriadau at thema cynhwysiant mewn testunau polisi ar adfywio'r Gymraeg, a thestunau BYIG, prif asiant cynllunio ieithyddol y wladwriaeth o 1993 hyd 2012, yn ogystal â thestunau gan rai asiantau cyhoeddus eraill a fu'n gyfrifol am ddehongli a rhoi arweiniad ar y cyfryw bolisiâu. Ar ddechrau'r bennod amlinellir sut y datblygodd cynhwysiant yn thema amlwg yn nisgwrs gwleidyddol y D.U. wedi iddi ddod yn elfen flaenllaw yn nisgwrs mewnol Llafur Newydd yn y cyfnod cyn ac ar ôl etholiad cyffredinol 1997. Amlinellir sut y datblygodd yn thema bwysig yn y disgwrs gwleidyddol ynghylch datganoli yng Nghymru yn y cyfnod cyn ac ar ôl y refferendwm ar ddatganoli ym 1997. Ystyrir sut y cymhwyswyd yr ymagwedd gynhwysol at faes cynllunio ieithyddol i adfywio'r Gymraeg, ac esblygu'n 'fledgling doctrine of inclusive bilingualism for all' a 'the doctrine of plenary inclusion' yn nogfennaeth polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru yn

ystod tymor cyntaf ei bodolaeth (Williams, 2004).²⁹ Dangosir bod rhethreg cynhwysiant yn nodweddu testunau polisi cyhoeddus ar adfywio'r iaith Gymraeg ers tros ddau ddegawd bellach. Yn olaf, ystyrir sut mae'r cyfryw destunau polisi cynhwysol yn rhoi cryn bwys ar ddatblygu ac arddel ymagwedd bartneriaethol at adfywio'r Gymraeg, gyda dinasyddion yn gweithredu fel cyd-asiantau â'r wladwriaeth i greu 'Cymru ddwyieithog', gynhwysol.

Er y canolbwyntir yn y drafodaeth isod ar adolygu ieithwedd y gyfeiriadaeth at gynhwysiant yn bennaf, yn hytrach na dadansoddi seiliau damcaniaethol y cysyniad o gynhwysiant yn feirniadol, tynnir sylw yn gryno hefyd at rai agweddau cysyniadol problemus a gododd yn y naratif cynhwysol. Yn benodol, nodir sut y daeth uniad byrhoedlog y naratif am gydraddoldeb ieithyddol â'r naratif am gydraddoldeb cymdeithasol i ben drwy ymleiddio cydraddoldeb ieithyddol. Yn ogystal, nodir sut mae polisi iaith a'r modd y'i hyrwyddid yn osgoi defnyddio ieithwedd sy'n tynnu sylw at seiliau ideolegol a gwleidyddol cynllunio ieithyddol.

Dengys yr arolwg hwn o destunau polisi fod y model cynllunio ieithyddol a esblygodd yng Nghymru ers pasio Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn rhagdybio y bydd disgwrs ystyrion rhwng y wladwriaeth a'r gymdeithas sifil yng Nghymru yn elfen greiddiol o'r model hwnnw.

Cynhwysiant fel thema mewn disgwrs gwleidyddol diweddar

Daeth y term cynhwysiant (inclusivity) i amlygrwydd ym mywyd gwleidyddol y Deyrnas Unedig o tua chanol y 1990au ymlaen fel rhan o ddisgwrs gwleidyddol 'Llafur Newydd' yn Lloegr. Fe'i defnyddid wrth drafod sut i estyn darpariaeth gymdeithasol gyfartal i grwpiau cymdeithasol neilltuol a eithriwyd neu a ymleiddiwyd yn ystod blynyddoedd llywodraethau Ceidwadol y D.U. o 1979 hyd 1997. Ymledodd defnydd y rhethreg hon i Gymru yn y cyfnod yn arwain at y refferendwm ar ddatganoli ym 1997, a'i gymhwyso gan arweinyddiaeth y Blaid Lafur Gymreig fel rhan o ddisgwrs mewnol y blaid honno am adfywio'r gymdeithas sifil yng Nghymru petai datganoli yn digwydd.

Yn y cyfnod hwnnw, nid oedd y cysyniad o gynhwysiant wedi ei ddiffinio'n fanwl. Roedd yn gyfnod cyn yr ymgorfforid y cysyniad mewn testunau polisiâu a ddatblygid gan lywodraeth Llafur Newydd wedi 1997, a chan Lywodraeth y Cynulliad wedi 1999. Yn y cyd-destun Gymreig roedd y cysyniad o gynhwysiant cymdeithasol

²⁹ Mae'r ddau ddyfyniad yn ymadroddion a ddefnyddiwyd gan Williams i ddisgrifio'r ymagwedd cysyniadol y tu ôl i strategaeth genedlaethol gyntaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y Gymraeg, *Iaith Pawb* (LICC, 2003).

yn un eang ac agored i'w ddehongli a'i ddatblygu mewn amryw ddull a modd. Dadleuai Ron Davies, Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi 1997 ac arweinydd y Blaid Lafur Gymreig, y byddai datganoli yn fodd i greu dulliau llywodraethu mwy cynrychioladol a chyfranogol. Gweithred a ymddangosai'n arwydd o'r ymagwedd hon oedd ei gyfarfod â chynrychiolwyr Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn fuan wedi ei benodiad yn Ysgrifennydd Gwladol newydd Cymru yn 1997 (Brooks, 2009:3). Am gyfnod, ymddangosai y gallai cynhwysiant cymdeithasol fod yn gyfrwng i gyfreithloni cyfraniad ymgyrchwyr iaith i adfywiad y Gymraeg a chyfiawnhau ystyried ymyriadau cynllunio ieithyddol radicalaidd. Ac ynghlwm wrth y posibilrwydd hwnnw roedd gobaith y byddai lle mwy blaenllaw i gynllunio ieithyddol yn y brif ffrwd disgwrs am adfywio'r gymdeithas sifil yng Nghymru. Yn hynny o beth roedd y mudiad iaith ymhlith nifer o'r carfannau ymgyrchu blaengar a grwpiau cymdeithasol neilltuol eraill a ymyleiddiwyd yn flaenorol yn nisgwrs gwleidyddol y weinyddiaeth Geidwadol o 1979 hyd 1997. Calonogid y carfannau a'r grwpiau hyn gan bwyslais Ron Davies ac eraill ar gynhwysiant cymdeithasol (Chaney a Fevre, 2001; Royles 2007).

Wedi datganoli, daeth thema cynhwysiant yn ddylanwad pwysig ar ddisgwrs polisi cyhoeddus yn nhymor cyntaf y llywodraeth ddatganoledig newydd a sefydlwyd yng Nghymru ym 1999 (Royles, 2007; Chaney a Fevre, 2001, Brooks, 2009). Ond wrth i'r degawd wedi datganoli fynd rhagddo, gwelwyd tuedd gynyddol i ymyleiddio'r Gymraeg yn yr ymdriniaeth â chynhwysiant mewn testunau polisi cyhoeddus a ddeilliai o'r Senedd yng Nghaerdydd. Enghraifft amlwg o hyn yw'r modd yr ymyleiddiwyd yr ymdriniaeth â hawliau siaradwyr Cymraeg yn nisgwrs cyfle cyfartal, hyd nes ei hepgor i raddau helaeth (Brooks, 2009). Trafodir hyn ymhellach maes o law yn y bennod hon, yn yr isadran ar *Y Gymraeg yng nghyd-destun Cyfle Cyfartal*.

Bellach, prin ac arwynebol yw'r cyfeiriadau at gydraddoldeb ieithyddol fel elfen bwysig o gynhwysiant mewn testunau polisi, ac eithrio testunau sy'n ymwneud yn benodol â pholisi ar y Gymraeg. Gan mai thema lorweddol cydraddoldeb a gysylltai'r agenda cynllunio ieithyddol â chynhwysiant ym mlynnyddoedd cyntaf y mileniwm, gyda dileu cydraddoldeb ieithyddol o'r agenda cydraddoldeb brif ffrwd, collwyd y bont honno. O ganlyniad, nid yw cydraddoldeb ieithyddol bellach yn thema flaenllaw mewn ymdriniaethau â chynhwysiant mewn dogfennau polisi. Er hynny, fel y gwelwn isod, parhaodd yr ymagwedd gynhwysol yn thema mewn testunau polisi ar y Gymraeg.

Sylfaen cynhwysiant mewn polisi cyhoeddus ar y Gymraeg: Deddf Diwygio Addysg 1988

Sylfaen bwysig i'r ymagwedd gynhwysol a drafodir yma oedd deddf, nid ym maes deddfwriaeth iaith *per se*, ond ym maes addysg, sef Deddf Diwygio Addysg 1988. Sicrhaodd y ddeddf hon le i'r iaith Gymraeg fel pwnc craidd yng nghwricwlwm ysgolion Cymru, a thrwy hynny daeth y Gymraeg yn bwnc a ddysgid i bob disgybl, o bump oed hyd un ar bymtheg oed, a fynychai ysgolion y wladwriaeth yng Nghymru. Mewn dogfen a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gymreig mynegwyd amcan y polisi a weithredid drwy'r ddeddfwriaeth hon. '...All children should by the time they complete their compulsory schooling at sixteen and after eleven years' study of Welsh in school have acquired a substantial degree of fluency in Welsh' (Welsh Office, 1989:4). Cyn hynny, lle ymylol oedd i'r Gymraeg fel pwnc mewn llawer o ysgolion Cymru, ac fe'i cynigid i ddisgyblion yn aml fel un dewis posibl o blith yr 'ieithoedd tramor' dewisol a ddysgid. Yn y cyfnod o tua 1974 hyd 1988, mewn llawer rhan o Gymru ni fyddai unrhyw wersi Gymraeg yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd i 45% o ddisgyblion ysgolion Cymru (Williams, 2014:250). Er y ceid ysgolion cyfrwng Gymraeg naturiol neu ysgolion dwyieithog mewn rhai siroedd, y tu hwnt i'r siroedd Cymreiciaf eu hiaith roedd y rhain yn eithriadau i drefn normadol cyflwyno addysg trwy gyfrwng y Saesneg. Mewn sefyllfa o'r fath, byddai hyd a lled y cyfleoedd i ddisgyblion gael mynediad i'r Gymraeg, boed fel pwnc neu fel cyfrwng dysgu pynciau eraill, yn dibynnu i raddau helaeth ar bolisiâu eu hawdurdod addysg lleol. Byddai'r polisiâu hynny yn eu tro yn adlewyrchu tuedd ac ewyllys gwleidyddol yr awdurdodau lleol (Evans, 2000; Williams a Morris, 2000:112).

Gellid dehongli'r ddarpariaeth o dan Ddeddf Diwygio Addysg 1988 i gynnwys y Gymraeg yn bwnc craidd gorfodol yn y cwricwlwm, yn fesur cynhwysiant cymdeithasol felly. Anelai at estyn y cyfle i holl ddisgyblion ysgolion Cymru ddatblygu'n ddinasyddion dwyieithog, 'waeth beth oedd eu cefndir, iaith eu haelwydydd a'u tras, neu ym mha ardal o Gymru roeddent yn byw. Y nod bellach oedd sicrhau y byddai holl fyfyrwyr ysgolion Cymru yn caffael 'a substantial degree of fluency' yn y Gymraeg. Fel y sylwodd Dunbar (2007: 127), pen draw polisi o'r fath yw y byddai holl bobl Cymru yn caffael yr iaith. Dyna nod go uchelgeisiol, ac yn un sy'n rhagflaenu'r nod 'creu Cymru ddwyieithog' a fynegid yn ddiweddarach ym mholisi LICC (2002; 2003).

Yn arwyddocaol iawn hefyd, ymhlyg yn nynodiad y Gymraeg yn bwnc craidd roedd dealltwriaeth mai mater i'w drin yn y bau addysgol bellach, yn hytrach nag yn y bau wleidyddol, fyddai'r egwyddor o sicrhau mynediad i'r Gymraeg fel buddiant addysgol a chymdeithasol i bob plentyn ysgol yng Nghymru. Yn yr ystyr honno gellid

ystyried y ddeddf yn gyfraniad at y broses ddadwleidyddoli'r Gymraeg, proses a drafodir yn fras yn ddiweddarach yn y bennod hon.

Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a chyfnod cynnar Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Yn yr un flwyddyn ag yr ymddangosodd Deddf Diwygio Addysg 1988 ar y Llyfr Statud, sefydlwyd BYIG yn gorff ymgynghorol anstatudol gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru (Roddick, 2007). Pwrpas y Bwrdd yn ei gyfnod cyntaf oedd

...Cynghori ar faterion a fyddai'n galw am weithredu gweinyddol neu ddeddfwriaethol; cynorthwyo a chynghori cyrff cyhoeddus a phreifat ac unigolion ynglŷn â defnyddio'r iaith a'i hyrwyddo yn eu gweithgareddau; ystyried cwynion, cymodi a cheisio ateb i broblemau lle bo hynny'n bosib. Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am gynghori'r Ysgrifennydd Gwladol ar faterion cyffredinol sy'n ymwneud â'r Gymraeg (BYIG, 1989:2)

Yn ei strategaeth gyntaf nododd mai'r ddogfen honno oedd y testun cyntaf gan gorff cenedlaethol swyddogol i fynegi 'dyheadau ac amcanion penodol i'r iaith gyda'r bwriad o'u gweithredu' (Ibid: 2). Nid oedd yn ddogfen faith - yn ddeuddeg tudalen yn unig o ran ei hyd - ond cafwyd ynddi sawl datganiad a arwyddai mai ymagwedd gynhwysol y bwriedid ei harddel wrth ddechrau creu model cynllunio ieithyddol i sicrhau dyfodol i'r iaith. O dan y pennawd 'ymgynghori' datganwyd bod y Bwrdd

... Yn awyddus i gael cefnogaeth pob corff ac unigolyn yng Nghymru sy'n barod i weithio dros ddyfodol yr iaith Gymraeg (Ibid.:11).

Cynhwysai'r ddogfen dabl lle pennwyd, mewn pedair colofn, restrau o ddyheadau, amcanion, targedau ar gyfer 1989-1994 a chymau gweithredu. Disgrifiwyd y rhestr o ddyheadau yn

(d)disgrifiadau cyffredinol sydd yn adlewyrchu dymuniadau'r rhan fwyaf o Gymry Cymraeg a di-Gymraeg ynglŷn â sicrhau dyfodol i'r iaith o fewn cymdeithas ddwyieithog (Ibid.:9).

Roedd ieithwedd gynhwysol y ddogfen yn cynnwys cyfeiriadau at sicrhau ewyllys da dinasyddion di-Gymraeg yn ogystal â siaradwyr Cymraeg: 'Mae'n arbennig o bwysig i ennill cefnogaeth ac ymrwymiad y di-Gymraeg', datganodd (Ibid.:4). Roedd geiriad gofalus y ddogfen yn adlewyrchu sensitifrwydd gwleidyddol y cyfnod ynghylch mater yr iaith Gymraeg, sef mater yr ymhelaethir arno maes o law yn y bennod hon. Gwelir felly fod strategaeth gyntaf y Bwrdd yn ei gyfnod anstatudol wedi cyflwyno cywair ac arddull cynhwysol ac anwleidyddol i ddisgwrs cynllunio ieithyddol swyddogol.

Gyda phasio Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a sefydlu BYIG yn gorff statudol o dan y ddeddf honno, gwreiddiwyd cynllunio ieithyddol ym maes deddfwriaeth a pholisi cyhoeddus. Gellir dehongli'r cyfnod yn ymestyn o sefydlu'r Bwrdd statudol hyd heddiw yn gyfnod o ddatblygu cynllunio ieithyddol o fath cynhwysol yng Nghymru, o leiaf yn y modd y'i mynegwyd mewn polisi cyhoeddus.

O osod Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yng nghyd-destun hanes deddfwriaethol y Gymraeg dros y pum canrif flaenorol, gwelir bod Deddf 1993 yn drobwynt pwysig yn hanes y berthynas rhwng y wladwriaeth a siaradwyr Cymraeg (Roddick, 2007; Williams, 2000a; Jones, 1997; Jones, 1999). Rhoes y Ddeddf derfyn ar 500 mlynedd o ymleiddio neu eithrio'r Gymraeg yn llwyr o beuoedd bywyd cyhoeddus, sef yr holl beuoedd uchelfri a gysylltid â llywodraeth, cyfraith gwlad a'r system gweinyddu cyfiawnder, addysg, a gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y gwasanaethau iechyd, heddluoedd, a'r gwasanaethau tân ac achub. Bellach, roedd y Gymraeg i'w thrin 'ar y sail ei bod yn gyfartal' â'r Saesneg wrth gyflwyno'r gwasanaethau hynny. Ym mharagraff cyntaf y ddeddf, o dan ei theitl, disgrifiwyd ei hunion bwrpas fel a ganlyn:

Deddf i sefydlu Bwrdd a chanddo'r swyddogaeth o hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg, i ddarparu i gyrff cyhoeddus baratoi cynlluniau i weithredu'r egwyddor wrth gynnal busnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal, i wneud darpariaeth bellach ynglŷn â'r Gymraeg, i ddiddymu rhai deddfiadau darfodedig ynglŷn â Chymru, ac at ddibenion cysylltiedig (HMSO, 1993:2).

Yn fuan iawn yn oes y Bwrdd a grëwyd gan y ddeddfwriaeth hon, sef BYIG, amlygwyd ei ymagwedd gynhwysol at ei genadwri. Ar wyneb-ddalen ei Strategaeth gyntaf, cafwyd datganiad cyflwyniadol gan ei Gadeirydd cyntaf, yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas, a'i eiriau agoriadol yn cyhoeddi fel a ganlyn:

Mae'r iaith Gymraeg yn eiddo i holl boblogaeth Cymru, p'un ai ydynt yn siarad yr iaith ai peidio. Mae hi'n rhan o dreftadaeth ddiwylliannol pob un yng Nghymru, ac yn wir, ym Mhrydain, yn Ewrop a thu hwnt. (BYIG, 1996b:1)

Aeth y Bwrdd rhagddo i sefydlu'r system a oedd yn brif ddarpariaeth y Ddeddf hon, sef system o gyfarwyddo i gyrff cyhoeddus (a enwyd neu a ddiffiniwyd yn y Ddeddf) baratoi Cynlluniau Iaith Gymraeg. Yn y cynlluniau hynny dangosid y trefniadau y byddai cyrff cyhoeddus yn eu rhoi ar waith i gyflwyno gwasanaethau Cymraeg o safon gyfartal â safon y gwasanaethau Saesneg a ddarparent. Cyhoeddwyd y CIG cyntaf ym 1996, ac fe ddisgrifiwyd y saith blynedd ddilynol o

waith y Bwrdd fel cyfnod paratoawl, pan oedd strwythurau a dulliau cefnogol yn cael eu sefydlu (Williams, 2014: 248). Pan fyddai corff cyhoeddus wrthi'n drafftio cynllun, byddai'r Bwrdd yn cynnal trafodaethau manwl â swyddogion cyswllt y corff hwnnw ac yn rhoi cyngor manwl ar ddrafftio Cynllun a fyddai'n unol â'r ddogfen arweiniad a baratowyd ganddo i'r perwyl hwnnw (BYIG, 1996a). Wedi i gorff baratoi Cynllun drafft terfynol, byddai'n ofynnol iddo ei gyflwyno i'r Bwrdd i'w gymeradwyo'n swyddogol o dan adran 14(1) y Ddeddf. Roedd gan y Bwrdd awdurdod i wrthod cymeradwyo Cynllun laith drafft petai o'r farn nad oedd y mesurau cyfartaledd ynddo yn ddigonol yn ôl y ddogfen arweiniad honno, a rhoddai hyn awdurdod i genadwri'r Bwrdd, ei swyddogion a'u cynghorion. Byddai'r broses gyd-drafod yn parhau hefyd wedi i Gynllun laith gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd, gyda'r Bwrdd yn cynnal perthynas barhaus â phob corff drwy ddynodi swyddog cyswllt i bob un. Nodwedd bwysig o'r broses hon yn ystod cyfnod sefydlu'r genhedlaeth gyntaf o Gynlluniau laith, oedd yr

...Educational aspect of the Board's work, whereby it tutored named institutions and local government officers and helped manage their expectations as to how to implement the statutory obligations (Williams 2014: 248).

Byddai'n ofynnol i bob corff cyhoeddus gyflwyno adroddiad monitro blynyddol i'r Bwrdd ar weithrediad ei Gynllun. Rhan bwysig o waith swyddogion cyswllt y Bwrdd wedyn fyddai cyd-drafod â'r cyrff a dwyn perswâd arnynt i wella gweithrediad eu Cynlluniau laith ac unioni unrhyw wendidau neu ddiffygion a ddaethai i'r golwg drwy'r gwaith monitro. Hefyd, gan fod pob Cynllun i'w ddiweddarau wedi ychydig flynyddoedd o weithrediad, byddai cryn gyd-drafod â swyddogion perthnasol cyrff cyhoeddus am sut y gellid diwygio'r Cynllun er mwyn ei ddiweddarau yng ngoleuni'r polisïau cyhoeddus perthnasol diweddaraf. Hefyd byddid yn ymgorffori ynddynt yr arferion dwyieithog da a ddatblygasai er pan gyhoeddwyd y Cynllun diwethaf, ac er mwyn cryfhau yn gyffredinol yr ymrwymadau ynddo i ddarparu gwasanaethau Cymraeg cyflawn. Er mwyn sefydlu a chynnal trefniadau adeiladol effeithiol â chynifer o gyrff cyhoeddus, bu'r Bwrdd o'r dechrau yn cyflawni'r swyddogaeth hon drwy geisio meithrin perthynas gydweithredol bragmataidd â nhw.

Roedd y trefniadau hyn yn arwyddocaol am eu bod wedi gorfodi am y tro cyntaf erioed i uwch reolwyr a byrddau rheoli cyrff cyhoeddus Cynghorau Sirol etholedig, i gynllunio'n ffurfiol i ddwyieithogi eu gwasanaethau i'r cyhoedd er mwyn trin y Gymraeg a'r Saesneg 'ar y sail eu bod yn gyfartal'. Ac yn allweddol iawn, sefydlodd atebolrwydd drwy bennu trefniadau ar gyfer hunan-fonitro gweithrediad ac adrodd ar gynnydd. Mae Williams (2014:246) yn crynhoi arwyddocâd hyn yn y cyfnod yn dilyn llunio'r Cynlluniau laith Gymraeg cyntaf gan rai awdurdodau lleol ym 1996-97:

The WLB had become the key agency in language revitalization for it now created a discourse and set an agenda for progress and action. (...) The language scheme system was extended to... local authorities, universities, and further and advanced education colleges. For the first time public bodies had to conform to statutory language schemes and had to report regularly on how they were adhering to an agreed scheme. Language schemes also created discourse within institutions that had never previously been required to discuss the needs of Welsh speakers. Now they were required to consider how they were going to service the interests of Welsh into the medium-term future, and this led to elements of mainstreaming Welsh through the establishment of 558 Welsh language schemes that have totally transformed the role of Welsh within public administration.

Byddai'r 'discourse within institutions' y cyfeiria Williams ato yn y dyfyniad uchod yn ymestyn i niferoedd helaeth o staff oherwydd byddai'n rhaid briffio a chyfarwyddo'r holl staff fyddai'n ymwneud â darparu gwasanaethau cyhoeddus. Byddai hyn yn cynnwys uwch reolwyr, rheolwyr gwasanaethau ac unedau, a staff fyddai'n cyflwyno gwasanaethau i'r cyhoedd, am ofynion y Cynllun Iaith. Cynghorodd dogfen arweiniad y Bwrdd fel a ganlyn:

Mewn sefydliadau mawr, dylai'r dasg o sicrhau bod y cynllun yn cael ei weithredu fod yn gyfrifoldeb penodol i uwch swyddog. Fodd bynnag, dylai rheolwyr gael y cyfrifoldeb o weithredu'r agweddau hynny o'r cynllun sy'n berthnasol i'w hadrannau hwy. Os caiff 'adran Gymraeg' ei chreu i wasanaethu'r cynllun *dylid cadw rheolaeth er mwyn sicrhau bod gweithredu'r cynllun yn 'perthyn' i'r sefydliad i gyd.* (...) Mewn sefydliadau llai mae'n bosib y bydd y cyfrifoldeb yn nwylo un person sy'n cydlynu, yn gwasanaethu ac yn arolygu'r cynllun. *Mae'r angen i greu teimlad o berchnogaeth a chyfrifoldeb ymhlith staff eraill, serch hynny, yr un mor berthnasol mewn amgylchiadau fel hyn* (BYIG, 1996a:43. Ychwanegwyd yr italeiddio).

Gofynnodd y ddogfen am i Gynlluniau gynnwys ymrwymiad 'Ymrwymiad i sicrhau bod pawb yn y sefydliad yn gyfarwydd â'r cynllun, a bod staff yn gwybod sut mae ei weithredu, a beth sydd i'w ddisgwyl ganddynt' (Ibid.:45). Ymagwedd gynhwysol a gymhellid gan y Bwrdd felly at rannu'r cyfrifoldeb am ddwyieithogi sefydliadau cyhoeddus.

Gan fod cynulleidfa darged y ddogfen yn cynnwys cryn nifer o'r cyflogwyr mwyaf eu gweithluoedd ym mhob rhan o Gymru, golygai hyn fod y 'discourse within institutions'— ar ffurf trafodaethau mewnol, gwybodaeth, arweiniad a chyfarwyddyd

am sut i weithredu'n ddwyieithog - wedi cyrraedd niferoedd sylweddol iawn o staff y gweithlu cyhoeddus ym mhob rhan o Gymru. Bu gweithredu cynlluniau iaith felly yn fodd i niferoedd sylweddol o ddinasyddion ddod yn gyfarwydd, drwy eu gweithleoedd, ag amcanion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac amcanion cynllunio ieithyddol sefydliadau cyhoeddus. Trafodir ym Mhennod 2 y traethawd hwn sut yr esblygodd 'HYI' o'r rheidrwydd i ledaenu gwybodaeth o'r fath i niferoedd sylweddol o staff cyrff cyhoeddus.

Cymhellodd y Bwrdd i sefydliadau arddel yr un agwedd gynhwysol yn eu Cynlluniau Iaith at gynnig cyfleoedd i staff di-Gymraeg gaffael y Gymraeg, gan eu cynghori

Dylid ceisio sicrhau y bydd rheolwyr cyffredinol, rheolwyr personél a swyddogion sy'n gyfrifol am hyfforddiant yn annog staff i fynd ar gyrsiau iaith - ac yn rhoi cymorth i staff wrth iddynt ddysgu'r iaith - er budd y cyflogwr a'r cyhoedd (Ibid: 38).

Yn ogystal â'r gwaith penodol o weinyddu trefn ymdrin â chynlluniau iaith, a'u lleoli ym maes cyfle cyfartal, gweithredai'r Bwrdd ei swyddogaeth ehangach o 'hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg'mewn llawer dull a modd. Manteisiai ar y pwerau eang a feddai dan y Ddeddf 'i wneud unrhyw beth sy'n dod o fewn perfformio'i swyddogaethau neu'n eu hyrwyddo' (HMSO 1993, Rhan I, 3 (3)).

Dull gweithredu arall y rhoddai'r Bwrdd gryn bwys arno oedd rhwydweithio a phartneriaethu â chyrff cyhoeddus, cymdeithasau proffesiynol, mudiadau pwysu, a chyrff yn ymwneud â meysydd penodol amrywiol megis y cyfryngau torfol, addysg, datblygu sgiliau, cyfieithu, twristiaeth a busnesau preifat. Ym mharagraffau agoriadol ei strategaeth gyntaf un ar yr iaith Gymraeg (BYIG, 1996b: paragraffau 1.1 - 1.7), pwysleisiodd mor ganolog i'w waith oedd y trefniadau partneriaethol hyn. Parhaodd eu pwysigrwydd hyd ddiwedd oes y Bwrdd fel a fynegir yn ei Adolygiad Blynyddol olaf (BYIG, 2011:58). Yn ôl un sylwedydd,

These meetings afforded the collection of additional data and perspectives and often acted as a precursor to the development of WLB strategy in specific domains. They also built up a complicit understanding that the promotion of Welsh was a concern of both civil society and responsible agencies (Williams, 2014:247).

Hynny yw, roedd y Bwrdd yn hyrwyddo ffurfiau ar gydberchnogaeth o'r rhaglen adfywio iaith. Wrth feithrin cydberchnogaeth o'r fath, rhoddai'r Bwrdd bwyslais ar ennill ymddiriedaeth, ewyllys da a chydweithrediad yn hytrach na defnyddio ei bwerau cyfyngedig i'r eithaf (Dunbar, 2007: 130-132).

Y Gymraeg yng nghyd-destun Cyfle Cyfartal

Elfen arall yng ngwaith y Bwrdd a hyrwyddai agwedd gynhwysol at adfywio'r Gymraeg oedd y modd y dehonglai ac yr hyrwyddai gydraddoldeb i'r Gymraeg fel mater cydraddoldeb i'w ystyried ochr yn ochr â'r polisïau cyfle cyfartal eraill a arddelid gan gyrff cyhoeddus.

leithwedd 'cyfle cyfartal' a geid yn Neddf 1993 wrth iddi sefydlu 'yr egwyddor wrth gynnal busnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal' (HMSO, 1993). Buan iawn yn nyddiau cynnar y Bwrdd y cadarnhawyd mewn sawl modd y cysylltiad rhwng amcanion Deddf 1993 a'r 'agenda cydraddoldeb'. Yn nogfen arweiniad y Bwrdd ar baratoi cynlluniau iaith (1996a, op. cit.), ceir cyfeiriadau lu yn y canllawiau a'r testun ategol at 'weithredu'r egwyddor o gyfartaledd'.³⁰ Yn ogystal, wrth gyflwyno cynghorion ar y mesurau recriwtio y dylid eu cynnwys mewn cynlluniau iaith, nodir yn yr un ddogfen fod y cyngor 'wedi'i baratoi mewn ymgynghoriad â'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol' (Ibid:36). Cyfeiriad oedd hwn at gytgord a wnaed rhwng y Bwrdd a'r Comisiwn ac a gyhoeddodd mai 'Tasg y ddau sefydliad yw hyrwyddo cydraddoldeb, a rhannwn werthoedd sy'n gyffredin inni. Parchwn nodau a chyfrifoldebau ein gilydd, gan gydnabod eu bod yn cyd-fynd.' (BYIG a'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, 1996).

Yn gynnar yn y ganrif hon cafwyd symudiad hefyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddehongli a hyrwyddo'r cyswllt iaith/cydraddoldeb yn eu *Safon Gydraddoldeb i Lywodraeth Leol yng Nghymru* (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, 2002). Pennodd y Safon bum lefel gyrhaeddiad mewn fframwaith ar gyfer prif-ffrydio ac integreiddio polisïau ar gydraddoldeb a'u hamcanion yng ngweithrediad Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella, polisi a oedd yn gyfredol ar y pryd gan y Cynulliad. Yn y ddogfen arweiniad (Ibid.) pennwyd y Gymraeg yn un o'r materion cydraddoldeb yr oedd yn ofynnol i awdurdodau lleol ymdrin yn briodol â nhw er mwyn cyrraedd y Safon. Pan gyhoeddwyd Cynllun Iaith Gymraeg (CIG) cyntaf Llywodraeth Cynulliad Cymru yn yr un flwyddyn, gwelwyd ei fod yn arddel ymagwedd o'r fath dan yr is-bennawd 'Cyfle Cyfartal':

Mae cydraddoldeb ieithyddol yn rhan o agenda cyfle cyfartal Llywodraeth y Cynulliad, a bydd yn cael ei gynnwys yn y gwaith ar gyfle cyfartal. Bydd y Llywodraeth yn disgwyl i sefydliadau eraill fabwysiadu'r un dull o

³⁰ Gweler er enghraifft eiriad Canllawiau 2, 6, 6(i), 6(ii), 6(iii), 6(iv), 6(v), 7(i), 7(ii), 7(iii), 7(iv). (BYIG, 1996a).

weithredu (...) Pan gyfeirir at gyfle cyfartal mewn dogfennau a datganiadau, bydd iaith yn cael ei chynnwys gyda hil, rhyw, anabledd a buddiannau cydraddoldeb eraill. (CCC, 2002b:16)

Yng ngoleuni'r datganiad uchod mewn cynllun a ragflaenodd gyhoeddi'r strategaeth genedlaethol gyntaf ar yr iaith Gymraeg gan y Llywodraeth ddatganoledig, mae'n arwyddocaol na chynhwysai'r strategaeth honno, *Iaith Pawb*, unrhyw drafodaeth am y berthynas rhwng y Gymraeg a'r 'agenda cydraddoldeb' (LICC, 2003). Roedd hyn yn rhagarwydd o'r modd y trôir berthynas rhwng y Gymraeg a materion cydraddoldeb yn bwnc a drinnid yn fwyfwy anghyson o fewn y sector cyhoeddus dros weddill y degawd. Byddai rhai testunau yn parhau i osod cydraddoldeb ieithyddol ochr yn ochr â'r cydraddoldebau eraill, tra byddai eraill yn hepgor cyfeiriadau ato neu ei myleiddio.

Ym maes Llywodraeth Leol, disodlwyd y Safon Gydraddoldeb a gyhoeddwyd yn 2002 gan y *Fframwaith Gwella Cydraddoldeb* (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, 2008) yn sgil sefydlu'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn 2007. Roedd y Fframwaith newydd, fel ei ragflaenydd, yn rhestru'r Gymraeg yn un o'r saith o faterion cydraddoldeb y byddai'n ofynnol i awdurdodau lleol ddatblygu trefniadau i'w prif-ffrydio a sicrhau gwelliant parhaus yn eu cylch (Ibid.: 8).

Cyhoeddasai'r Bwrdd yntau daflen gryno, *Her i Gymru -yr iaith Gymraeg fel rhan o'r maes cyfle cyfartal*, (BYIG, c.2003) at sylw rheolwyr cyrff cyhoeddus, a bu'n aelod o Bwyllgor Cyfle Cyfartal CCC hyd nes y cyhoeddwyd Deddf Cydraddoldeb 2010. Yn arwyddocaol hefyd, yn y Cynllun Strategol a gyhoeddwyd gan y Bwrdd yn y cyfnod cyn i'w swyddogaethau gael eu hymgorffori o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru, roedd 'Hybu Hawliau Ieithyddol fel rhan o'r maes Cyfle Cyfartal' yn un o un ar ddeg o feysydd blaenoriaeth a bennwyd ganddo (BYIG, 2005b: 33-35). Ymhlith yr 'amcanion a thargedau' a osodwyd ar gyfer y flaenoriaeth hon, cynhwyswyd y canlynol:

- Sicrhau fod hawliau ieithyddol yn cael rhan ganolog yn y maes cyfle cyfartal yng Nghymru, a chodi ymwybyddiaeth cyrff ac unigolion o'r mater. (...)
- Sicrhau cysondeb polisi yng Nghymru drwy gynnwys y Gymraeg fel elfen ganolog o'r agenda cydraddoldeb
- Sicrhau fod cyrff cyhoeddus yn deall ac yn gweithredu'r swyddogaeth o hyrwyddo cydraddoldeb ieithyddol a thriniaeth deg
- Sicrhau fod y sector cyhoeddus yng Nghymru yn cynnwys iaith yn ffurfiol ar eu hagenda cyfle cyfartal mewn papurau polisi, canllawiau a

gweithdrefnau; sicrhau hefyd fod cyrff cyhoeddus yn buddsoddi mewn cynllunio ieithyddol bwriadus (Ibid.:34).

Er yr awydd a fynegwyd yn y dyfyniad uchod i weld 'hawliau ieithyddol yn cael rhan ganolog yn y maes cyfle cyfartal', wrth i dymor cyntaf LICC fynd rhagddo, gwelwyd tuedd gynyddol i hepgor neu ymleiddio cyfeiriadau at y Gymraeg mewn testunau polisi a drafodai gydraddoldeb (Brooks, 2009). Ni chyfeiriwyd at y Gymraeg, nac at y cyfrifoldebau statudol ar gyrff cyhoeddus i drin y Gymraeg a'r Saesneg 'ar y sail eu bod yn gyfartal', yn nogfen LICC ar 'Inclusive Policy Making' a gyhoeddwyd yn 2007 (LICC, 2007a: 1). Ni cheir cyfeiriadau o'r fath ychwaith yn nogfen *Naratif llunio polisïau cynhwysol* a baratowyd gan yr Isadran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (LIC, 2010), ac nid oedd cynghori ar agweddau ieithyddol yn rhan o gylch gorchwyl yr 'Inclusive Policy Making Team', y disgrifid ei waith yn y ddogfen honno.³¹

Y ddeddf a osododd y fframwaith diweddaraf gyfer ymdrin â materion cydraddoldeb oedd Deddf Cydraddoldeb 2010 (HMSO, 2010). Mae'n arwyddocaol na chynhwyswyd cydraddoldeb ieithyddol i siaradwyr y Gymraeg, na chydaddoldeb ieithyddol yn gyffredinol, ymhlith y naw o 'protected characteristics' a bennwyd o fewn cwmpas y ddeddf honno, sef oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas neu bartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; cyfeiriadedd rhywiol; a rhyw (rhywedd). (Government Equalities Office / Citizens' Advice Bureau, 2010:2).³² O ganlyniad, ni chrybwyllwyd y Gymraeg o gwbl, na'r dyletswyddau statudol ar gyrff cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau Cymraeg yng Nghymru, yn y cyhoeddusrwydd a roddwyd i'r ddeddf na'r llenyddiaeth a gyhoeddwyd i'w dehongli i'r cyhoedd.³³

Wedi hynny felly bu'r Bwrdd a'i bartneriaid yn hyrwyddo'r syniad bod y Gymraeg yn fater cydraddoldeb i'w drin gan sefydliadau yn gyfochrog â'r materion cydraddoldeb eraill, ond ar wahân iddynt, am nad oedd cydraddoldeb ieithyddol wedi ei bennu yn y ddeddfwriaeth. Ceisiodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru egluro i awdurdodau lleol yng Nghymru natur y berthynas hon yn y fersiwn diweddaraf o'i Fframwaith Gwella Cydraddoldeb (2011) a baratowyd i adlewyrchu a dehongli

³¹ Mae'n arwyddocaol hefyd mai geiriad y we-ddolen a rydd fynediad i'r ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yw 'Naratif llunio polisïau cynhwysol (Saesneg yn unig)' ac nid oes fersiwn Cymraeg o'r ddogfen ar gael ar y wefan.

³² Gweler union eiriad y ddeddf am ddiffiniadau manylach o'r nodweddion gwarchoddedig :HMSO, 2010: Rhan 2, Pennod 1.

³³ Gweler, er enghraifft, daflen ffeithiau a gyhoeddwyd ar y cyd gan Swyddfa Gydraddoldeb Llywodraeth y D.U. a Chyngor ar Bopeth i rannu gwybodaeth i'r cyhoedd am brif fesurau'r Deddf Cydraddoldeb (Government Equalities Office / Citizens' Advice Bureau, 2010).

goblygiadau Deddf Cydraddoldeb 2010 a'r rheoliadau cysylltiedig (HMSO, 2010 a 2011), a Deddf Hawliau Dynol 2008 (HMSO, 2008):

Er bod gan agenda'r iaith Gymraeg wahaniaethau penodol i'r agenda gydraddoldeb ehangach, maent yn gorgyffwrdd i raddau, sy'n creu achos busnes dros integreiddio agweddau ar waith gwella yn y ddau agenda. Mae'r fframwaith yn arf hyblyg, felly drwy greu cysylltiadau â gofynion penodol Mesur yr Iaith Gymraeg, dylai Awdurdodau Lleol gyflawni gwelliannau yn y ddau agenda ar yr un pryd. Er hynny, mae'n bwysig cynnal graddfa o arwahanrwydd ar gyfer materion yr iaith Gymraeg o fewn y broses hon, gan sicrhau bod gwaith penodol ar ddatblygu'r Gymraeg yn digwydd y tu allan i waith sy'n gysylltiedig â'r Fframwaith (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, 2011:11).

Gellid dadlau bod y trefniant hwn braidd yn aneglur ac yn codi sawl cwestiwn. Beth yn union yw statws 'agenda'r iaith Gymraeg' a'r 'achos busnes' drosti o fewn 'yr agenda gydraddoldeb' ehangach? Beth yw'r eglurhad dros 'sicrhau bod gwaith penodol ar ddatblygu'r Gymraeg yn digwydd y tu allan i waith sy'n gysylltiedig â'r Fframwaith'? Beth yw statws cymharol y ddau agenda?

Er y cwestiynau hyn, mae'r drefn o ysgaru'r ddau agenda oddi wrth ei gilydd, gan wahaniaethu rhwng materion cydraddoldeb ar y naill law, a'r iaith Gymraeg ar y llaw arall, yn cael ei hadlewyrchu bellach yn nogfennau polisi LIC. Ni chrybwyllir y Gymraeg yn yr adran fer ar Gydraddoldeb yn Rhaglen Lywodraethu 2011-16 LIC. Enwir cryn amrywiaeth o gyrrff perthnasol ar y rhestr o brif bartneriaid y Llywodraeth wrth iddi 'gyflawni'r ddyletswydd gydraddoldeb gyffredinol a'r dyletswyddau cydraddoldeb sy'n benodol i Gymru'. Yn eu plith ceir 'y trydydd sector a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru; grwpiau cydraddoldeb, hawliau dynol a chydlyniant cymunedol a grwpiau sy'n cynrychioli amrywiol grefyddau; Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol; Heddluoedd Cymru ac Awdurdodau'r Heddlu yng Nghymru; Awdurdodau Lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; TUC Cymru a'r Undebau Llafur. Fodd bynnag, ni enwir Comisiynydd y Gymraeg yn eu plith (LIC, 2011b: 29-31). Yng *Nghynllun ac Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2012 - 16* y Llywodraeth a gyhoeddwyd wedyn, esbonnir

Nid yw'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol na'r Amcanion Cydraddoldeb yn cynnwys yr iaith Gymraeg am fod hawliau o ran y Gymraeg yn cael eu harwain gan Uned y Gymraeg o fewn LIC. Bydd swyddogion o'r Isadrn Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDID) ac Uned y Gymraeg yn cydweithio i sicrhau bod y camau a gymerir yn y ddau faes hyn yn ategu ac yn llywio ei gilydd (LIC, 2012c:11).

Y materion y canolbwyntir arnynt yn y ddogfen hon yw'r nodweddion gwarchoddedig a bennwyd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Ibid.: 8) ac a nodir uchod.

Erbyn cyhoeddi strategaeth ddiweddaraf y Llywodraeth ar y Gymraeg, *laith Fyw: laith Byw*, ceir gogwydd braidd yn wahanol i'r gyfeiriadaeth at gyfle cyfartal. Wedi nodi bod cyfle cyfartal yn 'thema drawsbynciol' sy'n allweddol i'r strategaeth, cyfeirir ynddi at y Gymraeg nid fel nodwedd hunaniaeth na ddylid camwahaniaethu yn ei chylch (debyg i 'nodwedd warchoddedig' o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010), ond fel budd cymdeithasol na ddylid amddifadu neb yng Nghymru o gyfleoedd i'w gaffael a'i ddefnyddio. Hynny yw, ni ddylai neb mewn unrhyw ran o Gymru, gan gynnwys unigolion â'r 'nodweddion gwarchoddedig', fethu â chael cyfleoedd i ddefnyddio neu ddysgu'r Gymraeg, a derbyn gwasanaethau Gymraeg (LIC, 2012a: 19).

Yn sicr, roedd hepgor unrhyw gyfeiriad at gydraddoldeb ieithyddol o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn golygu na wireddwyd awydd blaenorol y Bwrdd i weld 'hawliau ieithyddol yn cael rhan ganolog yn y maes cyfle cyfartal' (BYIG, 2005b: 34). I'r cyhoedd yn gyffredinol, ac i swyddogion sefydliadau gall y berthynas bresennol rhwng y polisi ar gydraddoldeb ieithyddol a'r polisi ar y cydraddoldebau eraill ymddangos braidd yn aneglur, ac anodd i'w dehongli'n ymarferol.

Mae Brooks (2009:4-5) yn dadansoddi'r ymdriniaethau amrywiol ad-hoc â'r Gymraeg a gafwyd mewn testunau polisi a drafodai faterion cydraddoldeb yn y cyfnod ôl-ddatganoli, gan ddangos bod yr ymdriniaethau hynny yn anghyson â'i gilydd. Dadleua fod y rhethreg ar gynhwysiant wedi ei seilio ar ddisgwrs a ddatblygodd y tu allan i Gymru ac a draethid wedyn yng Nghymru heb ddealltwriaeth ddigonol o sut y byddai 'cynhwysiant' yn 'cynnwys' y gymuned Gymraeg. Deil Brooks i'r rhethreg gael ei dehongli yn y cyd-destun ieithyddol ar sail rhagdybiaethau mwyafrifyddol a hegemoniaidd am siaradwyr Gymraeg, a pharodd hyn ymleiddio'r Gymraeg o'r brif ffrwd disgwrs am gydraddoldeb yng Nghymru. Yn benodol, wrth i ddisgwrs polisi yn y cyfnod ôl-ddatganoli hyrwyddo'r cysyniad o hunaniaeth Gymreig sifig, tueddai elfennau dylanwadol yn y disgwrs hwnnw gysylltu'r agenda hawliau ieithyddol â hen fath o hunaniaeth Gymreig ethnig. Dehonglid hunaniaeth sifig yn fath blaengar, cynhwysol, a goddefol, ac yn fath dilys felly i'w ymgorffori mewn polisi cyhoeddus, tra ymleiddiwyd y disgwrs am hawliau ieithyddol gan ei gysylltu â hunaniaeth ethnig anghynhwysol, seiliedig ar iaith, diwylliant a threftadaeth. Fel y dywed Brooks (Ibid: 12):

On the wrong side of the ethnic–civic divide, Welsh-language demands could be portrayed as theoretically problematic, and language rights discourse as exclusive and intolerant.

Dengys Williams a Morris (2000:183-184) sut mae'r rhaniad hwn rhwng hunaniaeth sifig a bortreëdir yn bositif, a hunaniaeth ethnig a bortreëdir yn negatïf, yn un a oedd ymhlyg yn ieithwedd strategaeth gyntaf y Bwrdd ei hun (BYIG, 1996b).

Ar ymylon y disgwrs prif ffrwd am gyfartaledd y lleolir y disgwrs am hawliau ieithyddol o hyd. Amser a ddengys ba berthynas fydd rhwng swyddogaeth reoleiddio Comisiynydd y Gymraeg a threfn rheoleiddio cydraddoldeb. Ysgrifennir y traethawd hwn cyn i destun terfynol y Safonau Iaith a Baratoir yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 gael ei gyhoeddi gan LIC. Ni wyddys felly ar hyn o bryd i ba raddau y bydd y trefniadau rheoleiddio Safonau yn cyfeirio at 'yr agenda cyfle cyfartal' neu 'gydraddoldeb', na pha ddisgwrs a esblyga rhwng swyddfa'r Comisiynydd a rheoleiddwyr a lladmereddion cyfle cyfartal. Nid oes unrhyw gyfeiriad o'r fath yn y ddogfen fer a gyhoeddwyd i gyflwyno gwaith y Comisiynydd, ond fe nodâ 'bydd y safonau yn gosod dyletswydd ar sefydliadau i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffatriol na'r Saesneg. Byddant yn nodi sut mae disgwyl i sefydliadau drin a defnyddio'r Gymraeg.' Comisiynydd y Gymraeg, 2012b:14).

Bid a fo am berthynas y drefn rheoleiddio Safonau Iaith â'r 'agenda cyfle cyfartal' yn y dyfodol, diau y bu sefydlu perthnasedd y Gymraeg i gyd-destun cyfle cyfartal yn fodd i hybu ymwybyddiaeth ohoni ymhlith 'penaethiaid adnoddau dynol, swyddogion datblygu a hyfforddi corfforaethol, swyddogion iaith Gymraeg, rheolwyr sydd â chyfrifoldeb dros recriwtio a dethol neu gynllunio gwasanaethau, ac uwch swyddogion'³⁴, yn ogystal ag ymhlith staff sefydliadau cyhoeddus yn gyffredinol. Roedd hyn yn arbennig o wir yn ystod deuddeng mlynedd gyntaf cyfnod BYIG, sef y cyfnod hyd nes yr hepgorid cydraddoldeb ieithyddol fwyfwy o'r agenda cyfle cyfartal.

Yn ogystal, mae'r cysyniad o gydraddoldeb a chyfle cyfartal yn un a gofleidir yn eang ar draws y gymdeithas sifil a'i sefydliadau cyhoeddus, a bu cysylltu cydraddoldeb ieithyddol ag ef yn fodd i agor porth mynediad i ddisgwrs am y Gymraeg i gynulleidfa ehangach na gweision cyhoeddus yn unig, fel a nodwyd ym Mhennod 2. Yn yr ystyr honno, gellid dadlau bod amlygu'r cyswllt – hyd yn oed yn y

³⁴ Y categorïau hyn o swyddogion oedd y gynulleidfa darged i ddogfen arweiniad Comisiynydd y Gymraeg ar recriwtio (Comisiynydd y Gymraeg, 2012a:2). Roedd y ddogfen yn ddiweddiariad o ddogfen flaenorol gan BYIG (BYIG, 2010b). Yn dilyn cyhoeddi'r olaf, cynhaliwyd cyfres o weithdai yng Nghaerdydd a Llandudno yn Chwefror 2011 i'r gynulleidfa darged hon yn benodol, a bu sefydliadau eraill yn comisiynu sesiynau tebyg i'r un perwyl wedyn. Awdur y traethawd hwn oedd yr hyfforddwr yn y gweithdai hyn, yn rhinwedd ei swydd fel Cyfarwyddwr Cynllunio Iaith Corfforaethol *Iaith*. Ym mhob un o'r sesiynau hyn cyfeiriwyd at gydraddoldeb ieithyddol fel mater cydraddoldeb nas cynhwyswyd o fewn Deddf Cydraddoldeb 2010, ond a oedd i'w ystyried yn gyfochrog â hi. Dyna oedd safbwynt y Bwrdd ar y pryd, fel a nodwyd yn y drafodaeth uchod, a'r safbwynt a fynegwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ddiweddarach yn 2011, a chan LIC wedyn (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, 2011:11; LIC, 2012c:11). Bu tros 200 o swyddogion y grŵp targed hwn yn bresennol yn y gweithdai hyn.

modd anghyson ac amwys a ddatblygodd yn ystod degawd olaf y Bwrdd - wedi bod yn gam cadarnhaol. Mae 'cyfle cyfartal' yn bolisi sy'n pwysleisio dulliau gweithdrefnol a chyfreithiol o ddarparu mynediad cyfartal at fuddion cymdeithasol (Richardt a Shanks, 2008). I rai gweision cyhoeddus ac eraill, dyna bersbectif newydd ar union bwrpas Cynllun Iaith, os diffiniwn wasanaethau Cymraeg yn 'fuddion cymdeithasol' i siaradwyr Cymraeg yn yr un modd ag y mae gwasanaethau Saesneg yn 'fuddion cymdeithasol' i siaradwyr Saesneg.

Wedi dweud hynny, mae'r modd yr ymleiddiwyd y Gymraeg yn ystod degawd cyntaf datganoli yn codi cwestiynau ehangach am y modd y dylanwadwyd ar ddisgwrs am gynhwysiant yn 'y Gymru Newydd' gan ddehongliadau ideolegol mwyafrifyddol sy'n cadarnhau hegemoni'r Saesneg.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg a dadwleidyddoli'r Gymraeg

Gellir cyfeirio at sawl carreg filltir ym mhroses ddadwleidyddoli'r Gymraeg yn yr ystyr bleidiol yn ystod y chwarter canrif diwethaf. Galluogwyd y broses gan esblygiad consensws gwleidyddol a fu'n fodd i sicrhau cefnogaeth drawsbleidiol i fesurau o blaid adfywio'r Gymraeg drwy deddfwriaeth a pholisi. Tua diwedd y 1980au cafwyd hwb i broses greu consensws o'r fath pan sefydlwyd BYIG gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ym 1988 i'w gynghori ar faterion ieithyddol. Corff ymgynghorol anstatudol oedd y Bwrdd, a'i brif orchwyl oedd casglu tystiolaeth ac ystyried y dadleuon a wyntyllid yn y bau gyhoeddus ar y pryd dros greu deddfwriaeth newydd ar y Gymraeg. Yn ei argymhellion a gyflwynwyd i'r Llywodraeth ym 1991 (BYIG, 1991), cyflwynodd achos cryf o blaid deddfwriaeth newydd (Roddick, 2007).

Ni ellir gorbwysleisio arwyddocâd y consensws gwleidyddol a feithrinwyd yn y cyfnod hwnnw, ac a gadarnhawyd a chynhaliwyd dros y blynyddoedd dilynol. Ffactor allweddol yn y broses adfywio ieithyddol oedd ennill a chynnal consensws y mwyafrif di-Gymraeg a'u cynrychiolwyr. Y mwyafrif, mewn democratiaeth, sydd yn llywio'r drafodaeth; y mwyafrif sy'n dylanwadu ar sgôp etholiadau a ffurfiant llywodraeth a'r polisïau a ddatblygir ynghylch y Gymraeg. Ac, yn dra arwyddocaol, o blith y mwyafrif y daw'r twf angenrheidiol mewn caffael y Gymraeg, naill ai wrth iddynt ddewis addysg Gymraeg neu ddwyieithog ar gyfer eu plant, neu wrth iddynt fynychu dosbarthiadau Cymraeg i oedolion a chyrsgiau hyfforddiant ieithyddol eraill. Cafwyd cefnogaeth drawsbleidiol nid yn unig i basio Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 gan lywodraeth y D.U., ond hefyd i baratoi a mabwysiadu dwy strategaeth iaith genedlaethol gan lywodraeth ddatganoledig Cymru (LICC, 2003; LIC, 2012a), a phasio Mesur y Gymraeg (Cymru) gan LICyn 2011. Bu'r consensws yn fodd hefyd i gefnogi creu'r strwythurau a mabwysiadu'r strategaethau a ddeilliodd o'r datblygiadau hyn. Mae'r broses

dadwleidyddoli hon yn parhau o hyd ac fe gyfeiriwyd ati gan un sylwedydd fel 'the structural transformation Welsh is undergoing in its progress from a political football to a public good' (Williams, 2014: 269).

Ffrwyth cynnar y consensws gwleidyddol bregus ynghylch y Gymraeg oedd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a'r ddarpariaeth ynddi i greu Bwrdd statudol, sef BYIG. Gosododd y ddeddf gyfrifoldebau ar gyrff cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau Cymraeg drwy fesurau Cynlluniau Iaith Gymraeg, ond ni chreodd hawliau cyfreithiol i ddinasyddion dderbyn y gwasanaethau Cymraeg hynny (Williams, 2000a; 2007a; Dunbar, 2007; Lewis, 2008). Roedd y cylch gorchwyl a bennwyd i BYIG felly yn rhoi pwerau eang ond cyfyngedig iddo, gan adlewyrchu natur fregus a gofalus y consensws gwleidyddol ar y pryd. Er y gallai'r Bwrdd weithredu gyda chryn hyblygrwydd i arfer ei swyddogaeth hyrwyddo a hwyluso, ni feddai ar bwerau rheoleiddio. Wrth fwrw golwg yn ôl ar y Ddeddf yn 2007, cydnabu Prif Weinidog cyntaf Cymru fod y diffyg hawl gyfreithiol i unigolion dderbyn gwasanaeth Cymraeg yn peri rhwystredigaeth i rai,

But in the context of trying to build a consensus about the language, it was much better to follow this direction. I argue that it would not have been good to see the Welsh language as a bone of contention in the courts all the time, as this would have polarized opinion rather than create harmony (Morgan, 2007:45).

Golygai'r diffyg hawliau cyfreithiol i siaradwyr Cymraeg mai cyfyngedig oedd pwerau statudol y Bwrdd - a llysoedd barn - i weithredu ar ran unrhyw ddinesydd Cymraeg a fynnai dderbyn gwasanaeth Cymraeg ac a brofai anhawster i'w dderbyn neu anfodlonrwydd ynghylch y ddarpariaeth. Parthed ei swyddogaeth i fonitro gweithrediad Cynlluniau Iaith, er i'r Bwrdd ddatblygu trefniadau go fanwl a chyfres o feini prawf safonol ('dangosyddion iaith Gymraeg') i fonitro gweithrediad Cynlluniau ac i bwysu ar gyrff cyhoeddus i unioni diffygion yn eu trefniadau gweithredu, ni allai orfodi sefydliadau i unioni unrhyw ddiffygion neu wendidau a ddygid i'w sylw.

Yn yr un modd, er bod ganddo bwerau i dderbyn ac ymchwilio i gwynion am ddiffygion mewn gwasanaethau Cymraeg a ddarperid drwy Gynlluniau Iaith, a chynnal ymchwiliadau statudol i faterion o'r fath o dan adran 17 y Ddeddf, ni feddai ar bwerau i orfodi cydymffurfiaeth yn yr achosion hynny ychwaith. Yn hytrach gallai gyflwyno argymhellion i'r gyrff dan sylw, gan gyflwyno copi ohonynt hefyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. O dan adran 20 (1) y Ddeddf, gallai'r Bwrdd gyfeirio unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth na cheid datrysiaid boddhaol iddynt i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Gallai'r olaf sicrhau gorfodaeth yn y pen draw drwy orchymyn llys barn (*mandamus*). Mae'n arwyddocaol fodd bynnag na chyfeiriodd y Bwrdd unrhyw fater o ddiffyg cydymffurfiaeth at LICC i'w ddatrys yn y modd hwn.

Yn hytrach, bu'r Bwrdd yn osgoi anghydfodau a gwrthdaro a allasai arwain at gyfreithia ac mae'n arwyddocaol na ddeilliodd yr un achos llys o unrhyw gŵyn neu ymchwiliad statudol i ddiffygion gweithredu unrhyw CIG. Cymharol ychydig hefyd yw nifer yr ymchwiliadau statudol a gynhaliodd y Bwrdd o dan adran 17 y Ddeddf. Sylwyd fel y bu'n barotach i gynnal ymchwiliadau o'r fath yn ystod blynyddoedd olaf ei fodolaeth (Williams, 2014:248), ond cyn hynny, chwech yn unig o ymchwiliadau statudol o'r fath a gynhaliodd yn ystod 11 mlynedd gyntaf ei fodolaeth (Dunbar, 2007: 135).

Bu'r Bwrdd yn dra gofalus ar hyd ei gyfnod gweithredu i beidio â chwalu'r consensws trawsbleidiol ynghylch yr iaith Gymraeg, consensws a feithrinwyd gan bwyll, ac a barhâ'n fregus o hyd, yn y blynyddoedd cyntaf yn dilyn Deddf 1993 (Dunbar, 2007: 135-136). Cydnabu Prif Weinidog cyntaf Cymru bwysiced oedd cynnal y consensws hwnnw adeg cyflwyno Deddf 1993:

Perhaps any legislation is a product of its time and circumstances, and this was certainly the case with the 1993 Act. One of the main considerations of the Act was to make good the injustice done to the minority without raising the hackles of the majority. Arguably, taking measures beyond what the country was ready for could have caused problems and a negative reaction (Morgan, 2007: 45).

Ac yntau'n arweinydd Plaid Lafur Cymru ar y pryd, her sylweddol a wynebai Morgan oedd ceisio sicrhau consensws ymhlith ei gyd-aelodau Llafur yng Nghymru. Roedd eu syniadaeth wleidyddol nhw yn perthyn i'r traddodiad deallusol hirfaith o fewn pleidiau'r adain chwith glasurol yn Ewrop o elyniaeth tuag at ieithoedd brodorol lleiafrifol (Loughlin a Williams, 2007:80). Am y rhan fwyaf o'r 20fed ganrif roedd carfannau dylanwadol a blaenllaw o'r Blaid Lafur yng Nghymru wedi amlygu eu gelyniaeth at y Gymraeg ar y naill law, neu ddifaterwch ati ar y llaw arall (Jones, 2000; Griffiths, c.2003; Rees, 1973b; Williams, 1985). Diau felly fod agweddau a dylanwad Aelodau Seneddol Llafur ac Aelodau Llafur y Cynulliad, a'r awdurdodau lleol hynny a reolid gan fwyafrif o Gynghorwyr Llafur, yn flaenllaw ym meddwl Morgan wrth iddo ysgrifennu bod rhaid gochel rhag 'raising the hackles of the majority'.

Bu'r un her benodol yn wynebu prif swyddogion BYIG hefyd wrth iddynt lywio'r Bwrdd drwy gydol ei gyfnod gweithredu (Jones, 2014).³⁵ Hyd yn oed yng nghyfnod y Bwrdd anstatudol, ymgynghorol (1988- 1993), bu dogfennau'r Bwrdd yn ofalus iawn i beidio â gelyniaethu'r di-Gymraeg ond yn hytrach i bwysleisio pwysiced

³⁵ Cyfweiliad â Meirion Prys Jones, cyn-Brif Weithredwr y Bwrdd o 2004 hyd 20012. Cyn ei benodi'n Brif Weithredwr, bu Jones yn uwch swyddog gyda'r Bwrdd o 1994 hyd 2004. Gan fod ei gyfnod gwasanaeth wedi rhychwantu holl gyfnod gweithredu'r Bwrdd, mae ei drosolwg a'i bersbectif ar waith y Bwrdd yn ffynhonnell gwybodaeth werthfawr iawn i'r traethawd hwn.

fyddai eu cefnogaeth i adfywio'r Gymraeg. Wrth gyfeirio yn ei strategaeth at 'yr angen i 'warchod hawliau rhesymol yr unigolyn i ddefnyddio'r iaith a fynno', ychwanega,

ni ddylai aelodau'r cymunedau Saesneg na Chymraeg ddiodeff o'r herwydd – mae'n arbennig o bwysig i ennill cefnogaeth ac ymrwymiad y di-Gymraeg. Ni ddylai unrhyw weithgaredd arwain at ddieithrio a chreu gelyniaeth yn erbyn y Gymraeg (BYIG, 1989: 4).

Mae sylwadau'r Arglwydd Dafydd Elis Thomas, Cadeirydd y Bwrdd o 1994 hyd 1999, am y cyfnod ffurfiannol ym mlynnyddoedd cyntaf y Bwrdd statudol, pan oedd yn sefydlu ei gyfreithlonedd a'i ddelwedd gyhoeddus ac yn gosod y cywair ar gyfer y gwaith o'i flaen, yn ddadlennol yn y cyswllt hwn. Yma y mae'n cyfeirio at ei gefndir fel gwleidydd Plaid Cymru, a'r angen i ysgaru'r Gymraeg oddi wrth y canfyddiad poblogaidd ohoni fel maes ymgyrchu a gysylltid â'r blaid honno yn unig, neu'n bennaf, o blith y pleidiau gwleidyddol:

...Y lein oedd, wrth gwrs, does wnelo'r iaith ddim byd â gwleidyddiaeth plaid. Roedd rhaid imi ddweud hynny, oherwydd ro'n i'n dod allan o wleidyddiaeth plaid, yn reit ymosodol. Ar ben hynny ro'n i'n gwbl argyhoeddedig bod rhaid inni gael y project dwyieithog yma ar wahân i'r project cenedlaethol a bod hwnnw yn beth llesol i Blaid Cymru hefyd. Felly roedd torri'r cysylltiad yna yn hanfodol bwysig a dyna oedd lein y Bwrdd. Ac mi ges i gefnogaeth fawr iawn gan bob math o gwmnïau, banciau ac yn y blaen, er mwyn dangos bod y datblygiad yn fenter a'r slogan wnes i ddefnyddio oedd 'O frwydr i fenter', hynny yw ein bod ni'n newid y ffordd o feddwl, newid delwedd yr hyn roedden ni'n wneud ac mae hwnna bellach wedi cael ei dderbyn (Dyfynnir yn Jones, 1999: 184).

Ac wedi'r cyfnod cychwynnol hwnnw, parhâi'r Bwrdd ar hyd ei gyfnod gweithredu i adeiladu ar sail y consensws trawsbleidiol o blaid y Gymraeg. Yn ôl cyn-Brif Weithredwr y Bwrdd, bu'r Bwrdd yn ofalus iawn ar hyd ei gyfnod gweithredu i hyrwyddo ei genadwri mewn modd anwleidyddol:

Roedd popeth roedd y Bwrdd yn wneud yn rhyw fath o anwleidyddol. Roedden ni'n gorfod bod yn ofalus iawn ynglŷn â chamu dros y ffiniau mewn unrhyw ffordd; roedden ni'n gorfod chwarae'r gêm yn ofalus iawn. Ac mi wnaeth y Bwrdd hynny'n arbennig o dda (...) Roedd e'n un o'r pethau roedden ni'n sganio drwy'r amser. Roedden ni'n ymwybodol iawn bod ni'n gorfod cadw o fewn rhyw ffiniau (Jones, 2014).

Bu tuedd gref y Bwrdd i osgoi anghydfod ac ymateb yn dra gofalus i achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth â Chynlluniau Iaith yn destun beirniadaeth lem gan ymgyrchwyr iaith ar hyd ei gyfnod gweithredu. Cryfhawyd y feirniadaeth hon gan

gyndynrwydd y Bwrdd i gydnabod diffygion Deddf 1993 tan yn gymharol hwyr yn ystod ei gyfnod gweithredu (Lewis, 2008: 86-96).

Effaith y dull gweithredu hwn o du'r Bwrdd o'r dechrau, sef o gyfnod dechrau sefydlu'r system cynlluniau iaith ymlaen, oedd cyflwyno pwnc yr iaith yn bwnc llai dadleuol a mwyfwy anwleidyddol yn yr ystyr bleidiol nag a fuasai gynt. Wedi sefydlu'n eglur nad crynhoi cyfalaf cymdeithasol i Blaid Cymru (trwy gyfreithloni ei hymlyniad hanesyddol at y Gymraeg) fyddai proses adfywio'r Gymraeg o dan Ddeddf 1993, daeth yn arferiad ym mlynnyddoedd olaf yr 20fed ganrif i bleidiau gwleidyddol eraill yng Nghymru fabwysiadu hunaniaeth Gymreig ac enwau corfforaethol dwyieithog ac arddel y Gymraeg yn gyhoeddus. Amlygir hyn gan y ffaith bod pob un ond un o wefannau cyhoeddus y pedair prif blaid a gynrychiolir yn CCC yn ddwyieithog bellach, i raddau amrywiol.³⁶ Gwelwyd cynnydd yn y deunyddiau etholiadol a gyhoeddwyd yn ddwyieithog gan y prif bleidiau a nifer o'r pleidiau llai hefyd, mewn etholiadau i San Steffan ac i CCC. Gwelwyd yn ogystal gynnydd yn eu defnydd o'r Gymraeg yn eu cynadleddau Cymreig, ac mewn sioeau, gwyliau a digwyddiadau cyhoeddus eraill ac wrth hysbysebu yn y wasg. Gellid cwestiynu wrth gwrs i ba raddau roedd eu defnydd o'r Gymraeg yn arwydd o wir ymlyniad newydd at yr iaith ymhlith eu gwleidyddion a'u haelodau. Er hynny, roedd y cynnydd yn eu defnydd cyhoeddus ohoni yn adlewyrchu'r consensws gwleidyddol newydd ynglŷn â'r Gymraeg. Gellid tybio bod llawer o'r arferion dwyieithog hyn o du'r prif bleidiau gwleidyddol yng Nghymru yn arferion a ddaethai'n gyfarwydd iddynt drwy ymddygiad normadol newydd y cyrff cyhoeddus a weithredai Gynlluniau Iaith Gymraeg.

Gwelwyd effaith y broses ddadwleidyddoli hon (yn yr ystyr bleidiol) ar waith hefyd yn y modd yr ymdriniai cyrff cyhoeddus â'r Gymraeg yn eu trafodaethau mewnol, dan arweiniad y Bwrdd ac mewn ymgynghoriad ag ef. Amlygwyd hyn yn arbennig yn siambrau ac ystafelloedd pwyllgorau awdurdodau lleol Cymru. Wedi'r cyfnod cynnar pan fu'r cyrff hyn yn trafod, paratoi a mabwysiadu eu Cynlluniau Iaith Gymraeg cyntaf, byddai naws gynyddol anwleidyddol yn nodweddu eu disgwrs mewnol am y Gymraeg. Byddai cyfarfodydd mewnol y pwyllgorau a lywiai ac a oruchwyliai weithrediad eu Cynlluniau Iaith Gymraeg yn canolbwyntio yn hytrach ar yr agweddau gweithdrefnol a gweinyddol ar weithredu mesurau'r Cynllun, ac ar eu trefniadau i fonitro cydymffurfiaeth. Anaml y clywid gwyntyllu dadleuon gwleidyddol chwyrn na phegynnu barn ar sail bleidiol ynddynt.

³⁶. Gweler <http://www.welshlabour.org.uk/>; <http://welshlibdems.org.uk/cy/>; <http://www.plaidcymru.org/>. Yr eithriad yw gwefan y Ceidwadwyr Cymreig, Er yr arddangosir yfersiynau Saesneg a Chymraeg o enw'r blaid honno ar dudalen hafan ei gwefan, ni chynhwysir rhagor o destun Cymraeg arni. Gw. <http://www.welshconservatives.com/> Cychwyd y pedair gwefan ar 1.9.14.

At hynny, pan drafodid unrhyw destunau ysgrifenedig a dderbyniwyd oddi wrth BYIG, neu petai swyddog cyswllt o'r Bwrdd yn bresennol, byddai cyfraniad y Bwrdd yn tueddu i ychwanegu at natur 'anwleidyddol' y trafod. Mae'n debygol y gellid priodoli hynny i'r canfyddiad cyffredinol o'r Bwrdd fel corff statudol annibynnol a sefydlwyd gan ddeddf gwlad, a'i gyfraniad yn un gwrthrychol, arolygol ac ymgynghorol, yn rhydd o gymhellion gwleidyddol.³⁷ Cynghori, hwyluso, cydweithredu, 'dwyn perswâd' ac argymell oedd dulliau gweithredu'r Bwrdd (Jones, 2014). Gellid dadlau bod y defnydd o'r dulliau 'meddal' a 'chyfeillgar' hyn gan y corff statudol arweiniol ym maes gweithredu polisi cyhoeddus ar y Gymraeg wedi bod yn *modus operandi* gynhwysol ei dylanwad. Ond fel a drafodwyd eisoes, deilliodd y dulliau hyn nid o ddamcaniaeth gymdeithasol gref, ond, o *realpolitik* y cyfnod a diffyg pwerau statudol y Bwrdd i weithredu mewn modd cadarnach. (Lewis, 2008: 86-96; Jones, 2014).

Gellir dehongli'r newid yn ymddygiad cyhoeddus asiantaethau'r wladwriaeth a phleidiau gwleidyddol tuag at y Gymraeg yn ystod cyfnod gweithredu'r Bwrdd yn amlygiad o'r cyfalaf cymdeithasol a chyfalaf economaidd a darddai o'r consensws gwleidyddol a drafodwyd uchod, ac a hyrwyddid a gwarchodid gan y Bwrdd. Wrth ddehongli cysyniad Bourdieu (1986) o gyfalaf cymdeithasol³⁸, deil Arefi (2003:384) fod y broses greu consensws yn ddangosydd pendant o gyfalaf cymdeithasol. Dadleua fod consensws yn gydnabyddiaeth o 'fudd cyffredin' a chydsyniaeth rhwng gwahanol weithredwyr neu fudd-ddeiliaid, ac mae hyn yn eu cymell i gydweithredu neu weithredu yn yr un modd. Mae cydweithrediad o'r fath felly yn ddangosydd o gynnydd mewn cyfalaf cymdeithasol. Yn ôl dehonglydd arall, gall cydweithredu a chydsynio o'r fath ddeillio o gymhellion unigolyddol asiantau mewn gwirionedd, wrth iddynt gael eu cymell i fuddsoddi mewn perthnasau cymdeithasol gan y disgwyliad y gallant elwa arnynt wedyn yn y farchnad (Lin, 2001). O ddilyn y dehongliad olaf hwn, wrth gysylltu eu hunain â'r bri cynyddol ar y Gymraeg wedi Deddf 1993, elwai sefydliadau a phleidiau gwleidyddol o'r cyfalaf cymdeithasol a ddeilliai o hynny. Mae'r asiantaethau hyn yn rhai sy'n hawlio cyfreithlonedd a hygredd fel ymarferwyr cyfle cyfartal ac ymagwedd gynhwysol at y gwahanol garfannau cymdeithasol y

³⁷ Bu'r awdur yn bresennol mewn llawer o gyfarfodydd o'r fath mewn gwahanol sefydliadau ar hyd a lled Cymru yn ystod y 14 blynedd olaf o oes y Bwrdd, ac mae llawer o gynnwys y paragraff hwn yn seiliedig ar y profiadau hynny. Ategir y canfyddiad hwn gan sylwadau a fynegwyd iddo dros y blynyddoedd gan 'Swyddogion Iaith' yr awdurdodau lleol a chyff cyhoeddus eraill.

³⁸ Yn ei ysgrif *The Forms of Capital* mae Bourdieu (1986) yn gwahaniaethu rhwng tri math o 'gyfalaf': cyfalaf economaidd, cyfalaf diwylliannol a chyfalaf cymdeithasol. Mae'n diffinio cyfalaf cymdeithasol fel "the aggregate of the actual or potential resources which are linked to possession of a durable network of more or less institutionalized relationships of mutual acquaintance and recognition" (Ibid.:51).

cyfathrebant â nhw ac a wasanaethant. Wrth ymrwymo i arddel y Gymraeg daethant yn aelodau o grŵp (unigryw yng Ngwledydd Prydain) o sefydliadau a fyddai'n symud ymlaen i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Deillia'r cyfalaf cymdeithasol o'r cyfreithlonedd, hygydedd a blaengarwch a gysylltid â'r aelodaeth honno yng Nghymru. O'i fynegi yn nhermau Bourdieu, rhydd hynny iddynt 'the backing of the collectivity-owned capital, a 'credential' which entitles them to credit, in the various senses of the word' (Op.cit. :51).

Er y wedd gynhwysol ar ieithwedd gorfforaethol anwleidyddol y Bwrdd wrth ymdrin ag agweddau ar adfywio'r Gymraeg, roedd yn ieithwedd wahanol iawn i ieithwedd y carfannau hynny o fewn y gymdeithas sifil yng Nghymru a fuasai'n ymgyrchu dros yr iaith ers degawdau cyn (ac ers) Deddf 1993. I ymgyrchwyr iaith, roedd eu hymgyrchu yn 'frwydr' dros gydraddoldeb ieithyddol a hawliau sifil, a bu rhai lladmeryddion blaenllaw'r mudiad iaith yn dehongli'r frwydr yng nghyd-destun brwydrau eraill dramor am hawliau sifil ac ymreolaeth wleidyddol³⁹. O'r herwydd, roedd y wedd dechnocrataidd ar ieithwedd y Bwrdd yn dieithrio llawer yn y mudiad iaith (Williams a Morris, 2000: 202-203).

Wrth ddefnyddio'r arwyddair 'o frwydr i fenter', dadleuai Dafydd Elis Thomas yn ystod ei gyfnod yn Gadeirydd y Bwrdd fod cyfnod 'brwydr yr iaith' ar ben a bod cyfnod newydd o sefydliadolï'r Gymraeg wedi dechrau. Roedd y defnydd o'r gair 'fenter' ganddo i ddisgrifio'r cyfnod newydd yn hanes adfywio'r Gymraeg yn ddadlennol. Defnyddid yr un gair yn aml i drosi'r gair Saesneg 'enterprise', ac fe'i cysylltid hefyd â Menter a Busnes (<http://www.menterabusnes.com/cy/amdanom-ni>), cwmni annibynnol a gafodd ei sefydlu ym 1989 i hybu mentergarwch yng Nghymru ac a ddisgrifiwyd gan LICC (2003:23) fel 'cwmni datblygu economaidd, i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gwireddu eu potensial ym meysydd busnes, cyflogaeth a chymunedol er budd yr economi a'r iaith Gymraeg.' Awgrymai'r defnydd o'r gair 'menter' gan Gadeirydd y Bwrdd felly mai rhyw fath o 'fentergarwch ieithyddol' i'w feithrin o fewn sefydliadau oedd yr ymagwedd newydd yn hanes adfywio'r Gymraeg.

Gellid dadlau bod yr ieithwedd hon yn gynhwysol wrth iddi bontio â'r disgrysiâu rheolaethol a threfniadaethol a fyddai'n gyfarwydd i reolwyr a byrddau cyrff cyhoeddus, a chynghorwyr etholedig fel ei gilydd. Serch hynny, i lawer o ymgyrchwyr iaith nid oedd yr ymagwedd newydd yn argyhoeddi. Wedi'r cyfan, am y rhan fwyaf o'r

³⁹ Er enghraifft, mae amryw o ganeuon y canwr gwlatgarol poblogaidd Dafydd Iwan wedi dehongli i'r gynulleidfa Gymraeg themâu a amlygai bersbectif rhyngwladol ar 'frwydr yr iaith'. Cyfeiriodd yn ei ganeuon at statws anghyfartal cyn-frodorion Awstralia; cyfnod gorthrwm gwleidyddol llywodraeth Chile dan unbennaeth y Cadfridog Pinochet; y rhyfel yn Fietnam; helyntion Gogledd Iwerddon; y gyflafan yn Sgwâr Tiananmen; a Rhyfel y Gwlff. (Iwan, 2012)

20fed ganrif, buasai asiantaethau'r wladwriaeth yn darged i'w hymgyrchoedd oherwydd eu cyndynrwydd i ymateb i ddyheadau siaradwyr Cymraeg. Ni fuasai defnyddio'r Gymraeg mewn busnes cyhoeddus yn nodwedd o'u diwylliant corfforaethol, nac yn fater a hawliai lawer o'u sylw, gydag ychydig eithriadau. Felly roedd gosod sefydliadau yn brif gyfrwng i gyflwyno cydraddoldeb ieithyddol yn gysyniad nad enynnai lawer o optimistiaeth nac ymddiriedaeth ymhlith yr ymgyrchwyr mwyaf heriol.

Carfannau o fewn y gymdeithas sifil, a'r mudiad iaith yn benodol, ac nid sefydliadau, a roesai'r arweiniad ym 'mrwydr yr iaith'. Ymgyrchoedd gan grwpiau dinasyddion yn erbyn sefydliadau'r wladwriaeth, a hynny yn wyneb arferion hegemoniaidd di-ildio'r sefydliadau hynny, a sicrhodd gonsesiynau i'r Gymraeg o ganol yr 20fed ganrif ymlaen yn fwy na'r un ffactor arall (Williams, 2014; Phillips, 1998). Roedd 'brwydr yr iaith' yn ymadrodd a ddefnyddid i ddisgrifio amrediad o ymgyrchoedd amrywiol dros ddarpariaeth yn y Gymraeg ers y 1960au. Roedd y term yn cynnwys ymgyrchoedd dros addysg Gymraeg ar bob lefel; ymgyrchoedd dros sicrhau statws swyddogol i'r Gymraeg; hawliau i siaradwyr Cymraeg; darpariaeth Gymraeg mewn gwasanaethau cyhoeddus a phreifat; gwasanaeth radio a theledu yn Gymraeg; a mwy o fri a chydabyddiaeth i'r iaith yn gyffredinol. Ers y 1960au datblygasai llawer o gefnogaeth ymhlith siaradwyr Cymraeg i'r mudiad iaith yn gyffredinol ac i ddulliau gweithredu uniongyrchol, di-drais prif ladmeryddion 'y frwydr', Gymdeithas yr Iaith Gymraeg (Phillips, 1998; 2000).

Ond mynnodd Elis Thomas fod ieithwedd 'y frwydr' bellach yn anaddas yng nghyd-destun cenadwri'r Bwrdd:

Mae'r frwydr drosodd' equals 'peidiwch â disgrifio'r peth yma yn nhermau brwydr' yn enwedig yn y Gymru newydd oherwydd os 'dan ni'n ei ddisgrifio fo fel brwydr, yna 'dan ni'n ymladd yn erbyn ein gilydd a 'dan ni wedi colli. (Dyfynnir yn Jones, 1999:184)

Yng ngolwg ymgyrchwyr iaith bu'r haerriad fod 'y frwydr' drosodd yn ddi-sail. Roedd niwtraliaeth ymddangosiadol y Bwrdd a'i ddulliau gweithredu tra gofalus a thechnocrataidd yn wyneb yr hyn a ddehonglid gan y Gymdeithas ac eraill yn y mudiad iaith yn gyfnod o argyfwng ar y Gymraeg, yn dieithrio llawer o siaradwyr Cymraeg. At hynny, roedd ei gyndynrwydd i gydnabod bod cyfyngiadau Deddf 1993 yn sylfaenol broblemus yn adleisio safbwynt y Llywodraeth, ac yn ei osod benben â'r mudiad iaith. Ategwyd y dieithrwch oddi wrth y mudiad iaith a'i gefnogwyr gan fethiant y Bwrdd i gydnabod yn groyw fod yr alwad am hawliau ieithyddol yn un ddilys a rhesymol, a bod sicrhau hawliau o'r fath y tu hwnt i'r hyn y gellid ei gyflawni dan Ddeddf 1993. Beirniadwyd y Bwrdd hefyd am ei hwyrfydedd i gefnogi'r alwad am 'ddeddf iaith newydd' i unioni diffygion Deddf 1993. Er y feirniadaeth hallt o du'r

mudiad iaith, cefnogwyd barn y Bwrdd nad oedd angen deddf iaith newydd gan Dafydd Elis Thomas. Ac yntau bellach yn Llywydd cyntaf CCC, wedi ymdeol yn ddiweddar o'i swydd yn Gadeirydd y Bwrdd, datganodd Elis-Thomas ar faes Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru ym Mai 2000 fod digon o ewyllys da yng Nghymru i ddiogelu'r iaith heb fod angen deddf newydd. Ymatebodd llefarydd ar ran y Gymdeithas, 'By making such comments he declares his support for the status quo.' (BBC News, 2000). Wrth ategu'r ddatl fod 'y frwydr' ar ben, ac felly nad oedd angen deddf newydd, ymddangosai fel petai'r Bwrdd a'r Cynulliad (a gynrychiolid ill dau o fewn cyfnod byr gan Dafydd Elis Thomas yn rhinwedd y ddwy swydd a ddaliai) yn ceisio dadgyfreithloni'r mudiad iaith a'i bersbectif radicalaidd ar gynllunio ieithyddol swyddogol. Fel y nodwyd saith blynedd wedi sefydlu'r Bwrdd,

Its attempt to divest the language of any political context is seen to be contrary to the very methods which have thus far led to the limited success which has been achieved. It is also seen as a ploy to 'take the guts out of the language issue', which, if it lacks a political context, is felt to lack the emotive context or 'heart' which is so essential to the language movement as a moral cause. (Williams a Morris, 2000: 203)

Ond yn fwy na dim efallai, roedd y gosodiad bod y frwydr ar ben yn groes i brofiad llawer o siaradwyr Cymraeg o'r llu o ffactorau a gadarnhâi hegemoni'r Saesneg yn eu bywydau beunyddiol. Roedd yr anawsterau a wynebai'r sawl a geisiai fyw eu bywydau a derbyn gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn tansellio hygrededd gosodiad o'r fath.

Roedd ieithwedd anwleidyddol cenadwri'r Bwrdd yn 'y Gymru newydd' yn adlewyrchu ieithwedd y symudiad cyfochrog tuag at fath o genedlaetholdeb sifig newydd a gyfeithlonid bellach drwy bolisi, fel a amlinellwyd yn yr isadrannau uchod. Ac fel a drafodwyd eisoes, roedd hwnnw'n symudiad a hyrwyddid o bersbectif mwyafrifyddol, hegemonaid, a ddehonglai genedlaetholdeb sifig fel math blaengar, cynhwysol o'i gymharu â chenedlaetholdeb traddodiadol 'y frwydr', a ddehonglid fel math ethnig, anghynhwysol, seiliedig ar iaith a threftadaeth. Ac i ymgyrchwyr o fewn y mudiad iaith roedd ieithwedd y Bwrdd yn un a gyfleai ymagwedd ddiwreiddiau, na chydabyddai bwysigrwydd defnydd iaith yn y peuoedd a ddisgrifiwyd gan Fishman (2001:467). yn 'crucial nexus of intergenerational mother tongue transmission', sef 'home-family, neighbourhood, community'. Ni chydabyddai'r ymagwedd 'swyddogol'ychwaith sut y gall defnydd iaith grwpiau ac unigolion fod ynghlwm wrth diriogaeth ofodol benodol, na'r cysyniad o 'gydymdreiddiad tir ac iaith' (Jones, 1966) a fu mor ddylanwadol ar y mudiad iaith.

Agwedd arall ar ieithwedd anwleidyddol y Bwrdd oedd y modd yr arddelai ieithwedd y farchnad i ddatblygu a hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg. Cysyniad

newydd a dieithr i siaradwyr Cymraeg oedd eu diffinio yn 'ddefnyddwyr gwasanaethau Cymraeg'. O gofio na fuasai gwasanaethau Cymraeg ar gael ar raddfa eang yn y rhan fwyaf o ardaloedd Cymru cyn gweithredu'r genhedlaeth gyntaf o gynlluniau iaith, go brin y syniai siaradwyr Cymraeg amdanynt eu hunain fel 'defnyddwyr gwasanaethau Cymraeg'. Felly, diffiniad a rôl a dadogid arnynt gan ieithwedd y Bwrdd a Chynlluniau Iaith oedd y rhain.

Ymadroddion a ddefnyddir yn aml mewn Cynlluniau Iaith a gymeradwywyd gan y Bwrdd yw 'defnyddwyr gwasanaethau Cymraeg' a 'chwsmeriaid Cymraeg'. Wrth i gyrff ddatblygu eu Cynlluniau Iaith byddai'r Bwrdd yn eu cyfarwyddo i greu systemau a gweithdrefnau i'w galluogi i gynnig i'r grŵp hwn ddewis nas cynigid gynt - sef 'dewis iaith', y dewis o dderbyn gwasanaethau cyhoeddus yn Gymraeg neu Saesneg. Yn yr ystyr honno fe'i hyrwyddid gan y Bwrdd fel mesur cynhwysol, am ei fod yn estyn buddion cymdeithasol penodol – sef gwasanaethau yn eu hiaith eu hunain – i grŵp na dderbyniasai'r buddion hynny cynt.

Roedd y cysyniad hwn o allu dewis derbyn gwasanaeth yn y naill iaith neu'r llall mewn sefyllfa lle mae gwasanaethau cyhoeddus ar gael mewn dwy iaith swyddogol, yn dangos dylanwad model cynllunio ieithyddol gwladwriaeth ffederal Canada. Yno, mae gan y llywodraeth ffederal ddwy iaith swyddogol, Saesneg a Ffrangeg. Yn dilyn yr Official Languages Acts, 1966 a 1988, rhoddid pwyslais ar ddwyieithogi sefydliadau ffederal yn yr ardaloedd lle y dangosai ystadegau'r Cyfrifiad fod digon o siaradwyr yr 'iaith swyddogol leiafrifol' (sef Saesneg yn Québec a Ffrangeg ym mhob talaith arall) i gyfiawnhau cynnig a hwyluso dewis iaith i'r cyhoedd (Dunbar, 2007; Newman, 2007; Cardinal, 2007).

Yng ngwaith BYIG roedd yr amgylchiadau gwleidyddol ac ideolegol a esgorodd ar Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn dylanwadu'n drwm ar y modd y cyflwynid cyd-destun 'dewis iaith' i'r cyhoedd. Roedd y cysyniad o gynnig dewis iaith yn elfen ganolog o'r hyn a ddisgrifiwyd gan Mac Giolla Chríost (2007: 79) fel 'the dominant discourse of the WLB, which styles its key users as consumers or customers'. Roedd y disgwrs hwn yn mynd law yn llaw â'r 'commodification of Welsh' a oedd ymhlyg ym mhrosesau'r Bwrdd yn ôl Williams a Morris (2000: 191-192). Yn ôl yr ymagwedd hon, trinnid a hyrwyddid gwasanaethau Cymraeg fel 'nwyddau' a gynigid i 'gwsmeriaid Cymraeg', carfan arbennig o'r farchnad gwasanaethau a fyddai'n gallu caffael y 'nwyddau' wedyn drwy arfer eu 'dewis iaith' (Eaves, 2007:94). Ymhlyg yn yr ymagwedd hon y mae rhagdybiaeth y bydd creu 'cyflenwad' o nwyddau (gwasanaethau) Cymraeg un ai yn diwallu rhyw alw cudd amdanynt, neu'n creu galw newydd amdanynt. Disgwrs y farchnad yw hwn, a gellir tybio eto, o ystyried hanes y Gymraeg, mai dieithr i siaradwyr Cymraeg fyddai synio am y defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd yn 'farchnad' a hwythau'n gwsmeriaid.

O safbwynt disgwrs cynllunio ieithyddol cyfyd hefyd amryw o broblemau damcaniaethol o'r cyfeiriadedd hwn. Mae'n ddisgwrs sy'n tarddu'n uniongyrchol o neo-ryddfrydiaeth, a honno felly oedd sail ideolegol y model cynllunio ieithyddol a weithredid o du'r wladwriaeth drwy'r Bwrdd (Williams a Morris, 2000). Ond dull y Bwrdd oedd cyflwyno ei raglen fel petai'n anwleidyddol ac yn codi o niwtraliaeth ideolegol. Felly roedd y berthynas a fwriedid rhwng 'defnyddwyr' a 'darparwyr' yn hepgor unrhyw ystyriaeth o effaith hegemoni'r Saesneg ac ideoleg asiantau'r wladwriaeth ar ddefnydd iaith siaradwyr Cymraeg, ac anwybyddid dylanwad seico-ieithyddol y 'trais symbolaidd' (Bourdieu a Passeron, 1977) a ddygid ar siaradwyr Cymraeg yn hanesyddol. Roedd yn fodel a anwybyddai'n llwyr ddefnydd 'iaith mewn cymdeithas', ac a adlewyrchai ddiffyg arbenigedd staff y Bwrdd yn y disgyblaethau perthnasol i gynllunio ieithyddol. Hyn a arweiniodd Williams a Morris i'r casgliad nad cynllunio ieithyddol yn yr ystyr arferol a ymarferid gan y Bwrdd, ond ffurf ar 'language management' (Williams a Morris, 2000:189).

Gwelwn felly o'r drafodaeth uchod fod BYIG wedi arddel strategaeth i ddadwleidyddoli'r Gymraeg yn y testunau a gynhyrchwyd ganddo, ac yn y modd y'i dehonglid ganddo ac yn y dulliau gweithredu a seiliwyd arnynt. Gwnaeth hynny er mwyn ceisio cynnal y consensws gwleidyddol o blaid hyrwyddo'r Gymraeg, ond olrheiniwyd uchod sut y bu dadwleidyddoli'r iaith yn ddylanwad dieithriol yn ogystal â dylanwad cynhwysol.

Wrth gloi'r rhan hon o'r drafodaeth mae'n bwysig nodi bod yr ymagwedd anwleidyddol sy'n nodweddu ieithwedd a *modus operandi*'r Bwrdd wedi gosod y cywair ar gyfer trafod y Gymraeg mewn polisïau cyhoeddus dilynol gan Lywodraeth Cymru. Adlewyrchir yr un math o ymagwedd ac arddull yn strategaethau'r Llywodraeth ar y Gymraeg ag a welid yn nhestunau'r Bwrdd. Un o'r prif resymau am hyn yw mai swyddogion y Bwrdd ei hun, gyda chymorth rhai o aelodau'r Bwrdd, a ddrafftiodd y datganiad polisi *Dyfodol Dwyieithog* (LICC, 2002), a'r strategaethau *Iaith Pawb* (LICC, 2003) a *Iaith Fyw: Iaith Byw* (LIC, 2012a). Ar wahân i Ragair y Gweinidogion yn y dogfennau hyn, prin oedd unrhyw gyfraniadau i'r ddau destun gan swyddogion y Llywodraeth ei hun (Jones, 2014).⁴⁰ A chan mai'r un swyddogion a luniodd y testunau polisi allweddol hyn, fe welir ynddynt ymestyn yr un canfyddiad o gynllunio ieithyddol ag a amlygid yn nogfennaeth ddiweddar y Bwrdd wedi *Iaith Pawb* (LICC, 2003), ynghyd â'r un pwyslais ar gynhwysiant, a pharhad yr un arddull anwleidyddol. O ystyried y dogfennau hyn yn eu cyd-destun hanesyddol, mae'r

⁴⁰ Gweler troednodyn 8 uchod am y ffynhonnell hon.

mathau uchod o rethreg ac ieithwedd yn nodweddiadol o ieithwedd neo-ryddfrydol gweddill y sector cyhoeddus ar y pryd, yn arbennig felly'r syniad o greu marchnad fewnol ym meysydd addysg ac iechyd, a ystyrid gynt yn 'nwyddau cyhoeddus'. Yn y meysydd hyn, ac eraill yn ogystal, gan gynnwys maes cynllunio ieithyddol, ceid ymyriadau polisi â gogwydd ideolegol penodol iddynt, a'u cyflwyno i'r gymdeithas sifil fel petaent yn ymyriadau niwtral, technocrataidd, yn rhydd o ideoleg. Y gogwydd hwn a osododd y sail i ymagwedd y wladwriaeth at gynllunio ieithyddol yng Nghymru.

Dogfennaeth bolisi Llywodraeth Cymru ar y Gymraeg

Yn dilyn y refferendwm ar ddatganoli ym 1997 creodd Deddf Llywodraeth Cymru 1998 lywodraeth ddatganoledig i Gymru ar ffurf Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cafwyd cymal yn y Ddeddf hon yn datgan y byddai'r Cynulliad yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal ei fusnes cyhoeddus yng Nghymru, cyhyd ag y byddai hynny'n briodol yn yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol (HMSO, 1998: isadran 47(1)). Cafwyd hefyd ddarpariaeth eang yn y Ddeddf i alluogi'r Cynulliad i 'wneud unrhyw beth y mae'n ei ystyried yn briodol i gefnogi'r iaith Gymraeg' (Ibid.: adran 32(c)) Yn ôl un sylwedydd, roedd cynnwys darpariaethau o'r fath yn y ddeddf a sefydlodd lywodraeth ddatganoledig i Gymru yn weithred 'at least of symbolic importance in highlighting the importance attached to the Welsh language under devolution' (Dunbar, 2007:113-114). Arwyddocaol hefyd oedd y ffaith bod LICC wedi ei chynnwys ymhlith y cyrff cyhoeddus y byddai'n ofynnol iddynt baratoi Cynllun Iaith i'w gymeradwyo gan BYIG (CCC, 2002b). Yn y Cynllun hwnnw, o dan y pennawd 'Gweledigaeth y Llywodraeth' cyflwynwyd y datganiad canlynol: 'Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwmo'n llwyr i adfywio'r iaith Gymraeg ac i feithrin dwyieithrwydd ledled Cymru. Byddwn yn rhoi arweiniad gwleidyddol ac yn cynnig cyfeiriad strategol i gyflawni'r nod hwn' (Ibid. :5).

Yn unol â'r ymwymiad olaf, un o brif fentrau'r cynulliad etholedig newydd yn ystod ei dymor cyntaf oedd sefydlu adolygiad cynhwysfawr o'r iaith Gymraeg gan ei Bwyllgorau Diwylliant ac Addysg ar y cyd. Ar gyfer ei ran ef yn y broses roedd y Pwyllgor Diwylliant wedi mabwysiadu'r cylch gorchwyl canlynol: 'Ceisio diffinio'n fwy manwl nod sefydledig y Cynulliad Cenedlaethol o ' greu Cymru ddwyieithog'. Nod y Pwyllgor fydd awgrymu strategaeth bendant o gamau tuag at gyflawni'r nod hwnnw'. Ychwanegodd y byddai'r adolygiad yn rhoi sylw arbennig i'r themâu canlynol:

- 'Galluogi pobl i ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall neu'r ddwy ym mhob agwedd o fywyd cenedlaethol ac yn eu cymunedau;
- Cefnogi'r Gymraeg fel iaith y teulu a'r gymuned;

- Darparu cyfleoedd o bobl ddysg Cymraeg, a'i defnyddio; a
- Hyrwyddo parch cyfartal tuag at y Gymraeg a'r Saesneg, a chynnal y consensws a'r ewylllys da cenedlaethol at ddwyieithrwydd (CCC, 2002b: 26).

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus go faith, cyhoeddwyd adroddiad yr adolygiad, *Ein Hiaith: Ei Dyfodol – Adolygiad polisi o'r iaith Gymraeg* gan y Cynulliad (CCC, 2002a). Yn y ddogfen hon gosodir y cywair cynhwysol a fyddai'n nodweddu ymagwedd polisi CCC, a LIC yn ei thro, at gynllunio ieithyddol i adfywio'r Gymraeg. Wrth ddisgrifio'r adolygiad a gynhaliwyd, mae'r ddogfen yn ailddatgan penderfyniad a fabwysiadwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar Orffennaf 4, 2000 yn rhestru nifer o ymrwymadau, yn eu plith,

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol:

- Yn ymrwmo i fabwysiadu polisiâu a fydd yn cynnal cymunedau Cymru ac yn sicrhau ffyniant yr iaith Gymraeg o fewn y cymunedau hynny.
- Yn cadarnhau ei gred bod yr iaith Gymraeg yn eiddo i bawb yng Nghymru, boed yn siaradwyr Cymraeg neu'n ddi-Gymraeg, ac yn ymrwmo i gydweithredu â chyrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i greu cymaint â phosibl o gyfleoedd i bobl ymhob rhan o Gymru gymryd rhan yn niwylliant a bywyd cyhoeddus dwyieithog Cymru (Ibid. :25).

Yn ddiweddarach yn yr un mis ag y cyhoeddwyd yr adolygiad uchod (Gorffennaf 2002), cyhoeddwyd datganiad polisi cyntaf Llywodraeth y Cynulliad ar yr iaith Gymraeg, sef *Dyfodol Dwyieithog: A Bilingual Future* (LICC, 2002). Yn eu Rhagair i'r ddogfen fer hon, datganodd Prif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwbl ymrwymedig i adfywio'r iaith Gymraeg a chreu Cymru ddwyieithog. Mae'r Gymraeg yn rhan bwysig o'n hunaniaeth genedlaethol a'n creadigrwydd, ac mae'r ymwybyddiaeth o fanteision addysgol, diwylliannol a chymdeithasol dwyieithrwydd yn cynyddu. (...) Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn darparu arweiniad strategol i gynnal a hybu twf y Gymraeg o fewn Cymru oddefgar a chroesawgar (LICC, 2002:1-2).

Yn ogystal â datgan ymrwymiad i hybu strwythurau i ddysgu neu gaffael yr iaith; hybu defnydd yr iaith a 'sicrhau bod unigolion yn gallu defnyddio'r iaith ym mhob agwedd ar eu bywydau bob dydd', cyfeiriodd y Rhagair at yr angen i Fwrdd yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth y Cynulliad 'ddarganfod beth sy'n gweithio orau ac yna sicrhau y caiff ei weithredu yn effeithiol.' Cafwyd hefyd gyfeiriad at gyfranogiad a chyfraniad y gymdeithas sifil:

Ni all hyn [sef polisi'r Llywodraeth i greu Cymru ddwyieithog] weithio heb i unigolion, cymunedau a phob rhan o'r gymdeithas gymryd rhan weithredol yn ogystal (Ibid. :2).

Flwyddyn wedi cyhoeddi'r datganiad polisi *Dyfodol Dwyieithog*, cyhoeddwyd yr 'arweiniad strategol' a addawyd ynddo, arweiniad oedd yn ffrwyth yr adolygiad polisi ac yn ddilyniant i'r datganiad polisi, sef *Iaith Pawb: Cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog* (LICC, 2003).

Roedd y ddwy ddogfen olaf yn hanesyddol bwysig am mai nhw oedd y datganiadau polisi cyntaf yn hanes Cymru i ddatgan bwriad ac ymrwymiad ar lefel llywodraeth, ac ar ran llywodraeth, 'i adfywio'r iaith Gymraeg a chreu Cymru gwbl ddwyieithog' (LICC, 2002:1). Hefyd, roeddent yn arwydd o newid sylfaenol mewn llywodraethiant ieithyddol am eu bod yn mynegi'n eglur mai'r Llywodraeth fyddai'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb pennaf am gynllunio ieithyddol o hynny allan.

Yn ogystal, mae'n arwyddocaol bod y ddwy ddogfen wedi eu llunio ag ieithwedd sy'n amlygu ymagwedd gynhwysol at adfywio'r Gymraeg. Hynny yw, maent yn anelu at hyrwyddo'r Gymraeg yn iaith i bawb ym mhob rhan o Gymru, yn siaradwyr Gymraeg ac yn drigolion di-Gymraeg fel ei gilydd, fel y mynegir yn nheitl y cynllun gweithredu, *Iaith Pawb*. Y 'weledigaeth' a fynegir yn *Iaith Pawb* yw deisyfiad y Llywodraeth i greu

Cymru gwbl ddwyieithog, sef gwlad lle y gall pobl ddewis byw eu bywydau naill ai drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg neu'r ddwy iaith, a lle mae bodolaeth y ddwy iaith yn fater o falchder a chryfder i ni i gyd (LICC, 2003: 1).

Ailadroddir y deisyfiad 'i Gymru fod yn genedl wirioneddol ddwyieithog' yn yr adran sy'n gosod Nod y cynllun (Ibid. :11). Noda'r testun hefyd, ar ôl cyfeirio at y cynnydd yn statws y Gymraeg a datblygiad strwythurau i'w chefnogi, fod y Gymraeg 'yn berthnasol i fywydau yr ifanc a'r hen fel ei gilydd yng Nghymru' (Ibid. :2). Mynegir yn eglur yn y ddogfen felly mai'r math o ddwyieithrwydd a oedd mewn golwg fel nod polisi oedd 'dwyieithrwydd cymdeithasol', yn hytrach na 'dwyieithrwydd swyddogol', sef dwyieithrwydd o du sefydliadau yn unig. Mae Dunbar (2007:124-127) wedi cymharu'r math o ddwyieithrwydd cymdeithasol a hyrwyddid yng Nghymru drwy'r polisïau hyn â'r math o ddwyieithrwydd swyddogol a hyrwyddid gan bolisïau llywodraeth ffederal Canada. Mae'r olaf, meddai, yn cyfeirio yn bennaf at allu'r llywodraeth ac asiantaethau'r wladwriaeth i ymwneud â'r cyhoedd yn y ddwy iaith, Ffrangeg a Saesneg, er mwyn i'r unigolyn allu derbyn gwasanaeth yn yr iaith o'i ddewis. Mae 'dwyieithrwydd cymdeithasol' ar y llaw arall, sef y math o ddwyieithrwydd a hyrwyddid yng Nghymru, yn fwy trwyadl ac uchelgeisiol am ei fod

yn anelu at feithrin dwyieithrwydd mewn cymdeithas, sef gallu unigolion i siarad Cymraeg a Saesneg.

The goal of putting people in a position to choose to live their lives through either or both Welsh and English clearly implies that all Welsh people should be equipped with the capacity to make that choice, and that implies a sufficiently strong command of both languages (Ibid. :126).

Pennodd *laith Pawb* bum prif darged, sef:

1. Cynyddu canran y siaradwyr Cymraeg gan 5% erbyn 2011
2. Atal y lleihad yn nifer y cymunedau lle'r oedd mwy na 70% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg
3. Cynyddu canran y plant a dderbyniai addysg cyn-ysgol trwy gyfrwng y Gymraeg
4. Cynyddu canran y teuluoedd lle byddai'r Gymraeg yn brif iaith cyfathrebu rhwng plant ac oedolion
5. Cynyddu'r gwasanaethau a ddarperid trwy gyfrwng y Gymraeg gan gyrrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. (op. cit.: 11).

Mae'r ddogfen yn nodi ymrwymiad y Llywodraeth i osod y Gymraeg ym mhrif ffrwd gwaith y Llywodraeth ei hun a'i gweithgareddau llunio polisi, a rhaglenni cyhoeddus sefydliadau ar hyd a lled Cymru. Uned iaith Gymraeg a sefydlid o fewn Llywodraeth y Cynulliad fyddai'n rhoi arweiniad ar brif-ffrydio'r Gymraeg ar draws adrannau'r Gweinidogion ac o fewn cyrff a noddid gan y Cynulliad. Dynododd hefyd mai BYIG fyddai'r prif gorff datblygu cynllunio ieithyddol yng Nghymru, ac y byddai swyddogaeth ymchwil a dadansoddi ymchwil y Bwrdd yn cael ei datblygu ymhellach. Ac wedi datgan mor bwysig fyddai cyfraniad awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus eraill a'r sectorau preifat a gwirfoddol i wireddu'r cynllun gweithredu cenedlaethol, pwysleisia hefyd na fyddai camau sefydliadol a gwleidyddol o'r fath yn ddigonol i achub yr iaith. 'Rhaid i'r gwaith o gynnal yr iaith fod yn gydymdrech ar ran LIC a phobl Cymru' yn ôl y ddogfen (op.cit.:53). Mewn brawddeg sy'n cydnabod mor allweddol fyddai sicrhau cyfraniad cadarnhaol a chyfranogiad ewyllysgar o du pobl Cymru, dywed:

Yn y pen draw os yw'r iaith i oroesi rhaid i unigolion gymryd perchnogaeth ohoni – sy'n golygu cael pobl i gymryd rhan mewn mentrau cymunedol i hyrwyddo'r iaith, rhieni'n trosglwyddo'r iaith i'w plant ac unigolion yn ymroi i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd cymdeithasol ac mewn busnes. Nid oes gennym amheuaeth fod dyfodol cadarnhaol i'r Gymraeg os bydd pobl Cymru yn rhannu ein gweledigaeth (Ibid. :53).

Yn ôl Williams ar y pryd, *laith Pawb* oedd y ddogfen swyddogol fwyaf pellgyrhaeddol a gyhoeddwyd erioed ar hyrwyddo'r Gymraeg, o'i barnu ar sail ei rhethreg yn unig (Williams, 2004:5). Yn sicr, roedd negeseuon *laith Pawb* yn symbolaidd bwysig o ran sefydlu'r cysyniad o'r Gymraeg yn fudd cymdeithasol y gallai holl ddinasyddion Cymru ei gyd-berchnogi, cyfranogi ohono a chyfrannu ato. O safbwynt prif ddadleuon y traethawd hwn, roedd yn bwysig hefyd oherwydd ymhlyg yn nhestun y ddogfen y mae'r gydnabyddiaeth y dylai'r disgwrs am gynllunio ieithyddol i adfywio'r Gymraeg gynnwys holl ddinasyddion Cymru, sef y gynulleidfa darged i'r mesurau adfywio iaith. A thrwy eu cynnwys yn y disgwrs, anelid at gymell unigolion o fewn y gynulleidfa amrywiol honno i fabwysiadu'r ymddygiadau fyddai'n angenrheidiol i sicrhau adfywiad yr iaith. Yn y bennod nesaf dangosir nad yw polisi cyhoeddus wedi esgor ar ddull a modd digonol i agor a chynnal disgwrs ieithyddol arwyddocaol â dinasyddion, a dadleuir y dylid cydnabod ac arddel hyfforddiant ymwybyddiaeth feirniadol o'r iaith Gymraeg (HYFIG) Gymraeg fel porth mynediad pwysig i ddisgwrs o'r fath.

Yn ystod cyfnod gweithredu *laith Pawb* deddfodd Senedd Gwledydd Prydain drachefn ar y setliad datganoli llywodraeth yng Nghymru, yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 (HMSO, 2006). Diwygiwyd CCC gan y ddeddf hon, drwy greu system lywodraethol a oedd ar wahân ac yn atebol i'r ddeddfwrf. Hynny yw, crëwyd corff *gweithredol*, Llywodraeth Cymru, yn endid ar wahân i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, y corff *deddfwriaethol*. Darpariaeth bwysig arall yn y Ddeddf oedd honno a'i gwnâi'n haws i'r Cynulliad geisio mwy o bwerau i ddeddfu. Gallai'r Cynulliad wneud hynny drwy system o geisio Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol i ddosrannu pŵer o Senedd y D.U. i'r Cynulliad, i greu 'Mesurau' (cyfreithiau Cymreig). Yn ogystal â'r cymalau hyn, pennodd atodlen y Ddeddf ugain o feysydd lle y byddai gan y Cynulliad bwerau datganoledig i greu mesurau arnynt, a phennodd hefyd y mathau o faterion a gynhwysid o fewn y meysydd hynny. Yn arwyddocaol, roedd yr iaith Gymraeg yn un o'r ugain maes datganoledig hynny .

Yn dilyn etholiadau'r Cynulliad ym Mai 2007, sefydlwyd llywodraeth glymblaid rhwng y Blaid Lafur a Phlaid Cymru, wedi i'r Blaid Lafur ennill y nifer fwyaf o seddau yn y Senedd, ond heb lwyddo i ennill mwyafrif o'r holl seddau. Cyhoeddwyd cytundeb rhwng y ddwy blaid ar gyfer llywodraethu Cymru ar y cyd, sef *Cymru'n Un / One Wales* (LICC, 2007b). Roedd y cytundeb yn cynnwys y paragraff canlynol o dan y pennawd 'Supporting the Welsh Language', paragraff a oedd yn adleisio'r ymagwedd gynhwysol a fuasai'n nodwedd graidd o *laith Pawb* -

The Welsh language belongs to everyone in Wales as part of our common national heritage, identity and public good. We will work to

ensure that more people, young and old, can learn Welsh and encourage it to thrive as a language of many communities all over Wales (Ibid. :34).

Dilynwyd y cytundeb gan gynllun gweithredu - y *One Wales Delivery Plan 2007-2011* (LICC, 2007c) - yn cynnwys 228 o ymrwymadau penodol i'w cyflawni erbyn Ebrill 2011, ac ymhlith y rheiny cafwyd amryw o ymrwymadau ynglŷn â'r Gymraeg. Yn ganolog iddynt cafwyd ymrwymiad i geisio Gorchymyn Cymhwysedd i'w alluogi i gyflwyno Mesur deddfwriaethol newydd ar y Gymraeg. Datganwyd yn y cynllun y byddai Mesur o'r fath yn cadarnhau statws swyddogol y Gymraeg a'r Saesneg yng Nghymru; cadarnhau hawliau ieithyddol parthed derbyn gwasanaethau yn Gymraeg; a sefydlu swydd Comisiynydd y Gymraeg.

Ymrwymiad pwysig arall yng nghytundeb *Cymru'n Un* (op. cit.: 22) oedd yr un i greu Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg i gwmpasu holl ystod o ddarpariaeth yng Nghymru o oed meithrin hyd addysg bellach ac addysg uwch, ynghyd â chynllun gweithredu. Cyhoeddwyd y Strategaeth honno dair blynedd yn ddiweddarach (LICC, 2010a). Roedd yn gyhoeddiad hir-ddisgwyliedig erbyn hynny oherwydd buasai diffyg ymdriniaeth drylwyr â'r maes addysg yn *Iaith Pawb* yn un o brif wendidau'r ddogfen ac yn destun cryn feirniadaeth o strategaeth y Llywodraeth ar y Gymraeg⁴¹ (Williams, 2004; 2007a; Thomas, 2007). Cyflwynodd y Llywodraeth y datganiad gweledigaeth canlynol ar gyfer ei *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg*:

Cael system addysg a hyfforddiant sy'n ymateb mewn ffordd wedi'i chynllunio i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg, sy'n cyrraedd ein cymunedau amrywiol ac yn eu hadlewyrchu ac sy'n sicrhau cynnydd yn nifer y bobl o bob oedran a chefnidir sy'n rhugl yn y Gymraeg ac sy'n gallu defnyddio'r iaith gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle. (LICC, 2010a: 4)

Ymhelaethodd ar hyn drwy nodi

...Uchelgais Llywodraeth Cynulliad Cymru o gael gwlad lle y mae addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg yn rhannau annatod o'r isadeiledd addysg. Rydym am sicrhau bod y system addysg yn ei gwneud yn bosibl i fwy o ddysgwyr o bob oedran feithrin amrywiaeth ehangach o sgiliau iaith yn y Gymraeg. Bydd hyn yn eu galluogi i ddefnyddio'r iaith yn eu

⁴¹ Nododd Rhodri Glyn Thomas, a fu'n gadeirydd ar un o'r ddau Bwyllgor a gynhaliodd yr adolygiad polisi ar ran LICC a esgorodd ar *Iaith Pawb*, 'What is clear now is that a major battle was lost in the Education and Lifelong Learning Committee through the failure to convince the Minister of Education, Jane Davidson, of the need for the provision of a national strategy for the provision of Welsh-medium education and the corresponding financial investment. In *Iaith Pawb* (...) the glaring gaps in the section on Welsh-medium education provision appear time and time again. This without doubt is the weakest part of the government's strategy for linguistic growth' (Williams, 2007: 379-380).

bywydau personol, yn gymdeithasol ac yn y gweithle. Rydym am weld system sy'n ymateb i alw'r cyhoedd am gynnydd mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg (Ibid.:4).

Mae'r Strategaeth yn pennu chwe 'Nod strategol' a thri ar ddeugain o 'amcanion strategol'. Nod strategol 6 yw 'Cyfrannu at feithrin ac atgyfnerthu sgiliau iaith yn y Gymraeg mewn teuluoedd ac yn y gymuned' ac un o'r amcanion strategol i wireddu hwnnw yw hwyluso dealltwriaeth 'bod sgiliau iaith yn y Gymraeg yn berthnasol i gymunedau diwylliannol amrywiol a chefnidiroedd economaidd-gymdeithasol gwahanol' (Ibid.:19). Ymhlith yr amcanion strategol eraill cynigir gwella'r modd y cyflëir gwybodaeth i rieni a gofalwyr am natur y ddarpariaeth ieithyddol a'r ethos sydd ynglŷn â hi (Ibid.:14); hyrwyddo cydnabyddiaeth o werth y Gymraeg fel sgil yn y gweithle, a datblygu cyfleoedd ar gyfer dysgu Cymraeg yn y gweithle (Ibid.:16).

Yn Chwefror 2011, tua diwedd cyfnod llywodraeth glymbleidiol *Cymru'n Un*, cafwyd deddfwriaeth newydd ar yr iaith Gymraeg, yn unol ag addewid y glymblaid yn ei chynllun gweithredu. Y prif ddarpariaethau ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 oedd fel a ganlyn: datganodd fod safonau iaith cenedlaethol i'w paratoi gan y Llywodraeth a byddai'r rhain yn disodli'r CIG; byddai BYIG yn cael ei ddi-ddymu a chrëid swyddogaeth rheoleiddiwr, Comisiynydd y Gymraeg. Gyda dirwyn BYIG i ben ddiwedd Mawrth 2012, rhannwyd ei brif gyfrifoldebau rhwng y Comisiynydd ac Uned Iaith LIC, gyda rhai cyfrifoldebau am agweddau gweithredol ym maes datblygu cymunedol yn cael eu datganoli'n rhannol i'r Mentrau Iaith (Williams, 2014:263). Hyd nes y daw'r safonau iaith newydd yn weithredol, erys y Cynlluniau Iaith yn gyfredol a'r Comisiynydd fydd yn gyfrifol am oruchwylio eu gweithrediad. Y Comisiynydd hefyd fydd yn derbyn adroddiadau monitro arnynt gan y cyrff sy'n eu gweithredu, yn ogystal â derbyn a phrosesu unrhyw gwynion am ddiffygion yn eu gweithrediad. Ar adeg ysgrifennu'r bennod hon erys peth ansicrwydd am yr olyniaeth i sawl agwedd arall ar waith y Bwrdd.

Yn un peth, golyga'r cyfyngiadau ar gylch gorchwyl y Comisiynydd na all gynnal yr un math o ddisgwrs creadigol, anogol a chynorthwyol â sefydliadau ag a gynhelid gynt gan y Bwrdd, oherwydd natur y berthynas hyd braich rhwng y rheoleiddiwr a'r sawl a reoleiddir. Hynny yw, ni all gyfrannu at weithrediad y prosesau a reoleiddir ganddo. Amser a ddengys faint o golled i sefydliadau fydd colli'r berthynas ddisgyrsiol a gynhalia'r Bwrdd â nhw gynt. Roedd y disgwrs parhaus rhwng pob sefydliad unigol a'r Bwrdd, a'r modd yr ysgogodd hwnnw ddisgwrs mewnol o fewn sefydliadau, yn ddylanwad pwysig ar broses 'symud y trothwy' ym mhob cynllun iaith o fersiwn i fersiwn dros gyfnod o amser. Mae effaith gronol yr

elfennau disgwrs hyn i'w gweld wrth gymharu er enghraifft, destunau'r Cynlluniau Iaith Gymraeg cyntaf, o 1996 ymlaen, â thestunau'r genhedlaeth ddiweddaraf a gymeradwywyd gan y Bwrdd yn ei gyfnod olaf.⁴²

Yn ail, rhannwyd y prif gyfrifoldeb am hybu'r Gymraeg rhwng y Comisiynydd a'r Llywodraeth. Am gyfrifoldeb y naill, dywed y Mesur 'caiff y Comisiynydd wneud unrhyw beth sy'n briodol yn ei dyb ef ... er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg' (TSO / Y Llyfrfa, 2011: adran 4(1)). Am gyfrifoldeb y llall, gesyd 'ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i fabwysiadu strategaeth sy'n nodi sut y maent yn bwriadu hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg' (Ibid: adran 3(d)). Ar adeg ysgrifennu'r bennod hon, fwy na thair blynedd wedi'r Mesur, nid oes yr un ymgyrch hyrwyddo sylweddol wedi ei gynnal gan y Llywodraeth na'r Comisiynydd. Bu'r Comisiynydd yn canolbwyntio ar gyhoeddi gwybodaeth am ei swyddogaeth a'i phrosesau rheoleiddio; canfyddiadau ei hymchwiliadau; a sylwadau ar agweddau ar bolisi cyhoeddus perthnasol i'w swyddogaeth. O du'r Llywodraeth, cyfyngedig iawn fu'r gwaith hybu uniongyrchol (yn hytrach na thrwy sefydliadau a gefnogir ganddi) hyd yn hyn.⁴³ Amser a ddengys ar ba ffurf y bydd gwaith hybu sylweddol y ddau asiant, beth fydd ei natur, ac a fydd yr ymagwedd gynhwysol yn elfen flaenllaw ohono.

Trosglwyddir rhan arall o'r swyddogaeth hyrwyddo i ddarparwyr gwasanaethau eu hunain, drwy osod arnynt y Safon Hybu sy'n un o'r Safonau Iaith a lunnir o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Bydd y Safon Hybu yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i hyrwyddo'r gwasanaethau Gymraeg a ddarparant. Ni wyddys eto pa dulliau a ddefnyddir gan y cyrff cyhoeddus i gyflawni hynny, na

⁴² Fe'i amlygir hefyd yn y modd yr esblygodd Cynlluniau Iaith Gymraeg awdurdodau lleol unigol. Yn eu Cynlluniau Iaith diweddaraf gwelir, i raddau amrywiol, sawl math o fesurau nas crybwyllir o gwbl yn nogfen arweiniad gwreiddiol y Bwrdd ar baratoi Cynlluniau Iaith Gymraeg (BYIG, 1996a). Mae'r mesurau hyn yn rhai a ddatblygwyd drwy ddisgwrs parhaus â sefydliadau, a daeth rhai ohonynt yn destun dogfennau arweiniad pellach gan y Bwrdd. Enghreifftiau ohonynt yw: cyfeiriadau at ddatblygu defnydd mewnol y Gymraeg mewn gweithleoedd, gan gynnwys datblygu gwasanaethau Cymraeg *mewnol* i staff (megis gwasanaethau gan adrannau personél); cyfeiriadau mwy penodol at fabwysiadu dulliau gweithredu dwyieithog wrth gydweithio â chyrrff eraill mewn partneriaethau; cyfeiriadau at gyfrannu at weithrediad strategaeth y Llywodraeth ar y Gymraeg;. Enghreifftiau o Gynlluniau Iaith sy'n cynnwys cyfeiriadau o'r fath yw Cynllun Iaith Cyngor Sir Caerfyrddin (2011) (<http://bit.ly/1E3HzOM>); a Chynllun Iaith Gymraeg Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (2009) <http://bit.ly/1vbhh72>

⁴³ Ar wefan LIC (2014b), dan y pennawd Hybu'r Gymraeg, prin yw'r wybodaeth a gyflwynir am waith y Llywodraeth yn y maes hwn. Ceir datganiad a noda 'Dros y dair blynedd nesaf byddwn yn datblygu cyfres o ymgyrchoedd i hybu'r Gymraeg, gan gychwyn gydag ymgyrch Pethau Bychain.' O'r we-ddolen honno ceir cyswllt â gwe-ddolen Pethau Bychain, sy'n arwain y darlennydd at destun un dudalen lle datgenir o dan y pennawd 'Gwneud y Pethau Bychain Dros y Gymraeg': 'Ry'n ni'n datblygu dulliau newydd i gynyddu defnydd yr iaith. Un o'r dulliau hynny yw ymgyrch newid ymddygiad newydd o'r enw #PethauBychain. (...) Nod yr ymgyrch yw annog pobl ar draws y wlad i rannu awgrymiadau ar sut y gallwn ni gyd wneud newidiadau bach i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg bob dydd.' Cyflwynir wedyn ddeuddeg awgrym cryno – e.e. 'newid yr iaith ar dy ffôn, tabled neu gyfrifiadu'r', 'dewis addysg Gymraeg ar gyfer dy blentyn'. Anogir y cyhoedd i ddangos eu cefnogaeth i'r ymgyrch ar Facebook, Twitter ac Instagram. (LIC, 2014c).

pha mor llwyddiannus fydd y Safon fel modd i sicrhau yr hyrwyddir gwasanaethau Cymraeg yn effeithiol dros Gymru benbaladr. Ond oherwydd yr amrywiaeth o fewn draddodiadau gweinyddiaeth leol ar draws Cymru, gellir tybio y bydd ei gweithrediad yn amrywio o gorff i gorff, ac o ardal i ardal. Mewn cyfnod pan geisir sefydlu Safon Hybu statudol sy'n gwarantu isafswm darpariaeth, amser a ddengys a ystyrir amrywiaethau lleol yn rhinwedd (wrth orfodi hyblygrwydd pragmataidd, fel yr arferid gan y Bwrdd yn ei agwedd at Gynlluniau Iaith) neu'n fgygythiad (am y gallai danseilio'r cysyniad o Safon statudol gyffredin ac unplyg).

Cynhaliwyd etholiadau CCC ym mis Mai 2011, pryd yr enillodd y Blaid Lafur 30 o'r 60 sedd yn y Cynulliad. Yn fuan wedyn, ail-enwodd y Prif Weinidog, Carwyn Jones, Lywodraeth Cynulliad Cymru yn Llywodraeth Cymru. Ar Ddydd Gŵyl Dewi 2012 cyhoeddodd LIC strategaeth newydd ar gyfer yr iaith Gymraeg, *Iaith Fyw: Iaith Byw* (LIC, 2012a), yn olynydd i *Iaith Pawb*. Cyhoeddodd hefyd ddatganiad i'r wasg i nodi'r achlysur:

Wrth iddo lansio Strategaeth newydd pum mlynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg *Iaith Fyw: Iaith Byw*, dywedodd y Gweinidog [Leighton Andrews]: "Mae'r Gymraeg yn nodwedd bwysig a chwbl unigryw i Gymru. Mae hefyd yn perthyn i holl bobl Cymru - siaradwyr Cymraeg a siaradwyr di-Gymraeg fel ei gilydd. Wrth weithredu'r strategaeth hon hoffwn wahodd lleisiau newydd i'n cynorthwyo â'r dasg heriol o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y gymuned." Dywedodd Mr Andrews y bydd angen syniadau newydd a ffres er mwyn sicrhau bod yr iaith yn parhau i ddatblygu ac yn goroesi. Bydd angen i holl bobl Cymru ymfalchïo ynddi yn ogystal (LIC, 2012ch).

Rhoddai'r datganiad hwn yr argraff y byddai'r strategaeth ddiweddaraf yn defnyddio'r un math o ieithwedd gynhwysol ag a amlygwyd yn *Iaith Pawb* o'i blaen, ac i ategu'r argraff hon, nodwyd yn nhestun y strategaeth newydd ei bod yn 'adeiladu ar weledigaeth *Iaith Pawb*' (LIC, 2012a: 2). Mae'r frawddeg olaf yn y datganiad uchod yn dwyn i gof y pwyslais a gafwyd yn y ddogfen flaenorol ar feithrin ymdeimlad o 'berchnogaeth'ymhlith pobl Cymru ar ddyfodol yr iaith. Ymhelaethwyd ar hyn yn Rhagair y Gweinidog i *Iaith Fyw: Iaith Byw*, lle y cafwyd y gosodiad canlynol:

Mae datblygiad a pharhad y Gymraeg yn y dyfodol yn dibynnu ar ymroddiad pobl Cymru, a rhaid i bob un ohonon ni wneud ein rhan. Ni ddylid dibynnu ar y bobl hynny sy'n cael eu cyflogi i ddatblygu neu hybu'r iaith yn unig i'w diogelu (...) O ran yr iaith, rhaid i ni osgoi gormod o fiwrocratiaeth wrth ein gwaith a sicrhau ein bod yn datblygu mentrau sy'n ennyn diddordeb pobl ar lawr gwlad (Ibid: 2).

I ategu'r sylw yn yr ail frawddeg uchod, sef na ddylid dibynnu ar swyddogion a gyflogir ym maes datblygu neu hybu'r iaith yn unig, mynega'r Gweinidog awydd i ehangu'r sylfaen o gyfranwyr at ddatblygu polisi, gan gynnig

Rhaid i ni chwilio am leisiau newydd i ddatblygu polisi iaith yn y dyfodol. Hoffwn i weld cynghrair yr anghonfensiynol yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu a monitro'r strategaeth newydd hon. (Ibid.: 2)

Yn y ddogfen newydd, mynegir 'gweledigaeth' y Llywodraeth am y Gymraeg mewn un frawddeg seml: 'Gweld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru yw ein gweledigaeth' (Ibid:14). Gwelir yn syth fod y datganiad cwta hwn yn wahanol iawn i'r weledigaeth uchelgeisiol a fynegwyd yn *laith Pawb* am greu 'Cymru ddwyieithog, sef gwlad lle y gall pobl ddewis byw eu bywydau naill ai trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg neu'r ddwy iaith a lle mae bodolaeth y ddwy iaith yn fater o falchder a chryfder inni i gyd' (LICC, 2003: 1).

I wireddu gweledigaeth y strategaeth newydd, pennodd y Llywodraeth chwe maes strategol yn sail i'r strategaeth. Y chwe maes, a'r nodau a bennwyd ar eu cyfer oedd:

Maes strategol 1: Y teulu

Nod: annog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd.

Maes strategol 2: Plant a phobl ifanc

Nod: cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith.

Maes strategol 3: Y gymuned

Nod: cryfhau safle'r Gymraeg o fewn y gymuned.

Maes strategol 4: Y gweithle

Nod: cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Maes strategol 5: Gwasanaethau Cymraeg

Nod: cynyddu a gwella gwasanaethau Cymraeg ar gyfer dinasyddion.

Maes strategol 6: Y seilwaith

Nod: cryfhau'r seilwaith ar gyfer yr iaith.

(LIC, 2012a:14)

Nodwyd hefyd mai'r ddwy elfen graidd i bolisi LIC ar y Gymraeg oedd galluogi ac annog plant a phobl eraill i *gaffael* yr iaith, a galluogi ac annog pobl i *ddefnyddio*'r iaith (Ibid. :14). Sylwer mai cynhwysiant cymdeithasol sydd wrth wraidd y ddwy elfen

hyn: cynnwys, drwy brosesau caffael iaith, bobl a fu'n ddi-Gymraeg yn y garfan siaradwyr Cymraeg; a chynnwys pobl na fuont yn ddefnyddwyr y Gymraeg yn y garfan defnyddwyr, drwy brosesau galluogol ac anogol.

Yn gysylltiedig â'r olaf, cyflwynwyd hefyd yn y Rhagair thema go newydd a ddaethai'n fwyfwy amlwg yn y blynyddoedd er pan ddechreuwyd gweithredu CIG yn eang, sef diffyg hyder llawer o bobl Cymru ym mha sgiliau Cymraeg bynnag a feddent.

Rhaid i ni sicrhau hefyd ein bod yn annog pobl i ddefnyddio'r sgiliau iaith sydd ganddynt – ac osgoi cyfrannu at sefyllfa lle mae yna deimlad ymhlith rhai na allant wneud hynny am nad yw eu Cymraeg yn ddigon da (Ibid. :2).

Ymhelaethwyd ar y thema hon yng nghorff y ddogfen yn yr adran 'Edrych yn ôl: effaith gweithgareddau'r gorffennol', lle datgenir

Canfuwyd bod diffyg hyder yn un o'r prif rwystrau a oedd yn atal staff rhag defnyddio eu sgiliau Cymraeg wrth eu gwaith. Ymddengys i hyfforddiant ynglŷn ag ymwybyddiaeth ieithyddol fod yn gyfrwng llwyddiannus i gynyddu agweddau positif tuag at y Gymraeg ymhlith staff (Ibid:12).

Dyma'r datganiad mwyaf penodol mewn strategaeth ar y Gymraeg gan Lywodraeth Cymru i nodi y gall 'ymwybyddiaeth ieithyddol' fod yn ymyriad cynhwysol, ac mae'n ddiddorol y mynegir hynny ar ddau gyfrif yma. Yn gyntaf, yn y cyd-destun penodol uchod, yn union wedi brawddeg sy'n disgrifio diffyg hyder fel rhwystr i staff rhag defnyddio eu sgiliau Cymraeg, cyfeirir ato fel cyfrwng i feithrin agweddau positif. Yn y cyd-destun hwn felly mae'n ddealedig ei fod yn golygu y gall ymwybyddiaeth ieithyddol fod yn fodd i roi hyder i staff ddefnyddio eu Cymraeg. Yn ail, gellir darllen yr ail frawddeg fel datganiad mwy cyffredinol, gan ddehongli bod ymwybyddiaeth ieithyddol yn fodd i 'gynyddu agweddau positif tuag at y Gymraeg ymhlith staff' yn gyffredinol. Gan na chyflwynir ymdriniaeth fanylach na thystiolaeth bellach am hyn yn y ddogfen, gellid tybio bod y datganiad hwn yn seiliedig ar ryw dybiaeth, brin ei thystiolaeth, o du'r Llywodraeth fod ymwybyddiaeth ieithyddol yn effeithio'n bositif ar agweddau ac ymddygiad staff.

Yn *Iaith Fyw: Iaith Byw* nodir yn ogystal fod cryfhau gwasanaethau Cymraeg ym meysydd gofal iechyd a gofal cymdeithasol yn flaenoriaeth gan y Llywodraeth, a datgenir ymrwymiad i gyhoeddi a gweithredu strategaeth i'r perwyl hwnnw (LIC, 2012a: 42-43). Cyhoeddwyd y strategaeth honno yn ddiweddarach yn yr un flwyddyn, sef *Mwy Na Geiriau: Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau*

Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol (LIC, 2012b). Y weledigaeth a fynegir yn y fframwaith yw

...Darparu gwasanaeth fydd yn bodloni anghenion siaradwyr Cymraeg a'u teuluoedd neu eu gofalwyr, drwy sicrhau eu bod yn gallu derbyn gwasanaethau yn eu hiaith eu hunain drwy gydol y broses ofal. Bydd hyn yn sicrhau fod pobl yn gallu cyfleu eu hanghenion yn effeithiol gan dderbyn y gofal gorau posibl. Bydd hefyd o gymorth i wella canlyniadau i ddefnyddwyr ac i'r gwasanaeth iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol (Ibid.:10).

Mae'r ddogfen yn cydnabod mai darpariaeth dameidiog a digynllun, nad yw ar gael ond ar hap a damwain yn aml iawn, oedd llawer o'r ddarpariaeth Gymraeg yn y meysydd hyn ar y pryd. I unioni'r diffygion, pennwyd chwe phrif amcan i sefydliadau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn. Mae'r amcanion yn ymhelaethu ar wahanol agweddau ar yr her a fynegir yn yr amcan cyntaf un, sef 'gweithredu dull systematig tuag at wasanaethau Cymraeg fel rhan annatod o gynllunio a darparu gwasanaethau' (t. 8).

Ceir cyfeiriadau lluosog yn y ddogfen at greu ymagwedd gynhwysol drwy gyflwyno gwasanaeth Cymraeg gofalgarn i siaradwyr Cymraeg. Rhoddir pwyslais ar sawl agwedd megis darparu gwasanaeth sy'n 'canolbwyntio ar eu hanghenion cyfathrebu hwy [siaradwyr Cymraeg] yn hytrach nag anghenion y darparwr' (t. 11); a gwasanaeth sy'n grymuso siaradwyr Cymraeg i fynegi eu hanghenion yn eu hiaith eu hunain (t. 11). Mae'r weledigaeth yn cynnwys gweithio tuag at sefyllfa lle mae defnyddwyr Cymraeg 'yn gallu gweld a chlywed yr iaith Gymraeg, gan deimlo'n gyfforddus gyda'r amgylchedd a'r gwasanaethau a dderbynnir'. Dymunir gweld sefyllfa lle maent yn ymwybodol fod gan y gwasanaeth 'ethos cefnogol, ble defnyddir y Gymraeg fel rhan naturiol o fynegiant; [a lle maent] yn ymwybodol fod y gwasanaeth yn cydnabod fod iaith yn llawer mwy na dull o gyfnewid geiriau a'u bod yn gallu cyfleu'u syniadau a'u hemosiynau yn effeithiol' (t. 11).

Yn arwyddocaol, o'r holl ddogfennau polisi a drafodir yn y bennod yma, dyma'r ddogfen lle y gwelir esblygiad o gysyniad 'dewis iaith'- cysyniad a hyrwyddid gan BYIG ar hyd ei gyfnod gweithredu, ac a amlygid ym mhob CIG. Mae *Mwy Na Geiriau* yn camu ymlaen o'r syniad o *ddewis*, sy'n weithred o du'r *defnyddiwr*, ac - yng nghyd-destun gwasanaethau gofal - dadleua yn hytrach mai cyfrifoldeb y *darparwr* yw 'bodloni anghenion iaith y defnyddiwr' (t. 7). Hynny yw, codir y baich o 'ddewis' gwasanaeth Cymraeg oddi ar ysgwyddau'r defnyddiwr, gan osod ar ysgwyddau'r darparwr gyfrifoldeb am gyflwyno'r 'cynnig rhagweithiol' i ddefnyddio'r Gymraeg.

Rhoddir enghreifftiau yn y testun o ddefnyddwyr bregus, megis dioddefwyr strôc neu ddemtia, babanod a phlant bach uniaith Gymraeg, lle mae defnydd y Gymraeg gan ddarparwyr gofal yn fater o angen, nid dewis. I ddefnyddwyr o'r fath, 'mae angen gwasanaeth Gymraeg arnynt fel rhan greiddiol o'u gofal' (t. 17), a disgrifir y ddarpariaeth Gymraeg i'r grwpiau hyn yn feysydd blaenoriaeth yn y ddogfen.

Amlyga'r drafodaeth yn *Mwy Na Geiriau*, a'r dystiolaeth a gyflwynwyd mewn adroddiad a'i rhagflaenodd am brofiadau defnyddwyr (Davies, 2011), fod y categorïau hyn o ddefnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus yn rhai na dderbyniai wasanaeth cyfartal yn Gymraeg â'r gwasanaeth a ddarperid trwy gyfrwng y Saesneg gan ddarparwyr gofal. Byrdwn y cynigion yn y fframwaith yw hyrwyddo mesurau cynhwysiant a darpariaeth fwy cydradd ac ieithyddol-sensitif o du'r darparwyr. Ymhelaethir ar hynny yn yr adran o'r ddogfen sy'n rhestru ac yn esbonio'r egwyddorion sy'n sail i'r fframwaith hwn, lle y dynodir 'ansawdd gofal', 'parch ac urddas' a 'chydaddoldeb' ymhlith y chwe egwyddor graidd.

Yn dilyn cyhoeddi ystadegau a chanfyddiadau Cyfrifiad Poblogaeth 2011 yn Rhagfyr 2012, rhoddwyd cryn sylw yn y wasg a'r cyfryngau i'r gostyngiad yn nifer a chanran siaradwyr Cymraeg rhwng Cyfrifiadau 2001 a 2011. Yn ôl dehongliad LIC

roedd y gostyngiad hwn yn ganlyniad newidiadau demograffig yn y boblogaeth (gan gynnwys llai o blant, mwy o oedolion hŷn, a cholled carfannau hŷn gyda lefelau uwch o siaradwyr Cymraeg), pobl yn mudo, a newidiadau o ran sgiliau pobl rhwng y ddau Gyfrifiad' (LIC, 2013a).

Mynegodd amryw o sylwedyddion bryder am y sefyllfa. Cynhaliwyd dadl ar yr iaith Gymraeg yn Senedd CCC ar gais Plaid Cymru, a'i darlledu'n fyw (BBC Democratiaeth Fyw, 2013). Cyfeiriodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg at y sefyllfa fel argyfwng, gan roi bai ar Lywodraeth Cymru am fethu â chyflawni ei tharged (a fynegwyd yn *Iaith Pawb*) o gynyddu'r ganran siaradwyr Cymraeg gan 5% erbyn 2011 (Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, 2012). Cyhuddodd y Llywodraeth o fethu â gweithredu'n ddigon cadarn o blaid y Gymraeg drwy gyflwyno mesurau radicalaidd meysydd addysg, cynllunio, tai a'r gweithle a chynhaliodd raliâu mewn pedair tref yn gynnar yn 2013 i dynnu sylw at y sefyllfa.

Ymatebodd LIC i'r sefyllfa drwy gyhoeddi y byddai'n cynnal 'trafodaeth genedlaethol' agored ar ddyfodol y Gymraeg:

Drwy gydol mis Mehefin [2013], bydd cyfle i bobl ledled Cymru gymryd rhan yn y drafodaeth drwy grwpiau cymunedol, fel yn y Fforwm Ieuencid heddiw [ar faes Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd], drwy fforwm ar-lein ar

wefan LIC ac yng nghynhadledd undydd y Gynhadledd Fawr, sydd i'w chynnal yn Aberystwyth ar 4 Gorffennaf (LIC, 2013b).

Datganodd yn ogystal y byddai'r syniadau a gesglid yn dylanwadu ar y broses llunio polisi:

Bydd y safbwyntiau, y farn, y syniadau a'r enghreifftiau o arfer gorau sy'n cael eu rhannu yn y digwyddiadau yn cael eu defnyddio i ddylanwadu ar weledigaeth LIC ynghylch dyfodol yr iaith a datblygu ymhellach y polisiâu a fydd yn sicrhau bod yr iaith yn ffynnu (Ibid.)

Esboniwyd y byddai'r trafodaethau'n canolbwytio ar y chwe maes strategol a bennwyd yn *laith Fyw: laith Byw*, sef y teulu, plant a phobl ifanc, y gymuned, y gweithle, gwasanaethau Cymraeg a'r seilwaith. Bwriedid trafod yn ogystal swyddogaeth LIC, ei Gweinidogion a'i swyddogion a sut y gallent hwythau gyfrannu at gynyddu defnydd y Gymraeg. Byddai'r dystiolaeth a gesglid drwy ddiwyddiadau'r broses hon - *laith Fyw: Y Gynhadledd Fawr* – yn cael ei chrynhai mewn adroddiad a gyflwynid i Gyngor Partneriaeth yr Iaith Gymraeg, a gynghorai Weinidogion ar eu strategaeth ar y Gymraeg. Mewn cyfweiliad, pwysleisiodd y Prif Weinidog natur gynhwysol fwriedig y broses, a'r gobaiith y gellid derbyn tystiolaeth gan siaradwyr Cymraeg nad oeddent yn 'selogion' yr iaith nac yn ymgyrchwyr drosti, ond sydd yn elfen bwysig i ddyfodol yr iaith.

When I saw the census results it struck me that we must listen to everybody's opinions, not just those who campaign for the language, or live, breathe and promote the Welsh language, but also the average man and woman on the street, who speak Welsh every day but aren't political, aren't campaigners but who are all important for the Welsh language. (Wales Online, 2013).

Mynegodd hefyd awydd i ddeall pa ddefnydd a wneir o'r iaith gan siaradwyr Cymraeg o bob lefel o allu, a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar eu dewis i ddefnyddio neu beidio â defnyddio'r Gymraeg yn eu gweithgareddau bob dydd arferol. Yn bennaf oll, meddai, dymunai'r Llywodraeth wybod gan y cyhoedd beth y gellid ei wneud i gynyddu'r cyfleoedd iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd (Ibid.).

Cynhaliwyd y 'drafodaeth genedlaethol' hon, a hysbysebwyd o dan y teitl *laith fyw – dweud eich dweud*, yn ystod Mai a Mehefin 2013 trwy gyfrwng nifer o ddiwyddiadau a gynhaliwyd er mwyn casglu barn y cyhoedd, gan gynnwys:

- 8 o grwpiau trafod lleol ar hyd a lled Cymru
- 13 o grwpiau trafod ymysg grwpiau o blith partneriaid y Llywodraeth
- cyfle i'r cyhoedd a sefydliadau ymateb i holiadur ar-lein a

- chyfluoedd amrywiol i gyfrannu sylwadau trwy nifer o gyfryngau cyfathrebu, hen a newydd (LIC, 2013b: 9-10).

Yn 'y Gynhadledd Fawr' a gynhaliwyd yn Aberystwyth ar Orffennaf 4, 2013, cyflwynwyd crynodeb o'r prif bwyntiau a fynegwyd trwy'r cyfryngau uchod.

Ymatebodd LIC i'r broses ymgynghori uchod, a thrafodion Y Gynhadledd Fawr, ar ffurf datganiad polisi a gyhoeddwyd ym mis Awst y flwyddyn ganlynol, sef *Iaith Fyw, Iaith Byw - Bwrw Mlaen* (LIC, 2014a). Dynododd y ddogfen bedair thema y byddai'n canolbwyntio arnynt dros y tair blynedd nesaf, sef

1. Yr angen i gryfhau'r cysylltiadau rhwng yr economi a'r Gymraeg.
2. Yr angen am gynllunio strategol gwell ar gyfer y Gymraeg.
3. Y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned.
4. Yr her o newid ymddygiad ieithyddol. (Ibid. :5)

Cyflwynir nifer o ymrwymadau i'w gweithredu ym mhob un o'r meysydd hyn. Yn eu plith nodir y bwriadau i

- fuddsoddi hyd at £400,000 mewn prosiectau penodol ym meysydd cymorth i fusnesau, ymchwil, marchnata a llywodraethu
- sefydlu cronfa buddsoddi gwerth £1.25 miliwn a dargedir yn benodol at gefnogi datblygiad canolfannau a/neu ofodau dysgu all hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg neu drochi'r Gymraeg;
- gwella'r modd y dysgir y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg;
- gwella trefniadau dysgu Cymraeg i oedolion;
- creu cronfa ddatblygu i hybu arloesi yn yr ardaloedd Cymreiciaf eu hiaith ac ardaloedd o bwysigrwydd strategol; datblygu swyddogaeth y Mentrau Iaith

Mae'r bedwaredd thema uchod, am newid ymddygiad ieithyddol, yn un arbennig o berthnasol i'r traethawd hwn a rhoddir sylw pellach iddi yn y bennod nesaf.

Diddorol sylwi bod testun y ddogfen yn gorffen gyda neges gynhwysol debyg i'r hyn a gafwyd yn *Iaith Pawb ac Iaith Fyw: Iaith Byw*. Wrth dderbyn ei swyddogaeth arweiniol yn y gwaith o adfywio'r Gymraeg, mae'r Llywodraeth yn gwahodd y gymdeithas sifil i gyfrannu a chynorthwyo:

Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb clir i yrru agenda bolisi eang yn ei blaen, a derbyniwn yr her â brwdfrydedd. Ond ni ddylai unrhyw un sy'n poeni am yr iaith adael y cyfan i'r llywodraeth. Gall pawb sy'n siarad Cymraeg neu sydd ag ewyllys da tuag at yr iaith chwarae rhan yn y gwaith o'i hyrwyddo ymhob agwedd ar fywyd. Rydym yn eich gwahodd i

wneud hynny, ac i gynorthwyo yn y gwaith o lywio dyfodol yr iaith yn y ganrif hon. (Ibid.:24).

Cynhwysiant drwy drefniadau partneriaethol

Gyda'i gilydd mae'r testunau polisi a drafodir yn y bennod hon yn arwyddo perthynas newydd rhwng y wladwriaeth a'r dinesydd Cymreig ar fater y Gymraeg. Mae eu pwyslais ar gynhwysiant yn seiliedig ar weledigaeth ddatganedig o'r gymdeithas sifil yng Nghymru yn gymdeithas lle y caiff dinasyddion eu cynnwys yn gyd-asiantau â'r wladwriaeth yn y prosiect cynllunio ieithyddol i adfywio'r Gymraeg. 'Rhaid i'r gwaith o gynnal yr iaith fod yn gydymdrech ar ran LIC a phobl Cymru', datganodd *laith Pawb* (LICC, 2003).

Mae'r naratif a red drwy'r testunau polisi a ystyriwyd uchod yn darlunio perthynas drionglog rhwng y Llywodraeth, asiantau lleol a chenedlaethol, a phobl Cymru, i gyd yn cydweithredu mewn partneriaeth i hybu'r Gymraeg. Crynhowyd hyn gyntaf ar ei ffurf fwyaf eglur yn *laith Pawb*, ac yn fwyaf diweddar drwy broses ymgynghori *laith Fyw: Dweud eich Dweud* (op. cit.). Yn ôl y naratif hwn, bydd y Llywodraeth o'i rhan hi yn darparu deddfwriaeth, strategaeth, strwythurau ac adnoddau; a bydd sefydliadau lleol a chenedlaethol - yn awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus, y sectorau preifat a gwirfoddol - yn cyflwyno gwasanaethau Cymraeg a gwahanol fathau eraill o ddarpariaeth Gymraeg. O'u rhan hwythau, daw dinasyddion yn gydberchnogion ar yr iaith, a gyflwynir mewn polisi cyhoeddus fel buddiant cymdeithasol sydd i'w rannu, ei ledaenu a'i ddefnyddio er mwyn gwireddu'r weledigaeth o greu 'Cymru ddwyieithog'. Fel cydberchnogion ar yr iaith, bydd dinasyddion hefyd yn gyfranwyr at ei hyfywedd ac yn gyfranogwyr o'r budd a ddeillia o'i hadfywiad. Cyfrannant drwy fabwysiadu ymddygiadau a fydd yn cyfrannu at ei ffyniant, er enghraifft, drwy gaffael yr iaith neu ei harddel mewn gwahanol beuoedd ac agweddau ar eu bywydau, a'i throsglwyddo yn y teulu. A thrwy ddod yn gyfranogwyr a defnyddwyr yr amrediad o ddarpariaeth a gwasanaethau sydd ar gael yn gynyddol yn Gymraeg, bydd dinasyddion yn estyn ei defnydd yn y peuoedd hynny, gan normaleiddio defnydd yr iaith mewn bywyd cyhoeddus.

Disgrifiodd Williams (2004) yr ymagwedd bartneriaethol a fynegid yn *laith Pawb* yn benodol yn amlygiad o ddull llywodraethiant newydd y Llywodraeth ddatganoledig yn ei dymor cyntaf. Daliai mai'r ymagwedd a oedd yn sylfaen i'r dull hwn oedd un a gydnabyddai na ellid gwyrddroi datblygiadau neo-ryddfrydol y 1980au yn llywodraethiant Prydain, ond a geisiai asio iddynt rai elfennau o gydlyniant cymdeithasol a chymunedoliaeth. Yn yr ysbryd hwnnw, rhoddai LICC bwyslais ar bartneriaethau rhwng gweithredwyr canolog a rhai lleol, a rhwng gweithredwyr

cyhoeddus a rhai preifat. Ystyriai Williams y 'doctrine of plenary inclusion' a gyflwynid yn *laith Pawb* yn ymgorfforiad o drefniadau o'r fath, gyda'i bwyslais ar ddefnyddio rhwydwaith o asiantaethau partneriaethol i rymuso cymunedau lleol yn eu hymwneud â'r Gymraeg, a chreu ffurfiau newydd ar wybodaeth mewn cyd-destun dwyieithog (Ibid.: 6-7).

Mae hybu ymagwedd bartneriaethol o'r fath yn rhagdybio y bydd cydddealltwriaeth a chydysyniaeth rhwng y tri phartner yn y triongiant uchod ynghylch pwrpas yr ymyriadau cynllunio ieithyddol a fwriedir drwy bolisi cyhoeddus. Er mwyn i'r bartneriaeth allu gweithredu'n llwyddiannus, mae gofyn i bob un o'r partneriaid ymroi iddi a dysgu cyflawni ar yr un pryd eu rôl yn y prosiect. Ond nid yw lefelau dealltwriaeth na lefelau cydsyniaeth y tri phartner yn gyfartal. I ddau o'r tri phartner, sef y llywodraeth a sefydliadau, diffinnir eu rôl yn y bartneriaeth gan ddeddfwriaeth a thestunau polisi. Meithrinwyd eu dealltwriaeth drwy'r 'discourse within institutions' a ddatblygodd wedi Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (Williams, 2014: 246). A chymhellir eu cydsyniaeth gan y pwysau a ddygir arnynt i gydymffurfio â Chynlluniau Iaith (a chan y drefn reoleiddio Safonau Iaith a fydd yn raddol ddisodli'r Cynlluniau) a chan ofynion polisi. Ond am drydedd ochr y triongiant, unigolion a grwpiau o fewn y gymdeithas sifil, rhaid wrth ffurfiau eraill ar ddatblygu dealltwriaeth a chydysyniaeth am bwrpas ac amcanion cynllunio ieithyddol.

Ceisiwyd cymryd cam i'r cyfeiriad hwn drwy gynnal y broses ymgynghori *laith Fyw: Dweud eich Dweud* a ddisgrifiwyd yn y bennod ddiwethaf, pryd y gelwid am gyfraniad dinasyddion ar ffurf drafodol. Fe gynhaliwyd y broses honno yn ystod Mai, Mehefin a Gorffennaf 2013 (LIC, 2013b) a'i disgrifio fel 'sgwrs genedlaethol' ('a national conversation' mewn testunau Saesneg) ar ddyfodol y Gymraeg. Yn ôl Prif Weinidog Cymru, roedd yr ymgynghoriad yn

open forum inviting people of all ages, background and ability to join in a nation-wide discussion on the language and how its use can be promoted and supported in the future (Wales Online, 2013).

Mae'r datganiad hwn yn fynegiant diweddar o'r 'doctrine of plenary inclusion' (Williams, 2004) sy'n nodweddu polisi cyhoeddus ers *laith Pawb* (op.cit.), ac mae'n gydnabyddiaeth gan y wladwriaeth fod cynnal disgwrs â dinasyddion yn rhan bwysig o'r model cynllunio ieithyddol a weithredir ganddi yng Nghymru.

Nid yw'r arolwg uchod o ieithwedd gynhwysol testunau polisi cyhoeddus parthed adfywio'r Gymraeg yn un cwbl gynhwysfawr, ond mae'n bur gynrychioladol o'r cyfnod dan sylw. Dengys yn eglur fod y rhethreg am gynhwysiant wedi parhau'n ddi-dor dros y cyfnod dan sylw hyd heddiw, ac wedi ei mynegi mewn amryw fodd ac mewn amryw o themâu. Yn eu plith nodwyd thema estyn buddion gwasanaethau

cyhoeddus cyfartal yn Gymraeg i siaradwyr Cymraeg. Nodwyd hefyd thema cyfle cyfartal, a gynhwysai gydraddoldeb ieithyddol gyda'r materion cydraddoldeb eraill cyn ei adleoli wedyn *y tu allan* i'r agenda cydraddoldeb normadol. Ystyriwyd y dadwleidyddoli ar gynllunio ieithyddol; a'r pwys ar gynllunio ieithyddol fel prosiect partneriaethol rhwng y wladwriaeth, sefydliadau a'r gymdeithas sifil. Ers 2003, pwysleisir mai 'iaith pawb' yng Nghymru yw'r Gymraeg, yn gyfalaf cymdeithasol a chyfalaf diwylliannol cyffredin i holl ddinasyddion Cymru yn hytrach nag iaith a berthyn i grwpiau gwleidyddol penodol neu rai sy'n arddel ideoleg cenedlaetholdeb sifig neu ethnig yn unig.

Noder hefyd, yn gefndir arwyddocaol i esblygiad diweddar y polisïau a'r themâu uchod, gyda diddymu BYIG yn 2012 y newidiwyd prif asiant cynllunio ieithyddol y wladwriaeth. Yn ddigamsyniol, y newid mwyaf allweddol yn y blynyddoedd diwethaf yw parodrwydd y Llywodraeth i ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros osod agenda polisi'r iaith Gymraeg. Gyda'r newid hwn, try mater y Gymraeg o fod yn 'ddiddordeb arbennig' i fod yn 'nwydd cyhoeddus', y mae dewis iaith yn gyfrwng i'w gaffael. Golyga hyn fod rhaid i sefydliadau feddu ar y gallu i gynnig y dewis hwn, ac o ganlyniad mae hyfforddiant staff ac ymwybyddiaeth ieithyddol yn rhan allweddol o ddyletswyddau statudol a threfniadau 'cynhwysol' sefydliadau.

I grynhoi felly, dangoswyd sut mae'r rhethreg am gynhwysiant wedi anelu at feithrin cydberchnogaeth dinasyddion ar yr agenda cynllunio ieithyddol a chefnogaeth i'r cynhyrchion polisi a ddeilliai ohono. Ac yn arwyddocaol iawn, cydnebydd testunau polisi na ellir gwireddu 'cynhwysiant' heb gynnwys dinasyddion mewn disgwrs a fydd yn codi lefelau gwybodaeth ac ymwybyddiaeth, a dylanwadu yn y pen draw ar eu hagweddau a'u hymddygiad ieithyddol. Y gobaith a fynegir yw mai o'r broses hon y megir y 'berchnogaeth' angenrheidiol ar y Gymraeg a'i hadfywiad.

Yn y bennod nesaf ystyriwn i ba raddau y mae'r rhethreg am gynhwysiant wedi esgor ar fecanweithiau a allai gynnwys pobl Cymru mewn disgwrs adfywio iaith, a chwestiynir i ba raddau y llwyddwyd i feithrin canfyddiad ymhlith y gynulleidfa darged eu bod wedi eu cynnwys mewn disgwrs o'r fath.

Pennod 5

A gafwyd ‘Plenary inclusion’? Golwg ar i ba raddau mae cynhyrchion polisi yn cyfrannu at gynhwysiant dinasyddion mewn disgwrs adfywio iaith

Cyflwyniad

Yn y bennod ddiwethaf olrheiniwyd yn ddiacronig thema cynhwysiant mewn testunau polisi cyhoeddus diweddar am adfywio'r Gymraeg. Ar ddechrau'r bennod hon diffinnir yn fwy penodol ba garfannau o'r gymdeithas sifil yr anelid ymyriadau cynllunio ieithyddol 'cynhwysol' atynt wedi Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Ystyriwn sut yr ailddiffiniwyd y gynulleidfa honno wedi degawd cyntaf y Bwrdd, gyda chyhoeddi strategaeth gyntaf CCC ar y Gymraeg yn 2003.

Dangoswyd hefyd yn y bennod ddiwethaf mai elfen graidd fwriedig o'r model cynllunio ieithyddol a ddatblygwyd o 2003 ymlaen oedd creu disgwrs cynhwysol, drwy drefniant partneriaethol rhwng y wladwriaeth a'r gymdeithas sifil, am gynllunio ieithyddol i adfywio'r Gymraeg. Archwilir yn y bennod hon i ba raddau yn y cyfnod diweddar y troswyd y rhethreg am gynhwysiant yn elfennau mewn cynhyrchion polisi sy'n cyfrannu at wireddu'r cysyniad o gynhwysiant y gymdeithas sifil mewn disgwrs o'r fath.

Ystyrir y nifer cymharol fach o brif ymyriadau, a rhai eilaidd, sy'n cynnwys elfen ddisgyrsiol gref a anelir yn unswydd at ddylanwadu ar ymddygiad ieithyddol unigolion fel a fwriedir yn ôl testunau polisi cyhoeddus. Cymherir y rhain â rhai prif gynhyrchion polisi sy'n canolbwyntio ar gynyddu darpariaeth Gymraeg a'i hyrwyddo. Trafodir y rhagdybiaeth ddylanwadol, nas mynegir yn eglur mewn testunau polisi, mai trwy gynyddu darpariaeth a'i marchnata y codir lefelau ymwybyddiaeth, 'perchnogaeth' a disgwrs am y Gymraeg.

Adolygir y pwyslais a roddid gan BYIG a LIC ar farchnata, yn hytrach na ffurfiau mwy uniongyrchol ar ddisgwrs, yn brif ddull cyfathrebu â'r dinesydd am yr iaith Gymraeg. Er i BYIG a LIC ill dau adnabod HYIG fel ymyriad eilaidd pwysig i sefydliadolï'r Gymraeg, dangosir sut y bu iddynt fethu ag adnabod ei potensial ehangach y tu hwnt i'r broses sefydliadoli. Gwrthgyferbynnir eu cydnabyddiaeth o HYIG fel cyfraniad gwerthfawr, â'r modd nas adwaenwyd ganddynt yn faes a deilyngai fuddsoddi ynddo nac yn faes i'w ddatblygu'n strategol y tu hwnt i ddibenion mewnol sefydliadau.

Diffinio'r gynulleidfa darged i ymyriadau cynllunio ieithyddol cynhwysol

Yn y bennod ddiwethaf disgrifiwyd triongliant yr ymagwedd bartneriaethol a hyrwyddir ym mholisïau LIC tuag at adfywio'r Gymraeg. Cynigir bod dinasyddion, yn unigolion a grwpiau, yn gyd-asiantau â'r wladwriaeth a'i asiantau lleol a chenedlaethol yn y prosiect cynllunio ieithyddol (Williams, 2004: 6-7). Ni fu llawer o newid yng nghyfansoddiad dwy ochr gyntaf y triongliant hwn ers Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Asiantau'r wladwriaeth yw'r llywodraeth a'r sefydliadau lleol a chenedlaethol y mae deddfwriaeth iaith yn berthnasol iddynt, ac maent yn gyfrwng i gyflwyno ar ran y wladwriaeth yr ymyriadau a gynllunnir gan ei phrif asiantau cynllunio ieithyddol (sef BYIG gynt, a LIC a Chomisiynydd y Gymraeg bellach). Ond mae trydedd ochr y triongliant, sef unigolion a grwpiau o fewn y gymdeithas sifil, yn wahanol am ei bod nid yn unig yn *gyd-asiant* bwriedig â'r wladwriaeth, ond hefyd yn *brif gynulleidfa darged* i'r ymyriadau cynllunio ieithyddol a weithredir. Ystyriaeth arall yw bod y diffiniad o'r gynulleidfa darged honno wedi newid yn ystod y cyfnod a aeth heibio ers Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, a thrafodir hynny isod.

Yn greiddiol i'r testunau polisi a drafodwyd yn y bennod ddiwethaf, gwelir mai'r echel y try'r ymyriadau adfywio arfaethedig arni yw'r dinesydd unigol a'i ddewisiadau ynglŷn â'r Gymraeg. Cydnabuwyd ers dyddiau cynnar BYIG mai prif nod y Bwrdd fel asiant cynllunio ieithyddol oedd newid agweddau a newid ymddygiad ei gynulleidfa darged. A'i brif gynulleidfa darged yn y degawd rhwng sefydlu'r Bwrdd a chyhoeddi *Iaith Pawb*, strategaeth gyntaf LICC (2003) ar y Gymraeg, oedd siaradwyr Cymraeg. Er mai 'y cyhoedd yng Nghymru' oedd y diffiniad o gynulleidfa Cynlluniau Iaith yn nogfen arweiniad y Bwrdd ar baratoi cynlluniau iaith (BYIG, 1996a:7-8), prif waith y Bwrdd yn y cyfnod cychwynol hwnnw oedd sicrhau y deuai amrediad eang o wasanaethau cyhoeddus ar gael yn Gymraeg i siaradwyr Cymraeg. Yn ogystal, ceisiai hyrwyddo'r defnydd o'r gwasanaethau hynny gan siaradwyr Cymraeg. Mewn dogfen ddiweddarach, defnyddir geiriad gwahanol i ddisgrifio'r gynulleidfa darged, sef 'y cyhoedd dwyieithog' (BYIG, 2005b: 27). Serch y newid geiriad, mae'n ddealedig yn y cyd-destun mai'r unig gyfran o'r gynulleidfa sy'n 'gyhoedd dwyieithog' yw siaradwyr Cymraeg, sef yr unig gyfran o'r 'cyhoedd yng Nghymru' a fyddai'n elwa o'r ddarpariaeth Gymraeg. Y gynulleidfa *de facto* felly i waith y Bwrdd yn y cyfnod hyd nes cyhoeddi *Iaith Pawb* oedd siaradwyr Cymraeg, fel y dynodwyd yn strategaeth gyntaf un y Bwrdd:

Er mwyn i'r Gymraeg ddod fwyfwy'n rhan naturiol o fywyd yng Nghymru, mae angen iddi fodoli fel iaith sy'n cael ei defnyddio'n gyson gan bobl yn eu bywyd beunyddiol; mewn gwaith a hamdden, yn ogystal ag wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus, gwirfoddol neu breifat. I sicrhau hynny, rhaid

ceisio dylanwadu'n gadarnhaol ar agweddau ac arferion siaradwyr Cymraeg o ran defnyddio'r iaith (BYIG, 1996b: 4).

Gyda sefydlu CCC ym 1999, datblygodd disgwrs am adfywio'r gymdeithas sifil yn y Gymru ddatganoledig newydd. Yn yr hinsawdd honno y cyhoeddwyd *laith Pawb: Cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwylieithog* (op. cit.) yn ystod tymor cyntaf Llywodraeth gyntaf y Cynulliad. Lle buasai ymdrechion BYIG yn canolbwyntio ar greu darpariaeth Gymraeg ar gyfer siaradwyr Cymraeg, nod *laith Pawb* oedd creu 'Cymru ddwylieithog'. Yn nhestun y ddogfen, ehangwyd y gynulleidfa darged ar gyfer ymyriadau cynllunio ieithyddol i gynnwys holl drigolion Cymru, fel yr awgrymai teitl y ddogfen. At 'bobl Cymru' yn gyffredinol y cyfeirid negeseuon allweddol *laith Pawb*, yn hytrach nag at siaradwyr Cymraeg yn bennaf fel y gwelwyd yn nhestunau cynnar y Bwrdd (gweler er enghraifft BYIG, 1996b). Dan ddylanwad yr ymagwedd 'gynhwysol' a arddelid ym maes polisi cyhoeddus y cyfnod (Chaney a Fevre, 2001; Royles, 2007), cyflwynai *laith Pawb* y 'fledgling doctrine of inclusive bilingualism for all' (Williams, 2004:2). Roedd rhethreg y ddogfen yn dra uchelgeisiol, o gofio bod mwyafrif poblogaeth Cymru yn ddi-Gymraeg. Fel y sylwodd Williams (ibid.:6) wrth drafod y ddogfen flwyddyn wedi ei chyhoeddi,

If *laith Pawb* is serious in its mission, the non-Welsh-speaking portion comprises some 80 per cent of the 'everyone' (*pawb*) who counts in Wales.

Yn dilyn yr arweiniad a'r symbyliad a roddid gan *laith Pawb*, gwelwyd ehangu'r gynulleidfa darged i weithgareddau BYIG yntau er mwyn cynnwys dinasyddion di-Gymraeg yn ogystal â siaradwyr Cymraeg wrth i'r Bwrdd ymgorffori prif amcanion a negeseuon polisi'r Llywodraeth yn ei genadwri ef (BYIG, 2005a: 4,7; 2005b: 5). Enghraifft o'r ehangu hwn yw'r modd y targedwyd y garfan 18 - 35 oed o'r boblogaeth, yn siaradwyr Cymraeg a rhai di-Gymraeg fel ei gilydd, yn y strategaeth farchnata a ddatblygwyd gan y Bwrdd i ymateb i amcanion *laith Pawb*. (Mac Giolla Chríost, 2007:74-76).

Ers 2003 felly, nod polisi cyhoeddus ar y Gymraeg yw newid agweddau a newid ymddygiad tuag at y Gymraeg ar draws y gymdeithas sifil yng Nghymru. Mynegir mewn testunau polisi fod codi lefelau gwybodaeth ac ymwybyddiaeth, a chynnwys y gymdeithas sifil mewn disgwrs ieithyddol yn gwbl greiddiol i wireddu'r nod hwnnw. Y ddau gwestiwn a gyfyd yw, yn gyntaf, pa gynhyrchion polisi a ddatblygwyd yn unswydd i wireddu'r nod hwnnw. Ac yn ail, i ba raddau y llwyddasant i godi lefelau gwybodaeth ac ymwybyddiaeth a chynnwys dinasyddion mewn disgwrs o'r math a fwriedid.

Cynhwysiant dinasyddion yn y disgwrs adfywio iaith: cwestiynau'n codi o'r rhexthreg

Gan fod polisi cyhoeddus yn pwysleisio pwysiced yw 'perchnogaeth' y dinesydd ar y Gymraeg, a phwysiced yw sicrhau ymateb a chyfraniad gwybodus ac ymwybodol ganddo i'r ymyriadau cynllunio ieithyddol i'w hadfywio, rhesymol yw gofyn sut y bwriedid gwireddu hynny. Mae'r detholiad isod o ddyfyniadau polisi enghreifftiol yn rhychwantu'r cyfnod a adolygwyd, ac yn codi nifer o gwestiynau. Gosodir ymholiad pwrpasol ynglŷn â chynnwys pob dyfyniad.

Ni all hyn [sef polisi'r Llywodraeth i greu Cymru ddwyieithog] weithio heb i unigolion, cymunedau a phob rhan o'r gymdeithas gymryd rhan weithredol yn ogystal (LICC, 2002:2).

Os felly, sut y cymhellir aelodau'r gymdeithas sifil i 'gymryd rhan weithredol' mewn creu Cymru ddwyieithog?

Ein deisyfiad - Cymru gwbl ddwyieithog, sef gwlad lle y gall pobl ddewis byw eu bywydau naill ai drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg neu'r ddwy iaith, a lle mae bodolaeth y ddwy iaith yn fater o falchder a chryfder i ni i gyd. (LICC, 2003: 1).

Sut y daw 'bodolaeth y ddwy iaith yn fater o falchder a chryfder i ni i gyd'?

Yn y pen draw os yw'r iaith i oroesi rhaid i unigolion gymryd perchnogaeth ohoni - sy'n golygu cael pobl i gymryd rhan mewn mentrau cymunedol i hyrwyddo'r iaith, rhieni'n trosglwyddo'r iaith i'w plant ac unigolion yn ymroi i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd cymdeithasol ac mewn busnes. Nid oes gennym amheuaeth fod dyfodol cadarnhaol i'r Gymraeg os bydd pobl Cymru yn rhannu ein gweledigaeth (LICC, 2003:53)

Sut y cymhellir i 'unigolion gymryd perchnogaeth' ar yr iaith a mabwysiadu'r ymddygiadau ieithyddol allweddol a nodir yma? Sut y deuant i 'rannu ein gweledigaeth'?

Mae datblygiad a pharhad y Gymraeg yn y dyfodol yn dibynnu ar ymroddiad pobl Cymru, a rhaid i bob un ohonon ni wneud ein rhan. (LIC, 2012a:2).

Sut y gellir ennyn 'ymroddiad pobl Cymru' fel bod modd i 'bob un ohonon ni wneud ein rhan'?

Gall pawb sy'n siarad Cymraeg neu sydd ag ewyllys da tuag at yr iaith chwarae rhan yn y gwaith o'i hyrwyddo ymhob agwedd ar fywyd. Rydym yn eich gwahodd i wneud hynny, ac i gynorthwyo yn y gwaith o lywio dyfodol yr iaith yn y ganrif hon. (LIC, 2014a: 24).

Sut y cymhellir pobl i 'chwarae rhan yn y gwaith o'i hyrwyddo ymhob agwedd ar fywyd', ac i 'gynorthwyo yn y gwaith o lywio dyfodol yr iaith'?

Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ymdrechu i greu'r amodau cywir i'r iaith Gymraeg dyfu a ffynnu ym mhob agwedd ar fywyd Cymru, ond yn y pen draw dewis yr unigolyn, a'r gymdeithas yn gyffredinol, yw a fydd y defnydd o'r Gymraeg yn ehangu a pharhau (LICC, 2002: 4-5).

Sut y gellir dylanwadu ar 'ddewis yr unigolyn' i sicrhau y bydd 'y defnydd o'r Gymraeg yn ehangu a pharhau'? Ac i ba raddau y mae o fewn cyrraedd y Llywodraeth i ' greu'r amodau cywir'? Dichon fod rhai amodau allweddol sydd y tu hwnt i gyrraedd polisi uniongyrchol y Llywodraeth. Er enghraifft, gall agweddau ieithyddol ac ymddygiad ieithyddol unigolion ar draws 'y cyhoedd Cymraeg' heterogenus fod yn dra hynod a mympwyol. Er y cyfeiriadau blaenorol gwasgarog at newid agweddau a newid ymddygiad ieithyddol yn y testunau polisi a archwiliwyd, mae'n arwyddocaol efallai mai'r tro cyntaf i'r pwnc dyrys hwn hawlio pennawd mewn testun o'r fath oedd yn Awst 2014 (LIC, 2014a). Dyma'r cyfeiriad blaenllaw cyntaf at faes cymhleth 'newid ymddygiad ieithyddol', a'r drafodaeth unswydd gyntaf arno, a hynny o fewn ychydig baragraffau cwta lle cynigir y cysyniad diddorol o ddefnyddio 'technegau marchnata cymdeithasol' i ddechrau ar broses newid ymddygiad ieithyddol (Ibid.:21).

Gan fod y datganiadau a fynegir yn y dyfyniadau uchod mor sylfaenol bwysig i'r model cynllunio ieithyddol a weithredir yng Nghymru, priodol yw holi a gafwyd cynhyrchion polisi pwrpasol i godi lefelau ymwybyddiaeth, creu disgwrs a chreu drwy hynny 'amodau ffafriol'i gychwyn ar broses gymhleth dylanwadu ar agweddau ac ymddygiad.

Mewn astudiaeth o'r math hwn ni ellir craffu ar yr holl fathau o ymyriadau cynllunio ieithyddol o bwys a ddeilliodd o bolisi cyhoeddus ar y Gymraeg ac a geisiai ddylanwadu yn y modd uchod yn ystod y cyfnod dan sylw. Gan hynny, ceisir adnabod yma rai tueddiadau arwyddocaol yn unig mewn rhai o'r prif ymyriadau cyfredol a diweddar.

Cynhyrchion polisi sy'n cynnwys elfen ddisgyrsiol sylweddol am arferion personol unigolion parthed y Gymraeg

O fwrw trosolwg ar gynhyrchion polisi'r cyfnod ymddengys mai prin yw'r rhai a gynlluniwyd yn unswydd i ddylanwadu'n uniongyrchol ar ymwybyddiaeth ieithyddol dinasyddion a'u dewisiadau ieithyddol drwy ymyriadau *disgyrsiol*.⁴⁴ Diau mai'r ymyriad pwysicaf o'r math hwn yw prosiect arloesol TWF. Mae a wnelo TWF â'r gyntaf o 'ddwy elfen graidd' yn strategaeth gyfredol LIC ar y Gymraeg. Y ddwy elfen graidd yw

Yn gyntaf... mesurau i alluogi ac annog plant a phobl eraill i *gaffael* yr iaith, fel annog trosglwyddo'r iaith yn y cartref a sicrhau twf pellach mewn addysg cyfrwng Gymraeg. Yn ail...mesurau i alluogi ac annog pobl i *ddefnyddio'r iaith* yn feunyddiol (...) (LIC, 2012a:14. Italeiddio yn y fersiwn gwreiddiol).

Lleolir prosiect TWF ar yr ystod o fesurau a noddir gan LIC i annog caffael yr iaith. Sefydlwyd y prosiect yn 2002 gyda chyllid gan BYIG, yn dilyn gwaith arloesol a wnaed yn gynharach gan Fenter Cwm Gwendraeth a phartneriaid lleol (Campbell, 2000: 268-270). Rheolir TWF ers y dechrau gan *laith*. Caffael yr iaith drwy ei throsglwyddo yn y teulu yw maes gweithredu'r prosiect, gan gyfrannu at un o'r 'blaenoriaethau allweddol' yn rhaglen cynllunio ieithyddol LIC, sef cynyddu defnydd y Gymraeg o fewn teuluoedd (Ibid.:25). Mae strategaeth *laith Fyw: laith Byw* yn esbonio pwysigrwydd y bau allweddol hon i hyfywedd y Gymraeg:

Nid yw'r Gymraeg yn debygol o ffynnu fel iaith gymunedol a chymdeithasol os yw'n dibynnu ar y system addysg yn unig fel ffordd o alluogi siaradwyr newydd i ddysgu'r iaith. Mae angen iddi fod yn iaith y cartref i gynifer o blant â phosibl [sic], ac yn ddiamau mae caffael yr iaith yn y modd hwn yn ffordd naturiol ac effeithiol o ddatblygu'n siaradwr Cymraeg rhugl (Ibid.: 25).

Mae hyn yn adlewyrchu'r consensws a geir ymhlith cymdeithasegwyr iaith am bwysigrwydd trosglwyddo iaith yn y cartref fel y ffactor mwyaf allweddol i sicrhau yr atgynhyrchir hi'n llwyddiannus mewn cymdeithas.⁴⁵

⁴⁴ Gweler y nodyn yn y Rhagair am yr hyn a olygir wrth 'ddisgwrs' yng nghyd-destun cyfyngedig rhethreg polisi ar y Gymraeg.

⁴⁵ Y mae cryn gonsensws yn y llenyddiaeth ar ieithoedd sydd mewn perygl (endangered languages) mai trosglwyddo iaith yn y cartref yw'r ffactor mwyaf allweddol i sicrhau ei pharhad fel mamiaith. Ymdriniodd Fishman (1991; 2001 (gol.)) â swyddogaeth ganolog y ffactor hwn yn y triawd o ffactorau a ddynodwyd ganddo yn 'crucial nexus of intergenerational mother tongue transmission', sef trosglwyddiad iaith yn y cartref, a gynhelir ac a ategir y tu allan i'r

Nod penodol TWF yw cynyddu trosglwyddiad y Gymraeg o fewn y teulu drwy godi ymwybyddiaeth ymhlith darpar rieni a rhieni/gofalwyr i blant newydd-anedig, ac ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol, am fanteision magu plant yn ddwyieithog, a darparu cyngor, gwybodaeth a gweithgareddau cefnogol i'r diben hwnnw (TWF, d.d.). Yn wreiddiol, y brif gynulleidfa darged i negeseuon TWF oedd teuluoedd lle mae rhiant/gofalwr Cymraeg wedi allbriodi neu allbaru, oherwydd bod lefelau trosglwyddiad a rhugledd plant yn sylweddol is mewn teuluoedd o'r fath na'r lefelau cyfatebol a chanfyddid mewn teuluoedd lle mae'r ddau riant yn siarad Cymraeg (Gathercole *et al.*, 2006; Baker, 1998). Bellach mae'r prosiect yn anelu at ddylanwadu ar batrymau defnydd iaith rhieni â'u babanod yn gyffredinol, er mwyn cynyddu nifer y plant sy'n caffael y Gymraeg ar yr aelwyd gartref a datblygu'n siaradwyr dwyieithog.

Mae gan TWF rwydwaith o 20 o swyddogion prosiect ar hyd a lled Cymru, yn annog a chynorthwyo darpar rieni a rhieni/gofalwyr i siarad Cymraeg â'u babanod. Mae'r prosiect yn cyfleu negeseuon syml am y manteision cymdeithasol, diwylliannol ac addysgol sydd ynglŷn â dwyieithrwydd mewn plant. Mae'r wybodaeth a'r cynghorion syml a gyflwynant wedi'u gwreiddio mewn canfyddiadau ymchwil empirig o ddisgyblaethau megis addysgeg caffael iaith, seicoieithyddiaeth a chymdeithaseg iaith. Elfen bwysig o'r prosiect yw ei fod yn cydweithio â bydwagedd ac ymwelwyr iechyd er mwyn iddynt hwythau gyfleu ei negeseuon i'r gynulleidfa targed. Llwyddodd i gyflwyno dilyniant o negeseuon o'r fath yn y wybodaeth safonol a gyflëir mewn testunau i ddarpar rieni a rhieni plant 0-12 mis oed.

Mae elfen ryngweithiol gref i waith y swyddogion prosiect. Yn ôl y Cydlynnydd cenedlaethol, mewn adroddiad am weithgareddau'r prosiect yn 2013-14,

cartref gan ddefnydd yn y gymdogaeth ac yn y gymuned ('home –family, neighbourhood, community') (Fishman, 2001:467). Cynghorodd rhag arddel modelau cynllunio ieithyddol na roddai bwys mawr ar yr agwedd hon : 'The road to societal death is paved by language activity that is not focused on intergenerational continuity, i.e. that is diverted into efforts that do not involve and influence the socialization behaviours of families of child-bearing age' (Fishman, 1991: 43) Yn ei ddwy gyfrol uchod defnyddir graddfa 8 gradd a luniwyd ganddo– ei 'Graded Intergenerational Disruption Scale (GIDS) –fel arf i fesur cryfder neu wendid nifer o wahanol ieithoedd o sawl cyfandir . Mae'r raddfa yn ymgais i adnabod y ffactorau sy'n disodli iaith. Disgrifir gradd 6, defnydd iaith yn y peuoedd sy'n cynnwys 'home–family, neighbourhood, community', fel 'fulcrum' yr ymdrechion i ddiogelu ieithoedd dan fygythiad. (Ibid.:467). Yn fwy diweddar mae UNESCO wedi nodi 5 lefel o 'ieithoedd mewn perygl' (language endangerment), gan osod yr ieithoedd hynny nas trosglwyddir bellach i blant fel mamiaith yn y cartref yn y categori 'definitely endangered' (Moseley (gol.), 2010). Am ymdriniaethau eraill â dulliau mesur a disgrifio hyfywedd ieithoedd sydd mewn perygl, gweler Giles, Bourhis a Taylor (1977); Austin a Sallabank (2011); Ehala (2009); Grenoble a Whaley (goln.), (1998). Am arolwg cryno defnyddiol o arfau asesu ieithoedd sydd mewn perygl, a dulliau adfywio, gweler Dwyer (2011). Gweler Thomas (2010) am ymdriniaeth â defnydd y model GIDS yng nghyd-destun addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg yng Nghymru.

O ran y gwaith pob dydd llwyddodd y Swyddogion Maes i gynnal tros 11,000 o sgysiau un-wrth-un â rhieni mewn clinigau cyn-geini ac ôl-eni er mwyn trosglwyddo neges y Cynllun. Ynghyd â hyn, rhoddir pwyslais ar gefnogi rhieni i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg gyda'u plant. Gwneir hyn drwy gynnal sesiynau cefnogi dan faner 'Amser Twf' a'r llynedd llwyddwyd i ddenu dros 4,500 o fynychwyr i'r sesiynau hynny (Ellis, 2014).

At hyn, cyflwynant sgysiau a chyflwyniadau i grwpiau rhieni lleol, grwpiau meithrin a grwpiau blynyddoedd cynnar. Mae Twf hefyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda phartneriaid blynyddoedd cynnar i gynnal diwrnodau hwyl i'r teulu ac i hyrwyddo cyrsiau 'Cymraeg o'r Crud' i rieni (Twf, d.d.). Yn ogystal mae'r swyddogion yn mynychu digwyddiadau lleol mewn canolfannau cymunedol, gwyliau lleol a sioeau lleol a chenedlaethol, a sesiynau mewn llyfrgelloedd a grwpiau chwarae. Mae'r prosiect yn darparu cyngor, cymorth a chefnogaeth i geisio cynyddu hyder rhieni/gofalwyr a'r teulu estynedig i ddefnyddio'r Gymraeg â'u plant ac o fewn y gymuned. Yn ôl canfyddiadau un astudiaeth ymchwil am y prosiect,

Analysis of interviews with the main stakeholders in the project (managers, the Twf project officers, parents, health workers and a range of other partners), publicity materials and observations of project staff at work suggests that the achievements of the project lie in two main areas: the recognition of the need for building strong alliances with professional groups and organisations that work with families with young children; and the development of a marketing strategy appropriate for the target audience (Edwards a Newcombe, 2005: 1).

Mae TWF yn brosiect go sylweddol. Gellir mesur maint buddsoddiad y Llywodraeth ynddo drwy gymharu ei grant cyllido â'r grant a delid i brif ddarparwr gofal ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn y sector gwirfoddol, Mudiad Meithrin. Ar gyfer y flwyddyn 2013-14 dyfarnwyd grant o £1,510,601 i Fudiad Meithrin a £545,416 i TWF. Mae tua 200 o staff cyflogedig gan Fudiad Meithrin yn genedlaethol a thros 1,500 o staff yn gweithio yn y cylchoedd meithrin. Mae TWF yn cyflogi Cydlynnydd Cenedlaethol (0.8 o swydd amser llawn); 20 swyddog maes rhan amser ar hyd a lled Cymru (yn cyfateb i 9.5 swydd amser llawn) ynghyd â chyfwerth â 3.5 swyddog yn darparu cefnogaeth reolaethol a gweinyddol.

O'r holl gynhyrchion polisi ar y Gymraeg, gellid dadlau mai prosiect TWF yw'r ymyriad mwyaf pwrpasol i godi ymwybyddiaeth am y Gymraeg a dylanwadu'n uniongyrchol ar ymddygiad ieithyddol grŵp penodol o ddinasyddion. A'r prosiect hwn hefyd yw'r un mwyaf rhyngweithiol a *disgyrsiol*, gyda gweithwyr prosiect yn agor disgwrs am y Gymraeg gyda'u cynulleidfa darged, ac yn cymell ymateb ganddi i'r

ymyriad cynllunio ieithyddol a ddarperir ar ei chyfer. Mae'r trefniadau cydweithio â sector gofal iechyd wedi creu fframwaith partneriaethol a gweithdrefnau i annog a chefnogi ymddygiadau ieithyddol newydd o fewn teuluoedd.

Ar sawl ystyr, mae TWF wedi agor disgwrs am y Gymraeg mewn peuoedd allweddol bwysig lle bu argaeledd gwybodaeth ddibynadwy, lefelau ymwybyddiaeth a disgwrs am y Gymraeg gynt yn brin (Irvine, Roberts et al., 2008).

Nid oes yr un prosiect arall mor sylweddol â TWF sydd â'r un cyfeiriadedd disgyrsiol a rhyngpersonol. Er hynny, ceir prosiectau eilaidd sy'n dilyn trywydd tebyg o ran ceisio dylanwadu'n unswydd ar batrymau defnydd iaith grwpiau penodol o ddinasyddion. Dau brosiect o'r fath yw Tyfu Gyda'r Gymraeg a Ma' Dy Gymraeg Di'n Grêt. Esblygodd y ddau brosiect hyn yn wreiddiol yn brosiectau eilaidd a ddatblygwyd nid gan y Llywodraeth ond o brofiad ymarferwyr yn y maes. Deilliant o brofiad gweithredu TWF, a bellach fe noddur y ddau brosiect yn uniongyrchol trwy grantiau gan y Llywodraeth, yn unol â'r ymrwymiad yn *laith Fyw: laith Byw* i 'adeiladu ar waith TWF a phrosiectau cysylltiedig' (LIC, 2012a: 27).

Cynllun peilot a weithredir dros gyfnod o 2 flynedd yw Tyfu Gyda'r Gymraeg. Daeth yn weithredol yn ystod y flwyddyn 2013-14, gyda chyllideb o £11,9365 y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru. Pwrpas y prosiect yw cefnogi teuluoedd gyda phlant dan 7 oed i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg wrth siarad â'u plant (laith, d.d.). Dengys ymchwil (e.e. Jones a Morris, 2005) fod profiadau addysgol plant ifanc yn y Gymraeg yn elwa'n sylweddol o gael awyrgylch Cymraeg neu ddwyieithog yn y cartref. Esblygodd Tyfu Gyda'r Gymraeg o ymchwil pellach a adwaenai ansicrwydd a diffyg hyder ymhlith rhieni am eu sgiliau iaith Gymraeg eu hunain, ynghyd â diffyg strwythurau cefnogol ac ymgynghorol, yn ffactor a'u gwnâi'n llai parod i siarad Cymraeg â'u plant (Jones a Davies, 2010). Adnabuwyd trwy brofiad a thystiolaeth gweithwyr TWF fod angen estyn darpariaeth gefnogol debyg i'r hyn a gynigir drwy'r cynllun hwnnw er mwyn rhoi hyder, cefnogaeth a sgiliau sylfaenol i rieni wrth iddynt ymgymryd â'r arferiad o siarad Cymraeg â'u plant. Mae sylwadau a fynegwyd mewn astudiaeth o gynllun TWF yn 2008 yr un mor berthnasol i ddisgrifio angen a adnabuwyd ymhlith rieni plant yn yr oedran blynyddoedd cynnar. Nodant yr angen am

...Programmes concentrating on improving parents' skills and confidence to use Welsh so that parents feel they have the necessary language and interpersonal skills to control language transfer with their children. (Irvine, Roberts et al., 2008: 68).

Yn neunyddiau marchnata Tyfu Gyda'r Gymraeg, hyrwyddir y prosiect fel math o estyniad i ddarpariaeth TWF drwy ddefnyddio dyluniad cyffelyb. Dengys Ffigwr 5.1 isod arwyddluniau'r ddau brosiect, er cymhariaeth.

Bydd y prosiect yn weithredol yn ystod ei gyfnod peilot mewn tair ardal yn Neddwyrain Cymru, sef Caerffili, Pen-y-bont-ar-Ogwr a Rhondda Cynon Taf. Penodwyd dau swyddog maes sydd, ar adeg ysgrifennu'r traethawd hwn, eisoes wedi dechrau ar eu gwaith ac maent wrthi'n cysylltu â phartneriaid a theuluoedd lleol yn ystod tymor yr hydref 2014. Yn ystod ei flwyddyn gyntaf, sefydlodd Tyfu Gyda'r Gymraeg (a farchnetir bellach dan yr enw Tyfu) bartneriaethau â Mudiad Meithrin, y Mentrau Iaith Lleol, Canolfannau Cymraeg i Oedolion yn ogystal â grwpiau a mudiadau eraill sy'n cyfrannu at hybu'r Gymraeg ym maes blynyddoedd cynnar plant.

Elfen amlycaf y gwaith prosiect yn ystod ei flwyddyn gyntaf oedd cynnal sesiynau Amser Tyfu i rieni plant o dan dair oed:

Dyma gyfle i ddarllen stori a chanu a chael y cyfle i wneud ychydig o waith celf a chreffft gyda'r plant. Bwriad y sesiynau yw cyflwyno cyfle i'r rhieni glywed Cymraeg ac i'w arfogi gyda sgiliau Cymraeg i'w defnyddio yn y cartref (Tomos, 2014).

Yn ogystal, bu'r swyddogion yn cydweithio ag ysgolion cynradd i gynnal sesiynau i rieni plant 4-7 oed, i'w cynorthwyo i gefnogi dwyieithrwydd eu plant, ac i rannu gwybodaeth am adnoddau defnyddiol. Cynhaliwyd yn ogystal, ar y cyd â phartneriaid, sesiynau hwyl mewn llyfrgelloedd gyda gweithgareddau amrywiol trwy gyfrwng y Gymraeg yn cynnwys darllen, dawnsio, chwaraeon, celf a chreffft, ac ymweliadau gan gymeriadau enwog. Ymwelodd y swyddogion â phob un o Gylchoedd Ti a Fi eu hardal weithredu, i drafod manteision dwyieithrwydd â rhieni.

Datblygwyd y prosiect 'Ma'dy Gymrâg di'n Grêt' yn wreiddiol gan staff TWF yn ardal Sir Gaerfyrddin yn 2005/06, a staff lleol TWF yn bennaf sy'n gweithredu'r prosiect. De-orllewin Cymru yw dalgyloch gweithredu'r prosiect o hyd.

Prif gynulleidfa darged y prosiect yw mamau ifainc â phlant dan 5 oed, sef mamau sy'n gallu siarad Cymraeg, ond sydd efallai wedi colli hyder neu'r arfer o wneud hynny (Iaith, d.d.(i)).⁴⁶ Nod y prosiect yw eu hannog a'u cefnogi i ailafael yn yr arferiad o siarad Cymraeg, yn enwedig gyda'u plant ond hefyd mewn sefyllfaoedd cymdeithasol, boed hynny yn y cartref, yn y gweithle, neu gyda ffrindiau. Gwneir hynny trwy gyfrwng cyfres o sesiynau 'sgwrsio a gwneud' a gynhelir mewn

⁴⁶ Mae Stevens (2009) yn disgrifio cefndir y prosiect a'i phrofiad hi o weithredu fel gweithiwr maes gyda'r grŵp targed penodol hwn.

canolfannau lleol er mwyn i rieni allu ymarfer defnyddio'r Gymraeg mewn awyrgylch cyfeillgar ac anffurfiol. Mae'r sesiynau'n cyfuno cyflwyniadau â gweithgareddau hwyliog megis trefnu blodau; paentio gwydr; creu cardiau cyfarch; canu; a thylino â llaw. Mae un o'r sesiynau'n cynnwys cyflwyniad HYIG sy'n anelu'n bennaf at esbonio o ble y deillia diffyg hyder unigolion a sut mae hyn wedi effeithio ar eu harferion defnydd iaith. Bwriedir i'r elfen o HYIG roi cyfle i'r unigolion drafod eu profiadau yng nghyswllt y Gymraeg a chymharu'r rheiny â phrofiadau pobl eraill, gan wneud hynny mewn awyrgylch 'diogel'. Y nod yw grymuso ac arfogi aelodau'r grŵp drwy ddyfnhau eu dealltwriaeth am eu hagweddau a'u harferion yng nghyswllt y Gymraeg.

Ers ei sefydlu, ariennir y prosiect drwy grant blynyddol gan Lywodraeth Cymru. Cyfanswm y grant cyllido am 2014-15 yw £41,130 ond ar adeg ysgrifennu'r testun hwn nid oes bwriad gan y Llywodraeth i barhau i ariannu'r prosiect y tu hwnt i 2014 -15. Yn 2014-15, bydd 7 o swyddogion TWF ac 1 swyddog arall yn cyflwyno 9 sesiwn. Yn 2013-14, cynhaliwyd 9 sesiwn mewn 9 ardal yn Ne-orllewin Cymru. Denwyd 71 o unigolion i'r sesiynau, a chafwyd presenoldeb cyfartalog o 6 pherson y sesiwn. Roedd y mynychwyr i gyd yn siaradwyr Cymraeg a fynegasai awydd i gynyddu eu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn eu teuluoedd ac yn gymdeithasol. O'r 71 a fu'n bresennol mewn sesiynau yn 2013-14, cwblhaodd 51 holiadur gwerthuso a holai am eu canfyddiad ynghylch unrhyw newidiadau yn eu defnydd iaith o ganlyniad i'r sesiynau. Roedd 47 o'r 51 wedi cofnodi eu bod yn siarad 'mwy' neu 'lawer mwy' o Gymraeg gyda'u plant; roedd 42 yn defnyddio 'mwy' neu 'lawer mwy' o Gymraeg gyda'u ffrindiau. Roedd 98% o'r atebwyr yn 'fwy hapus', a 65% yn 'llawer mwy hapus' yn siarad Cymraeg (Tomos, 2014: 12).

Mae Twf, Tyfu Gyda'r Gymraeg a Ma' Dy Gymraeg di'n Grêt yn gyfres o brosiectau sy'n darparu tair dolen mewn continwmm newydd o ddarpariaeth anogol a chefnogol i deuluoedd, yn ymestyn o'r cyfnod cyn-geni ar hyd cyfnod blynyddoedd cynnar eu plant. Mae sawl cryfder i'r ymyriadau hyn:

- Oherwydd eu bod yn gynlluniau a weithredir yn unswydd i ddarparu cymorth a chefnogaeth a chodi hyder eu cynulleidfa, mae cryn debygolrwydd y bydd eu cynulleidfa'n ymagweddu'n bositif tuag atynt.
- Yn arwyddocaol iawn, maent yn cynnwys cyswllt disgysiol wyneb yn wyneb, un i un, rhwng yr asiantau ieithyddol a'u cynulleidfa. Yn achos TWF a Thyfu Gyda'r Gymraeg, mae'r prosiectau hyn hefyd yn darparu cyswllt a strwythurau cefnogol a bair dros gyfnod tra bydd eu cynulleidfa yn ymgyfarwyddo â'r arferion ieithyddol sy'n newydd iddynt.

Ffigwr 5.1 Dyluniad arwyddluniau TWF a TYFU



- Yn y tri phrosiect, mae darparu gwybodaeth, arweiniad a chymorth yn fodd i roi hyder i alluogi neu hwyluso'r ffordd i'w cynulleidfa darged fabwysiadu arferion ieithyddol sy'n cynyddu eu defnydd o'r Gymraeg.
- Mae Tyfu gyda'r Gymraeg a Ma' Dy Gymraeg di'n Grêt yn cefnogi mathau o weithredu ieithyddol a fwriedir eisoes gan rieni, neu a ystyrir eisoes mewn modd ffafriol ganddynt, ond y mae arnynt angen hwb, arweiniad a gwybodaeth i roi hyder i'w cyflawni, a'u cyfreithloni.

Mae'n bwysig nodi yn y cyswllt hwn fod rhai o'r un cryfderau uchod yn nodweddu HYIG, fel a drafodir maes o law yn bennod hon.

Oherwydd y nodweddion a ddisgrifiwyd, gellir ystyried bod y cynhyrchion polisi hyn yn rhai sy'n fodd i roi mynediad i ddinasyddion i'r disgwrs adfywio iaith a chymell eu perchnogaeth ar y broses adfywio iaith o'r gwahanol bersbectifau a nodir. Fel y nodwyd eisoes, mae prinder ymyriadau disgyrsiol sylweddol a bwriadus o'r fath ymhlith cynhyrchion polisi'r Llywodraeth.

Yn ychwanegol at y cynlluniau disgyrsiol uchod sy'n deillio'n uniongyrchol o bolisi cyhoeddus, ceir nifer o 'isgynhyrchion' polisi, sef ymyriadau eilaidd a drefnir

gan sefydliadau i gyflawni rhyw agwedd ar eu gweithrediad nhw o bolisi cyhoeddus. Ni ellir crybwyll ond detholiad o'r rhain. Diau mai'r prif fath yn y categori hwn yw HYIG, fel y'i diffinnir ym Mhennod 2, a drefnir i staff o fewn y gweithlu cyhoeddus. Yn ôl Adroddiad Blynyddol y prif ddarparwr allanol, *laith*, ymhlith y cyrff cyhoeddus a'i trefnodd i'w staff yn 2013-14, cynhwysir Comisiynydd y Gymraeg, Y Comisiynydd Plant, Cyngor Gofal Cymru, Opera Cenedlaethol Cymru, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Dinas Caerdydd a Chyngor Rhondda Cynon Tâf (*laith*, 2014: 8).

Cynllun arall a anelai'n uniongyrchol at ddylanwadu ar ddefnydd iaith unigolion oedd 'Cwrs Codi Hyder Rheolwyr Cymraeg' a gynhaliwyd yn 2012 a 2013 gan Hunaniaeth, sy'n olynydd Menter Iaith Gwynedd, ac sydd bellach yn bartneriaeth o gyrff sector cyhoeddus yng Ngwynedd. Targedai'r cwrs hwnnw siaradwyr Cymraeg a ddaliai swyddi rheoli o fewn amryw o sefydliadau cyhoeddus ar draws gogledd Gwynedd. Er bod cyrff cyhoeddus y dalgylch hwnnw yn cynnwys nifer helaeth o siaradwyr Cymraeg ymhlith eu rheolwyr, roedd aelodau Hunaniaith yn ymwybodol bod llawer ohonynt ond heb arfer defnyddio'r Gymraeg wrth eu gwaith. Diben y cwrs oedd codi eu hyder a'u hyfedredd i ddechrau defnyddio mwy o'r Gymraeg yn y gweithle (*laith*, d.d.(ii)).

Roedd y cwrs yn cynnwys sesiwn gyd-destunol ar ffurf HYFIG, a sesiynau 'arfogi' ar ffurf cyflwyniad i gymhorthion technoleg gwybodaeth a sesiynau gloywi iaith. Rhan greiddiol o'r cwrs oedd rhoi profiad o gyflawni gorchwylion rheoli yn Gymraeg ac i'r diben hwn gofynnid iddynt baratoi a thraddodi cyflwyniad PowerPoint yn Gymraeg; ymarferion siarad cyhoeddus, siarad â'r wasg, defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweiliadau recriwtio ac mewn cyfarfodydd pwyllgorau; a thrafod â staff yn Gymraeg mewn cyfarfodydd gwerthuso i ddarparu cwrs meithrin hyder i reolwyr yng nghyrrff cyhoeddus y sir. Yn wahanol i TWF, Tyfu Gyda'r Gymraeg a Ma' Dy Gymraeg Di'n Grêt, roedd y cwrs hwn, ynghyd ag amryw o'r cyrsiau HYIG a grybwyllir uchod yn cynnwys rhai agweddau *beirniadol* ar gyd-destun adfywio'r Gymraeg .

Hefyd yn teilyngu sylw yn y drafodaeth yma yw cynllun y ceisiodd BYIG gyllid i'w hyrwyddo tua diwedd ei gyfnod gweithredu. Cynllun ydoedd i osod gweithiwr ieuencid ym mhob ysgol uwchradd, sef gweithiwr a hyfforddid yn unswydd i godi ymwybyddiaeth ac ysgogi disgwrs anffurfiol a phositif am werth y Gymraeg ymhlith y disgyblion. Bwriedid i'r rhan honno o frîff y gweithiwr fod yn anamlwg mewn ystod o orchwylion eraill cysylltiedig ag agweddau arferol ar waith ieuencid, felly ni fyddai'n genadwri amlwg ym mywyd yr ysgol. Cafwyd arbrawf llwyddiannus yn Ysgol Rhydywaun, Cwm Cynon, yn ardal Rhondda Cynon-Tâf, ac mewn nifer o ysgolion

eraill (Jones, 2014). Cyfeiriwyd at hyn yn fersiwn drafft ymgynghorol *laith Fyw: laith Byw*, gan nodi llwyddiant yr arbrawf, a chan gyflwyno ymrwymiad drafft i'w ledaenu:

Bydd y Llywodraeth yn ceisio sicrhau, drwy waith gweithwyr ieuencid a gyflogir gan bartneriaid grant ac awdurdodau lleol, *fod y cynllun ymwybyddiaeth iaith hwn yn cael ei ehangu a'i gynnig ledled Cymru*. (LIC, 2010: 13-14. Ychwanegwyd yr italeiddio).

Cyhoeddwyd y ddogfen ddrafft honno gan lywodraeth glymbleidiol y Blaid Llafur a Phlaid Cymru yn Rhagfyr 2010. Ond erbyn cyhoeddi fersiwn terfynol *laith Fyw: laith Byw* ym Mawrth 2012, roedd etholiadau'r Cynulliad wedi eu cynnal; roedd y Blaid Lafur yn llywodraethu yn Senedd Caerdydd, ac roedd yr ymrwymiad hwnnw wedi ei wanhau'n sylweddol a'i droi'n 'bwynt gweithredu' byrrach, gydag ymrwymiad i:

(G)wella ymwybyddiaeth iaith gweithwyr ieuencid i'w galluogi i feithrin agweddau positif ymysg pobl ifanc tuag at yr iaith. (LIC, 2012a: 32).

Fe welir o'r drafodaeth uchod mai prin yw'r cynhyrchion polisi disgyrsiol sylweddol a gafwyd yn unswydd i godi lefelau ymwybyddiaeth a disgwrs a fyddai'n sail i feithrin 'perchnogaeth'ar y Gymraeg gan holl bobl Cymru, fel a fwriedid yn ôl rhethreg testunau polisi. Fodd bynnag, cafwyd rhywfaint o brosiectau eilaidd i'r perwyl hwnnw.

Cynhyrchion polisi i gynyddu darpariaeth Gymraeg a'i marchnata, a'r rhagdybiaeth y codir lefelau defnydd, ymwybyddiaeth a disgwrs wrth wneud hynny

Er y casgliadau uchod, mae'n anochel bod yr *holl* gynhyrchion polisi ieithyddol wedi cyfrannu, mewn llawer dull a modd ac i raddau amrywiol, at godi ymwybyddiaeth a meithrin 'perchnogaeth ar y Gymraeg' ymhlith pobl Cymru. Ond dadleuir isod fod mwyafrif y cynhyrchion polisi yn gwneud hynny mewn modd *anuniongyrchol*, drwy gyflwyno amrywiaeth eang o ddarpariaeth Gymraeg ar raddfa eang ym mheuoedd lluosog bywyd cyhoeddus, yn hytrach na thrwy brosiectau a chynlluniau bwriadus i godi lefelau ymwybyddiaeth a disgwrs. Er enghraifft, ni cheir mewn Cynlluniau Iaith fesurau penodol a anelir yn unswydd at godi ymwybyddiaeth gyffredinol o'r iaith, na meithrin disgwrs yn ei chylch, er mwyn creu amodau ffafriol i weithrediad y Cynlluniau hynny. Ni cheir ychwaith fesurau mewn cynhyrchion polisiau penodol i godi ymwybyddiaeth y tu hwnt i ddibenion cyfyng eu cylchoedd gorchwyl. Yn hytrach, mae rhagdybiaeth, nas mynegir yn groyw ond a amlygir serch hynny yn y testunau polisi, y bydd lefelau ymwybyddiaeth a disgwrs yn cynyddu o ganlyniad i ddau ffactor, sef *cynyddu'r ddarpariaeth* ar y naill law, ac ar y llaw arall hyrwyddo defnydd y ddarpariaeth drwy *farchnata*.

Y mae rhagdybiaeth y tu ôl i bolisi cyhoeddus y bydd cynyddu'r ddarpariaeth gwasanaethau Cymraeg yn cynyddu defnydd yr iaith. Amlygid y rhagdybiaeth hon yn nhestunau'r Bwrdd yn y cyfnod cyntaf wedi Deddf 1993, pryd y sefydlid proses gyfarwyddo cyrff cyhoeddus i baratoi Cynlluniau Iaith Gymraeg. Y cyngor a roddid gan y Bwrdd i sefydliadau cyhoeddus ar y pryd oedd

Dylai sefydliadau ...ddarparu ar gyfer y rheiny sydd am ddelio â nhw yn Gymraeg. Wrth baratoi eu cynlluniau, ni ddylent ddibynnu ar y galw presennol am wasanaethau drwy gyfrwng y Cymraeg. Ni fyddai'r ystyriaeth honno ynddi'i hun yn ddigonol gan ei bod yn debygol y bydd y galw hwn yn cynyddu wrth i gynlluniau gael eu gweithredu, ac wrth i'r cyhoedd ddod yn fwy ymwybodol a hyderus y gall dderbyn gwasanaeth mor effeithlon yn Gymraeg ag yn Saesneg. (...) Beth bynnag fu eu safbwynt a'u profiad hyd yn hyn, dylai sefydliadau gynllunio ar gyfer cynnydd mewn galw. A pharatoi i ymateb yn unol â hynny (...) (BYIG, 1996a: 8-9).

Gyda'r cyngor hwn mewn golwg paratôdd dros 550 o sefydliadau Gynlluniau Iaith Gymraeg yn cyflwyno amrywiaeth eang o fesurau i gyflwyno eu gwasanaethau yn Gymraeg a Saesneg. Amlhaodd y ddarpariaeth gwasanaethau Cymraeg ar raddfa nas gwelid erioed o'r blaen hyd nes gweddnewid yn llwyr rôl y Gymraeg mewn gweinyddiaeth gyhoeddus yng Nghymru (Williams, 2014).

Trwy gyfrwng testunau y digwydd llawer o'r gyfathrebiaeth rhwng sefydliadau a dinasyddion. Daeth y Gymraeg yn normadol weledol mewn amrediad eang o destunau a ddarperir yn ddwyieithog, megis gwefannau cyrff cyhoeddus; deunyddiau a anfonir at ddinasyddion yn eu cartrefi; arwyddion cyhoeddus ar draws Cymru, yn arwyddion enwau llefydd, arwyddion ffyrdd ac arwyddion cyfeirio mewn manau cyhoeddus; a thestunau Cymraeg ar bosteri, hysbysebion a hysbysiadau. Gwelid defnydd cynyddol o destunau Cymraeg hefyd gan y sector preifat, er na chynhwysid y sector hwnnw o fewn cwmpas Deddf 1993. Gwelid archfarchnadoedd, banciau, clybiau chwaraeon, siopau cadwyn a busnesau lleol amrywiol yn arddel y defnydd o'r Gymraeg. Cynyddodd y defnydd o destunau Cymraeg hefyd drwy gyfryngau cymdeithasol megis Facebook a Twitter.

Ac yn ogystal ag amlygrwydd y Gymraeg mewn testunau cyhoeddus, gwelwyd defnydd cynyddol o Gymraeg llafar wrth ddarparu gwasanaethau mewn derbynfeydd, canolfannau cwsmeriaid, cyfarfodydd â staff sefydliadau, ac mewn cyfarfodydd cyhoeddus, cynadleddau a chyflwyniadau a gynhelid gan gyrff cyhoeddus.

Yn gyfochrog â'r datblygiadau hyn noder hefyd y gwelid dros yr un cyfnod gynydd parhaus mewn addysg ddwyieithog ac addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion, a chynnydd mwy graddol yn y sector addysg uwch.

Yn ddiaw, mae effaith gronnol yr holl fesurau i ddwyieithogi darpariaeth gyhoeddus yn golygu mai profiad normadol i gyfran helaeth o ddinasyddion Cymru bellach yw gweld y Gymraeg yn feunyddiol, a'i chlywed hefyd i raddau llai. Mae pawb yng Nghymru yn ddefnyddwyr y gwasanaethau cyhoeddus a ddwyieithogwyd. Cânt o leiaf brofiadau goddefol o'r Gymraeg - profiadau nas deuai ran mwyafrif dinasyddion Cymru ond ar raddfa gyfyngedig gwta chwarter canrif yn ôl.

At hynny, yn ôl ystadegau Medi 2012 roedd 331,000 (25.7%) o'r rhai a gyflogid yng ngweithlu Cymru yn gweithio yn y sector cyhoeddus, a chyfran sylweddol o'u cyflogwyr nhw yn gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg. O'r nifer hwnnw, roedd 72,000 yn gweithio mewn gweinyddiaeth gyhoeddus (Office for National Statistics, 2013). Yng Nghynlluniau Iaith y sefydliadau cyhoeddus a gynhwysir o fewn yr ystadegau hyn ceid ymrwymadau i sicrhau y byddai eu staff yn derbyn gwybodaeth am y Cynllun Iaith a chyfarwyddyd i ddarparu gwasanaethau dwyieithog gan gynnig dewis iaith i'r cyhoedd. Gan fod y gweithlu cyhoeddus yn *ddefnyddwyr* gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog yn ogystal â bod yn staff y *darparwyr*, gellid disgwyl i'w lefelau ymwybyddiaeth hwy o ddwyieithrwydd sefydliadol fod dipyn yn uwch na lefelau ymwybyddiaeth defnyddwyr eraill y gwasanaethau. At ei gilydd felly, mae'r broses Cynlluniau Iaith wedi esgor ar dulliau eilaidd o gyflwyno gwybodaeth am ddwyieithrwydd a'r cysyniad o ddewis iaith i gyfran helaeth o boblogaeth Cymru. Diau fod HYIG yn flaenllaw ymhlith y dulliau hynny, a rhoddir sylw manylach i'r agwedd hon yn y bennod nesaf.

Yn ddiaw, mae'r amlygrwydd, y statws a'r bri a roddid i'r Gymraeg yn y peuoedd hyn yn y cyfnod diweddar wedi codi ymwybyddiaeth ohoni i lefelau uwch ac ar raddfa ehangach nag a geid o'r blaen, bônt yn lefelau uchel o ymwybyddiaeth, yn lefelau canolig, neu'n lefelau isel, goddefol.

A ninnau bellach ar drothwy cyfnod o sefydlu Safonau Iaith statudol yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, pery'r rhagdybiaeth o hyd y gwelir cynnydd o du'r cyhoedd yn y defnydd o wasanaethau Cymraeg. Ond bellach y rhagdybiaeth yw nad trwy gynyddu'r ddarpariaeth yn unig y cyflawnir hynny, ond hefyd drwy reoleiddio'r modd yr hybir y ddarpariaeth yn rhagweithiol gan sefydliadau, yn unol â'r Safon Hybu arfaethedig.

Fodd bynnag, mynegwyd peth amheuaeth erbyn hyn mewn testunau polisi am i ba raddau mae cynyddu darpariaeth yn arwain o reidrwydd at gynyddu defnydd. Cyfeiria *Iaith Fyw: Iaith Byw* at

ddiffyg galw am wasanaethau oherwydd diffyg hyder ymhlith siaradwyr nad ydynt yn rhugl yn y Gymraeg a diffyg ymwybyddiaeth fod gwasanaethau yn cael eu darparu ar eu cyfer (LIC, 2012:13).

Ac y mae datganiad polisi diweddaraf y Llywodraeth yn nodi'r angen i annog defnydd ehangach o wasanaethau Cymraeg a'r iaith yn gyffredinol:

i raddau cynyddol mae angen sicrhau bod ein hymdrechion i ddarparu gwasanaethau Cymraeg yn cael eu hategu gan ymdrechion i annog defnydd o'r gwasanaethau hynny a'r defnydd o'r Gymraeg yn fwy eang (LIC, 2014a: 21).

Nid oes data sylweddol ar gael am i ba raddau mae'r holl gynnydd mewn darpariaeth wedi ysgogi cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg gan y cyhoedd. Mewn arolygon blaenorol o ddefnydd y Gymraeg gan siaradwyr Cymraeg (BYIG, 2008a), ni holwyd siaradwyr Cymraeg am eu defnydd o'r iaith wrth gaffael gwasanaethau cyhoeddus. Yn Arolwg Defnydd Iaith 2013-15 unionir y diffyg hwnnw drwy holi siaradwyr Cymraeg yn benodol am eu defnydd o'r iaith wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus (e.e. cynghorau sir) ac wrth lenwi ffurflenni swyddogol (LIC, d.d.). Cyhoeddir canlyniadau'r arolwg hwnnw yn 2015. Os dengys yr Arolwg y bu cynnydd yn y defnydd o'r ddarpariaeth Gymraeg gan unigolion, dichon y dehonglir hyn, yn un (ymhlith nifer) o'r arwyddion bod 'unigolion [yn] cymryd perchnogaeth ohoni' ac 'yn ymroi i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd cymdeithasol ac mewn busnes' (LICC, 2003:52).

Yn wyneb y prinder ymyriadau disgyrsiol uniongyrchol, mae hyn yn tanlinellu sut y dibynnir ar gynyddu'r *ddarpariaeth* ar y naill law, a'i *hyrwyddo drwy farchnata* ar y llaw arall fel modd i godi lefelau ymwybyddiaeth a disgwrs ieithyddol. Trafodir isod sut mae'r dybiaeth hon i'w chanfod drwy gyfeirio at rai enghreifftiau o gynhyrchion strategaeth gyfredol LIC ar y Gymraeg.

Yn ogystal â maes gwasanaethau cyhoeddus, maes allweddol arall ym mhroses creu amodau ffafriol i ddefnyddio'r Gymraeg yw datblygu cymunedol. Mae *Iaith Fyw: Iaith Byw* yn cydnabod pwysiced yr agwedd diriogaethol ar ddefnydd y Gymraeg (LIC, 2012a: 33). Mae'r Mentrau Iaith yn asiantaethau adfywio cymunedol sy'n cefnogi cymunedau i gynyddu a datblygu eu defnydd o'r Gymraeg. Drwy gydol y cyfnod a drafodir yn y traethawd hwn mae twf y Mentrau Iaith i wasanaethu cymunedau a bröydd ar hyd a lled Cymru wedi bod yn ganolog i'r ymagwedd datblygu cymunedol ar waith BYIG gynt, a pholisi ieithyddol LIC wedyn (Williams ac Evas, 1997; Jones a Ioan, 2000; Williams, 2005; Williams, 2014; Evas et al, 2014).

Rhwng 1993 a 2012, ariennid y Mentrau gan grant o ryw £1.3 miliwn y flwyddyn gan BYIG, a derbynient gyfanswm o tua £310,384 y flwyddyn yn gyllid ategol gan Awdurdodau Lleol (Williams, 2014:259). Bellach ariennir y Mentrau yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Dyrannwyd cyfanswm grant o £1,738,098 iddynt ar gyfer

2013-14 (Evas et al, 2014: 69), ac yn dilyn argymhellion adolygiad diweddar, cyhoeddodd LIC yn ystod haf 2014 y dyrennid cyllid ychwanegol o £750,000 i ddatblygu gwaith y Mentrau dros y ddwy flynedd ganlynol. (LIC, 2014ch).

Ceir 23 o Fentrau ar hyn o bryd, ac maent yn weithredol ym mhob ardal awdurdod lleol. Mae eu gweithgareddau'n amrywio'n fawr. Ar wefan Mentrau Iaith Cymru, corff canolog a sefydlwyd i gefnogi'r Mentrau, ceir y disgrifiad canlynol o'u swyddogaeth:

Beth mae'r Mentrau Iaith yn ei wneud?

Bydd eich Menter yn rhoi cyngor neu help ymarferol i chi, a hynny'n aml yn rhad ac am ddim. Mae pob Menter yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau gan ddibynnu ar yr anghenion lleol, megis -

Cyngor

- i rieni newydd ynglŷn â magu eu plant yn ddwyieithog
- i gyrff cyhoeddus a gwirfoddol ar gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg
- i fusnesau sydd am ddechrau cynnig gwasanaeth dwyieithog i'w cwsmeriaid
- ar addysg Gymraeg i blant

Gweithgareddau

- cyfleoedd cymdeithasol i blant a phobl ifanc i ddefnyddio'u Gymraeg
- cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer eu Gymraeg y tu allan i'r dosbarth
- gwneud gwaith cyfieithu byr neu eich rhoi mewn cysylltiad â chyfieithwyr
- gweithio mewn partneriaeth gyda mudiadau lleol er mwyn cynnig gweithgareddau cymunedol (Mentrau Iaith Cymru, d.d.).⁴⁷

Mae llwyddiant y Mentrau yn dibynnu ar i ba raddau mae'r gymuned leol yn perchnogi eu cenadwri, yn cyfrannu at eu rhaglenni gweithgareddau ac yn cyfranogi o'r ddarpariaeth a gynigiant. Yn ôl Williams (2014:259-262), yn gyffredinol mae'r Mentrau wedi cael effaith adnewyddol ar hyder a balchder cymunedau drwy gynnig gwasanaethau a werthfawrogir gan gymunedau lleol a thrwy eu rhaglenni gweithgareddau amrywiol a byrlymus. Yn ogystal maent wedi bod yn fodd i adfywio rhwydweithiau sosio-economaidd a rhwydweithiau cymdeithasol lleol.

Drwy weithredu ar lefel gymunedol micro mae'r goreuon yn eu plith wedi datblygu'r gallu i adnabod anghenion a dyheadau lleol, ac ymateb iddynt mewn modd

⁴⁷ Am restr gynhwysfawr ddiweddar o weithgareddau'r Mentrau Iaith, gweler Evas *et al*, 2014: 93.

sy'n gydnaws â chymeriad a phroffil sosio-economaidd a sosio-ieithyddol yr ardal. Yn ôl astudiaeth ddiweddar,

Un o rinweddau damcaniaethol y Mentrau yw eu bod yn organig a bod eu cynlluniau'n adlewyrchu anghenion lleol, boed ar lefel sirol neu ardaloedd o fewn ffiniau sirol. Mae hynny'n golygu bod blaenoriaethau pob un yn wahanol wrth iddynt ymateb i'r cyd-destun ieithyddol a sosio-economaidd sy'n eu hwynebu (Evas et al, 2014:12-13).

Mae'r rhai mwyaf llwyddiannus wedi datblygu'n adnoddau cymunedol gwerthfawr ac wedi llwyddo i gysylltu'r Gymraeg â gweithredu cymunedol blaengar.

Trwy eu defnydd normadol o'r Gymraeg mewn amrywiaeth eang o weithgareddau cymunedol, mae'r Mentrau wedi codi ymwybyddiaeth o'r iaith ac wedi ennyn diddordeb ynddi ar lefel cymuned a bro. Nid dulliau didactig a ddefnyddiant, ond y dulliau a grynhowyd yn amcanion y Fenter Iaith gyntaf un, Menter Cwm Gwendraeth:

- to create social conditions that will nurture positive attitudes towards Welsh and an increase in its general use;
- to normalise the use of Welsh as a medium of social and institutional communication
- to highlight the close relationship between language and attitudes which relate to quality-of-life and socio-economic issues (Campbell, 2000: 251)

Buom yn trafod agweddau ar y ddwy elfen graidd sydd i strategaeth gyfredol LIC ar y Gymraeg, sef 'galluogi ac annog plant a phobl eraill i *gaffael* yr iaith' a 'galluogi ac annog pobl i *ddefnyddio*'r iaith yn feunyddiol'. (LIC, 2012a:14). O graffu ar y cynhyrchion polisi a fwriedir i wireddu'r amcanion hyn, gwelwn eu bod yn canolbwyntio ar ddau faes. Yn gyntaf, canolbwyntir ar greu neu gynyddu'r *ddarpariaeth* bwrpasol o wasanaethau Cymraeg yn ogystal ag adnoddau a strwythurau i sefydlu, cynnal a chefnogi'r gwasanaethau hynny. Yn ail, canolbwyntir ar *hyrwyddo*'r ddarpariaeth, yn bennaf drwy farchnata.

Yn yr isadran flaenorol ystyriwyd un cyfraniad arloesol i faes *caffael* y Gymraeg, sef cynllun TWF. Mae galluogi *caffael* y Gymraeg yn gofyn am strategaethau pellgyrhaeddol yn ogystal ym maes allweddol addysg a hyfforddiant (Williams 2004:17; a 2014: 248-258). Wrth ystyried ymyriadau polisi yn y maes hwn, gellir cyfeirio at sawl datblygiad ers 2010 i gynyddu neu wella'r *ddarpariaeth* addysg Gymraeg a dwyieithog. Cafwyd dau ddatblygiad yn deillio o ymrwymadau a gyhoeddwyd yn rhaglen y llywodraeth glymbleidiol, *Cymru'n Un* (LICC, 2007). Yn gyntaf, yn 2010 cyhoeddodd y Llywodraeth ei Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg i 'sicrhau cynnydd yn nifer y bobl o bob oedran a chefnidir sy'n rhugl yn y Gymraeg ac

sy'n gallu defnyddio'r iaith gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle'(LICC, 2010:4). Yn ail, ym maes addysg uwch sefydlwyd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn 2011 i hyrwyddo a darparu addysg brifysgol trwy gyfrwng y Gymraeg (gweler Williams, 2014:256).⁴⁸

Yn fwy diweddar, yn dilyn ymarferiad ymgynghori *Y Gynhadledd Fawr: Dweud eich Dweud* (LIC, 2013a), cyhoeddodd y Llywodraeth ddatganiad polisi am y tair blynedd o 2014 hyd 2017. Ynddo, cydnabyddir bod angen gwella'r 'dull o gynllunio'r ddarpariaeth Gymraeg yn y system addysg at ddiben creu siaradwyr Cymraeg y dyfodol.' (LIC, 2014a:14). Cyhoeddir amryw o gamau i 'gynllunio'r Gymraeg mewn addysg', gan gynnwys 'estyn y gwaith y tu hwnt i ffiniau addysg statudol'. Y camau yw:

- Sefydlu cronfa buddsoddi gwerth £1.25 miliwn a fydd wedi'i thargedu'n benodol at gefnogi datblygiad canolfannau a/neu ofodau dysgu all hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg neu drochi'r Gymraeg drwy gystadleuaeth a fydd yn cynhyrchu syniadau ac egni newydd
- cydweithio ag awdurdodau lleol er mwyn cefnogi'r camau y disgwyliwn iddynt eu cymryd i hybu'r Gymraeg
- parhau i gydweithio ag awdurdodau lleol er mwyn cynllunio'r modd y maent yn darparu ar gyfer y Gymraeg o fewn y system addysg
- gwella'r dull o ddarparu pwyntiau mynediad hwyr i addysg Gymraeg ac addysg ddwyieithog ar draws Cymru
- gwella'r modd y caiff darpariaeth Gymraeg ei chynllunio mewn addysg a gofal plant cyn ysgol (Ibid. :12).

Gwelwn mai gwelliannau yn y ddarpariaeth strwythurau, adnoddau a gwasanaethau yw'r cynhyrchion polisi cyfredol a bwriedig a amlinellir yn y paragraffau uchod ar gaffael y Gymraeg drwy'r system addysg. Yn yr ystyr honno, o gofio nod *Iaith Fyw: Iaith Byw* i 'annog' a 'galluogi' caffael yr iaith, gellid ystyried y datblygiadau polisi uchod yn rhai sy'n 'galluogi' dinasyddion i gaffael addysg Cymraeg a dwyieithog, a chael mynediad hwyr iddi, yn fwy hwylus.

⁴⁸ Noder hefyd y cafwyd datblygiad deddfwriaethol hefyd. Cyhoeddodd Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (The Stationery Office, 2013) fesurau i unioni diffygion yn y modd yr oedd awdurdodau lleol yn ymateb i'r galw gan rieni. Gosododd y Ddeddf hon ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gynllunio sut y byddant yn darparu ar gyfer y Gymraeg yn y system addysg. Yn ogystal, gosododd gyfrifoldeb allweddol ar Weinidogion Cymru am gymeradwyo 'Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg' sydd i'w paratoi gan yr awdurdodau lleol.

O droi at yr ymrwymiad i 'annog' caffael yr iaith drwy addysg, y prif arf a ddefnyddir i 'annog' caffael yr iaith drwy addysg yw technegau marchnata. I'r diben hwn ceir parth ar wefan LIC sy'n esbonio manteision addysg ddwyieithog neu addysg cyfrwng Cymraeg (LIC, 2014c). Noda datganiad polisi diweddaraf y Llywodraeth

Ers 2011, rydym wedi (...) lansio ymgyrch farchnata i hyrwyddo addysg Gymraeg a dwyieithog. (...) Dros y tair blynedd nesaf, byddwn yn: datblygu cyfres o ymgyrchoedd gyda'r nod o newid ymddygiad ieithyddol a fydd yn defnyddio arbenigedd marchnata cymdeithasol (...) defnyddio technegau marchnata cymdeithasol mewn ymyriadau ieithyddol sy'n bodoli eisoes ac a ddatblygir yn y dyfodol (LIC, 2014a: 21).

Ymddengys felly, rhwng 2014 a 2017 y gwelir ychwanegu technegau marchnata cymdeithasol at yr ymgyrch farchnata bresennol i hyrwyddo addysg Gymraeg a dwyieithog.

Yr ymgyrch farchnata hon fydd y modd y cyfathrebir â'r cyhoedd am y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, sef prif bolisi'r Llywodraeth ar gaffael y Gymraeg drwy addysg. Nid yw nodau strategol y Strategaeth ei hun (LICC, 2010a:12-19) yn cynnwys unrhyw gynlluniau sylweddol i ddylanwadu ar ddewisiadau'r unigolyn ac o bosibl, ei agweddau a'i ymddygiad, heblaw drwy weithgareddau cysylltiedig â'r ymgyrch uchod. Ymhlith y 43 o amcanion strategol y Strategaeth, ceir 4 sy'n ymdrin mewn ychydig o frawddegau cryno â dylanwadu ar ddewisiadau'r unigolyn. Amcenir at wneud hynny drwy hyrwyddo cydnabyddiaeth o'r Gymraeg fel sgil yn y gweithle, hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg, a hyrwyddo cymwysterau ac adnoddau cyfrwng Cymraeg. Ond yn y testun dilynol ni fanylir ymhellach ar y technegau a ddefnyddir i hyrwyddo'r agweddau hyn (op. cit. :16, AS 3.7-3.9 a 18: AS 5.4). Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bwriedir cyfeirio yn y negeseuon anogol hyn at y cyd-destun hanesyddol i genadwri'r strategaeth, na'i chyfraniad allweddol i'r broses adfywio ieithyddol y mae'r wladwriaeth am feithrin dealltwriaeth y dinesydd ohoni a'i 'berchnogaeth' arni. Hynny yw, nid yw beirniadaeth o'r drefn bresennol yn rhan o'r modd y cyfathrebir am y drefn newydd.

Yn yr un modd, mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, sefydliad a grëwyd fel un o gonglfeini'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, yn ceisio denu darpar fyfyrwyr yn y dulliau arferol, drwy bwysleisio'r ddarpariaeth a gynigir, a'r buddion a gaent ohoni (Coleg Cymraeg Cenedlaethol, 2014). Mae'r Coleg yn sefydliad addysg uwch heb fod ganddo ei gampws diriaethol ei hun yn lleoliad canolog i fyfyrwyr. Mae ganddo weinyddiaeth ganolog fechan o 24 o staff, gyda 7 o ganghennau mewn sefydliadau addysg uwch ar hyd a lled Cymru - sef Prifysgolion Abertawe, Aberystwyth,

Caerdydd, Bangor, De Cymru, Y Drindod Dewi Sant, a Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd, a chyd-berchnogir y Coleg gan y sefydliadau hynny. Disgrifiwyd ei strwythur fel 'spoke and hub arrangement' (Williams, 2014: 256). Lleolir ei staff dysgu, mwy nag 85 o ddarlithwyr, ar safleoedd y sefydliadau addysg uwch, ac mae eu cyrsiau a modiwlau cyfrwng Cymraeg hwy ar gael i fyfyrwyr sy'n astudio mewn unrhyw un o'r lleoliadau, drwy gyfryngau dysgu-o-hirbell. Hyd yma, canolbwyntiodd y Coleg Cymraeg ar ddarparu rhai pynciau mewn rhai prifysgolion yn unig, sef y sefydliadau a oedd eisoes wedi dangos diddordeb mewn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Coleg yn anelu at gofrestru 5,600 o fyfyrwyr i ddilyn rhan o'u cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn y flwyddyn academaidd 2015-16.

O'r saith o 'Flaenoriaethau Strategol' a bennir yng Nghynllun Strategol cyfredol y Coleg, ceir un (Coleg Cymraeg Cenedlaethol, 2014: rhif 4:18) sy'n amcanu at 'gynnal a chynyddu niferoedd myfyrwyr' a cheir cyfeiriadau cryno yn y testun dilynol at sut y bwriedir gwneud hynny drwy dulliau cyfathrebu. Anelir at feithrin 'cyswllt ffurfiol a chadarn gydag ysgolion uwchradd, colegau addysg bellach, Gyrfa Cymru ac asiantaethau eraill er mwyn codi ymwybyddiaeth myfyrwyr yn gynnar yn ystod eu cyfnod addysgol o'r cyfleoedd cyfrwng Cymraeg yn y brifysgol' (Ibid. :16); 'gweithredu strategaeth gyfathrebu bwrsasol er mwyn trosglwyddo negeseuon allweddol' i ddarparu fyfyrwyr, rhieni a gofalwyr; a chodi ymwybyddiaeth yn eu plith nhw ac ymhlith athrawon 'am fudd astudio drwy gyfrwng y Gymraeg mewn addysg uwch, ynghyd ag am ystod y ddarpariaeth bynciol sydd bellach ar gael' (Ibid.:18). Yn arwyddocaol hefyd, anelir at ddenu darpar fyfyrwyr drwy gynnig cymhelliad ariannol ar ffurf ysgoloriaethau i rai fydd yn astudio rhan o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg (Ibid. :15).

Amcenir felly at ddylanwadu ar ddewisiadau darpar fyfyrwyr ynghylch eu cyrsiau addysg uwch drwy bortreadu gweithred dewis addysg cyfrwng Cymraeg fel arferiad normadol newydd ym mhroses dewis addysg prifysgol. Mewn termau marchnata, yr *USP (unique selling point)* a farchnetir i ddylanwadu ar eu dewisiadau yw'r budd a ddaw i ran yr unigolyn o gofleidio addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Hynny yw, yn ôl terminoleg Bourdieu (1986), mae'n anogaeth i gaffael y cyfalaf economaidd a chymdeithasol a grynhoir o dderbyn y ddarpariaeth hon. Yn ddiamau, mae negeseuon o'r fath yn gwbl allweddol i gymell unigolion i gynyddu eu defnydd o'r ddarpariaeth Gymraeg a chyfrannu drwy hynny at broses o normaleiddio ei defnydd yn y bau addysg uwch. Ac yn ôl adroddiad newyddion a gyhoeddwyd ym Medi 2014, ymddengys bod y dulliau hyn yn dwyn ffrwyth:

Mae cynnydd o 16% wedi bod yn y myfyrwyr prifysgol yng Nghymru sy'n derbyn rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ôl ystadegau diweddaraf LIC. Yn 2012/13 roedd 5,465 o fyfyrwyr yn Sefydliadau Addysg Uwch Cymru yn gwneud rhan o'u cyrsiau yn y Gymraeg. Roedd y

mwyafrif helaeth o fyfyrwyr oedd yn cael rhywfaint o'u haddysg yn Gymraeg ar gyrsiau gradd, gyda bron i dri chwarter ohonyn nhw'n astudio'n llawn amser (Golwg 360, 2014).

O'r drafodaeth uchod gwelir sut y cyflwynir negeseuon am y dewisiadau addysg cyfrwng Gymraeg mewn ieithwedd niwtral ac anfeirniadol debyg i'r hyn a welid yn nodweddu testunau BYIG a thestunau polisi'r Llywodraeth. Ac fel y nodwyd wrth drafod y testunau hynny, mae rhesymau pragmataidd, dilys dros arddel ymagwedd 'niwtral' o'r fath mewn cyfnod pan geisir sefydlu a hybu'r ddarpariaeth yn anad dim, a sicrhau adnoddau i'w datblygu. Rhaid cydnabod serch hynny fod y disgwrs anogol i'r gynulleidfa darged am fuddion addysg Gymraeg yn rhydd o gyddestun hanesyddol a chymdeithasol i raddau helaeth. Anwybyddir hanes yr ymgyrchu hirfaith gan y mudiad iaith yn erbyn strwythurau addysg y wladwriaeth a diffyg cefnogaeth awdurdodau lleol, a'u 'trais symbolaidd' (Bourdieu a Passeron, 1970) yn erbyn siaradwyr Gymraeg. Yn y gorffennol, 'there has been a tendency to treat Welsh medium education in many universities as an add-on feature and not integral to the institute's remit and mission' (Williams, 2014: 256), ac mae'r cyfnod presennol yn un lle mae'r Coleg Gymraeg yn dal i geisio gwyrddroi'r duedd honno. Mae'n gyfnod o ymsefydlu a chyfreithloni ei genadwri ym mhau addysg uwch, lle mae tyndra strwythurol o hyd rhwng gweledigaeth ieithyddol a rhaglen uchelgeisiol y Coleg Gymraeg, a diffyg uchelgais ieithyddol y Prifysgolion Seisnigaidd.

Felly ni chyflwynir darpariaeth Gymraeg y Coleg Gymraeg fel darpariaeth sy'n gam tuag at unioni sefyllfa anghyfartal ac anghyfiawn lle y gwelid ymyleiddio darpariaeth Gymraeg o fewn ethos Saesneg normadol y byd addysg uwch. Go brin y byddai hynny'n bosibl, o gofio bod y Coleg Gymraeg Cenedlaethol ym mherchnogaeth yr union sefydliadau sy'n parhau i gynnal hegemoni'r Saesneg mewn addysg uwch, a dibynna arnynt i ledaenu ei ddarpariaeth.

Gwelwn yr un ymagwedd anfeirniadol hon yn nodweddu holl gynhyrchion polisi LIC. Fe'u seiliwyd ar destunau a luniwyd gan weision sifil ar ran y wladwriaeth yng Nghymru. Y cwestiwn ehangach a gyfyd o hyn yw: gan i'r wladwriaeth fynegi ei bod am feithrin disgwrs ymhlith dinasyddion am broses adfywio'r Gymraeg, a hybu eu 'perchnogaeth' ar yr iaith, pa fath o ddisgwrs bydd hwnnw, a pha fath o berchnogaeth, os ydynt yn hepgor dealltwriaeth feirniadol o hanes? Mae'r cwestiwn yn tynnu sylw at y cyfyng-gyngor damcaniaethol sydd wrth wraidd 'cynhwysiant' mewn polisi cyhoeddus ar y Gymraeg. Oni fydd y disgwrs adfywio ieithyddol yn bwrw goleuni beirniadol ar rôl addysg a pheuoedd sefydliadol eraill mewn cynnal hegemoni'r Saesneg, a'r anghyfartaledd sydd ynglŷn â hynny, yna erys yr hegemoni hwnnw heb ei herio a'i ddadgyfreithloni. Mewn sefyllfa o'r fath, ni wyrdroir yr arferion

normadol sy'n ymleiddio addysg Gymraeg a mathau eraill o ddarpariaeth Gymraeg, ac o'r herwydd felly cyfrennir yn oddefol at eu parhad (Williams a Morris, 2000).

Cyfathrebu â'r dinesydd drwy farchnata

Yn y bum agwedd ar gynllunio ieithyddol a ddisgrifir gan Lo Bianco (2004), mae cynllunio bri (*prestige planning*) yn weithgaredd all fynd law yn llaw â chynllunio statws a chynllunio defnydd. Ac un o'r prif arfau y gellir eu defnyddio ar gyfer cynllunio bri yw marchnata. Er pan basiwyd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, marchnata yw prif ddull y wladwriaeth o gyfathrebu â chynulleidfa darged ei hymyriadau ieithyddol parthed y Gymraeg. Marchnata oedd y brif elfen yn y gwaith hybu a wnaed gan BYIG ac amlygwyd hyn yn gynnar yn ystod oes y Bwrdd yn ei strategaeth gyntaf. Wrth drafod ei amcanion i 'fagu hyder ymysg siaradwyr Cymraeg i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg' a 'sichrau bod siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r gwasanaethau a ddarperir iddynt', y ddau orchwyl a bennodd iddo'i hun i gyflawni hyn oedd cynnal ymchwil i arferion defnydd iaith, a 'chynnal ymgyrch farchnata i hybu defnyddio'r Gymraeg yn gyffredinol' (BYIG, 1996b: 13).

Gyda chyhoeddi fframwaith strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru *Iaith Pawb* yn 2003, cadarnhaodd y Llywodraeth swyddogaeth y Bwrdd yn brif gorff cynllunio ieithyddol yng Nghymru, gyda 'rôl ganolog' wrth gyflawni ymrwymadau'r strategaeth. Fe a nodwyd eisoes, ehangodd *Iaith Pawb* y gynulleidfa darged ar gyfer ymyriadau ieithyddol y wladwriaeth, i gynnwys holl ddinasyddion Cymru yn hytrach na siaradwyr Cymraeg yn unig, ac yn sgil hynny ehangwyd swyddogaeth marchnata'r Bwrdd yntau. Adlewyrchid y briff ehangach hwn yn y *Strategaeth Farchnata* a gyhoeddwyd ganddo ar gyfer 2004/5 a 2005/6 (BYIG 2004). Mae ieithwedd y ddogfen hon yn arwyddocaol. Ynddi, cyfeirir at y rhai a dargedir gan ymyriadau'r Bwrdd, a'r rhai sy'n defnyddio ei wasanaethau, fel ei 'gwsmeriaid':

Mae llwyddiant Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cyflawni targedau *Iaith Pawb* yn dibynnu ar allu'r Bwrdd i adnabod ei gwsmeriaid yn well gan gyfleu negeseuon pendant fydd yn cwrdd â'i anghenion yn fwy effeithiol. Mae adeiladu perthynas hir dymor a buddiol gyda'r cwsmer yn greiddiol i'r strategaeth farchnata (Ibid.:16).

Mewn cyfweiliad y dyfynnir ohono gan Mac Giolla Chríost (2007:74) ymhelaethodd uwch swyddog o Fwrdd yr Iaith ar yr ymagwedd at farchnata, gan ddatgan bod a wnelo â 'getting, keeping and growing customers...finding ways of creating customer value...not about selling but about building relationships with customers.' Wrth gyhoeddi'r Strategaeth, lansiwyd yn ogystal logo newydd i 'ail-frandio'r Bwrdd' yn ôl un adroddiad newyddion. Ond yn yr un adroddiad, disgrifiwyd y logo fel modd i ail-

frandio'r *iaith* ei hun. Yn ôl Cadeirydd y Bwrdd ar y pryd, Rhodri Williams, 'Ein bwriad ydi y bydd y brand newydd gyfystyr â'r iaith Gymraeg ac y bydd y cyhoedd yn cysylltu'r iaith Gymraeg gyda'r brand' (BBC Cymru, 2004).

Roedd y modd y cofleidiai'r Bwrdd ieithwedd y fachnad brynwriaethol yn arwydd o'r paradeim neo-ryddfrydol a esgorodd ar Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a'r model cynllunio ieithyddol a ddatblygid wedyn gan y Bwrdd (Williams a Morris, 2000: 189-190). Wrth hyrwyddo'r cysyniad o 'gynnig dewis iaith' i ddefnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus, roedd gwaith y Bwrdd yn addasiad o'r cysyniad o 'gynnig dewis i ddefnyddwyr', cysyniad a ddaethai'n gysyniad mor allweddol yn yr economi neo-ryddfrydol yn ystod y 1990au. Datblygasai wedi mwy na degawd o weinyddiaeth Geidwadol llywodraeth Prydain drwy'r 1980au, a lansio Siarter y Dinesydd gan Lywodraeth John Major yn 1991. Yn ystod y cyfnod hwnnw ymestynnai'r cysyniad o ddiffinio defnyddwyr gwasanaethau fel 'cwsmeriaid' y tu hwnt i'r sector preifat a'i ledaenu drwy wasanaethau cyhoeddus, megis gofal iechyd, addysg a gwasanaethau llywodraeth leol.

Wrth weithredu mewn hinsawdd o'r fath, defnyddiai dogfennaeth y Bwrdd a'i gynghorion i gyrff cyhoeddus ieithwedd brynwriaethol y cyfnod. Trinnid gwasanaethau Cymraeg fel petaent yn nwyddau a anelid at garfan benodol o 'gwsmeriaid' yn 'y farchnad', sef siaradwyr Cymraeg. Dadleuid mai'r her i gyrff cyhoeddus oedd denu'r cwsmeriaid hyn drwy ddarparu nwyddau o safon dda iddynt - sef gwasanaethau Cymraeg. Yn ôl testunau'r Bwrdd, byddai'n rhaid i sefydliadau hybu eu gwasanaethau Cymraeg (marchnata'r nwyddau) yn effeithiol, er mwyn denu siaradwyr (cwsmeriaid) Cymraeg i'w defnyddio. Wedyn, trwy sicrhau 'gofal cwsmer' (ar ffurf gwasanaeth Cymraeg o safon dda) enillid ffyddlondeb y cwsmer i'r 'brand' (gwasanaethau Cymraeg). Dyma broses a ffrwd disgwrs a ddisgrifiwyd gan Williams a Morris (2000: 191-192) fel 'the commodification of Welsh'.

Mae Mac Giolla Chríost (2007) yn olrhain sut y targedai strategaeth farchnata'r Bwrdd garfanau allweddol o fewn y boblogaeth yng Nghymru i farchnata'r 'nwydd' hwn (y Gymraeg). Canolbwyntiai'r strategaeth ar dargedu dinasyddion ifainc yn y grŵp oedran 18 -35 oed yn bennaf, yn siaradwyr Cymraeg, dysgwyr y Gymraeg a'r di-Gymraeg fel ei gilydd, a'r sector preifat.⁴⁹ Rhoddai'r Bwrdd gryn bwys ar ddylanwadu ar agweddau'r mwyafrif di-Gymraeg o boblogaeth Cymru at yr iaith, a chynlluniwyd rhai ymgyrchoedd marchnata uniaith Saesneg i'r diben hwn (BYIG, 2004: adran 16.1). Anelid yr ymgyrch 'workplaylive' at y di-Gymraeg a dysgwyr y

⁴⁹ Er mwyn targedu pobl ifainc yn benodol derbyniasai'r Bwrdd ddyraniad cyllid ychwanegol gan Lywodraeth y Cynulliad i 'benodi swyddogion marchnata gyda'r dasg benodol o weithio gyda phobl ifanc a sefydliadau pobl ifanc i'w hannog i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gweithgareddau cymdeithasol, hamdden a gwaith' (LICC, 2003:48).

Gymraeg, er mwyn ennyn eu diddordeb yn yr iaith a chodi ymwybyddiaeth o'r cyfalaf cymdeithasol ac economaidd a gafaelid o'i defnyddio hi (BYIG, 2004).

Gan fod disgwrs marchnata yn ffrwd disgwrs sydd hefyd o ddiddordeb i'r sector preifat, nas cynhwysid o fewn cwmpas Deddf 1993, ceisiodd y Bwrdd ddatblygu 'achos busnes' i gymell y sector hwnnw i fabwysiadu defnydd y Gymraeg. Ceisiodd ddysgu o brofiadau cynllunwyr iaith mewn gwledydd Ewropeaidd eraill, yn enwedig ymdrechion cymharol lwyddiannus i ledaenu defnydd y Gatalaneg o fewn y sector preifat yng Nghatalunya (BYIG, 2001; Puigdevall i Serralvo, 2006).

Roedd yn anochel y byddai'r un ymagwedd at farchnata yn nodweddu testunau polisi a chynhyrchion polisi'r Llywodraeth ar y Gymraeg, am mai swyddogion o fewn y Bwrdd yn bennaf a ddrafftiai destunau polisi ieithyddol y Llywodraeth (Jones, 2014). Hefyd, pan ddaeth y Bwrdd i ben, adleoliwyd llawer o'i swyddogion yn Uned Iaith ac adrannau eraill LIC, ac yn Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. I raddau helaeth mae'r model cynllunio ieithyddol neo-ryddfrydol a etifeddwyd gan y sefydliadau hyn yn weithredol o hyd, er ei addasu yng ngoleuni swyddogaethau newydd y ddau sefydliad hyn, ac esblygiad gwedd newydd ar lywodraethiant yng Nghymru yn y cyfnod ôl-ddatganoli (Williams, 2014:267).

Gwelir bod y dybiaeth y gall marchnata fod yn fodd i ddylanwadu'n sylweddol ar agweddau ac ymddygiad ieithyddol wedi parhau'n ddi-dor o gyfnod strategaeth gyntaf y Bwrdd hyd heddiw. Un o'r amcanion a bennwyd gan y Bwrdd yn ei strataegaeth gyntaf oedd 'marchnata'r iaith er mwyn newid agweddau, magu hyder siaradwyr Cymraeg, neu wella delwedd yr iaith' (BYIG,1996: 2). Ac yn strategaeth gyfredol LIC ar y Gymraeg, ceir ymrwymiad cyffelyb, i

(D)datblygu strategaeth farchnata gydgysylltiedig ar gyfer yr iaith, gan gynnwys marchnata sydd ynghlwm wrth brosiectau a gweithgareddau sy'n cefnogi'r iaith - a gwneud hyn mewn partneriaeth ag eraill, gan gynnwys sefydliadau a grëwyd i hybu'r defnydd o'r Gymraeg (LIC, 2012a: 53).

Yn unol â'r ymrwymiad hwn, mae'r pwyslais ar farchnata i'w ganfod yn nhestunau'r holl gynhyrchion polisi a adolygwyd yn y bennod hon.

Ceir awgrym diweddar fodd bynnag fod LIC am ailystyried y modd y mae'n ymdrin â newid ymddygiad ieithyddol. Yn ei datganiad polisi diweddaraf ar y Gymraeg, *Iaith Fyw, Iaith Byw - Bwrw Mlaen*, sef datganiad cyfamserol ar ddechrau tair blynedd olaf gweithredu *Iaith Fyw: Iaith Byw*, mae'r Llywodraeth yn dynodi pedair thema i ganolbwyntio arnynt am y tair blynedd nesaf. Un o'r pedair thema yw 'newid ymddygiad ieithyddol', ac am y tro cyntaf mewn testun polisi neilltuir adran gyfan yn y testun byr ar gyfer ymdrin â'r thema hon (LIC, 2014a). Wrth graffu ar y camau

gweithredu a bennir ar ddiwedd yr adran hon i newid ymddygiad ieithyddol, mae'n ddiddorol sylwi mai'r bwriad yw gwreiddio'r gwaith hwn mewn 'marchnata cymdeithasol', sef ffurf ar farchnata a ddefnyddir i hyrwyddo nwyddau cymdeithasol er lles unigolion a'r gymdeithas yn gyffredinol.

Dros y tair blynedd nesaf, byddwn yn:

- datblygu cyfres o ymgyrchoedd gyda'r nod o newid ymddygiad ieithyddol a fydd yn defnyddio *arbenigedd marchnata cymdeithasol*, gan ddechrau gydag ymgyrch 'Y Pethau Bychain'
- lansio gwefan a fydd yn hyrwyddo a hysbysebu cyfleoedd i ddysgu, defnyddio a mwynhau'r Gymraeg fel rhan o fywyd bob dydd ar draws Cymru
- law yn llaw â'r wefan, creu, hwyluso a rheoli system i gynnal *perthynas â chwsmeriaid*, drwy gydweithio â'n partneriaid, a fydd yn galluogi unigolion i gofrestru i dderbyn gwybodaeth wedi'i deilwra ar eu cyfer am ddiwyddiadau a gwasanaethau Cymraeg, a galluogi darparwyr busnesau i dargedu negeseuon allweddol at unigolion ar fanteision a chyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith Gymraeg
- hyrwyddo'r defnydd o .Cymru ymhlith busnesau
- defnyddio *technegau marchnata cymdeithasol* mewn ymyriadau ieithyddol sy'n bodoli eisoes ac a ddatblygir yn y dyfodol

(LIC, 2014a: 21. Ychwanegwyd yr italeiddio).

Fel hyn y dehonglwyd y pwyslais hwn ar 'farchnata cymdeithasol' mewn pennawd yn y cylchgrawn Golwg: 'gwario mwy ar hyrwyddo ac ail-frandio'r Gymraeg' (Golg, 2014). Sylwer nad oes tystiolaeth hyd yma o unrhyw fwriad i wreiddio 'newid ymddygiad ieithyddol' mewn disgyblaethau megis cymdeithaseg iaith a seicoleg gymdeithasol – sef disgyblaethau academiaidd yr arferir eu cysylltu ag astudio ymddygiad ieithyddol, ac yn wir, â marchnata cymdeithasol. Noder hefyd y defnydd o'r ymadrodd 'cynnal perthynas â chwsmeriaid' i gyfeirio at gyfathrebu â'r gynulleidfa darged – cymal sy'n adleisio ieithwedd Strategaeth Farchnata'r Bwrdd (2004):

Mae adeiladu perthynas hir dymor a buddiol gyda'r cwsmer yn greiddiol i'r strategaeth farchnata. Yn y bôn, mae angen i'r Bwrdd gynyddu ei wybodaeth a deallusrwydd o'r cwsmer gan wahodd y cwsmer i fod yn rhan o'r profiad ac i chwarae rhan flaenllaw yn y broses o lywio dyfodol y Gymraeg ac i rannu'r weledigaeth (BYIG, 2004: 21).

Mae'r dyfyniad uchod, a gweddill y drafodaeth hon am farchnata, yn amlygu'r tyndra a'r croestynnu sydd rhwng dau llyn disgwrs a red drwy bolisi cyhoeddus ar y Gymraeg. Dangoswyd ar y naill law fod y rhethreg am gynhwysiant yn portreadu

dinasyddion fel partneriaid yn y disgwrs adfywio ieithyddol. Ar y llaw arall mae defnyddio marchnata fel prif arf cyfathrebu yn gosod y dinesydd yn darged goddefol i negeseuon marchnata unffordd, yn 'consumer citizen' chwedl Mac Giolla Chríost (2007: 76), yn hytrach na phartner mewn disgwrs. Gwelwyd mai marchnata a orfu hyd yma fel dull y buddsoddwyd ynddo ar gyfer cyfathrebu â dinasyddion am y Gymraeg. Amser a ddengys ba ffurfiau ar farchnata cymdeithasol a fabwysiedir, ac i ba raddau y bydd elfennau rhyngweithiol neu ddisgyrsiol yn eu nodweddu.

Cydnabyddiaeth o gyfraniad pwysig HYIG i broses sefydliadol i'r Gymraeg

Ystyriwyd uchod sampl arwyddocaol o gynhyrchion polisi cyhoeddus er mwyn canfod i ba raddau y cynhwysent ymyriadau i wireddu'r rhethreg am gynhwysiant dinasyddion mewn disgwrs ieithyddol partneriaethol, fel a fwriedir yn ôl testunau polisi ar y Gymraeg. O'r holl ymyriadau amrywiol a gafwyd ers *laith Pawb* (LICC, 2003), nid oedd HYIG *per se* (fel y'i diffinnir ym Mhennod 2) yn faes a adwaenwyd gan BYIG na LIC fel maes a allai gyfrannu'n sylweddol at gynhwysiant dinasyddion a meithrin a lledaenu disgwrs am adfywio'r Gymraeg. Ac eithrio'r buddsoddiad sylweddol yng nghynllun TWF, sydd ag elfen sylweddol o HYIG yn greiddiol iddo, nid ymdrinnir â HYIG fel ymyriad i'w weithredu yng nghyswllt y gymdeithas sifil.

Er hynny, mae'r sylw a roddir i HYIG mewn testunau polisi ieithyddol wrth gyfeirio ato fel ymyriad eilaidd wedi pwysleisio pwysiced yw cynllunio i'w ddarparu o fewn sefydliadau. Mae *laith Pawb* yn nodi bwriad i'w weithredu mewn rhai peuoedd galwedigaethol a gweithleoedd penodol. Datgenir yr eir ati i

weithredu rhaglen ymwybyddiaeth iaith ar gyfer yr holl staff a myfyrwyr ym mhob Ymddiriedolaeth GIG a sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru i helpu i ddatblygu dealltwriaeth o sensitifrwydd iaith fel factor wrth ddarparu gwasanaethau gofal iechyd (LICC, 2003:47).

Ac yn yr un ddogfen cyfeirir at brosiect 'ymchwil gofal iechyd' a gomisiynwyd, 'a fydd yn edrych ar lefelau ymwybyddiaeth iaith ar draws y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol' (Ibid. 47). Mae strategaeth ieithyddol ddiweddaraf y Llywodraeth, *laith Fyw: laith Byw*, yn cyfeirio at y budd a ddaw o gyflwyno HYIG mewn gweithleoedd, gan nodi

mae yna ychydig o dystiolaeth sy'n dangos bod hyfforddiant ynglŷn ag ymwybyddiaeth ieithyddol yn ffordd lwyddiannus o gynyddu agweddau positif *ymhlith gweithwyr a chyflogwyr* tuag at y Gymraeg (LIC, 2012a: 37. Ychwanegwyd yr italeiddio).

Yng Nghynllun Iaith cyfredol LIC ei hun hefyd, datgenir bwriad i gyflwyno HYIG i'w holl staff newydd yn ystod eu cyfnod cynefino. At hynny ceir ymrwymiad i ystyried sut orau i'w gyflwyno yn ogystal i'w staff presennol drwy ddefnyddio'r *Pecyn Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith* a ddatblygodd gyda BYIG (LIC, 2011a: 37).

Am yr angen i godi ymwybyddiaeth y tu hwnt i weithleoedd sefydliadau, mae *Iaith Fyw: Iaith Byw* yn cydnabod mai 'elfen a fydd yn hanfodol wrth roi'r strategaeth ar waith fydd codi ymwybyddiaeth o werth y Gymraeg'. Deil fod hyn eisoes yn 'rhan annatod' o waith 'llawer o'r sefydliadau' a fydd yn gweithredu'r prosiectau a'r mentrau a ddisgrifir yn y strategaeth. Ychwanegir y sylw canlynol

Serch hynny mae gan *weithgareddau marchnata a hysbysebu* rôl bwysig hefyd wrth hybu gwerth y Gymraeg ac annog y defnydd ohoni (LIC, 2012:51. Ychwanegwyd yr italeiddio).

Mae hyn yn adlewyrchu'r rhagdybiaeth a gwestiynwyd yn y drafodaeth uchod, sef y rhagdybiaeth y codid ymwybyddiaeth y tu hwnt i'r broses sefydliadol wrth i sefydliadau gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg a'i marchnata.

Trafodwyd ym Mhennod 2 sut y ffurfiolodd y Bwrdd rôl HYIG drwy gynnwys dangosydd amdano ymhlith ei ofynion i awdurdodau lleol ar gyfer monitro gweithrediad eu CIG. Er mai mewn cylchlythyr at awdurdodau lleol yn unig y cynhwyswyd y gofyniad hwn yn wreiddiol, sef cylchlythyr i'w cynghori ar ddiwygio eu CIG, buan y daeth yn arferiad i'r Bwrdd gynnwys yr un gofyniad yn ei gynghorion i gyrrff cyhoeddus eraill hefyd. O 2005 hyd ddiwedd cyfnod gweithredu'r Bwrdd yn 2012 felly, roedd disgwyliad i nifer sylweddol o gyrrff cyhoeddus ymateb yn flynyddol i ofyniad y Bwrdd am wybodaeth feintiol ynghylch 'Nifer a % staff sydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith' (BYIG, 2005a: 28). Roedd hyn yn ofyniad pellgyrhaeddol oherwydd ei botensial i symbylu cyflwyno HYIG i gryn niferoedd o'r gweithlu cyhoeddus.

Diffyg adnabyddiaeth o botensial ehangach HYIG

Serch y gydnabyddiaeth gan BYIG a LIC o bwysigrwydd HYIG, ni welir yn y testunau polisi unrhyw drafodaeth am ehangu'r defnydd o HYIG y tu hwnt i'w ddefnydd gan sefydliadau cyhoeddus ar gyfer eu staff mewnol. Er i arolwg ELWa ei ddiffinio fel gweithgaredd 'ar gyfer y rhai sy'n gweithio neu'n byw yng Nghymru' (Dafis *et al.* 2005:6), ymddengys nad oedd gwneuthurwyr polisi yn adnabod ei botensial ehangach fel dull ymwneud â'r gymdeithas sifil ar fater yr iaith.

Y prif reswm am y diffyg cynhyrchion polisi ac arweiniad ar HYIG, yn ôl cyn-Brif Weithredwr y Bwrdd, yw na feddai neb o staff nac aelodau'r Bwrdd ar arbenigedd mewn HYIG, na nemor brofiad ohono. A chan mai'r Bwrdd, yn rhinwedd ei

swyddogaeth fel y prif asiant cynllunio ieithyddol yng Nghymru, oedd prif gynghorydd y Llywodraeth ar bolisiâu a phrosiectau ieithyddol, golygai diffyg arbenigedd y Bwrdd na dderbyniai'r Llywodraeth hithau unrhyw arweiniad strategol ganddo ar HYIG (Jones, 2014).

Arwydd o'r diffyg arbenigedd hwn yw'r ffaith na chynigiodd y Bwrdd ddiffiniad yn yr un o'i destunau o'r hyn a olygai wrth HYIG, er iddo bwysu ar gyrff cyhoeddus i'w ddarparu. Ni cheir diffiniad ohono hyd yn oed yn y *Pecyn Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith* a gyhoeddodd yn 2008 ar y cyd â'r Llywodraeth, pecyn a gynhwysai ddau lawlyfr ynghyd â CD (BYIG / LICC, 2008).

Yn yr un flwyddyn ag yr ysgrifennodd at holl awdurdodau lleol Cymru i bennu ei ofyniad iddynt fonitro ac adrodd iddo'n flynyddol am 'Nifer a % staff sydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith' (BYIG, 2005a: 28), cyhoeddodd 'gynllun strategol'. Ni chynhwyswyd yn hwnnw, ymhlith yr amrywiol 'amcanion a thargedau', unrhyw gyfeiriad at lunio strategaeth HYIG na blaenoriaethu'r maes yn un i fuddsoddi ynddo (BYIG, 2005b).

Mae'n arwyddocaol hefyd fod y Bwrdd wedi cyhoeddi Strategaeth Farchnata yn 2004, ond na chyhoeddodd erioed Strategaeth Ymwybyddiaeth Iaith i roi arweiniad i'r holl gyrff y pwysai arnynt i ddarparu HYIG. O ganlyniad ni fuddsoddwyd yn natblygiad y maes ac ni feithrinwyd arbenigedd arno ymhlith staff y Bwrdd na staff y Llywodraeth.

Mewn cyfweiliad, ymhelaethodd cyn-Brif Weithredwr y Bwrdd ar ddau ffactor arall a esboniai ymwneud diffygiol y Bwrdd â'r maes. Yn gyntaf, roedd dwy asiantaeth arall yn flaenllaw yn y maes ac yn arddel ymagwedd 'berchnogol' at ei ddatblygiad. Roedd un o'r ddwy asiantaeth yn gorff - fel y Bwrdd ei hun - a noddid gan CCC, sef ELWa (Education and Learning Wales). Roedd ELWa wedi dechrau ymwneud â'r maes tua'r flwyddyn 2003, gan gomisiynu gwaith ymchwil arno ac yn ei hawlio fel maes a berthynai o fewn cwrpas ei gylch gorchwyl ef, yn rhinwedd ei swyddogaeth fel corff strategol arweiniol ym maes hyfforddiant. Yr ail asiantaeth oedd *laith*, ymgynghoriaeth annibynnol fasnachol, nid-am-elw, a'r unig grŵp sylweddol o arbenigwyr yn y maes yng ngolwg y Bwrdd. Ymddangosai i'r Bwrdd fod *laith* wrthi'n datblygu'r maes drwy *praxis*, a thrwy gynnull ymarferwyr ynghyd o dan yr enw 'Agwedd', a maes o law, 'Cynllunwyr Iaith Cymru' i rannu arfer da a thrafod datblygiad strategol a phroffesiynol o fewn y maes. Gan mai nifer bach o staff a oedd gan y Bwrdd ar y pryd, a neb yn eu plith yn arbenigo ar HYIG, dewisodd y Bwrdd hyrwyddo'r HYIG ymhlith cyrff cyhoeddus gan adael i ELWa arwain y gwaith ymchwil arno. Dewisodd adael i *laith*, a nifer bach o unigolion, barhau i ddatblygu'r maes a diwallu'r galw amdano (Jones, 2014). Gellir dehongli ymagwedd o'r fath yn un a

adlewyrchai ddull partneriaethol y Bwrdd o weithredu, a dull nodweddiadol o'r triongiant a ddisgrifiwyd gan Williams (2004: 6-7).

Yr ail ffactor a esboniai ymwneud diffygiol y Bwrdd â'r maes oedd natur sensitif yr hyfforddiant ei hun, a'i botensial i 'godi'r clawr' ar deimladau dyfnion, tensiynau rhwng pobl, ymatebion cryfion a phegynnu barn ynglŷn ag iaith. Cyfeiriai at elfennau megis trafod iaith fel arwydd o hunaniaeth, yr ymdeimlad o berthyn i grŵp penodol a lle penodol, sensitifrwydd am brofiadau a hanes personol a theuluol ac yn y blaen, Ni theimlai Prif Weithredwr y Bwrdd ar y pryd y gallasid sefydlu carfan fwy niferus o hyfforddwyr heb gynllunio strategol gofalus. Roedd yn ymwybodol bod rhaid sicrhau bod hyfforddwyr yn ddigon profiadol a medrus i allu rheoli sefyllfaoedd sensitif o'r fath, a sicrhau allbynnau positif o sefyllfaoedd hyfforddi a allai fod yn rym negyddol onis caent eu llywio'n effeithiol. Am y rhesymau a nodwyd, ni allasai'r Bwrdd roi arweiniad strategol o'r fath.

Wrth fwrw golwg yn ôl ar gyfnod y Bwrdd, gresynodd ei gyn-Brif Weithredwr na fuasai'n bosibl i'r Bwrdd roi mwy o sylw i ddatblygu a lledaenu HYIG, oherwydd y gwahanol gyfyngiadau uchod. Credai bellach y gallasai fod yn drywydd cyfathrebu mwy effeithiol a phellgyrhaeddol na'r hyn a ystyriai'n or-bwyslais parhaus ar farchnata:

I fi mae ymwybyddiaeth iaith a chysiau ymwybyddiaeth iaith yn llawer iawn mwy real, ac mae eisiau targedu hynna wedyn at rai [cyrff ac unigolion] sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn (Jones, 2014).

Ystyriwyd yn y bennod hon i ba raddau mae cynhyrchion polisi yn cyfrannu at gynhwysiant dinasyddion mewn disgwrs adfywio iaith. Dangoswyd bod yr ychydig o brosiectau sy'n cynnwys elfen ryngweithiol a rhyngpersonol sylweddol yn ffurfiau uniongyrchol ar ddisgwrs am arferion ieithyddol personol unigolion.

Am y cynhyrchion polisi eraill, ystyriwyd eu bod *i gyd* yn fodd i godi ymwybyddiaeth am y Gymraeg yn gyffredinol, i wahanol raddau uniongyrchol ac anuniongyrchol. Ond er mor ddylanwadol yw'r ymyriadau a drafodwyd, rhaid cwestiynu i ba raddau y gellid honni bod eu gwahanol ddulliau o godi ymwybyddiaeth am ddarpariaeth Gymraeg yn gyfystyr â chynnal disgwrs cynhwysol am ei hadfywio. A fuont yn gyfrwng i weithredu agweddau ar y 'doctrine of plenary inclusion' a ddisgrifiwyd gan Williams (2004) ac a fwriedid gan asiantau cynllunio ieithyddol y wladwriaeth? A defnyddio rhethreg y testunau polisi, a ydynt yn symbylu unigolion i 'gymryd perchnogaeth' ar y Gymraeg, 'rhannu'r weledigaeth' am Gymru ddwyieithog (LICC, 2003), a 'chreu'r amodau cywir... i'r defnydd o'r Gymraeg... ehangu a pharhau' (LIC, 2012a)?

Nodwyd arwyddocâd y ffaith bod BYIG a LIC ill dau, ynghyd â rhai cannoedd o sefydliadau cyhoeddus, wedi adnabod HYIG fel ymyriad eilaidd pwysig tuag at sefydliadolï'r Gymraeg. Ond serch hynny, methwyd ag adnabod ei botensial ehangach y tu hwnt i'r broses sefydliadoli. Er yr elfennau rhyngweithiol a disgyrsiol cryf a'i nodweddi yn ei gyswllt uniongyrchol â dinasyddion *yn eu gweithleoedd*, ni adwaenwyd ei botensial fel rhyngwyneb â dinasyddion *y tu allan i weithleoedd*. Nis adwaenid felly fel maes i fuddsoddi ynddo a'i astudio ymhellach, nac yn faes i'w ddatblygu'n strategol gan y Bwrdd na'r Llywodraeth fel cyfrwng i rannu a thrafod eu gweledigaeth am adfywio'r Gymraeg.

Yn y bennod nesaf cyflwynir tystiolaeth a ddengys y gall ffurf feirniadol ar HYIG fod yn borth mynediad i ddisgwrs gwybodus am y Gymraeg, a dadleuir y gallai hyn fod yn gyfraniad pwysig i'r model cynllunio ieithyddol a weithredir yng Nghymru.

Pennod 6:
Arolwg hyfforddeion a dderbyniodd HYFIG
- Methodoleg, canfyddiadau a dadansoddiad

Cyflwyniad

Yn y bennod hon cyflwynir a dadansoddir tystiolaeth a gasglwyd mewn arolwg hapsamplo o swyddogion 5 corff cyhoeddus a dderbyniodd HYFIG. Yn ategol i'r arolwg hwn, fel rhan o drionglant tystiolaeth am ddeilliannau HYFIG, cynhaliwyd arolwg ategol o sampl fechan o swyddogion a fuasai'n gyfrifol am drefnu hyfforddiant o'r fath ar ran 4 o'r 5 sefydliad hynny, ynghyd â 3 sefydliad arall. Cyflwynir canfyddiadau'r arolwg ategol hwnnw yn Atodiad 5.

Canolbwyntir yn y bennod hon ar yr arolwg hyfforddeion. Yn gyntaf, gosodir cefndir a chyd-destun yr arolwg, a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd, gan gynnwys esboniad am y dull samplo a disgrifiad o'r sampl ymatebwyr. Cyflwynir wedyn ganfyddiadau'r arolwg fesul cwestiwn, ynghyd â dadansoddiad o'u harwyddocâd. Croesgyfeirir hefyd at dystiolaeth o lenyddiaeth berthnasol, o'r arolwg ategol yn Atodiad 5, ac o ffynonellau ategol eraill, sef yn bennaf, gyfweiliadau â dau Brif Weithredwr yr oedd eu sefydliadau wedi cynnal HYFIG i'w staff, a chyn-Brif Weithredwr BYIG.

Dangosir yn gyntaf i ganfyddiadau'r arolwg hyfforddeion awgrymu y buasai lefelau gwybodaeth a disgwrs am y Gymraeg yn isel ymhlith yr hapsampl hon o weithlu'r sector cyhoeddus, er y sefydlogwyd y defnydd o'r Gymraeg yn y sector hwn dros y ddau ddegawd diwethaf. Ac yn ail, awgryma'r dystiolaeth fod mwyafrif yr hyfforddeion a dderbyniodd HYFIG wedi ymateb yn ffafriol iddo, a cheir nifer o ganfyddiadau sy'n amlygu'r canfyddiad hwn, a ategir hefyd gan y dystiolaeth o'r ffynonellau eraill a nodwyd.

Yng ngoleuni canfyddiadau'r arolwg a'r dystiolaeth o ffynonellau eraill y cyfeirir atynt yn y bennod hon a phenodau eraill, dadleuir o blaid adnabod ffurf feirniadol ar HYI fel porth mynediad gwerthfawr i ddisgwrs cynhwysol am yr iaith Gymraeg. Yn wyneb y prinder prif gynhyrchion polisi a chynhyrchion eilaidd i wireddu rhethreg polisi am gynhwysiant dinasyddion, delir y gallai cyfraniad HYFIG fod yn un allweddol bwysig at unioni'r diffyg hwnnw. Yn ogystal, mae iddo arwyddocâd ehangach. O adnabod ei botensial, gall fod yn ychwanegiad gwerthfawr dichonol at yr amrediad o brif ymyriadau'r model cynllunio ieithyddol a weithredir i adfywio'r Gymraeg.

Cefndir y trywydd ymchwil a'r cwestiynau ymchwil

Amlinellwyd ym Mhennod 2 sut y datblygwyd HYIG, ynghyd â'r deunyddiau dysgu sy'n sail iddo, mewn modd 'organig' wrth ymateb i ofynion cynllunio ieithyddol yng Nghymru, a hynny heb ddamcaniaeth arweiniol unedig. Hyd yn hyn, fodd bynnag, ni welwyd datblygu ochr yn ochr â hynny yn yr un modd organig raglen ymchwil empirig am HYIG. Cyfeiriwyd hefyd at yr unig arolwg o'r maes a gynhaliwyd hyd yma, a hynny yn 2004-05 ar ran ELWa (Education and Learning Wales / Dysgu ac Addysgu Cymru) (Dafis *et al.*, 2005). Seiliwyd yr astudiaeth honno ar ymatebion gan 147 o sefydliadau cyhoeddus i gwestiynau holiadur. Mynegwyd nod yr arolwg fel a ganlyn:

Dan adain swyddogaeth ELWa i ddatblygu hyfforddiant, fe'n comisiynwyd i gynnal arolwg o faes hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith [HYI] – yr hyn a ddarparwyd, a'r hyn sydd ei angen - yn y gweithle a'r gymuned. Y bwriad yw defnyddio canlyniadau'r ymchwil i gynorthwyo ELWa ac eraill i gynllunio rhaglenni HYI priodol, ac i ddatblygu'r maes yn fwy strategol. (Ibid. 6)

Trosolwg dechreuol defnyddiol oedd yr arolwg hwnnw a roes amlinelliad o'r gweithgarwch yn y maes ar y pryd a gofynion y maes at y dyfodol, ar sail canfyddiadau cynrychiolwyr sefydliadau am 'yr hyn a ddarparwyd, a'r hyn sydd ei angen'. Nid oedd o fewn cwmpas yr arolwg hwnnw i geisio gwybodaeth gan hyfforddeion o gwbl, nac ychwaith gan sefydliadau am eu hymateb hwy nac ymateb yr hyfforddeion i'r hyfforddiant a gafwyd. Hyd y gwyddys, nid oes unrhyw ganfyddiadau ymchwil ar gael o gwbl am yr agweddau hyn.

Wrth ddadlau bod HYFIG yn borth mynediad pwysig i ddisgwrs am y Gymraeg, gosodir ffocws gwahanol i'r hyn a gafwyd yng ngwaith Dafis *et al.* Gan mai un o elfennau allweddol HYIG yw cyflwyno gwybodaeth am y Gymraeg, dymunir canfod yn gyntaf beth yw canfyddiad y rhai sy'n derbyn HYIG am yr wybodaeth a dderbynasant am yr iaith cyn iddynt dderbyn HYIG. Rhaid ystyried a oes cyfryngau eraill heblaw HYFIG a allai gymell neu ysgogi trigolion Cymru i ymddiddori ac ymwneud ag agweddau ar y disgwrs cynllunio ieithyddol ynghylch y Gymraeg. Yr argraff gyffredinol a fynegwyd droeon gan amryw o swyddogion iaith a swyddogion hyfforddi cyrff cyhoeddus yw bod lefelau gwybodaeth a lefelau ymwybyddiaeth am y Gymraeg ymhlith y mwyafrif o staff eu sefydliadau yn tueddu i fod yn isel cyn iddynt ddod i'r sesiynau. Yn ôl yr un swyddogion, ymddengys mai prin yw'r cymhelliant a'r cyfleoedd rhyngweithiol ysgogol i niferoedd sylweddol o bobl ymwneud â disgwrs am y Gymraeg, ar wahân i HYIG.

Hyd yma, fodd bynnag, ni chafwyd tystiolaeth empirig y gellid troi ati i ganfod i ba raddau mae trigolion Cymru eisoes yn meddu ar wybodaeth ieithyddol a gafwyd

trwy gyfrwng cyfleoedd blaenorol i gaffael ac ymdrin â gwybodaeth o'r fath. Barnwyd felly fod angen casglu tystiolaeth empirig am hyn er mwyn deall beth yw'r lefelau gwaelodlin o wybodaeth ac ymwybyddiaeth ieithyddol ymhlith y boblogaeth a dargedir gan gynllunwyr ieithyddol sy'n ymwneud ag adfywio'r Gymraeg. Dyna'r dystiolaeth a geisiwyd yn nau gwestiwn cyntaf yr arolwg, a chasglu'r dystiolaeth hon oedd un o'r ddau brif gymhelliad dros gynnal yr arolwg.

Yn yr un modd gwelwyd bod angen casglu tystiolaeth empirig gan rai a dderbyniasai HYFIG am eu hymatebion iddo. Casglu tystiolaeth o'r math hwn oedd diben gweddill cwestiynau'r arolwg. Trwy gasglu a chloriannu ymatebion o'r fath gellir dyfnhau ein dealltwriaeth o werth a dylanwad posibl yr hyfforddiant fel ymyriad cynllunio ieithyddol. Mewn hinsawdd gyllidol lle mae adnoddau hyfforddi yn brin, cydnabyddir y gallai fod yn anodd i gynllunwyr ieithyddol roi pwys ar hyrwyddo HYFIG heb dystiolaeth o'i werth a'i ddylanwad dichonol fel ymyriad o bwys.

Er mwyn cyfrannu at unioni'r ddau ddiffyg tystiolaeth a ddisgrifir uchod, cynhaliais yr arolwg a ddisgrifir yn y bennod hon. Ystyriaf fod y dystiolaeth a gyflwynir yn y ddoethuriaeth hon am y ddwy elfen uchod yn gyfraniad sylweddol ac unigryw felly at gynyddu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth am y ddwy agwedd hyn ar y maes. Mae'r dystiolaeth feintiol ac ansoddol a gasglwyd trwy gyfrwng yr arolwg hwn yn cadarnhau gwerth a photensial y math hwn o hyfforddiant fel ymyriad cynllunio ieithyddol o bwys.

Crynhoir isod y ddau gwestiwn ymchwil y ceisiwyd eu hateb trwy gynnal yr arolwg hwn..

Dau gwestiwn ymchwil yr arolwg

- (iii) I ba raddau y derbyniasai hyfforddeion a dderbyniodd HYFIG wybodaeth ieithyddol flaenorol am y Gymraeg, yn ôl eu canfyddiad eu hunain? a
- (iv) Sut ymateb a enynnwyd gan HYFIG ymhlith hyfforddeion a'i derbyniodd, yn ôl eu canfyddiad eu hunain?

Methodoleg

Agweddau damcaniaethol ar fethodoleg

Man cychwyn yr arolwg oedd cydnabod y gallai'r niferoedd nid ansylweddol o weithwyr sector cyhoeddus sydd wedi cyfranogi o sesiynau HYIG o'r math beirniadol dros y blynyddoedd diwethaf fod yn ffynhonnell gwybodaeth a chanfyddiadau gwerthfawr i ddibenion yr ymchwil hwn.

Gyda hyn mewn golwg felly, cynhaliwyd arolwg hapsampl o rai a dderbyniodd HYFIG o'r math sy'n seiliedig ar y model a ddangosir yn Ffigwr 2.1, Pennod 2. Er y bu peth cymhwyso ar y rhaglen er mwyn ei addasu rywfaint yn ôl swyddogaeth amrywiol y swyddogion a'i derbyniodd, cyflwynwyd yr un elfennau craidd i bob grŵp.

Mae arolygon yn arfau a ddefnyddir yn eang ym maes ymchwil cymdeithasol. Er hynny, ceir cryn wahaniaeth barn o fewn y gymuned ymchwil am eu harwyddocâd a'u dilysrwydd, gyda dadleuon yn canolbwyntio yn aml ar gloriannu dilysrwydd y dulliau ymchwilio a ddefnyddir. Yn ôl Robson (2011:17) ceir dwy brif ymagwedd at ymgymryd ag ymchwil cymdeithasol, sef y dull meintiol a'r dull ansoddol o ymchwilio. Yn draddodiadol, ystyrid bod dulliau ymchwil meintiol a dulliau ymchwil ansoddol yn ddwy ymagwedd a berthyn i ddau baradeim ymchwil gwahanol (Kuhn, 1996).

Daliai ymchwilwyr a arddelai'r dull meintiol mai endid diriaethol yw'r byd o'n cwmpas ac y gellir canfod gwirioneddau gwrthrychol amdano. Wrth ymgymryd ag ymchwil meintiol felly mae ymchwilwyr yn tueddu i gadw ar wahân i'r gwrthrychau a astudir ganddynt er mwyn diogelu gwrthrychedd. Unig ddiben ymchwil o'r fath yw ceisio mesuriadau manwl gywir a dadansoddi cysyniadau targed i ateb y cwestiwn ymchwil. Ar ôl traddodiad Durkheim, lladmerydd cynnar cymhwyso'r dull hwn i faes cymdeithaseg, gall y dull hwn fod yn fodd hefyd i sicrhau gwrthrychedd gwyddonol a diduedd mewn allbynnau ymchwil wrth astudio ffenomenau cymdeithasol (Calhoun, 2002: 104). Bellach, fodd bynnag, ym maes y gwyddorau cymdeithasol cydnabyddir y rhoddid gormod o fri yn y gorffennol ar gasglu a dehongli gwybodaeth feintiol, ac na allai gwybodaeth o'r fath roi mewnwleidiad cyflawn i realiti cymdeithasol atebwyr, am na ellid treiddio i'r realiti hwnnw na'i grynhoi drwy arddel dull lleihadol o'r fath (Robson, 2011).

O'u rhan nhw, byddai lladmeryddion y dull ansoddol yn dadlau bod 'the world we see around us is the creation of the mind' (Walliman, 2011: 21-22). Cyflyrir canfyddiad yr unigolyn ohono wrth iddo ei ddehongli o'i leoliad o fewn ei *habitus* (Bourdieu, 1990). Rhydd *habitus* iddo 'fydolwg' gyda rhagdybiaethau, gwerthoedd, a daliadau penodol. Nid endidau niwtral felly mo'r ymchwilydd na'r sawl sy'n destun ei

ymchwil, ond bodau cymdeithasol. Gan hynny, ni all yr ymchwilydd eu hastudio'n wrthrychol o ryw safbwynt sydd y tu allan i gymdeithas, oherwydd mae'n rhan o'r realiti cymdeithasol a astudir ganddo. Felly, dull goddrychol yn bennaf yw ymchwil ansoddol. Mae'n ceisio deall ymddygiad dynol a'r ffactorau sy'n ei gymell. I raddau helaeth felly, gellir disgrifio'r dull ansoddol yn un deongliadol.

Ers rhai blynyddoedd gwelwyd tuedd gynyddol yn y gymuned ymchwil i gydnabod manteision cyfuno'r ddau ddull ymchwil (Robson, 2011), gyda'r ymagwedd ansoddol a'r ymagwedd feintiol yn ategu ei gilydd o wahanol bersbectifau damcaniaethol. Mae Ffigwr 6.1 yn crynhoi nodweddion y ddwy ymagwedd.

Er mwyn manteisio ar ragoriaethau'r ddwy ymagwedd at ymchwil, mae'r arolwg hyfforddeion a'r arolwg ategol yn Atodiad 5 yr astudiaeth hon yn cyfuno'r ddwy, ansoddol a meintiol. Gan fod y cwestiynau ymchwil sy'n sail i'r ddau arolwg yn anelu at gasglu tystiolaeth o *ganfyddiadau* ymatebwyr yn bennaf, ymagwedd ansoddol yw'r brif ymagwedd a fabwysiadwyd wrth lunio'r holiaduron, ac wrth ddadansoddi'r dystiolaeth a dderbyniwyd. At hynny, ceir agwedd feintiol ar y dull casglu data a'r dadansoddiad, wrth bwysoli mathau neu glystyrau o ymatebion gan ystyried arwyddocâd y pwysladau hynny.

Ffigwr 6.1: Nodweddion dau baradeim ymchwil: Ansoddol a Meintiol

	Qualitative	Quantitative
Hypothesis	Broad	Narrow
Description	Whole picture	Focused
Type of research	Exploratory	Conclusive

Ffynhonnell y tabl: Explorable.com (2009)

Dull dethol sampl

Roedd yr ymatebwyr i'r arolwg hyfforddeion yn staff cyrff cyhoeddus y trefnwyd HYFIG ar eu cyfer gan eu cyflogwyr. Dull gweithredu'r arolwg oedd bod yr ymchwilydd wedi manteisio ar arferiad y cyflogwyr dan sylw i gasglu adborth gan hyfforddeion ar 'ffurflenni adborth' a ddosberthid ar ddiwedd sesiynau hyfforddi. Gyda chaniatâd y cyflogwyr, lluniwyd fersiwn o ffurflen adborth a gyfunodd gwestiynau adborth arferol at ddibenion y cyflogwr a'r hyfforddwr, â chwestiynau ymchwil a

gynlluniwyd i gasglu tystiolaeth a fyddai'n cyfrannu at ateb y ddau gwestiwn ymchwil uchod.

Nid sampl o unigolion a ddewiswyd gan yr ymchwilydd oedd y sampl atebwyr felly. Yn hytrach, roedd aelodaeth y grwpiau hyfforddeion a gynhwyswyd yn y sampl wedi ei phenderfynu gan y cyrff cyhoeddus a drefnodd yr hyfforddiant. Trefnwyd y sesiynau hyfforddi yn unol â'u blaenoriaethau hyfforddi hwy ar y pryd.

Gan nad sampl strwythuredig a gynlluniwyd gan yr ymchwilydd ydoedd, nid oedd y sampl yn haenedig o ran oed, rhyw na ffactorau eraill a fuasai'n fodd i greu darlun manylach o'r unigolion yn y sampl. Yn hynny o beth, rhaid ei hystyried yn hapsampl o aelodau grwpiau a gynullwyd gan y sefydliadau dan sylw.

Y grŵp o unigolion a dargedwyd er ceisio ymatebion ganddynt oedd hyfforddeion a dderbyniodd HYFIG gan yr awdur hwn , yn gweithredu ar ran *laith*, rhwng Mai 2010 a Thachwedd 2013. Roedd yr hyfforddeion dan sylw yn swyddogion yn gweithio i bum corff cyhoeddus yng Nghymru. Cyfyngwyd y sampl i weithwyr sefydliadau yn y sector cyhoeddus oherwydd yn y sector hwnnw y gweithredir y Cynlluniau *laith* statudol, a gofynion gweithredol y Cynlluniau hynny yn bennaf sydd wedi esgor ar y galw am HYIG fel yr esboniwyd ym Mhennod 2.⁵⁰

Roedd y pum corff yn cynnwys tri Chyngor unedol, sef Cyngor Sir y Fflint yng Ngogledd-ddwyrain Cymru, Cyngor Sir Ddinbych hefyd yn y gogledd-ddwyrain a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn y gogledd-orllewin. Y ddau sefydliad arall oedd Cyngor Gofal Cymru sydd â'i brif swyddfa yng Nghaerdydd a swyddfa arall yn Llanelwy, a Phrawf Cymru a oedd ar y pryd â'i brif swyddfa yng Nghaerdydd a chanddo amryw o swyddfeydd lleol yn gweithredu mewn rhanbarthau eraill o Gymru. Cyflwynir disgrifiadau cryno o'r pum corff dan sylw yn Atodiad 1.

Roedd pob un o'r pum corff dan sylw wedi mabwysiadu ac yn gweithredu CIG statudol a gymeradwywyd gan BYIG yn unol â Deddf yr *laith* Gymraeg 1993.

Esbonnir isod y ffactorau a ddylanwadodd ar ddewis y 5 sefydliad uchod yr holwyd sampl o'u staff.

⁵⁰Ni chynhwysid y sector preifat o fewn cwmpas Deddf yr *laith* Gymraeg 1993, ond ceisiodd Bwrdd yr *laith* Gymraeg hyrwyddo arfer da dwyieithog yn y sector hwnnw mewn sawl dull a modd (Comisiynydd y Gymraeg, 2013:51-52). Yn y strategaeth ddrafft ymgynghorol *laith Fyw laith Byw* datganodd LICC yn Rhagfyr 2010, 'Ers i'r Bwrdd lansio'i dempled polisi *laith* Gymraeg gwirfoddol yn 2008, mae dros 350 o fusnesau yn y sector preifat wedi dewis mabwysiadu polisi *laith* Gymraeg.' (LICC, 2010b: 22) . Serch hynny, nododd Prif Weithredwr y prif asiantaeth HYI, *laith*, nad oedd unrhyw fusnes preifat o'r fath wedi gofyn i'r asiantaeth honno ddarparu HYI i'w staff rhwng 1996 a Thachwedd 2014 (Ioan, 2014).

Ffactorau a ddylanwadodd ar ddewis sampl o blith y grŵp targed

Wedi penderfynu casglu ymatebion o blith y grŵp targed o staff sefydliadau a gomisiynodd ac a dderbyniodd HYIG, bu amryw o ffactorau yn dylanwadu ar y dewis i'r ymchwilydd o'r union grwpiau o hyfforddeion i'w holi. Trafodir isod y ffactorau a arweiniodd at ddewis sampl o ymatebwyr a dderbyniodd HYFIG gan yr awdur hwn, yn gweithredu ar ran ei gyflogwr, *laith*.

Un o'r prif ffactorau a ddylanwadodd ar natur y sampl oedd y ffaith mai niferoedd cymharol fychain o weithwyr y sector cyhoeddus sy'n derbyn 'HYI' fel y'i diffiniwyd ym Mhennod 2, sef y math y dymunid ei drafod yn y traethawd hwn. Mae'n fwy cyffredin i weithwyr cyhoeddus dderbyn yr hyn a ddiffiniwyd ym Mhennod 2 yn 'hyfforddiant datblygu dwyieithrwydd' neu 'hyfforddiant arferion iaith'. Tystir i hyn yn y crynodeb atebion a gafwyd i gwestiwn 1 yr arolwg. Gofynnodd cwestiwn 1 i atebwyr y 5 corff dan sylw nodi'r prif fathau o wybodaeth flaenorol a dderbyniasent am y Gymraeg trwy gyfrwng hyfforddiant (gweler Ffigwr 6.1). Sylwer mai'r prif fathau o wybodaeth a gofnodwyd gan y rhai a dderbyniasai wybodaeth o'r fath drwy gyfrwng hyfforddiant, ar wahân i wybodaeth a gawsent yn yr ysgol, ar gyrsiau gloywi Cymraeg neu gyrsiau caffael y Gymraeg, oedd gwybodaeth briffio am weithredu'n ddwyieithog. Hynny yw, gwybodaeth a gawsent ar ffurf sesiynau hyfforddi neu sesiynau briffio byrion yn amlinellu gofynion y CIG yn ystod rhaglen anwytho staff; neu ganllawiau i'r perwyl hwnnw ar ffurf testunau; neu wybodaeth a roddwyd am y Gymraeg a gofynion dwyieithrwydd ar gyrsiau eraill megis cyrsiau ar faterion amrywioldeb neu gydraddoldeb.

Mae'r categori hwn o brif fathau o wybodaeth a gafwyd trwy hyfforddiant yn cyfateb yn fras i restr Dafis *et al.* (2005:13-14) o'r mathau o hyfforddiant a gyflwynwyd i staff gan y cyrff a ymatebodd i'w harolwg nhw. Nododd yr arolwg hwnnw 'mai ar gyfer y gweithle y darparwyd rhan helaeth iawn o'r hyfforddiant' (Ibid. :12) ac 'roedd yr HYI yn aml wedi ei ddarparu ar adeg mabwysiadu Cynllun neu Bolisi Iaith y sefydliad' Ibid. :16). Ychwanegodd mai 'swyddogion mewnol yw'r prif ddarparwyr' (Ibid. :12). Cydnabyddir ei bod yn bur debygol fod elfennau o'r hyn a ddiffinnir yma yn HYIG wedi gorgyffwrdd â'r mathau hyn o hyfforddiant briffio a chyfarwyddo. Serch hynny, awgryma'r dystiolaeth uchod nad trwy ddarpariaeth hyfforddiant mewnol y sefydliadau y cyflwynasid hyfforddiant ymwybyddiaeth fel y'i diffiniwyd ym Mhennod 2 uchod.

Trowyd felly at bosibilrwydd dethol sampl atebwyr a dderbyniodd hyfforddiant gan ddarparwyr allanol HYI. Amlygodd hyn gyfyngiad arall ar y dewis o sampl atebwyr oherwydd bu'n rhaid cydnabod mai lleiafrif yn unig o gyrff cyhoeddus Cymru sy'n dewis comisiynu darparwyr allanol i gyflwyno HYIG i'w staff, yn ôl Dafis *et al*

(Ibid.). Roedd hyn yn lleihau'n sylweddol nifer y darparwyr allanol y gallasid ystyried cydweithio â nhw i ddibenion yr ymchwil hwn. O'r 115 corff cyhoeddus a atebodd holiadur Dafis *et al.*, 'roedd 98 o'r atebion yn dangos bod yr hyfforddiant wedi ei ddarparu'n fewnol mewn rhyw ddull neu'i gilydd. "Swyddogion iaith' felly, neu swyddogion mewnol eraill megis rheolwyr cyfle cyfartal neu reolwyr gwasanaeth, a ddarparodd y rhan fwyaf o'r hyfforddiant, fel rhan o'u dyletswyddau i'w cyflogwr' (Ibid. :11). Yn ychwanegol at y ddarpariaeth fewnol, roedd 15 o'r 98 corff hyn 'wedi cyflogi darparwr allanol hefyd, ar o leiaf un achlysur, i hwyluso neu ategu'r gwaith mewnol' (Ibid. :11) ac y mae adroddiad Dafis *et al.* yn mynd rhagddo i restru 6 chategori o ddarparwyr allanol a oedd wedi cyflwyno HYIG o ryw fath i rai o staff y 15 sefydliad dan sylw. Y 6 chategori arall oedd:

'...Swyddogion mewn asiantaethau iaith 'swyddogol' – Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r Mentrau Iaith...

...Darlithwyr a thiworiaid, sy'n cynnwys elfen o ymwybyddiaeth iaith fel rhan gynlluniedig o'r cwrs [e.e. cyrsiau meddygaeth ym Mangor a Chaerdydd, a chyrsiau galwedigaethol megis gweinyddiaeth, dylunio a marchnata mewn sawl coleg addysg bellach]

...Unedau / unigolion mewn colegau sy'n cynnig gwasanaethau allanol hefyd, ac yn ymhél â HYI fel rhan o hynny [e.e. Canolfan Bedwyr, Coleg Prifysgol Cymru, Bangor; Canolfan Hybu Dwyieithrwydd, Coleg y Drindod; Uned Sgiliaith, Coleg Meirion Dwyfor].

...Busnesau – cwmnïau ac unigolion - sy'n arbenigo ym maes cynllunio iaith a gweithredu dwyieithog, ac yn darparu sesiynau HYI generig neu rai wedi eu teilwra i anghenion y client. O'r ymatebion, mae'n ymddangos mai llai na hanner dwsin sy'n ddarparwyr yn y categori hwn ar hyn o bryd.

...Busnesau sy'n cyffwrdd â'r maes fel rhan o'u priod waith, megis hyfforddi busnes neu gyfle cyfartal [e.e. Menter a Busnes (Potentia); Sglein, Chwarae Teg]. Maent yn cynnwys ymwybyddiaeth iaith yn eu rhaglenni hyfforddi a chynghori.

...Hyfforddwyr dysgu Gymraeg sy'n cyflwyno'r cwrs mewn dull sydd hefyd yn codi ymwybyddiaeth am le'r Gymraeg ym maes gwaith neu ardal y sawl a hyfforddir e.e. Coleg Prifysgol Morgannwg, Coleg Harlech [Cymdeithas Addysg y Gweithwyr], a Chanolfan Nant Gwrtheyrn' (Ibid. 10).

Gwelir o'r rhestr uchod mai cyflwyno elfen neu elfennau o HYIG fel un elfen mewn hyfforddiant ehangach sydd yn canolbwyntio yn bennaf ar faes arall

cysylltiedig, a wnâi mwyafrif y darparwyr hyn. Yr eithriadau amlwg yw'r ddau fath o ddarparwyr a oedd â hyrwyddo'r Gymraeg a dwyieithrwydd yn brif swyddogaeth graidd iddynt. Hynny yw, ar y naill law, swyddogion yr 'asiantaethau iaith 'swyddogol', sef BYIG gynt a'r Mentrau Iaith lleol, ac ar y llaw arall 'busnesau - cwmnïau ac unigolion - sy'n arbenigo ym maes cynllunio iaith a gweithredu dwyieithog, ac yn darparu sesiynau HYI generig neu rai wedi eu teilwra i anghenion y cleient'. Am y ddau 'asiant iaith swyddogol'- sef BYIG a'r Mentrau Iaith - ni feddai'r rhain ar arbenigedd mewn HYI fel y'i diffiniwyd ym mhennod 2, yn ôl cyn-Brif Weithredwr y Bwrdd, a oedd â gorolwg dros y maes yn ystod y cyfnod dan sylw (Jones, 2014). Am y categori olaf - 'cwmnïau ac unigolion', dywed Dafis *et al.*, 'o'r ymatebion, mae'n ymddangos mai llai na hanner dwsin sy'n ddarparwyr yn y categori hwn ar hyn o bryd' (Ibid. :10). Fodd bynnag o'r 'llai na hanner dwsin' a amcangyfrifwyd gan Dafis *et al.*, roedd rhai o'r mwyaf profiadol ac arbenigol yn eu plith wedi ymddeol erbyn i'r Bwrdd fynd ati i baratoi strategaeth ddrafft ar HYI yn 2006 (Jones, 2014). Felly, ymddengys mai'r unig asiantau allanol a ddarparai HYIG o'r math dan sylw i staff cynghorau unedol a chyrrff cyhoeddus oedd *Iaith* ac ychydig iawn o unigolion ar y mwyaf.

Roedd yn bur annhebygol hefyd fod y nifer hwnnw wedi cynyddu yn y cyfnod rhwng adroddiad Dafis *et al.* a'r cyfnod samplo sydd dan sylw yn yr ymchwil hwn (2010 - 2013). Yn wir, mae'n bosibl bod nifer yr asiantau o'r fath wedi lleihau, oherwydd yn y cyfnod yn arwain at ddi-ddymu BYIG roedd sefydliadau'n ymwybodol y deuai terfyn ar y pwysau arnynt i ddarparu HYIG. Gyda diddymu'r Bwrdd wedyn ar ddiwedd Mawrth 2012, daeth terfyn ar y pwysau hynny ac ar yr anogaeth ac arweiniad cyson 'oddi uchod' i gyrff cyhoeddus ddarparu HYIG i'w staff. A dyna yw'r sefyllfa o hyd. Fel y nodwyd eisoes, tueddai cyrrff cyhoeddus i ddehongli HYIG fel arf i hwyluso gweithrediad Cynlluniau Iaith yn bennaf, a chyda llai o bwyslais bellach ar CIG yng nghyfnod sefydlu'r Safonau Iaith, nid oes pwysau arnynt mwyach i ddarparu HYIG. Ar adeg ysgrifennu'r traethawd hwn ni w'yr sefydliadau cyhoeddus hyd sicrwydd a fydd y system Safonau Iaith yn pennu gofyniad iddynt i'w ddarparu⁵¹.

Gan hynny, bach iawn oedd nifer y darparwyr allanol HYIG y gellid bod wedi eu hystyried yn ddarpar bartneriaid ymchwil y gallasidcydweithio â nhw o bosibl ar y

⁵¹ Wrth i gyfnod paratoi'r traethawd hwn ddirwyn i ben cyhoeddwyd y gyfres gyntaf o Safonau drafft yn Nhachwedd 2014. Maent yn cynnwys un safon ddrafft sy'n cyfeirio'n uniongyrchol at HYIG. Safon atodol yw'r safon honno, sef safon 130(a) a ddywed 'Rhaid i chi ddarparu hyfforddiant i'ch cyflogeion er mwyn iddynt feithrin—(a) ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru). (LIC, 2014d:31). Ni ddaw'n hysbys tan fis Mawrth 2015 a fydd y safon ddrafft honno yn y fersiwn terfynol o'r Safonau, yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn y cyfnod Tachwedd – Rhagfyr 2014.

prosiect ymchwil hwn i gasglu ymatebion gan rai a hyfforddwyd ganddynt. O'r ychydig o rai arbenigol sy'n weithredol o hyd ac sydd â darparu HYIG yn rhan o'u swyddogaeth graidd, nifer llai eto sy'n hyfforddi o'r persbectif beirniadol sydd dan sylw yn yr ymchwil hwn, fel y dengys disgrifiadau Dafis *et al.* o'r mathau o hyfforddiant a gafwyd gan eu hatebwyr nhw: 'Gwelir...o'r atebion mai ar gyfer y gweithle y darparwyd rhan helaeth iawn o'r hyfforddiant' gan ddarparwyr allanol (Ibid. 11). Yng nghyd-destun yr adroddiad hwnnw, golygai 'hyfforddiant ar gyfer y gweithle' hyfforddiant ar egwyddorion a mesurau CIG neu bolisi iaith, gyda phwyslais ar y gofynion gweithredol, gweithdrefnau a threfniadau ymarferol sy'n berthnasol i staff. Ategir y canfyddiad hwn hefyd gan yr atebion a gafwyd i gwestiwn 1 yn yr arolwg hwn (gweler Ffigur 6.1 isod).

Oherwydd y cyfuniad hwn o ffactorau bernid mai disgwyliad afresymol o ran yr ymchwilydd hwn fyddai iddo allu canfod partner 'annibynnol' y tu allan i *laith* a fuasai'n fodlon gweithredu ar ei ran i gynnal yr arolwg hwn. Roedd y prosiect ymchwil yn gofyn am gyflwyno HYIG o'r math beirniadol prin i nifer arwyddocaol a sampl amrywiol o hyfforddeion. Golygai ddsbarthu holiaduron a neilltuo amser ym mhob sesiwn i gyflwyno'r holiadur ar lafar; esbonio ei bwrbas a gwahodd atebion iddo, a chasglu a diogelu'r holiaduron a gwblhawyd. At hynny, oherwydd prinder cymharol y gwaith HYIG a wneid gan ddarparwr allanol, casglwyd mai pur annhebygol fyddai'r posibilrwydd o gasglu sampl ddigon niferus o ymatebion o fewn y cyfnod penodol a bennid ar gyfer cynnal arolwg o'r math hwn. Dyma pam y gwelwyd ymestyn y cyfnod samplu dros gyfnod o 3 blynedd.

Yn wyneb y ffactorau hyn, penderfynwyd dewis ymatebwyr o blith staff rhai o'r sefydliadau a gomisiynodd HYIG gan *laith*. Gwnaed hynny am sawl rheswm. Anelid at holi rhai a dderbyniasai HYIG o fath beirniadol fel a ddisgrifir ym Mhennod 2. Gwyddys bod yr HYIG a ddarperir gan brif hyfforddwyr *laith* yn cynnwys cyfuniad o'r elfennau o ymwybyddiaeth feirniadol a ddisgrifiwyd yn y model a amlinellir yn Ffigur 2.1 ym Mhennod 2 uchod. Er nad oedd y sefydliadau dan sylw wedi gofyn yn benodol am hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r math beirniadol, roedd elfennau beirniadol yn greiddiol i'r rhaglen hyfforddiant a ddarparwyd iddynt gan *laith*. Er y gwyddys bod hyfforddwyr eraill yn cyflwyno elfennau o ymwybyddiaeth feirniadol yn eu darpariaeth, yn ystod y cyfnod oedd ar gael ar gyfer cynnal yr arolwg, bernid mai *laith* oedd fwyaf tebygol o hyfforddi'r niferoedd mwyaf. Seiliwyd y farn honno ar natur y cytundebau a ddyfarnwyd i *laith* am ddarparu HYIG yn y cyfnod dan sylw, fel yr esbonnir isod.

Ffactor arall o bwys wrth ddehthol sampl atebwyr oedd y dymunid i'r sampl gynnwys atebwyr a chanddynt amrywiaeth o swyddi mewn amrediad eang o feysydd gwaith. Penderfynwyd felly mai mantais fyddai cynnwys yn y sampl nifer arwyddocaol o weithwyr o fyd llywodraeth leol. Y sector hwn yw un o'r cyflogwyr mwyaf sylweddol yng Nghymru. Yn ogystal, fe geir o fewn awdurdodau lleol Cymru ystod amrywiol o adrannau gwasanaeth, unedau darparu a swyddi proffesiynol, technegol a gweinyddol. Hefyd y sector hwn yw un o'r rhai mwyaf cyfarwydd i mi yn rhinwedd fy swyddogaeth broffesiynol a phrofiad hirfaith o ymdrin ag ef, a bernid bod hynny'n gefndir gwerthfawr a defnyddiol i'r ymchwil.

Trwy gyd-ddigwyddiad ffodus, yn ystod cyfnod cynllunio'r prosiect ymchwil hwn bu i 3 awdurdod lleol, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir y Fflint, a Chyngor Sir Ddinbych, gomisiynu cyfresi sylweddol o sesiynau gan yr awdur hwn yn ystod y cyfnod astudio. Comisiynwyd 25 sesiwn gan y cyntaf, 14 sesiwn gan yr ail, a 4 sesiwn gan y trydydd yn ystod y cyfnod astudio. O ystyried tystiolaeth Dafis *et al.* (2005) am brinder cymharol y gwaith darparu HYIG a osodid i ddarparwyr allanol, roedd niferoedd y sesiynau hyfforddi i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir y Fflint yn benodol yn anghyffredin o uchel. At ei gilydd, roedd y niferoedd bwriedig o hyfforddeion yn y sesiynau hyn, ynghyd â'r 4 sesiwn i Gyngor Sir Ddinbych, yn cynnig posibilrwydd casglu nifer arwyddocaol o ymatebion o faes llywodraeth leol at ddibenion yr arolwg hwn.

Y ddau gorff arall yr holwyd eu staff oedd Prawf Cymru, corff yn y sector cyfiawnder troseddol lle'r oedd cryn lawer o waith datblygu dwyieithrwydd wedi ei gyflawni mewn cyfnod diweddar, a Chyngor Gofal Cymru; corff rheoleiddio'r sector gofal cymdeithasol, sector sy'n destun strategaeth genedlaethol bwysig a chyfredol (LIC, 2012b). Eto, roedd y rhain yn ddau faes a dau gorff cyhoeddus a oedd yn gyfarwydd i'r awdur hwn yn rhinwedd ei swyddogaeth broffesiynol.

Barnwyd felly y byddai holi hyfforddeion y sesiynau hyn a gyflwynid ganddo'n fodd i osod sylfaen feintiol gadarn i'r arolwg yn ogystal â sylfaen o dystiolaeth ansoddol werthfawr gan atebwyr amrywiol. At hynny, roedd amseriad yr hyfforddiant y bwriadai'r 5 corff dan sylw ei gynnal yn cyd-fynd ag amserlen fwriedig cynnal yr arolwg.

Ystyriaeth bwysig arall oedd y casgliad mai manteisiol fyddai dewis sampl o weithwyr a fyddai'n ymateb i sesiynau HYFIG a gynhaliwyd i gyd gan yr un hyfforddwr, a hynny er mwyn sicrhau cysondeb o ran y math o ddarpariaeth HYFIG y ceisiwyd ymatebion iddo. Barnwyd y byddai hynny'n fodd i osgoi hyd y gellid amrywiaeth yn y canfyddiadau a briodolid o bosibl i newidynnau mewn arddulliau cyflwyno a chynnwys y sesiynau. Gan mai *laith* oedd y darparwr, a chan mai'r awdur

hwn yw ei brif hyfforddwr HYIG ar gyfer y sector llywodraeth leol a'r sector cyfiawnder, ac yn un o ddau ymgynghorydd sy'n cyflwyno HYIG i'r sector gofal, efô oedd yr hyfforddwr yn y sesiynau y bu'r atebwyr yn bresennol ynddynt.

Oherwydd amseriad ffodus y gwaith comisiwn a grybwyllir uchod, a phrinder cymharol gwaith comisiwn o'r fath i gyrff allanol (Dafis *et al.*, 2005), barnwyd na fyddai neb arall o blith hyfforddwyr *laith* na hyfforddwyr eraill yn hyfforddi cynifer o weithwyr llywodraeth leol yn yr un cyfnod. Fe welir o hyn fod elfen gref o bragmatiaeth ynglŷn â'r dull anghyffredin hwn o ddethol sampl o atebwyr, sef dull a weithredwyd er mwyn casglu nifer arwyddocaol o atebion gan hyfforddeion a hyfforddwyd yn ystod y cyfnod astudio.

Cyfyd dau bwynt pwysig o'r cyfuniad o ffactorau a ddisgrifir uchod. Yn gyntaf, oherwydd ei swyddogaeth ddeuol i fel ymchwilydd ar y naill law, ac fel asiant oedd â chyswllt disgysiol a phroffesiynol â'r sawl a astudiwyd ar y llaw arall, mae rhywfaint o nodweddion ethnograffig i'r astudiaeth, a'r awdur hwn yn 'arsylwr cyfranogol' ynddi (Angrosino, 2007:xv). Bu'n ofynnol felly iddo gydbwysu'r dasg o gasglu a chyflwyno data yn wrthrychol â'r profiad goddrychol o symbylu a chymryd rhan mewn disgwrs ieithyddol â'r grwpiau sy'n destun yr arolwg hyfforddeion. Yn ail, mae'r ffactorau hyn yn ategu'r sylw a fynegwyd yn y Rhagair i'r traethawd hwn ynghylch cydnabod nad yw gwrthrychedd llwyr yn bosibl mewn astudiaeth o'r natur hon. Mae'n anochel y bydd persbectif yr awdur hwn a'i brofiadau i fel ymgynghorydd cynllunio ieithyddol yn dylanwadu rywfaint ar y modd y cyflwynir deilliannau'r ymchwil, am eu bod, wedi'r cyfan, yn ddehongliadau ganddo fel bod cymdeithasol.

Mae'r safbwynt hwn yn adleisio ac yn ategu barn a fynegwyd gan ieithyddion beirniadol blaenllaw megis Ricento (2007: 11-12) a May (20012:xii-xiv), a ddeil nad oes modd i unrhyw ymchwil i faes polisi ieithyddol fod yn wrthrychol, oherwydd symbylir a dylanwedir ar waith yr ymchwilydd gan ei werthoedd a'i bersbectifau ideolegol. Er hynny, ni raid i sefyllfa o'r fath fod yn broblemus. Wedi'r cwbl, ni rwystrodd ymchwilwyr rhag cyfrannu i'r cynnydd mewn llenyddiaeth academiaidd yn y maes ieithyddiaeth gymhwysol feirniadol. I gynorthwyo ymchwilwyr yn ymarferol i geisio adnabod a lleihau dylanwad tueddiadau unigolyddol o'r mathau a nodwyd uchod, mae Bloor (1997) a Padgett (1998) yn cynnig amryw o dechnegau i'w hystyried wrth gynllunio ymchwil. Ymhlith y technegau hynny nodir pwysigrwydd triongiant data a thriongiant methodoleg; ymgynghori â chyd-ymchwilwyr a derbyn adborth ganddynt; a sicrhau triongiant cymheiriaid cefnogol o'r fath. Dyma'r dulliau a ddefnyddiwyd, i raddau amrywiol, wrth ymgymryd â'r astudiaeth hon.

Proffil atebwyr

- Roedd yr atebwyr i gyd yn oedolion dros 18 oed a gyflogid gan y cyrff cyhoeddus dan sylw, ac eithrio rhai o stiwardiaid anghyflogedig Venue Cymru yn y sampl o staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (gweler y tabl yn Atodiad 3).
- Roedd yr holl swyddogion yn y sampl yn rhai yr oedd yn ofynnol iddynt gyflawni eu dyletswyddau yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg statudol eu cyflogwr, yn eu hamrywiaeth eang o swyddogaethau a sefyllfaoedd gwaith.
- Roedd yr hyfforddeion i gyd yn byw yng Nghymru.⁵²
- Roedd yr atebwyr i gyd yn hyfforddeion y trefnwyd HYIG ar eu cyfer gan eu cyflogwr.
- Roedd presenoldeb yr hyfforddeion yn y sesiynau yn ofynnol gan eu cyflogwyr, yn hytrach na dewisol.
- O ran y niferoedd yn y grwpiau hyfforddi, gofynnid i'r trefnwyr anelu at gynnull grwpiau o 10-14 unigolyn ar gyfer pob sesiwn hyfforddi. Dengys y tabl yn Atodiad 3 y niferoedd a fu'n bresennol yn y sesiynau unigol. Y nifer cyfartalog ym mhob sesiwn oedd 10.6.
- Ar gais yr hyfforddwr, ceisiodd y cyflogwyr gynnwys cymysgedd o siaradwyr Cymraeg a rhai di-Gymraeg ym mhob grŵp hyfforddi. Ni fu hyn yn bosibl bob amser, pan nad oedd siaradwyr Cymraeg yn digwydd bod ymhlith y rhai y dymunai'r cyflogwr eu hyfforddi, neu os nad oedd siaradwyr Cymraeg yn digwydd bod ar gael i dderbyn yr hyfforddiant ar y pryd.

Mae'r tabl yn Atodiad 2 yn cyflwyno teipoleg a ddisgrifia'n gryno y carfannau staff fu'n bresennol yn y sesiynau hyfforddiant, a'u niferoedd.

⁵² Wrth ddisgrifio'r holiaduron gofynnwyd i bob grŵp a oedd rhai yn eu plith nad oeddent yn byw yng Nghymru. Cafwyd ymhlith hyfforddeion Cyngor Sir y Fflint 5 unigolion nad oeddent yn byw yng Nghymru. Ni atebwyd yr holiadur gan yr unigolion hyn wedi imi esbonio na fyddai eu hatebion yn cael eu cynnwys yn yr arolwg.

Er mai hapsampl a ddetholid gan y cyflogwyr yn ôl eu blaenoriaethau hyfforddi staff oedd yr unigolion yn y sampl, credir bod y sampl yn weddol gynrychioladol o weithwyr cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Er bod tri o'r pum corff sy'n cyflogi'r atebwyr yn awdurdodau lleol, roedd swyddogaethau'r atebwyr o'r Cynghorau hynny yn rychwantu ystod eang o swyddogaethau rheolaethol, proffesiynol, technegol, a gweinyddol ar draws amrediad eang o wasanaethau cyhoeddus a ddarperid ganddynt.

Ni ellir tybio, fodd bynnag, fod yr atebwyr yn nodweddiadol o boblogaeth Cymru yn gyffredinol. Fel a nodwyd uchod, mae'r atebwyr i gyd yn gweithio i gyrff cyhoeddus sy'n gweithredu CIG statudol. Gan hynny, mae'n ofynnol iddynt i gyd fod yn ymwybodol o ddulliau cyflwyno gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd ar ran eu cyflogwyr, a sut mae mesurau penodol o fewn eu CIG yn berthnasol i agweddau perthnasol ar eu swyddi nhw. Gan hynny, gellir tybio bod y gweithwyr yn y sampl yn gynrychioladol o'r gyfran honno o weithlu Cymru sydd fwyaf ymwybodol o'r iaith Gymraeg a dwyieithrwydd yn gyffredinol.

Iaith y sesiynau hyfforddi

Defnyddid arferion defnydd iaith yr hyfforddwr yn y sesiynau HYI fel rhan o'r profiad dysgu a chodi ymwybyddiaeth.

Ar ddechrau pob sesiwn, cyn i bawb presennol ei gyflwyno ei hun, byddai'r hyfforddwr yn gofyn a oedd siaradwyr Cymraeg neu ddysgwyr y Gymraeg yn y grŵp. Esbonnid wedyn mai Saesneg fyddai prif iaith yr hyfforddwr yn y sesiwn, am mai dyna oedd dymuniad y sefydliad dan sylw, ond y byddai'r Gymraeg yn cael ei defnyddio ganddo yn ogystal. Datgenid yn Gymraeg, gan grynhoi wedyn yn Saesneg, fod croeso i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr yn y grŵp gyfrannu sylwadau a gofyn cwestiynau ar lafar yn Gymraeg, ac y byddai'r hyfforddwr yn rhoi cyfieithiad dilynol ar lafar i bawb arall petaent yn gwneud hynny. Anogid y siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i ddefnyddio rhywfaint o Gymraeg yn y sesiwn er mwyn dangos i weddill eu grŵp esiampl o ddwyieithrwydd ar waith, ac i'r rhai di-Gymraeg gael cyfle i glywed Cymraeg llafar mewn sefyllfa hyfforddi.

Esbonnid bod yr holl ddeunyddiau dysgu a ddosberthid yn ogystal â'r cyflwyniad *PowerPoint* ar y sgrin yn gwbl ddwyieithog.

Byddai'r hyfforddwr yn gwneud defnydd amlwg o Gymraeg llafar ym mhob sesiwn, gan gyflwyno rhai sleidiau *PowerPoint* yn ddwyieithog, cyfeirio sylwadau yn Gymraeg at y siaradwyr Cymraeg oedd yn bresennol o dro i droi, a chrynhoi yn Saesneg fyrddwn yr hyn a fynegwyd.

Ystyriaethau am y dull casglu gwybodaeth, a natur yr holiadur a ddefnyddiwyd

Casglwyd yr ymatebion yn y modd a ganlyn. Yn syth wedi cynnal sesiynau HYFIG i grwpiau o staff y pum corff cyhoeddus, dosbarthwyd holiadur dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) i'r hyfforddeion i gasglu eu hymatebion i gyfres o gwestiynau. Roedd y gyfres yn cyfuno cwestiynau 'adborth' arferol, at ddibenion eu cyflogwyr ac *laith*, â chwestiynau ymchwil at ddibenion yr ymchwil hwn. Roedd yr olaf yn dilyn dau drywydd holi penodol, sef trywyddau a gynlluniwyd er ceisio unioni'r ddau fath o ddiffyg tystiolaeth a ddisgrifir yn y ddau gwestiwn ymchwil uchod.

O ran natur yr holiadur a gynlluniwyd ar gyfer yr arolwg, ystyriwyd yn gyntaf bosibilrwydd cynllunio holiadur ymchwil cwbl bwrpasol i'r hyfforddeion i ddibenion yr ymchwil hwn yn unig. Fodd bynnag, barnwyd y buasai defnyddio holiaduron o'r fath yn broblemus yn y sefyllfaoedd dan sylw am sawl rheswm:

- Yn gyntaf, mae'n arferiad gan *laith* yn ogystal â'r cyrff uchod ofyn i bob hyfforddai gwblhau ffurflen adborth ar ddiwedd pob sesiwn. Fel arfer, ffurflenni a ddarperir gan Adran Hyfforddi neu'r Adran Bersonél / Adnoddau Dynol yw ffurflenni adborth y sefydliad, a defnyddir yr adborth a roddir gan hyfforddeion i werthuso pa mor ddefnyddiol ac effeithiol oedd yr hyfforddiant a sut y gellid ei wella. Diben tebyg sydd i ffurflenni adborth *laith*. Y dybiaeth, felly, wrth gynllunio'r arolwg oedd y byddai eisoes yn ofynnol i bob hyfforddai ateb o leiaf un – ac o bosibl, ddwy - gyfres o gwestiynau am y sesiwn HYIG.
- Yn ail, ar ddiwedd yr holl sesiynau a ddarparwyd i staff Cyngor Sir y Fflint, roedd eisoes yn ofynnol i hyfforddeion gwblhau 2 ffurflen arall - y naill yn ffurflen adborth i'r Cyngor ei hun a'r llall yn ffurflen fonitro i Lywodraeth Cynulliad Cymru, a oedd wedi cydariannu'r hyfforddiant. Byddai holiadur ymchwil pwrpasol yn ogystal â ffurflen adborth *laith* wedi codi nifer yr holiaduron adborth i 4.
- Yn drydydd, roedd staff Prawf Cymru a Chyngor Gofal Cymru yn ymwybodol y byddai'n ofynnol iddynt gwblhau ffurflen adborth y sefydliad yn fuan wedi'r sesiynau. Byddai defnyddio holiadur ychwanegol at ddibenion ymchwil, yn ogystal â holiadur *laith*, wedi codi nifer yr holiaduron i 3.

Wedi ystyried y ffactorau hyn i gyd felly, barnwyd mai gofyniad braidd yn feichus i hyfforddeion fuasai cwblhau holiadur ymchwil cwbl bwrpasol yn ychwanegol

at y ffurflenni adborth uchod. Barnwyd hefyd, oherwydd y ffactorau uchod, y byddai'r gyfradd ymateb i holiadur ymchwil pwrpasol yn debygol o fod yn isel.

Ystyriwyd hefyd bosibilrwydd dosbarthu holiadur ymchwil ar wahân, yn ychwanegol at y ffurflen(ni) adborth, gan ofyn i'r hyfforddeion ei gwblhau a'i anfon ymlaen atom yn ddiweddarach. Fodd bynnag, tybiwyd y buasai'r gyfradd ymateb yn debygol o fod yn isel am y byddai'r atebwyr eisoes wedi cyflwyno eu hymatebion i'r hyfforddiant trwy'r dulliau uchod, a gallent deimlo eu bod eisoes wedi rhoi adborth digonol a sylw digonol iddo.

O bwyso a mesur yr ystyriaethau hyn felly, a'r flaenoriaeth a roddwyd i sicrhau nifer arwyddocaol o ymatebion, barnwyd mai'r dewis mwyaf ymarferol ar y pryd fyddai defnyddio addasiad o'r ffurflen adborth ddwyieithog yr arferai ymgynghorwyr *laith* ei dosbarthu ar ddiwedd eu sesiynau hyfforddi. Y modd yr addaswyd y ffurflen oedd ychwanegu at y cwestiynau adborth arferol gyfres fer strwythuredig o gwestiynau ymchwil pwrpasol. Cafwyd caniatâd gan *laith* a chan y pum corff dan sylw i addasu'r ffurflenni yn y modd hwn ar gyfer y prosiect ymchwil. Yn ogystal, rhoddodd y pum sefydliad ganiatâd i'r awdur ddefnyddio ei holiadur ef un ai yn lle eu holiadur adborth nhw eu hunain, neu yn ychwanegol ato. Dylid nodi hefyd yr oedd pob un o'r pum sefydliad wedi dangos diddordeb yn yr ymchwil a chefnogaeth iddo.

O ganlyniad i'r ffactorau uchod, roedd yr holiadur a ddefnyddiwyd yn cynnwys 12 cwestiwn i gyd – sef cyfuniad o

- 5 cwestiwn ymchwil craidd at ddibenion y ddoethuriaeth hon yn unig
- 3 chwestiwn at y diben deul o gasglu gwybodaeth i'r cyflogwyr dan sylw ac i ategu canfyddiadau'r ymchwil hwn hefyd, a
- 2 gwestiwn a ofynnwyd i geisio gwybodaeth a fuasai'n ddefnyddiol i'r cyflogwyr ac *laith* yn unig
- 2 gwestiwn atodol at ddibenion yr ymchwil hwn.

At ddibenion yr arolwg hwn felly, ystyriwn y data a gasglwyd o'r ymatebion i 10 cwestiwn, gan anwybyddu'r data a gasglwyd at ddibenion y cyflogwyr ac *laith* yn unig.

Golygodd y dull hwn o ddylunio'r holiadur fod rhai cwestiynau yr arferir eu cynnwys ar holiaduron ymchwil cymdeithasol heb eu cynnwys ynddo. Ni chynhwyswyd, er enghraifft, gwestiynau yn gofyn i'r atebydd roi gwybodaeth am ei oed na'i ryw, na gwybodaeth a fyddai'n dangos i ba grŵp sosio-economaidd y perthynai. Hefyd, mae'n arferiad gan y cyrff dan sylw i'w ffurflenni adborth gael eu cwblhau'n ddienw a disgwyliad yr hyfforddeion yw y cânt fynegi sylwadau arnynt heb

i'w sylwadau gael eu priodoli wedyn iddynt hwy yn bersonol. Felly, er y gofynnwyd ar y ffurflen i hyfforddeion nodi rhai manylion personol - megis teitlau eu swyddi, eu cenedligrwydd ac a fedrent y Gymraeg, mae'n arwyddocaol y dewisodd mwyafrif yr atebwyr beidio ag ateb un neu ragor o'r cwestiynau hyn a allasai fod yn fodd anuniongyrchol posibl i'w hadnabod. Yn yr ystyr hon felly gellid ystyried y cafodd mwyafrif yr holiaduron eu cwblhau fel petaent yn ffurflenni adborth arferol gyda nifer o gwestiynau ymchwil ychwanegol arnynt.

Dosberthid copïau papur o'r holiadur ar ddechrau pob sesiwn ac eglurid bob tro nad rhan o'r deunyddiau hyfforddi mohono, ond ei fod yn holiadur ymchwil a gyfunai ychydig o gwestiynau adborth arferol â chwestiynau ymchwil ar gyfer ymchwil academiaidd personol yr hyfforddwr i faes ymwybyddiaeth iaith. Pwysleisid nad oedd yn orfodol ar neb ei gwblhau; y byddai'r holl atebion yn ddiennw ac y caent eu defnyddio at ddibenion yr ymchwil hwn yn unig ac ni chaent eu dangos i neb arall. Sonnid y byddai cyfle yn ystod yr egwyl neu cyn diwedd y sesiwn neu wedi iddynt ymadael â'r sesiwn i bawb ddarllen y cwestiynau cyn penderfynu a ddymument ateb y cwestiynau. Ychwanegid y gallai atebwyr ddewis ei ateb un ai ar ddiwedd y sesiwn, neu fynd â'r holiadur o'r sesiwn er mwyn ei ystyried ymhellach, gan ei gwblhau a'i bostio imi yn ddiweddarach pe dewisent wneud hynny. Cynigid hefyd y dewis arall o dderbyn copi electronig o'r holiadur gan yr hyfforddwr drwy e-bost, i'w gwblhau yn electronig a'i anfon ymlaen ato wedyn drwy e-bost, heb i'r atebydd nodi ei enw ar y ffurflen ei hun. Wedi i'r awdur dderbyn yr holiaduron a ddychwelwyd drwy e-bost, argraffwyd yr holiaduron dienw, a dilëwyd y negeseuon e-bost wedyn er mwyn diogelu cyfrinachedd yr atebion yn unol â rheolau moeseg ymchwil Prifysgol Caerdydd.

Dewisodd mwyafrif yr atebwyr gwblhau'r holiaduron yn y fan a'r lle cyn ymadael â'r ystafell hyfforddi. Aeth nifer bach â'r copïau papur gyda nhw i'w cwblhau wedyn a'u dychwelyd drwy'r post yn ddiweddarach. Bu i fwyafrif hyfforddeion Cyngor Gofal Cymru ddewis derbyn a dychwelyd yr holiadur yn electronig wedi'r sesiynau, yn unol â'r arferiad yn y sefydliad hwnnw. O'r nifer o hyfforddeion Cyngor Gofal Cymru a atebodd yr holiadur, bu i ychydig llai na hanner ohonynt ddefnyddio'r copïau papur i wneud hynny yn y fan a'r lle ar ddiwedd sesiwn.

Er cyfyngiadau'r dull hwn o gasglu ymatebion, a chyfyngiadau'r modd y cynlluniwyd yr holiadur, eu mantais oedd y buont yn fodd i sicrhau cyfradd ymateb dda. O'r holl rai a fu'n bresennol yn y sesiynau dan sylw (n=543) ymatebodd 68.9% (n=374) i'r holiadur. Dengys Atodiad 3 y gyfradd ymateb fesul sefydliad.

Cwestiynau'r arolwg

Nodwyd uchod yn yr adran flaenorol mai nod deublyg oedd i'r arolwg, sef casglu tystiolaeth am (i) ganfyddiadau hyfforddeion ynghylch pa wybodaeth ieithyddol flaenorol a dderbyniasent am y Gymraeg a (ii) sut roeddent wedi ymateb i'r HYFIG a gyflwynwyd iddynt. I gasglu'r dystiolaeth hon gofynnwyd 8 cwestiwn craidd a 2 gwestiwn ategol yn holiadur yr arolwg.

Cynlluniwyd y cwestiynau gyda golwg ar gasglu cyfuniad o dystiolaeth feintiol ac ansoddol, ac i'r diben hwn roedd y gyfres o gwestiynau yn cynnwys cyfuniad o gwestiynau agored a chwestiynau caeëdig. Atgynhyrchir yn Atodiad 4 fersiwn cyflawn o'r holiadur a ddsbarthwyd i hyfforddeion.

Dechreuwyd pob cwestiwn gydag ymholiad caeëdig, cyn gofyn ar ddiwedd y cwestiwn i'r atebydd ymhelaethu ar unrhyw ateb caeëdig a roesai. Bwriedid i'r cwestiynau gymell atebwyr i gyflwyno ymatebion goddrychol gonest. Roedd natur yr holiadur yn hwyluso hyn am ei fod yn addasiad o ffurflen adborth, ac mae'n arferiad i 'adborth' fod yn fodd i fynegi unrhyw sylwadau yn rhydd ac yn ddiarbed.⁵³ Gan nad oedd y ffurflenni'n gofyn am enwau'r atebwyr, a chan i lawer ohonynt beidio â dynodi eu swyddi ychwaith, mae hyn hefyd yn awgrymu y gallasent deimlo'n rhydd i fynegi unrhyw sylwadau.

Wedi dweud hynny, cydnabyddir ei bod yn anodd i unrhyw holiadur fod yn gwbl rydd o duedd atebwyr i ymateb yn ôl eu canfyddiad o'r hyn all fod yn 'gymdeithasol dderbyniol' yng ngolwg yr ymchwilydd (Cook a Sellitz, 1964: 39; Garrett, 2000: 44 – 45). Hefyd, yr ydys yn ymwybodol y gall 'tuedd yr ymchwilydd' fod ymhlyg yn y cwestiynau (Oppenheim, 1966). Wedi'r cwbl, cynhelir unrhyw ddadansoddiad cymdeithasegol o bersbectif *rhywun*, ac yn yr ystyr honno rhaid derbyn na all unrhyw ymchwil ansoddol fod yn ddiuedd (Becker, 1967: 245).

Am y rhesymau hyn, er mwyn profi dilysrwydd yr holiadur drwy driongliant ymagwedd, ceisiwyd barn a sylwadau tri ymchwilydd arall ar y cwestiynau cyn penderfynu ar fersiwn terfynol yr holiadur. Treialwyd yr holiadur wedyn mewn dwy sesiwn HYIG i gyflogwyr eraill cyn ei ddefnyddio ar gyfer yr arolwg hwn. Ni chynhwysir yn yr arolwg hwn yr atebion a gafwyd wrth wneud hynny.

⁵³ Cadarnhawyd mewn sgyrsiau gyda'r pum swyddog fu'n bennaf gyfrifol am drefnu'r hyfforddiant mai dyna yw'r arferiad yn dilyn unrhyw hyfforddiant mewn swydd a ddarperid gan y cyflogwyr dan sylw.

Atgynhychir isod eiriad dwyieithog y cwestiynau hynny a ofynnwyd ar gyfer yr ymchwil hwn, a hepgorir y cwestiynau a ofynnwyd at ddibenion eraill.

Cwestiynau 1 – 8 isod yw'r 8 prif gwestiwn. Nodir mai

- Y cwestiynau ymchwil craidd yw cwestiynau 1, 2, 3, 7 a 10.
- Cwestiynau i'r diben deulol o gasglu gwybodaeth i'r cyflogwyr yn ogystal ag i'r ymchwil hwn yw cwestiynau 4, 6 a 7.
- Cwestiynau ategol yw cwestiynau 9 a 10.

Noder nad yw'r drefn rhifo hwn yn dilyn yr un drefn ag a welir yn yr holiadur, am fod hwnnw'n cynnwys cwestiynau nad ydynt yn rhan o'r ymchwil hwn.

Cwestiwn 1

Cyn heddiw a gawsoch unrhyw hyfforddiant arall i gyflwyno gwybodaeth am yr iaith Gymraeg ichi? Os felly, pa fath o hyfforddiant, a pha bryd?

Prior to today have you have received any other training to present information on the Welsh language to you? If so, what kind of training, and when?

Cwestiwn 2

Ar wahân i unrhyw hyfforddiant a gawsoch, a oes unrhyw wybodaeth arall am yr iaith Gymraeg wedi ei chyflwyno ichi o'r blaen, un ai yn y gwaith neu'r tu allan i'r gwaith? Os felly, nodwch pa fath o wybodaeth, a pha bryd.

Apart from any training received, has any information on the Welsh language been presented to you previously, either at work or outside work? If so, please indicate what kind of information, and when.

- Yn y gwaith / *At work?*

- Tu allan i'r gwaith / *Outside work?*

Cwestiwn 3

Beth oedd elfen(nau) cryfaf yr hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith a gawsoch y tro hwn, a pham? *What was the strongest aspect(s) of the language awareness training you received this time, and why?*

Cwestiwn 4

A oedd cynnwys y cwrs yn berthnasol a defnyddiol i chi? Os felly, sut? *Was the course content relevant and useful to you? If so, how?*

Cwestiwn 5

A ydych yn meddwl y bydd yr hyfforddiant yn dylanwadu ar sut rydych yn delio â'r iaith Gymraeg –

Do you think that the training will influence the way you deal with the Welsh language –

(a) Yn eich gwaith o ddydd i ddydd? (Esboniwch). / *In your day to day work? (Please explain).*

(b) Tu allan i'ch gwaith? (Esboniwch). / *Outside your work? (Please explain)*

Cwestiwn 6

Sut yn eich barn chi mae'r hyfforddiant hwn yn cyfrannu at flaenoriaethau a gweithgareddau sy'n bwysig i'ch cyflogwr?

In your view, how does this training contribute to priorities and activities which are important to your employer?

Cwestiwn 7

Ydi'r hyfforddiant wedi eich gwneud yn ymwybodol o unrhyw fathau eraill o ddatblygiad proffesiynol sydd eu hangen arnoch chi? Os felly, pa fath(au) o ddatblygiad proffesiynol?

Has the training made you aware of any other types of professional development that you need? If so, what type(s) of professional development?

Cwestiwn 8

A ydych yn meddwl y bydd yr hyfforddiant yn dylanwadu ar y ffordd rydych yn meddwl am yr iaith Gymraeg yn gyffredinol? Rhowch esboniad os gwelwch yn dda.

Do you think that the training will influence the way you think about the Welsh language in general? Please explain.

Trwy gyfrwng y cwestiynau hyn casglwyd atebion a rydd gyfuniad o dystiolaeth feintiol ac ansoddol. Amlyga'r atebion i gwestiynau 1 a 2 ganfyddiad o waelodlin ymwybyddiaeth ieithyddol ymhlith y rhai a holwyd, yn ôl eu canfyddiad eu hunain. Amlyga'r atebion i gwestiynau 3 – 8 eu canfyddiadau am eu hymateb i'r hyfforddiant a gawsent.

Yn ogystal â'r cwestiynau penodol uchod, cynhwyswyd 2 gwestiwn ategol ar ddiwedd yr holiadur. Roedd y naill gwestiwn, sef yr olaf ond un yn yr holiadur, yn un penagored, sef:

Cwestiwn 9

Unrhyw sylwadau eraill ar y pwnc yma?

Any other comments on this subject?

Bu'r cwestiwn hwn yn fodd i gasglu gwybodaeth ychwanegol amrywiol sy'n ategu canfyddiadau ansoddol yr arolwg. Ni chyflwynir yn y bennod yma ddadansoddiad manwl o'r holl sylwadau amrywiol a gafwyd yn yr atebion i'r cwestiwn hwn, ond dyfynnir yn y testun amryw o'r atebion a gafwyd, er mwyn ategu agweddau perthnasol ar y drafodaeth.

Roedd y cwestiwn olaf fel a ganlyn:

Cwestiwn 10

Ac yn olaf, ticiwch os gwelwch i ddangos i ba gategori(au) rydych yn perthyn:

And finally, please tick to show which category/categories you belong to:

Cymro/Cymraes / *Welsh person*

Cenedligrwydd arall/ *Other nationality*

Siarad Cymraeg / *Welsh speaking*

Dysgu Cymraeg / *Welsh learner*

Categori arall (nodwch) / *Other category (please indicate)*

Defnydd cyfyngedig iawn a wneir yma o'r atebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn. Yr unig rannau o'r cwestiwn hwn y cyfeirir atynt yw'r atebion yn dynodi ai 'Cymro / Cymraes' oedd yr atebydd, ac a fedrai 'Siarad Cymraeg'. Unig ddiben ceisio'r wybodaeth hon oedd er mwyn i'r atebion iddynt fwrw peth goleuni pellach ar yr atebion i gwestiynau 1 a 2. Yn benodol, dymunid canfod (i) faint o'r rhai a ddynododd eu bod yn 'Gymry' ("Cymro/Cymraes / Welsh person") a gofnododd yn eu hatebion i gwestiynau 1 a 2 eu bod heb dderbyn unrhyw wybodaeth flaenorol am y Gymraeg; a (ii) faint o'r atebwyr a gofnododd eu bod yn 'Gymry'.

Oherwydd safon isel y data a gafwyd ynghylch yr agweddau eraill ar y cwestiwn hwn, ni chynhwysir ymdriniaeth â nhw yn y traethawd hwn.

Crynodeb a dadansoddiad o ganfyddiadau'r arolwg

Seilir canfyddiadau'r arolwg ar grynnodeb o'r atebion a gafwyd i'r 8 prif gwestiwn uchod. Noder nad yw niferoedd yr atebion a gafwyd yn cyfateb i nifer yr atebwyr oherwydd ni atebwyd pob cwestiwn gan bob atebydd. Tueddodd nifer yr atebwyr leihau o gwestiwn i gwestiwn. Hefyd, rhoddodd rhai atebwyr fwy nag un ateb i gwestiwn neu gwestiynau unigol.

Wrth ddadansoddi'r atebion i gwestiynau 3-8, fe'u crynhowyd fesul thema neu eiriau allweddol fel y dangosir ym mhob Ffigur.

Yn y drafodaeth ddilynol am gwestiynau'r arolwg a'r atebion a gafwyd iddynt, defnyddir y fersiynau Cymraeg yn unig o'r cwestiynau a'r crynodebau atebion.

Dalier sylw: Wrth ddyfynnu o atebion yn y drafodaeth isod, cyflwynir dyfyniadau mewn print italig. Hefyd, crynhoir ar ôl pob dyfyniad unrhyw wybodaeth a roddwyd gan yr atebydd amdano'i hun yn ei ateb i gwestiwn 10 a'r cwestiwn ar ddechrau'r holiadur yn gofyn am enw'r cyflogwr a theitl swydd yr atebydd. Gall gwybodaeth o'r fath gynnwys felly deitl swydd; enw'r cyflogwr; ai Cymro/Cymraes ynteu un o 'genedligrwydd arall' oedd yr atebydd; a yw'n siarad Cymraeg neu ddysgu Cymraeg, ac unrhyw sylw a roddwyd yn y categori 'unrhyw gategori arall'.

Ystyriaethau am gwestiynau 1 a 2

Aeth tros ddegawd heibio er pan gyhoeddwyd testunau a rhaglenni polisi a ragdybiai y byddai 'pobl Cymru' yn bartneriaid mewn disgwrs cynhwysol ynghylch gwerth a phwysigrwydd cynnal, defnyddio a chaffael y Gymraeg. Bwriad cwestiynau 1 a 2 yw bwrw goleuni ar i ba raddau y llwyddwyd i sefydlu lefelau gwybodaeth ieithyddol ymhlith y sampl atebwyr, ac a ellid ystyried hynny'n sail i gyfranogiad ganddynt mewn disgwrs gwybodus am adfywio'r Gymraeg, fel y bwriedid yn ôl y testunau polisi a adolygwyd.

Darluniai'r testunau polisi fodel adfywio ieithyddol seiliedig ar bartneriaeth, gyda'r dinesydd yn bartner mewn triongiant a gynhwysai hefyd y wladwriaeth a sefydliadau. I bartneriaeth o'r fath fod yn effeithiol, byddai'n rhaid bob un o dair ochr y triongiant wrth sylfaen wybodaeth gyffredin a chyd-ddealltwriaeth dda. Gan fod sefyllfa'r Gymraeg wedi ei sefydlogi o fewn sefydliadau, gellid tybio bod lefelau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth sefydliadau eisoes ar y lefel sy'n ofynnol, gan iddynt godi yn rhinwedd proses sefydliadoli defnydd y Gymraeg. Fodd bynnag, golygai heterogenedd y gymdeithas sifil nad mor hawdd fyddai rhannu sylfaen wybodaeth o'r fath gyda'r drydedd ochr hon i'r triongiant. Mae lleoliad yr atebwyr yn y darlun hwn yn ddiddorol: maent yn aelodau o'r gymdeithas sifil (trydedd ochr heterogenus y triongiant) ond hefyd yn weision cyhoeddus sy'n gweithio mewn peuoedd lle sefydliadolwyd y Gymraeg. Hynny yw, maent yn perthyn i ddwy ochr i'r triongiant. Gan hynny gellid tybio bod lefelau eu hymwybyddiaeth a'u gwybodaeth am y Gymraeg yn uwch nag a ganfyddid ymhlith cyd-ddinasyddion nad ydynt yn gyflogedig mewn sefydliadau cyhoeddus.

Anelai cwestiynau 1 a 2 at gasglu tystiolaeth am i ba raddau, yn ôl canfyddiad yr atebwyr, y derbyniasent wybodaeth ieithyddol flaenorol am y Gymraeg cyn derbyn yr HYFIG. Ceisiwyd cywain tystiolaeth fyddai'n bwrw goleuni ar unrhyw ffurfiau ar

wybodaeth a gafwyd, felly gwahaniaethid rhwng y ddau gwestiwn yn yr arolwg drwy ofyn yn y cyntaf

- a dderbyniasai'r atebydd unrhyw wybodaeth flaenorol am y Gymraeg *drwy gyfrwng hyfforddiant*,

ac yn yr ail gwestiwn gofynnwyd i'r atebydd

- a dderbyniasai unrhyw wybodaeth arall am y Gymraeg, *ar wahân i wybodaeth a gafwyd drwy hyfforddiant*.

Bydd dadansoddi'r atebion i'r ddau gwestiwn cyntaf hyn yn brif ddull o geisio ateb un o'r ddau gwestiwn ymchwil a symbylodd yr arolwg. Fel y nodwyd eisoes, hyd yn hyn ni chafwyd tystiolaeth empirig i awgrymu ai cywir ynteu anghywir yw'r argraff a fynegwyd yn aml gan hyfforddwyr a threfnwyr HYIG fel ei gilydd mai cymharol isel yw lefelau gwybodaeth blaenorol staff cyrff cyhoeddus am y Gymraeg. Gan fod y cwestiynau mor allweddol i'r ymchwil hwn felly, mae eu geiriad yn teilyngu peth trafodaeth.

Gofynnodd y cwestiwn cyntaf i atebwyr nodi a oeddent wedi derbyn gwybodaeth yn flaenorol am y Gymraeg, a hynny ar ffurf hyfforddiant yn benodol. Roedd yr ail gwestiwn yn gofyn a oeddent wedi derbyn gwybodaeth flaenorol am y Gymraeg mewn modd arall, heblaw drwy hyfforddiant, boed yn eu gweithleoedd neu y tu allan i'w gwaith. Bwriadwyd i'r ddau gwestiwn ysgogi atebwyr i gofnodi unrhyw fathau o gyfleoedd blaenorol a gawsant i gaffael gwybodaeth am y Gymraeg. Hefyd, bwriadwyd i'r cwestiynau fod yn fodd i gywain tystiolaeth am natur, lefel ac ansawdd y wybodaeth honno. Bydd y dystiolaeth a roddwyd yn yr atebion yn cyfrannu at ein dealltwriaeth o i ba raddau y gwiredwyd y 'doctrine of plenary inclusion' (Williams, 2004).

Wrth holi am 'hyfforddiant' a fuasai'n gyfrwng i 'gyflwyno gwybodaeth am y Gymraeg', cydnabyddir bod dehongliad yr atebydd o'r geiriau 'hyfforddiant' a 'chyflwyno gwybodaeth' yn allweddol i'w hatebion. Yn hytrach na gofyn cwestiwn agored gellid bod wedi cynnig rhestr aml-ddewis o fathau o hyfforddiant sy'n cynnwys cyflwyno gwybodaeth am y Gymraeg. Mantais dull o'r fath fyddai procio meddwl y darlennydd i adnabod a dynodi mathau o hyfforddiant a gafwyd a nas deuai i'r meddwl yn syth wrth ateb cwestiwn agored. Yr anfantais fyddai gorfod cynnig rhestr o wahanol ddewisiadau seiliedig ar fy rhagdybiaeth i am brofiadau posibl yr atebwyr.

Barnwyd yn y cyd-destun mai dull lleihadol fyddai hwnnw. Penderfynwyd felly ddewis y dull cwestiwn agored, a chadwyd at yr un dull wrth osod cwestiwn 2.

Nodaf ddau reswm arall dros ffafrio'r dull hwn ar gyfer cwestiynau 1 a 2. Yn gyntaf, yr hyn sy'n arwyddocaol am yr atebion i'r cwestiynau hyn yw eu bod yn adlewyrchu *canfyddiad* yr atebwyr am gaffael gwybodaeth am y Gymraeg yn flaenorol. Yng nghyd-destun y traethawd hwn, eu *canfyddiad* o fod wedi eu cynnwys mewn proses lledaenu gwybodaeth yw'r hyn sydd dan sylw, a chydabyddir y gall eu canfyddiad fod yn wahanol i'r hyn a brofasent mewn gwirionedd.

O ran dehongli'r geiriau 'hyfforddiant' a 'chyflwyno gwybodaeth' yng nghwestiwn 1, nodir bod yr atebwyr i gyd yn gyflogedig gan gyrff a roddai gryn bwys ar ddatblygu a hyfforddi eu staff mewn sawl dull a modd. At hyn, cyflwynwyd yr holiadur iddynt wedi 3.5 awr o hyfforddiant a gyfeiriodd at berthnasedd y Gymraeg i amryw o feysydd eraill y mae staff cyrff cyhoeddus yn ymwneud â nhw. Ceid cyfeiriadau yn y sesiynau at feysydd megis cyfle cyfartal, amrywioldeb, cynllunio a rheoli gwasanaethau, caffael neu wella sgiliau Cymraeg, cyflwyno gwasanaethau rheng flaen, a safonau gwasanaeth ymhlith materion eraill. Buasai'r atebwyr yn debygol o fod wedi profi, neu gael eu hysbysu, am wybodaeth a gyflwynid ar y pynciau uchod boed drwy gyfrwng cyrsiau hyfforddi ffurfiol, seminarau, neu gyflwyniadau, yn ogystal â sesiynau briffio, modiwlau gwybodaeth mewn sesiynau anwytho staff, neu ganllawiau ac arweiniad ar ffurf testunau. Bernid felly fod y cwestiynau, yn eu cyd-destun, yn rhai a fyddai'n debygol o brocio meddwl yr atebydd am unrhyw wybodaeth berthnasol a dderbyniasent drwy unrhyw fath o hyfforddiant. Mae'r amrywiaeth atebion a gafwyd yn awgrymu bod cwestiwn 1 wedi'i ddehongli yn y modd a fwriedid, ac ymddengys bod hyn yn cadarnhau priodoldeb a dilysrwydd ei eiriad.

Trown at gwestiwn 2, a ofynnodd 'Ar wahân i unrhyw hyfforddiant a gawsoch, a oes unrhyw wybodaeth arall am yr iaith Gymraeg wedi ei chyflwyno ichi o'r blaen, un ai yn y gwaith neu'r tu allan i'r gwaith?' Wrth holi am wybodaeth a gafwyd 'yn y gwaith neu'r tu allan i'r gwaith' bwriedid procio meddwl yr atebydd yn gyntaf am unrhyw ffurf ar wybodaeth a dderbyniasai mewn unrhyw sefyllfa gymdeithasol neu broffesiynol yn y gweithle. Ac yn ail, wrth holi am wybodaeth a gafwyd 'y tu allan i'r gwaith' bwriedid dwyn i'w gof unrhyw wybodaeth ieithyddol a dderbyniasai yn y peuoedd sy'n cynnwys y 'crucial nexus of intergenerational mother tongue transmission', sef 'home, -family, neighbourhood, community' (Fishman, 2001:467). Mae'r gofyniad hwn yn wahoddiad i feddwl yn eang. Eto, awgryma'r amrediad o atebion amrywiol a dderbyniwyd fod geiriad y cwestiwn wedi bod yn briodol a phwrpasol.

Mae Ffigyrau 6.1 a 6.2 yn crynhoi'r atebion a gafwyd i gwestiwn 1 a chwestiwn 2. Atebwyd y cyntaf gan 371 o'r 374 atebydd (99.2%), ac atebwyd yr ail gan 343 o'r 374 atebydd (91.4%).

Atebion i Gwestiwn 1

Fe welir bod mwy na hanner yr atebion i gwestiwn 1 (52.4%) yn cofnodi na chawsai'r atebwyr ddim gwybodaeth flaenorol am yr iaith Gymraeg ar ffurf hyfforddiant. Cofnododd yr atebwyr eraill eu bod wedi derbyn gwybodaeth o'r fath, ac ystyriwn isod y mathau o wybodaeth a gofnodwyd ganddynt.


Mynegodd 10.1% o'r atebion i gwestiwn 1 fod gwybodaeth am y Gymraeg wedi ei derbyn gan atebwyr fel gwybodaeth ategol neu gyd-destunol a gyflwynwyd gan hyfforddwyr ar gyrsiau caffael y Gymraeg neu gyrsiau gloywi Cymraeg. Nid oedd ac nid yw agweddau ar HYIG yn rhan ffurfiol o gwricwlwm cyrsiau'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion (CiO), y prif gydlynnydd darparwyr yn y maes. Ni chyfeirir o gwbl at HYIG ar eu prif wefan gyhoeddus (CiO, d.d.) nac ar wefannau'r chwe Chanolfan CiO unigol. Felly, mae'n debyg mai elfennau a gyflwynid ar ddisgresiwn yr hyfforddwr unigol oedd y wybodaeth y cyfeirid ati yn yr atebion hyn, gyda'r wybodaeth honno'n amrywio o ran ei hargaeledd, ei chynnwys a'i safon, a faint o bwys a roddid arni gan yr hyfforddwyr hynny a'i cyflwynai.

Datganwyd mewn 8.2% o'r atebion fod gwybodaeth am y Gymraeg wedi ei derbyn gan atebwyr drwy'u cyflogwyr, fel elfen o'r rhaglen anwytho / sefydlu staff, sef gwybodaeth mewn cyflwyniad byr yn amlinellu'r prif fesurau yng Nghynllun Iaith Gymraeg y sefydliad. Fel arfer buasai'r wybodaeth dan sylw yn cael ei chyflwyno mewn un o gyfres o gyflwyniadau byrion ar ddiwrnod hyfforddiant anwytho i staff newydd. O fewn y pum sefydliad dan sylw, buasai hyd y cyflwyniadau cryno ar Gynllun Iaith y sefydliad yn amrywio o 15 munud i 30 munud. Byddent yn canolbwyntio ar agweddau megis esbonio pwrpas y Cynllun; disgrifio'r trefniadau gweinyddol a chefnogol i'w weithredu, a'r gweithdrefnau ymarferol ar gyfer darparu gwasanaeth dwyieithog a chynnig dewis iaith i ddefnyddwyr gwasanaethau.⁵⁴


Cyfeiriodd 6.6% o'r atebion at wybodaeth a gafwyd yn yr ysgol, er enghraifft mewn gwersi Cymraeg, gwersi hanes neu wersi eraill. Er y sefydlwyd Cwricwlwm Cymreigi ysgolion Cymru yn dilyn Deddf Diwygio Addysg 1988, nid cwricwlwm yn yr

⁵⁴ Gwybodaeth a gyflwynwyd i'r awdur mewn sgysiau unigol â phrif drefnyddion yr HYIG a ddarparwyd i'r atebwyr.

Ffigwr 6.2: Atebion i Gwestiwn 1



Ffigwr 6.3: Atebion i Gwestiwn 2



ystyr arferol ydyw. Ym marn tasglu a sefydlwyd gan LIC yn 2012 i adolygu'r Cwricwlwm Cymreig, 'the term 'Cwricwlwm Cymreig' is a stumbling block, in the opinion of the task group. It is not a curriculum in itself, but an aspect of the National Curriculum' (LIC, 2013a: 8). Pery statws traddodiadol uchel y 'national curriculum' i ysgolion Lloegr a Chymru o fewn y system ysgolion. Pwrpas y Cwricwlwm Cymreig yw datblygu a chyflwyno agweddau Cymreig ar raglenni dysgu ar draws ystod pynciau'r cwricwlwm hwnnw. Ac ers cyflwyno'r Cwricwlwm Cymreig gwelwyd cynnydd yn y graddau y llwyddwyd i gyflwyno gogwydd Cymreig ar rai pynciau, yn arbennig hanes a daearyddiaeth, ond cynnydd anghyson a gafwyd, a hynny mewn rhai ysgolion yn unig ac i wahanol raddau o ardal i ardal. Yn gyffredinol, araf fu datblygiad yr ethos Cymreig a'r dimensiwn Cymreig ar bynciau y ceisiai'r Cwricwlwm Cymreig eu sefydlu. Mewn adroddiad a gyhoeddwyd gan LIC yn 2013 nodir:

that there are wide variations in schools' attitudes towards the Cwricwlwm Cymreig. Not all schools understand the requirement that the Cwricwlwm Cymreig be relevant and meaningful to learners. (...) Many schools:

- limit it to some subjects only, for example Welsh as a subject, expressive arts (such as music and art) and history
- treat it as an addition to the 'real' programme of study, first devising their schemes of work, and then adding elements of the Cwricwlwm Cymreig afterwards (LIC, 2013a:6).

Dengys yr adroddiad fod cryn waith i'w wneud o hyd i wreiddio ethos Cymreig o fewn addysgeg ysgolion Cymru, chwarter canrif wedi sefydlu'r Cwricwlwm Cymreig. Ceir darlun o gwricwlwm a ymleiddid hyd yn hyn, ochr yn ochr â'r 'gwir' gwricwlwm craidd ar gyfer ysgolion Lloegr a Chymru.

Sylwer hefyd mai dyfyniad o adroddiad am y sefyllfa gyfredol yw'r uchod. Gan fod atebwyr yr arolwg hyfforddeion i gyd dros 18 oed pan atebwyd yr holiadur ganddynt, buasai'r sefyllfa o ran ethos Cymreig ysgolion yn llai datblygiedig byth pan oeddent hwythau mewn oedran mynychu ysgol. Oherwydd y ffactorau uchod, mae'n debygol bod y 6.6% o atebion a gofnododd i atebwyr gaffael gwybodaeth yn yr ysgol yn cyfeirio at wybodaeth a gyflwynid iddynt yn ôl goleuni ysgolion penodol ac athrawon unigol. Byddai'r cyfryw wybodaeth wedi amrywio'n fawr felly o ran ei chynnwys a'i safon, a faint o bwys a roddid arni gan yr ysgolion a'r athrawon hynny a'i cyflwynai. Mae'n bwysig nodi hefyd fod gwybodaeth o'r fath wedi ei chaffael yn y cyfnod cyn i'r atebwyr droi'n oedolion a chyn iddynt ddechrau gwneud penderfyniadau ieithyddol allweddol megis sefydlu patrwm defnydd iaith â chymar; sefydlu iaith yr aelwyd a pha iaith a siaradent â'u plant; a dewis ysgolion i'w plant.

Felly buasai eu hymateb i unrhyw wybodaeth ieithyddol a dderbyniasent, ac unrhyw ymwneud dilynol â gwybodaeth o'r fath, yn wahanol, efallai, i'r modd y buasant wedi ymateb iddi petaent wedi ei derbyn maes o law a hwythau yn oedolion.

Mynegodd 5.1% o'r atebion fod atebwyr wedi derbyn gwybodaeth ieithyddol ar gyrsiau addysg uwch. Roedd y sampl yn cynnwys, ymhlith staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a staff Cyngor Sir Ddinbych, nifer o weithwyr cymdeithasol dan hyfforddiant a gofrestrid yn fyfyrwyr ar gwrs gradd mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol ym Mhrifysgol Bangor. Cynhwysai'r cwrs hwnnw fodiwl dewisol yn 'Gyflwyniad i Gynllunio Ieithyddol' ynghyd â modiwlau eraill yn ymdrin ag ymarfer ieithyddol sensitif. Cafwyd hyfforddeion eraill a fuasai'n astudio Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol, cwrs cyfrwng Cymraeg sy'n cynnwys elfennau ieithyddol tebyg, eto ym Mhrifysgol Bangor.⁵⁵ Roedd yr elfennau hyn o HYIG yn cael eu cyflwyno mewn rhaglenni academaidd a gyfeiriai at waith ymchwil perthnasol, gyda seminarau'n cynnig cyfleoedd i archwilio a thrafod yr agweddau ar ymwybyddiaeth. Dichon felly mai'r categori hwn o atebion yw'r un a nodweddid gan yr ymdriniaeth feirniadol debycaf i'r hyn a nodwedda'r sesiynau HYFIG, fel y'i diffinnir ym Mhennod 2.⁵⁶

Datganwyd mewn 4.8% o'r atebion fod atebwyr wedi derbyn gwybodaeth am y Gymraeg drwy gyfrwng HYI gan gyflogwr neu drwy gyflogwr. Yn eu harolwg nhw o HYIG a ddarparwyd gan gyflogwyr, dangosodd arolwg Dafis *et al.* (2005) mai ffurfiau anfeirniadol ar wybodaeth oedd y mathau mwyaf cyffredin o HYI a gyflwynid i staff cyrff cyhoeddus yn y cyfnod dan sylw. Yn anad dim, hyfforddiant ydoedd a gyflwynai egwyddorion a mesurau Cynllun Iaith, cyflwyno'r cysyniad o weithredu'n ddwyieithog, codi statws yr iaith o fewn sefydliadau, trafod 'dewis iaith' fel mater 'gofal cwsmer' a chyfarwyddiadau ar y gweithdrefnau cysylltiedig â darparu gwasanaethau dwyieithog (Dafis *et al.*, 2005: 14)⁵⁷.

Roedd y ffynonellau gwybodaeth eraill a nodwyd yn yr atebion yn cynrychioli llai na 4% o'r atebion, ac er mwyn osgoi gor-fanylder nis trafodir yma.

⁵⁵ Gwybodaeth a gyflwynwyd i'r awdur mewn sgysiau unigol â'r swyddogion a drefnodd yr HYIG ar ran Cynghorau Conwy a Dinbych.

⁵⁶ Cyfeiriodd Dafis *et al.* at gyrsiau eraill a gynhwysai elfen o HYIG, yn ôl eu diffiniad eang nhw o'r term. Yn eu plith nodwyd cyrsiau meddygaeth ym Mangor a Chaerdydd, a chysiau galwedigaethol megis gweinyddiaeth, dylunio a marchnata mewn sawl coleg addysg bellach' Cynhaliwyd yr arolwg hwnnw yn 2004-05 (Dafis *et al.*, 2005:10).

⁵⁷ Gweler hefyd y dadansoddiad pellach o arolwg Dafis *et al.* ym Mhennod 2 uchod, ac yn adran Methodoleg y bennod hon.

Atebion i Gwestiwn 2

Mynegodd 26.8% o'r atebion nad oedd dim gwybodaeth am y Gymraeg wedi ei chyflwyno i'r atebwyr yn flaenorol ar wahân i hyfforddiant, un ai yn y gwaith neu y tu allan i'w gwaith.

O'r atebion eraill a ddatganodd fod yr atebwyr wedi derbyn gwybodaeth o'r fath, roedd cyfran helaeth o'r atebion yn nodi bod y cyfryw wybodaeth wedi ei derbyn o'r un ffynonellau ag a nodwyd yn yr atebion i gwestiwn 1. Yn y categori hwn cynhwysir y 25.4% o'r atebion i gwestiwn 2 a fynegodd mai arweiniad a gafwyd ar weithredu CIG cyflogwr oedd y wybodaeth a gafwyd, a hynny ar ffurf testun neu ar lafar. Cyfeiriodd 8.1% o'r atebion at wybodaeth a gyflwynwyd i'r atebwyr yn yr ysgol, er enghraifft mewn gwersi Cymraeg, gwersi hanes neu wersi eraill, a chyfeiriodd 5.4% o'r atebion at wybodaeth a gyflwynwyd yn ystod cyrsiau caffael y Gymraeg neu gyrsiau gloywi Cymraeg. Crybwyllodd 4.6% arall o'r atebion fod gwybodaeth wedi ei derbyn fel rhan o gwrs addysg uwch. Trafodwyd arwyddocâd y categorïau hyn uchod.

Roedd pob ffynhonnell arall a nodwyd yn cynrychioli llai na 5% o'r atebion. Yn eu plith mynegodd 4.6% o'r atebion mai trwy'r amgylchedd lleol neu'r amgylchedd yn y gweithle roedd yr atebwyr hyn wedi derbyn gwybodaeth am y Gymraeg, tra cyfeiriodd 4.6% arall o'r atebion at wybodaeth a gafwyd yn rhinwedd cefndir teuluol a/neu gymdeithasol yr atebwyr. Crybwyllwyd amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth eraill, a phob un yn cynrychioli canran fechan o'r holl atebion, a chrynhwir y rhain gyda'i gilydd yn y golofn 'Eraill' yn Ffigur 6.2.⁵⁸

O gymharu'r atebion a gafwyd i gwestiwn 1 â'r atebion a gafwyd i gwestiwn 2, cafwyd bod 44 atebydd (11.8%) wedi ateb "Na, dim" i bob un o'r ddau gwestiwn hyn, gan ddynodi nad oeddent wedi derbyn unrhyw wybodaeth flaenorol o gwbl am yr iaith Gymraeg boed ar ffurf hyfforddiant neu fel arall.

Trwy groesgyfeirio rhwng yr atebion hyn a'r atebion a gafwyd i'r cwestiwn ategol rhif 10, gwelwyd bod 17 (38.6%) o'r 44 a atebodd "Na, dim" i gwestiynau 1 a 2 wedi dynodi hefyd eu bod yn Gymry (sef 'Cymro/Cymraes / Welsh person'), sef 4.5% o'r holl atebwyr. Rhaid pwysleisio, fodd bynnag, na ellir rhoi llawer o bwys ar y canfyddiad hwn am fod yn agos i draean o'r atebwyr (30.2%, n=108) wedi dewis peidio ag ymateb i'r cwestiwn am eu cenedligrwydd, a oedd yn rhan o gwestiwn ategol 10.

⁵⁸ Maent yn amrywio o wybodaeth a gafwyd fel rhan o hyfforddiant ar amrywioldeb neu gydraddoldeb (3.5%); gwybodaeth brintiedig a gafwyd er enghraifft mewn taflenni, pamffledi a chyhoeddiadau tebyg (2.7%); gwybodaeth a gafwyd trwy gysylltiad atebwyr ag uned iaith Gymraeg neu uned gyfieithu eu cyflogwr (2.1%) a gwybodaeth a gafwyd trwy'r wasg, y teledu, y radio neu'r rhyngwydd (2.1%).

Sylwir mai canran fechan iawn o'r atebion i gwestiwn 2 sy'n cyfeirio at wybodaeth a gafwyd drwy'r cyfryngau torfol. Hyd yn oed wrth grynhai gyda'i gilydd atebion a gyfeiriodd at dderbyn gwybodaeth o'r teledu, y radio, y wasg a'r we, ni chynrychiola'r clwstwr hwn o atebion ond 2.2% o'r holl atebion. Mae sylw a thrafodaeth drwy'r cyfryngau torfol yn ffactor allweddol mewn sicrhau amlygrwydd ac ymwybyddiaeth eang i faterion cyfoes penodol. O'i gymharu â'r sylw a roddir i amrywiaeth eang o faterion eraill gan y cyfryngau, megis tor-cyfraith, mewnfudo, newid hinsawdd ac enwogion y dydd, mae'r sylw a roddir i faterion yn ymwneud â'r Gymraeg yn bitw o ran ei faint, ei amllder a'i sylwedd.

At hynny, bu dylanwad y cyfeiriadedd hegemoniaidd Seisnig sy'n nodweddu'r cyfryngau Prydeinig yn destun ymdriniaethau gan amryw o sylwebyddion (Osmond, 1992; Barlow 2005; Davies,1994; Williams, 1997, Mackay a Powell, 1997). 'Not surprisingly, mention of the media in Wales is likely to trigger accusations of misrepresentation' (Barlow, 2005: 108). Mae goblygiadau pellgyrhaeddol i'r modd yr hepgorir cynrychioliadau o hunaniaeth Gymreig, ffactor a arweiniodd, yn ôl Osmond (1995:118) at y 'lack of cultural confidence' yng Nghymru.

Mater arall y tyn Barlow sylw ato yw prinder y cyfryngau Cymreig sy'n cyflwyno persbectif Cymreig ar newyddion a materion cyfoes ar y naill law, a'u diffyg poblogrwydd eang ar y llaw arall. Cyfeiria hefyd at ystadegau a drafodwyd gan y Pwyllgor Materion Cymreig yn 1999 yn honni bod 'only 13 per cent of the population read newspapers produced in Wales, and 14 per cent choose not to watch Welsh television' (Barlow, 2005: 202). Ac am y rhai sy'n darllen papurau newydd ychwanega fod 'this leakage of readers and viewers (...) highlights matters of a democratic nature, particularly if "leakage" is reframed as information deficit' (Ibid. : 202). Yn y cyfamser, gwelwyd cynnydd sylweddol mewn cyfryngau digidol a gwelwyd lluosî'r dewisiadau o ffynonellau gwybodaeth aml-blattform sydd ar gael. Ar ystod y dewisiadau cyfryngol sydd ar gael felly, lleihawyd yn gymharol amlygrwydd cyfran y ffynonellau cyfryngol 'Gymreig' (a Chymraeg) sydd ar gael. At hynny, mae dylanwad newyddion teledu a rhaglenni materion cyfoes a gynhyrchir yn Lloegr yn brif ffynhonnell gwybodaeth i lawer yng Nghymru. Tynnodd rhai sylwebyddion sylw at duedd ymhlith llawer o drigolion gogledd-ddwyrain Cymru i uniaethu â rhanbarth gogledd-orllewin Lloegr a gwylio sianelau teledu'r rhanbarth hwnnw, gan gynnwys newyddion teledu, yn hytrach na darllediadau newyddion o Gymru (Thomas,2005:95; Evans 2007:132).

Bu craffu cynyddol ar oblygiadau'r cyfryw 'information deficit,' ynghyd â chyfeiriadedd hegemoniaidd y cyfryngau, i'r gymdeithas sifil yng Nghymru. Trafodwyd, er enghraifft, eu dylanwad ar batrymau pleidleisio a diddordeb dinasyddion yn etholiadau CCC a strwythurau llywodraethiant Cymru yn y cyfnod ôl-

ddatganoli (gweler er enghraifft Scully, Wyn Jones a Trystan, 2004). Tynnodd y Comisiwn Etholiadol sylw at y wybodaeth annigonol a gyhoeddid ym mhapurau newydd Cymru am Etholiadau CCC yn 2003 (Electoral Comisiwn, 2003). Diau fod y cyfryw 'information deficit' ynghyd â'r ffactorau eraill a nodwyd wedi cyfrannu at ymyleiddio rôl y cyfryngau mewn lledaenu gwybodaeth am y Gymraeg i'r atebwyr.

Ffactor arall sy'n brin yn yr atebion i gwestiwn 2 yw unrhyw gyfeiriadau at wybodaeth yn deillio o brif asiantau cynllunio ieithyddol y wladwriaeth a'u hymyriadau. Ymhlith yr atebion yn y categori 'gwybodaeth brintiedig (e.e. taflenni)' (2.7% o'r atebion), cafwyd ychydig o gyfeiriadau at wybodaeth a dderbyniwyd drwy brosiect TWF ond ni chyfeiriodd yr un atebydd at ddeunyddiau BYIG, LIC na Chomisiynydd y Gymraeg, nac at *laith Pawb* na *laith Fyw: laith Byw*.

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd drwy gyfrwng cwestiynau 1 a 2 yn cyfrannu at gynnig atebiad i un o'r ddau gwestiwn ymchwil a symbylodd yr arolwg hwn, sef: i ba raddau y derbyniasai hyfforddeion a dderbyniodd HYFIG wybodaeth ieithyddol flaenorol am y Gymraeg, yn ôl eu canfyddiad eu hunain?

Y prif gasgliad yw yr ymddengys fod lefelau'r wybodaeth a dderbyniasent cyn derbyn yr HYFIG yn gyffredinol isel. Yn benodol, maent yn isel o'u cymharu â'r lefelau gwybodaeth a fyddai'n anghenrheidiol i gynnal y ffurfiau ar ddisgwrs a ragdybid mewn rhethreg polisi cyhoeddus diweddar ar y Gymraeg. Maent yn awgrymu na wireddwyd y cysyniad o 'plenary inclusion' (Williams, 2004) mewn disgwrs ieithyddol cynhwysol a sylweddol rhwng dinasyddion a'r wladwriaeth, nac oddi mewn i'r gymdeithas sifil ei hun.

Roedd y cyfnod sampl yn ymestyn dros ddiwedd cyfnod gweithredu *laith Pawb* a blwyddyn gyntaf gweithredu *laith Fyw: laith Byw* a anelai, ill dau, at feithrin perchnogaeth, cyfranogaeth ac ymroddiad y gymdeithas sifil yn y prosiect adfywio. Yn gyffredinol, ymddengys mai'r prif fathau o wybodaeth a dderbyniwyd gan atebwyr y ddau gwestiwn oedd gwybodaeth gysylltiedig â sefydliadoli defnydd y Gymraeg o fewn eu gweithleoedd ac yn y gwasanaethau cyhoeddus a ddarparent; gwybodaeth a gaffaelwyd yn yr ysgol; a gwybodaeth a dderbyniwyd ar gyrsiau caffael neu loywi Cymraeg. Fodd bynnag, prin y gellir adnabod ymhlith yr atebion i gwestiwn 2 unrhyw ffynonellau gwybodaeth y gellid eu priodoli'n uniongyrchol i bolisi cyhoeddus 'cynhwysol' ar y Gymraeg ers 2003.

Mae'n arwyddocaol bod lefelau gwybodaeth a disgwrs am y Gymraeg cyn ised ymhlith y sampl hon o weithlu'r sector cyhoeddus, sector lle sefydlogwyd y defnydd o'r Gymraeg dros y ddau ddegawd diwethaf. Oherwydd y gofynion ieithyddol statudol parthed y sector hwn, gellid tybio mai hwn yw'r sector o weithlu Cymru sydd fwyaf

gwybodus am y Gymraeg a pholisi cyhoeddus yn ei chylch. Felly os yw'r lefelau gwybodaeth ac ymwybyddiaeth hyd yn oed yn is na'r rhai uchod ymhlith carfannau eraill o'r boblogaeth nad ydynt yn gweithio yn y sector cyhoeddus, yna rhaid tybio mai lefelau pur isel o wybodaeth ieithyddol a feddir am y Gymraeg, a'r polisiau i'w hadfywio, gan y boblogaeth yn gyffredinol.

Ystyriaethau am gwestiynau 3-8

Roedd gweddill cwestiynau'r arolwg yn gofyn i'r atebwyr ystyried gwahanol agweddau ar eu hymateb i'r HYFIG. Diben y cwestiynau hyn oedd casglu tystiolaeth ansoddol a meintiol a fyddai'n cyfrannu at gynnig ateb i'r ail gwestiwn ymchwil a symbylodd yr holiadur, sef sut ymateb a enynnwyd gan HYFIG ymhlith hyfforddeion a'i derbyniodd, yn ôl eu canfyddiad eu hunain? Gyda'i gilydd anelai'r chwe chwestiwn at fwrw goleuni hefyd ar sut brofiad fu'r HYFIG i'r sawl a'i cafodd.

Holwyd yr atebwyr beth oedd 'elfen(nau) cryfaf'yr hyfforddiant yn eu tyb nhw; a oedd y cwrs wedi bod yn ddefnyddiol a pherthnasol iddynt; dylanwad posibl yr hyfforddiant ar sut y byddent yn 'delio â'r iaith' a 'meddwl am yr iaith yn gyffredinol'; ei berthnasedd i flaenoriaethau a gweithgareddau eu cyflogwyr; ac a oedd wedi eu gwneud yn ymwybodol o unrhyw fathau eraill o ddatblygiad proffesiynol yr oedd eu hangen arnynt.

Dechreuwyd y gyfres hon o gwestiynau drwy holi'r atebwyr yn gyntaf beth oedd yr elfen gryfaf neu elfennau cryfaf y sesiwn hyfforddi a gawsent.

Atebion i Gwestiwn 3

Mae Ffigwr 6.3 yn crynhoi'r atebion a gafwyd i gwestiwn 3. Fe'i hatebwyd gan 330 (88.2%) o'r 374 atebydd.

O'r holl atebion a roesant (n.=412), roedd 45.4% yn nodi mai'r agweddau ar hanes y Gymraeg oedd 'elfen(nau) cryfaf' y sesiwn, a hon oedd y categori mwyaf o lawer o atebion i'r cwestiwn hwn. Ategir y dystiolaeth hon gan yr arolwg ategol o swyddogion a drefnodd yr hyfforddiant hwn ar ran 7 cyflogwr. Cadarnhaodd 4 o'r 10 mai agweddau hanesyddol oedd elfen gryfaf yr hyfforddiant yn ôl yr adborth a gawsant hwythau gan hyfforddeion (gw. Atodiad 5; ymatebion i gwestiwn 3).

Cyfeiriodd amryw o'r atebion gan hyfforddeion yn benodol at y cyfle i ystyried dylanwad hanes ar sefyllfa'r iaith heddiw; hanes statws israddol y Gymraeg dros y canrifoedd; hanes yr adfywiad ieithyddol a welwyd ers canol yr 20fed ganrif, ac agweddau hanesyddol na fuasai'r atebwyr yn ymwybodol ohonynt gynt. Mewn amryw o'r sylwadau a gyflwynwyd mewn atebion i'r cwestiwn hwn, yn ogystal ag

amryw o sylwadau a fynegwyd wrth ymateb i gwestiynau eraill yn yr holiadur, mynegodd hyfforddeion fod yr ymdriniaeth ag agweddau hanesyddol wedi bod yn ddadlennol iddynt .

I cannot believe that the Welsh Language (and people) were treated so dismissively by English legislation for hundreds of years. Realise no more languages should be allowed to die out (Cyngor Conwy; cenedligrwydd arall).

Mae rhai sylwadau yn dynodi y cafodd atebwyr eu cymell i ailystyried eu persbectif blaenorol ar y Gymraeg yng ngoleuni'r agweddau hanesyddol a drafodwyd. Yr 'elfen gryfaf' i un atebydd oedd

An urgent need to re-visit my own preconceived ideas about the Welsh language and its usage as I was previously unaware of the history of the Welsh language and its suppression over many years (Cyngor Conwy/Venue Cymru; Stiward Gwirfoddol; cenedligrwydd arall.)

Datganodd rhai atebwyr fod y wybodaeth am yr elfennau hanesyddol wedi rhoi ysgogiad iddynt gofleidio'r Gymraeg:

Knowing the history and how people were treated makes me want to embrace the language and make sure future generations continue to keep it alive (Cyngor Conwy; dysgu Cymraeg).

I eraill, bwriodd y sesiwn oleuni ar agweddau hanesyddol a fuasai'n aneglur iddynt gynt:

The historical part was very informative - it provided answers to a lot of my previous confusion (Cyngor Sir Ddinbych; cenedligrwydd arall).


(It) explained the history of the Welsh language so well that I fully understand the background and the reasons behind my opinion about English / Welsh relationships, and resentment (Cyngor Conwy/Venue Cymru; Stiward Gwirfoddol; Cymro Cymraeg).

Mynegodd rhai atebwyr fod y wybodaeth hanesyddol yn hwyluso gwell dealltwriaeth o bolisi iaith eu cyflogwr.


Knowing the history of what happened to the Welsh language makes me more tolerant and understandinwhen having to produce bilingual documents etc. (Cyngor Conwy; cenedligrwydd arall).

Now I know some of the history of the language it makes a lot of sense to be more engaged with it (Cyngor Conwy; cenedligrwydd arall).

Ffigwr 6.4: Atebion i Gwestiwn 3



Ffigwr 6.4: Atebion i Gwestiwn 4



Mae rhai sylwadau yn cofnodi ymateb affeithiol o du'r atebwyr.

I feel more importance should be placed on it. I was shocked by the history and discrimination (Cyngor Conwy; siarad Cymraeg).

Agwedd bwerus ar y naratif a gyflwynir yw ei fod yn amlygu'r ymyleiddio a'r 'trais symbolaidd' (Bourdieu, 1986) a ddygwyd ar Gymru a'r Gymraeg o du'r wladwriaeth Seisnig a'i thraddodiadau hegemoniaidd. Mae cyflwyno rhai penodau yn y naratif - er enghraifft, hanes cymal iaith Deddf Uno 1536, 'Brad y Llyfrau Gleision' a defnydd y Welsh Not - yn meddu ar y potensial i ddwysbigo. Gall hyn fod yn nodwedd bwerus sy'n ennyn empathi â gwrthrych y trais, fel y dengys rhai o'r sylwadau a ddyfynnir uchod, a gall ardrawiad affeithiol o'r fath fod yn ddylanwad arwyddocaol ar agweddau. Dygir i gof ddiffiniad Thurstone (1931) o 'agwedd', sef 'affect for or against a psychological object'. Gall derbyn gwybodaeth am hanes darostwng ac ymyleiddio'r Gymraeg gymell teimlad 'dros' y garfan ddarostyngedig, ac 'yn erbyn' y grymoedd darostyngol.

Mae sylwadau'r atebwyr a ddyfynnir uchod yn nodweddiadol o'r sylwadau gwerthfawrogol a fynegwyd gan nifer o atebwyr am yr elfennau hanesyddol. Noda amryw na fuasai hanes Cymru yn gyfarwydd iddynt gynt, am mai hanes Prydain a Lloegr oedd ffocws yr hanes a ddysgid iddynt yn yr ysgolion. Dengys gwaith Samuel (1998) gymaint y mae hanesyddiaeth wedi gorbwysleisio pwysigrwydd hanes Lloegr a'i osod yn ganolog i naratif hanesyddol ynysoedd Prydain, gan ymyleiddio pob naratif hanesyddol arall 'o'r cyrion', gan gynnwys hanes Cymru. Ategir hyn mewn adroddiad diweddar gan banel a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i adolygu'r Cwricwlwm Cymreig. Dengys yr adroddiad fod y sefyllfa a ddisgrifiwyd gan Samuel (1998) yn parhau o hyd i raddau helaeth. Wrth drafod y modd traddodiadol y dysgid hanes yn ysgolion Cymru nodir:

Although there was never any obligation to do so, many teachers chose to teach a form of British history that was almost entirely dominated by England. The influence of this belief that the history of England is the only 'proper' history is still to be seen in the custom of referring to the history of Wales as a subject distinct from history itself. The history of the state, and thus of England, is the official history, namely, the history taught in the country's schools since the public education system developed in the Victorian era. This did not have to mean a complete absence of Welsh history in schools. Given that Wales had been a part of England, practically and constitutionally, for so many centuries, it follows that Welsh history had to be studied in the wider context of English history. However, when added to a historic lack of confidence in Welsh national identity, too often Anglocentric British history became the only kind of history

taught. Rather than interpret Wales within a British context, Wales was often simply just left out of the history taught in schools. This pattern has proved difficult to break. (...). The panel's experience suggests that many learners in Wales learn far more about the history of England than that of their own area and country. The task group also believe that not enough attention is paid to the other countries of Britain (LIC, 2013a: 12).

Mae'r adroddiad uchod yn dyfynnu o sylwadau a fynegwyd i'r panel gan y cyhoedd mewn cyfarfodydd ymgynghori anffurfiol, yn eu plith

I love Welsh history, but everything I know about it I learnt after I left school. I've had to do it all myself, and I think that's wrong.

I'm ashamed I don't know enough about the history of my own country. (Ibid. :26).

Diddorol yw nodi bod y sylwadau hyn yn nodweddiadol o'r hyn a fynegir gan hyfforddeion mewn sesiynau HYIG.

I feel that I learnt more about Cymraeg during this session than I did in five years of formal Welsh education and it helped me to see things from a new angle (Cyngor Conwy; Cymro; dysgwr).

Amlyga'r dystiolaeth a dderbyniwyd fod y naratif hanesyddol a gyflwynwyd i'r hyfforddeion drwy HYFIG, a'r persbectif a roddir ar ddigwyddiadau yn y naratif, wedi herio'r dehongliadau hegemoniaidd a gyflëid iddynt drwy'r system addysg a ffurfiau eraill ar gymdeithasoliad. Mae afleoli'r 'gwirionedd hanesyddol' a ddysgwyd iddynt mewn gwersi hanes yn codi cwestiynau am natur 'y gwirionedd' ei hun, ac yn gam tuag at ddatgelu'r 'regime of truth' a ddisgrifir yng ngwaith Bourdieu (1977)⁵⁹.

O droi at yr atebion eraill i gwestiwn 3, yn ôl 6.8% o'r atebion, yr elfen gryfaf oedd yr ystyriaeth a roddwyd i'r cysyniad o drin gallu yn Gymraeg fel sgil ar gyfer y gweithle. I rai roedd ystyried y Gymraeg yn y modd hwn yn gysyniad newydd.

⁵⁹ Daliodd Bourdieu 'that truth isn't outside power, or deprived of power (...) Truth is of the world: it is produced by virtue of multiple constraints. And it induces the regular effects of power. Each society has its regime of truth, its 'general politics' of truth; that is, the types of discourse it harbours and causes to function as true; the mechanisms and instances which enable one to distinguish true from false statements, the way in which is sanctioned; the techniques and procedures which are valorised for obtaining truth; the status of those who are charged with saying what counts as true' (Op.cit:13).

Ynghlwm wrth rai o'r atebion hyn crybwyllwyd gwerthfawrogiad o gyfleoedd i drafod yr angen am sgiliau Cymraeg yn y gweithle, a'i resymoli fel modd i alluogi eu cyflogwyr i gynnig dewis iaith wrth gyflwyno gwasanaethau i ddefnyddwyr.

Nododd 6.5% o'r atebion mai elfen gryfaf y sesiwn oedd y cyfleoedd i hyfforddeion drafod gwahanol ganfyddiadau, persbectifau ac agweddau ei gilydd ynghylch yr iaith Gymraeg. Drwy'r rhaglen hyfforddi i gyd, roedd rhwydd hynt i hyfforddeion fynegi sylwadau ynghylch agweddau a safbwyntiau, ond neilltuid amser penodol i gynnal trafodaeth o'r fath ar ddiwedd yr ymdriniaeth fer â hanes. Yn y rhan honno o'r rhaglen cynhelid ymarferiad a ofynnai i hyfforddeion ystyried dylanwad y prosesau hanesyddol a ymyleiddiai'r Gymraeg ar agweddau siaradwyr Cymraeg ac agweddau'r di-Gymraeg ddoe a heddiw. Atgynhychir isod eiriad yr ymarferiad fel y'i dangosid ar sgrîn yn y sesiynau.

Ffigwr 6.6. Ymarferiad trafod agweddau

Sut gallai ymyleiddio a gwahardd yr iaith fod wedi effeithio ar agweddau pobl?

How could language marginalisation and exclusion have affected peoples' attitudes?

- > Effaith ar agweddau siaradwyr Cymraeg?
- > Effaith ar agweddau pobl ddi-Gymraeg?
- > Impact on attitudes of Welsh speakers?
- > Impact on attitudes of non-Welsh-speakers

Mynegodd amryw o'r atebion i gwestiwn 3 werthfawrogiad o'r cyfle i ddeall safbwyntiau a phersbectifau siaradwyr Cymraeg. O'r ochr arall cyfeiriodd amryw o atebwyr Cymraeg a/neu Gymreig at y cyfle a gawsent hwythau i ystyried safbwyntiau a phersbectifau rhai o gefndiroedd gwahanol iddynt hwy eu hunain.

I thought it was very informative how people perceive the other
(Cyngor Conwy; Cymro).

It has opened my eyes to the necessity of being open-minded to other people's needs when I am working for a body whose duty it is to offer bilingual services (Cyngor Conwy/ Venue Cymru; Stiward Gwirfoddol; Cenedligrwydd arall).

Wrth ddwyn ynghyd hyfforddeion â phersbectifau gwrthgyferbyniol ar y Gymraeg, yn siaradwyr Cymraeg a rhai di-Gymraeg, yn Gymry a rhai o 'genedligrwydd arall', a'u gwahodd i drafod agweddau mewn awyrgylch 'diogel', niwtral, ceid cyfle i ennyn empathi'r grŵp â siaradwyr Cymraeg. Gellir dehongli'r rhan hon o HYFIG fel cyfrwng i amlygu i hyfforddeion drwy ddisgwrs y modd y mae'r persbectif hegemoniaidd hanesyddol wedi 'arallu' siaradwyr Cymraeg a meithrin agweddau negyddol at yr iaith, ac fel cyfle i ddeall cefndir hanesyddol y persbectif hwnnw a'i gwestiynu drwy ddisgwrs.

Yn yr arolwg ategol o swyddogion a drefnasai hyfforddiant o'r math hwn, ategir y canfyddiad hwn am bwysigrwydd 'cyfleoedd i drafod, gofyn cwestiynau a herio mewn awyrgylch diogel', gyda 4 o'r 10 swyddog yn datgan, yn ôl yr adborth a gawsent gan hyfforddeion, mai dyma oedd elfen gryfaf yr hyfforddiant (gweler Atodiad 5; atebion i gwestiwn 3).

Agweddau ar ddemograffeg y Gymraeg a nodwyd gan 5.8% o atebion hyfforddeion fel elfen gryfaf yr hyfforddiant, gyda chyfeiriadau penodol gan atebwyr at y wybodaeth a dderbyniwyd ynghylch nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg sydd yng Nghymru. Yn y rhan honno o'r sesiwn cyflwynid gwybodaeth am niferoedd, canrannau a dosbarthiad daearyddol siaradwyr Cymraeg fesul sir a fesul oedran, gan gyfeirio at eu dosbarthiad mewn ardaloedd trefol ac ardaloedd gwledig. Yn gyffredinol, prin fyddai'r wybodaeth a feddid gan fwyafrif aelodau'r grwpiau ar ddechrau'r sesiwn am ddemograffeg yr iaith. Mynegid syndod yn aml fod cynifer o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, a bod siaradwyr Cymraeg i'w canfod ym mhob ardal o Gymru.

Byddai rhai hyfforddeion a hanai o ardaloedd yr arferir eu hystyried yn ardaloedd 'Seisnigaid' Cymru heb feddu ar lawer neu ddim profiad o'r Gymraeg fel iaith gymunedol nac iaith deuluol. I'r grŵp hwn, byddai'r braslun o ddemograffeg yr iaith yn fodd iddynt eu lleoli eu hunain a'u profiadau hwy yn y darlun ehangach o hunaniaethau Cymreig lleol a rhanbarthol. Fel y sylwodd Evans yn ei astudiaeth ef o drigolion gogledd-ddwyrain Cymru,

For some respondents, their geographical position on the margin of national space dictated their peripheral social position in the imagined community of the nation (Evans, 2007:139).

Gallai'r wybodaeth am ddemograffeg y Gymraeg ar draws Cymru ddangos mor nodweddiadol yw proffil ieithyddol eu bröydd nhw o gymaint o diriogaeth Cymru.

Byddai rhai a ymfudasai i Gymru o rannau eraill o Wledydd Prydain neu'r tu hwnt yn datgan yn aml na wyddent ddim neu fawr ddim am y Gymraeg cyn mudo i Gymru. Mynegai amryw iddynt synnu wrth gael ar ddeall fod y Gymraeg yn cael ei siarad o hyd fel iaith gymunedol, o fewn teuluoedd ac yn gymdeithasol.⁶⁰ Yn aml iawn byddai trafodaeth am yr agwedd hon ar HYFIG yn arwain at drafodaeth, sensitif ar adegau, am hunaniaeth Gymreig a'r graddau yr uniaethai hyfforddeion â Chymru, am rôl y Gymraeg fel dangosydd hunaniaeth Gymreig, a'r ymdeimlad o berthyn, gyda chanfyddiadau personol a hanesion teuluol yn cael eu rhannu gyda'r grŵp.

Gan ei bod yn ofynnol i'r hyfforddeion oll ddarparu gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg ar ran eu cyflogwyr, mae derbyn gwybodaeth o'r fath yn fodd i ddiriaethu'r term 'siaradwyr Cymraeg' i rai ymhlith y di-Gymraeg. Bydd llawer o'r olaf yn troi mewn cylchoedd cymdeithasol nad ydynt yn cynnwys siaradwyr Cymraeg, na'r arferiad cymdeithasol o siarad Cymraeg. At hyn mae cyfleoedd i drafod agweddau ar y Gymraeg â siaradwyr Cymraeg mewn awyrgylch 'diogel' yn y sesiwn yn ategu'r diriaethiad hwnnw. Dichon i'r sylweddoliad bod cyfran sylweddol o boblogaeth Cymru'n siaradwyr Cymraeg yn egluro ac yn cyfiawnhau'r darparu gwasanaethau Cymraeg yng ngolwg rhai hyfforddeion.

Yn ôl swyddogion a drefnodd hyfforddiant o'r fath i 7 sefydliad, datganodd 1 o'r 10 a holwyd mai'r wybodaeth ar ddemograffeg oedd elfen gryfaf yr hyfforddiant yn ôl yr adborth a gawsai ef gan hyfforddeion (gweler Atodiad 5; atebion i gwestiwn 3).

Gwybodaeth am y ddeddfwriaeth a pholisi cyhoeddus ar y Gymraeg oedd y brif elfen yn ôl 5.6% o atebion yr hyfforddeion, ac yn ôl yr adborth a gafwyd gan 1 o'r 10 swyddog a drefnasai hyfforddiant o'r fath i 7 corff cyhoeddus (gw. Atodiad 5; atebion i gwestiwn 3). Er pwysiced yr agweddau hyn fel sylfaen y mesurau cynllunio ieithyddol i adfywio'r Gymraeg, mae'n ddiddorol sylwi mai canran gymharol isel a'u dynododd yn 'elfen gryfaf' y rhaglen hyfforddi.

Derbyn gwybodaeth gyffredinol a chyd-destunol am y Gymraeg a nodwyd yn brif elfen gan 5.3% o'r atebion. Yr elfen gryfaf yn ôl 4.6% o'r atebion oedd cynyddu

⁶⁰ Ar ddechrau'r sesiynau cynhelid cwis ysgafn yn gofyn i bawb ateb 5 cwestiwn am y Gymraeg. Yn eu plith ceid cwestiynau yn gofyn faint o siaradwyr Cymraeg sydd yng Nghymru, ac ym mha oedrannau y ceid y canrannau mwyaf o siaradwyr Cymraeg. Cynigid 5 ateb posibl i bob cwestiwn, gan ofyn i'r atebwyr ddewis un ohonynt. Byddai'r cwis hwn, ynghyd â'r deunydd a gyflwynid wedyn ar ddemograffeg y Gymraeg, yn ysbarduno trafodaeth lle mynegid sylwadau o'r math a nodir yma.

dealltwriaeth o 'pam mae'n bwysig hyrwyddo, cefnogi, datblygu a/neu adfywio'r Gymraeg a sicrhau ei pharhad'.

Y brif elfen a nodwyd gan 4.4% o'r atebion oedd yr ysgogiad personol a gawsai'r atebwyr i gefnogi, cynnal, mwynhau, ac/neu arddel y Gymraeg. Mae'r elfen hon yn thema a red drwy sawl un o'r atebion i'r arolwg, sef elfen o gymhelliad personol i ymwneud i raddau mwy â'r Gymraeg.

Atebion i Gwestiwn 4

Prif bwrpas y cwestiwn hwn oedd casglu gwybodaeth a fyddai'n ddefnyddiol i'r sefydliadau a drefnodd yr hyfforddiant, ac i *laith*, er mwyn canfod a ellid gwella ar ddefnyddioldeb a pherthnasedd y sesiynau i hyfforddeion. Er na fwriedid y cwestiwn i fod yn gwestiwn craidd, penderfynwyd cynnwys yr atebion yn y dadansoddiad hwn oherwydd gall fwrw goleuni ar ganfyddiadau'r atebwyr am berthnasedd yr hyfforddiant - a'r pwnc - yn eu golwg nhw. Mae Ffigwr 6.4 uchod yn crynhoi'r atebion a gafwyd i gwestiwn 4.

Atebwyd y cwestiwn hwn gan 347 (92.8%) o'r 374 atebydd, a chyflwynwyd cyfanswm o 377 o atebion ganddynt. Mynegodd 1.6% o'r atebion (6 atebydd) na fuasai'r hyfforddiant yn ddefnyddiol a pherthnasol. Mynegodd 3.2% (12 atebydd) y buasai'r hyfforddiant yn 'rhannol ddefnyddiol a pherthnasol neu'n weddol ddefnyddiol a pherthnasol'. Mynegodd gweddill yr atebion fod yr hyfforddiant wedi bod yn ddefnyddiol a pherthnasol.

Wrth nodi sut roedd cynnwys y cwrs wedi bod yn berthnasol a defnyddiol i'r atebwyr, mynegodd 20.8% o'r atebion mai derbyn gwybodaeth gyffredinol am yr iaith, am gefndir a chyd-destun y datblygiadau cyfoes a chyfle i godi ymwybyddiaeth ohoni oedd y prif agweddau. Cadarnhaodd 11.9% o'r atebion fod y cynnwys wedi bod yn berthnasol a defnyddiol, ond heb nodi pam. Yr ymdriniaeth ag agweddau ar hanes y Gymraeg, a dylanwad ffactorau hanesyddol ar sefyllfa'r Gymraeg heddiw ac ar agweddau ac ymddygiad ieithyddol oedd y brif elfen berthnasol a defnyddiol a nodwyd mewn 11.9% o'r atebion. Esbonio a dehongli'r angen am weithlu dwyieithog a nodwyd gan 7.7% o'r atebion; cymhelliad i'r atebydd ddysgu Cymraeg neu wella ei sgiliau Cymraeg yn ôl 6.9% o'r atebion; a chyfle i ddeall a gwerthfawrogi safbwynt a phersbectif defnyddwyr gwasanaethau Cymraeg a siaradwyr Cymraeg yn gyffredinol a grybwyllwyd gan 6.9% pellach. Nododd 6.6% o'r atebion fod cynnwys y sesiwn wedi bod yn berthnasol a defnyddiol am ei fod wedi atgoffa'r atebwyr am bwysigrwydd eu cyfraniad personol nhw eu hunain at weithredu polisi dwyieithrwydd, a chyflwyno gwasanaeth o safon gyfartal yn Gymraeg. Nododd 5% o'r atebion fod y sesiwn wedi cymhell atebwyr i wella eu dulliau gweithredu, gweithdrefnau neu

drefniadau yn y gweithle er mwyn gweithredu'n fwy unol â Chynllun Iaith Gymraeg eu cyflogwr. Yn ôl 4.8% o'r atebion, derbyn gwybodaeth am y ddeddfwriaeth ar y Gymraeg a pholisi cyhoeddus ar y Gymraeg a barodd i'r sesiwn fod yn berthnasol a defnyddiol.

Diddorol sylwi bod cyfran mor uchel o atebwyr wedi dynodi bod yr hyfforddiant wedi bod yn berthnasol a defnyddiol iddynt, er nad oedd yr hyfforddiant yn ymwneud ag agweddau *ymarferol* ar weithredu polisi iaith eu sefydliadau. Hynny yw, ni chyflwynodd yr hyfforddiant gyfarwyddiadau gweithredol penodol iddynt ynglŷn â 'beth i'w wneud, a sut i'w wneud o'. Yn eu hesboniadau a grynhoir uchod am sut y buasai'n berthnasol a defnyddiol iddynt, cyfeiria atebwyr yn bennaf at agweddau ar *gaffael gwybodaeth* gyd-destunol a *gwell dealltwriaeth* o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ddefnydd iaith. Awgryma'r atebion, a natur werthfawrogol amryw ohonynt, na chyflëid y cyfryw wybodaeth a dealltwriaeth i'r atebwyr yn flaenorol, ac mae hyn yn adleisio'r dehongliad uchod o'r atebion i gwestiwn 1.

Yn yr arolwg ategol o 10 swyddog a drefnasai hyfforddiant o'r fath i staff 7 corff cyhoeddus, ni ofynnwyd y cwestiwn hwn ond roeddent yn unfryd o'r farn bod yr hyfforddiant wedi cyrraedd y nodau amrywiol a osodwyd iddo gan y gwahanol sefydliadau (gweler Atodiad 5; atebion i gwestiwn 2). Awgryma'r farn honno, felly, fod yr hyfforddiant wedi bod yn 'berthnasol a defnyddiol' yng ngolwg y swyddogion a'i trefnodd, ac ategir y dehongliad hwn gan sylwadau a fynegwyd yn atebion eraill y grŵp hwn.

Atebion i Gwestiwn 5

Geiriad y pumed cwestiwn oedd fel a ganlyn.

CWESTIWN 5

A ydych yn meddwl y bydd yr hyfforddiant yn dylanwadu ar sut rydych yn delio â'r iaith Gymraeg -

- Yn eich gwaith o ddydd i ddydd? (Esboniwch).
- Tu allan i'ch gwaith? (Esboniwch).

Wrth ddefnyddio'r geiriad 'delio â'r iaith Gymraeg', barnwyd ei fod yn ddigon eang i allu ennyn rychwant eang o atebion yn ôl dehongliad yr atebydd ohono. Er hwylustod, ymdrinnir â'r cwestiwn hwn fel cwestiwn â dwy ran iddo. Mae'r rhan gyntaf yn gofyn a yw'r atebydd yn meddwl y bydd yr hyfforddiant yn dylanwadu ar sut mae'n "delio â'r iaith Gymraeg" yn ei waith o ddydd i ddydd. Mae'r ail ran yn gofyn a fydd yn dylanwadu ar sut mae'r atebydd yn "delio â'r iaith Gymraeg" y tu allan i'w waith.

Cyfeirir isod at ddwy ran y cwestiwn fel Cwestiwn 5a a Chwestiwn 5b. Crynhoir isod yn Ffigur 6.7 a Ffigur 6.8 yr atebion a gafwyd ac a ddangosir fel canrannau o'r holl atebion i'r cwestiwn.

Atebwyd cwestiwn 5a gan 317 (84.8%) o'r 374 atebydd, a derbyniwyd cyfanswm o 335 o atebion ganddynt. Wrth ymateb i'r cwestiwn a fyddai'r sesiwn yn dylanwadu ar y modd y byddai atebwyr yn ymdrin â'r iaith yn eu gwaith o ddydd i ddydd, datganodd 6% (n=20) o'r atebion a gafwyd na fyddai, neu fod hynny'n annhebygol. Yn ychwanegol at hynny, 'na' oedd yr ateb a roddwyd hefyd mewn 8% (n=27) yn ychwanegol o'r atebion, ond gyda'r atebwyr hynny yn ychwanegu bod hynny oherwydd eu bod eisoes yn ymwybodol o bwysigrwydd y Gymraeg ac eisoes yn arddel yr iaith.

Cafwyd llai o atebwyr yn ateb cwestiwn 5b, sef 230 (61.5%) o'r 374 atebydd. Cyflwynodd yr atebwyr hynny gyfanswm o 242 o atebion. Cafwyd mwy o atebion negyddol i gwestiwn 5b nag a gafwyd i gwestiwn 5a, gyda 19.8% (n=48) o'r atebion a gafwyd iddo yn datgan na fyddai'r sesiwn yn dylanwadu ar y modd y byddai atebwyr yn ymdrin â'r iaith y tu allan i'w gwaith, neu fod hynny'n annhebygol.

Nododd 7% (n=17) yn ychwanegol o'r atebion i 5b na fyddai'r hyfforddiant yn dylanwadu ar ymwneud yr atebwyr hyn â'r Gymraeg, a hynny oherwydd eu bod eisoes yn ymwybodol o bwysigrwydd y Gymraeg ac eisoes yn arddel yr iaith.

Diddorol sylwi, fodd bynnag, fod mwyafrif yr atebion a gafwyd i gwestiwn 5a a chwestiwn 5b fel ei gilydd yn cadarnhau bod yr atebwyr yn meddwl y byddai'r sesiwn yn dylanwadu ar sut y byddent 'yn delio â'r iaith Gymraeg'. Roedd 86% o'r atebion a gafwyd i gwestiwn 5a a 73.2% o'r atebion i gwestiwn 5b yn rhai cadarnhaol.

Roedd gofyniad ar ddiwedd cwestiynau 5a a 5b i'r atebwyr esbonio'u hatebion. Yr esboniad a roddwyd yn amlach na'r un esboniad arall yn yr atebion i gwestiynau 5a a 5b fel ei gilydd oedd bod yr hyfforddiant wedi rhoi cymhelliad i atebwyr ddefnyddio'r sgiliau Cymraeg sydd ganddynt i raddau mwy, yn amlach neu'n fwy cyson. Roedd 25% o'r atebion i gwestiwn 5a a 32.2% o'r atebion i gwestiwn 5b yn cyflwyno esboniad o'r fath.

Y prif esboniadau eraill a roddwyd mewn atebion cadarnhaol i gwestiwn 5a oedd: byddai'r hyfforddiant yn ennyn mwy o ymdrech gan atebwyr i gynnig dewis iaith yn effeithiol ac yn gyfartal (11.3% o'r atebion); ei fod wedi sefydlu gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth am y Gymraeg (10.7% o'r atebion); ei fod wedi rhoi anogaeth a chodi hyder atebwyr i ymwneud â'r Gymraeg (6%); ei fod wedi ennyn yn yr atebydd agwedd fwy positif, cefnogol a chydymdeimladol at y Gymraeg (4.8%); a'i fod wedi rhoi cymhelliad i ddysgu'r Gymraeg neu wella ei sgiliau Cymraeg (4.8%).

O droi at yr atebion cadarnhaol eraill a roddwyd i gwestiwn 5b, y prif esboniadau eraill a gyflwynwyd oedd y rhai a ganlyn: bod yr hyfforddiant wedi sefydlu gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth am y Gymraeg (10.3% o'r atebion); ei fod wedi rhoi anogaeth a chodi hyder atebwyr i ymwneud â'r Gymraeg (4.5% o'r atebion); ei fod wedi cymhell atebwyr i annog aelodau teulu a chyfeillion i ddysgu Cymraeg ac/neu i gefnogi'r Gymraeg (4.1%).

O gronni gyda'i gilydd yr amrywiaeth o atebion i 5b a gofnododd fod atebwyr am ymwneud â chynyddu defnydd y Gymraeg mewn rhyw fodd neu'i gilydd, mae'r grŵp hwn o atebion yn cyfateb i 43.3% o'r holl atebion. Maent yn cynnwys atebion gan rai a fwriadai ddefnyddio'r sgiliau Cymraeg sydd ganddynt ac a dan-ddefnyddid cyn hynny; a rhai a ddatganodd fwriad i ddysgu'r Gymraeg, gwella eu sgiliau Cymraeg neu annog eraill i ddefnyddio'r iaith. Mae'r sylwadau isod gan staff un o'r pum cyflogwr yn nodweddiadol o'r clwstwr sylweddol yma o atebion:

Will start to try to speak Welsh with husband (Cyngor Conwy; Cymraes)

I think the course will stop me from taking for granted that everyone speaks English and incorporating more Welsh into my everyday vocabulary (Conwy; Cymro; dysgu Cymraeg)

Yes- with my children (Conwy; dysgu Cymraeg)

Will try to speak it more frequently at home (Conwy; Cymro; dysgu Cymraeg)

Will ensure my child has the opportunity to learn Welsh (Conwy; cenedligrwydd arall)

Yes - want to try and speak more / learn from family (Conwy; Dysgu Cymraeg)

Make more effort to socialise in Welsh, as I have the ability (Conwy; Cymro)

I will help the children at home with their school work (Conwy; Dysgu Cymraeg)

Siarad mwy o Gymraeg gyda fy mhlentun [sic] (Conwy; Cymro Cymraeg)

I will try to use my Welsh in shops etc (Conwy; dysgu Cymraeg)

Not be afraid to use my Welsh in shops, restaurants, just because I'm not 100% confident in using the language (Conwy; Cymro Cymraeg)

I will try to use a little more Welsh when speaking to small grandchildren (Conwy; stiward gwirfoddol; Cymro Cymraeg).

Ni ellir ystyried yr atebion uchod yn dystiolaeth gadarn o unrhyw ddylanwad ar agweddau, nac yn rhagarwydd ystyrion o unrhyw newid ymddygiad ychwaith. Dengys Ajzen a Fishbein (1980) y gall nifer o newidynnau atal cyflawni 'bwriadau ymddygiadol'. Er hynny, dengys yr atebion a gasglwyd bod HYFIG wedi ennyn ymateb ffafriol at y Gymraeg ar y pryd, waeth pa mor fyrhoedlog neu barhaol fydd unrhyw ymarweddiad ffafriol dilynol at yr iaith. Gall hyn arwyddo bod derbyn y wybodaeth ieithyddol a chymryd rhan mewn disgwrs am y Gymraeg yn ennyn ymateb ffafriol ymhlith cyfranogwyr.


Wrth holi atebwyr a fuasai'r hyfforddiant yn dylanwadu ar sut y byddent yn 'delio â'r iaith Gymraeg' mae cwestiwn 5 yn wahanol i'r cwestiynau eraill am ei fod wedi gofyn i'r atebwyr ystyried eu harferion ieithyddol personol. Mewn geiriau eraill, gofynnid a fyddai'n dylanwadu ar eu *hymddygiad* ieithyddol, bônt yn y gwaith neu y tu allan i'w gwaith. Yn y cyswllt hwn y mae perthynas agos rhwng cwestiwn 5 a chwestiwn 8, gyda'r olaf yn gofyn i'r hyfforddeion a dybient y byddai'r hyfforddiant yn dylanwadu ar sut maent yn 'meddwl am yr iaith Gymraeg yn gyffredinol'. Hynny yw, a dybient y byddai'n dylanwadu ar eu *hagweddau* ieithyddol.

Dengys y llenyddiaeth ar agweddau ac ymddygiad fod cydgysylltiad agos rhwng y ddau (gweler er enghraifft Allport, 1954; Sarnoff 1970; Oppenheim, 1982; Garrett, 2010). Gan hynny, wedi cyflwyno maes o law yr atebion a gafwyd i gwestiwn 8, dychwelwn at y drafodaeth am agweddau ac ymddygiad, gan groesgyfeirio at yr atebion a gafwyd i gwestiynau 5 ac 8 er mwyn deall eu harwyddocâd yn well.


Roedd y ddau gwestiwn nesaf, sef cwestiwn 6 a chwestiwn 7, ymhlith y gyfres fer o gwestiynau a gynhwyswyd yn yr holiadur at ddiben deuol casglu gwybodaeth ar gyfer y cyflogwyr dan sylw ac i *laith*, yn ogystal ag at ddibenion yr ymchwil hwn. Mae'r dadansoddiad o'r atebion iddynt yn ffynhonnell gwybodaeth ategol sy'n bwrw ychydig o oleuni pellach ar ganfyddiadau'r atebwyr.

Atgynhychir cwestiynau 6 a 7 yn Ffigyrau 6.9 a 6.10 isodod, lle crynhoir hefyd categorïau'r atebion a gafwyd iddynt, fesul canrannau.


Ffigwr 6.7: Atebion i Gwestiwn 5a




Ffigwr 6.8: Atebion i Gwestiwn 5b



Ffigwr 6.9: Atebion i Gwestiwn 6



Ffigwr 6.10: Atebion i Gwestiwn 7



Atebion i Gwestiwn 6

Atebwyd cwestiwn 6 gan 285 (76.2%) o'r holl atebwyr a derbyniwyd 313 o atebion ganddynt. Datganodd 4 atebydd na wyddent neu nad oeddent yn siŵr ym mha fodd roedd yr hyfforddiant yn cyfrannu at flaenoriaethau a gweithgareddau sy'n bwysig i'w cyflogwr, a datganodd 1 atebydd arall nad oedd yr hyfforddiant yn cyfrannu yn y modd hwn. Cyflwynodd y 280 atebydd arall amrywiaeth o atebion cadarnhaol, a'r ateb pennaf a roddwyd oedd bod yr hyfforddiant yn cyfrannu at esbonio pwysigrwydd gweithredu CIG y cyflogwr (18.2% o'r atebion). Yn gysylltiedig â hynny, nododd 12.5% o'r atebion fod yr hyfforddiant yn egluro pwysigrwydd cynnig dewis iaith i ddefnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus, sef egwyddor graidd a fynegir ym mhob CIG statudol.

Yn ôl 10.5% o'r atebion roedd yr hyfforddiant yn cyfrannu at well dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth am yr iaith Gymraeg yn gyffredinol a'r cefndir a'r cyd-destun i bolisi iaith y cyflogwr. Mynegodd 9.6% o'r atebion ei fod yn dangos pam y mae angen hyrwyddo'r iaith Gymraeg a chreu amodau ffafriol i'w defnyddio. Atebion eraill a dderbyniwyd oedd: dangos cyfraniad gwasanaeth dwyieithog a dewis iaith at 'Ofal Cwsmer' (7% o'r atebion); egluro faint o bwys y rhydd y cyflogwr ar ddefnydd y Gymraeg, a pham (6.7%); dangos pwysiced gweithredu yn unol â'r ddeddfwriaeth ar y Gymraeg (5.7%). Cadarnhaodd 4.5% o'r atebion fod yr hyfforddiant wedi cyfrannu, ond heb nodi ym mha fodd y gwnaethai hynny. Yn ôl 4.1% o'r atebion, fe gyfrannodd yr hyfforddiant drwy amlygu diffygion yn y modd yr oedd eu cyflogwyr yn gweithredu eu CIG.

Cafwyd amrywiaeth eang o gategoriâu eraill o atebion, a chynrychiolir y rhain gan y dynodiad 'Eraill' yn Ffigur 6.6, gyda phob categori unigol o fewn y dynodiad hwn yn cynrychioli llai na 4% o'r holl atebion. Roedd y rhain yn amrywio o atebion yn nodi bod yr hyfforddiant wedi cyfrannu at sicrhau gwasanaeth Cymraeg o safon gyfartal â'r gwasanaeth Saesneg; i atebion yn nodi ei fod wedi amlygu'r angen i newid diwylliant mewnol y sefydliad a'r gweithle (2.2%), a'r angen i newid dulliau gweithredu a threfniadau cyflwyno gwasanaethau Cymraeg (1.9%).

Atebion i Gwestiwn 7

Atebwyd cwestiwn 7 gan 276 (73.8%) o'r 374 atebydd a derbyniwyd cyfanswm o 280 o atebion ganddynt. Atebion negyddol oedd llawer o'r atebion a gafwyd, gyda 38.9% (n=109) ohonynt yn datgan nad oedd yr hyfforddiant wedi gwneud yr atebwyr yn ymwybodol o unrhyw fathau eraill o ddatblygiad proffesiynol y byddai eu hangen

arnynt. At hynny roedd 1% o'r atebion yn nodi na wyddent neu nad oeddent yn sicr pa fathau eraill o hyfforddiant y byddai eu hangen arnynt.

Roedd gweddill yr atebion (60.1%) yn gadarnhaol. O'r rheiny, nododd 16.8% yr angen am hyfforddiant gloywi Cymraeg; nododd 14.6% yr angen am hyfforddiant i ddysgu (caffael) y Gymraeg; a 12.5% yn ychwanegol wedi nodi hyfforddiant iaith Gymraeg, ond heb ddatgan yn benodol pa fath o hyfforddiant yn union. Gyda'i gilydd roedd y tri grŵp olaf hyn o atebion a nododd ryw fath neu'i gilydd o hyfforddiant mewn Cymraeg yn cynrychioli 43.9% o'r holl atebion. O'i osod ochr yn ochr ag atebion i gwestiynau eraill, lle mynegodd atebwyr iddynt gael eu hysgogi i dderbyn hyfforddiant i wella eu sgiliau Cymraeg neu gaffael y Gymraeg, mae'r canfyddiad hwn yn dangos tuedd gyffredin yn yr ymatebion. Yn y categori hwn y mae 6.9% o'r atebion i gwestiwn 4; 4.8% o'r atebion i 5a; 7% o'r atebion i 5b a 2.6% o'r atebion i gwestiwn 8. Ategir y dystiolaeth hon gan atebion rhai swyddogion a drefnodd HYIG ac a ymatebodd i'r arolwg ategol a ddisgrifir yn Atodiad 5. Yn ôl dau o'r swyddogion hynny (a adwaenir wrth y cyfeirnodau a ddynodwyd iddynt yn Atodiad 5):

Mae'r hyfforddiant wedi newid agweddau, codi brwdfrydedd ymysg staff di-Gymraeg i ddysgu'r iaith (Ch1).

Mae'r staff a fynychodd y cwrs wedi ymateb yn bositif ac wedi holi ymhellach am hyfforddiant i ddysgu Cymraeg / gwella eu Cymraeg (B1).

(Gweler yr atebion i gwestiynau 4 a 6 yn Atodiad 5)

Yn astudiaeth Dafis *et al.* (2005) cafwyd tystiolaeth gyffelyb o du cyflogwyr a ddarparodd HYI i'w staff, fod tuedd i HYI ennyn diddordeb ymhlith eu staff mewn dysgu Cymraeg (2005:16 - 17). Datganodd dau Brif Weithredwr y cyfwelwyd â nhw ar gyfer y traethawd hwn fod rhai ymhlith eu staff hwythau wedi eu symbylu i gaffael hyfforddiant iaith wedi iddynt dderbyn HYFIG (Huws Williams, 2014; Shippides, 2013⁶¹), a cheir tystiolaeth gan un o'r hyfforddwyr mwyaf profiadol yn y maes fod hyfforddiant o'r fath yn 'allwedd i greu siaradwyr newydd' (Davies, 2010b).

Cafwyd amryw o gategorïau eraill o atebion i gwestiwn 7, gyda phob categori unigol yn cynrychioli llai na 4% o'r holl atebion. Cynrychiolir y rhain yn y categori 'Eraill' yn Ffigur 6.7. Roedd y rhain yn amrywio o atebion a nododd yr angen am hyfforddiant ar sut i weithredu agweddau ar y CIG (3.2% o'r atebion), i atebion yn nodi'r angen am hyfforddiant ar faterion cydraddoldeb (1.4%), ac atebion a

⁶¹ Mae Andrew Shippides yn Brif Weithredwr Tribiwnlys Prisio Cymru.

gadarnhaodd fod yr hyfforddiant wedi eu gwneud yn ymwybodol o'r angen am fathau eraill o hyfforddiant pellach, ond heb nodi pa fathau (2.9%).

Atebion i Gwestiwn 8

Cwestiwn 8 oedd yr olaf yn y gyfres o brif gwestiynau, a'r pumed o'r pum cwestiwn craidd. Atgynhychir ef isod yn Ffigwr 6.11, lle crynhoir hefyd categorïau'r atebion a gafwyd iddo.

Atebwyd cwestiwn 8 gan 309 (82.6%) o'r 374 atebydd a derbyniwyd cyfanswm o 351 o atebion ganddynt. Roedd 14.5% (n=51) o'r atebion a gafwyd yn rhai negyddol, gyda'r atebwyr hyn yn datgan na chredent y byddai'r hyfforddiant yn dylanwadu ar sut maent yn 'meddwl am yr iaith Gymraeg yn gyffredinol'. At hynny roedd 1% o'r atebion yn nodi na wyddent neu nad oeddent yn sicr a fyddai'r hyfforddiant yn dylanwadu ar yr atebwyr yn y modd hwn.

Roedd gweddill yr atebion (84.5%) yn gadarnhaol. Cadarnhaodd 9.1% o'r atebion fod atebwyr yn meddwl y byddai'r hyfforddiant yn dylanwadu ar sut y byddent yn 'meddwl am y Gymraeg yn gyffredinol', ond heb esbonio ym mha fodd y byddai'n gwneud hynny. Mynegodd atebion cadarnhaol y categorïau eraill o y byddai'r hyfforddiant yn dylanwadu fel a ganlyn ar sut y byddai'r atebwyr yn 'meddwl am yr iaith Gymraeg yn gyffredinol': y byddent yn fwy ystyriol ac ymwybodol o'r Gymraeg a siaradwyr Gymraeg (15.7% o'r atebion); y byddent yn fwy ymwybodol o ddylanwad hanes ar y defnydd o'r Gymraeg heddiw (9.4%); y byddai'r hyfforddiant yn eu cymell i ddefnyddio mwy o Gymraeg (9.1%); y byddent bellach yn ymwybodol o'r rhesymau pam y mae angen am wasanaethau Cymraeg (8.5%); a bod yr hyfforddiant yn cadarnhau neu'n dangos pam mae'r iaith Gymraeg a'i pharhad yn y dyfodol yn fater pwysig (4.2%). Yn ôl awduron 4% o'r atebion byddai'r hyfforddiant yn eu gwneud yn fwy ymwybodol o hawliau siaradwyr Cymraeg, ac yn ôl 4% arall o'r atebion, roedd yr hyfforddiant wedi rhoi cymhelliad i'w hawduron annog pobl eraill i hyrwyddo'r Gymraeg, ei dysgu hi neu ei chefnogi hi.

Gyda'i gilydd, dengys y categorïau uchod o atebion fod canfyddiad ymhlith yr atebwyr y byddent yn fwy ymwybodol ac yn fwy sensitif ynghylch yr iaith ac yn fwy ystyriol o siaradwyr Cymraeg. Ac fel y gwelwyd mewn rhai o'r atebion eraill, profasai rhai atebwyr ysgogiad i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg.

Cafwyd amryw o gategorïau eraill o atebion i gwestiwn 8, gyda phob categori unigol yn cynrychioli llai na 4% o'r holl atebion. Cynrychiolir y rhain gan y categori 'Eraill' yn Ffigwr 6.11. Roedd y rhain yn amrywio o atebion yn nodi bod yr hyfforddiant wedi cadarnhau syniadau cefnogol blaenorol atebwyr am yr iaith Gymraeg a'u

hymrwymiad blaenorol iddi (2.8%), i eraill a nododd ei fod wedi cymell atebwyr i ddysgu'r Gymraeg (2.6%) neu wella eu sgiliau Gymraeg (2.3%).

Ystyriaethau neilltuol am agweddau ac ymddygiad: arwyddocâd cwestiynau 5 ac 8 a'r atebion iddynt

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae cwestiynau 5 ac 8 yn wahanol i'r cwestiynau eraill am eu bod yn holi atebwyr am eu canfyddiad o unrhyw ddylanwad posibl gan HYFIG ar eu hagweddau a'u hymddygiad. Gofynnodd cwestiwn 5 a fuasai'r hyfforddiant yn dylanwadu ar sut y byddent yn 'delio â'r iaith Gymraeg', a gofynnodd cwestiwn 8 a dybient y byddai'n dylanwadu ar sut maent yn 'meddwl am yr iaith Gymraeg yn gyffredinol'.

Mae'r ddau gwestiwn hyn a'r atebion iddynt yn teilyngu trafodaeth bellach yng nghyd-destun yr amcanion a fynegwyd mewn testunau polisi cyhoeddus ar y Gymraeg i newid agweddau a newid ymddygiad dinasyddion parthed y Gymraeg. Mewn penodau blaenorol olrheiniwyd y cyfeiriadau mynych mewn testunau polisi, o ddyddiau cynnar BYIG hyd heddiw, at ddylanwadu ar agweddau ac arferion ieithyddol. Dangoswyd yn y bennod ddiwethaf fod BYIG a LIC fel ei gilydd wedi rhagdybio y byddai *cynyddu'r ddarpariaeth* Gymraeg ar y naill law, a marchnata'r ddarpariaeth ar y llaw arall, yn codi lefelau ymwybyddiaeth a disgwrs ymhlith dinasyddion. Rhagdybid y byddai hynny yn ei dro yn fodd i ddylanwadu ar eu hagweddau a'u hymddygiad ieithyddol.

Nodwyd hefyd fod y Bwrdd wedi hyrwyddo HYIG fel ymyriad eilaidd pwysig o fewn gweithleoedd er mwyn creu'r amodau a fyddai'n hwyluso dwyieithrwydd. Yn ôl y cyfeiriadau mynych at 'godi ymwybyddiaeth' ac 'ymwybyddiaeth iaith' yn nogfennaeth y Bwrdd, amlygir bod y Bwrdd wedi dehongli gweithgareddau 'codi ymwybyddiaeth' fel dull arall o ddylanwadu ar agweddau at y Gymraeg. Mewn amryw o destunau gan y Bwrdd, mae'r termau 'codi ymwybyddiaeth', 'ymwybyddiaeth iaith' a 'marchnata' yn cael eu defnyddio bron fel petaent yn dermau cyfystyr. Un o'r amcanion a nodir yn nogfen strategaeth gyntaf y Bwrdd yw

marchnata'r iaith er mwyn newid agweddau, magu hyder siaradwyr Cymraeg, neu wella delwedd yr iaith (BYIG, 1996: 2).

Wrth anelu at 'newid agweddau' drwy'r dulliau hyn, y rhagdybiaeth sydd ymhlgy yn y ddogfennaeth yw bod 'codi ymwybyddiaeth' a marchnata yn fodd i newid agweddau, a bod newid agweddau yn fodd i newid ymddygiad. Nid oes sail mewn seicoleg gymdeithasol i ragdybiaethau o'r fath. Cyfeiria Garrett (2010:28) at 'the importance of control factors in moving from attitude to behaviour'. Bu ymdriniaeth y

Bwrdd â 'newid agweddau' yn destun beirniadaeth felly, oherwydd ei ddiffyg persbectif ymddygiadol:

The discussion of attitudes is devoid of any behavioural context. If there is any lesson to be learnt from the entire body of work devoted to attitudes it is that it is not possible to change behaviour by changing attitudes (Williams a Morris 2000: 207).

Dengys y llenyddiaeth ddamcaniaethol ar agweddau ac ymddygiad nad yw agweddau ychwaith yn rhagfynegydd dibynadwy o ymddygiad (Garrett, 2010).

O droi at yr atebion cadarnhaol a gafwyd i gwestiwn 5 felly, mae'n eglur na ellir eu hystyried yn dystiolaeth gadarn o unrhyw newid tebygol mewn agweddau neu ymddygiad. Rhoddwyd mwyafrif yr atebion yn syth wedi sesiwn 3 awr o HYFIG pan oedd meddyliau'r atebwyr wedi eu ffocysu ar fater y Gymraeg ac mae 'blas y foment' arnynt. Gallasai'r atebion fod yn wahanol petaent wedi eu mynegi yn dilyn ysbaid o amser wedi'r hyfforddiant, ac mae'n bosibl eu bod yn ganfyddiadau byrhoedlog. Nid yw'r atebion i'w dehongli felly yn rhagfynegiant o newidiadau gwirioneddol mewn agweddau nac ymddygiad.

Serch hynny y mae arwyddocâd i'r atebion. Mae gwaith Ajzen a Fishbein (1980) ym maes astudio agweddau ac ymddygiad wedi ceisio dadansoddi strwythur agweddau a'r cydgysylltiad rhwng rhai mathau o agweddau a'i gilydd. Yn hytrach na chanolbwyntio ar unrhyw berthynas uniongyrchol rhwng agweddau ac ymddygiad, mae eu 'Theory of Reasoned Action' yn cynnig bod *bwriadau* ymddygiadol (behavioural *intentions*) yn ffactor sy'n canoli rhyngddynt. Fel y noda Garrett (2010: 27),

Considering behavioural intentions in this theory, rather than going straight to behaviour, allows situational variables an explanatory role in attitudes that do not lead to action (...) A number of factors can intervene between intended and actual behaviour.

O ddefnyddio'r derminoleg hon, 'bwriadau ymddygiadol' yw'r hyn a fynegwyd mewn llawer o'r atebion cadarnhaol i gwestiynau 5 ac 8. Arwyddocâd nifer fawr o'r 'bwriadau ymddygiadol' a gofnodwyd yw eu bod yn bositif eu natur ac yn ffafriol tuag at y Gymraeg. Arwyddant fod gan atebwyr fwy o ddiddordeb ynddi a mwy o gymhelliad i ymwneud â hi'n bersonol nag a fuasai ganddynt gynt, yn ôl canfyddiad yr atebwyr eu hunain yn fuan wedi iddynt dderbyn yr hyfforddiant. Ategir hyn gan yr atebion a gafwyd gan drefnwyr yr hyfforddiant i'r cwestiwn isod:


A ydych yn meddwl y bydd yr hyfforddiant yn dylanwadu ar y modd mae staff / cydweithwyr yn delio â'r iaith Gymraeg?

I think it has generated a lot more understanding and in turn staff are demonstrating better customer care skills, more empathy and a more positive approach. (A2)

Mae'r staff a fynychodd y cwrs wedi ymateb yn bositif ac wedi holi ymhellach am hyfforddiant i ddysgu Cymraeg / gwella eu Cymraeg.(B1)

Yn bendant, bydd gan staff fwy o ddealltwriaeth o'i bwysigrwydd a mynd ati i wneud pethau'n ddwyieithog. (C1)

Ffigwr 6.8: Atebion i Gwestiwn 8



Yes - the workshop has enabled greater understanding of Welsh Language issues in the workplace and the business argument for ensuring availability of bilingual services.' (Ch2)

Ers yr hyfforddiant mae'r Prif Weithredwr wedi gwneud dau gyflwyniad cyhoeddus i'r Aelodau ac wedi dechrau ei araith yn y ddau drwy siarad yn Gymraeg am ryw 3 neu 4 munud. Tipyn o gamp i un sydd ddim yn medri'r [sic] Gymraeg. Mae hefyd wedi dweud yn gyhoeddus y byddai'n mynd i wersi Cymraeg ym mis Medi ac edrych ar gael cefnogaeth y staff sy'n siarad Gymraeg [sic] i wella ei Gymraeg. (D1)

Dwi'n gobeithio yn enwedig staff sydd yn dod o'r adran adnoddau dynol - gallant ddylanwadu trwy gyflwyno elfennau'r cwrs i fewn i cyrsiau hyfforddiant ar gyfer dechreuwyr newydd er enghraifft. (Dd1)

I believe that more staff now appreciate that language is a very important part of a person's identity, and that we all need to be more pro-active in offering services in language of choice. (E1)

Mae'r hyfforddiant eisoes wedi llwyddo i newid agweddau rhai pobl tuag at yr iaith, a'u defnydd ohoni. Gobeithio bydd hyn yn parhau yn y dyfodol. (A3)

(Gweler Atodiad 5; atebion i gwestiwn 4).

Eto, nid tystiolaeth gadarn o unrhyw ddylanwad ar agweddau nac ymddygiad staff mo'r atebion hyn. Yn hytrach, tystiolaeth ategol ydyw fod yr HYFIG wedi ennyn ymateb positif ymhlith llawer a'i derbyniodd, yn ôl canfyddiadau'r sawl a drefnodd yr hyfforddiant ar eu cyfer.

Serch hynny, ni ellir diystyru potensial dichonol HYFIG i ysgogi effaith ar agweddau. Dengys y llenyddiaeth ar agweddau nad ydynt yn hawdd i'w diffinio, ond mae amryw o awduron yn adnabod tair elfen iddynt, sef gwybyddiaeth, affaith ac ymddygiad (Garrett, 2010; Oppenheim, 1982; Allport, 1984; Ajzen a Fishbein 1980). Yn ôl Garrett (2010: 23)

There is some questioning over the status of these three components in relation to attitudes. Recent views warn against equating them with attitudes themselves. Cognition, affect and behaviour can be seen more in terms of causes and triggers of attitudes.

Dengys tystiolaeth yr arolwg hwn a'r arolwg ategol o drefnwyr yr hyfforddiant y gall ysgogi'r tair cynneddf hyn fod yn un o brif ddeilliannau HYFIG. O ran y bau wybodol, caffaelir gwybodaeth sy'n anghyfarwydd a chyflwynir persbectif sy'n herio dehongliadau hegemonïaidd a gaffaelwyd drwy gymdeithasoliad am y Gymraeg a Chymru. Trafodwyd yn benodol uchod sut y gall gwybodaeth am hanes y Gymraeg a Chymru, o'i chyflwyno o bersbectif sy'n herio dehongliadau hegemonïaidd, arwain at gwestiynu rôl addysg mewn proses gymdeithasoli sy'n ymleiddio'r Gymraeg.

O ran y bau affeithiol, gall rhai elfennau ennyn ymateb affeithiol cryf ymhlith hyfforddeion. Er enghraifft, wrth drafod agweddau megis y cyswllt rhwng iaith a hunaniaeth a'r ymdeimlad o berthyn, a myfyrio am berthnasedd y wybodaeth hanesyddol i'w hanes teuluol, ceir ymdeimlad ymhlith rhai eu bod wedi eu hamddifadu o'r Gymraeg a gwybodaeth amdani. Yn ôl un atebydd

I was born and bred in Wales. My grandparents spoke Welsh. I feel unhappy that they did not pass the language on to us when we were younger. [Conwy; Cymro].

Wrth gyfeirio at adborth a gawsai hithau gan hyfforddeion am yr ymdriniaeth feirniadol â hanes, sylwodd un Prif Weithredwr ei bod 'wedi gwneud synnwyr o'u hanes nhw eu hunain a'u teuluoedd' (Huws Williams, 2014).

Am y bau ymddygiad, dengys y bwriadau ymddygiadol a gofnodwyd fod posibilrwydd y bydd rhai hyfforddeion yn mynd ati i gryfhau eu perthynas â'r Gymraeg, boed trwy gaffael neu wella sgiliau iaith, neu gynyddu eu defnydd o sgiliau a feddant eisoes. Ceir tystiolaeth o hyn yn yr atebion i sawl un o gwestiynau'r arolwg, ac yn atebion trefnwyr yr hyfforddiant (gweler Atodiad 5). O ystyried y tair cynneddf a ysgogir mewn HYFIG - gwybyddiaeth, affaith ac ymddygiad - yn 'causes and triggers of attitudes', buan yr amlygir potensial HYFIG fel ymyriad cynllunio ieithyddol.

Wedi cydnabod y potensial hwnnw, un her benodol yw cynnal a chefnogi unrhyw ysgogiad a gafwyd yn y sesiwn fer o HYFIG a chreu amodau ffafriol i unrhyw 'fwriadau ymddygiadol' a ddeilliodd ohono. Ym marn 4 o'r 10 swyddog a drefnasai'r sesiynau dan sylw, buddiol fyddai i'w staff dderbyn sesiynau dilynol o'r HYFIG yn gyfnodol yn y dyfodol (gweler Atodiad 5; atebion i gwestiwn 7). Mewn cyfweiliad, mynegwyd yr un farn, ond o safbwynt corfforaethol mwy strategol, gan Brif Weithredwr sefydliad a drefnasai HYFIG i'w holl staff (Huws Williams, 2014).⁶²

⁶² Mae Rhian Huws Williams yn Brif Weithredwr Cyngor Gofal Cymru, ac yn gyn-Brif Weithredwr CCETSW Yn ôl gwefan Cyngor Gofal, 'mae gan Rhian dros 30 mlynedd o brofiad

Porth mynediad i ddisgwrs: cyfraniad HYFIG at y model cynllunio ieithyddol a weithredir yng Nghymru

Yn y paragraffau dilynol trafodir cyfraniad cyfredol a dichonol HYFIG at gynllunio ieithyddol yng Nghymru drwy ei ystyried yng nghyd-destun y model adfywio a esblygodd ers 2003. Er pan gyhoeddwyd *Iaith Pawb* yn y flwyddyn honno (LICC, 2003), pwysleisia testunau polisi cyhoeddus fod cyfranogaeth y gymdeithas sifil yn y prosiect adfywio ieithyddol yn ffactor cwbl allweddol i lwyddiant y model. Darlunnir triongiant o bartneriaid yn gyrru'r prosiect adfywio yn ei flaen, sef y gymdeithas sifil, y wladwriaeth a sefydliadau. Mae hyn yn gofyn am lefelau gwybodaeth ac ymwybyddiaeth gyfartal ymhlith y gymdeithas sifil â'r lefelau a feddir gan y ddau asiant arall.

Codwyd lefelau gwybodaeth a dealltwriaeth dau o'r tri phartner, sef y wladwriaeth a sefydliadau, drwy'r 'discourse within institutions' (Williams, 2014: 246) a ddatblygodd wedi Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Diffinir eu rôl nhw yn eglur gan ddeddfwriaeth a thestunau polisi. Ond am drydedd ochr y triongiant, unigolion a grwpiau o fewn y gymdeithas sifil, rhaid wrth ddulliau eraill o gyfleu gwybodaeth, a datblygu dealltwriaeth a chydysyniaeth am bwrpas ac amcanion cynllunio ieithyddol.

Awgryma tystiolaeth yr arolwg hwn fod lefelau gwybodaeth am y Gymraeg ymhlith yr hapsampl hon o ddinasyddion yng ngweithlu'r sector cyhoeddus yn gyffredinol isel. Er y rhethreg gynhwysol o du'r wladwriaeth ers 2003, nid oes tystiolaeth i'r atebwyr dderbyn gwybodaeth sylweddol na phrofiadau disgyrsiol o unrhyw ffynonellau neu drwy unrhyw ymyriadau y gellid eu priodoli'n uniongyrchol i bolisi cyhoeddus 'cynhwysol' ar y Gymraeg. Hyd nes iddynt dderbyn HYFIG, ymddengys yn ôl eu hatebion na dderbyniasai'r mwyafrif o atebwyr unrhyw wybodaeth am strategaethau ieithyddol y Llywodraeth i 'greu Cymru ddwyieithog' (LICC, 2003), nac am y 'doctrine of inclusive bilingualism for all' a amlygir ynddynt (Williams, 2004: 17). A chan mai'r sector cyhoeddus yw'r union sector lle sefydlwyd a sefydlogwyd dwyieithrwydd sefydliadol dros y ddau ddegawd diwethaf, gellir tybio bod yr atebwyr yn yr hapsampl ymhlith y dinasyddion mwyaf gwybodus am y Gymraeg a'r

yn y maes gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Bu'n gweithio fel gweithiwr cymdeithasol a hyfforddwr ac mae wedi datblygu polisïau a strategaethau ar ddatblygu a rheoleiddio'r gweithlu yng Nghymru ac ar lefel y DU. Gydol ei gyrfa mae Rhian wedi bod yn ymroddedig i wella dealltwriaeth o bwysigrwydd iaith fel elfen graidd o ymarfer da mewn gwaith cymdeithasol a gofal cymdeithasol gan gomisiynu a chyfrannu at gyhoeddiadau ar arwyddocâd iaith mewn ymarfer effeithiol.' <http://www.cgymru.org.uk/ein-tim-rheoli/?force=2&bc=700:701>

mwyaf cyfarwydd â pholisi cyhoeddus yn ei chylch. Os felly, rhaid casglu bod lefelau gwybodaeth a phrofiadau disgyrsiol cysylltiedig am y Gymraeg ymhlith sectorau eraill o'r gweithlu, a gweddiill y cyhoedd yn gyffredinol, yn is nag a ddatgelir yn yr atebion i gwestiynau 1 a 2 yr arolwg hwn. Os yw'r asesiad hwn yn gywir, rhaid ystyried goblygiadau hyn i barhad y model cyfredol o gynllunio ieithyddol 'cynhwysol'.

Mewn sefyllfa o'r fath, daw pwysigrwydd HYFIG yn eglur. Delir mai HYFIG yw'r cyfrwng pwysicaf i gyflwyno gwybodaeth i ddinasyddion am y prosiect adfywio ieithyddol. Ac oherwydd ei gyfeiriadedd disgyrsiol y mae'n borth mynediad arwyddocaol a phrin i ddinasyddion i'r disgwrs adfywio am y Gymraeg. Cyn derbyn yr HYFIG a drafodir yma, ymddengys yn ôl eu tystiolaeth uchod na chawsai mwyafrif yr atebwyr unrhyw brofiad o gymryd rhan mewn disgwrs sylweddol am gynllunio ieithyddol i adfywio'r Gymraeg, fel y bwriedid yn ôl y testunau polisi cyhoeddus a archwiliwyd. Mae'r porth mynediad a agorir drwy HYFIG yn allweddol bwysig am sawl rheswm.

Yn gyntaf mae'n cyflwyno gwybodaeth sylweddol nas caffaelir mewn modd arall am y Gymraeg, a barnu yn ôl yr atebion a gafwyd i gwestiynau 1 a 2 yr arolwg. Oni fedd dinasyddion ar wybodaeth berthnasol ddigonol, rhaid cwestiynu a all yr ymyriadau adfywio ieithyddol a anelir atynt lwyddo ar y raddfa arwyddocaol a ddymunir. Rhagdybir mewn testunau polisi fod rhaid i ddinasyddion wrth y wybodaeth angenrheidiol i'w galluogi i ddehongli gwerth a pherthnasedd yr ymyriadau hynny a'r dewisiadau ieithyddol sydd ymhlyg ynddynt. Un o brif nodau polisi cyhoeddus yw 'newid patrymau ymddygiad ieithyddol' (LIC, 2014a: 21). Rhaid felly wrth wybodaeth ymrymusol a all symbylu a chefnogi dewisiadau unigolion, teuluoedd a grwpiau cymdeithasol i newid neu addasu patrymau defnydd iaith neu fabwysiadu patrymau newydd. Gall meddu ar wybodaeth ieithyddol fod yn bwysig hefyd fel arf i resymu a chyfreithloni dewisiadau unigolion a theuluoedd ym mheuoedd allweddol yr 'home-family, neighbourhood, community' (Fishman, 2001:467).

Yn ail, mae HYFIG yn cyflwyno'r cyfryw wybodaeth mewn modd rhyngpersonol a rhyngweithiol, gydag elfennau disgyrsiol cryfion. Mae hyn yn elfen hanfodol o'r model HYFIG a gyflwynwyd ac a argymhellir yma. Dengys yr arolwg ni chaffaelir ond lefelau isel o wybodaeth ieithyddol ar hyn o bryd, er bod y cyfryw wybodaeth eisoes ar gael i bawb, wrth gwrs. Gellir ei chyrchu ar y rhyngryd, mewn llyfrgelloedd ac o ffynonellau eraill. Ond ymddengys yn ôl yr arolwg na fydd llawer o bobl yn dewis mynd ati i'w chyrchu a'i chaffael. Yn y model HYFIG a drafodir yn y traethawd hwn, ni raid i'r unigolyn ei chyrchu a'i dehongli heb ganllaw. Cyflwynir y wybodaeth yn rhagweithiol, wyneb yn wyneb, o fewn grŵp. Caiff hyfforddeion gyfleoedd i ymateb i'r wybodaeth yn y fan a'r lle, mynegi sylwadau, holi a herio'r hyfforddwr yn ogystal â'i

gilydd, a rhannu o'u gwybodaeth, eu canfyddiadau a'u profiadau eu hunain mewn gofod disgrysiol 'diogel'. Cyfeiriadedd dilechdidol sydd i sawl elfen ryngweithiol o'r rhaglen. Mae hyn mewn gwrthgyferbyniad â phrif ddull y wladwriaeth o godi ymwybyddiaeth a rhannu gwybodaeth am y Gymraeg, sef marchnata, dull sy'n gosod y dinesydd yn darged goddefol i negeseuon yr asiant ieithyddol, yn hytrach na phartner mewn disgwrs.

Yn drydydd, cyfeiriadedd *beirniadol* sydd i'r dehongliad o'r wybodaeth a'r cysyniadau a gyflwynir am y Gymraeg ac am Gymru. Wrth gyflwyno gwahanol elfennau'r rhaglen HYFIG, amlygir y berthynas rhwng iaith a grym, gan adleisio dehongliad Mayr (2008:14), a ddeil 'As a practice of power, hegemony operates largely through language'. O'r persbectif hwn, adwaenir a chwestiynir y prosesau a'r arferion hegemonïaidd a ddarostyngodd ac a ymleiddiodd y Gymraeg. Mewn sawl rhan o'r rhaglen HYFIG, yn arbennig yn yr ymarferiadau a'r sesiynau trafod, gwahoddir hyfforddeion i fwrw golwg beirniadol ar sefyllfa'r Gymraeg heddiw, a'r arferion ieithyddol cymdeithasol a sefydliadol 'bob dydd' a dderbynnir yn ddi-gwestiwn fel 'mater o ffaith' normadol. Anogir hwy i berthnasu'r hyn a drafodir â'u profiadau nhw eu hunain. Gall mabwysiadu ymagwedd feirniadol o'r fath gyfrannu at 'arfogi'r dinesydd i fod yn ieithyddol-ymwybodol, ac, o bosibl, i wrthsefyll yn feirniadol neu herio pwysau normadol sy'n ymleiddio'r weithred o ddewis y Gymraeg. Atebodd un o'r hyfforddeion iddo gael ei arfogi

To always be positive about the language and to challenge any negative comment I may pick up (Conwy; cenedligrwydd arall).

Cynigir bod y nodweddion uchod, a thystiolaeth yr arolwg hwn o'r ymateb ffafriol iddynt, yn dangos bod HYFIG yn gyfraniad dechreuol pwysig at feithrin ymagwedd ymwybodol, ymatblyg ymhlith dinasyddion tuag at y dewisiadau ieithyddol sydd o'u blaenau.

Nodwyd eisoes nad oes tystiolaeth bod HYFIG yn gyfrwng i newid agweddau a 'newid patrymau ymddygiad ieithyddol' fel a fwriedir gan bolisi cyhoeddus ar y Gymraeg (LIC, 2014a). Er hynny, mae'n briodol gofyn i ba raddau y gellir dylanwadu ar arferion ieithyddol dinasyddion os yw eu lefelau gwybodaeth, ymwybyddiaeth a disgwrs ieithyddol mor isel ag yr awgryma'r arolwg hwn. Ym mha fodd y symbylir dinasyddion i ymwneud mewn modd positif â'r Gymraeg i raddau helaethach nag a welwyd hyd yma, fel y deuant i 'berchnogi'r iaith' (LICC, 2003) ac 'i gynorthwyo yn y gwaith o lywio dyfodol yr iaith yn y ganrif hon' (LIC, 2014a: 24)?

Yn ôl y testunau polisi a adolygwyd, rhan hanfodol o'r broses newid arferion ieithyddol, yw trwy gynnal disgwrs cynhwysol gwybodus â dinasyddion ynghylch y prosiect adfywio ieithyddol a'r amrediad o ddewisiadau a ddaw i ran y dinesydd yn ei

sgil. Fodd bynnag, gwelsom mai prin yw'r ymyriadau disgyrsiol sylweddol ymhlith prif gynhyrchion polisi ieithyddol y wladwriaeth. Methodd gwneuthurwyr polisi ag adnabod potensial HYFIG, ac ni chyflwynwyd unrhyw brosiect sylweddol i weithredu'r 'doctrine of plenary inclusion' (Williams, 2003). Hyn a barodd i gyn-Brif Weithredwr BYIG ddatgan mewn cyfweiliad diweddar, wrth fwrw golwg dros y ddau ddegawd diwethaf

Mae hyn yn dal i fod yn wir – 'does 'na ddim disgwrs ynglŷn ag iaith yn digwydd o gwbl yn gyffredinol (Jones, 2014).

Rhaid cwestiynu felly a ellir gwireddu amcanion y model adfywio ieithyddol cyfredol heb gynnwys 'y gynulleidfa darged'— sef pobl Cymru – yn y disgwrs adfywio, a hynny ar sail lefelau gwybodaeth sylweddol uwch nag a feddant ar hyn o bryd. Dengys yr ymchwil hwn y gall HYFIG fod yn gyfrwng effeithiol sy'n cyfrannu at unioni diffyg gwybodaeth ieithyddol a diffyg disgwrs ieithyddol. Dengys tystiolaeth yr arolwg y gall ennyn cryn ddiddordeb ymhlith dinasyddion a chymell rhai i ymwneud i raddau helaethach â'r Gymraeg mewn amryw ddull a modd. Yn ôl Elaine Davies, un o'r ymarferwyr HYFIG mwyaf profiadol yn y maes:

Drwy greu synthesis rhwng y personol a'r gwleidyddol, mae hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith yn anelu at greu shifft yn y ffordd y mae pobl yn synied am y Gymraeg ar lefel ymenyddol ac emosiynol, yn ceisio agor meddyliau a chalonnau. Yn hynny o beth, mae ganddo'r potensial i fod yn offeryn cryf iawn yn y broses o ddod â phobl at y Gymraeg a chreu siaradwyr Cymraeg newydd. (...) Mae'n siŵr fod gan hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith y potensial i gael dylanwad cadarnhaol iawn ar gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith unigolion a gweithleoedd. Mae'n un o'r blociau adeiladu sylfaenol i'w ddefnyddio wrth geisio creu Cymru sy'n gynyddol ddwyieithog dros y cyfnod nesaf (Davies, 2010b).

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynir yn y traethawd hwn, cynigir y dylid cydnabod cyfraniad allweddol dichonol HYFIG at gynllunio ieithyddol yng Nghymru, a chynllunio'n strategol i'w ddatblygu a'i ledaenu ar raddfa eang.

Diwedd glo

Cyflwyniad

Yn y bennod hon cyflwynir yn gryno iawn y prif ganfyddiadau a chasgliadau er ceisio ateb y prif gwestiwn ymchwil a osodwyd. Y cwestiwn oedd: beth yw arwyddocâd a chyfraniad cyfredol a dichonol Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Feirniadol am yr Iaith Gymraeg (HYFIG) i'r model cynllunio ieithyddol 'cynhwysol' a weithredir gan asiantau'r wladwriaeth i adfywio'r Gymraeg yng Nghymru?

Wrth gyflwyno casgliadau ac argymhellion yr ymchwil, cyfeirir hefyd at agweddau cyfredol ar y maes cynllunio ieithyddol yng Nghymru a thynnir sylw at ragolygon perthnasol am y cyfnod nesaf a wêl gyflwyno Safonau Iaith yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Awgrymir wedyn rai trywyddau ymchwil pellach a fyddai'n ddilyniant buddiol i'r ymchwil hwn er mwyn ychwanegu at y sylfaen data a thystiolaeth am HYIG.

Ar ddiwedd y bennod ystyrir y rhagolygon ar gyfer disgwrs ieithyddol yng nghyfnod cyflwyno'r Safonau Iaith a gwaith rheoleiddio Comisiynydd y Gymraeg.

Casgliadau

Roedd y prif gwestiwn ymchwil yn gofyn am ddadansoddiad o ddau faes a esblygodd ochr yn ochr â'i gilydd yn y maes cynllunio ieithyddol yng Nghymru dros y chwarter canrif diwethaf, ac ystyriaeth o'r gydberthynas gyfredol a dichonol rhwng y ddau. Y ddau faes yw HYIG, a'r model cynllunio ieithyddol cynhwysol a chyfredol a ddarlunnid mewn testunau polisi cyhoeddus ar y Gymraeg. Ystyriwn isod gasgliadau'r traethawd hwn am y naill faes a'r llall.

Casgliadau am HYFIG.

Ar sail y dehongliad o'r dystiolaeth a gyweiniwyd, nodir bod HYIG yn gyfrwng i gyflwyno i ddinasyddion wybodaeth na fyddant fel arfer yn ei chaffael mewn modd arall am yr iaith Gymraeg.

Nodir hefyd ei fod yn gyfrwng, drwy ei elfennau rhyngweithiol a disgyrsiol, i ddinasyddion gymryd rhan mewn disgwrs ieithyddol ystyrion, ar sail wybodus, a hynny efallai am y tro cyntaf yn hanes nifer ohonynt, yn ôl y dystiolaeth a gafwyd gan rai o atebwyr y prif arolwg.

Mae tystiolaeth gref iawn bod hyfforddeion yn werthfawrogol iawn o'r cyfle prin neu unigryw i dderbyn gwybodaeth am y Gymraeg gan asiant 'annibynnol' a chymryd rhan mewn disgwrs ieithyddol.

Nodir bod y persbectif beirniadol ar sefyllfa'r Gymraeg yn peri i HYFIG fod yn brofiad dadlennol i niferoedd sylweddol o hyfforddeion, a bod derbyn gwybodaeth am hanes ymleiddio'r Gymraeg yn elfen affeithiol gref – a thrawiadol weithiau - o'r profiad a gofnodwyd gan yr atebwyr.

Ni chafwyd tystiolaeth i ddangos y gall HYFIG ddylanwadu ar agweddau ac ymddygiad ieithyddol unigolion, a chydabyddir y byddai'n rhaid wrth ymchwil o fath gwahanol i ymdrin â hynny. Er hynny, dengys y dystiolaeth a gasglwyd trwy gyfrwng y ddau arolwg, ynghyd â'r dystiolaeth o'r ffynonellau eraill, fod cyfuniad o'r elfennau sydd ynghlwm wrth newid agweddau a newid ymddygiad yn bresennol mewn HYFIG, sef ysgogiadau i wybyddiaeth, affaith ac ymddygiad (Garrett, 2010; Oppenheim, 1982).

Yn arwyddocaol iawn, cesglir bod y cyfuniad uchod o nodweddion yn dangos yn eglur bod HYIG yn gyfrwng effeithiol i gyfrannu at ledaenu gwybodaeth, dyfnhau ymwybyddiaeth a sicrhau cyfranogaeth mewn disgwrs ieithyddol, fel a ystyrir yn angenrheidiol yn ôl testunau polisi y model cynllunio ieithyddol a weithredir ers 2003. Mewn geiriau eraill, mae'r priodweddau hyn yn rhai y mae eu hangen er mwyn creu amodau gweithredu'r model 'cynhwysol' o gynllunio ieithyddol i adfywio'r Gymraeg.

Casgliadau am y model cynllunio ieithyddol cynhwysol

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynir yn y traethawd hwn, cesglir mai prin yw'r ymyriadau cynllunio ieithyddol a gafwyd o du CCC, BYIG, LIC a'u hasiantau a anelid yn uniongyrchol at sicrhau cynhwysiant dinasyddion yn bartneriaid mewn disgwrs yn y prosiect adfywio ieithyddol.

Nid yw HYFIG (na HYIG) yn rhan ffurfiol o'r model cynllunio ieithyddol cynhwysol. Ar wahân i brosiect TWF, ni fu'n elfen benodol o unrhyw brif ymyriad a ddeilliai o'r model. Lle'i cafwyd fel rhan o unrhyw brif ymyriad, fe'i trefnwyd fel elfen eilaidd. Ni chafwyd felly unrhyw fuddsoddiad sylweddol o du'r Llywodraeth i'w ddatblygu.

O'r archwiliad ym Mhennod 5 uchod o destunau polisi, canfuwyd mai marchnata oedd y prif ddull cyfathrebu a ddefnyddid dros y cyfnod dan sylw gan y Llywodraeth a BYIG i gyflwyno gwybodaeth ieithyddol a negeseuon i ddinasyddion. Ymddengys fod y prif asiantau cynllunio ieithyddol wedi rhagdybio y byddai cynyddu amrediad y ddarpariaeth Gymraeg, a'i farchnata, yn fodd anuniongyrchol i godi ymwybyddiaeth, cynyddu defnydd a chreu disgwrs ieithyddol.

Er y gwaith marchnata, cafwyd tystiolaeth i awgrymu bod lefelau gwybodaeth ieithyddol ymhlith dinasyddion yn isel yn gyffredinol. Yn ôl eu canfyddiadau eu hunain, ymhlith y 374 o unigolion a ymatebodd i'r prif harolwg, nid oedd braidd neb wedi derbyn gwybodaeth am strategaethau cynllunio ieithyddol y Llywodraeth i adfywio'r Gymraeg, na'r rôl a fwriedid ar gyfer unigolion a grwpiau o fewn y gymdeithas sifil yn y prosiect adfywio ieithyddol. Credir bod eu lefelau isel o wybodaeth yn arwyddocaol iawn o gofio bod yr hapsampl atebwyr ymhlith y garfan o weithlu Cymru sydd fwyaf ymwybodol o'r Gymraeg a dwyieithrwydd.

Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth bod y gweithwyr cyhoeddus a atebodd ein holiadur yn cymryd rhan mewn unrhyw fathau eraill o ddisgwrs ieithyddol i unrhyw raddau arwyddocaol, ar wahân i'r lefelau isel o ddisgwrs ieithyddol a ddigwydd yn eu gweithleoedd ynghylch y trefniadau ymarferol i weithredu'n ddwyieithog.

Cesglir felly na chyflêir gwybodaeth ieithyddol i ddinasyddion i'r graddau a fyddai'n angenrheidiol i allu gwredu amcanion polisi. Ymddengys felly, yn ôl y dadansoddiad a gyflwynir yn y penodau blaenorol, na wireddwyd y 'doctrine of plenary inclusion' (Williams, 2004) yr ymrwymodd LICC i'w weithredu o 2003 ymlaen.

Yng ngoleuni'r casgliadau uchod, cyflwynir isod drafodaeth ac argymhellion ar gyfer ymdrin â HYFIG yn y maes polisi ieithyddol, ynghyd ag argymhellion am yr agenda ymchwil pellach sy'n codi o'r traethawd hwn.

Arwyddocâd yr ymchwil hwn i bolisi cyhoeddus ar y Gymraeg: trafodaeth a rhai argymhellion

Hyderir y bydd y traethawd ymchwil hwn yn gyfraniad sylweddol at sawl ffrwd disgwrs gyfredol am gynllunio ieithyddol yng Nghymru. Nodir isod rai ystyriaethau at sylw LIC.

'Bwrw Ymlaen' – braenaru'r tir ar gyfer newid ymddygiad ieithyddol

Mae'r ymchwil hwn yn amserol o ystyried y sylw penodol a roddir yn natganiad polisi diweddaraf LIC ar y Gymraeg i her 'newid ymddygiad ieithyddol' (LIC, 2014a). Gan fod y datganiad polisi wedi ei gyhoeddi mor ddiweddar, ni wyddys eto pa ddulliau a rhaglenni a ddatblygir maes o law i ymateb i'r her honno. Y prif ddull y cyfeirir ato yn y datganiad ei hun yw marchnata cymdeithasol, dull a ddisgrifiwyd yn ei gyfnod ffurfiannol fel

a bridging mechanism which links the behavior scientist's knowledge of behavior with the socially useful implementation of what that knowledge allows (Kotler a Zaltman, 1971).

Mae marchnata cymdeithasol yn ffurf neilltuol ar farchnata sy'n cyfuno technegau marchnata traddodiadol â thechnegau newydd wedi eu gwreiddio mewn damcaniaethau ymddygiadol o feysydd cymdeithaseg a seicoleg cymdeithasol⁶³. Mae mabwysiadu dulliau marchnata cymdeithasol i hyrwyddo'r Gymraeg fel nwydd cymdeithasol yn gysyniad dychmygus y braenarwyd y tir ar ei gyfer eisoes gan amryw o ymgyrchoedd marchnata BYIG a phrosiect TWF. Diau y bydd cryn ddiddordeb yn ei weithrediad.

Law yn llaw â'i diddordeb mewn marchnata cymdeithasol fel cyfrwng i newid ymddygiad ieithyddol, mynegodd LIC awydd i ddysgu o dechnegau newid ymddygiad eraill. Dichon felly y rhydd ystyriaeth i'r ddogfen drafod ddylanwadol *Mindspace* (Dolan, Hallsworth, Halpern, King, a Vlaev, 2010), dogfen y bu cryn drafod arni mewn cylchoedd polisi ers ei gyhoeddi gan Swyddfa Cabinet Llywodraeth Prydain a'r Institute of Government yn 2010. Esbonnir yn y ddogfen

Broadly speaking, we can focus on 'changing minds' or 'changing the context'.

Â'r awduron rhagddynt i ymhelaethu ar y ddwy ymagwedd wahanol at newid ymddygiad.

In broad terms, there are two ways of thinking about changing behaviour. The first is based on influencing what people consciously think about. We might call this the 'rational' or 'cognitive' model. (...) The contrasting model of shaping behaviour focuses on the more automatic processes of judgment and influence (...) This shifts the focus of attention away from facts and information, and towards altering the context within which people act. We might call this the 'context' model of behaviour change. The context model (...) focuses more on 'changing behaviour without changing minds' (Ibid, 14).

Diau y bydd LIC am ystyried perthnasedd y naill ymagwedd a'r llall i her newid ymddygiad ieithyddol yng nghyd-destun cymdeithasegol a seicolegol y Gymraeg fel iaith iselfri a ymleiddiwyd. Ffactor allweddol i'w ystyried yw fod y ddwy ymagwedd uchod yn adlewyrchu dwy system wahanol yn yr ymennydd:

⁶³ Ymhlith yr amrywiaeth eang o feysydd lle y defnyddiwyd marchnata cymdeithasol cynhwysir maes iechyd cyhoeddus lle datblygwyd ymgyrchoedd atal-genhedlu ac ymgyrchoedd cymdeithasol eraill a weithredwyd yn Affrica, Sri Lanka a gwledydd eraill (Lefebvre, 2013). Gwelwyd hefyd yng Ngwledydd Prydain ymgyrchoedd marchnata cymdeithasol i atal goryrru a goryfed (Martin, Lee, Weeks a Kaya, 2013) yn ogystal ag ymgyrchoedd amgylcheddol gan amryw o asiantaethau, gan gynnwys Awdurdodau Lleol.

The two systems have different capabilities: the reflective mind has limited capacity, but offers more systematic and deeper analysis. The automatic mind processes many things separately, simultaneously, and often unconsciously, but is more superficial (Ibid, 14).

Amlygwyd yn y traethawd hwn fod elfennau cryfion o'r ymagwedd gyntaf mewn HYFIG, ond ceir elfennau o'r ail ymagwedd hefyd, yn arbennig yn ei gyfeiriadedd affeithiol pwerus.

Awgryma'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan lawer o'n hatebwyr y gall HYFIG ennyn hefyd gryn ddiddordeb a gwerthfawrogiad ymhlith dinasyddion a chymell rhai i ddatgan 'bwriadau ymddygiadol' (Ajzen a Fishbein,1980) i ymwneud i raddau helaethach â'r Gymraeg nag a wnaent yn flaenorol.

Dangoswyd hefyd fod mwyafrif yr atebwyr wedi ymateb yn bositif i HYFIG. Ystyrir hyn yn ganfyddiad arwyddocaol, oherwydd gall ennyn ymateb positif a gwerthfawrogol i ddisgwrs ieithyddol osod sylfaen angenrheidiol ar gyfer unrhyw ymyriadau pellach i 'newid ymddygiad ieithyddol'. Dichon yn wir y byddai'n anos dylanwadu ar arferion ieithyddol heb fraenaru'r tir yn gyntaf drwy godi lefelau gwybodaeth a disgwrs, fel y gwna HYFIG.

Datblygu a lledaenu HYFIG

Credir y bydd y traethawd hwn o ddiddordeb amserol i Lywodraeth Cymru o bersbectif arall hefyd. Pe mabwysiedid HYFIG ar raddfa fawr fel un o'i phrif ymyriadau cynllunio ieithyddol gallai fod yn gam tuag at godi lefelau ymwybyddiaeth a disgwrs ieithyddol mewn modd cynhwysol. Fel a nodwyd eisoes, mae'r ymrwymadau am gynhwysiant o'r fath yn dyddio o 1993 pryd y cyhoeddwyd *laith Pawb*, ac maent yn gyfredol o hyd fel y dangosodd proses ymgynghori 'Y Gynhadledd Fawr – Dweud Eich Dweud' (LIC, 2013b). Roedd y broses honno, ynghyd â'r ffaith bod y portffolio cyfrifoldeb am y Gymraeg bellach dan ofal Prif Weinidog Cymru, a'r ffaith mai ef a lywiodd y broses ymgynghori honno ei hun, wedi codi disgwyliadau'r cyhoedd ynghylch cael eu cynnwys yn bartneriaid mewn disgwrs ieithyddol (Ibid).

Ar ddiwedd y bennod ddiwethaf dadleuwyd y dylid cynllunio'n strategol i ddatblygu HYFIG a'i lledaenu ar raddfa eang, ac, yn arwyddocaol iawn, dyna un o brif gasgliadau yr unig ymchwil sylweddol arall y gwyddys amdano i faes HYIG, sef adroddiad Dafis *et al.* (2005). Arolwg o sefydliadau oedd eu harolwg nhw, ac o'i ystyried ochr yn ochr â'r arolwg (a ddisgrifir ym Mhennod 6) o hyfforddeion, a'r harolwg ategol o swyddogion a gomisiynodd HYIG, ceir tri phersbectif ar y maes.

Cyflwynodd Dafis *et al.* gyfres o 22 o argymhellion i ddatblygu'r maes (Ibid: 27-33). Nid yw gofod yn caniatáu eu hatgynhyrchu yma, a cheir yn eu plith amryw nad ydynt yn gyfoes nac yn berthnasol bellach. Serch hynny, mae byrdwn eu neges ganolog yn teilyngu sylw manwl gan y Llywodraeth. Cynigir y dylid sefydlu rhaglen o broffesiynoli, achredu a chynllunio darpariaeth HYIG yn strategol a chynyddu niferoedd yr hyfforddwrwyr cymwys i ateb y galw presennol a'r galw yn y dyfodol. Yn ogystal, mae'r adroddiad yn argymhell prif-frydio ymwybyddiaeth iaith nid yn unig yng ngweithleoedd sefydliadau ond, o fewn y maes addysg – i athrawon ac i fyfyrwyr; yn y gymuned, ar gyfer gwahanol grwpiau targed; ac ar draws y proffesiynau perthnasol (Ibid: 27-33). Pe darlennid yn yr argymhellion hynny, yn lle diffiniad llac Dafis *et al.* o'r term 'ymwybyddiaeth iaith', y diffiniad sydd y traethawd hwn o ymwybyddiaeth *feirniadol* o iaith, buan yr amlygir arwyddocâd argymhellion Dafis *et al.* (2005).

Yn ddiau dyma raglen uchelgeisiol iawn ar gyfer maes na fu'n destun unrhyw ymdriniaeth sylweddol yn yr un o brif ddogfennau strategol LIC na BYIG gynt. Hyd yn oed o dan y trefniadau eilaidd presennol, mae HYIG wedi cyrraedd rhai miloedd o ddinasyddion a gyflogir yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Tyn Dafis *et al.* sylw at y gydnabyddiaeth eang o werth a phwysigrwydd HYIG, gan nodi am yr ymatebion a gafwyd i'w harolwg nhw:

Roedd pob ymateb bron yn nodi fod [sic] gwir angen HYI ac y dylid darparu mwy ohono i'r dyfodol, a datblygu'r maes yn fwiadus. Mae'n allweddol i gynnydd a gwreiddiad gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad (...) Dylai fod yn flaenoriaeth. Daw'r negeseuon hyn yn glir o bob cyfeiriad, ac o bob diddordeb yn y maes (Ibid:27).

Rhai trywyddau ymchwil posibl yn deillio o'r traethawd hwn

Diau y gall llawer o wahanol drywyddau ymchwil posibl ddod i feddwl y darlennydd wrth ddarllen y traethawd hwn, yn dibynnu ar ei ddiddordebau ymchwil a'i gefndir academaidd. Nodir isod rai trywyddau a fyddai, ym marn yr awdur, yn estyniadau naturiol i'r ymchwil hwn.

Y ffactorau sy'n atal 'bwriadau ymddygiadol' rhag troi'n arferion ieithyddol newydd

Nodwyd eisoes fod LIC am ymchwilio i wahanol ddulliau a thechnegau a allai fod yn ddefnyddiol wrth geisio 'newid ymddygiad ieithyddol'. Cydnabuwyd eisoes na all sesiwn 3 awr o HYFIG fod yn fodd i newid arferion ieithyddol, ond dangosodd yr arolwg a ddisgrifir yn y traethawd hwn fod cryn nifer o atebwyr, ar ôl derbyn HYFIG, wedi mynegi 'bwriadau ymddygiadol' (Ajzen a Fishbein, 1980) i ymwneud â'r

Gymraeg i raddau mwy nag a wnaent yn flaenorol. Fe'n hatgoffir gan Garrett (2010:28) y gall sawl ffactor rwystro bwriadau o'r fath rhag troi'n arferion ieithyddol newydd. Buddiol fyddai cynnal prosiect ymchwil ethnograffig arhydol i adnabod y ffactorau hynny. Byddai prosiect o'r fath yn cyfuno agweddau ar seicoleg cymdeithasol â chymdeithaseg iaith. Gellid olrhain dewisiadau ieithyddol dinasyddion dros gyfnod, wedi iddynt brofi ymyriad ieithyddol ysgogol ar ffurf HYFIG, ac wrth iddynt barhau ar gontinwmm o gyfleoedd disgyrsiol cyfnodol. Nododd rhai o'r swyddogion a drefnodd y sesiynau HYFIG a drafodir yn yr Arolwg Hyfforddeion y byddai'n ddiddorol olrhain ymddygiadau unigolion a dderbyniai HYFIG yn gyfnodol er enghraifft, o gofio grym a dylanwad disgyrsiau eraill ar unigolion cyn, ac wedi iddynt dderbyn HYFIG. Er y buddsoddiad adnoddau a fyddai'n angenrheidiol i gynnal astudiaeth arhydol o'r fath, gallai ei chanfyddiadau fod yn arwyddocaol iawn o ran gwerthuso effaith ymyriadau penodol. Gallai ymchwil o'r fath fod yn bwysig hefyd i brosiectau megis TWF a Tyfu Gyda'r Gymraeg.

Ymwybyddiaeth iaith, newid ymddygiad, a *habitus*

Trywydd cysylltiedig â'r ymchwil uchod, ond sydd â ffocws braidd yn wahanol, fyddai ymdriniaeth ag arwyddocâd *habitus* yn y maes newid agweddau a newid ymddygiad. Mae cysyniad Bourdieu o *habitus* yn disgrifio'r modd y mae diwylliant unrhyw grŵp cymdeithasol yn cael ei fewnoli a'i 'ymgorffori' yn yr unigolyn drwy'r broses cymdeithasoli sy'n dechrau yng nghyfnod cynnar plentyndod. *Habitus* yw 'society written into the body, into the biological individual' (Bourdieu, 1990: 63). Noda Garrett (2010) mai'r agweddau ac ymddygiadau a gaffaelwn drwy gymdeithasoliad yw'r rhai mwyaf anodd i'w newid. Gwelsom o dystiolaeth yr Arolwg Hyfforddeion y gall HYFIG beri i hyfforddeion gwestiynu agweddau ar eu cymdeithasoliad, yn enwedig perspectifau a gaffaelwyd drwy'r system addysg, a gall marchnata cymdeithasol ddylanwadu yn yr un modd hefyd. Gall dealltwriaeth o natur *habitus*, a'r berthynas rhwng ei nodweddion ef a newid ymddygiad fod yn destun ymchwil pwysig.

The *habitus* installed in people's minds needs to be shaken off if they are to reorganize their systems of interpretations and formulate new visions of reality which favor changes in specific behavior. In all probability the modification of ideas and of social behavior on a mass scale will be more difficult if individuals do not perceive that the new situation represents a step forward, be it for instrumental or utilitarian reasons, or for reasons of identification (Bastardas-Boada, 1995:8).

Dichon y gellid dadansoddi rôl HYFIG, marchnata cymdeithasol, a thechnegau eraill yng ngoleuni ymchwil o'r fath.

Astudiaeth gymharol o'r modd y mae dinasyddion yn ymateb i ymyriadau ar ffurf disgwrs rhyngweithiol o'u cymharu ag ymyriadau marchnata a chyhoeddiadau polisi

Dechreuodd BYIG gyhoeddi deunyddiau i farchnata'r Gymraeg yn fuan wedi Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Dros y blynyddoedd cafwyd amryw o ymgyrchoedd marchnata a deunyddiau marchnata hyd nes y daeth y Bwrdd i ben yn 2012. Ni chafwyd ymgyrchoedd tebyg gan LICC a'i hasiantau ond olrheiniwyd ym Mhennod 4 y nifer sylweddol o destunau polisi cyhoeddus perthnasol a gyhoeddwyd ganddi. Serch y gweithgarwrch cyfathrebol hwn, un o'r nifer o ganfyddiadau dadlennol yn yr arolwg uchod oedd anwybodaeth yr atebwyr ynghylch y testunau ac ymgyrchoedd hyn. Er rithreg y Llywodraeth ynghylch cynnal disgwrs partneriaethol â'r gymdeithas sifil er mwyn hybu 'perchnogaeth' dinasyddion ar y prosesau cynllunio ieithyddol, ni chafwyd tystiolaeth o wireddiad y rithreg hon. Yr argraff a roddir gan dystiolaeth yr Arolwg Hyfforddeion yw fod 'disgwrs am adfywio'r Gymraeg' yn digwydd o fewn 'y gymuned cynllunio ieithyddol' a geir mewn sefydliadau ac oddi mewn i academia, ond nad yw'n cynnwys - na chyrraedd - niferoedd sylweddol o ddinasyddion y tu allan i'r peuoedd hynny.

Awgryma'r ymchwil hwn am HYFIG, ynghyd ag ymchwil am brosiect TWF (Edwards a Newcombe, 2005; Irvine, Roberts et al., 2008) y gall natur disgwrs ieithyddol, ac o bosibl ei effaith, fod yn wahanol iawn pan fo ar ffurf ddisgyrsiol, ryngpersonol. Gan fod cymaint o gyfathrebu rhwng y wladwriaeth a dinasyddion yn digwydd drwy gyfrwng technoleg gwybodaeth, dosbarthu gwybodaeth i gynulleidfa oddefol a marchnata, gall fod yn ddadlennol cymharu'r dulliau hyn â dulliau cyfathrebu rhyngpersonol. Un trywydd posibl a ysgogir gan yr ymchwil hwn fyddai astudiaeth yn cymharu i ba raddau yr ysgogir 'bwriadau ymddygiadol' ieithyddol gan y gwahanol ymyriadau cyfathrebol.

Ymchwil mwy cyson ac arhydol i fesur effeithiolrwydd 'cynhwysiant' ac ymyriadau polisi eraill

Yn dilyn o'r drafodaeth uchod, sylwir na chynhaliwyd dim ymchwil gan y Llywodraeth i fesur effeithiolrwydd ei bolisi 'cynhwysol'. Gan fod datganiadau cyson yn nhestunau polisi yr 11 mlynedd diwethaf am gynnwys dinasyddion yn bartner allweddol yn y prosiect adfywio ieithyddol, a chan fod llwyddiant y prosiect yn ddibynnol ar hyn, mae'r diffyg ymchwil pwrpasol yn peri syndod. Mae hyn yn tynnu

sylw at ymagwedd braidd yn anghyson y Llywodraeth ag at yr agenda ymchwil. Ni chynhelir gwerthusiadau parhaus, arhydol o effeithiolrwydd prif ymyriadau megis y Mentrau Iaith, TWF, y Mudiad Meithrin, Cymraeg i Oedolion ac yn y blaen. Yn hytrach, cynhelir adolygiadau cyfnodol, a'u dyfarnu i ymchwilwyr ar sail trefn dendro. I weision sifil sy'n rheolwyr prosesau caffael o fewn y Llywodraeth, efallai fod trin ymchwil ieithyddol yn yr un modd ag y trinnir unrhyw nwydd arall a gaffaelir yn fodd iddynt brofi cost-effeithiolrwydd. Ond o safbwynt cadernid yr ymchwil, golyga'r diffyg cysondeb methodolegol na ellir asesu gwir arwyddocâd ac effaith arhydol yr ymyriadau. Gall astudiaeth o'r fath a awgrymir yma gyfrannu at ddangos gwir werth yr ymyriadau dros gyfnod.

Astudiaeth gymharol er canfod a oes ymyriadau tebyg i HYFIG i gefnogi adfywio ieithyddol mewn gwledydd eraill

Gwyddys fod disgwrs y 'mudiad YI' wedi ymestyn o blith ei ymarferwyr a lladmeryddion cynnar yn Lloegr ac wedi ennyn diddordeb a gweithgarwch bellach ymhlith addygwyr ac ieithyddion yn rhyngwladol. Tystia'r mynegai i erthyglau'r cylchgrawn academaidd Language Awareness i ddylanwad cynyddol YI mewn nifer fawr o sefyllfaoedd caffael iaith⁶⁴. Nodir hefyd fod corff cynyddol o lenyddiaeth yn ymdrin â ffurfiau beirniadol ar YI.

Fodd bynnag, ni welir ymhlith yr erthyglau a restrir yn y mynegai uchod gyfeiriadau at ffurfiau ar YI debyg i HYFIG. Diddorol fyddai ymchwilio i ganfod a arferir ffurfiau tebyg i HYFIG y tu allan i faes addysgeg caffael iaith mewn gwledydd eraill megis Catalunya a Gwlad y Basg lle ceir ystodau o ymyriadau adfywio ieithyddol yn ymdrin â llawer o heriau tebyg i'r rhai a wynebir yng Nghymru. Gall astudiaeth o'r fath fwrw goleuni pellach ar werth a photensial HYFIG, gan agor y drws i ysgolheigion ac ymarferwyr elwa o brofiadau a methodolegau ei gilydd.

Rhagolygon am ddisgwrs ieithyddol yng nghyfnod y Safonau Iaith

Yn wyneb canfyddiadau'r traethawd hwn am y lefelau isel o wybodaeth a disgwrs ieithyddol ymhlith y dinasyddion hynny a atebodd yr Arolwg Hyfforddeion, a'r prinder ymyriadau polisi disgrysiol, priodol yw gofyn o ba gyfeiriad y daw cyfleoedd i ddinasyddion ymuno yn y disgwrs am y Gymraeg. A sut y deuant i 'berchnogi'r iaith' fel a fwriedid yn ôl y rhethreg polisi. Dangoswyd yn y traethawd hwn sut y gall HYFIG

⁶⁴ Gweler http://www.tandfonline.com/loi/rmla20#.VIY1_ctybug.

gyfrannu'n sylweddol at ledaenu ymwybyddiaeth a disgwrs ieithyddol. Ystyriwn yn y paragraffau dilynol rai dylanwadau posibl ar ddyfodol HYFIG.

Nodwyd yng nghorff y traethawd fod dirwyn BYIG i ben wedi rhoi terfyn ar y pwysau a ddygid ganddo 'oddi uchod'ar gyrff cyhoeddus i ddarparu HYIG i'w staff. O ran amseriad yr ymchwil hwn, dichon bod canfyddiadau'r Arolwg Hyfforddeion yn rhoi ciplun ar raddau o weithgawrch ym maes HYFIG nas gwelir eto yn y dyfodol agos. Yn hynny o beth, hwyrach y dechreuwyd cau'n raddol y 'porth mynediad' pwysig hwn i ddisgwrs ieithyddol ymhlith dinasyddion.

At hynny, golyga cyfyngiadau cylch gorchwyl rheoleiddiol a mwy ffurfiol Comisiynydd y Gymraeg nad yw ei swyddogion hithau yn cynnal yr un mathau o ddisgwrs creadigol, anogol ag a wnâi swyddogion BYIG â sefydliadau. Roedd y ffrwd disgwrs honno'n un gynhyrchiol ac esgorodd ar lawer o arfer dwyieithog da dros y blynyddoedd, a chydweithredu agos rhwng prif asiantaeth cynllunio ieithyddol y wladwriaeth a swyddogion cynllunio ieithyddol o fewn sefydliadau, penaethiaid adrannau, rheolwyr gwasanaethau, a phwyllgorau iaith. Fel rhan o'r disgwrs hwnnw dygid perswâd ar lawer o gyrff cyhoeddus i fuddsoddi mewn cynnal HYIG i'w staff. Bellach daeth terfyn ar lawer o'r mathau hynny o 'discourse within institutions' a symbylid gan weithgarwch BYIG (Williams, 2004; 2014).

Erbyn hyn, gweision sifil LIC sy'n bennaf gyfrifol am hyrwyddo'r Gymraeg, ond ar y cyfan prin yw unrhyw berthynas rhyngddynt hwy a 'swyddogion iaith' sefydliadau. Nid yw diwylliant mewnol hierarchaidd na thraddodiadau y gwasanaeth sifil yn rhai sy'n tueddu i feithrin disgwrs creadigol â sefydliadau na'r cyhoedd.

Ffactor arall sy'n berthnasol i awdurdodau lleol, pau lle y cynhelid cymaint o HYIG i staff dros y blynyddoedd diwethaf, yw bwriad LIC i ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru erbyn 2017, gan uno rhai Cynghorau â'i gilydd. Eisoës mae rhai yn y mudiad iaith wedi mynegi pryderon y gall hyn arwain at wanhau gweithrediad polisïau ieithyddol y Cynghorau mwyaf Cymraeg (BBC Cymru Fyw, 2013). Gall olygu hefyd y bydd rheolwyr o fewn llywodraeth leol yn oedi cyn sefydlu a gweithredu'r Safonau Iaith o fewn eu gweinyddiaethau, gan ddadlau na fydd trefniadaeth eu gwasanaethau a phroffil staffio'r sefydliad yn eglur hyd nes y bydd yr ad-drefnu wedi ei gwblhau. A gall hyn yn ei dro ddylanwadu ar eu canfyddiad o'r angen am HYIG yn y tymor byr a'r tymor canolig.

Ar yr ochr olau, calonogol yw nodi bwriad y Llywodraeth i ymchwilio i faes 'newid ymddygiad ieithyddol'. Diau y bydd y broses ymchwilio yn cwmpasu nifer o'r agweddau a drafodir yn y traethawd hwn. Awgrymir bod yr astudiaeth hon yn gyfraniad i'r disgwrs am yr heriau sy'n wynebu cynllunwyr iaith yn y maes cymhleth hwn.

Arwydd calonogol arall yw fod y Safonau Iaith Cyntaf a gyhoeddwyd ar ffurf ddrafft ymgynghorol gan Lywodraeth Cymru yn Nhachwedd 2014 yn rhoi sylw i HYIG. Bydd y gyfres gyntaf hon o Safonau yn berthnasol i Gynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref, Parciau Cenedlaethol Cymru a Gweinidogion LIC. Yn Atodlen 6 i'r Rheoliadau drafft sy'n cynnwys y Safonau arfaethedig, cyflwynir 'Safonau Atodol' sy'n ychwanegol at y pum prif Safon a amlinellwyd ym Mesur 2011. Yn eu plith cynhwysir y Safon ddrafft ganlynol o dan y pennawd 'Safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu'.

Safon 130: Rhaid i chi ddarparu hyfforddiant i'ch cyflogeion er mwyn iddynt feithrin—

- (a) ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru);
- (b) dealltwriaeth o'r gofynion sydd arnoch i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg;
- (c) dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle (LIC, 2014d: 31).

Cyn i'r Safonau drafft gael eu cyflwyno gerbron Senedd Cymru ym Mawrth 2015, fe all geiriad y Safon uchod gael ei ddiwygio neu ei ddileu yng ngoleuni'r ymgynghoriad a ddaeth i ben ar ddiwedd wythnos gyntaf Rhagfyr 2014. Er hynny, mae'r ffaith bod y Safon uchod wedi ei chynnwys yn y fersiwn drafft terfynol yn arwydd sicr bod Comisiynydd y Gymraeg a LIC yn ymwybodol o bwysigrwydd HYIG. Dichon y bydd y traethawd hwn yn ychwanegu at ddealltwriaeth y ddau gorff o'r maes, ac yn ategu'r ddatl dros integreiddio gofyniad am HYIG o fewn y drefn Safonau Iaith. Byddai hyn yn ei dro yn gam tuag at wireddu un agwedd ar yr argymhelliad uchod i ddatblygu a lledaenu HYIG mewn sawl dull a modd.

Clo

Wrth ystyried dyfodol HYFIG, er bod yr heriau'n sylweddol, braf yw ail-ddatgan un canfyddiad pwysig iawn a darddodd o'r gwaith hwn. Y canfyddiad hwnnw yw bod mwyafrif y sampl o ddinasyddion Cymru a drafodir yma wedi ymateb yn frwd ac yn bositif i'r cyfle a gawsent drwy HYFIG i dderbyn gwybodaeth am y Gymraeg ac ymuno yn y disgwrs am ei gorffennol, ei phresennol a'i dyfodol. Credir bod hwn yn ganfyddiad arwyddocaol iawn. Mae'n arwydd o gyfraniad allweddol HYFIG at gynllunio ieithyddol cynhwysol. Mae'n agor cil y drws ar yr hyn a ddisgrifiwyd gan Janks ac Ivanič yn 'emancipatory discourse'. Ac yn y pen draw, dyna a gymhellodd ddiddordeb yr awdur yn yr ymchwil hwn yn y lle cyntaf:

We are concerned with the part people play in longer-term processes of change and struggle...Changing these language practices can be transformative. When discourse breaks the cycle of reproducing domination it becomes emancipatory (Janks ac Ivanič, 1992:305).

Cyfeiriadau

Ager, D. (2001). *Motivation in Language Planning and Language Policy*, Clevedon: Multilingual Matters.

AILA (Association International de Linguistique Appliquée / Association of Applied Linguistics) (d.d.) Gwefan gyhoeddus: <http://www.aila.info/en/about.html> Cyrchwyd 1.7.14.

ALA (Association for Language Awareness) (d.d.) Gwefan gyhoeddus: <http://bit.ly/1qtFBXJ> Cyrchwyd 1.8.14

Ajzen, I. a Fishbein, M. (1980) *Understanding Attitudes and Predicting Social Behaviour*, Englewood Cliffs, NJ: Prentice Hall.

Allport, G. (1954). The historical background of modern social psychology. Yn Lindzey, G. (gol.) *Handbook of Social Psychology*, vol.1: *Theory and Method*, 3 – 56, Cambridge, MA: Addison-Wesley.

Andrews, L. (1998). *Language Exploration and Awareness: A Resource Book for Teachers*, 2il argraffiad, Mahwah, New Jersey: Lawrence Erlbaum Associates.

Angrosino, M. (2007). *Doing Ethnographic and Observational Research*, London: Sage.

Aplin, R. (1997). *Knowledge about Language and Language Awareness – an annotated bibliography*, Leicester: Association for Language Awareness: University of Leicester.

Arefi, M. (2003) Revisiting the Los Angeles Neighborhood Initiative (LANI): Lessons for Planners. *Journal of Planning Education and Research*, vol.22 iss.4: 384.

Arndt, V., Harvey, P. a Nuttall, J. (2000). *Alive to Language – Perspectives on language awareness for English language teachers*, Cambridge: Cambridge University Press.

Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol (2005). *Asesu hyfedredd mewn darllen ac ysgrifennu Cymraeg*. <http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/100412assessingreadingcy.pdf>
Cyrchwyd 1.10.14.

Auerbach, E. (2000). 'Creating participatory learning communities: paradoxes and possibilities'. Yn Hall, J.K. ac Egginton, W. (goln.), *The Sociopolitics of English Language Teaching*, 143 – 164, Clevedon: Multilingual Matters

Auerbach, E. a Wallerstein, N. (1987). *ESL Action: Problem posing at work*, Reading, MA.: Addison Wesley.

Austin, P.K a Sallabank, J. (2011). Introduction. Yn Austin, P. K a Sallabank, J. *Cambridge Handbook of Endangered Languages*, Cambridge: Cambridge University Press.

Baker, C. (1998). *Intergenerational Transfer in the Home*, Cardiff: Welsh Language Board.

Baker, C. a Jones, S.P. (1998). *Encyclopedia of Bilingualism and Bilingual Education*, Clevedon: Multilingual Matters.

Barlow, D.M. (2005). 'What's in the 'Post'? Mass Media as a Site of Struggle. Yn Aaron, J. a Williams, C. (goln.) *Postcolonial Wales*, Cardiff: University of Wales Press.

Bartsch, R. (1988). *Norms of Language*, London: Longman.

Bastardas-Boada, A. (1995). Language management and language behavior change: policies and social persistence. *Catalan Review. International Journal of Catalan Culture*, vol. IX, 2, 15-38

BBC Cymru (2004). Gwe-ddolen. *Delwedd newydd i Fwrdd yr Iaith*. Adroddiad dyddiedig 12.15.04 ar wefan newyddion: <http://bbc.in/1tZq5kH> Cyrchwyd 30.9.14.

BBC Cymru Fyw (2013). Gwe-ddolen. *Galw am warchod y Gymraeg wrth ad-drefnu Llywodraeth Leol*, adroddiad 9.9.13 ar wefan newyddion <http://bit.ly/162xBkc>
Cyrchwyd 1.10.14.

BBC Democatiaeth Fyw (2013). Gwe-ddolen. *Dadl Plaid Cymru ar yr Iaith Gymraeg*. Darllediad byw o ddadl ar yr iaith Gymraeg yn Senedd CCC: <http://bbc.in/1q98Fy9> Cyrchwyd 21.9.14

BBC News (2000). *Elis-Thomas in language row*. Adroddiad ar wefan BBC News, 4.6.2000. <http://news.bbc.co.uk/1/hi/wales/776895.stm> Cyrchwyd 21.9.14

Becker, H. S. (1967) 'Whose side are we on?', *Social Problems*, vol. 14, 239 – 47

Bee, B. (1993). Critical literacy and the politics of gender. Yn Lankshear, C. a McClaren, P. (goln.), *Critical Literacy: Politics, praxis and the postmodern*, 105 - 132, Albany: State University of New York Press.

Bhatt, A. a Martin-Jones, M. (1992). Whose Resource? Minority Languages, Bilingual Learners and Language Awareness. Yn Fairclough, N. (gol.), *Critical Language Awareness*, London: Longman.

Billig, M. (1995). *Banal Nationalism*, London: Sage.

Bloor, M. (1997) Techniques of validation in qualitative research: a critical commentary. Yn Miller, G. a Dingwall, R. (goln.) *Context and Method in Qualitative Research*, 37-50, London: Sage.

Bourdieu, P. a Passeron, J-C. (1977). *Reproduction in education, society and culture*. London: Sage (Cyfieithiad o: *La reproduction: éléments pour une théorie du système d'enseignement*. Paris, France: Editions de Minuit, 1970).

Bourdieu, P. (1977). The political function of the intellectual. *Radical Philosophy*, 17, 12-14.

Bourdieu, P. (1986) The forms of capital. Yn Richardson, J. (gol.) *Handbook of Theory and Research for the Sociology of Education*, 241-258, New York: Greenwood.

Bourdieu (1990). *In Other Words - Essays Towards a Reflexive Sociology* Cyfieithiad gan Matthew Adamson o *Choses Dites* (Paris 1987) . Cambridge: Polity Press.

Bourdieu, P. (1991). *Language and Symbolic Power*, Cambridge: Polity.

Brockliss, L. a Eastwood, D. (1997). *A Union of Multiple Identities: The British Isles 1750-1850*, Manchester: Manchester University Press.

Brooks, S. (2009). The Rhetoric of Civic 'Inclusivity' and the Welsh Language. *Contemporary Wales*, 22, 1–15.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (1989). *Yr Iaith Gymraeg: Strategaeth i'r Dyfodol*, Caerdydd: BYIG.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (1991). *Argymhellion ar gyfer deddf newydd i'r iaith Gymraeg: Adroddiad gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg i Ysgrifennydd Gwladol Cymru*, Caerdydd: BYIG.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (1996a). *Cynlluniau Iaith Gymraeg – eu paratoi a'u cymeradwyo yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993*, Caerdydd: BYIG.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (1996b). *Strategaeth ar gyfer yr Iaith Gymraeg*, Caerdydd: BYIG.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (1999). *Yr Iaith Gymraeg: Cenhadaeth a Gweledigaeth ar gyfer 2000- 2005*, dogfen a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd: BYIG.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2001). *Marchnata mewn leithoedd Lleiafrifol: Adroddiad Gweithdy Ewropeaidd ar Farchnata mewn leithoedd Lleiafrifol a gynhaliwyd ym Mhorthmeirion, Mehefin 25-27*, Caerdydd: BYIG.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (c.2003). *Her i Gymru –yr iaith Gymraeg fel rhan o'r maes cyfle cyfartal*, taflen, Caerdydd: BYIG.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2004). *Strategaeth Farchnata 2004/5 a 2005/6*. Caerdydd: BYIG.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2005a). *Cyngor Diwygio Cynlluniau Iaith ar gyfer Awdurdodau Lleol 2005*, cylchlythyr, Caerdydd: BYIG.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2005b). *Dyfodol y Gymraeg – Cynllun Strategol*, Caerdydd: BYIG.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2006a). *Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith - strategaeth ddrafft*, Caerdydd: BYIG. Dogfen ddrafft anghyhoeddedig a ddosbarthwyd ar gyfer ymgynghoriad cyfyngedig yn unig.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2008a). *Arolygon Defnydd Iaith 2004-06*, Caerdydd: BYIG. <http://bit.ly/XBfUTX> Cyrchwyd 17.9.14.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2008b). *Strategaeth Sector Gwirfoddol*, Caerdydd: BYIG.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (c.2009). *Hyrwyddo a Hwyluso Gweithleoedd Dwyieithog*, BYIG: Caerdydd.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2010a). *Beth yw Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith? – a ddylwn ni ystyried hyfforddiant o'r fath?* Gwe-ddolen ar wefan BYIG gynt. Bellach ar gael ar <http://bit.ly/1tsg1if> Cyrchwyd 1.10.14.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2010b). *Recriwtio a'r Iaith Gymraeg – Arweiniad o dan Adran 3 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993*, Caerdydd: BYIG

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2011). *Adolygiad Blynyddol Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2010-11*. Caerdydd: BYIG.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg / Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol (1996). 'Cytgord rhwng Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol 1996'. Atgynhychir yn Comisiynydd y Gymraeg (2012a), Atodiad 5:37.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg / Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008). *Pecyn Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith*, Caerdydd: BYIG / LICC.

Calhoun, C.J. (2002). *Classical Sociological Theory*. Wiley-Blackwell.

Cameron, D. (2001). *Working With Spoken Discourse*, London: Sage.

Campbell, C. (2000). Menter Cwm Gwendraeth. Yn Williams, C. (gol.), *Language Revitalization – Policy and Planning in Wales*, Cardiff: University of Wales Press.

Canagarajah, S. (1999). *Resisting Linguistic Imperialism in English Teaching*, Oxford: Oxford University Press.

Candlin, C.N. (1989). General Editor's Preface. Yn Fairclough, N. *Language and Power*.

Candlin, C.N. (1992). General Editor's Preface. Yn Garrett, P. a James, C., *Language Awareness in the Classroom*, London: Longman.

Cardinal, L. (2007). New Approaches for the Empowerment of Linguistic Minorities: A Study of Language Policy Innovation in Canada since the 1980s. Yn Williams, C.H. (gol.) *Language and Governance*, Cardiff: University of Wales Press.

Carlin, P. J. (2013). Doing as they are told? Subregional language policies in the Basque Country, Catalonia and Wales. *Regional and Federal Studies* 23(1): 67-85.

Carter, H. (1990). Dirywiad yr Iaith Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif. Yn Jenkins, G. (gol.), *Cof Cenedl V: Ysgrifau ar Hanes Cymru*, Llandysul: Gwasg Gomer.

Carter, R. (1997). *Investigating English Discourse*, London: Routledge.

Carter, R. (1990) (gol.). *Knowledge about Language and the Curriculum*, London: Hodder and Stoughton.

Chaney, P. a Fevre, R. (2001). Ron Davies and the cult of "inclusiveness": devolution and participation in Wales. *Contemporary Wales*, 14, 21–49.

Chomsky, N. (1957). *Syntactic Structures*, The Hague: Mouton.

Chomsky, N. (1965). *Aspects of the Theory of Syntax*, Cambridge, MA.: The MIT Press.

Chomsky, N. (1979). *Language and Responsibility*, London: Harvester.

Clark, R., Cottey, A., Constantinou, C. a Yeoh, O.C. (1991). Rights and obligations in student writing. Yn *Language and Power*, British Studies in Applied Linguistics, 5. British Association of Applied Linguistics (BAAL) ar y cyd â'r Centre for Information on Language Teaching and Research (CILT).

- Clark, R. ac Ivanič, R. (1997). *The Politics of Writing*, London: Routledge.
- Coleg Cymraeg Cenedlaethol (2014). *Cynllun Strategol 2014/15 hyd at 2016/17*, Caerfyrddin: Coleg Cymraeg Cenedlaethol. <http://bit.ly/XUkehD> Cyrchwyd 17.9.14.
- Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2008). *Cynllun Busnes 2008 / 09*, London: Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.
- Comisiynydd y Gymraeg (2012a). *Recriwtio: Ystyried y Gymraeg*, Caerdydd: Comisiynydd y Gymraeg.
- Comisiynydd y Gymraeg (2012b). *Cyflwyniad i waith Comisiynydd y Gymraeg*, Caerdydd: Comisiynydd y Gymraeg.
- Comisiynydd y Gymraeg (2013). *Adroddiad Blynyddol 2012-2013*. Caerdydd: Comisiynydd y Gymraeg. <http://bit.ly/1iIH8fO> Cyrchwyd 1.8.14.
- Cook, S. a Sellitz, C. (1964). A multiple-indicator approach to attitude measurement. *Psychological Bulletin*, 62, 36 – 55.
- Cooper, R.L. (1989). *Language Planning and Social Change*, Cambridge: Cambridge University Press.
- Corder, S.P. (1973). *Introducing Applied Linguistics*, Harmondsworth: Penguin.
- Crystal, D. (2000). *Language Death*, Cambridge: Cambridge University Press.
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (2002). *Y Safon Gydraddoldeb i Lywodraeth Leol (2002)*, Caerdydd: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (2008). *Fframwaith Gwella Cydraddoldeb i Gymru*, Caerdydd: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. <http://bit.ly/1yD5cgW> Cyrchwyd 1.10.14.
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (2011). *Fframwaith Gwella Cydraddoldeb i Gymru*, Caerdydd: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. <http://bit.ly/1vmRFUQ> Cyrchwyd 1.10.14.

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg (2012). Gwefan:<http://cymdeithas.org/cyfrifiad>
Cyrchwyd 1.10.14.

Cymraeg i Oedolion (d.d.) Gwefan: <http://www.cymraegioedolion.org/?lang=cy>
Cyrchwyd 1.10.14.

Cyngor Sir y Fflint (2006). *Cynllun Iaith Gymraeg, 2006 – 2009*. Yr Wyddgrug:
Cyngor Sir y Fflint.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (2009). *Cynllun Iaith Gymraeg*, Conwy: Cyngor
Bwrdeistref Sirol Conwy <http://bit.ly/1vbhh72> Cyrchwyd 1.10.14.

Cyngor Sir Caerfyrddin (2011). *Cynllun Iaith Gymraeg*, Caerfyrddin: Cyngor Sir
Caerfyrddin <http://bit.ly/1E3HzOM> Cyrchwyd 1.10.14.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2002a). *Ein Hiaith: Ei Dyfodol – Adolygiad Polisi o'r
Iaith Gymraeg*, Caerdydd: CCC.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2002b). *Cynllun Iaith Gymraeg ar gyfer Llywodraeth
Cynulliad Cymru*, Caerdydd: LICC.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2003). *Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol
ar gyfer Cymru Ddwyieithog*, Caerdydd: CCC.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2007). *CIG Gymraeg Gorffennaf 2007*, Caerdydd:
CCC.

Dafis, Ll. (1993). *Yr angen i ddeall: cwrs hyfforddi ar gyfer gweithwyr yn y
gwasanaethau cyhoeddus*, Llanbedr Pont Steffan: Iaith. Deunydd sydd bellach allan
o brint. Cyfeirir ato yn llyfryddiaeth Siencyn, S.W. (1994:44).

Dafis, Rh., Roberts, D.B., Phillips, D. a Miller, A. (2005). *Hyfforddiant Ymwybyddiaeth
Iaith – Arolwg i ELWa*, Caerdydd: ELWa.

Davies, A. (1999). *An Introduction to Applied Linguistics*, Edinburgh: Edinburgh
University Press.

- Davies, E. (1994). *"They all speak English anyway" – yr iaith Gymraeg ac ymarfer gwrth-orthrymol*, Caerdydd: CCETSW Cymru.
- Davies, E. (1999). *Iaith mewn Gwasanaeth Gofalgar – canllaw ar ddarparu gwasanaeth dwyieithog sensitif, gyda golwg ar y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a gweinyddu'r gyfraith*, Caerdydd: BYIG.
- Davies, E. (2001). *"They all speak English anyway" 2 (Pecyn gweithdy undydd) —yr iaith Gymraeg ac ymarfer gwrth-orthrymol*, Caerdydd: CCETSW Cymru.
- Davies E. (2010a). *"They all speak English anyway"—y Gymraeg ac ymarfer gwrth-orthrymol*, CD Rom, Caerdydd: Cyngor Gofal Cymru.
- Davies, E. (2010b). Hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith – allwedd i greu siaradwyr Cymraeg newydd. Erthygl yng nghylchgrawn ar-lein *Y Tiwtor*, Rhif 10, Gwanwyn 2010, CBAC / Cymraeg i Oedolion <http://bit.ly/1tt2rJR> Cyrchwyd 1.10.14.
- Davies, E. (2011). From the Margins to the Centre: Language-sensitive Practice and Social Welfare. Yn Williams, C. (gol.) *Social Policy for Social Welfare Practice in a Devolved Wales*, 2nd Edition, Birmingham Venture Press.
- Davies, E. (2011). *Profiad siaradwyr Cymraeg o'r Gwasanaethau Iechyd a Gofal*, Castellnewydd Emlyn: Iaith – Y Ganolfan Cynllunio Iaith.
- Davies, E., Huws Williams, Rh., a Williams, H., (1994). *Gwaith Cymdeithasol a'r Iaith Gymraeg*, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Davies, J. (1994). *Broadcasting and the BBC in Wales*, Cardiff: University of Wales Press.
- Davies, J. (1995). The Welsh Language. Yn Herbert, T. a Jones, G.E. (goln.), *Post-War Wales*, Cardiff: University of Wales Press.
- Davies, J. (1999). *The Welsh Language*, Cardiff: University of Wales Press. .
- Davies, J. (1990). *Hanes Cymru*, London: Allen and Lane.
- Davies, N. (1999). *The Isles*, London: Macmillan.

Day, G.; Davies, H. a Drakakis-Smith, A. (2006). Being English in North Wales: Immigration and Immigrant Experience. Yn *Nationalism and Ethnic Politics*, 12,3, 577-598.

Day, G. a Thompson, A. (1999). Situating Welshness: 'Local' Experience and National Identity. Yn Fevre, R. A Thompson, A, (goln.), *Nation, Identity and Social Theory: Perspectives from Wales*, Cardiff: University of Wales Press.

Davies, E. (2008). *Siarad am Sir Gâr: Cyflwyniad i Ymwybyddiaeth Iaith*. CD-ROM ar ymwybyddiaeth iaith ar gyfer staff y Cyngor, Castellnewydd Emlyn: Iaith (ar ran Cyngor Sir Caerfyrddin).

Davies, E. (2009) *Dwy Iaith Dau Ddewis? Y cysyniad o ddewis iaith ym maes gwaith a gofal cymdeithasol*, Caerdydd: Cyngor Gofal Cymru

Davies, E. (2010). Hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith - allwedd i greu siaradwyr Cymraeg newydd. Erthygl yng nghylchgrawn ar-lein *Y Tiwtor*, Rhif 10, Gwanwyn 2010, CRAC / Cymraeg i Oedolion [<http://bit.ly/1tt2rJR>](http://bit.ly/1tt2rJR) Cyrchwyd 1.10.14.

Davies, E. (2011). From the Margins to the Centre: Language-sensitive Practice and Social Welfare. Yn Williams, C. (gol.) *Social Policy for Social Welfare Practice in a Devolved Wales* 2nd Edition, Birminham Venture Press.

Denscombe, M. (2007). *The Good Research Guide: For small-scale social research projects*. Open University Press.

Department of Education and Science (DES) (1975). *A Language for Life. Report of a Committee of Inquiry under the Chairmanship of Sir Alan Bullock*, London: HMSO.

Department of Education and Science (DES) (1988). *Report of the Committee of Inquiry into the teaching of English*, London: HMSO.

Department of Education and Science (DES) (1989). *Report of the English Working Party: English for Ages 5 to 16*, London: HMSO.

Dolan, P., Hallsworth, M., Halpern, D., King, D., a Vlaev, I. (2010) *Mindspace – Influencing Behaviour Through Public Policy. The Practical Guide*. Cabinet Office / Institute for Government: London.

Donmall, B.G. (gol.) (1985). *Language Awareness*, London: Centre for Information on Language Teaching and Research (CILT).

Donmall, G. (1992). The Scope of Language Awareness. Yn Garrett, P. a James, C. . (goln.), *Language Awareness in the Classroom*, London: Longman.

Donmall-Hicks, B.G (1997). The History of Language Awareness in the United Kingdom. Yn Van Lier, L. a Corson, D. (goln.), *Encyclopaedia of Language and Education*, Vol.6: Knowledge about Language (21-30), Dordrecht: Kluwer.

Doughty, P., Pearce, J., Thornton, G. (1971). *Language in Use*, London: Edward Arnold.

Dunbar, R. (2007). Diversity in Addressing Diversity: Canadian and British Legislative Approaches to Linguistic Minorities and Their International Legal Context. Yn Williams, C.H. (gol.) *Language and Governance*, Cardiff: University of Wales Press.

Dua, H. R. (1985). *Language Planning in India*. New Delhi: Harnam Publications.

Dua, H.R. (1986). Language-planning and linguistic minorities. Yn Annamalai, E., Jernudd, B.H. a Rubin, J. (goln.), *Language planning: proceedings of an Institute* (133-173), Mysore: Central Institute of Indian Languages.

Dwyer, A. M. (2011). Tools and techniques for endangered-language assessment and revitalization. Yn *Vitality and Viability of Minority Languages. October 23-24, 2009*. New York: Trace Foundation Lecture Series Proceedings.

http://www.trace.org/events/events_lecture_proceedings.html Cyrchwyd.17.9.14.

Eaves, S. (2007). Cyfraniad Hyfforddiant Ymwybyddiaeth am yr Iaith Gymraeg at Gynllunio Ieithyddol a'r Broses o Greu Cymru Newydd. *Contemporary Wales*, 20, 81-105.

Eaves, S.; Jones, K.; Ioan, G.; Dafis, Rh. (2007). *Adroddiad Terfynol y Prosiect Hyrwyddo Gweithleoedd Dwyieithog*, Cwmni Iaith: Castellnewydd Emlyn <http://bit.ly/1sWmnBE> Cyrchwyd 15.9.14.

Edwards, V. a Newcombe, L. (2005). When school is not enough: new initiatives in intergenerational language transmission in Wales. *International Journal of Bilingualism and Bilingual Education*, 8 (4): 298-312. <http://bit.ly/1vhZFXA>
Cyrchwyd 15.9.14.

Ehala, M. (2009). An Evaluation Matrix for Ethnolinguistic Vitality. Yn Pertot, S., Priestly, T. a Williams, C. (goln.), *Rights, Promotion and Integration Issues for Minority Languages in Europe*, 123-137. Houndmills: Palgrave Macmillan.

Electoral Commission (2003). National Assembly for Wales Election 2003 Opinion Research Report, Cardiff: Electoral Commission.

Ellis, D. (2014). Twf. Adran yn *Adroddiad Blynyddol 2013-14* Iaith - y Ganolfan Cynllunio Iaith: 9. Castellnewydd Emlyn: Iaith - y Ganolfan Cynllunio Iaith.

Emerson, R. M., Fretz, R. I., a Shaw, L. L. (2001). Participant Observation and Fieldnotes. Yn Atkinson, P., Coffey, A., Delamont, S., Lofland, J. a Lofland, L. (goln.), *Handbook of Ethnography*, 356-357, Thousand Oaks, CA: Sage Publications.

Evans, D. (2007). 'How far across the border do you have to be, to be considered Welsh?' – National Identification at a Regional Level, yn *Contemporary Wales*, Volume 20 (123-143).

Evans, W.G. (2000). Y Wladwriaeth Brydeinig ac Addysg Gymraeg 1914-1991. Yn Jenkins, G.A. a Williams, M.A. (goln.) *Eu Hiaith a Gadwant*, 331 – 356, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Evas, J.; Mac Giolla Chríost, D.; Williams, C.H. a Campbell, C. (2013). *Adolygiad o Waith y Mentrau Iaith, y Cynlluniau Gweithredu Iaith a Chynllun Hybu'r Gymraeg Aman Tawe*. Adolygiad annibynnol ar ran LIC, Caerdydd: Prifysgol Caerdydd.

[Explorable.com](http://explorable.com) (2009). *Quantitative and Qualitative Research*. Gwe-ddolen <https://explorable.com/quantitative-and-qualitative-research> Cyrchwyd 4.11.14

Fairclough, N. (gol.) (1992). *Critical Language Awareness*, London: Longman.

Fettes, M. (1997). Language planning and education. Yn Wodak, R. a Corson, D. (goln.), *Language Policy and Political Issues in Education* (13-22), Dordrecht: Kluwer Academic.

Fill, A. a Mühlhäusler, P.(goln.) (2001). *The Ecolinguistics Reader: Language, ecology, and environment*, New York: Continuum.

Fishman, J.A. (1971). The sociology of language. Yn Fishman, J.A. (gol.), *Advances in the Sociology of Language*, (vol.1), 217-414, The Hague: Mouton.

Fishman, J.A. (1991). *Reversing Language Shift: Theoretical and Empirical Foundations of Assistance to Threatened Languages*, Clevedon: Multilingual Matters.

Fishman, J.A. (gol.) (2001). *Can Threatened Languages Be Saved? Reversing Language Shift, Revisited: A 21st Century Perspective*, Clevedon: Multilingual Matters.

Fishman, J.A. (1973). Language modernization and planning in comparison with other types of modernization and planning. *Language in Society*, 2(1), 23-44.

Foucault, M. (1977). The political function of the intellectual. *Radical Philosophy*, 17, 12-14.

Freire, P. (1970). *Pedagogy of the Oppressed*, New York: Continuum (Cyfieithydd: M.B. Ramos).

Freire, P. a Macedo, D. (1987). *Literacy: Reading the word and the world*, South Hadley, MA: Bergin and Garvey.

Frye, D. (1999). 'Participatory education as a critical framework for a women's ESL class'. *TESOL Quarterly*, 33, 501 -513.

Garrett, P. a James, C. (goln.) (1992). *Language Awareness in the Classroom*, London: Longman.

Halliday, M.A.K. (1971). Yn Doughty, P., Pearce, J.. a Thornton, G., *Language in Use*, London: Edward Arnold.

- Garrett, P. (2010). *Attitudes to Language*, Cambridge: Cambridge University Press.
- Gathercole, V.C.M. *et al.* (2006). *Language Transfer in Bilingual Families*, Cardiff: Welsh Language Board.
- Giles, H., Bourhis, R.Y., a Taylor, D. (1977). Towards a theory of language in ethnic group relations. In Giles, H. (gol.), *Language, Ethnicity and Intergroup relations*, London: Academic Press.
- Golwg (2014). Gwario mwy ar hyrwyddo ac ail-frandio'r Gymraeg. Adroddiad newyddion, Cyfrol 26, Rhif 47, Awst 7, 2014
- Golwg 360 (2013). Carwyn yn sefydlu 'Cynhadledd Fawr' ar y Gymraeg. Adroddiad ar wefan newyddion, (6.2.13). <http://bit.ly/ZD6XLW> Cyrchwyd 28.9.14.
- Golwg 360 (2014). Mwy o fyfyrwyr prifysgol yn astudio trwy'r Gymraeg. Adroddiad ar wefan newyddion, (18.9.14). <http://bit.ly/1weCzou> Cyrchwyd 1.9.14.
- Government Equalities Office / Citizens'Advice Bureau (2010). Deddf cydraddoldeb 2010: beth sydd angen i mi ei wybod? Canllaw cryno i'ch hawliau. Taflen, Llundain: Government Equalities Office / Citizens'Advice Bureau. <http://bit.ly/1pvYzDH> Cyrchwyd 1.10.14
- Graman, T. (1988). Education for humanization: Applying Paulo Freire's pedagogy to learning a second language. *Harvard Educational Review*, 58, 433-448.
- Gramsci, A. (1971). Notebooks. Yn Hoare, O. a Smith, G.N. (goln.), *Selections from the Prison Notebooks of Antonio Gramsci*, London: Lawrence and Wishart.
- Grenoble, L.A. a Whaley, L.J. (goln.) (1998). *Endangered languages: Current Issues and Future Prospects*, Cambridge: Cambridge University Press.
- Griffiths, R. (c.2003). *Turning to London: Labour's Attitude to Wales, 1898-1956*, Abertridwr: Y Faner Goch.
- Hammersley, J. (1996). On the foundations of critical discourse analysis., Centre for Language in Education Occasional Papers, Southampton: Southampton Centre for Language in Education.

Hatim, B. a Mason, I. (1997). *The Translator as Communicator*, London: Routledge.

Haugen, E. (1959). Planning for Standard Language in Norway. *Anthropological Linguistics*, 1(3), 8-21.

Haugen, E. (1966). *Language Conflict and Language Planning: The case of modern Norwegian*, Cambridge, MA: Harvard University Press.

Hawkins, E.(1981). *Modern Languages in the Curriculum*, Cambridge: Cambridge University Press.

Hawkins, E.(1984). *Awareness of Language: An Introduction*, Cambridge: Cambridge University Press.

Hawkins, E. (1992). Awareness of language/ knowledge about language in the curriculum in England and Wales: An historical note on twenty years of Curricular Debate. *Language Awareness*, Vol. 1, Iss. 1, Clevedon: Multilingual Matters.

Her Majesty's Stationery Office (1993). *Deddf yr Iaith Gymraeg 1993*, London: HMSO.

Her Majesty's Stationery Office (HMSO) (1998). *Government of Wales Act 1998*, London: HMSO.

Her Majesty's Stationery Office (HMSO) (2006). *Government of Wales Act 2006*, London: HMSO.

Her Majesty's Stationery Office (HMSO) (2008). *Human Rights Act 2008*, London: HMSO.

Her Majesty's Stationery Office (HMSO) (2010). *Equality Act 2010*, London: HMSO.

Her Majesty's Stationery Office (HMSO) (2011). *Equality Act 2010 (Statutory Duties) (Wales) Regulations 2011*, London: HMSO.

Hornberger, N.H. (2006). Frameworks and Models in Language Policy and Planning. Yn Ricento, T. (gol.), *An Introduction to Language Policy: Theory and Method* (24-39), Oxford: Blackwell.

Howell, J. T. (1972). *Hard Living on Clay Street: Portraits of Blue Collar Families*. Prospect Heights, Illinois: Waveland Press, Inc.

Huws Williams, Rh. (2014). Cyfweiliad a gynhaliwyd gan yr awdur ar 14.3.14 yng Nghaerdydd.

Huws Williams, Rh., Williams, H. a Davies, E. (goln.) (1994). *Gwaith Cymdeithasol a'r Iaith Gymraeg / Social Work and the Welsh Language*, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Iaith (2004). *Hyfforddiant Ymwybyddiaeth iaith: Tystiolaeth i ymarferiad ymchwil ELWa*. Papur anghyhoeddedig. Iaith Cyf., Castellnewydd Emlyn: Iaith.

Iaith (d.d.). Gwe-ddolen ar wefan <http://www.iaith.eu/adnoddau.php> Cyrchwyd 1.9.14.

Iaith (d.d. (i)). Gwe-ddolen ar wefan Iaith - y Ganolfan Cynllunio Iaith. <http://www.iaith.eu/rheoli.php> Cyrchwyd 17.9.14.

Iaith (d.d. (ii)). Eitem o dan y pennawd *Academi'n llwyddo* ar we-ddolen Newyddion gwefan Iaith - y Ganolfan Cynllunio Iaith. . <http://www.iaith.eu/newyddion.php> Cyrchwyd 17.9.14.

Iaith (2014). *Adroddiad Blynyddol 2013-14*. Castellnewydd Emlyn: Iaith – y Ganolfan Cynllunio Iaith.

Ioan, G. (1998). '*Law yn Llaw*' – pecyn hyfforddiant ar reoli yn y gweithle dwyieithog, Caerdydd: BYIG.

Ioan, G. a Davies, E. (2013). *Ein Hiaith: Our Language*; Pecyn ymwybyddiaeth iaith i athrawon a chynorthwyr dosbarth (CA2 a CA3) mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, Caerdydd: LIC (2013).

- Ioan, G. a Howys, S. (2003). *Iechyd da! – cyflwyniad i ymwybyddiaeth iaith ym maes gofal iechyd*, Caerdydd: GIG Cymru / CCC.
- Ioan, G. a Siencyn, S.W. (1998). *Dwy iaith ar Waith*, Caerdydd: WCVA / BYIG.
- Ioan, G. (2014). Neges e-bost breifat, ddyddiedig 5.11.14.
- Irvine, F., Roberts, G., *et al.* (2008). *Twf ac Ymlaen: Asesiad Effaith a'r Ffordd Ymlaen'*, Caerdydd: BYIG.
- Ivanič, R. (1990). Critical Language Awareness in Action. Yn Carter, R. (gol.), *Knowledge About Language and the Curriculum*, London: Hodder and Stoughton.
- Iwan, D. (2012). *Cana Dy Gân*. Recordiadau sain: casgliad cyflawn o 219 o ganeuon. Llandwrog: Sain Cyf.
- Janks, H. (1993). *Language, Identity and Power – Materials for the classroom*, Johannesburg: Randburg: Witwatersrand University Press / Hodder And Stoughton.
- Janks, H. ac Ivanič, R. (1992). CLA and emancipatory discourse. Yn Fairclough, N., *Critical Language Awareness*, London: Longman.
- Jenkins, G.H. (gol.) (1998). *Iaith Carreg fy Aelwyd: Iaith a Chymuned yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg*, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Jenkins, G.H. (gol.) (1999). *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg: Yr Iaith Gymraeg a'i Pheuoedd, 1801 – 1911*, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Jenkins, G.H. a Williams, M.A. (goln.) (2000). *'Eu Hiaith a Gadwant'? –Y Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif*, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Jenkins, G.H. a Williams, M.A. (2000). Hynt yr Iaith Gymraeg: Rhagymadrodd. Yn Jenkins, G.H. a Williams, M.A. (goln.), *Eu Hiaith a Gadwant*, 1 – 25, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Jernudd, B.H. (1973). Language planning as a type of language treatment. Yn Rubin, J. a Shuy, R. (goln.), *Language Planning: Current Issues and Research*, 11-23, Washington DC: Georgetown University Press.

- Jones, H. (d.d.). Trosglwyddo'r Gymraeg. Gwe-ddolen, <http://stataiath.com/blog/cyfrifiad-2011/trosglwyddor-gymraeg/> ar wefan *Stataiath - Gwefan ystadegau sy'n ymwneud â'r Gymraeg, a rhagor* <http://stataiath.com/>. Cyrchwyd 9.9.14.
- Jones, J.G. (2000). Agwedd y Pleidiau Gwleidyddol tuag at yr Iaith Gymraeg. Yn Jenkins, G.H. a Williams, M.A. (goln.), *Eu Hiaith a Gadwant*, 239-265, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Jones, J.R. (1966). *Prydeindod*, Llandybïe: Christopher Davies.
- Jones, K. a Davies, E. (2010). *Research into Parents' Support Needs – Final Report*, Castellnewydd Emlyn: Iaith - y Ganolfan Cynllunio Iaith.
- Jones, K., Eaves, S. a Ioan, G. (2010). *Defnydd Mewnol o'r Gymraeg mewn Gweithleoedd*, Castellnewydd Emlyn: Iaith - y Ganolfan Cynllunio Iaith.
- Jones, K. ac Ioan, G. (2000). *Mentro Ymlaen: Arolwg o'r Mentrau Iaith, 2000*, Castellnewydd Emlyn: Iaith Cyf.
- Jones, K. a Morris, D. (2005) *Welsh Language Socialization within the Family*. Report to the ESRC, Bangor: Bangor University
- Jones, M. P. (2014). Cyfweiliad a gynhaliwyd gan yr awdur ar 9.8.14 yng Nghroes-y-ceiliog, ger Caerfyrddin.
- Jones, R.O. (1993). The Sociolinguistics of Welsh. Yn Ball, M.J. (gol.), *The Celtic Languages*, London: Routledge Press (535-604).
- Jones, R.O.(1997). *Hir Oes i'r Iaith: Agweddau ar Hanes y Gymraeg a'r Gymdeithas*, Llandysul: Gwasg Gomer.
- Jones, R.M. (1999). *Cymru 2000: Hanes Cymru yn yr Ugeinfed Ganrif*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Kachru, B. (1990). World Englishes and applied linguistics. *World Englishes*, 9, 3-20.

Keith, G. (1990). Language Study at Key Stage 3. Yn R. Carter, *Knowledge About Language and the Curriculum*, London: Hodder and Stoughton.

Kloss, H. (1969). *Research Possibilities on Group Bilingualism*, Québec: International Center for Research on Bilingualism.

Knoepfel, P., Larrue, C., Varone, F. a Hill, M. (2011). *Public Policy Analysis*, Bristol: The Policy Press.

Kotler, P. a Zaltman, G. (1971). Social Marketing: An Approach to Planned Social Change, *Journal of Marketing* 35: 3-12

Krashen, S. (1981). *Second Language Acquisition and Second Language Learning*, Oxford: Pergamon.

Kress, G. (1990). Critical discourse analysis. *Annual Review of Applied Linguistics* (Grabe, W. (gol.)), Vol.11, tt. 84-99.

Kuhn, T. S. (1996) *The Structure of Scientific Revolutions*, Third Edition, Chicago: Chicago University Press.

Language Awareness (1992). "What is Dat?", Language Awareness. Erthygl olygyddol, *Language Awareness*, Issue 1, Vol.1.

Lefebvre, R. Craig (2013). *Social Marketing and Social Change: Strategies and Tools to Improve Health, Well-Being and the Environment*, San Francisco: Jossey-Bass.

Lewis, G. (2008). *Hawl i'r Gymraeg*, Tal-y-bont: Y Lolfa.

Lin, Nan (2001). *Social Capital*, Cambridge: Cambridge University Press.

Lo Bianco, J. (2004). Language Planning as Applied Linguistics. Yn Davies, A. ac Elder, C. (goln.), *The Handbook of Applied Linguistics*, 738-762, Oxford: Blackwell.

Lotherington, H. (2004) Bilingual Education. Yn Davies, A. ac Elder, C. (goln.), *The Handbook of Applied Linguistics*, 695-718, Oxford: Blackwell.

Luke, A. (1997). Critical approaches to Literacy. Yn Edwards, V. a Corson, D. (goln.), *Encyclopedia of Language and Education, vol.2, literacy*, 143-151, Dordrecht, Yr Iseldiroedd: Kluwer Academic Publishers.

Luke, A. (2002). Beyond science and ideology critique: developments in critical discourse analysis. Yn McGroarty, M. (gol.), *Discourse and dialogue. Annual review of applied linguistics 22*, 96-110, Cambridge: Cambridge University Press.

Luke, A., McHoul, A. a Mey, J.L. (1990). On the limits of language planning: Class, state and power. Yn Bauldauf Jr., R.B. a Luke, A. (goln.), *Language Planning and Education in Australasia and the South Pacific*, 25-44, Clevedon: Multilingual Matters.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002). *Dyfodol Dwyieithog: Datganiad Polisi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru*, Caerdydd: LICC.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003). *Iaith Pawb: Cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog*, Caerdydd: LICC.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007a). Inclusive policy making, Gwe-ddolen <http://bit.ly/1CyA5Su> Cyrchwyd 16.10.08 – nid yw ar gael mwyach ar wefan LIC.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007b). *One Wales: a progressive agenda for the government of Wales*, Caerdydd: LICC. <http://bit.ly/1sY9Frd> Cyrchwyd 28.9.14. Nid yw fersiwn Cymraeg y ddogfen hon, Cymru'n Un, ar gael mwyach ar wefan y Llywodraeth.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007c). *One Wales Delivery Plan 2007-2011*, Caerdydd: LICC - nid yw ar gael mwyach ar wefan LIC.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009). *Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned: Cynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru* (2009), Caerdydd: LICC.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010a) *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg*, Caerdydd: LICC <http://bit.ly/1wkrDGA>.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010b). *Dogfen Ymgynghori 'Iaith Fyw: Iaith Byw'*– *Strategaeth y Gymraeg*, Caerdydd: LICC. <http://bit.ly/1u5mv4C> Cyrchwyd 1.10.14.

Llywodraeth Cymru (2010). Naratif llunio polisïau cynhwysol, Caerdydd: LIC.
<http://wales.gov.uk/topics/equality/publications/ipmnarrative/?skip=1&lang=cy>
Cyrchwyd 9.9.14.

Llywodraeth Cymru (2011a). *Cynllun Iaith Gymraeg 2011-2016*. Caerdydd: LIC.

Llywodraeth Cymru (2011b). *Rhaglen Lywodraethu 2011-16*, Caerdydd: LIC
<http://www.rifw.co.uk/downloads/110929fullcy.pdf> Cyrchwyd 9.9.14.

Llywodraeth Cymru (2012a). *Iaith Fyw: Iaith Byw – Strategaeth y Gymraeg, 2012 – 17*, Caerdydd: LIC <http://bit.ly/1vcL1nt> Cyrchwyd 17.9.14.

Llywodraeth Cymru (2012b). *Mwy Na Geiriau - Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol*, Caerdydd: LIC <http://bit.ly/1hNIsPx> Cyrchwyd 1.8.14.

Llywodraeth Cymru (2012c). *Cynllun ac Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2012-16*, Caerdydd: LIC <http://bit.ly/1lyk2js> Cyrchwyd 1.9.14.

Llywodraeth Cymru (2012ch). Datganiad i'r wasg wrth lansio *Iaith Fyw: Iaith Byw – Strategaeth y Gymraeg, 2012 – 17*, Caerdydd: LIC <http://bit.ly/1nrAWv8> Cyrchwyd 28.9.14.

Llywodraeth Cymru (2013a). *The Cwricwlwm Cymreig, history and the story of Wales - Final report*, Caerdydd: LIC <http://bit.ly/1xqglYn> Cyrchwyd 1.10.14.

Llywodraeth Cymru (2013b): *Iaith fyw: dweud eich dweud: Canlyniadau'r ymarferiadau ymgynghori*, Caerdydd: LIC <http://bit.ly/1nnncBE> Cyrchwyd 1.9.14.

Llywodraeth Cymru (2013c). Datganiad newyddion ar wefan LIC.: Y Prif Weinidog yn cychwyn trafodaeth genedlaethol am ddyfodol y Gymraeg. <http://bit.ly/Y6C7um>
Cyrchwyd 1.9.14.

Llywodraeth Cymru (2014a). *Iaith Fyw, Iaith Byw - Bwrw Mlaen: Datganiad polisi*, Caerdydd: LIC <http://bit.ly/1r6TK7V> Cyrchwyd 17.9.14.

Llywodraeth Cymru (2014b). *Iaith Fyw, Iaith Byw - Bwrw Mlaen*, Datganiad newyddion ar wefan LIC., 17.6.14., Caerdydd: LIC <http://bit.ly/1oHVIGY> Cyrchwyd 17.10.14.

Llywodraeth Cymru (2014c). Addysg Cyfrwng Cymraeg ac Iaith Gymraeg. Gwe-ddolen ddyddiedig 1.7.14 ar wefan. <http://bit.ly/131z2OI> Cyrchwyd 1.10.14.

Llywodraeth Cymru (2014ch). *Hybu'r Gymraeg*. Gwe-ddolen ar wefan LIC. <http://bit.ly/1tLGIKs> Cyrchwyd 28.9.14.

Llywodraeth Cymru (2014d). *Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Gweinidogion Cymru, Cyngorau Sir a Chyngorau Bwrdeistref Sirol, ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) 2015: Drafft ymgynghori*. Gwe-ddolen ar wefan LIC. <http://bit.ly/162xBkc> Cyrchwyd 14.11.14.

Llywodraeth Cymru (d.d.). Arolwg Cenedlaethol Cymru: Arolwg Defnydd Iaith Gymraeg, 2013 -15. Gwe-ddolen ar wefan LIC. <http://bit.ly/1vEbjyn> Cyrchwyd 1.10.14.

Loughlin, J. a Williams, C. (2007). *Governance and Language: The Intellectual Foundations*. Yn Williams, C.H. (gol.) (2007), *Language and Governance*, Cardiff: University of Wales Press.

Mac Giolla Chríost, D. (2007). Marketing the Welsh Language. *Contemporary Wales*, Volume 20, 71-81.

McCull Millar, R. (2005). *Language, Nation and Power*, Basingstoke: Palgrave Macmillan.

Mackay, H. a Powell, A. (1997). Wales and its' media: production, consumption and regulation. *Contemporary Wales*, 9, 8 – 39.

Martin, B. A. S.; Lee, C. K.; Weeks, C. a Kaya, C. (2013). How to stop binge drinking and speeding motorists: Effects of relational-interdependent self-construable and self-referencing on attitudes toward social marketing, *Journal of Consumer Behavior*, 12, 81-90.

Massey, D. (1994). *Space, Place and Gender*. Cambridge: Polity.

May, S. (2001). *Language and Minority Rights: Ethnicity, Nationalism and the Politics of Language*, Harlow, Essex: Pearson Education Ltd / Longman.

May, S. (2006). Language Policy and Minority Rights. Yn Ricento, T. (gol.), *An Introduction to Language Policy: Theory and Method*, 255-272, Oxford: Blackwell.

May, S. (2012). *Language and Minority Rights: Ethnicity, Nationalism and the Politics of Language*, 2nd Edition, Abingdon: Routledge.

Mayr, A. (2008). *Language and Power: An Introduction to Institutional Discourse*, London: A&C Black.

McGroarty, M. (1997). Language policy in the USA: national values, local loyalties, pragmatic pressures. Yn Eggington, E. a Wren, H. (goln.), *Language policy: dominant English, pluralist challenges*, Canberra: Language Australia.

McKenzie, M. (1992). 'What I've always known but never been told': euphemisms, school discourse and empowerment. Yn Fairclough, N., *Critical Language Awareness* London: Longman.

Mentrau Iaith Cymru (d.d.). *Beth yw Menter Iaith?* Gwe-ddolen.
http://www.mentrauiath.org/?page_id=267 Cyrchwyd 17.10.14.

Mittins, B. (1991). *Language Awareness for Teachers*, Milton Keynes: Open University Press.

Misell, A. (2000). *Y Gymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd: Ehangder, Natur a Digonolrwydd Darpariaeth Gymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru*, Caerdydd: Cyngor Defnyddwyr Cymru.

Morgan, Rh. (2007). The Challenge of Language Equality. Yn Williams, C.H. (gol.) (2007), *Language and Governance*, Cardiff: University of Wales Press.

Moseley, C. (gol.) (2010). *Atlas of the World's Languages in Danger, 3rd edition..* Paris: UNESCO Publishing.

Mühlhäusler, P. (1996). *Linguistic Ecology, Language Change and Linguistic Imperialism in the Pacific Region*, London: Routledge.

Nettle, D. a Romaine, S. (2000). *Vanishing Voices: The extinction of the world's languages*, Oxford: Oxford University Press.

Office for National Statistics (O.N.S.) (2013). *Wales: Public Sector Employment, 2012*. Release: 06 March 2013. Gwe-ddolen, Llundain: O.N.S.

Oppenheim, A. N. (1966). *Questionnaire Design and Attitude Measurement*. London: Heinemann.

Oppenheim, B. (1982). An exercise in attitude measurement. Yn Breakwell, G., Foot, H. a Gilmour, R. (goln.), *Social Psychology: a practical manual*, 19 – 37, Basingstoke: Macmillan.

Osmond, J. (1992). *The Democratic Challenge*, Llandysul: Gomer Press.

Pargett, D.K. (1998) *Qualitative Methods in Social Work Research: Challenges and Rewards*, Thousand Oaks: Sage.

Pennycook, A. (1994). Incommensurable discourses? *Applied Linguistics*, 15(2), 115-38.

Pennycook, A. (1998). *English and the Discourses of Colonialism*, London: Routledge.

Pennycook, A. (2001). *Critical Applied Linguistics – A Critical Introduction*, Mahwah, New Jersey: Lawrence Erlbaum Associates.

Phillips, D. (1998). *Trwy Ddulliau Chwyldro: Hanes Cymdeithas yr Iaith, 1962-92*, Llandysul: Gwasg Gomer.

Phillips, D. (2000). Hanes Cymdeithas yr Iaith Gymraeg 1962-1998. Yn Jenkins, G.A. a Williams, M.A. (goln.) *Eu Hiaith a Gadwant*, 445-471, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

Phillips, R. (2000). Culture, community and curriculum in Wales: citizenship education for the new democracy? Yn Lawton D, Cairns, J and Gardener, R. (goln.), *Education for Citizenship*, London: Continuum.

Phillips, R. (2005). *Island Stories and Border Crossings: School History and the Discursive Creation of National Identity in Wales*. Yn Aaron, J. a Williams, C. (goln.), *Postcolonial Wales*, Cardiff: University of Wales Press.

Phillipson, R. (1992). *Linguistic Imperialism*, Oxford: Oxford University Press.

Phillipson, R. (2006). Language Policy and Linguistic Imperialism. Yn Ricento, T. (gol.), *An Introduction to Language Policy: Theory and Method*, 346-361, Oxford: Blackwell.

Puigdevall i Serralvo, M. (2006). *The Challenge of Language Planning in the Private Sector: Welsh and Catalan Perspectives*. Traethawd PhD anghyhoeddedig, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd.

Rampton, B. (1997). Retuning in applied linguistics. *International Journal of Applied Linguistics*, 7(1), 3-25.

Rees, C. (1973b). The Welsh Language in Politics. Yn Stephens, M. (gol.), *The Welsh Language Today*, Llandysul: Gomer Press.

Rees, I. B. (1973a). The Welsh Language in Government. Yn Stephens, M. (gol.), *The Welsh Language Today*, Llandysul: Gomer Press.

Richards, J., Platt, J. a Weber, H. (1985). *Longman Dictionary of Applied Linguistics*, London: Longman.

Ricento, T. (gol.) (2006). Language Policy: Theory and Practice – An Introduction. Yn Ricento, T. (gol.) *An Introduction to Language Policy: Theory and Method* Oxford: Blackwell.

Richardt, N. a Shanks, T. J. (2007). Equality of Opportunity. Yn *Encyclopedia of Social Sciences*, 2nd ed., New York: Macmillan.

Richmond, J. (1990). What Do We Mean by Knowledge About Language? Yn Carter, R., *Knowledge About Language and the Curriculum*, xxx, London: Hodder and Stoughton.

Rivera, K. (1999). Popular research and social transformation: A community based approach to critical pedagogy. *TESL Quarterly*, 33, 485-500.

Roberts, G. a Williams, C. (2003): "*Gair o gysur*" – *hybu ymarfer ieithyddol addas mewn gofal iechyd*, Bangor: Prifysgol Cymru, Bangor.

Robson, C. (2011) *Real World Research: A Resource for Users of Social Research Methods in Applied Settings*, Third Edition, Chichester: Wiley.

Roddick, W. (2007). One Nation – Two Voices? The Welsh Language in the Governance of Wales. Yn Williams, C.H. (gol.) (2007), *Language and Governance*, Cardiff: University of Wales Press.

Royles, E. (2007). *Revitalising Democracy? Devolution and Civil Society in Wales*, Cardiff: University of Wales Press.

Rubin, J. a Jernudd, B.H. (goln.) (1971). *Can Language Be Planned? Sociolinguistic Theory and Practice for Developing Nations*, Honolulu: University of Hawai'i Press.

Samuel, R. (1998). *Island Stories: Theatres of Memory*, vol.II, London: Verso.

Sarnoff, L. (1970). Social attitudes and the resolution of motivational conflict. Yn Jahoda, M. a Warren, N. (goln.), *Attitudes*, 279 – 284, Harmondsworth: Penguin.

Scully, R., Wyn Jones, R. and Trystan, D. (2004). Turnout, Participation and Legitimacy in Post-Devolution Wales. *British Journal of Political Science* 34,(3), 519-537.

Sgiliaith (2011). Dolen ar wefan: <http://bit.ly/1r8bSQq> Cyrchwyd 1.10.14.

Schiffrin, D. (1994). *Approaches to Discourse*, Oxford: Blackwell.

Shipsides, A. (2013). Cyfweiliad a gynhaliwyd gan yr awdur ar 15.10.13 yn Llandrindod, Powys.

Shohamy, E. (2006). *Language Policy – Hidden agendas and new approaches*, London: Routledge.

Shor, I. (1992). *Empowering Education*, Chicago: University of Chicago Press.

Siencyn, S.W. (1994). “*Sain deall*” – *cyflwyniad i ymwybyddiaeth iaith*, Caerdydd: CCETSW Cymru.

Stephens, M. (1973). *The Welsh Language Today*, Llandysul: Gwasg Gomer.

Stevens, C. (2009). *Tipyn o'n Hanes: Hanes y Gymraeg*, Llandysul: Gwasg Gomer.

Street, B.V. (1984). *Literacy in Theory and Practice*, Cambridge: Cambridge University Press.

The Stationery Office / Y Llyfrfa (2014). *Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011*, adargraffiad cywiriedig, Llundain: TSO. <http://bit.ly/1r5Fn53> Cyrchwyd 15.9.14.

The Stationery Office / Y Llyfrfa (2011). *Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011*, Llundain: TSO <http://bit.ly/1r5Fn53> Cyrchwyd 1.7.14.

The Stationery Office/ Y Llyfrfa (2013). *Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013*, Llundain: TSO. <http://bit.ly/1ylYewJ> Cyrchwyd 22.9.14.

Thomas, A. (2005). ‘Maîtres chez nous’? Awaiting the Quiet Revolution in Wales. Yn Aaron, J. a Williams, C. (goln.), *Postcolonial Wales*, Cardiff: University of Wales Press.

Thomas, H.S. (2010). *Brwydr i Baradwys? Y Dylanwadau ar Dwf Ysgolion Cymraeg De-ddwyrain Cymru*, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Thomas, Rh. (2007). Determining Language Policy. Yn Williams, C.H. (gol.) (2007), *Language and Governance*, Cardiff: University of Wales Press.

Thomas, S. (1996). *O'n Gwirfodd – Canllawiau arfer da ar gyfer datblygu defnydd y Gymraeg yn y Sector Gwirfoddol*, Caerffili: Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

Tomos, S. (2014). Tyfu. Adran yn *Adroddiad Blynyddol 2013-14 Iaith - y Ganolfan Cynllunio Iaith*, 11, Castellnewydd Emlyn: Iaith - y Ganolfan Cynllunio Iaith.

Tollefson, J.W. (1986) Language policy and the radical left in the Phillipines: the New People's Army and its antecedents. *Language Problems and Language Planning*, 10, 177-189.

Tollefson, J.W. (1991). *Planning Language, Planning Inequality: Language Policy in the Community*, New York: Longman Cheshire.

Tollefson, J.W. (2006). Critical Theory in Language Policy. Yn Ricento, T. (gol.), *An Introduction to Language Policy: Theory and Method*, 42-59, Oxford: Blackwell.

Trappes-Lomax, H. (2004). Discourse Analysis. Yn Davies, A. ac Elder, C. (goln.), *The Handbook of Applied Linguistics*, 133 -164, Oxford: Blackwell.

Trim, J.L.M. (1988). Foreword. Yn Tinkel, A.J. *Explorations in Language*, Cambridge: Cambridge University Press.

TWF (d.d.). Gwefan. Cyrchwyd ar 10.10.14) <http://twfcymru.com/?lang=cy>.

van Dijk (1993). Principles of critical discourse analysis. *Discourse and Society*, 4(2), 249-283.

van Dijk (2001). Critical discourse analysis. Yn Schiffrin, D., Tannen, D. a Hamilton, H.E. (goln.), *The Handbook of Discourse Analysis*, 352 - 371, Oxford: Blackwell.

van Lier, L. (1996). *Interaction in the Language Curriculum – Awareness, autonomy and authenticity*, London: Longman.

Wales Online (2013). First Minister launches 'national conversation' on future of Welsh language. Adroddiad newyddion ar-lein, 31.5.13. <http://bit.ly/1yKMjR>
Cyrchwyd 28.9.14.

Walliman, N. (2011). *Research Methods: The Basics*, London: Routledge.

Walsh, C. (1991). *Pedagogy and the Struggle for Voice: Issues of language, power, and schooling for Puerto Ricans*. Toronto, Canada: OISE Press.

Welsh Office (1989). *Welsh for Ages 5 -16: Proposals of the Secretary of State for Wales*, Cardiff: Welsh Office.

Widdowson, H.G. (1980). Models and Fictions. *Applied Linguistics*, 1, 165 – 170.

Widdowson, H.G. (1995). Discourse analysis: a critical view. *Language and Literature*, 4(3), 157 -172.

Widdowson, H.G. (1999). Coming to terms with reality: Applied linguistics in perspective. Testun anerchiad a draethwyd gerbron y '12th World Congress of Applied Linguistics', Tokyo: AILA.

Williams, C.H. (1980). Language Contact and Language Change in Wales, 1901-71: A Study in Historical Geolinguistics. *Cylchgrawn Hanes Cymru*, 10, 207-238.

Williams, C.H. (1990). The Anglicisation of Wales. Yn Coupland, N. (gol.), *English in Wales: Diversity, Conflict and Change*, 19-47, Cleveland: Multilingual Matters.

Williams, C.H. (2000a). Governance and the language. *Contemporary Wales*, 12, 130-134.

Williams, C.H. (2000b). Adfer yr iaith. Yn Jenkins, G.H. a Williams, M.A. (goln.) *Eu Hiaith a Gadwant*, 641 – 665, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Williams, C.H. (2004). Iaith Pawb: The Doctrine of Plenary Inclusion. *Contemporary Wales*, 17, 1-27.

Williams, C.H. (2005). The Case of Welsh / Cymraeg in Wales. Yn Ó'Néill, D. (gol.) *Rebuilding the Celtic Languages*, Tal-y-bont: Y Lolfa.

Williams, C.H. (2007a). Articulating the Horizons of Welsh. Yn Williams, C.H. (gol.) (2007). *Language and Governance*, Cardiff: University of Wales Press.

Williams, C.H. (2007b). *Linguistic Minorities in Democratic Context*, Basingstoke: Palgrave Macmillan.

Williams, C.H. (2010). From Act to Action in Wales. Yn Morris, D. (gol.). *Welsh in the Twenty First Century*, Cardiff: University of Wales Press.

Williams, C.H. (2014). The Lightning Veil: Language Revitalization in Wales. Yn *Language Policy, Politics, and Diversity in Education: Review of Research in Education*, Volume 38, 242-271.

Williams, C.H. ac Evas, J.E. (1997). *Y Cynllun Ymchwil Cymunedol*, Caerdydd: BYIG.

Williams, E. (2004). Literacy Studies. Yn Davies, A. ac Elder, C. (goln.), *The Handbook of Applied Linguistics* (tt. 576 – 603), Oxford: Blackwell.

Williams, G. a Morris, D. (2000). *Language Planning and Language Use – Welsh in a Global Age*, Cardiff: University of Wales Press.

Williams, G.A. (1985). *When Was Wales?*, Pelican Books, Harmondsworth.

Williams, K. (1997). *Shadows and Substance: The Development of a Media Policy for Wales*, Llandysul: Gomer Press.

Williams, Rh. H., Williams, H. a Davies, E. (goln.) (1994). *Gwaith Cymdeithasol a'r Iaith Gymraeg / Social Work and the Welsh Language*, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Wodak, R. (2006). Linguistic Analyses in Language Policies. Yn Ricento, T. (gol.), *An Introduction to Language Policy: Theory and Method*, 170-193, Oxford: Blackwell.

Wyn Jones, R. (2004). *Methiant Prifysgolion Cymru: Darlith Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd*, Caerdydd: Sefydliad Materion Cymreig.

ATODIADAU

Disgrifiad bras o'r pum corff cyhoeddus yr holwyd eu staff yn yr Arolwg Hyfforddeion

Cyflwynir isod ddisgrifiadau cryno o'r pum sefydliad dan sylw a'u hardaloedd gweithredu ynghyd â pheth gwybodaeth am gyd-destun demograffig lleol a chenedlaethol eu gwaith.

Roedd y pum corff yn cynnwys tri Chyngor unedol, sef Cyngor Sir y Fflint yng Ngogledd-ddwyrain Cymru, Cyngor Sir Ddinbych hefyd yn y gogledd-ddwyrain a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn y gogledd-orllewin. Y ddau sefydliad arall oedd Cyngor Gofal Cymru sydd â'i brif swyddfa yng Nghaerdydd a swyddfa arall yn Llanelwy, a Phrawf Cymru a oedd ar y pryd â'i brif swyddfa yng Nghaerdydd a chanddo amryw o swyddfeydd lleol yn gweithredu mewn rhanbarthau eraill o Gymru.

I ddibenion y traethawd hwn, ni chyflwynir gwybodaeth fanwl iawn yma am natur, strwythur a gwasanaethau'r pum corff y targedwyd eu staff yn y rhan hon o'r arolwg. Cyflwynir yn hytrach rywfaint o wybodaeth amlinellol yn unig amdanynt isod er mwyn gosod peth o'r cyd-destun y cyflwynwyd yr HYIG ynddo.

O droi'n gyntaf at y tri Chyngor Sir yr holwyd eu staff, lleolir eu hardaloedd gweithredu nhw yn rhes o dair tiriogaeth sirol ochr yn ochr, sy'n ymestyn o ogledd-orllewin Cymru i ffin gogledd-ddwyrain Cymru â Sir Gaer (Swydd Gaerlleon) yn Lloegr (gweler Map 1 isod). Sefydlwyd y tri Chyngor ym 1996 ar adeg ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru. Yn y flwyddyn honno trosglwyddwyd i'r cynghorau 'unedol' hyn swyddogaethau a gyflawnid gynt gan ddwy haen o lywodraeth leol, sef y cynghorau sirol a'r cynghorau bwrdeistref / cynghorau dosbarth a fuasai'n weithredol er pan ad-drefnwyd llywodraeth leol yng Nghymru ym 1974.

Mae pob un o'r tair sir yn cynnwys cyfuniad o arfordir trefol poblog yng ngogledd eu dalgylch, ac ardaloedd cefn gwlad, llai poblog. Mae dwy o'r tair ardal sirol yn cynnwys wardiau sydd â rhai o'r cyfrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, yn ôl ystadegau Cyfrifiad 2011, ac mae pob un o'r tair sir yn cynnwys hefyd wardiau sydd â rhai o'r canrannau isaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Yn ogystal, ceir o fewn pob un o'r tair sir niferoedd amrywiol o wardiau lle mae'r ganran yn adlewyrchu cyfartaledd siaradwyr Cymraeg dros Gymru yn gyffredinol, sef 19%. Gwelir felly bod dalgylchoedd y tri Chyngor, sef yr ardaloedd y mae'r mwyafrif o'u staff yn preswyllo ynddynt, yn cynnwys trawstoriad da o'r ystod eang o allu yn y

Gymraeg ac ymwneud â'r Gymraeg a ganfyddir ar hyd a lled Cymru yn gyffredinol (gweler Map 2 a Thabl 7.1 isod).

Noder hefyd fod y tair sir yn cynnwys cyfrannau uchel o boblogaeth a gofnododd yn y Cyfrifiad nad oedd ganddynt 'hunaniaeth Gymreig'. Yn wir, mewn dwy o'r tair sir dan sylw cafwyd y canrannau uchaf yng Nghymru o drigolion a atebodd felly, sef Sir y Fflint – 57.3%, a Sir Conwy – 52.4%. Roedd y drydedd sir dan sylw, Sir Ddinbych, yn bedwaredd o frig y rhestr hon, gyda 49.1% o'i phoblogaeth yn cofnodi nad oedd ganddynt hunaniaeth Gymreig (<http://bit.ly/1g84X38>).

Cyflwynir isod beth gwybodaeth amlinellol am bob un o'r tri Chyngor a'u tair ardal sirol fesul un.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy


(www.conwy.gov.uk)

Lleolir pencadlys Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn nhref Conwy ar arfordir Gogledd-orllewin Cymru. Arwynebedd o ryw 113,000 hectar sydd i'r sir, a phoblogaeth o ryw 111,724 (<http://bit.ly/OHocWh>). Mae'r ardal sirol yn gyfuniad o arfordir poblog iawn lle mae twristiaeth yn brif ddiwydiant, a chefn gwlad amaethyddol gyda phoblogaeth fwy gwasgarog. Y Cyngor ei hun yw prif gyflogwr y sir, gyda thros 5,000 o weithwyr (<http://bit.ly/1dwLMer>). Mae tros 80% o boblogaeth y Sir yn byw ar y rhimyn cul o arfordir sy'n cynnwys y prif drefi Conwy, Llandudno a Bae Colwyn, a'r canolfannau trefol eraill Llanfairfechan, Penmaen-mawr, Bae Penrhyn, Cyffordd Llandudno, Abergele, Tywyn a Bae Cinmel. Mae'r ardaloedd cefn gwlad i'r de yn cynnwys cymunedau Llanrwst, Trefriw, Betws-y-coed, Pentrefoelas, Cerrigydrudion, Llansannan, Llangwm a Llanefydd.

Cofnodwyd yng Nghyfrifiad 2011 fod 30,600 o siaradwyr Cymraeg yn byw yn y sir, sef 27.4% o'r boblogaeth 3 oed ac yn hŷn. Mae'r ganran hon yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan (sef 19%), ac yn uwch nag yn y siroedd cyfagos i'r dwyrain, ond yn sylweddol is nag yn y siroedd cyfagos i'r gorllewin (Gwynedd - 65.4%; Ynys Môn - 57.2%). Os gosodir siroedd Gwynedd ac Ynys Môn yn rheng uchaf ysiroedd mwyaf Cymraeg lle mae tros 50% o'r boblogaeth yn medru'r Gymraeg, a Cheredigion a Sir Gaerfyrddin yn yr ail reng lle mae rhwng 40% a 50% yn medru'r Gymraeg, yna mae Conwy a Sir Ddinbych, ei chymydog agosaf i'r dwyrain, yn perthyn i'r 'drydedd reng', lle mae canran y siaradwyr Cymraeg rhwng 30-40%.

Map 1:

Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl awdurdod lleol, 2011



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

173b.12-13

Technoleg a Dearyddiaeth

© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2012.
Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans 100021874.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

O safbwynt y gallu i siarad Cymraeg, mae'r ardal sirol yn ddiddorol am ei bod yn cynnwys o fewn ei ffiniau yr holl amrediad o amrywiaeth a welir ar hyd a lled Cymru o ran canrannau siaradwyr Cymraeg o gymuned i gymuned. Mae rhai o'r cymunedau gwledig ymhlith y Cymreiciaf yng Nghymru, gyda'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg yn wardiau Uwchaled (71%) a Llangernyw (65.8%) ac ar y pegwn arall ceir ardaloedd glan môr dwyreiniol Seisnigaidd iawn, gyda chanran y siaradwyr Cymraeg ar ei hisaf yn wardiau Tywyn (10.8) a Bae Cinmel (11.5%).

Bu mewnfudo ac allfudo yn drwm eu dylanwad ar y sir. Yn ôl ystadegau Llywodraeth, o holl siroedd gogledd Cymru, ardal sirol Conwy a brofodd y nifer net fwyaf ar gyfartaledd o ymfudwyr o Loegr (nifer: 460) yn ystod y cyfnod rhwng canol 2007 a chanol 2011 (<http://bit.ly/1eYXnU1> , tud.8).

Cyngor Sir Ddinbych

www.sirddinbych.gov.uk

Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae gan y Sir hon boblogaeth breswyl o 90,527 ac y mae 22,236 o boblogaeth y sir yn gallu siarad Cymraeg, sef 24.6% o'r boblogaeth 3 oed ac yn hŷn (<<http://bit.ly/1kPky8g>>) Mae dosraniad y boblogaeth o fewn y sir yn amrywio'n fawr. Ceir strïbed trefol poblog o arfordir gwastad yn ffin ogleddol i'r sir, sef ardaloedd y Rhyl a Phrestatyn. Mae gweddill y sir yn glytwaith o ardaloedd gwledig, mwy gwasgarog eu poblogaeth yn bennaf, gyda nifer o drefi marchnad pwysig yn lleol. Y trefi gwledig mwyaf eu maint yw Dinbych, Rhuthun a Llangollen, ac y mae Corwen hefyd yn ganolfan bwysig yn lleol. Mae llawer o dirwedd yr ardaloedd gwledig yn rhostir bryniog, gyda thiroedd amaeth da ac eang Dyffryn Clwyd yn ymestyn i lawr drwy ganol y sir, o arfordir y gogledd i'r de.

Y strïbed arfordirol poblog yw'r dalgylch sy'n cynnwys wardiau etholiadol mwyaf Saesneg y sir, fel y dengys y canrannau o siaradwyr Cymraeg sy'n preswyllo ynddynt: Gogledd Prestatyn - 12.6%; Gorllewin y Rhyl -12.7%; Dwyrain y Rhyl - 13.0%; De-orllewin Prestatyn - 13.7%. Yn nalgylchoedd gwledig, amaethyddol y sir y ceir y wardiau etholiadol sydd â'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg – Llandrillo - 59.2%; Efneclyd - 53.7%; Llanrhaeadr yng Nghinmeirch - 50.0%; Llanfair Dyffryn Clwyd / Gwyddelwern - 48.3%. Mae diwylliant a chymdeithas ardaloedd Cymreiciaf Sir Ddinbych yn ymdebygu llawer mwy i ddiwylliant a chymdeithas ardaloedd Cymreiciaf Sir Conwy a Gwynedd nag ydynt i ddiwylliant a chymdeithas Y Rhyl a Phrestatyn (<<http://bit.ly/1jqpO33>>). Prif ddiwydiannau'r sir yw amaethyddiaeth a thwristiaeth, a Chyngor Sir Ddinbych ei hun yw'r prif gyflogwr.


Nid oes dim diwydiannau gweithgynhyrchu mawrion o fewn y sir, er y ceir diwydiannau ysgafn bychain ar ystadau diwydiannaol ac ystadau busnes mewn amryw o leoliadau ar draws y sir (<http://bit.ly/1d7ug5O>).

TABL 7.1 : Siaradwyr Cymraeg yn ôl awdurdod lleol, rhyw a grwpiau oedran manwl, Cyfrifiad 2011. Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru: statscymru.cymru.gov.uk

Awdurdod Lleol	Yn siarad Cymraeg	Ddim yn siarad Cymraeg	Canran sy'n gallu siarad Cymraeg	Cyfanswm
Cymru	562,016	2,393,825	19.0	2,955,841
Ynys Môn	38,568	28,835	57.2	67,403
Gwynedd	77,000	40,789	65.4	117,789
Conwy	30,600	81,124	27.4	111,724
Sir Ddinbych	22,236	68,291	24.6	90,527
Sir y Fflint	19,343	127,597	13.2	146,940
Wrecsam	16,659	112,766	12.9	129,425
Powys	23,990	105,093	18.6	129,083
Ceredigion	34,964	38,883	47.3	73,847
Sir Benfro	22,786	95,606	19.2	118,392
Sir Gaerfyrddin	78,048	99,594	43.9	177,642
Abertawe	26,332	204,823	11.4	231,155
Castell-nedd Port Talbont	20,698	114,580	15.3	135,278
Pen-y-bont ar Ogwr	13,103	121,442	9.7	134,545
Bro Morgannwg	13,189	108,829	10.8	122,018
Caerdydd	36,735	295,538	11.1	332,273
Rhondda, Cynon, Taf	27,779	197,776	12.3	225,555
Merthyr Tudful	5,028	51,595	8.9	56,623
Caerffili	19,251	152,721	11.2	171,972
Blaenau Gwent	5,284	62,064	7.8	67,348
Tor-faen	8,641	79,203	9.8	87,844
Sir Fynwy	8,780	79,829	9.9	88,609
Casnewydd	13,002	126,847	9.3	139,849

Map 2:

Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, fesul Adran Etholiadol, 2011



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

193.12-13

Technoleg a Dearyddiaeth

© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2013.
Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans 100021874.



Cyngor Sir y Fflint

(www.siryfflint.gov.uk)

Lleolir ardal Cyngor Sir y Fflint yng nghornel ogledd-ddwyreiniol Cymru, a hi yw'r ardal sirol leiaf yng ngogledd Cymru. Mae'n ffinio ag ardaloedd Cyngor Sir Ddinbych i'r gorllewin, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i'r de a Sir Gaer (Swydd Gaerlleon) i'r dwyrain yn Lloegr. Mae pencadlys y Cyngor yn Yr Wyddgrug. Arwynebedd y sir yw 43,800 hectar ac yn ôl Cyfrifiad 2011 mae ganddi boblogaeth breswyl o 146,940 (<http://bit.ly/1mkHGhL>). Mae'r Sir yn cynnwys arfordir gogleddol poblog gydag ardaloedd trefol Mostyn, Maes Glas, Y Fflint, Cei Connah, Queensferry, Glannau Dyfrdwy a Phenyffordd yn rhes o brif ganolfannau ar hyd glan ddeheuol aber Afon Dyfrdwy. Ceir ardaloedd gwledig amaethyddol a llai poblog yng ngweddill y sir, gyda'r Wyddgrug yn brif dref y dalgylch gwledig yn ne'r sir. Ceir amryw o drefi bychain a phentrefi mawr eraill yn brif ganolfannau'r ardaloedd gwledig a lled wledig – sef Caerwys, Llaneurgain, Treffynnon, Ffynnongroyw, Nannerch, Helygain a Phenarlâg.

Mae gan y sir rai diwydiannau llewyrchus a sylweddol eu maint. Yn eu plith ceir ffatri Toyota lle cynhyrchir injans moduron; gwaith dur TATA, melin ailgylchu papur Shotton Paper, yn ogystal â safle gweithgynhyrchu eang Airbus ym Mrychdyn, sy'n cynhyrchu adenydd i awyrennau A330 ac A380.

Dangosodd ystadegau Cyfrifiad 2011 fod 19,343 o boblogaeth y sir yn gallu siarad Cymraeg, sef 13.2% o'r boblogaeth 3 oed ac yn hŷn (<http://bit.ly/1kPky8q>).

Yr ardaloedd yn ne a gorllewin y sir yw'r rhai sy'n cynnwys y canrannau uchaf o drigolion sydd â rhywfaint o wybodaeth o'r Gymraeg. O'r 56 ward etholiadol o fewn y sir, nid oes ond 7 ward lle mae canran y siaradwyr Cymraeg yn uwch nag 20%, sef Caerwys 20.3%, Ffynnongroyw 22.9%, Helygain 20.7%; De'r Wyddgrug 30.6%; Trelawnyd a Gwaenysgor 26.2%; Treuddyn 24.4% a Chwitfordd 20.7%. Cyfanswm y siaradwyr Cymraeg yn y wardiau Cymreiciaf hyn yw 3403 (<http://bit.ly/1eYYFP3>).

Yn y pegwn arall ceir 15 ward lle mae llai na 10% o'r boblogaeth yn medru'r Gymraeg, yn eu plith Saltney Stonebridge (6.1%); Sealand (7.5%); Canol Cei Connah (8.7%) a Gogledd-ddwyrain Brychdyn (8.5%).

Y tri Chyngor Sir hyn yw'r prif gyflogwyr o fewn eu siroedd unigol. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cyflogi dros 5,000 o weithwyr (<http://bit.ly/1eYYFP3>).

[ly/1nJEb6b](#)); mae Cyngor Sir y Fflint yn cyflogi 7,135⁶⁵ ac mae Cyngor Sir Ddinbych yn cyflogi 4,626.⁶⁶ Mae'r niferoedd sylweddol hyn yn cael eu cyflogi mewn amrywiaeth eang o wasanaethau a swyddi awdurdod lleol ac ar amryw o wahanol lefelau. Credir, felly, fod y staff a holwyd yn drawstoriad gweddol gynrychioladol o boblogaeth y tair sir.

Mae'r ddau gorff cyhoeddus arall yr holwyd eu staff yn ddau gorff gwahanol iawn i'w gilydd. Mae'r ddau'n gyfrifol am weithredu dros Gymru gyfan. Fe'u disgrifir isod yn fras.

Cyngor Gofal Cymru

(www.cgcyrmu.org.uk)

Sefydlwyd y Cyngor Gofal yn 2001 o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 ac ef yw'r sefydliad cyntaf i reoleiddio'r proffesiwn gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r Cyngor yn olynydd yng Nghymru i'r *Central Council for Education and Training in Social Work* (CCETSW). O 1970 hyd 2001 CCETSW oedd y corff statudol a oedd yn gyfrifol am hywyddo addysg a hyfforddiant mewn gwaith cymdeithasol, dilysu cyrsiau a dyfarnu cymwysterau ar hyd a lled y Deyrnas Unedig. Cafodd CCETSW ei ddirwyn i ben ar Hydref 1af 2001 ac etifeddwyd ei ddyletswyddau gan bedwar corff datganoledig sef y General Social Care Council (GSCC), y Scottish Social Services Council (SSSC), Cyngor Gofal Cymru a'r Northern Ireland Social Care Council (NISCC).

Swyddogaeth Cyngor Gofal Cymru yw diogelu'r cyhoedd yng Nghymru drwy hyrwyddo a sicrhau safonau uchel o ymarfer ac ymddygiad ymysg gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal cymdeithasol. Yr arwyddair a ymddengys o dan enw'r Cyngor ar ei wefan gyhoeddus yw 'Sicrhau hyder mewn gofal' (<http://bit.ly/1r53PRW>). Mae ei waith rheoleiddio yn cynnwys cadw cofrestr o weithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal cymdeithasol; paratoi ac adolygu Codau Ymarfer ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol a Chyflogwyr gweithwyr Gofal Cymdeithasol; a llunio safonau galwedigaethol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol. Mae'n gyfrifol hefyd am hyrwyddo safonau uchel ym maes hyfforddiant, ac i'r perwyl hwnnw mae'n gyfrifol am gymeradwyo cyrsiau gwaith cymdeithasol yn ogystal â chanfod anghenion

⁶⁵ Ffynhonnell: gohebiaeth e-bost gan Ymgynghorydd Polisi (Tîm Polisi a Pherfformiad y Gwasanaethau Corfforaethol), Cyngor Sir y Fflint, Mawrth 2014.

⁶⁶ Ffynhonnell: gohebiaeth e-bost gan Swyddog Mynediad i Wybodaeth, Cyngor Sir Dinbych, Mawrth 2014.

hyfforddiant pobl sydd am fod yn weithwyr gofal cymdeithasol a hyrwyddo hyfforddiant o'r fath. Mae gan y Cyngor 51⁶⁷ o staff yn gweithio o'i brif swyddfa yng Nghaerdydd a swyddfa'r gogledd yn Llanelwy.

Esbonia'r Cyngor ar ei wefan gyhoeddus:

Nid ydym yn gweithio ar ein pen ein hunain, gan fod llwyddiant yr hyn rydym yn ei wneud yn ddibynnol ar bartneriaethau a chyfraniadau gan bobl sydd â gwir brofiad o ofal cymdeithasol. Dyna pam mae aelodau'r Cyngor Gofal, sy'n rheoli gwaith y sefydliad, yn cynrychioli nifer o safbwyntiau. Ymysg eraill, maent yn cynrychioli'r cyhoedd, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, cynhalwyr, gweithwyr, undebau llafur a chyflogwyr. Mae hyn yn sicrhau bod gan bob grŵp lais wrth osod safonau a gwella gofal cymdeithasol yng Nghymru (<http://bit.ly/1gOVv4f>).

Mae'r Cyngor yn gweithredu CIG statudol a gymeradwywyd gan BYIG yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Nodir hefyd, yn berthnasol iawn i'r traethawd hwn, bu rhagflaenydd y Cyngor, CCETSW Cymru, yn flaengar iawn wrth gomisiynu a chyhoeddi amryw o ddeunyddiau ymwybyddiaeth iaith, gan gynnwys y pecyn hyfforddi arloesol *They All Speak English Anyway* (Davies, E. 1994) i weithwyr cymdeithasol yn nyddiau cynnar datblygiad HYIG. Fel y nodwyd yn y rhagair i fersiwn diwygiedig o'r pecyn, 'Ar y pryd roedd yn gyhoeddiad a dorrodd dir newydd ym maes ymwybyddiaeth iaith a'r angen i ystyried sensitifrwydd ieithyddol wrth ddarparu gwasanaethau cymwys yng Nghymru.' (Davies, E. 2001: Rhagair). Cyhoeddwyd trydydd fersiwn y pecyn hwnnw ar ffurf CD Rom yn 2010 gan y Cyngor Gofal, gan barhau cysylltiad agos y Cyngor â'r symudiad i ledaenu ymwybyddiaeth iaith (Cyngor Gofal Cymru, 2010).

Prawf Cymru

(www.walesprobationtrust.gov.uk)

Roedd Deddf Rheoli Troseddwy 2007 yn pennu'r swyddogaethau canlynol i ymddiriedolaethau prawf yng Nghymru a Lloegr: diogelu'r cyhoedd; lleihau aildrosedd; cosbi troseddwy yn briodol; sicrhau ymwybyddiaeth troseddwy o effeithiau trosedd ar ddioddefwyr a'r cyhoedd; ac ailsefydlu troseddwy.

Cafodd Ymddiriedolaeth Prawf Cymru ei sefydlu ar Ebrill 1af 2010, yn dilyn uno'r 4 ymddiriedolaeth prawf flaenorol a fuasai'n weithredol yng Nghymru cyn

⁶⁷ Ffynhonnell: *Staff Structure 2012*, dogfen fewnol (anghyhoeddedig) y Cyngor.

hynny. Daeth y sefydliad i ben ar Fawrth 31ain 2014 wedi i Lywodraeth y D.U. benderfynu preifateiddio tua 70% o'r gwasanaeth.⁶⁸ Prawf Cymru oedd y trydydd mwyaf o'r 35 ymddiriedolaeth prawf yng Nghymru a Lloegr, gan gyflogi tua 1,000 o staff mewn 7 o 'Unedau Cyflenwi Lleol' a leolid ym mhrif ranbarthau Cymru (<http://bit.ly/1fM6sPg>). Y bwriad wrth drefnu'r gwasanaeth ar batrwm lleol yn y modd hwn oedd hwyluso canolbwyntio ar gymunedau lleol, a chydweithio agos â'r 22 awdurdod lleol a phartneriaethau diogelwch cymunedol Cymru, yn ogystal â'r 7 bwrdd iechyd lleol, y 4 ardal heddlu ac asiantaethau cyfiawnder troseddol allweddol ar draws Cymru.

Yn ogystal â'i brif swyddfeydd rhanbarthol, roedd gan Brawf Cymru 22 o brif safleoedd gweithredol ar draws y wlad, gyda staff wedi'u lleoli hefyd mewn timau partneriaeth, gorsafoedd heddlu, llysoedd a charchardai.

Gweithiai ei swyddogion gyda throseddwy'r 18 oed ac yn hŷn a ddedfrydwyd gan lys barn i naill ai Gorchymyn Cymunedol neu Orchymyn Dedfryd Ohiriedig, neu a oedd wedi'u rhyddhau ar drwydded o'r carchar i gwblhau gweddill eu dedfryd yn y gymuned. Byddai swyddogion Prawf Cymru yn paratoi adroddiadau cyn-ddedfrydu ar gyfer barnwyr ac ynadon yn y llysoedd er mwyn eu cynorthwyo i ddewis y ddedfryd fwyaf priodol. Yn ogystal roedd gan Brawf Cymru swyddogion yn gweithio mewn carchardai, lle byddent yn asesu throseddwy'r i'w paratoi ar gyfer eu rhyddhau. Agwedd arall ar wasanaeth Prawf Cymru oedd cysylltu â dioddefwyr throseddau rhyw a throseddau treisgar, throseddau a barodd i'r throseddwy'r gael eu dedfrydu i 12 mis neu fwy o garchar.

Byddai swyddogion yn gweithio hefyd gyda throseddwy'r yn y gymuned i'w helpu i beidio â chyflawni throseddau pellach ac roedd Prawf Cymru yn rheoli hefyd 4 eiddo cymeradwy (hosteli) lle darperid llety dan oruchwyliaeth ar gyfer throseddwy'r risg uwch a oedd â gofyniad preswyllo ar eu dedfrydau neu eu trwyddedau (<http://bit.ly/1eYZx60>).

Yn ôl ei wefan, ar unrhyw un adeg yn ystod y flwyddyn byddai Prawf Cymru wrthi'n ymdrin ag oddeutu 15,000 o droseddwy'r.

Yn ystod ei gyfnod gweithredu, roedd Prawf Cymru'n gweithredu CIG statudol a gymeradwywyd gan BYIG yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (<http://bit.ly/1dwOG2Y>)

⁶⁸ Ar adeg ysgrifennu'r testun hwn (Mawrth 2014), bwriedir rhannu swyddogaeth Prawf Cymru rhwng dau sefydliad newydd. Bydd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol newydd yn ymdrin â throseddwy'r risg uchel, adroddiadau i'r llysoedd a.y.y.b, a bydd Cwmni Adsefydlu Cymunedol, sef swyddogaeth a gyflawnir gan gwmni preifat, yn ymgymryd â'r gwaith adfer throseddwy'r.

Teipoleg a niferoedd yr atebwyr i'r Arolwg Hyfforddeion

<p>TABL 7.2 TEIPOLEG A NIFEROEDD ATEBWYR, YN ÔL MATHAU O SWYDDI</p> <p><i>Seilir y disgrifiadau isod ar ddisgrifiadau a roddwyd drwy negeseuon e-bost gan drefnwyr yr hyfforddiant ym mhob achos.</i></p>		
Sefydliad	Disgrifiad o'r hyfforddeion	Nifer
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY	<p><i>Newydd ddyfodiaid i staff y Cyngor – anela'r Cyngor at sicrhau bod yr holl newydd ddyfodiaid sy'n ymuno â'i staff yn derbyn HYIG yn ystod cyfnod eu sefydlu yn eu swyddi. I'r diben hwn trefnir HYIG tua 3 gwaith y flwyddyn ar gyfer aelodau diweddaraf y staff, sef y rhai a ymunodd â'r gweithlu yn y cyfnod er pa gynhaliwyd yr HYIG diwethaf. Ac eithrio Cyfarwyddwyr, roedd y grŵp hwn yn cynnwys felly staff ar bob lefel yn ddi-wahân, o bob un o adrannau gwasanaeth y Cyngor, yn uwch reolwyr a rheolwyr canolradd adrannau, gwasanaethau ac unedau, ynghyd â staff gweinyddol, proffesiynol a thechnegol, yn ogystal â rhai myfyrwyr a oedd yn ddarpar weithwyr cymdeithasol dan hyfforddiant.</i></p>	134
	<p><i>Gwasanaeth Datblygu Cymunedol - rheolwyr a staff o wahanol safleoedd y gwasanaethau hamdden, cefnogi a datblygu busnes, ieuencid, twristiaeth a pholisi cynllunio.</i></p>	45
	<p><i>Venue Cymru - rheolwyr a staff o bob adran o fewn y ganolfan hon sy'n ganolfan gynadledda a theatr dan yr un to yn Llandudno. Mae'r theatr yn gwasanaethu dalgylch eang yng ngogledd Cymru yn bennaf, ac mae'r ganolfan gynadledda yn denu cleientiaid o bob rhan o Gymru a'r tu hwnt. Roedd yr hyfforddeion yn cynnwys rheolwyr a staff ar bob lefel, gan gynnwys swyddogion rhaglennu, swyddogion marchnata, staff gweinyddol a chlerigol, staff y derbynfeydd a'r swyddfa docynnau.</i></p>	41
	<p><i>Venue Cymru – stiwardiaid gwirfoddol (anghyflogedig). 'Cyfeillion' y Theatr oedd y stiwardiaid hyn. Rhoddent o'u hamser i weithio fel tywyswyr a gynorthwyai gwsmeriaid i gael hyd i'w seddau ar gyfer perfformiadau gyda'r nosau yn bennaf. Roedd pawb yn y grŵp a hyfforddwyd yn unigolion dros oed ymdeol.</i></p>	7

<i>Is-gyfanswm</i>		227
CYNGOR SIR Y FFLINT	Uwch reolwyr a rheolwyr canolradd o bob gwasanaeth a phob adran, a'u meysydd gwasanaeth yn cwmpasu'r ystod eang o wasanaethau cyhoeddus awdurdod lleol. Roedd lefelau eu cyfrifoldebau yn amrywio o reoli unedau a thimau bach, i reoli adrannau corfforaethol a gwasanaethau rheng flaen a mewnol.	86
CYNGOR SIR DDINBYCH	Rheolwyr a Staff yr Adran Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol (Plant ac Oedolion) oedd y mwyafrif o'r hyfforddeion hyn, yn ymarferwyr gofal, staff cynorthwyol a staff gweinyddol. Yn ogystal, cynhwyswyd yn eu plith staff rhai cyrff 3ydd parti sy'n darparu gwasanaethau gofal ar ran y Cyngor, a rhai myfyrwyr oedd yn ddarpar weithwyr cymdeithasol dan hyfforddiant.	32
CYNGOR GOFAL CYMRU	Holl staff y Cyngor ac eithrio rhai unigolion na fu modd iddynt fod yn bresennol am wahanol resymau. Uwch reolwyr, rheolwyr canolradd a staff y brif swyddfa yng Nghaerdydd a swyddfa'r gogledd yn Llanelwy. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys staff ar bob lefel, yn swyddogion datblygu'r gweithlu; swyddogion cofrestru ymarferwyr; swyddogion archwilio ymddygiad a swyddogion y weinyddiaeth gorfforaethol.	19
PRAWF CYMRU	Prif Weithredwyr Cynorthwyol Partneriaid Busnes Adnoddau Dynol Prawf Cymru (sef swyddogion cyswllt lleol yr Adran Adnoddau Dynol) a Rheolwr o bob Uned Darparu Leol ar draws Cymru.	10
<i>CYFANSWM ATEBWYR</i>		374

Manylion y sesiynau HYFIG a drafodir yn yr Arolwg Hyfforddeion

TABL 7.3						
Manylion sesiynau HYFIG a'r niferoedd a'r canrannau a atebodd yr holiadur						
Sefydliad	Dyddiad sesiwn	Lleoliad	Nifer sesiynau @ 3 awr	Nifer oriau hyfforddi	Nifer staff fesul sesiwn	Nifer a % atebwyr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy						
<i>Staff Venue Cymru</i>	7.2.11	Llandudno	1		20	
	16.2.11	Llandudno	1		11	
	22.2.11	Llandudno	1		16	
	24.2.11	Llandudno	<u>1</u>		<u>17</u>	
			4	12	64	41 (64%)
<i>Stiwardiaid gwirfoddol V.C</i>	1.3.11	Llandudno	1	3	19	7 (36.8%)
<i>Datblygu Cymunedol</i>	11.7.11	Bae Colwyn	2		18	
	18.7.11	Llanrwst	1		8	
	19.7.11	Llandudno	2		19	
	21.7.11	Llandudno	<u>1</u>		<u>10</u>	
			6	30	55	44 (80%)
<i>Newydd ddyfodiaid – pob adran</i>	5.11.10	Llandudno	1		15	
	8.2.11	Llandudno	1		23	
	12.7.11	Llandudno	2		12	
	28.7.11	Llandudno	1		13	
	30.9.11	Llandudno	1		21	
	24.11.11	Llandudno	2		19	
	24.1.12	Llandudno	1		10	
	11.4.12	Llandudno	1		12	
	13.6.12	Llandudno	1		12	
	5.9.12	Llandudno	1		12	
	15.4.13	Llandudno	1		11	
	10.10.13	Llandudno	<u>1</u>		<u>13</u>	
				14	42	173
<i>Is-gyfansymiau</i>			25	75	311	227 (73%)
Cyngor Sir Ddinbych	1/2/13	Y Rhyl	1		12	
	2/7/13	Y Rhyl	1		10	
	8/10/13	Y Rhyl	1		10	
	13/11/13	Y Rhyl	1		10	
<i>Is gyfansymiau</i>			4	12	42	32 (76.2%)

Cyngor Sir y Fflint	19.10.10	Maes Glas	2		13		
	20.10.10	Penarlâg	1		12		
	10.11.10	Penarlâg	2		18		
	11.11.10	Penarlâg	2		15		
	16.11.10	Penarlâg	2		21		
	12.1.11	Penarlâg	1		7		
	13.1.11	Penarlâg	2		11		
	18.1.11	Penarlâg	1		8		
	20.1.11	Penarlâg	1		7		
	<i>Is gyfansymiau</i>			14	42	112	86 (76.8%)
Cyngor Gofal Cymru	22.5.13	Caerdydd	2		23		
	19.6.13	Caerdydd	2		18		
	17.7.13	Caerdydd	1		13		
	13.9.13	Caerdydd	1		10		
	<i>Is gyfansymiau</i>			6	18	64	19 (29.69%)
Prawf Cymru							
	Prif Weithredwyr Cynorthwyol	25.9.12	Caerdydd	1		20	3
	Partneriaid Busnes Adnoddau Dynol a Rheolwyr Unedau Darparu Lleol	29.1.13	Caerdydd	1		18	7
<i>Is gyfansymiau</i>			2	6	38	10 (26.32%)	
Cyfansymiau			51	153	543	374 (68.88%)	

Holiadur adborth ac ymchwil – hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith
Feedback and research questionnaire – Welsh language awareness training

SWYDD / POST:

CORFF / ORGANISATION:

1. Cyn heddiw a gawsoch unrhyw hyfforddiant arall i gyflwyno gwybodaeth am yr iaith Gymraeg ichi? Os felly, pa fath o hyfforddiant, a pha bryd?

1. Prior to today have you have received any other training to present information on the Welsh language to you? If so, what kind of training, and when?

2. Ar wahân i unrhyw hyfforddiant a gawsoch, a oes unrhyw wybodaeth arall am yr iaith Gymraeg wedi ei chyflwyno ichi o'r blaen, un ai yn y gwaith neu'r tu allan i'r gwaith? Os felly, nodwch pa fath o wybodaeth, a pha bryd.

2. Apart from any training received, has any information on the Welsh language been presented to you previously, either at work or outside work? If so, please indicate what kind of information, and when.

- Yn y gwaith / *At work?*

- Tu allan i'r gwaith / *Outside work?*

3. Beth oedd elfen(nau) cryfaf yr hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith a gawsoch y tro hwn, a pham?

3. What was the strongest aspect(s) of the language awareness training you received this time, and why?

4. I ba raddau oedd arddull cyflwyniad y cwrs yn effeithiol?

4. Was the presentation style effective?

Llawn					Dim
5	4	3	2	1	
Fully					Not effective

5. Sut byddech yn newid y cwrs i'w wella? / How could we improve the course?

6. A oedd cynnwys y cwrs yn berthnasol a defnyddiol i chi? Os felly, sut?

6. Was the course content relevant and useful to you? If so, how?

7. A ydych yn meddwl y bydd yr hyfforddiant yn dylanwadu ar sut rydych yn delio â'r iaith Gymraeg –

7. Do you think that the training will influence the way you deal with the Welsh language –

- Yn eich gwaith o ddydd i ddydd? (Esboniwch). /
In your day to day work? (Please explain).

- Tu allan i'ch gwaith? (Esboniwch) / *Outside your work? (Please explain)*

8. Sut yn eich barn chi mae'r hyfforddiant hwn yn cyfrannu at flaenoriaethau a gweithgareddau sy'n bwysig i'ch cyflogwr? / In your view, how does this training contribute to priorities and activities which are important to your employer?

9. Ydi'r hyfforddiant wedi eich gwneud yn ymwybodol o unrhyw fathau eraill o ddatblygiad proffesiynol sydd eu hangen arnoch chi? Os felly, pa fath(au) o ddatblygiad proffesiynol?

9. Has the training made you aware of any other types of professional development that you need? If so, what type(s) of professional development?

10. A ydych yn meddwl y bydd yr hyfforddiant yn dylanwadu ar y ffordd rydych yn meddwl am yr iaith Gymraeg yn gyffredinol? Rhowch esboniad os gwelwch yn dda.

10. Do you think that the training will influence the way you think about the Welsh language in general? Please explain.

11. Unrhyw sylwadau eraill ar y pwnc yma? / Any other comments on this subject?

12. Ac yn olaf, ticiwch os gwelwch iddangos i ba categori(au) rydych yn perthyn: 12. And finally, please tick to show which category/categories you belong to:

CYMRO/CYMRAES ___ CENEDLIGRWYDD ARALL ___ SIARAD CYMRAEG ___
WELSH PERSON OTHER NATIONALITY WELSH SPEAKING

DYSGU CYMRAEG ___ CATEGORI ARALL (NODWCH) ___
WELSH LEARNER OTHER CATEGORY (PLEASE INDICATE)

Dychweler i / Please return to: Steve Eaves, d/o 95 Llys Bowen, Ffordd Wiliam Morgan, Parc Busnes Llanelwy, LLANELWY, LL17 0JE
[***steveeavesrhiwlas@gmail.com***](mailto:steveeavesrhiwlas@gmail.com)

ATODIAD 5

Arolwg ategol o swyddogion a gomisiynodd HYFIG arran cyflogwyr

Ym Mhennod 6 cyflwynir canfyddiadau arolwg seiliedig ar atebion gan 374 o hyfforddeion a dderbyniodd HYFIG. Ymatebion personol o bersbectif unigolion yw natur y dystiolaeth a gasglwyd o'r arolwg hwnnw, sef tystiolaeth o'u lefelau gwybodaeth flaenorol am y Gymraeg a'u canfyddiadau am ddeilliannau eu hymwneud â gwybodaeth ac agweddau ar ddisgwrs am y Gymraeg.

I ategu'r dystiolaeth honno, barnwyd mai buddiol fyddai casglu peth tystiolaeth hefyd gan swyddogion a drefnodd neu a gomisiynodd y cyfryw hyfforddiant. Gallai tystiolaeth o'r fath fwrw goleuni ar yr HYFIG o bersbectif sefydliadau, gan ychwanegu at ein dealltwriaeth o'u cymhellion a'u hamcanion nhw wrth drefnu'r cyfryw hyfforddiant a'u canfyddiadau am ei ddeilliannau.

Gan hynny, aed ati i gasglu peth gwybodaeth gan nifer o'r rhai a drefnodd neu a gomisiynodd gynnal hyfforddiant o'r fath ar ran eu cyflogwyr. Wrth wneud hynny dymunid casglu tystiolaeth am resymau cyflogwyr dros gynnal yr hyfforddiant, a'u hamcanion neu'r nod a oedd ganddynt mewn golwg wrth wneud hynny. Dymunid derbyn hefyd dystiolaeth o'u canfyddiadau am sut ymateb a enynnwyd gan yr hyfforddiant ymhlith y staff a'i cafodd, a sut ddylanwad a gawsai arnynt, ac unrhyw ddeilliannau eraill a gafwyd, yn ôl persbectif y grŵp hwn. Crynhoir isod y ddau gwestiwn ymchwil y cynhaliwyd yr arolwg er ceisio eu hateb .

Y ddau gwestiwn ymchwil

- (i) O bersbectif y rhai a drefnodd yr hyfforddiant ar ran eu cyflogwyr, beth oedd amcanion sefydliadau wrth gomisiynu'r HYFIG? a
- (ii) Sut ymateb a enynnwyd gan yr HYFIG ymhlith y staff a'i derbyniodd, yn ôl gwybodaeth a chanfyddiadau'r atebwyr am ddeilliannau'r hyfforddiant?

Dull

Dull cynnal yr arolwg oedd targedu sampl o blith swyddogion a drefnodd neu a gomisiynodd HYI o'r math dan sylw, gan ddsbarthu holiadur iddynt i gasglu eu hymatebion i gyfres o gwestiynau oedd yn dilyn dau drywydd holi penodol. Roedd y

ddau drywydd holi yn ymgais i gasglu tystiolaeth i ateb y ddau gwestiwn ymchwil uchod.

Y grŵp a dargedwyd er ceisio ymatebion ganddynt oedd swyddogion a drefnasai gynnal HYFIG i grwpiau o staff eu sefydliadau rhwng Mai 2010 a Thachwedd 2013 ar ran 8 corff cyhoeddus yng Nghymru.

Cyfyngwyd y sampl i swyddogion sefydliadau y derbyniodd eu staff HYFIG seiliedig ar y model a ddisgrifir yn Ffigwr 2.1, Pennod 2. Gan hynny y matho HYFIG yr ymatebwyd iddo yn yr arolwg ategol hwn yw'r un model y casglwyd ymatebion hyfforddeion iddo yn yr arolwg hyfforddeion.

Roedd yr 8 sefydliad yn cynnwys y 5 corff a ddisgrifir ym Methodoleg yr arolwg hyfforddeion, sef Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Gofal Cymru, a Phrawf Cymru. Yn ychwanegol at swyddogion perthnasol y 5 corff hyn, dosbarthwyd holiaduron yn ogystal i swyddogion a drefnodd yr hyfforddiant ar ran 3 chorff arall, sef Coleg Glannau Dyfrdwy, Tribiwnlys Prasio Cymru, a Dŵr Cymru.

Roedd pob un o'r wyth corff dan sylw wedi mabwysiadu ac yn gweithredu CIG statudol a gymeradwywyd gan BYIG yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Ystyriaethau am natur y sampl

Anelid at ychwanegu at y sampl o swyddogion a drefnasai sesiynau HYIG gan *laith* i staff eu sefydliadau. Yn ystod y cyfnod astudio darparodd *laith* hyfforddiant i rai o staff Coleg Glannau Dyfrdwy, Tribiwnlys Prasio Cymru, a Dŵr Cymru.

Er na fuasai'n bosibl neu'n gyfleus i ddisbarthu holiadur y prif arolwg i hyfforddeion y 3 chorff ychwanegol hyn, mynegasai'r swyddogion a drefnodd yr hyfforddiant ar eu cyfer eu parodrwydd hwythau i ymateb i holiadur yr arolwg ategol hwn.

O'r 8 sefydliad y dosbarthwyd holiadur i drefnwyr eu HYIG, dewisodd swyddogion perthnasol 7 ohonynt ateb yr holiadur. Y 7 sefydliad y cafwyd atebion gan eu swyddogion perthnasol oedd Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Gofal Cymru, Phrawf Cymru, Coleg Glannau Dyfrdwy, Tribiwnlys Prasio Cymru, a Dŵr Cymru. Ni chafwyd ymatebion gan swyddogion perthnasol Cyngor Sir y Fflint.

Disgrifiad bras o'r tri chorff cyhoeddus arall yr holwyd eu trefnwyr hyfforddiant

Rhoddwyd eisoes yn adran Methodoleg yr arolwg hyfforddeion ddisgrifiad bras o'r 5 sefydliad yr holwyd eu hyfforddeion. Rhoddir isod ddisgrifiad bras o'r 3 sefydliad arall y cafwyd atebion gan eu trefnwyr HYIG ar gyfer yr arolwg ategol hwn.

DŴR CYMRU

<http://bit.ly/1kDYwYG>

Mae Dŵr Cymru yn eiddo i Glas Cymru, cwmni un pwrpas heb gyfranddeiliaid sy'n gweithredu'n gyfan gwbl er lles ei gwsmeriaid. O dan berchnogaeth Glas Cymru, ariennir asedau a buddsoddiad cyfalaf Dŵr Cymru gan fondiau a gwargedion ariannol.

Mae Dŵr Cymru yn gwmni rheoledig nid-am-elw sy'n darparu gwasanaethau cyflenwi dŵr a charthffosiaeth ar gyfer dros 3 miliwn person sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru a'r gororau. Mae'n gwasanaethu 1.2 miliwn o gwsmeriaid preswyl a thros 110,000 o gwsmeriaid busnes. Dŵr Cymru yw'r chweched o ran maint o blith y 23 cwmni dŵr rheoledig yng Nghymru a Lloegr.

Mae'n cynnal 81 cronfa ddŵr a 105 gwaith trin dŵr, ac yn cyflenwi 900 miliwn litr o ddŵr y dydd ar gyfartaledd i ddefnyddwyr. Dosberthir y dŵr trwy rwydwaith pibellau 27,000km o hyd, rhwydwaith sy'n cynnwys 532 gorsaf bwmpio a 715 cronfa wasanaeth. Yn ogystal mae Dŵr Cymru yn casglu dŵr gwastraff (gan gynnwys dŵr arwyneb a dŵr draenio ffyrdd) trwy rwydwaith carthffosydd yn ymestyn dros 19,000km o hyd. Mae'r rhwydwaith hwnnw'n cynnwys 1,700 gorsaf bwmpio a 3,300 safle gorlif carthion cyfunol. Trinnir yr holl ddŵr gwastraff a gesglir drwy rwydwaith o 832 o weithfeydd trin dŵr gwastraff ger afonydd ac ar hyd yr arfordir.

Prif gyfrifoldeb Dŵr Cymru yw gweithredu, cynnal a diweddarau'r rhwydwaith asedau eang a sylweddol yma er mwyn sicrhau cyflenwadau dŵr diogel a dibynadwy, a thrin y dŵr gwastraff mewn modd effeithiol er mwyn diogelu'r amgylchedd.

Mae Dŵr Cymru yn cyflogi bron 3,000 o staff yn uniongyrchol, ac yn cefnogi rhyw 3, 500 o swyddi eraill drwy drefniadau â chontractwyr ac yn y blaen. Lleolir ei bencadlys yn Nelson ym mwrdeistref sirol Caerffili ac mae ei Ganolfan Galwadau Cwsmeiriad yn Llanelwyrwg. Mae ganddo swyddfeydd ar hyd a lled Cymru ac yn Henffordd, Lloegr.

Yng nghyswllt yr astudiaeth hon, cyflwynwyd HYFIG i dri grŵp o staff Dŵr Cymru yn y Pencadlys yn Nelson, gan gynnwys staff gweinyddol, rheolwyr canolradd a staff yr adran adnoddau dynol.

TRIBIWNLYS PRISIO CYMRU

<http://bit.ly/UhblYX>

Mae Tribiwnlys Prasio Cymru yn sefydliad annibynnol sy'n ymdrin ag apeliadayn erbyn prisiadau a bennwyd ar gyfer Ardrethi Annomestig a'r Dreth Gyngor. Mae gan Wasanaeth y Tribiwnlys bedwar rhanbarth gweithredu, sef Rhanbarth Dwyrain Cymru a Rhanbarth De Cymru, sydd â'u swyddfeydd yng Nghasnewydd; Rhanbarth Gorllewin Cymru sydd â'i swyddfa yn Abertawe; a Rhanbarth Gogledd Cymru sydd â'i swyddfa yng Nghyffordd Llandudno. LIC sy'n cyllido Tribiwnlys Prasio Cymru.

Mae aelodau'r Tribiwnlysoedd yn bobl leol ac yn wirfoddolwyr. Ni raid iddynt feddu ar gymwysterau proffesiynol i fod yn Aelodau Tribiwnlys, ond derbyniant hyfforddiant ffurfiol ac mae ganddynt brofiad o wrando ar apeliadau. Fel arfer, bydd tri aelod yn gwrando ar bob apêl. Bydd Clerc, a gyflogir gan y Tribiwnlys, yn bresennol ym mhob gwrandawriad i gynghori'r Aelodau ar agweddau cyfreithiol a'r drefn weithredu briodol.

Tuedda'r rhan fwyaf o waith y Tribiwnlys i ymwneud ag ardrethi annomestig, gydag asiantau proffesiynol yn cynrychioli apelwyr yn y mwyafrif o'r apeliadau hyn. O bryd i'w gilydd, ar gais yr apelwyr, cyflwynir apeliadau ardrethi annomestig drwy gyfrwng y Gymraeg, ond mae'r gyfran o apeliadau drwy gyfrwng y Gymraeg yn erbyn Treth y Cyngor yn uwch. O ganlyniad, mae cyfran uwch o apeliadau a gynhaliwyd yn Gymraeg yn erbyn Treth y Cyngor yn cyrraedd gwrandawriad o'i chymharu â'r gyfran gyfatebol o apeliadau yn erbyn ardrethi.

Mae Gwasanaeth y Tribiwnlys yn cyflogi 21 o staff a rennir rhwng y swyddfeydd rhanbarthol uchod. Yn ystod y flwyddyn 2013-14 prosesodd y gwasanaeth oddeutu 8,000 o apeliadau. Cyfran fechan o'r rheiny a gyrhaeddodd wrandawriad Tribiwnlys. Cafwyd 1645 o ddyfarniadau gan y Tribiwnlysoedd. Yng nghyswllt yr astudiaeth hon, cyflwynwyd HYFIG mewn tair sesiwn, sef un i'r holl staff, un i Aelodau'r Tribiwnlysoedd, ac un i grŵp o reolwyr ac Aelodau.

COLEG GLANNAU DYFRDWY

(Estyn, 2012)

Sefydlwyd Coleg Glannau Dyfrdwy yn 1993 a bu'n weithredol am ugain mlynedd. Daeth oes y Coleg i ben yn dilyn uno Coleg Glannau Dyfrdwy â Choleg Iâl ar 1 Awst 2013, er mwyn sefydlu coleg cyfun newydd, Coleg Cambria.

Erbyn diwedd ei oes roedd Coleg Glannau Dyfrdwy yn un o'r colegau addysg bellach mwyaf yng Nghymru, yn cynnig amrediad eang o gyrsiau addysg bellach a chysiau galwedigaethol. Gwasanaethai ddalgylch eang yng ngogledd-ddwyrain Cymru, gan gynnwys y cyfan o Sir y Fflint, de Sir Ddinbych a Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Yn ystod y cyfnod rhwng 2009 a 2012 roedd 3 choleg arall wedi uno â'r Coleg Glannau Dyfrdwy gwreiddiol yng Nghei Connah, Sir y Fflint, gan greu coleg newydd a weithredai ar 4 campws. Y 4 campws oedd y prif safle yng Nghei Connah; Coleg Llaneurgain (Coleg Garddwriaeth Cymru gynt) yn Llaneurgain, Sir y Fflint; Coleg Llysfasi yn Rhuthun, Sir Ddinbych a Hyfforddiant Wrecsam yn Wrecsam. Roedd y Coleg yn cyflogi bron 900 o staff ar y pedwar safle hwn (Coleg Glannau Dyfrdwy, 2011).

Yn 2012 roedd gan Coleg Glannau Dyfrdwy gontract dysgu yn y gwaith ('work-based learning') gwerth £4.9 miliwn, yn cynnwys £326,000 ar gyfer Hyfforddiaethau yn Sir y Fflint. Roedd rhan fwyaf y contract yn gysylltiedig â chyflwyno rhaglenni Prentisiaeth Sylfaen a Phrentisiaeth ar hyd a lled Gogledd Cymru. Ar y pryd roedd y coleg yn arwain rhaglen Prentisiaeth ar y Cyd yn y sector peirianeg hefyd. Ar adeg arolygiad Estyn yn Chwefror 2012 roedd tros 2,000 o'r 'dysgwyr yn y gwaith' yn y coleg yn ymgymryd â hyfforddiant ar raglenni a ariennid gan Lywodraeth Cymru. Yn ychwanegol at y nifer hwnnw, roedd 14,000 o ddysgwyr yn dilyn rhaglenni addysg bellach yn y coleg hefyd. (Estyn, 2012)

Yng nghyswllt yr astudiaeth hon, cyflwynwyd HYFIG mewn un sesiwn i staff a weithredai fel 'pencampwyr iaith', ynghyd â rhai swyddogion hyfforddi a'r 'swyddogion iaith'.

Teipoleg atebwyr

Yn Nhabl 7.4 isod ac yn drafodaeth ddilynol cyfeirir at y 7 sefydliad y cafwyd atebion gan eu swyddogion fel Sefydliadau A, B, C, Ch, D, Dd ac E yn unigol. Mae'r Tabl yn rhestru teitlau swyddi'r atebwyr yn yr ail golofn ac yn y drydedd golofn pennir cyfeirnod a ddefnyddir i'w hadnabod wrth ddyfynnu o'u hatebion yn y drafodaeth ddilynol.

TABL 7.4 TEIPOLEG A NIFEROEDD ATEBWYR, YN SWYDDOGION A DREFNODD HYFIG			
Cyfeirnod sefydliad	Swydd y trefnydd / trefnwyr	Cyfeirnod swyddog	Nifer atebwyr
SEFYDLIAD A	Swyddog yr Iaith Gymraeg Rheolwr Adnoddau Dynol Uwch Swyddog Gwasanaethau Iaith	A1 A2 A3	3
SEFYDLIAD B	Swyddog Datblygu Staff	B1	1
SEFYDLIAD C	Cydlynnydd y Gymraeg	C1	1
SEFYDLIAD CH	Rheolydd Hyfforddiant, Ymchwil ac Amrywiaeth Rheolwr Rhanbarthol Adnoddau Dynol.	CH1 CH2	2
SEFYDLIAD D	Clerc Rhanbarth	D1	1
SEFYDLIAD Dd	Rheolwr Cyfathrebu	Dd1	1
SEFYDLIAD E	Rheolwr Adnoddau Dynol	E1	1
CYFANSWM ATEBWYR			10

Trafodaeth am y dull casglu gwybodaeth

Casglwyd yr ymatebion drwy gyfrwng holiaduron dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) a ddosbarthwyd i staff a drefnasai sesiynau HYIG a gynhaliwyd rhwng Mai 2010 a Thachwedd 2013. Atgynhychir copi o'r holiadur dwyieithog yn Atodiad 6.

Dosbarthwyd yr holl holiaduron ar ffurf electronig drwy e-bost. Cyn eu dosbarthu, cafwyd sgwrs wyneb yn wyneb neu dros y ffôn â phob un o'r trefnwyr dan sylw gan egluro bod yr hyfforddwr yn gwneud gwaith ymchwil academiaidd i faes ymwybyddiaeth iaith. Esboniwyd ei fod wedi paratoi holiadur i gasglu gwybodaeth gan swyddogion a drefnasai sesiynau HYIG ac y byddai'n gwerthfawrogi petaent yn fodlon derbyn copi o'r holiadur ganddo drwy e-bost ymhen ychydig wythnosau, i'w ddarllen ganddynt er mwyn iddynt ystyried ateb y cwestiynau ynddo.

Roedd swyddogion a atebodd ar ran 4 o'r 7 corff hyn eisoes yn gyfarwydd ag amcanion yr ymchwil oherwydd roeddent wedi cynorthwyo i sicrhau caniatâd, neu wedi rhoi caniatâd, ar ran eu cyflogwyr i'r hyfforddeion gael eu holi ar gyfer y prif arolwg. Pwysleisiwyd i'r trefnwyr hyn y byddai pob cyfeiriad yn yr arolwg ategol hwn at eu hatebion nhw, neu atynt hwy fel atebwyr, yn ddiennw ac yn cael eu defnyddio at ddibenion yr ymchwil hwn yn unig. Cynigiwyd iddynt hefyd y dewis o anfon eu hatebion i'r holiadur ato un ai drwy e-bost, neu argraffu copi papur i gofnodi eu hatebion arno, gan anfon hwnnw ato drwy'r post wedyn.

Yn dilyn y sgwrs wyneb yn wyneb neu dros y ffôn, anfonwyd yr holiadur drwy e-bost at y swyddogion dan sylw rhwng 3 ac 8 wythnos wedi i'r sesiynau hyfforddi perthnasol ddod i ben, yn eu hatgoffa o'r hyn a drafodwyd am yr holiaduron. Pwrpas caniatáu i ysbaid o amser fynd heibio cyn dosbarthu'r holiaduron oedd rhoi cyfle i'r darpar atebwyr fyfyrto dros unrhyw adborth a gawsent gan hyfforddeion, neu arsylwi ar unrhyw ddeilliannau posibl o'r hyfforddiant. Ar y llaw arall, ni adawyd i ysbaid rhy hir o amser fynd heibio rhag i'r sesiynau, ac unrhyw sôn amdanynt wedyn ymhlith staff, ddechrau mynd yn angof gan y trefnwyr.

Dewisodd pob un ond un o'r atebwyr ateb fersiwn electronig yr holiadur a'i anfon ymlaen ataf wedyn drwy e-bost. Dewisodd un atebydd argraffu copi papur ohono, ei ateb mewn llawysgrifen a'i anfon ymlaen ataf trwy'r post.

Yn wahanol i'r holiadur a ddosbarthwyd i hyfforddeion ar gyfer y prif arolwg, gofynnwyd y tro hwn i'r atebwyr roi eu henwau a theitlau eu swyddi. Pwrpas y cwestiynau hyn oedd cydnabod y byddai enwau'r atebwyr eisoes yn hysbys i'r hyfforddwr beth bynnag gan iddo anfon holiaduron atynt drwy e-bost, a derbyn eu hatebion drwy e-bost neu drwy'r post. Rheswm arall dros ofyn am eu henwau a theitlau eu swyddi oedd am fod mwy nag un swyddog wedi bod yn gyfrifol am

drefnu'r hyfforddiant mewn ambell sefydliad, a rhaid oedd eu hadnabod er mwyn anfon holiaduron atynt drwy e-bost. Gan hynny, wrth drafod yr holiadur ymlaen llaw, wyneb yn wyneb â threfnwyr, gofynnwyd iddynt am enwau a manylion cyswllt eu cyd-drefnwyr nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod wyneb yn wyneb. Wrth anelu at ddsbarthu copi o'r holiadur i bob un o'r trefnwyr, tybiwyd y byddai derbyn ymateb gan bob swyddog a gyd-drefnasai'r HYIG yn ategu canfyddiadau'r arolwg, ac y byddai derbyn gwybodaeth am deitlau eu swyddi hefyd yn wybodaeth ategol werthfawr o ran adnabod yr amrywiaeth o swyddogion a ymwnâi â threfnu'r hyfforddiant.

Yr atebwyr

Dengys Tabl 7.4 uchod deitlau swyddi'r atebwyr, ac maent yn adlewyrchu'r amrywiaeth o bersbectifau cysylltiedig â'u gwahanol swyddogaethau, er mai cymharol fach yw'r nifer yn y sampl ar gyfer yr arolwg hwn.

Cyfradd ymateb

O ran y gyfradd ymateb, anfonwyd yr holiadur at 11 o swyddogion yn cynrychioli 8 o sefydliadau. Derbyniwyd atebion gan gyfanswm o 10 swyddog yn cynrychioli 7 sefydliad.

Cyfrinachedd atebwyr

Wedi derbyn pob holiadur ond un yn ôl drwy e-bost, er mwyn diogelu cyfrinachedd dilëwyd enwau'r atebwyr ac argraffu copiâu o'u holiaduron a atebwyd. Wedyn dilëwyd y negeseuon e-bost yr oedd holiaduron yr atebwyr yn atodiadau iddynt. Erys yr holl atebion yn ddiennw felly yn y drafodaeth ddilynol. Defnyddir y cyfeirnodau a nodir yng ngholofn gyntaf Tabl 7.4 uchod i gyfeirio at y sefydliadau a ymatebodd, a defnyddir y cyfeirnodau yn y bedwaredd golofn i gyfeirio at atebwyr neu ddyfynnu o'u hatebion. Mae'r holl drefniadau i ddiogelu cyfrinachedd ymatebwyr yn cydymffurfio â Rheolau Moeseg Ymchwil Prifysgol Caerdydd.

Cwestiynau'r arolwg

Fel a nodwyd uchod, ar ddechrau'r holiadur gofynnwyd i'r atebydd nodi ei enw a'i swydd. Gofynnwyd iddo nodi hefyd enw'r corff y gweithiai iddo. Cafwyd wedyn gyfres o 8 cwestiwn craidd i geisio'r dystiolaeth a ddisgrifir yn y cwestiynau ymchwil uchod.

Roedd cwestiynau'r arolwg yn gyfuniad o gwestiynau caeëdig a rhai agored a anelid at gasglu gwybodaeth ansoddol a meintiol, yn unol â'r rhesymeg a'r modd a ddisgrifir ym Methodoleg y prif arolwg a drafodir ym Mhennod 6. Roedd 6 chwestiwn yn cyfuno rhan gyntaf gaeëdig ag ail ran agored.

Atgynhychir isod eiriad dwyieithog y cwestiynau a ofynnwyd.

Cwestiwn 1

Fel sefydliad, pa amcanion oedd gennych mewn golwg wrth drefnu'r hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith?

As an organisation, what were your aims in arranging the language awareness training?

Cwestiwn 2

A oedd yr hyfforddiant wedi llwyddo i gyfrannu tuag at gyrraedd yr amcanion hynny? Os felly, sut? - ac os na, nodwch pam.

Did the training succeed in contributing towards realising those aims? If so, how? – and if not, please indicate why.

Cwestiwn 3

Yn ôl unrhyw adborth gawsoch gan staff, beth oedd elfen(nau) cryfaf yr hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith, a pham?

According to the feedback received, what was the strongest aspect(s) of the language awareness training, and why?

Cwestiwn 4

A ydych yn meddwl y bydd yr hyfforddiant yn dylanwadu ar y modd mae staff / cydweithwyr yn delio â'r iaith Gymraeg? Rhowch esboniad os gwelwch yn dda.

Do you think that the training will influence the way staff / colleagues deal with the Welsh language? Please explain.

Cwestiwn 5

A ydych yn meddwl y bydd yr hyfforddiant yn dylanwadu ar y ffordd mae staff yn meddwl am yr iaith Gymraeg yn gyffredinol? Rhowch esboniad os gwelwch yn dda.

Do you think that the training will influence the way staff think about the Welsh language in general? Please explain.

Cwestiwn 6

A ydych yn teimlo bod yr hyfforddiant hwn wedi amlygu'r angen am ragor o hyfforddiant (e.e mewn sgiliau iaith, materion cydraddoldeb ac amrywioldeb, neu fathau eraill o hyfforddiant) neu drefniadau pellach i ddatblygu neu gefnogi staff ? Esboniwch os gwelwch yn dda.

Do you think that the training has highlighted the need for any further training (e.g. language skills training, equalities and diversities training or other kinds of training), or for other arrangements to develop and support staff? Please explain.

Cwestiwn 7

A fyddai o fudd i'r staff dderbyn sesiynau dilynol o hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith, neu a ydych yn teimlo bod y sesiwn hon wedi bod yn ddigonol? Esboniwch os gwelwch yn dda.

Would it be beneficial for staff to receive further language awareness training sessions, or do you feel that this session was adequate? Please explain.

Cwestiwn 8

Unrhyw sylwadau eraill ar y pwnc yma?

Any other comments on this subject?

Crynodeb o ganfyddiadau'r arolwg

Atgynhychir isod y fersiwn Cymraeg o bob cwestiwn unigol cyn cyflwyno oddi tano grynodeb o'r atebion a gafwyd iddo. Noder nad yw niferoedd yr atebion a gafwyd yn cyfateb i nifer yr atebwyr oherwydd rhoddodd rhai atebwyr fwy nag un ateb i gwestiwn neu gwestiynau unigol.

CWESTIWN 1.

Fel sefydliad, pa amcanion oedd gennych mewn golwg wrth drefnu'r hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith?

Rhestrir isod yr amcanion a nodwyd yn yr atebion, a'r nifer o atebwyr a nododd bob amcan unigol.

Cafwyd cyfanswm o 25 o atebion i'r cwestiwn hwn gan y 10 atebydd. 2 atebydd yn unig a atebodd drwy nodi 1 yn unig o'r amcanion isod. Rhestrodd 1 atebydd 4 o'r amcanion isod; rhestrodd 5 atebydd 3 ohonynt, a rhestrodd 2 atebydd 2 ohonynt.

- Codi ymwybyddiaeth a rhannu gwybodaeth am y Gymraeg (6)
- Trafod newid neu ddylanwadu ar agweddau ac arferion gwaith (4)
- Trafod pwysigrwydd y Gymraeg i ddefnyddwyr yn y maes gofal (3)
- Ymdrin â'r Gymraeg yng nghyd-destun agweddau personél, recriwtio, a rheoli sgiliau (2)
- Codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yng nghyd-destun y cydraddoldebau (2)
- Trafod agweddau a dealltwriaeth unigolion parthed y Gymraeg (2)
- Codi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Iaith, y mesurau a'r camau gweithredu ynddo a chyfrifoldeb pawb (1)
- Cynyddu dealltwriaeth o ddylanwad hanes/cefndir ar y Gymraeg heddiw (1)
- Codi ymwybyddiaeth o'r gofynion polisi a deddfwriaeth (1)
- Cyflwyno'r cysyniad o gwrteisi ieithyddol (1)
- Gwella'r gwasanaeth i ddefnyddwyr (1)
- Codi ymwybyddiaeth 'pencampwyr iaith'a staff eraill am weithleoedd dwyieithog (1)

CWESTIWN 2

A oedd yr hyfforddiant wedi llwyddo i gyfrannu tuag at gyrraedd yr amcanion hynny? Os felly, sut? - ac os na, nodwch pam.

Atebion cadarnhaol a gafwyd yn ddieithriad i'r cwestiwn hwn, gyda phob un o'r atebwyr yn datgan bod yr hyfforddiant wedi cyfrannu at gyrraedd yr amcanion a bennwyd iddo. Cafwyd yr atebion a ganlyn i ail ran y cwestiwn, sef 'Os felly, sut?' Dangosir ar y dde y nifer a roddodd bob ateb unigol.

- Wedi cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth staff (5)
- 'Yr hyfforddiant hefyd wedi meithrin agwedd gefnogol gan weithwyr fewn y gwasanaeth tuag at fynd ati i ddysgu'r iaith / datblygu eu sgiliau ymhellach'(1)
- Wedi codi proffil yr iaith yn fewnol (1)
- Wedi cynorthwyo rheolwyr i ddeall y rhesymau busnes a chefndirol am y gofynion ym maes recriwtio a staffio (2)
- 'Mae'r Prif Weithredwr wedi deall bod ganddo ran flaenllaw i newid diwylliant y gweithle' (D1) (1)
- Wedi codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg i ddefnyddwyr gwasanaethau gofal (1)
- Wedi rhoi cyfle i staff Cymraeg a staff di-Gymraeg gyd-drafod profiadau ei gilydd gan elwa o'r wybodaeth (1)
- Wedi rhoi cyfle i ystyried sut mae hanes a datblygiadau sosio-wleidyddol wedi dylanwadu ar agweddau cyfoes tuag at y Gymraeg a dwyieithrwydd (1)

CWESTIWN 3

Yn ôl unrhyw adborth gawsoch gan staff, beth oedd elfen(nau) cryfaf yr hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith, a pham?

Cafwyd mwy nag un ateb gan sawl un o'r 10 atebydd. Nodir isod yr atebion a gafwyd, a'r nifer o atebwyr a roes bob ateb.

- Agweddau ar hanes yr iaith, y cefndir (4)
- Cyfleoedd i drafod, gofyn cwestiynau a herio mewn awyrgylch diogel (4)
- Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd gweithredu'n ddwyieithog/ deall anghenion siaradwyr Cymraeg (2)
- Gwybodaeth am ddemograffeg yr iaith (1)
- Gwybodaeth am y gofynion polisi a'r ddeddfwriaeth (1)
- Deall y rhwystrau ymarferol a seicolegol sy'n wynebu'r sefydliad (1)
- Pob agwedd (1)

CWESTIWN 4

A ydych yn meddwl y bydd yr hyfforddiant yn dylanwadu ar y modd mae staff / cydweithwyr yn delio â'r iaith Gymraeg? Rhowch esboniad os gwelwch yn dda.

Atebion cadarnhaol a gafwyd i'r cwestiwn hwn gan 9 o'r 10 atebydd, gyda'r 9 hynny yn datgan eu bod yn meddwl y bydd yr hyfforddiant yn dylanwadu yn y modd a nodir yn y cwestiwn. Atebodd y degfed ei fod 'yn gobeithio y bydd' yn dylanwadu yn y modd hwnnw.

Dyfynnir isod yr esboniadau a roddwyd wrth ateb ail ran y cwestiwn. Fe'u dyfynnir yn iaith yr atebion gwreiddiol.

- Ydw. Mae deall rhwystrau bob amser yn esgor ar fwy o obaith o'u goresgyn!
(A1)

- Yes, I think it has generated a lot more understanding and in turn staff are demonstrating better customer care skills, more empathy and a more positive approach (A2).
- Fel rhan o'u gwaith pob dydd, mae angen i'r grŵp hwn o staff ddangos "parch ac urddas" tuag at yr unigolion bregus y maent yn gweithio gyda. Teimlir felly eu bônt yn sylweddoli ac yn derbyn y neges ynghylch pa mor allweddol yw "cyfathrebu effeithiol" efo'r unigolyn. Mae'r staff a fynychodd y cwrs wedi ymateb yn bositif ac wedi holi ymhellach am hyfforddiant i ddysgu Cymraeg / gwella eu Cymraeg. (B1).
- Yn bendant, bydd gan staff fwy o ddealltwriaeth o'i bwysigrwydd a mynd ati i wneud pethau'n ddwyieithog (C1).
- Cyfle i ystyried y rhwystrau o ran adnabod a datblygu cyfleoedd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle (Ch1).
- Yes – the workshop has enabled greater understanding of Welsh Language issues in the workplace and the business argument for ensuring availability of bilingual services (Ch2).
- Ers yr hyfforddiant mae'r Prif Weithredwr wedi gwneud dau gyflwyniad cyhoeddus i'r Aelodau ac wedi dechrau ei araith yn y ddau drwy siarad yn Gymraeg am ryw 3 neu 4 munud. Tipyn o gamp i un sydd ddim yn medri'r Gymraeg. Mae hefyd wedi dweud yn gyhoeddus y byddai'n mynd i wersi Cymraeg ym mis Medi ac edrych ar gael cefnogaeth y staff sy'n siarad Gymraeg i wella ei Gymraeg (D1).
- Dwi'n gobeithio yn enwedig staff sydd yn dod o'r adran adnoddau dynol – gallant dylanwadu trwy gyflwyno elfennau'r cwrs i fewn i cyrsiau hyfforddiant ar gyfer dechreuwyr newydd er enghraifft (Dd1).
- Yes – I believe that more staff now appreciate that language is a very important part of a person's identity, and that we all need to be more pro-active in offering services in language of choice (E1).

- Yn bendant - mae'r hyfforddiant wedi newid agweddau, codi brwdfrydedd ymysg staff di-Gymraeg i ddysgu'r iaith (Ch1).
- Mae'r hyfforddiant eisoes wedi llwyddo i newid agweddau rhai pobl tuag at yr iaith, a'u defnydd ohoni. Gobeithio bydd hyn yn parhau yn y dyfodol (A3).

CWESTIWN 5

A ydych yn meddwl y bydd yr hyfforddiant yn dylanwadu ar y ffordd mae staff yn meddwl am yr iaith Gymraeg yn gyffredinol? Rhowch esboniad os gwelwch yn dda.

Cafwyd atebion cadarnhaol gan 7 o'r 10 atebydd i'r cwestiwn hwn, gyda'r 7 hynny yn datgan eu bod yn meddwl y bydd yr hyfforddiant yn dylanwadu yn y modd a nodir yn y cwestiwn. Atebodd 1 atebydd ei fod 'yn gobeithio y bydd' yn dylanwadu yn y modd hwnnw, ac ni atebwyd y cwestiwn gan 2 atebydd, er i 1 ohonynt gyflwyno sylwadau yn lle hynny. Dyfynnir isod yr esboniadau a roddwyd wrth ateb ail ran y cwestiwn.

- Rhai pethau wedi eu synnu, e.e. grwpiau ethnig a'r Gymraeg, cynnydd yn y nifer o blant a phobl ifanc – gweld bod y Gymraeg yn iaith fyw (C1).
- Yes – hopefully it will encourage those staff who are bilingual to use their Welsh language skills more when in work, and also enable non Welsh speaking staff to understand the importance of language in the workplace (E1).
- Also I think more staff now understand the importance of care providers being able to offer their services through the medium of Welsh, particularly to dementia sufferers who tend to lose their second language (E1).
- Y mwyafrif o staff yn bendant. Newid agwedd i'w weld yn amlwg, codi awydd i ddysgu'r iaith – ac felly'n codi proffil yr iaith yn fewnol (Ch1).
- Ie, dw'i'n credu oherwydd byddant yn dechrau meddwl am y rhesymau y maent yn gwneud pethau'n ddwyieithog fel rhan o'u gwaith arferol, a pham mae hynny'n bwysig (Dd1).

- This will hopefully be influenced by the positive attitudes of managers to Welsh language Services (Ch2).
- Mae'r hyfforddiant wedi cael dylanwad ar y Prif Weithredwr gan iddo arwain drwy esiampl drwy ddefnyddio'r iaith. Ac yn y ddau cyfarfod hyn, cafwyd ryw 5 cwestiwn o'r llawr gan ddau aelod oedd yn bresennol yn yr hyfforddiant hwn – fe wnaethon nhw ddechrau yn Gymraeg ac wedyn cyfieithu yr hyn ddwedon nhw i'r Saesneg, er bod cyfieithydd yn bresennol (D1).
- Dylanwad ar staff? Mae wedi tynnu Cymry'r gweithle yn agosach ac yn fwy parod i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob sefyllfa bosib heb deimlo'n embarased a'r peth! (D1).
- Mae cynnig cwrs o'r fath wedi dylanwadu ar y ffordd mae staff yn meddwl am y Gymraeg: "Just to understand passion for Welsh" (B1).
- Mae rhai staff wedi nodi y byddent am rannu'r wybodaeth ymhellach "Take information back to team". Yn ogystal bydd disgwyl iddynt drafod y cwrs ymhellach yn ystod sesiynau goruchwyllo gyda'u rheolwyr gan ystyried sut y bydd modd iddynt ddefnyddio'r hyfforddiant yn eu gwaith pob dydd (B1).
- ...Ydw. Mae gwell dealltwriaeth o bethau a phobl yn gallu newid agweddau, sydd yn ei dro yn newid arferion (A1).
- Yes, I think staff have been influenced by the training and it has broadened their outlook on Welsh Language issues, which has also coincided with the work the [organization] is doing to improve its recruitment processes and its customer care (A2).
- For several weeks after the training, people were still talking about how it related to their roles – particularly in recruitment, e.g. when advertising posts and language requirements. My staff also understand better why it is so important not to put off Welsh speaking applicants by having too rigid criteria which look daunting to many prospective candidates (A2).

CWESTIWN 6

A ydych yn teimlo bod yr hyfforddiant hwn wedi amlygu'r angen am ragor o hyfforddiant (e.e mewn sgiliau iaith, materion cydraddoldeb ac amrywioldeb, neu fathau eraill o hyfforddiant) neu drefniadau pellach i ddatblygu neu gefnogi staff ? Esboniwch os gwelwch yn dda.

Crynohir isod yr atebion a gafwyd. Dangosir yn y golofn ar y dde y nifer a roddodd bob ateb unigol.

- Hyfforddiant sgiliau iaith (3)
- Y Gymraeg ym maes adnoddau dynol (2)
- Hyfforddiant ar brif-lifo'r Gymraeg i bob un agwedd unigol ar wasanaeth y sefydliad (2)
- Sgiliau Gofal Cwsmer Dwyieithog i Staff Rheng Flaen (1)
- Hyfforddiant Ymwybyddiaeth fel hyn i holl staff y sefydliad (1)
- Hyfforddiant ar y CIG a'r Safonau Iaith yn benodol (1)
- Na – ddim wedi amlygu angen am fwy o hyfforddiant (1)
- Dim ateb (1)

CWESTIWN 7

A fyddai o fudd i'r staff dderbyn sesiynau dilynol o hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith, neu a ydych yn teimlo bod y sesiwn hon wedi bod yn ddigonol? Esboniwch os gwelwch yn dda.

Crynohir isod yr atebion a gafwyd i ran gyntaf y cwestiwn

- Na - dim ar hyn o bryd – y sesiwn hon yn ddigonol (6)

- Byddai (4)
- DIM ATEB (1)
- Byrdwn yr esboniadau pellach a gafwyd yn yr ymatebion i ail ran y cwestiwn oedd:
- Y sesiwn yn ddigonol ar hyn o bryd ond byddai'n ddefnyddiol i staff dderbyn sesiwn arall yn y dyfodol, gyda diweddariadau (4)
- Mae angen yr hyfforddiant hwn ar staff eraill (4)

CWESTIWN 8

Unrhyw sylwadau eraill ar y pwnc yma?

Ni chafwyd ymatebion i'r cwestiwn hwn gan 6 o'r atebwyr. Ymatebodd 3 arall drwy ddiolch am y sesiynau, ac ni chafwyd ond 1 ymateb sylweddol, sef:

The training was really helpful in establishing a baseline of understanding of Welsh Language and the broader equalities issues. It dove-tailed nicely with our other equalities training, providing an insight into the relationship of language with race, culture and heritage. I don't think people had looked at the language issues in this context before – it really helped to consolidate our approach as a team.

Unexpectedly, it has also been a source of encouragement to our Welsh learners who are quite advanced, but I think it has given them more energy and has spurred them on as well! (A2).

Cyfeiriadau ychwanegol

Coleg Glannau Dyfrdwy (2011). *Cynllun Iaith Gymraeg*. Coleg Glannau Dyfrdwy

Estyn (2012). *Adroddiad arolygiad ar Goleg Glannau Dyfrdwy*, Caerdydd: Arolygiaeth
Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. <http://bit.ly/1hqXmiL>

Holiadur i swyddogion fu'n destun yr Arolwg Atodol

Holiadur ymchwil ar hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith: Cwestiynau i swyddogion a gomisiynodd yr hyfforddiant
Research questionnaire on Welsh language awareness training: Questions to officers who commissioned the training

ENW / NAME:

SWYDD / POST:

CORFF / ORGANISATION:

1. Fel sefydliad, pa amcanion oedd gennych mewn golwg wrth drefnu'r hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith?

1. As an organisation, what were your aims in arranging the language awareness training?

2. A oedd yr hyfforddiant wedi llwyddo i gyfrannu tuag at gyrraedd yr amcanion hynny? Os felly, sut? - ac os na, nodwch pam.

2. Did the training succeed in contributing towards realising those aims? If so, how? – and if not, please indicate why.

3. Yn ôl unrhyw adborth gawsoch gan staff, beth oedd elfen(nau) cryfaf yr hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith, a pham?

3. According to the feedback received, what was the strongest aspect(s) of the language awareness training, and why?

4. A ydych yn meddwl y bydd yr hyfforddiant yn dylanwadu ar y modd mae staff / cydweithwyr yn delio â'r iaith Gymraeg? Rhowch esboniad os gwelwch yn dda.

4. Do you think that the training will influence the way staff/colleagues deal with the Welsh language? Please explain.

5. A ydych yn meddwl y bydd yr hyfforddiant yn dylanwadu ar y ffordd mae staff yn meddwl am yr iaith Gymraeg yn gyffredinol? Rhowch esboniad os gwelwch yn dda.
5. Do you think that the training will influence the way staff think about the Welsh language in general? Please explain.

6. A ydych yn teimlo bod yr hyfforddiant hwn wedi amlygu'r angen am ragor o hyfforddiant (e.e mewn sgiliau iaith, materion cydraddoldeb ac amrywioldeb, neu fathau eraill o hyfforddiant) neu drefniadau pellach i ddatblygu neu gefnogi staff? Esboniwch os gwelwch yn dda.
6. Do you think that the training has highlighted the need for any further training (e.g. language skills training, equalities and diversities training or other kinds of training), or for other arrangements to develop and support staff? Please explain.

7. A fyddai o fudd i'r staff dderbyn sesiynau dilynol o hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith, neu a ydych yn teimlo bod y sesiwn hon wedi bod yn ddigonol? Esboniwch os gwelwch yn dda.
7. Would it be beneficial for staff to receive further language awareness training sessions, or do you feel that this session was adequate? Please explain.

8. Unrhyw sylwadau eraill ar y pwnc yma?
9. Any other comments on this subject?

LAWER O DDIOLCH AM EICH CYDWEITHREDIAD
MANY THANKS FOR YOUR CO-OPERATION

Dychweler i / Please return to: Steve Eaves, d/o 95 Llys Bowen, Ffordd Wiliam Morgan, Parc Busnes Llanelwy, LLANELWY, LL17 0JE
steveeavesrhiwlas@gmail.com

